The Planning Inspectorate
Yr Arolygiaeth Gynllunio

| **Adroddiad** | **Report** |
| --- | --- |
| Ymchwiliad a gynhaliwyd o 01/12/2020 | Inquiry Held from 01/12/2020 |
| **gan Clive Sproule BSc MSc MSc MRTPI MIEnvSci CEnv** | **by Clive Sproule BSc MSc MSc MRTPI MIEnvSci CEnv** |
| **Arolygydd a benodir gan Weinidogion Cymru** | **an Inspector appointed by the Welsh Ministers** |
| **Dyddiad:** | **Date:** |

**DEDDF TRAFNIDIAETH A GWEITHFEYDD 1992**

**DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF 1991**

**GORCHYMYN PARTH ARDDANGOS MORLAIS**

Cyf ffeil/File ref: /3234121

## CYNNWYS

Rhif y Dudalen


| | |
|---|---|
| Byrfoddau a ddefnyddir yn yr adroddiad hwn | 4 |
| Rhestr termau technegol a ddefnyddir yn yr adroddiad hwn | 8 |
| Manylion yr achos | 9 |
| Cyflwyniad a Materion Gweithdrefnol | 9 |
| Y Cynnig, y Safle a'r Amgylchoedd | 11 |
| Amlinelliad o Gynllun y Gorchymyn | 13 |
| Yr Achos o Blaid Menter Môn Limited | 14 |
| Achosion IoACC, CNC (Cynghori) a'r Prif Wrthwynebwyr | 179 |
| Sylwadau Ysgrifenedig | 240 |
| Gwrthwynebiadau a Dynnwyd yn Ôl | 244 |
| Siarad Cyhoeddus | 246 |
| Casgliadau'r Arolygydd ar: | |
| Y Prif Ystyriaethau | 247 |
| Deddfwriaeth a Pholisi | 248 |
| Rheoleiddio a Lliniaru | 254 |
| Effeithiau Posibl y Gwaith ar: | |
| Gymeriad a Golwg | 256 |
| Yr Amgylchedd Hanesyddol | 265 |
| Materion Economaidd-gymdeithasol | 266 |
| Materion Morol / Mordwyo | 269 |
| Bioamrywiaeth | 273 |
| Materion Eraill | 285 |
| Y Gorchymyn | 287 |

Rhwymedigaethau Cynllunio 287

Amodau Cynllunio 288

Y Cydbwysedd Cynllunio 290

Caniatâd cynllunio tybiedig 292

Caffael Gorfodol 294

Argymhellion yr Arolygydd 303

Atodiad 1: Amodau Cynllunio 305

Atodiad 2: Rhestrau o Ddogfennau 314

**Rhestr byrfoddau a ddefnyddir yn yr adroddiad hwn**

Yn yr adroddiad hwn, ac fel y nodir isod, mae'r testun "Cyf:" yn cael ei ddilyn gan gyfeirnod dogfen yn llyfrgell yr ymchwiliad ac yn dynodi hynny.

| | |
|---|---|
| a. / a.(au) | Adran / adrannau |
| ACA | Ardal Cadwraeth Arbennig |
| ACLl | Awdurdod Cynllunio Lleol |
| ADD | Dyfais atal acwstig |
| Adolygiad risg gwrthdrawiad CNC | *Adolygiad o risg bosibl gwrthdrawiad rhwng dyfeisiau ffrwd lanw a mamaliaid môr* ABPmer (2020) (Cyf: MDZ/F15.2) |
| yr Adroddiad NE | Atodiad 1 i broflen Mr Campbell (Cyf: MDZ/P3) '*Effeithiau ar raddfa fach: Sut mae graddfa effeithiau wedi cael ei hystyried o ran cynlluniau a phrosiectau sy'n effeithio ar safleoedd Ewropeaidd – adolygiad o benderfyniadau awdurdodol'* |
| AEOI / AEOSI | Effaith niweidiol ar gyfanrwydd / Effaith niweidiol ar gyfanrwydd safle |
| AGA | Ardal Gwarchodaeth Arbennig |
| yr AHNE | Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Ynys Môn |
| AIS | System Adnabod Awtomatig |
| ALARP | Mor isel ag sy'n rhesymol ymarferol |
| | |
| CA/CPO | Caffael Gorfodol / Gorchymyn Prynu Gorfodol |
| Canllawiau SNH | *Asesu perygl gwrthdrawiad rhwng tyrbinau tanddwr a bywyd gwyllt morol* - Cyf: MDZ/F19 |
| CCC | Y Pwyllgor ar Newid Hinsawdd |
| CDLl | Cynllun Datblygu Lleol |
| CDLlC | Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd (Cyf: MDZ/D52) |
| Cdr | Comander |
| CJEU | Llys Cyfiawnder yr Undeb Ewropeaidd |
| CNC | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| CoCP | Cod Ymarfer Adeiladu |
| CPO / CA | Gorchymyn Prynu Gorfodol / Caffael Gorfodol |
| CRM | Modelu Risg Gwrthdrawiad |
| CTMP | Cynllun Rheoli Traffig Adeiladu |
| Cyf. | Cyfeirnod (rhif) |
| Cyf: | Cyfeirnod dogfen yn llyfrgell yr ymchwiliad |
| Cyfarwyddeb Cynefinoedd | Cyfarwyddeb y Comisiwn Ewropeaidd 92/43/EEC (fel y'i diwygiwyd) (Cyf: MDZ/B5) |
| y Cyngor | Cyngor Sir Ynys Môn / Isle of Anglesey County Council (y cyfeirir ato hefyd fel "IoACC") |
| | |
| DDP | Protocol Defnyddio Dyfeisiau |
| Deddf 1990 | Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 |
| Deddf 2015 | Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 |
| Deddf 2016 | Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 |

| | |
|---|---|
| Deddf Ymadael 2018 | Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 |
| DEMMP | Cynllun Lliniaru a Monitro Amgylcheddol Manwl |
| | |
| ECC | Coridor Ceblau Allforio |
| EIA | Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol |
| EMEC | Y Ganolfan Ynni Môr Ewropeaidd |
| EMF | Grym electromotif |
| EMMP | Cynllun Lliniaru a Monitro Amgylcheddol |
| EMMP amlinellol | Gweler "oEMMP / OEMMP" |
| EMMP Manwl | Gweler "DEMMP" |
| EMR | Pelydriad electromagnetig |
| ERM | Modelu Cyfradd Cyfarfod |
| Erth. | Erthygl |
| ES | Datganiad Amgylcheddol |
| ETPM | Model Amser Amlygiad Poblogaeth |
| | |
| FEI | Gwybodaeth amgylcheddol ychwanegol (ar gyfer yr ES) |
| FSA | Asesiad Diogelwch Ffurfiol |
| Ffig | Ffigur |
| | |
| y Gorchymyn | Gorchymyn Parth Arddangos Morlais |
| | |
| HDD | Drilio cyfeiriadol llorweddol |
| HLMO | Amcan Morol Lefel Uchel |
| HRA | Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd |
| | |
| IDNO | Gweithredwr rhwydwaith annibynnol |
| IMO | Sefydliad Morwrol Rhyngwladol |
| IoACC | Cyngor Sir Ynys Môn / Isle of Anglesey County Council (y cyfeirir ato hefyd fel "y Cyngor") |
| IROPI | Rhesymau hanfodol er budd cyhoeddus tra phwysig |
| | |
| kV | Cilofolt = 1,000 o foltiau |
| | |
| m | metr |
| MCA | Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau |
| MCAA | Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009 |
| MDZ | Parth Arddangos Morlais |
| MGN 543 | Nodyn Canllaw Morol (MGN 543) – *Diogelwch Mordwyo: Gosodiadau Ynni Adnewyddadwy Alltraeth (OREIs) – Canllawiau ar Arferion Mordwyo, Diogelwch ac Ymateb Brys y Deyrnas Unedig* (Cyf: MDZ/I2) |
| MHWST | Penllanw Cymedrig y Gorllanw |
| ML | Trwydded Forol |
| MPS | Datganiad Polisi Morol y Deyrnas Unedig - 2011 |
| MW | Megawat = 1,000,000 o watiau o bŵer trydanol |
| | |

| | |
|---|---|
| NDF | Fframwaith Datblygu Cenedlaethol: *Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040* |
| NETS | System Trawsyrru Trydan Genedlaethol |
| NM | Môr-filltir |
| Nodyn modelu adareg | Nodyn Modelu Risg Gwrthdrawiad Adareg Forol (Cyf: MDZ/A31.10) |
| NPS | Datganiad Polisi Cenedlaethol |
| NR | Network Rail |
| NRA | Asesiad Risg Mordwyo |
| NRAA | Atodiad i'r Asesiad Risg Mordwyo |
| NRI | Seilwaith Network Rail |
| NTS | Crynodeb Annhechnegol |
| NWWT | Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Gogledd Cymru |
| | |
| oEMMP / OEEMP | Cynllun Lliniaru a Monitro Amgylcheddol Amlinellol |
| OfDA | Ardal Ddatblygu Alltraeth |
| OMBES | Strategaeth Gwella Bioamrywiaeth Forol Amlinellol |
| OREI | Gosodiad Ynni Adnewyddadwy Alltraeth |
| Orthios | Orthios Eco Parks (Anglesey) Limited ac Orthios Power (Anglesey) Limited |
| | |
| para./ para.(au) | Paragraff / paragraffau |
| PDE | Amlen Dylunio Prosiect (gweler hefyd 'Amlen Rochdale' yn y Rhestr Termau) |
| PDF | Y fformat ffeil 'PDF' a ddefnyddir ar gyfer dogfennau yn llyfrgell yr ymchwiliad |
| PIM | Cyfarfod Cyn-Ymchwiliad |
| PoE | Proflen Dystiolaeth |
| PPMP | Cynllun Atal a Rheoli Llygredd |
| PPW | Polisi Cynllunio Cymru (10$^{fed}$ argraffiad, 2018, Cyf: MDZ/D1) (11$^{eg}$ argraffiad, 2021, ar gael ar-lein) |
| Prosiect Morlais | Y gwaith a geisir gan y cais |
| PRoW | Hawl dramwy gyhoeddus |
| PTEC | Prosiect ynni ffrwd lanw ar gyfer y moroedd o amgylch Ynys Wyth y mae'r dystiolaeth i'r ymchwiliad hwn yn cyfeirio ato. |
| PVA | Dadansoddiad Hyfywedd Poblogaeth |
| | |
| REP | Gwaith Ynni Adnewyddadwy |
| RIB | Cwch Chwyddadwy â Gwaelod Caled |
| RIIO | Enw model rheoleiddiol y deëllir ei fod yn deillio o "Refeniw", "Cymhellion", "Arloesedd" ac "Allbynnau" |
| RPoE | Gwrthbroflen Dystiolaeth |
| RSPB | Y Gymdeithas Frenhinol er Diogelu Adar |
| RT | Bord gron |
| RX | Ailarchwiliad |
| RYA | Y Gymdeithas Hwylio Frenhinol |
| | |

| | |
|---|---|
| Rheol. / Rheol.(au) | Rheoliad / Rheoliadau |
| Rheolau Ceisiadau TWA | Offeryn Statudol 2006 Rhif 1466 – *Rheolau Trafnidiaeth a Gweithfeydd (Gweithdrefn Ceisiadau a Gwrthwynebiadau (Cymru a Lloegr) 200*6 (Cyf: Dogfen Ymchwiliad – 113) |
| Rheolau Ymchwiliad TWA | Offeryn Statudol 2004 Rhif 2018 - *Rheolau Trafnidiaeth a Gweithfeydd (Gweithdrefn Ymchwiliadau) 2004* (Cyf: MDZ/B4) |
| Rheoliadau CIL | Rheoliadau Ardoll Seilwaith Cymunedol 2010 – Offeryn Statudol 2010 Rhif 948 |
| Rheoliadau Cynefinoedd | Offeryn Statudol 2017 Rhif 1012 – *Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau* (Cyf: MDZ/B6) (fel y'u diwygiwyd gan Cyf: MDZ/B10) |
| | |
| SCC | Clwb Canŵio Eryri |
| S.I. | Offeryn Statudol |
| SLVIA | Asesiad o'r Effaith Weledol ar y Dirwedd a'r Morlun |
| SNH | Treftadaeth Naturiol yr Alban |
| SoCG | Datganiad Tir Cyffredin |
| SoDdGA | Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig |
| SPEN | Scottish Power Energy Networks |
| | |
| TAN 5 | Nodyn Cyngor Technegol 5, 'Cadwraeth Natur a Chynllunio' |
| TCPA | Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 |
| TEC | Trawsnewidydd Ynni'r Llanw |
| y Triongl | Yr estyniad awgrymedig o'r Ardal Gyfyngedig Ogleddol, i'r triongl a amlinellir yn Ffigur 5 PoE Mr Sumner (POE021, tud.71) |
| tud. / tud.(au) | Tudalen / tudalennau |
| TWA | Deddf Trafnidiaeth a Gweithfeydd 1992 |
| TWAO | Gorchymyn y Ddeddf Trafnidiaeth a Gweithfeydd |
| TWG | Gweithgor Technegol Mamaliaid Môr |
| | |
| UKC | Lle o dan y cilbren |
| | |
| VER | Derbynnydd Ecolegol Gwerthfawr |
| | |
| WFD | Cyfarwyddeb Fframwaith Dŵr 2000/60/EC |
| WGC | Cylchlythyr Llywodraeth Cymru |
| WLMOMS | Strategaethau Lliniaru, Optimeiddio a Monitro'r Gymraeg |
| WNMP | Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru (2019) |
| | |
| XX / XXC | Croesholi |
| | |
| yr Ymgeisydd | Menter Môn Limited |
| | |

**Rhestr Termau**

| | |
|---|---|
| Adbweru | Amnewid un ddyfais ynni'r llanw ag un arall |
| | |
| Adeilad switshis | Y cynigir ei leoli ym Mharc Cybi |
| | |
| Amlen Dylunio Prosiect | Y paramedrau sy'n disgrifio hyd a lled mwyaf y prosiect o ran deunyddiau, graddfa, amser a lleoliad. Yr ymagwedd 'amlen Rochdale' fel y'i cymhwysir yn yr achos hwn. |
| | |
| Colofn ddŵr | Yn yr adroddiad hwn, y 'golofn' ddŵr rhwng wyneb y môr a gwely'r môr |
| | |
| Coridor Ceblau Allforio | Y coridor lle y byddai ceblau allforio ac amddiffyniadau ceblau cysylltiedig yn cael eu gosod i gludo pŵer a gynhyrchir o'r MDZ i'r lanfa. |
| | |
| Is-orsaf cysylltu â'r grid | Yn yr adroddiad hwn, ardal Parc Eco Orthios sy'n cynnwys y ddwy derfynfa ceblau mewnforio/allforio 132kV, ac mewn rhai dogfennau, y cyfeirir ati hefyd fel "is-orsaf Penrhos". |
| | |
| Is-orsaf y lanfa | Yr is-orsaf arfaethedig ar fferm Tŷ Mawr yn ardal Ynys Gybi a adwaenir fel Penrhos Feilw |
| | |
| Is-orsaf Penrhos | Yr is-orsaf cysylltu â'r grid (gweler uchod) |
| | |
| Protocol defnyddio dyfeisiau | Datganiad sy'n mynd i'r afael â defnyddio dyfeisiau llanw a hybiau gweithredol yn yr MDZ. Mae'r diffiniad llawn yn Erthygl 2 y Gorchymyn, ac mae erthygl 3 a Rhan 4 y Gorchymyn yn berthnasol hefyd. |
| | |
| y Triongl | Estyniad o'r "*Ardal Gyfyngedig – Gogleddol*" a awgrymir gan CNC yn Ffig 5 ei broflen – gweler Cyf: POE021, tud.71. |
| | |

**GORCHYMYN PARTH ARDDANGOS MORLAIS**

**a**

**CHAIS AM GANIATÂD CYNLLUNIO TYBIEDIG**

- Byddai’r Gorchymyn yn cael ei wneud o dan adrannau 3 a 5 Deddf Trafnidiaeth a Gweithfeydd 1992 (“y TWA”).
- Byddai’r caniatâd cynllunio tybiedig yn cael ei roi trwy Gyfarwyddyd o dan adran 90(2A) Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (“Deddf 1990”).
- Gwnaed y cais ar gyfer y Gorchymyn a’r caniatâd cynllunio tybiedig ar 16 Medi 2019, ond fe’i diwygiwyd wedi hynny cyn diwedd yr Ymchwiliad.
- Byddai’r Gorchymyn a’r caniatâd cynllunio tybiedig yn awdurdodi Menter Môn Limited (“yr Ymgeisydd”) i gaffael yn orfodol tir a hawliau i dir a defnyddio tir dros dro mewn cysylltiad â Pharth Arddangos Morlais.
- Mae Atodlen Proses CPO yr Ymgeisydd yn cofnodi bod 13 o wrthwynebiadau i’r Gorchymyn gan dirfeddianwyr ac ymgymerwyr statudol yn parhau ar ddiwedd yr ymchwiliad, a 12 “gwrthwynebwr Atodiad 1” arall. Nid oedd yr holl bartïon yn yr atodlen wedi cyflwyno gwrthwynebiadau i’r ymchwiliad, ac nid oedd yr holl wrthwynebiadau a dderbyniwyd yn ymwneud â phrynu tir neu hawliau dros dir yn orfodol.

**Crynodeb o’r Argymhelliad:** Bod y Gorchymyn yn cael ei wneud a bod caniatâd cynllunio tybiedig yn cael ei roi yn ddarostyngedig i amodau.

## Cyflwyniad a Materion Gweithdrefnol

1. Cynhaliwyd Cyfarfod Cyn-Ymchwiliad (PIM) yng Ngwesty Bae Trearddur ar 22 Tachwedd 2019.

2. Arweiniodd asesiad cychwynnol o Ddatganiad Amgylcheddol (“ES”) y cais a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2019 (Cyf: MDZ/E10 MMC424), at ddarparu gwybodaeth amgylcheddol ychwanegol (“FEI”) ym mis Mawrth 2020. Nododd fy asesiad o ES y cais gyda’r FEI, a gyhoeddwyd ym mis Awst 2020 (Cyf: MDZ/E11 MMC433): safbwynt yr Ymgeisydd bod y meysydd anghytundeb ynglŷn â’r ES yn ymwneud â materion barn broffesiynol; y materion sydd i’w trafod o hyd mewn perthynas â’r FEI; a, daeth i’r casgliad er bod yr FEI yn darparu gwybodaeth amgylcheddol ddigonol, bod hynny’n amodol ar ganlyniad yr ymchwiliad hwn.

3. Roedd dogfennau eraill a gyflwynwyd gyda datganiad o achos yr Ymgeisydd yn ategu’r FEI. Roedd y rhain yn cynnwys gwybodaeth a gyflwynwyd i CNC yn rhan o’r broses Trwyddedu Morol. Fodd bynnag, roedd rhywfaint o’r wybodaeth atodol yn newydd i’r ymchwiliad hwn a’r broses Trwyddedu Morol. Roedd amserlen yr ymchwiliad yn galluogi’r holl bartïon i ystyried y wybodaeth ychwanegol a gyflwynwyd ac, os oedd angen, mynd i’r afael â hi o fewn sesiynau’r ymchwiliad.

4. O ganlyniad i gyfyngiadau yn gysylltiedig â’r pandemig COVID-19, roedd yr ail PIM a’r ymchwiliad yn ddigwyddiadau rhithwir ar-lein. Roedd yr ail PIM yn ymdrin â’r trefniadau gweinyddol ar gyfer yr ymchwiliad. Rhoddodd hefyd gyfle i’r partïon ddefnyddio’r platfform digidol a phrofi eu cysylltedd cyn i’r ymchwiliad agor.

5. Eisteddodd yr ymchwiliad am 17 diwrnod rhwng 1 Rhagfyr 2020 a 12 Chwefror 2021. Defnyddiwyd gwahanol fformatau tribiwnlys yn ystod yr ymchwiliad. Roedd y rhain yn cynnwys sesiynau ymchwiliad ffurfiol, sesiynau bord gron ymchwiliad a sesiwn siarad cyhoeddus gyda’r nos. Derbyniwyd cyflwyniadau i gloi, a chlywyd y rhai hynny gan IoACC, CNC, Orthois a’r Ymgeisydd ar 11 a 12 Chwefror 2021.

6. Cyhoeddwyd *Cymru'r Dyfodol – Y Cynllun Cenedlaethol 2040* ac $11^{eg}$ argraffiad Polisi Cynllunio Cymru ar 24 Chwefror 2021. Rhoddwyd cyfle i'r partïon i'r ymchwiliad wneud sylwadau ar sut oedd newidiadau i'r fersiynau o'r ddwy ddogfen hyn a oedd ar gael pan agorodd yr ymchwiliad wedi effeithio ar eu hachosion.

7. Cynhaliwyd ymweliadau safle digwmni: ar 09/10/2019, cyn y PIM cyntaf; ar 22/10/2020, cyn y PIM rhithwir (vPIM) ac agoriad dilynol yr ymchwiliad; ac, ar 02/04/2021, a oedd yn cynnwys golygfeydd ar ôl machlud haul gydag awyr dywyll.

8. Caewyd yr ymchwiliad 'yn ysgrifenedig' (h.y. hysbyswyd y partïon bod yr ymchwiliad wedi cau) ar 24 Mawrth 2021.

## Y Cynnig, y Safle a’r Amgylchoedd

9. Byddai’r gwaith arfaethedig yn darparu parth arddangos, sef Parth Arddangos Morlais (“MDZ”), i gefnogi’r broses o ddatblygu a threialu dyfeisiau i gasglu ynni’r llanw, gyda chapasiti gosodedig mwyaf o 240MW. Mae’r cynnig yn cynnwys gwaith ar gyfer adeiladu, comisiynu, adbweru (h.y. amnewid dyfais/dyfeisiau ynni’r llanw â rhai eraill) a datgomisiynu; ynghyd â seilwaith i ddod â’r trydan i’r tir o’r dyfeisiau cynhyrchu, a chysylltu’r parth arddangos â’r grid cenedlaethol a’r rhwydwaith dosbarthu lleol. Byddai hyd at naw cebl allforio o fewn coridor ceblau allforio (“ECC”) yn trosglwyddo’r pŵer a gynhyrchir o’r MDZ i’r lan. Mae’r paramedrau yn yr Amlen Dylunio Prosiect (“PDE”) yn amlinellu hyd a lled mwyaf y gwaith o ran graddfa, deunyddiau, amseru a lleoliad. Amlinellir paramedrau’r prosiect yn Nhabl 4-21 i Dabl 4-30 ym Mhennod 4 yr ES wedi’i ddiweddaru (o bara. 279 Cyf: MDZ/A25.4).

10. Disgrifiwyd y gwaith fel “…*prosiect 30+ mlynedd*…” (para. 28 datganiad agoriadol yr Ymgeisydd, Cyf: Dogfen Ymchwiliad – 006). Yn hynny o beth, mae’r ES wedi’i seilio ar oes prosiect o 37 mlynedd (para. 26 Pennod 4 yr ES, Cyf: MDZ/A25.4), a’r raddfa amser honno yw un o “Baramedrau Cyffredinol y Prosiect” a restrir yn Nhabl 4-21 Pennod 4 yr ES (Cyf: MDZ/A25.4). Mae “*paramedrau’r prosiect*” wedi’u cynnwys yn y Gorchymyn trwy eu diffiniad yn Erthygl 2 y Gorchymyn ac i reoli graddau’r gwaith trwy Erthygl 3(4). Mae’r ES yn datgan y byddai’r gwaith yn cael ei ddatgomisiynu a’i symud ymaith ar ôl y cyfnod hwn (gweler para. 332 Pennod 24 Cyfrol I Cyf: MDZ/A25.24).

11. Mae’r gwaith hwn yn gallu cael ei rannu’n ardaloedd datblygu alltraeth ac ar y tir, a dyna a wnaed yn aml yn y dogfennau sydd gerbron yr ymchwiliad. Rhoddir manylion mewn dogfennau sy’n cynnwys: Crynodeb Annhechnegol yr ES (Cyf: MDZ/A24); yr Atodiad iddo a Phennod 27 (Cyf: MDZ/A28.46); tystiolaeth Dr Orme (Cyf: MDZ/P10); y cynlluniau gwaith a thir (Cyf.(au): MDZ/A17.1 i MDZ/A17.9 a dogfennau ymchwiliad dilynol sy’n cynnig diwygiadau iddynt); a, chyflwyniadau i gloi’r Ymgeisydd (Cyf: Dogfen Ymchwiliad - 154). Byddai gwahanol reolaethau’n berthnasol i’r ddwy ardal. Byddai rheolaethau ar gyfer y gwaith alltraeth yn cynnwys y rhai hynny a ddarperir trwy Drwydded Forol, a byddai’r rheolaethau ar gyfer y gwaith ar y tir yn cynnwys rhai’r caniatâd cynllunio tybiedig a geisir hefyd trwy’r cais TWA hwn.

12. Byddai’r Gorchymyn yn galluogi caffael tir penodol a hawliau dros dir yn orfodol. Rhoddir trosolwg o’r pwerau hyn yn y Memorandwm Esboniadol a dogfennau cysylltiedig (Cyf.(au): Dogfen Ymchwiliad – 104, Dogfen Ymchwiliad – 065, MDZ/A17.1 i MDZ/A17.9, Dogfen Ymchwiliad – 066).

13. Byddai’r gwaith ar y tir yn cynnwys: glanfa ceblau pŵer o’r parth arddangos; is-orsaf ym Mhenrhos Feilw ger Ynys Lawd; ceblau tanddaear 132kV o’r is-orsaf honno i adeilad switshis ym Mharc Cybi, a fyddai’n galluogi cysylltiad 33kV â’r rhwydwaith trydan lleol; ceblau tanddaear o adeilad switshis Parc Cybi i’r is-orsaf cysylltu â’r grid 132kV yn hen safle Anglesey Aluminium, sef safle Parc Eco Orthios bellach; cyfleuster storio batris yn gysylltiedig â’r is-orsaf cysylltu â’r grid; a, byddai’r is-orsaf cysylltu â’r grid ac unrhyw storfa batris gysylltiedig hefyd yn bwydo i’r rhwydwaith dosbarthu lleol trwy gylched ddychwelyd 33kV i’r adeilad switshis ym Mharc Cybi. Byddai dwythellau ceblau 132kV sbâr yn cael eu gosod yn ystod gwaith palu ffosydd i ddarparu ar gyfer capasiti allforio uwch yn y dyfodol.[1]

[1] Adran 4.10 Proflen Dystiolaeth Mr Billcliff (Cyf: MDZ/P8), yn ogystal â’r wybodaeth yn adrannau 2.2.4 a 2.2.5 Crynodeb Annhechnegol yr ES (Cyf: MDZ/A24 & MDZ/A23)

14. Byddai datblygwr dyfais ynni’r llanw sy’n dymuno gosod ei gyfarpar yn yr MDZ yn cael lleoliadau neu angorfeydd wedi’u neilltuo iddo yn yr MDZ i leoli un ddyfais neu aráe o ddyfeisiau. Ni wyddys union ddyluniadau’r dyfeisiau hyn eto, a gallai’r unedau arfaethedig fod wedi’u gosod ar wely’r môr, o dan y dŵr, yn hynawf ac wedi’u lleoli yn y golofn dŵr canol, neu’n arnofio. Byddai’r dyfeisiau’n cael eu dylunio i weithredu yn nyfnderoedd y dŵr sy’n bresennol, sef hyd at 35m o ddyfnder yn yr MDZ. Byddai protocol defnyddio dyfeisiau, a weinyddir trwy Drwydded Forol, yn cadarnhau dyluniadau a lleoliadau’r generaduron llanw a osodir yn yr MDZ.

15. Mae’r ‘safle’ yn cynnwys: 35$km^2$ o’r môr oddi ar arfordir gorllewinol Ynys Gybi a gwely’r môr rhwng Penrhos Feilw a goleudy Ynys Lawd; llwybr y ceblau o’r lanfa, yn y bae y cyfeiriwyd ato fel Abraham’s Bosom yn ystod yr ymchwiliad, i is-orsaf Ynys Lawd ar dir amaeth uwchben y lanfa a thua’r tir ohoni; coridor y ceblau ar hyd priffyrdd, ac ar dir arall, rhwng is-orsaf Ynys Lawd a’r tir y byddai’r adeilad switshis yn cael ei adeiladu arno ym Mharc Cybi; llwybr y ceblau rhwng Parc Cybi a’r is-orsaf cysylltu â’r grid ym Mhenrhos ar safle Orthios, sydd i’r de-ddwyrain o Gaergybi ac ar ochr arall Ynys Gybi o’r MDZ; a, safle’r is-orsaf cysylltu â’r grid ym Mhenrhos ar safle Orthios.

16. Gwyddys bod ynni’r llanw yn uchel yn y rhan hon o’r arfordir. Mae hyn yn denu caiacwyr môr a morwyr eraill sy’n dymuno profi a defnyddio amodau o’r fath. Dyma’r adnodd ynni’r llanw y byddai’r MDZ yn ceisio ei ddal a’i ddefnyddio hefyd.

17. Mae amgylchoedd uniongyrchol ac ehangach y safle’n cynnwys: y môr i’r gorllewin o Ynys Gybi; yr ardal o amgylch goleudy Ynys Lawd, gan gynnwys Mynydd Caergybi; elfennau eraill o’r amgylchedd hanesyddol; tir o fewn Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol; tir sydd o fewn dynodiadau ecolegol; ynghyd â’r defnyddiau tir amaeth, twristiaeth, hamdden, seilwaith, preswyl (anghysbell yn aml), busnes, diwydiannol ac eraill sy’n bresennol i’r gorllewin, i’r de, ac i’r de-ddwyrain o Gaergybi. Er bod yr holl ddefnyddiau tir hyn yn bresennol, mae ardaloedd helaeth o dir amaeth yn bresennol o amgylch elfennau tir y cynnig i’r gorllewin o Gaergybi, a rhannau o’r safle i’r de. Mae defnyddiau tir busnes, manwerthu, diwydiannol a seilwaith, ynghyd â mannau agored, tir amaeth a thir y bwriadwyd ei ddatblygu, yn bresennol i’r de a’r de-ddwyrain o Gaergybi.

## Amlinelliad o Gynllun y Gorchymyn

18. Mae Datganiad o Nodau'r Ymgeisydd (Cyf: MDZ/A5) yn rhoi amlinelliad ysgrifenedig o'r cynllun, ei gefndir a'r hyn y mae'n ceisio ei gyflawni. Mae hyn yn cynnwys manylion y cwmni ymgeisiol, ei gynlluniau presennol, a'i rôl o ran y cynnig presennol.

19. Amlinellir manteision bwriadedig y cynllun yn y Datganiad o Nodau, sy'n cynnwys:

    a) hyrwyddo a chefnogi'r defnydd o ddewisiadau amgen yn lle tanwyddau ffosil;

    b) lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr;

    c) bod â chapasiti cynhyrchu gosodedig o hyd at 240MW;

    ch) helpu i ddatblygu diwydiant ynni ffrwd lanw yn y Deyrnas Unedig ac yn rhyngwladol, ac Ynys Môn fel canolfan ragoriaeth ar gyfer ynni'r llanw;

    d) creu cyfleoedd cyflogaeth ar gyfer y gymuned leol ac yn y gadwyn gyflenwi leol; a,

    dd) denu buddsoddiad sylweddol i Ynys Môn a'r refeniw canlyniadol a fyddai'n arwain at fuddion economaidd-gymdeithasol.

    Amlinellir anfanteision posibl y cynllun yn achosion y partïon isod.

20. Mae Memorandwm Esboniadol y cais (Cyf.(au): Dogfen Ymchwiliad – 104 a Dogfen Ymchwiliad – 105) hefyd yn rhoi'r cefndir i'r cynllun. Yn ogystal â hyn, mae'n mynd i'r afael â diben ac effaith y Gorchymyn a'r Atodlenni ynddo.

## Yr Achos o Blaid Menter Môn Limited

### Cyflwyniad

21. Mae'r Ymgeisydd ("Menter Môn") yn gwneud cais am Orchymyn (y "Gorchymyn") o dan Ddeddf Trafnidiaeth a Gweithfeydd 1992 ("TWA"). Bydd y prosiect yn darparu ardal alltraeth ar gyfer gosod nifer o araeau o ddyfeisiau ynni'r llanw, a'u harddangos yn fasnachol, hyd at gapasiti gosodedig mwyaf o 240 Megawat ("MW"). Bydd y prosiect hefyd yn darparu seilwaith cymunedol trwy ddarparu seilwaith trydanol, gan gynnwys is-orsafoedd a llwybr ceblau trydanol ar y tir i gysylltu â'r grid ("prosiect Morlais").

22. Byddai'r Gorchymyn[2] a geisir hefyd yn awdurdodi caffael a defnyddio tir yn orfodol at ddibenion y gwaith ar y tir, ac yn rhoi rhai pwerau ategol.

23. Trwy'r cais hwn, mae Menter Môn hefyd yn ceisio caniatâd cynllunio tybiedig o dan a. 90(2A) Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 ("TCPA") ar gyfer yr elfen o'r gwaith ar y tir.

24. Er y bydd angen i'r prosiect hwn gael Trwydded Forol ("ML") hefyd a roddir gan Cyfoeth Naturiol Cymru ("CNC") i symud ymlaen, nid yw hynny'n destun yr ymchwiliad hwn.

25. Ystyrir y cysylltiad rhwng y Gorchymyn, y caniatâd cynllunio tybiedig a'r ML isod.

26. Mae'n werth dechrau trwy amlinellu nodau prosiect Morlais, sef[3]:

    (i) creu swyddi lleol o ansawdd uchel.

    (ii) lliniaru'r swyddi a gollwyd yn sgil cau gorsaf ynni niwclear Wylfa a phenderfyniad Hitachi i dynnu'n ôl o orsaf ynni niwclear arfaethedig 2700MW Wylfa Newydd.

    (iii) cynyddu sgiliau, hyfforddiant, a chyfleoedd am swyddi lleol i'r eithaf yn ystod y camau datblygu, adeiladu, a gweithredu.

    (iv) manteisio ar y cyfle i Ynys Môn a gogledd Cymru ddod yn arwyddocaol yn fyd-eang o ran datblygu a masnacheiddio technoleg cynhyrchu ynni ffrwd lanw.

    (v) cynyddu'r buddion cymunedol o'r prosiect i'r eithaf.

    (vi) darparu ffynhonnell trydan carbon isel a chyfrannu at gyflawni targed Carbon Sero-Net Cymru erbyn 2050.

    (vii) darparu perchnogaeth leol, yn unol â gofynion Llywodraeth Cymru.

[2] Cyf: Dogfen Ymchwiliad – 102
[3] Gweler proflen Mr Billcliff ym mhara. 2.12 (Cyf: MDZ/P8)

## **Trosolwg o'r prosiect**

27. Rhoddwyd trosolwg o'r prosiect, y wyddoniaeth, a'r cyfyngiadau gan Dr Orme ar y diwrnod cyntaf. Ni heriwyd ei dystiolaeth o gwbl[4] – gofynnodd yr Arolygydd a'r RSPB gwestiynau egluro, ond nid oedd unrhyw un yn gallu nac wedi dadlau ynghylch unrhyw un o'r pwyntiau a gododd.

28. Yr hyn y mae'r Gorchymyn hwn yn ei geisio, i bob pwrpas, yw'r pŵer i adeiladu parth arddangos alltraeth 35km$^2$ ar gyfer technoleg ffrwd lanw (Parth Arddangos Morlais neu'r "MDZ"), a'r seilwaith ategol alltraeth ac ar y tir i gludo'r trydan a gynhyrchir i'w allforio i'r grid cenedlaethol. Dychwelwn i fanylion y prosiect hwn isod, ond cyn gwneud hynny mae'n werth cofio'r pwyntiau canlynol ynglŷn â Menter Môn, technoleg ffrwd lanw a chyflwr y diwydiant.

*Menter Môn*

29. Archwiliwyd hyn yn nhystiolaeth Dr Orme[5] a Mr Billcliff.[6] I grynhoi, cwmni nid-er-elw trydydd sector yw Menter Môn[7] sy'n darparu datrysiadau i'r heriau sy'n wynebu Cymru wledig, ac sy'n ceisio ychwanegu gwerth at adnoddau naturiol Cymru er budd y gymuned. Ei brif amcan yw darparu swyddi diogel tymor hir i bobl yng ngogledd-orllewin Cymru.

30. Mae Menter Môn wedi bod yn ymwneud â nifer o brosiectau ynni cymunedol, gan gynnwys prosiectau hydro Ynni Ogwen ac Ynni Padarn Peris. Mae hefyd wedi bod yn ymwneud â chadwraeth gwiwerod cochion, adfer 125 o filltiroedd o lwybr arfordirol, a chyhoeddi llyfr am adar Ynys Môn. Ers 1996, mae wedi denu £70 miliwn i Ynys Môn, a chefnogi 5,000 o fusnesau. Mae'n rhan annatod o'r gymuned, ac mae'r gwerthoedd tirwedd, ecolegol ac economaidd sydd wedi ysgogi'r gymuned i weithredu ynglŷn â'r cais hwn yn bwysig iddo ef hefyd. Os gwneir y Gorchymyn, dyma'r cwmni a fyddai'n trafod gyda datblygwyr ar ran y prosiect ar hyd ei oes. Byddai'n enghraifft wych o ynni a berchnogir gan y gymuned – yn wir, fe allai fod y prosiect ynni adnewyddadwy mwyaf yn y Deyrnas Unedig sydd mewn dwylo lleol.[8]

*Ynni ffrwd lanw*

31. Fel y mae Dr Orme wedi cadarnhau yn ei brif dystiolaeth,[9] ac yr amlinellir yn ei Broflen Dystiolaeth[10], mae technoleg ffrwd lanw yn trosi ynni o lanw a thrai yn ynni cinetig. Wrth i'r llanw godi a gostwng, mewn rhai ardaloedd lle y ceir sianeli neu (fel sy'n wir yn yr achos hwn) bentiroedd neu benrhynion sy'n cyfyngu'r ardal y gall y llanw deithio trwyddi, mae dŵr yn cael ei wthio trwy nodweddion cyfyngedig ac yn cael ei gyflymu. Mae hyn yn rhoi ffrydiau o gerrynt cyflymder uchel. Mae Trawsnewidyddion Ynni Llanw ("TECs") a osodir yn y dŵr yn cael eu troi gan y ffrwd

[4] Prif dystiolaeth Dr Orme – Diwrnod 1, sesiwn brynhawn 1 a 2 (Cyf: MDZ/P10)
[5] Diwrnod 1, sesiwn brynhawn 1
[6] Proflen Dystiolaeth Mr Billcliff, para. 2.11 a dilynol (Cyf: MDZ/P8)
[7] Rhoddir manylion ym mhara. 10.1.2 Proflen Dystiolaeth Mr Billcliff (Cyf: MDZ/P8)
[8] Proflen Dystiolaeth Mr Billcliff ym mhara.(au) 5.1.2 a 5.1.3 (Cyf: MDZ/P8)
[9] Prif dystiolaeth Dr Orme – Diwrnod 1, sesiwn brynhawn 1 a 2 (Cyf: MDZ/P10)
[10] Proflen Dystiolaeth Dr Orme, para. 7.6.1 ymlaen (Cyf: MDZ/P10)

lanw, gan drawsnewid yr ynni hwnnw'n ynni cinetig. Mae'r dechnoleg hon yn arbennig o sensitif i gyflymder y llanw – ciwb cyflymder y ffrwd lanw yw'r hyn sy'n pennu'r allbwn pŵer. Felly, er enghraifft, byddai dyblu cyflymder y ffrwd lanw'n rhoi wyth gwaith yr allbwn pŵer. I ddefnyddio enghraifft fwy cymedrol, byddai cynnydd 20% yng nghyflymder y ffrwd lanw'n arwain at gynhyrchu 73% yn fwy o bŵer.

*Cyflwr y Diwydiant*

32. Mae technoleg ffrwd lanw yn ei dyddiau cynnar o hyd. Mae angen i'r dechnoleg hon, yn yr un modd ag ynni gwynt, solar, a dyfeisiau eraill ynni'r llanw, gael ei datblygu i helpu i greu'r portffolio amrywiol o ffynonellau ynni adnewyddadwy sy'n ofynnol i fynd i'r afael â her yr argyfwng hinsawdd. Pryd bynnag y daw technoleg newydd i'r amlwg, yn aml bydd angen archwilio amrywiaeth o ddyluniadau cyn i ddiwydiant ddarganfod pa un sy'n fwyaf effeithiol, effeithlon, ac addas i'w gyflwyno wrth raddfa. Aeth technoleg ynni gwynt drwy'r broses hon yn y 1970au cynnar.[11] Nid yw technoleg ffrwd lanw wedi cael y cyfle hwnnw eto. Esboniodd Dr Orme yr amrywiaeth enghreifftiol o ddyfeisiau a dyluniadau i'r ymchwiliad, a'r amrywiaeth o ddyfeisiau sy'n codi o'r dŵr, dyfeisiau colofn dŵr canol a dyfeisiau o dan yr wyneb wedi'u gosod ar wely'r môr. Hyd yn oed ymhlith y dyfeisiau tanddwr, mae cymysgedd o rai sydd wedi'u gosod yn sownd wrth wely'r môr a rhai sy'n arnofio o dan y dŵr tra'u bod wedi'u hangori i wely'r môr.[12] Mae'r dyfeisiau hyn nid yn unig yn edrych yn wahanol, ond yn manteisio ar wahanol gyflymderau sy'n bresennol mewn gwahanol rannau o'r golofn ddŵr.[13] Fe allai gwahanol gostau a buddion fod yn gysylltiedig â phob un hefyd. Fel yr archwiliwyd yn y cyfarfod bord gron ("RT") ar Gymeriad a Golwg, mae dyfeisiau sy'n codi o'r dŵr, er enghraifft, yn haws cael atynt a'u cynnal, yn manteisio ar y wireb beirianegol "mae cadwyni'n rhad", ac mae'n eithaf posibl y byddant yn cael llai o effaith ar yr ecoleg fenthig na'r rhai sydd wedi'u gosod yn sownd wrth wely'r môr. At ei gilydd, mae rhai egwyddorion dylunio allweddol yn dod i'r amlwg, ynglŷn â materion fel uchafswm diamedrau'r tyrbinau,[14] ond nid oes neb yn gwybod eto pa un sy'n gweithio orau, neu'n fwyaf effeithlon.

33. Mae'r diwydiant, fodd bynnag, yn awyddus i ddatblygu, ac mae amryw dechnolegau wedi cyrraedd lefelau uchel o barodrwydd, gyda thyrbinau wedi'u lleoli ar safleoedd yn Aber Pentland ac Ynysoedd Shetland, a dyfeisiau prototeip, cyn-gynhyrchu a masnachol eraill wedi'u lleoli am gyfnodau estynedig yn y Ganolfan Ynni Môr Ewropeaidd ("EMEC") yn Orkney.[15] Mae llawer o'r datblygwyr dyfeisiau'n "gwmnïau bach", sy'n cael trafferth talu costau mawr datblygu[16] - yn wir, mae'r ymchwiliad hwn wedi clywed gan nifer o'r datblygwyr bach hynny (rhai cenedlaethol a rhyngwladol), gan gynnwys Orbital Marine Power,[17] Sabella,[18] Aquantis,[19]

[11] Ar hyn o bryd, mae dyfeisiau gwynt arnofiol yn mynd trwy'r un peth, ac mae safleoedd arddangos yn cael eu hannog yn natganiad polisi gwynt alltraeth Llywodraeth yr Alban.
[12] Prif dystiolaeth Dr Orme – Diwrnod 1, sesiwn brynhawn 1 a 2 (Cyf: MDZ/P10) a Cyf: MDZ/A25.4 Tabl 4-2, tud.(au)12-14 a gweler Plât 4-2, 4-3 a 4-4.
[13] Tystiolaeth Dr Orme yn y RT Cymeriad a Golwg, Diwrnod 6 sesiwn fore 1. (Cyf: MDZ/P10)
[14] Prif dystiolaeth Dr Orme – Diwrnod 1, sesiwn brynhawn 1 a 2. (Cyf: MDZ/P10)
[15] Proflen Dystiolaeth Mr Billcliff 5.1.2. (Cyf: MDZ/P8)
[16] Prif dystiolaeth Dr Orme – Diwrnod 1. (Cyf: MDZ/P10)
[17] Diwrnod 2, Siarad Cyhoeddus, Sesiwn 1 a Cyf: MDZ/M
[18] Day 2 public Speaking Session 2 and Ref: MDZ/M3
[19] Ref: MDZ/M1

Instream,[20] Verdant Power[21] a Magallanes.[22] Fel y daw'n arbennig o berthnasol i'r drafodaeth ynglŷn â chymeriad a golwg (sy'n cynnwys materion morlun, tirwedd a gweledol), wrth ddatblygu prototeip, tueddir i ganolbwyntio mwy i ddechrau ar b'un a fydd yn gweithio, a llai ar sut mae'n edrych. Pan fydd y cwestiwn sylfaenol hwnnw wedi cael ei ateb, ac mae'n rhaid i ddatblygwyr fynd i'r afael â lleoli, ystyrir cyfyngiadau ardaloedd lleoli. Felly, fel yn yr achos hwn, os yw ardaloedd lleoli wedi'u cyfyngu i ardaloedd o harddwch gweledol, bydd cyfyngiadau gweledol yn cael eu cynnwys yn y broses ddylunio fel sbardun dylunio.[23]

*Cyfyngiadau*

34. Yn amlwg, mae angen i'r diwydiant hwn ddatblygu. Fodd bynnag, oherwydd rhesymau daearyddol, dim ond mewn nifer gyfyngedig o fannau y gellir defnyddio technoleg o'r fath. Lle mae technoleg o'r fath wedi'i lleoli ar hyn o bryd, mae ar ffurf un ddyfais yn unig fel arfer. Mae dyrnaid bach o brosiectau sydd ag araeau o ddyfeisiau lluosog, ond mae nifer y dyfeisiau'n isel. Nid oes unman yn y byd yn cynnal parth arddangos ar gyfer araeau lluosog eto. Mae hynny'n creu rhwystr rhag datblygu'r dechnoleg – fel y mae Dr Orme wedi amlinellu, mae'n atal y darbodion maint y gellir eu defnyddio i leihau costau ymchwil a chynhyrchu.[24] Diben parth arddangos fel yr un hwn yw llenwi'r bwlch hwnnw, gan ddarparu system barod er mwyn i amryw ddatblygwyr masnachol arddangos eu technolegau aráe llanw dros gyfnod hir. Fodd bynnag, o ystyried natur y dechnoleg a chyflwr y diwydiant, mae unrhyw barth arddangos (ac nid yw'r MDZ yn eithriad), yn destun nifer o gyfyngiadau y mae angen mynd i'r afael â nhw os yw am gyflawni'r buddion sylweddol a all ddod yn ei sgil (gweler isod).

35. <u>Yn gyntaf</u>, ceir cyfyngiadau daearyddol. Mae'r ffiseg sy'n sail i'r prosiect hwn yn golygu, yn wahanol i ffynonellau eraill o ynni adnewyddadwy (fel gwynt neu solar), bod yr ardaloedd y gellir lleoli dyfeisiau ffrwd lanw ynddynt yn gymharol gyfyngedig. Yn ei dystiolaeth, dywedodd Dr Orme fod Ystad y Goron wedi ystyried nifer o ardaloedd o amgylch y Deyrnas Unedig, ond dim ond tair ohonynt, gan gynnwys yr MDZ, y canfuwyd eu bod yn arbennig o addas ar gyfer parthau arddangos ffrwd lanw.[25] Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi bod costau sefydlog lleoli dyfais yn debyg, i raddau helaeth, p'un a gaiff ei lleoli mewn ardal cyflymder uchel neu gyflymder isel. Mewn diwydiant sy'n gweithredu yn ôl paramedrau manwl, mae'r lleoliad yn allweddol i hyfywedd unrhyw brosiect, ac i sicrhau bod cymaint o ynni â phosibl yn cael ei gynhyrchu.[26] Ystyriwn y prosiect ei hun yn fanylach isod, ond digon yw dweud am y tro bod Menter Môn wedi archwilio pa fath o gyflymder llif yr oedd ei angen ar ddarpar ddatblygwyr dyfeisiau yn 2016 – dywedodd y datblygwyr mai'r isafswm cyflymder llif cyfartalog yr oedd ei angen oedd 2.48m/s cyflymder brig cymedrig y gorllanw. Fel yr esboniodd Dr Orme ac y dangosir yn glir yn sleidiau 11 a 12 y cyflwyniad a oedd yn cyd-fynd â'i brif dystiolaeth,[27] mae'r ardaloedd llif uchaf

[20] Cyf: MDZ/M2
[21] Cyf: MDZ/M5
[22] Cyf: MDZ/M6
[23] Tystiolaeth Dr Orme, Diwrnod 6, Sesiwn fore 1.
[24] Proflen Dystiolaeth Dr Orme, para. 7.7.1 (Cyf: MDZ/P10)
[25] Cyf: Dogfen Ymchwiliad – 001, tud. 9
[26] Prif dystiolaeth Dr Orme – Diwrnod 1, sesiwn brynhawn 1 a 2.
[27] Cyf: Dogfen Ymchwiliad – 001, tud.(au)11-12

yn agos i ardal y prosiect gerllaw'r arfordir, ac felly dyna pam mae angen lleoli yn yr ardaloedd hyn.

36. Yn ail, mae'n rhaid i'r prosiect allu lleoli dyfeisiau wrth raddfa. Mae tri rheswm am hyn:

(i) Dim ond trwy leoli dyfeisiau lluosog y gall datblygwyr elwa o ddarbodion maint. Yn y cyd-destun hwn, mae prosiectau llai yn arwain at gostau sy'n anghymesur o fwy na chostau prosiectau mwy o faint. Nid yw rhai costau sefydlog yn addasu i raddfa. Rhoddwyd enghraifft o gostau tîm gweithredu sy'n gallu gwasanaethu'r dyfeisiau. Fel yr esboniodd Dr Orme,[28] mae darbodion maint yn helpu i leihau costau ymchwil a chynhyrchu. Mae hyn yn hanfodol er mwyn dod â'r dechnoleg hon i'r farchnad. Mae hefyd yn bwysig nodi – a chododd hyn o gwestiwn gan yr Arolygydd – er y gallai darbodion o'r fath fod ar eu mwyaf ar y lefel 240MW, maen nhw'n berthnasol o hyd wrth leoli llai o ddyfeisiau, fel y gellid ei ddisgwyl yng Ngham Un. Graddfa amrywiol ydyw – mae dylunio a lleoli chwe dyfais yn rhatach (yn gymharol) na dylunio a lleoli un, ac mae dylunio a lleoli 200 yn rhatach fyth. Fel yr esboniodd un datblygwr i Dr Orme, mae prosiect 2MW, yn gymharol, 60% yn ddrutach na phrosiect 12MW.[29]

(ii) Dim ond trwy roi caniatâd ar gyfer prosiect y gellir addasu ei raddfa (hyd yn oed un sydd wedi'i gyfyngu o ran sut mae'n datblygu, fel yn yr achos hwn) y byddwch yn darparu llwybr i'r farchnad ar gyfer datblygwyr. Clywodd yr ymchwiliad hyn nid yn unig gan Dr Orme,[30] ond hefyd gan Andrew Scott (Prif Swyddog Gweithredol Orbital Marine Power) mewn cynrychiolaeth,[31] a chan Oliver Wragg, un o gyfarwyddwyr masnachol Orbital Marine Power a fynychodd y sesiwn siarad cyhoeddus.[32] Mae angen i'r rhai sy'n buddsoddi yn y dechnoleg hon gael sicrwydd a gallu gweld y bydd rhywle i'w lleoli. Mae pawb yn derbyn nad "caniatâd diamod" fydd hyn – mae materion fel pryderon bioamrywiaeth yn golygu y bydd rhaid i ddatblygwyr dderbyn, wrth gwrs, y bydd lefel dderbyniol lleoli'n cael ei hadolygu'n barhaus wrth i ni ddysgu mwy am y dechnoleg hon – ond mae'n rhaid i'r llwybr fodoli fel posibilrwydd o leiaf, a dileu ei risgiau cyn belled â phosibl ar gam cynnar trwy ganiatáu hyd at 240MW.

(iii) Mewn sawl ffordd, po fwyaf o ddyfeisiau a leolir, y mwyaf y buddion. Trafodir y rhain yn fanylach isod, ond gellir dysgu mwy, darparu mwy o ynni a rhoi mwy o fuddion economaidd i'r gymuned leol po fwyaf pŵer cynhyrchu sydd gan y prosiect.

37. Yn drydydd, mae'n rhaid i'r prosiect symud ymlaen ar sail Amlen Dylunio Prosiect neu "PDE" (a elwir weithiau'n "Amlen Rochdale"), er mwyn archwilio ac asesu effeithiau amgylcheddol y prosiect. Mae hyn yn angenrheidiol oherwydd cam cynnar y diwydiant, a natur yr MDZ wrth ddatblygu amryw wahanol fathau o dechnolegau. Nid oes modd dweud, ar adeg y broses ganiatáu, pa dyrbinau yn union a fydd yn

[28] Prif dystiolaeth Dr Orme - Diwrnod 1, sesiwn brynhawn 1 a 2; Proflen Dystiolaeth Dr Orme, para 7.7.1 (Cyf: MDZ/P10).
[29] Prif dystiolaeth Dr Orme – Diwrnod 1, sesiwn brynhawn 1 a 2.
[30] Prif dystiolaeth Dr Orme - Diwrnod 1, sesiwn brynhawn 1 a 2.
[31] Llythyr Cefnogaeth Orbital (Cyf: MDZ/M4)
[32] Diwrnod 2, sesiwn brynhawn siarad cyhoeddus.

cael eu defnyddio a faint ohonynt. Felly, bydd rhaid defnyddio amlen o baramedrau amgylcheddol achos gwaethaf arfaethedig, ac asesu effeithiau amgylcheddol ar sail y rheiny. Nid yw hyn yn anarferol, ac fe'i derbyniwyd fel dull dilys mewn cyfraith achosion,[33] polisi'r Deyrnas Unedig gyfan,[34] a chanllawiau'r llywodraeth. Ystyriwn y gyfraith yn fanylach isod. Mae defnyddio PDE ar gyfer prosiectau ynni'r llanw yn cael ei gefnogi'n benodol gan Cyfoeth Naturiol Cymru ("CNC") – gweler ei adroddiad *Diffinio amlenni prosiect ar gyfer prosiectau ynni'r môr: adolygiad ac astudiaeth achos cyfleuster profi ynni'r llanw a mamaliaid môr*.[35] Mae hwn yn datgan:

> "*Dull caniatáu yw dull PDE sy'n galluogi cynigiwr prosiect i gyflwyno asesiad o effeithiau mwyaf posibl amrywiaeth o baramedrau dylunio yn ei gais. Bydd angen hyn yn aml oherwydd nad yw manylion dylunio prosiect wedi'u cwblhau'n derfynol ar adeg y cais am ganiatâd. Mae hyn yn rhoi'r hyblygrwydd i gynigiwr y prosiect ddatblygu nifer o opsiynau dylunio posibl, cyhyd â bod y prosiect yn cael ei adeiladu a'i weithredu o fewn yr ystod o baramedrau a aseswyd*".

38. Cefnogir defnyddio PDE hefyd yn *Adroddiad Gweithdy Parthau Arddangos Tonnau a Llanw y Deyrnas Unedig*[36] (dogfen ar y cyd a gynhyrchwyd gan Lywodraeth Cymru, CNC ac Ystad y Goron, ymhlith eraill), a dogfen PINS *Nodyn Cyngor Naw: Amlen Rochdale*.[37]

39. <u>Yn bedwerydd</u>, oherwydd bod y prosiect hwn mor arloesol, mae rhai bylchau o ran data. Yr hyn sydd o ddiddordeb arbennig (ond nid unigryw) yn y prosiect hwn yw'r ffaith bod gwybodaeth gyfyngedig ynglŷn â sut y bydd dyfeisiau ffrwd lanw, ac yn enwedig araeau lluosog o ddyfeisiau ffrwd lanw, yn rhyngweithio â'r bywyd gwyllt lleol (yn enwedig mamaliaid môr ac adar dŵr). Mae angen mynd i'r afael â'r bylchau hyn, trwy fonitro a rheoli addasol – rhywbeth sydd hefyd yn cael ei gefnogi yn y cyhoeddiad uchod gan CNC. Fel yr amlinellwn yn fanylach isod, mae Menter Môn yn cydnabod hyn i'r fath raddau bod y prosiect cyfan wedi cael ei ddylunio gyda hyn mewn golwg. Ond, mae'n bwysig nodi ar y dechrau bod hyn *yn* gyfyngiad, a byddai'n gyfyngiad ar unrhyw brosiect sy'n ceisio datblygu araeau ffrwd lanw. Yn wir, mae'n ganlyniad sy'n anochel wrth geisio ehangu gwybodaeth ddynol.

*Y prosiect: elfennau*

40. Dyma'r cefndir a'r cyfyngiadau sy'n gysylltiedig â'r prosiect hwn a sut y'i datblygwyd. Byddwn yn sôn am nodweddion daearyddol y prosiect a sut y daethpwyd i rai pwyntiau, cyn symud ymlaen i sut y caiff ei leoli. Amlinellir paramedrau'r prosiect ym Mhennod 4 y Datganiad Amgylcheddol ("ES").[38] Gweler, yn arbennig, Tablau 4-21 i 4-30. Roedd yr Arolygydd o'r farn bod y paramedrau cyffredinol hyn yn foddhaol o ran y disgrifiad o'r datblygiad at ddibenion y Cais TWA a'r Rheoliadau EIA.[39]

---

[33] Gweler R ***v Rochdale MPB ex p. Milne*** [2001] Env. LR 22, y mae'r ymadrodd 'Amlen Rochdale' yn deillio ohono. (Cyf: Dogfen Ymchwiliad – 120)
[34] Gweler e.e. NPS EN-1 para 4.2.8 fn78 (Cyf: MDZ/D2), ac NPS EN-3 para 2.6.43 fn23 (Cyf: MDZ/D3)
[35] Cyf: MDZ/F15
[36] Cyf: MDZ/D13
[37] Cyf: MDZ/D14 para.(au) 5.6 a 5.7
[38] Cyf: MDZ/A25.4
[39] Asesiad PINS o'r Datganiad Amgylcheddol, 4 Rhagfyr 2019, para. 15 (Cyf: MDZ/E10).

41. Adlewyrchir cyfyngiadau'r prosiect hwn yn y Gorchymyn drafft. Mae Erthyglau 3(1)-3(3) yn rhoi'r pŵer i'r ymgymerwr adeiladu, cynnal, adbweru a datgomisiynu'r gwaith awdurdodedig. Fodd bynnag, wrth wneud hynny, mae'n rhaid i amryw ddogfennau (a amlinellir yn Rhan 4 Atodlen 1) gael eu cyflwyno i Weinidogion Cymru a'u cymeradwyo ganddynt:[40] Erth. 3(4). Yna, mae'n rhaid i unrhyw waith llanw gael ei adeiladu "yn unol â'r" dogfennau hynny a gyflwynwyd: Erth. 3(6). Mae'n rhaid i unrhyw weithrediadau gael eu cynnal yn unol ag unrhyw ddogfennau a gymeradwyir o dan Erth. 3(4): Erth. 5(2). Felly, mae'r dogfennau Erth. 3(4) yn allweddol. Wrth gymeradwyo cynnwys y dogfennau hynny, gwaherddir Gweinidogion Cymru yn benodol rhag awdurdodi unrhyw waith "y tu allan i baramedrau'r prosiect": Erth. 3(4). "Paramedrau'r Prosiect" yw'r hyn a amlinellir yn Nhablau 4-21 i 4-30 yr ES: Erth. 2(1).[41]

42. Disgrifir yr MDZ, fel y'i rhagwelir ar hyn o bryd, ym mhara.(au) 4.1 a 4.2 proflen Dr Orme:[42]

> "*4.1 Mae Parth Arddangos Morlais (MDZ) yn rhychwantu ardal o 35km$^2$ o wely'r môr i'r gorllewin o Ynys Gybi, Ynys Môn, Cymru. Dangosir yr ardal yn Ffigur 1.*
>
> *4.2 Mae'n gyfanswm o tua 8.3km o'r gogledd i'r de ac, ar ei bwynt mwyaf llydan mae'n 5.4km o'r dwyrain i'r gorllewin. Yn dilyn ymgynghoriad, mae ffin ddwyreiniol yr MDZ wedi cael ei dylunio i ganiatáu sianel mordwyo'r glannau sydd 1.9km o led ar gyfartaledd rhwng yr arfordir a'r dyfeisiau llanw agosaf sy'n codi o'r dŵr. Yn ei fannau culaf yn Ynys Lawd a Phenrhyn Mawr, ceir rhannau byr lle mae lled y sianel hon wedi'i gyfyngu i 1km. Mae ffin yr MDZ ei hun 500m yn agosach i'r lan, ac mae unrhyw ddyfeisiau llanw yn yr ardal hon wedi'u cyfyngu o ran maint i ganiatáu 8m o dan y cilbren (yr Ardal Gyfyngedig Las). Yn yr un modd, yn rhan fwyaf gogleddol y parth, o amgylch y gorllewin a hefyd i'r de, ceir ardal sy'n caniatáu ar gyfer 20m o dan y cilbren (yr Ardal Gyfyngedig Borffor). Yn ogystal, yn yr ardal i'r gorllewin a'r gogledd o Ynys Lawd, ni chaniateir unrhyw ddyfeisiau sy'n amlwg yn weledol (yr Ardal Gyfyngedig Aur)*." [43]

43. Bydd hyn yn gofyn am geblau rhyng-aráe a hyd at 9 o geblau allforio gyda chynffonnau ceblau, offer mordwyo a monitro amgylcheddol perthnasol ac, wrth gwrs, yr hybiau cynhyrchu ynni.[44]

44. O ran lleoliad, mae tystiolaeth Dr Orme yn ei broflen ac ar lafar[45] yn dangos mai Ystad y Goron a ddatblygodd y syniad o Barthau Arddangos, ac a leolodd Barth Arddangos Gorllewin Ynys Môn yn 2013 yn dilyn adolygiad o ardaloedd adnoddau allweddol ledled y Deyrns Unedig, ymgynghoriad â rhanddeiliaid a'i hasesiad Rheoliadau Cynefinoedd ei hun.[46] Fel yr amlinellodd Dr Orme yn ei dystiolaeth, mae 70% o'r holl barthau arddangos posibl ar gyfer dyfeisiau llanw yn y Deyrnas Unedig 500m neu lai oddi wrth yr arfordir. Mae 83% o fewn 1,000m ohono. Oddeutu 2015,

---

[40] Neu CNC – gweler Erth. 3(7).

[41] Cyf: MDZ/A16.2, a gweler y Gorchymyn drafft diwygiedig yn Cyf: Dogfen Ymchwiliad – 102.

[42] Cyf: MDZ/P10

[43] Er bod lleoliad prosiect Morlais wedi cael ei sbarduno gan natur, ac nid gan fodolaeth ffactorau cyfyngol, mae'r holl gyfyngiadau a osodir ar leoli yn yr MDZ wedi'u dylunio i ymdrin â'r ffactorau cyfyngol hyn.

[44] Prif dystiolaeth Dr Orme, Diwrnod 1, sesiwn brynhawn 1.

[45] Prif dystiolaeth Dr Orme; a Cyf: MDZ/P10 para. 4.5 ac ymlaen.

[46] Prif dystiolaeth Dr Orme.

symudwyd y parth arddangos ymhellach i'r gogledd, i leoliad presennol yr MDZ, yn dilyn modelu llif diffiniad uwch a ddangosodd fod ardal well o adnodd ffrwd lanw. Mae ei leoliad presennol yn cynnwys yr ardal orau o adnodd ffrwd lanw sydd ar gael.[47] Mae hefyd wedi'i leoli o fewn Ardal Cadwraeth Arbennig ("ACA") Gogledd Môn Forol,[48] sydd wedi'i dynodi ar gyfer llamidyddion. Mae yng nghyffiniau ACAau Pen Llŷn, Bae Ceredigion a Sir Benfro Forol, sydd wedi'u dynodi ar gyfer dolffiniaid trwyn potel a morloi llwyd. Mae hefyd wedi'i leoli oddi ar arfordir AHNE Ynys Môn.[49] Dychwelwn i arwyddocâd hyn i gyd isod.

45. Bydd naw cebl o dan y môr yn cael eu tynnu i mewn o'r MDZ i'r tir mawr mewn ardal a adwaenir fel y coridor ceblau allforio. Yna, bydd y ceblau'n glanio yn Abraham's Bosom. Unwaith eto, dylid nodi bod rhan sylweddol o forlin Ynys Môn (a'r holl ran ger yr MDZ) o fewn Ardal Gwarchodaeth Arbennig ("AGA"), ACA a Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig ("SoDdGA") Glannau Ynys Gybi.[50] Gobeithir, ac yn wir disgwylir, y bydd y ceblau'n gallu trosglwyddo o'r môr i'r tir mawr trwy ddrilio cyfeiriadol llorweddol ("HDD") – yn fyr, cloddio twnnel llinell syth o'r tir (tua 220m yn ôl o'r clogwyn)[51] allan i'r môr.[52] Yn y modd hwn, byddai'n osgoi'r clogwyn a'r cynefinoedd dan sylw yn llwyr. At hynny, cynigir amod i'r caniatâd cynllunio tybiedig bellach sy'n mynnu bod Menter Môn yn dangos nad yw HDD yn ymarferol cyn iddi ddefnyddio unrhyw ddull arall o gysylltu â'r tir.

46. Rhag ofn na fydd hynny'n bosibl, mae Menter Môn wedi datblygu cynllun wrth gefn – rhedeg y ceblau hynny mewn tiwbiau-J i fyny'r clogwyn.[53] Dylid nodi (ac fel y trafodir yn fanylach isod) bod ôl troed yr elfen hon o'r prosiect, os bydd yn ofynnol, eisoes wedi cael ei leihau'n sylweddol, ac Abraham's Bosom yw un o'r mannau culaf o ACA/SoDdGA ac AGA Glannau Ynys Gybi y gellid bod wedi'i dewis.

47. Oddi yno, bydd y ceblau'n teithio i is-orsaf lanio.[54] O'r is-orsaf lanio, bydd y ceblau'n dilyn llwybr ar hyd ffyrdd sydd eisoes yn bodoli yn bennaf (South Stack Road, Porthdafarch Road, Lon Isallt a Mill Road), gan ddargyfeirio i dir preifat nifer gymharol fach o weithiau.[55] Bydd y ceblau hynny'n mynd o dan briffordd bresennol yr A55 a'r llinell reilffordd bresennol, i'r Is-orsaf Cysylltu â'r Grid yn is-orsaf Penrhos y Grid Cenedlaethol. Bydd hyn, yn ei dro, yn cynnwys cyflenwad 33kV i seilwaith presennol y Gweithredwr Rhwydwaith Dosbarthu ym Mharc Cybi, a chysylltiad 132kV â'r Grid Cenedlaethol. Bydd angen cymryd tir sydd ym mherchnogaeth breifat ar gyfer rhan o lwybr y ceblau rhwng yr Is-orsaf Lanio a'r Is-orsaf Cysylltu â'r Grid. Y prif wrthwynebwyr ar ddechrau'r ymchwiliad oedd Land and Lakes[56] ac Orthios[57].

[47] Prif dystiolaeth Dr Orme a gweler Cyf: MDZ/P10 Ffig 2 a Cyf: MDZ/A27.2 Ffig 5.6
[48] Gweler Cyf: MDZ/P2 Ffig 1.
[49] Cyf: MDZ/P5 Delwedd 2, tud.13.
[50] Cyf: MDZ/P1 Ffig 1; Cyf: MDZ/P3 Ffig 1.
[51] Yn llain 5 yr un map – Cyf: MDZ/A17.1.
[52] Y tu hwnt i lain 1 yng Nghynllun Lleoliad Map1 y TWAO – Cyf: MDZ/A17.1.
[53] Mae delwedd wedi cael ei chynnwys yn Cyf: RPE007, Gwrthbroflen Dystiolaeth Mr Myers, tud.6.
[54] Cynlluniau yn Cyf: MDZ/P5 tud.19 a delwedd ar dud.20.
[55] Ar gyfer y mapiau llwybr gweler Cyf: MDZ/P8 Ffig 18 a Cyf.(au): MDZ/A17.1-MDZ/A17.9.
[56] Sy'n berchen ar lawer o dir ar hyd y llwybr.
[57] Sy'n berchen ar dir o amgylch is-orsaf Penrhos y Grid Cenedlaethol – gweler mwy o wybodaeth isod.

Mae Land and Lakes wedi tynnu eu gwrthwynebiad yn ôl bellach ar ôl dod i gytundeb gyda Menter Môn.[58]

*Y prosiect: lleoli*

48. Mae Menter Môn yn ceisio caniatâd i leoli hyd at 240MW. Fodd bynnag, o ystyried natur sensitif y lleoliad, y bylchau data sy'n weddill, a'r hyblygrwydd cynhenid sy'n ofynnol gan y PDE hwn i ddarparu ar gyfer nifer o wahanol fathau o ddyfeisiau, nid yw'n ceisio caniatâd i leoli 240MW o'r cychwyn cyntaf. Yn lle hynny, mae nifer o gyfyngiadau ar yr hyn y gellir ei leoli, ble a phryd. Mae lliaws o gynlluniau a dogfennau eraill y mae'n rhaid eu cyflwyno i Weinidogion Cymru neu CNC a'u cymeradwyo ganddynt cyn amryw gamau, trwy gyfrwng Erth. 3(4), 3(7) a Rhan 4, Atodlen 1 y Gorchymyn.[59] Nid ydym yn sôn am bob un ohonynt yma, ond dymunwn amlygu pedwar cyfyngiad allweddol.

49. <u>Yn gyntaf</u>, mae Menter Môn yn cynnig ymagwedd fesul cam at leoli, yn rhan o Gynllun Monitro a Lliniaru Amgylcheddol ("EMMP") trosfwaol.[60] Mae EMMP amlinellol wedi cael ei baratoi ar y cam caniatáu hwn ("EMMP Amlinellol", y cyfeirir ato weithiau fel "yr OEMMP"), a bwriedir i EMMP manwl ("EMMP Manwl", y cyfeirir ato weithiau fel "y DEMMP") ddilyn y caniatâd. Fel yr esboniodd Mr Fortune, "dogfen fyw" fydd hon dros oes y prosiect, a fydd yn cael ei haddasu, ei gwella, a'i hailgyflwyno i Weinidogion Cymru bob tro y bydd Prosiect Morlais yn cychwyn neu'n adbweru unrhyw waith llanw.[61] Ymdrinnir â hyn yn fanylach isod, ond, i grynhoi, mae'n cynnwys y camau canlynol:[62]

(i) Ar ôl sefydlu Grŵp Cynghori, bydd y Rheoleiddiwr (CNC) a'r Grŵp Cynghori'n adolygu'r paramedrau technoleg ar gyfer cynnig i leoli dyfeisiau yng Ngham Un yn erbyn y PDE a ganiatawyd. <u>Os</u> yw'n dod o fewn y PDE a ganiatawyd, yna

(ii) Mae'n rhaid i CNC gytuno ar faint o ddyfeisiau i'w lleoli. <u>Os</u> bydd yn cytuno, yna

(iii) Bydd y Grŵp Cynghori a Menter Môn yn amlygu paramedrau'r dyfeisiau i'w lleoli yng Ngham Un sydd i'w monitro, unrhyw fesurau lliniaru sydd i'w defnyddio, ac yn paratoi EMMP Manwl. Cyflwynir hyn i CNC i'w gymeradwyo. <u>Os</u> bydd CNC yn ei gymeradwyo, yna

[58] Nid yw'n ymddangos bod yr hysbysiad ffurfiol ynghylch tynnu'n ôl wedi'i gynnwys yn y Dogfennau Craidd. Ysgrifennodd Pinsent Masons, ar ran Land and Lakes, at PINS ar 11 Rhagfyr 2020. Mae'r llythyr hwn ar gael ar wefan TWA Morlais PINS yn https://dns.planninginspectorate.gov.uk/projects/wales/twa-morlais-demonstration-zone/?ipcsection=docs.

[59] Gweler Cyf: Dogfen Ymchwiliad – 102, Atodlen 1 Rhan 4.

[60] Gweler delwedd yn Cyf: MDZ/A16.8, Cyf: Dogfen Ymchwiliad – 100 a 101 Plât 2-1.

[61] Tystiolaeth Mr Fortune wrth gael ei groesholi, Diwrnod 13, sesiwn fore 1; gweler Cyf: Dogfen Ymchwiliad – 102, Atodlen 1 Rhan 4 y Gorchymyn Drafft.

[62] Mae hyn ar gyfer lleoli. Mae nifer o fesurau diogelu eraill ar gyfer monitro a lliniaru effeithiau amgylcheddol mewn amser real.

(iv) Gellir lleoli ac arddangos dyfeisiau Cam Un (ac unrhyw fesurau lliniaru).[63] Wedi hynny,

(v) Caiff Cam Un ei fonitro. Ar ôl cyfnod, bydd y Grŵp Cynghori a CNC yn adolygu arwyddocâd allbynnau'r EMMP. Os oes ansicrwydd ynglŷn â'r potensial ar gyfer effeithiau arwyddocaol, byddant yn parhau i fonitro. Os oes potensial ar gyfer effeithiau arwyddocaol, bydd mesurau lliniaru graddfa aráe yn cael eu rhoi ar waith. Dim ond ar ôl dod i'r casgliad nad oes effeithiau arwyddocaol y gall Menter Môn symud ymlaen i Gam Dau – a bydd y broses yn ailadrodd.

50. Ar bob cam, cyfyngir ar leoli trwy gyfeirio at y tynnaf o'r paramedrau ecolegol a osodwyd gan CNC. Ar y cam cychwynnol, mae'n rhaid i unrhyw leoli olygu bod y perygl gwrthdrawiad yn dod o dan y trothwy 0.7 o ddolffiniaid trwyn potel y flwyddyn. Bydd hynny'n arwain at leoli ar raddfa gymharol fach o oddeutu 12 MW, sef rhwng 5 a 10 o ddyfeisiau yn ôl pob tebyg, ond fe allai fod yn fwy (tua 21) os defnyddir dyfeisiau llai o lawer.[64]

51. Gan oedi yn y fan honno, mae dau bwynt y gofynnodd yr Arolygydd i ni eu hegluro ar gyfer ei nodyn. Y cyntaf yw'r berthynas rhwng cyflwyno fesul cam a rheoli addasol yn yr EMMP. Mae'r "cyflwyno fesul cam" fel yr amlinellir ym mhara.(au) 37-40 yr EMMP Amlinellol. Dyma'r ymagwedd "Lleoli cam bach, monitro, rheoli, lleoli cam arall" rydym newydd ei hamlinellu. Mae'r cyflwyno fesul cam wedi'i gyfyngu gan y paramedrau ecolegol a osodir gan CNC. Proses ailadroddus yw "rheoli addasol" lle mae ansicrwydd yn cael ei leihau'n raddol trwy fonitro ac astudio data, ac mae monitro'n cael ei gynnal a mesurau lliniaru'n cael eu rhoi ar waith mewn amser real. Fe'i disgrifir yn llawnach ym mhara.(au) 41-49 yr EMMP Amlinellol. Felly, mae'r ddau yn rhyngweithio'n amlwg, oherwydd dim ond trwy'r wybodaeth a geir o reoli addasol y gellir bod yn fwy clir ynglŷn â'r paramedrau a ganiateir ar gyfer y cam nesaf.

52. Roedd ail ymholiad yr Arolygydd yn ymwneud ag i ba raddau y mae'r dull hwn o gyflwyno fesul cam a rheoli addasol yn achosi risg i leoli prosiect Morlais yn llawn. Am y rhesymau a archwiliwn yn fanylach yn yr adran ecoleg isod, nid ydym yn credu y bydd yn achosi risg. Rydym yn sicr, ac mae'r ymchwiliad wedi clywed gan arbenigwyr blaenllaw ynglŷn â hyn, bod ein hasesiadau'n rhagofalus iawn, ac yn rhagfynegi canlyniadau gwaeth o lawer nag a fydd yn digwydd mewn gwirionedd. Rydym hefyd yn credu'n gryf y gellir profi y bydd y dulliau a'r technolegau a roddir ar waith o fewn yr EMMP yn gweithio ac yn diogelu'r ecoleg leol. Ond y pwynt allweddol i'r ymchwiliad a Gweinidogion Cymru yw bod unrhyw risg weddilliol yn parhau ar gyfer y prosiect – nid yw'n risg y gallai rhywbeth gael ei osod yn y môr a fyddai'n achosi mwy o niwed amgylcheddol nag y maen nhw'n ei asesu ar y cam hwn.

53. <u>Yn ail</u>, hyd yn oed pan leolir dyfeisiau'n llawn, mae nifer o ardaloedd cyfyngedig lle y cyfyngir ar ba ddyfeisiau y gall Menter Môn eu lleoli yno.[65]

54. <u>Yn drydydd</u>, cyn adeiladu, adbweru neu ddatgomisiynu unrhyw waith llanw, mae'n rhaid i asesiad risg mordwyo ("NRA") wedi'i ddiweddaru gael ei gyflwyno i

[63] Tystiolaeth Mr Fortune ar Ddiwrnod 13, sesiwn fore 1, oedd bod rhai o'r camau yn yr OEMMP yn debygol o gael eu cynnal ochr yn ochr.
[64] Gweler Cyf: MDZ/A31.13, Tablau 3-3 a 3-4.
[65] Cyf: MDZ/A28.1, a Cyf: Dogfen Ymchwiliad – 102, Atodlen 1 Rhan 3 y Gorchymyn.

Weinidogion Cymru a'i gymeradwyo ganddynt.[66] Felly, er mai ymagwedd PDE yw hon, ac er bod pryderon wedi cael eu mynegi ynglŷn â dyfeisiau penodol (fel yr ystyriwn isod), bydd NRA manwl sy'n benodol i ddyfeisiau ac araeau yn cael ei gynnal cyn lleoli unrhyw ddyfeisiau i sicrhau diogelwch mordwyol. Ni fydd unrhyw beth yn mynd i mewn i'r dŵr heb gymeradwyaeth Gweinidogion Cymru neu CNC yn gyntaf.

55. Yn bedwerydd, mae'n rhaid i Brotocol Lleoli Dyfeisiau (y "DDP") gael ei gyflwyno i Weinidogion Cymru a'i gymeradwyo ganddynt[67] cyn i bob dyfais sy'n codi o'r dŵr neu ddyfais sy'n gadael llai nag 8m neu 20m o dan y cilbren ("UKC") gael ei lleoli yn yr ardaloedd cyfyngedig. Bydd hyn yn gofyn am gynnal asesiad o'r effaith weledol a'r effaith ar y dirwedd a'r morlun wedi'i ddiweddaru, ymhlith pethau eraill. Mae'n rhaid iddo hefyd fod yn gyson â'r NRA wedi'i ddiweddaru ar gyfer pob dyfais a leolir.

56. Mae'n rhaid i bob un o'r dogfennau hyn, fel yr ydym newydd ei amlinellu, fod o fewn paramedrau'r prosiect yn yr ES.

57. Fel yr ydym wedi dweud, enghreifftiau yn unig o rai o'r gwiriadau a fydd ar waith yw'r rhain, ond yr hyn maen nhw'n ei ddangos, er gwaethaf y ffaith ein bod wedi mabwysiadu ymagwedd PDE, yw bod rhwystrau a gwrthbwysau penodol i ddyfais ar bob cam er mwyn rhoi ystyriaeth bellach i'r effeithiau ar ecoleg, y dirwedd, a mordwyo.

*Y prosiect: buddion*

58. Yn erbyn y cefndir hwnnw, deuwn i fuddion sylweddol prosiect Morlais. Mae Mr Bell wedi eu hamlinellu yn ei Broflen Dystiolaeth[68] ac ar lafar[69] yn ystod yr ymchwiliad hwn. Yn yr un modd â thystiolaeth Dr Orme, ni heriwyd y dystiolaeth hon. Ailadroddwyd nifer o fuddion y prosiect hwn gan y rhai a ddaeth i roi tystiolaeth yn y sesiwn siarad cyhoeddus ar ddiwrnod 2 yr ymchwiliad. O safbwynt personol, dyma'r tro cyntaf yng ngyrfa'r naill a'r llall ohonom i'n tîm erioed gael mwy o siaradwyr cyhoeddus yn siarad o blaid cynnig, nag yn ei erbyn.

59. Yn gyntaf ac yn bennaf, bydd yn cyfrannu at fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd trwy gynhyrchu ynni adnewyddadwy. Mae hyn wedi bod yn thema yn nhystiolaeth Mr Bell ac yn fudd a gydnabuwyd gan y siaradwyr cyhoeddus[70] - hyd yn oed y rhai hynny sydd yn erbyn y prosiect hwn.[71] Hoffem amlygu dau bwynt:

(i) Mae'n llenwi bwlch yn y portffolio ynni adnewyddadwy. Oherwydd natur ynni ffrwd lanw, mae'n rhagweladwy. Fel y cadarnhaodd Dr Orme yn ei brif

[66] Neu CNC trwy gyfrwng Erth. 3(7) y Gorchymyn.
[67] Neu CNC trwy gyfrwng Erth. 3(7) y Gorchymyn.
[68] Proflen dystiolaeth Mr Bell (Cyf: MDZ/P9), para. 7.1 ac ymlaen.
[69] Diwrnod 1, sesiynau prynhawn 1 a 2.
[70] Gweler e.e. tystiolaeth Mr McHugh, Mr Jones, Ms Hooper, Mr Ap-Rhisiart a Ms Simes, Diwrnod 2, sesiwn brynhawn siarad cyhoeddus.
[71] Gweler e.e. datganiad agoriadol Clwb Canŵio Eryri a Chanŵio Cymru tud.5 (Cyf: Dogfen Ymchwiliad – 010), datganiad agoriadol yr RSPB para. 9 (Cyf: Dogfen Ymchwiliad – 008), tystiolaeth Mr Green ar gyfer yr Ymddiriedolaeth Gwarchod Morfilod a Dolffiniaid yn y sesiwn siarad cyhoeddus (Diwrnod, sesiwn brynhawn siarad cyhoeddus). Gofynnodd Mr Maurici yn yr RT ar fordwyo (Diwrnod 10, sesiwn 2 y bore) a oedd unrhyw un yn anghytuno â'r cynnig hwnnw, ac nid oedd neb yn anghytuno.

dystiolaeth,[72] ceir pedwar brig ynni rhagweladwy – bob dydd, bob mis, a phob blwyddyn. Gallai hynny, ynghyd â defnydd doeth o fatris, greu cyflenwad sylfaenol cyson o ynni. Mae hyn yn unigryw bron yn y diwydiant ynni adnewyddadwy. Mae ynni gwynt neu solar, er enghraifft, yn ysbeidiol – efallai bydd bylchau mawr yn eu cyflenwad ar ddiwrnodau pan nad yw'r gwynt yn chwythu neu nad yw'r haul yn tywynnu. I lenwi'r bylchau hynny, mae'n rhaid i danwyddau ffosil gael eu cynnal. Mae ynni ffrwd lanw yn darparu ffordd adnewyddadwy o lenwi'r bwlch hwnnw.

(ii) Mae ganddo'r capasiti i gynhyrchu hyd at 240MW o ynni glân, adnewyddadwy. Fel yr esboniodd Mr Bell, gallai hynny ddarparu digon o drydan i bweru 188,000 o gartrefi – mwy nag Ynys Môn, Gwynedd a Chonwy gyda'i gilydd.[73]

60. Yn ail, bydd yn helpu'r sector ffrwd lanw i ddatblygu, gyda'r buddion ehangach cysylltiedig i'r frwydr yn erbyn y newid yn yr hinsawdd a ddaw yn sgil hyn. Unwaith eto, cyfeiriwyd at y budd hwn gan Mr Bell,[74] y datblygwyr sydd wedi ysgrifennu i gefnogi'r cais,[75] a'r rhai a siaradodd yn y sesiwn gyhoeddus o blaid y datblygiad hwn.[76] Mae Mr Bell wedi amlinellu pryderon allweddol y dylid rhoi ystyiaeth iddynt ym mhara. 7.1.3 ei broflen, sef:

(i) Y gallu i ddatblygu'r dechnoleg i sefyllfa sy'n barod ar gyfer y farchnad cyn gynted â phosibl;

(ii) Y potensial i ddatblygu strategaeth ddiwydiannol a chadwyn gyflenwi leol ymhellach a gwasanaethu marchnadoedd yn y Deyrnas Unedig ac Ewrop;

(iii) Pwysigrwydd gweld bod dyfeisiau morol yn cael eu lleoli wrth raddfa a bod yr MDZ yn darparu'r cyfle hwn;

(iv) Y bydd caniatáu lleoli ar y safle'n gynnar yn helpu i brofi perfformiad technegol a derbynioldeb amgylcheddol y dechnoleg, a bod cyfle unigryw i brofi gweithrediad araeau a dyfeisiau mewn rhesi a cholofnau lluosog;

(v) Buddion lleoli wrth raddfa sy'n gallu arwain at ddysgu'n gyflymach am feysydd cymryd pŵer, deunyddiau/strwythurau, y dulliau gorau o weithredu a chynnal a chadw: oll gyda'r nod o leihau costau i lefel gystadleuol. Trwy leoli capasiti digonol, gellir helpu i gyflawni'r gostyngiadau mewn costau sy'n angenrheidiol fel y gall ynni'r llanw gystadlu â mathau mwy sefydledig o gynhyrchu ynni adnewyddadwy;

(vi) Heb leoli dyfeisiau ar y raddfa sy'n bosibl ym mhrosiect Morlais, bydd yn anodd modelu rhyngweithiadau aráe gyfan a chynnydd cynlluniau ar gyfer lleoli nifer fwy o ddyfeisiau – a allai olygu y bydd y cyfleoedd economaidd ac ynni glân y mae'r Deyrnas Unedig mewn sefyllfa unigryw i'w sicrhau yn cael eu colli. Mae hyn yn cynnwys cyfleoedd i wasanaethu'r farchnad ynni'r llanw fyd-eang.

(vii) Y gall pob un o'r uchod arwain at ddatgloi buddsoddiad ychwanegol.

[72] Prif dystiolaeth Dr Orme – Diwrnod 1, sesiwn brynhawn 1 a 2.
[73] Proflen Dystiolaeth Mr Bell (Cyf: MDZ/P9), para. 7.1.2.
[74] Proflen Dystiolaeth Mr Bell (Cyf: MDZ/P9), para. 7.1.3.
[75] Cyf.(au): MDZ/M1-MDZ/Z6
[76] Gweler e.e. tystiolaeth Mr Wragg, Mr Ap-Rhisiart, Ms Moutel, Ms Simes, Ms Kynaston.

61. Fodd bynnag, ailbwysleisiwn fod hyn i gyd yn gallu cael ei wneud mewn ffordd dra rheoledig a fydd yn osgoi perygl effeithiau niweidiol ar fioamrywiaeth.

62. <u>Yn drydydd</u>, mae buddion sylweddol yn bosibl i dwf economaidd yn fwy cyffredinol ac i'r gymuned leol. Wrth gwrs, menter gymdeithasol nid-er-elw yw Menter Môn, ac un o'i hamcanion allweddol yw darparu datrysiadau i'r heriau amrywiol sy'n wynebu Cymru wledig. Bydd y buddion a gaiff Menter Môn o'r datblygiad hwn yn cael eu dychwelyd i'r gymuned leol. Unwaith eto, mynnwn fod ystyriaeth yn cael ei rhoi i'r pwyntiau allweddol canlynol:

(i) Creu swyddi, gan gynnwys swyddi tra medrus. Fel y cadarnhaodd Mr Bell yn ei dystiolaeth, disgwylir y bydd hyn yn cynhyrchu hyd at 467 o swyddi y flwyddyn yn ystod y cam adeiladu, a hyd at 456 o swyddi y flwyddyn yn deillio o weithredu a chynnal a chadw. O'r rhain, gallai tua 137-228 fod yn Ynys Môn, 91 yng ngogledd Cymru a 46[77] ledled gweddill Cymru.[78] Clywodd yr ymchwiliad hefyd y dystiolaeth o lygad y ffynnon gan Ms Kynaston, Ms Simes a Ms Hooper ynglŷn â sut oedd darparu swyddi ynni'r môr yn eu galluogi i naill ai ddychwelyd i gymunedau lleol sy'n dioddef "draen dawn" fel arall neu aros ynddynt.[79] Byddai'r un peth o fudd yma.

(ii) Defnyddio'r gweithlu lleol a'r gadwyn gyflenwi leol – rhywbeth y mae Menter Môn wedi ymroi i'w wneud. Mae Menter Môn wedi dangos y gallai gwariant lleol y datblygiad arfaethedig ychwanegu rhwng 0.4% a 4% at weithgarwch economaidd blynyddol Ynys Môn.[80] Mae hwnnw'n swm sylweddol ar ei ben ei hun, ac yn bennawd gwych. Ond edrychwch y tu hwnt iddo – ar yr elfen ddynol o'r hyn y mae'n ei olygu'n ymarferol. Mae'n golygu defnyddio contractwyr a busnesau lleol. Nid yn unig ar gyfer yr adeg hon, ond ar hyd oes tymor hir y prosiect hwn. A rhoi cymhelliad i'r busnesau hynny gyflogi staff, pobl ifanc sy'n gadael yr ysgol, a graddedigion coleg. Clywodd yr ymchwiliad gan Dr Jones fod y busnesau yn yr ardal hon, a oedd wedi uwchsgilio'n barod ar gyfer Wylfa na fydd byth yn dod mwyach, yn meddu ar y sgiliau a'r offer y mae eu hangen ar ddatblygwyr yn yr MDZ.[81] Soniodd Mr Ap-Rhisiart, o M-SParc, hefyd am sut mae cwmnïau lleol yn fodlon, yn gallu, ac yn awyddus i fanteisio ar y cyfleoedd y mae hyn yn eu cynnig.[82] Gwnaeth Mr Gleeson, sy'n cynrychioli Verdant Isles (datblygwr sy'n disgwyl ei dro i leoli dyfeisiau yn yr MDZ), dri phwynt perthnasol: yn gyntaf, bod y gadwyn gyflenwi leol yn arbennig o bwysig oherwydd bod cludo dyfeisiau mawr yn gallu bod yn anodd, yn ail, bod rhai o'r busnesau lleol y mae Verdant Isles *eisoes* wedi cysylltu â nhw wedi gwneud argraff arbennig o dda arno, ac yn drydydd, y posibilrwydd y gallai busnesau atodol gyrraedd i ddarparu ar gyfer hyn, fel safleoedd storio batris a chanolfannau data. Credai y byddai Morlais yn dangos y ffordd.[83] Gofynnwn fod ystyriaeth yn cael ei rhoi i dystiolaeth Mr Jones-Griffith, sef prifathro Coleg Menai a Choleg Meirion-Dwyfor, sydd wedi

77 Gweler yr adran isod ar faterion economaidd-gymdeithasol ar gyfer trafodaeth ynglŷn â'r cytundeb y daethpwyd iddo gyda IoACC ar sut i sicrhau'r cyfleoedd mwyaf posibl o ran y gadwyn gyflenwi a chyflogaeth leol.
78 Proflen Dystiolaeth Mr Bell (Cyf: MDZ/P9) para. 7.1.6.
79 Diwrnod 2, sesiwn brynhawn siarad cyhoeddus.
80 Proflen Dystiolaeth Mr Bell (Cyf: MDZ/P9) para. 7.1.6.
81 Diwrnod 5, sesiwn brynhawn 1. Amlygodd un cwmni sydd eisoes wedi ennill contract o'r fath.
82 RT economaidd-gymdeithasol, Diwrnod 5, sesiwn fore 1.
83 RT economaidd-gymdeithasol, Diwrnod 5, sesiwn fore 1.

cefnogi'r prosiect hwn yn union oherwydd y cyfleoedd y bydd yn eu rhoi i bobl ifanc – yn ystod y prosiect ei hun a thu hwnt – ar gyfer prentisiaethau, hyfforddiant, a datblygu sgiliau. Sgiliau go iawn, cyfleoedd go iawn, swyddi tymor hir go iawn, i'r bobl ifanc a fydd yn dwyn baich yr argyfwng hinsawdd.

(iii) Fel y cofnodir ym Mhennod 25 yr ES,[84] disgwylir y gallai Ynys Môn elwa'n uniongyrchol o wariant lleol o ganlyniad i'r prosiect o rhwng £3.2m a £41.4m yn flynyddol ar hyd oes y prosiect, ac y gallai gweddill Cymru weld buddion posibl o £14.5m i £33m yn flynyddol. Er nad yw'n bwynt a wnaed gan Mr Bell, clywodd yr ymchwiliad hefyd gan Mr Ap-Rhisiart am y buddion i Ynys Môn trwy fod yn llai dibynnol ar y sector twristiaeth. Pwysleisiwn nad ydym yn credu y bydd y sector twristiaeth yn dioddef, ond byddai'n sicr yn fuddiol, fel yr honnodd Mr Ap-Rhisiart, cael ffrwd fwy amrywiol o fewnfuddsoddiad i'r Ynys.[85]

63. Ailadroddwyd yr holl fuddion hyn gan Mr Henry Aron o Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru.[86]

64. Fel y mae Mr Bell wedi nodi,[87] ni ellir bychanu pwysigrwydd y buddion economaidd hyn yn yr amgylchiadau sy'n bodoli heddiw. Y llynedd, gwelwyd y cwymp mwyaf mewn gweithgarwch economaidd a'r ysgytwad mwyaf i'r economi ers i gofnodion ddechrau, yn ôl y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol. Fel yr esboniwn maes o law, mae dros 10% o weithlu Ynys Môn yn ymwneud â'r sector twristiaeth – maes a ddioddefodd yn wael oherwydd polisïau'r cyfyngiadau symud. Mae'r Pwyllgor ar Newid Hinsawdd ("CCC") wedi cynghori Llywodraeth y Deyrnas Unedig bod rheidrwydd economaidd ac amgylcheddol cyson i gyflawni prosiectau sy'n cyfrannu at yr adferiad economaidd a'r argyfwng hinsawdd. Mae'n anodd meddwl am brosiect sydd mewn sefyllfa well i wneud hynny na phrosiect Morlais.

65. Yn erbyn cefndir y buddion hynny, nid yw'n syndod bod cryn gefnogaeth wleidyddol i'r prosiect eisoes. Mae cefnogaeth ym Margen Twf y Gogledd, yng nghyllid Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO), fe'i crybwyllwyd yn anerchiad agoriadol Prif Weinidog Cymru yng nghynhadledd Ynni Môr Cymru 2019, a bu amryw gyfarfodydd rhwng cynrychiolwyr Menter Môn a'r Llywodraeth. Adroddir ar hyn i gyd ym mhroflen Mr Billcliff.[88]

[84] Proflen Dystiolaeth Mr Bell (Cyf: MDZ/P9), para 7.1.6. a Cyf: MDZ/A25.25.
[85] RT economaidd-gymdeithasol, Diwrnod 5, sesiwn fore 1.
[86] RT economaidd-gymdeithasol, Diwrnod 5, sesiwn fore 2.
[87] Proflen Dystiolaeth Mr Bell (Cyf: MDZ/P9) para 7.1.7; a'i brif dystiolaeth, Diwrnod 1.
[88] Proflen Dystiolaeth Mr Billcliff (Cyf: MDZ/P8) para. 5.1.1.

## Egwyddorion cyfreithiol

66. Felly, dyna gefndir y prosiect. Cyn i ni droi at y prif faterion, amlinellwn rai o’r egwyddorion cyfreithiol allweddol sy’n rheoli’r penderfyniad y bydd yn rhaid i Weinidogion Cymru ei wneud. Dyma’r prif faterion cyfreithiol:

    (i) Y cyfundrefnau rheoleiddiol sydd dan sylw a’r berthynas rhyngddynt;

    (ii) Rhwymedigaethau’r Gweinidogion o dan yr amryw ddarnau o ddeddfwriaeth amgylcheddol;

    (iii) Defnyddio PDE a beth yw’r gofynion cyfreithiol;

    (iv) I ba raddau y gall y Gweinidogion ddibynnu ar gyfundrefnau rheoleiddiol eraill, o ystyried (i), (ii) a (iii) uchod.

67. Rhoddir ychydig o ystyriaeth i’r egwyddorion hyn ym Mhennod 2 yr ES hefyd.[89]

*Y cyfundrefnau rheoleiddiol*

68. Mae Menter Môn wedi mynd i’r afael â’r amryw gyfundrefnau rheoleiddiol sy’n berthnasol i’r prosiect hwn yn nodyn Eversheds Sutherland dyddiedig 23 Tachwedd 2020,[90] y tynnwn yn helaeth ohono yn yr ychydig baragraffau nesaf.[91]

69. Bydd angen i’r prosiect hwn gael caniatâd o dan dair cyfundrefn wahanol:

    (i) Y Gorchymyn, yr ymgeisir ar ei gyfer yn unol â’r TWA;

    (ii) Caniatâd cynllunio o dan Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (“TCPA”), yr ystyrir y caiff ei roi trwy ddarpariaethau o dan y TWA; ac

    (iii) ML, sy’n ofynnol gan Ddeddf y Môr a Mynediad i’r Arfordir 2009 (“MCAA”).

70. Mae’r cais sydd gerbron yr ymchwiliad hwn yn ymwneud â’r ddau gyntaf. Yn fras, mae’r TWA yn amlinellu gweithdrefnau ar gyfer awdurdodi adeiladu a gweithredu prosiectau trafnidiaeth penodol (fel rheilffyrdd neu waith sy’n ymyrryd â hawliau mordwyo) yr oedd angen iddynt gael eu cymeradwyo’n statudol yn flaenorol o dan y weithdrefn Bil Preifat yn y Senedd. Roedd y weithdrefn Bil Preifat yn ofynnol oherwydd bod adeiladu prosiectau o’r fath bron yn anochel yn ymyrryd â hawliau dinasyddion preifat – efallai mai prynu gorfodol yw’r unig ffordd ymarferol o gaffael y tir sy’n angenrheidiol, gallai marina newydd ymyrryd â hawliau mordwyo, a gallai gweithredu prosiect fel rheilffordd olygu bod y gweithredwr yn agored i hawliad ynghylch niwsans. Heb wanhau’r hawliau hynny’n ddeddfwriaethol mewn rhyw ffordd, gallai unigolion atal prosiect rhag cael ei gynnal. Roedd y weithdrefn Bil

[89] Cyf: MDZ/A25.2

[90] Cyf: RPE008 h.y. Nodyn yr Ymgeisydd ar y Gorchymyn a’i gydberthynas â chyfundrefnau eraill.

[91] Mae angen darllen y nodyn yn llawn. Mae’n ddadansoddiad trwyadl a chynhwysfawr o’r sefyllfa yr oedd Cwnsler CNC wedi’i groesawu’n gynnes ac yn cytuno ag ef. Nid yw’r rhan fwyaf o’r partïon eraill sy’n gwrthwynebu prosiect Morlais wedi gwneud unrhyw sylw ar y nodyn. Cyfyngodd yr RSPB (gweler isod) ei sylw i ddau baragraff yn unig – para.(au) 21 – 23 – ac mae’n ymddangos nad oedd yr RSPB yn herio gweddill y nodyn.

Preifat yn caniatáu ar gyfer gwanhau'r hawliau hynny, ac yn rhoi amryw hawliau atodol i gynnal gwaith ar strydoedd (er enghraifft). Mae'r TWA yn caniatáu i hynny i gyd gael ei wneud trwy Orchymyn y Ddeddf Trafnidiaeth a Gweithfeydd. Gweler ymhellach yr *Encyclopaedia of Planning Law and Practice* ym mhara. 2-3372.

71. Fodd bynnag, pan fydd rhywbeth i'w adeiladu, nid yw'n ddigon i wanhau hawliau preifat pobl eraill. Mae dwy gyfundrefn statudol yn bodoli hefyd i reoli datblygu – mae angen i ddatblygiad ar y tir gael caniatâd cynllunio o dan y TCPA, ac mae angen i ddatblygiad yn y dŵr gael ML o dan yr MCAA. Yn achos ***R. (Powell) v Marine Management Organisation*** [2017] EWHC 1491 (Admin), penderfynodd y Llys ym mhara. 82 (pwysleisiadau wedi'u hychwanegu)

> "*Yn yr un modd ag y mae rheolaeth gynllunio'n ymwneud â ffactorau sy'n berthnasol i ddefnydd o dir (**Stringer v Minister of Housing and Local Government** [1970] 1 WLR 1281, 1294), mae trwyddedu morol yn ymwneud â defnydd o'r môr. Nid yw'r defnyddiau hynny wedi'u cyfyngu i fordwyo, ac nid yw'r pwyslais ar hawliau mordwyo ychwaith. Mae defnyddiau amwynder a datblygiad ar ffurf echdynnu mwynau yn enghreifftiau o ddefnyddiau dilys o'r môr. O ystyried bod adran 69(1)*[92] *yn berthnasol i b'un a ddylai cais am drwydded forol gael ei ganiatáu ai peidio, gellir gweld nad yw "dilys" yn cael ei ddefnyddio'n unig i gyfeirio at ddefnydd cyfreithlon neu hawliau cyfreithiol, ond mewn ystyr ehangach i ddisgrifio defnyddiau cyfiawn, priodol neu dderbyniol. Felly, mae "dilys" yn caniatáu i'r MMO werthuso rhinweddau defnydd neu ddefnyddiau sy'n cystadlu yn erbyn ei gilydd, gan gynnwys defnyddiau presennol. Yn unol â hynny, gall yr MMO benderfynu faint o bwys neu deilyngdod i'w roi i gynnig i ddefnyddio ardal o'r môr ar gyfer datblygiad dros dro fel echdynnu mwynau, neu ar gyfer datblygiad parhaol fel adeiladau preswyl neu fasnachol, o gymharu ag i ba raddau y gwneir defnydd ymarferol o'r ardal honno ar gyfer mordwyo neu, yn wir, "ddefnyddiau dilys" eraill. Er enghraifft, yn yr achos presennol, mae'n amlwg o'r dystiolaeth a dderbyniwyd gan yr MMO bod y traeth lle mae'r tonnau'n disbyddu a'r ardal o'r môr yr effeithir arnynt gan y gwaith cam 2 yn cael eu defnyddio at ddibenion mordwyo cyfyngedig iawn yn unig ac yn gymharol anaml.*"

72. Mae adran 90(2A) y TCPA yn caniatáu i Weinidogion Cymru wneud cyfarwyddyd sy'n tybio bod caniatâd cynllunio'n cael ei roi ar gyfer y gwaith ar y tir (yn ddarostyngedig i amodau a osodir yn y cyfarwyddyd) ochr yn ochr â gwneud y Gorchymyn. Nid oes darpariaeth gyfatebol ar gyfer ML, sydd felly'n golygu bod angen gwneud cais a chael cymeradwyaeth ar wahân bob tro – yng Nghymru, mae'r swyddogaeth gymeradwyo wedi cael ei dirprwyo i CNC gan Weinidogion Cymru.[93]

73. Mae gwahaniaethau rhwng y cyfundrefnau hyn, wrth gwrs. Nid oes angen i ni gynnal asesiad cynhwysfawr o hynny nawr, ond digon yw nodi at y dibenion presennol bod y ddwy gyfundrefn rheoli datblygu o dan TCPA 1990 ac MCAA 2009 yn fwy hyblyg na gorchymyn a roddir o dan y TWA mewn sawl ffordd. Gall amodau ar ganiatâd

---

[92] Mae hyn yn darparu "*Wrth benderfynu ar gais am drwydded forol (gan gynnwys y telerau ar gyfer ei chaniatáu a pha amodau, os o gwbl, sydd i'w gosod arni), mae'n rhaid i'r awdurdod trwyddedu priodol ystyried— (a) yr angen i ddiogelu'r amgylchedd, (b) yr angen i ddiogelu iechyd dynol, (c) yr angen i atal ymyrryd â defnyddiau dilys o'r môr, a'r cyfryw faterion eraill ag y mae'r awdurdod yn credu eu bod yn berthnasol*."

[93] Erth. 3, *Gorchymyn Trwyddedu Morol (Dirprwyo Swyddogaethau) (Cymru)* 2013 (S.I. 2013/414, W.50)

cynllunio[94] neu ML[95] gael eu hamrywio o dan TCPA 1990 neu MCAA 2009, er hynny dim ond pan fydd cais yn cael ei wneud a chymeradwyaeth yn cael ei rhoi. Nid yn anaml y bydd angen gwneud diwygiadau i ML, ac mae llawer o enghreifftiau o hyn. Nid oes darpariaeth i amrywio TWAO – byddai unrhyw gais am hynny'n golygu bod angen cais ac ymchwiliad cwbl newydd. Dyma un ffordd y mae'r gyfundrefn TWAO yn fwy cyfyngol na'r gyfundrefn a gynhwysir yn Neddf Cynllunio 2008 ar gyfer prosiectau seilwaith o arwyddocâd cenedlaethol. Nid yw'n ymddangos bod unrhyw gyfiawnhad dros hyn, ond mae'n bwysig o ystyried hyn, nad yw materion yn cael eu cynnwys yn y TWAO os nad oes angen iddynt gael eu cynnwys ynddo, er mwyn caniatáu ar gyfer ceisiadau amrywio.

74. Er gwaethaf y ffaith bod angen tair cyfundrefn wahanol yma, o ran y ddwy y bydd rhaid i Weinidogion Cymru benderfynu arnynt (y TWAO a'r caniatâd cynllunio tybiedig), mae cryn dipyn o orgyffwrdd rhwng yr hyn y bydd angen iddynt ei ystyried wrth benderfynu p'un ai gwneud y TWAO a rhoi'r caniatâd cynllunio. Mae dogfen Arolygiaeth Gynllunio Cymru *Ceisiadau am Orchmynion o dan Ddeddf Trafnidiaeth a Gweithfeydd 1992* (Medi 2019) yn nodi bod dogfen yr Adran Drafnidiaeth (DfT) *Canllaw i Weithdrefnau TWA* (2006) yn parhau i fod yn berthnasol ac yn rhoi canllawiau manwl ar geisiadau TWAO. Mae hynny'n nodi, ymhlith pethau eraill, pan fydd cyfarwyddyd cynllunio wedi'i geisio (fel yn yr achos hwn), fel mater polisi, byddai'r trwyddedau cynllunio'n rhan o ystyried p'un ai awdurdodi'r cynllun (para. 1.4), a bod polisi cynllunio perthnasol yn fater y mae angen rhoi ystyriaeth iddo sut bynnag (para 1.28). Felly, mae ystyriaethau cynllunio'n mynd i fod yn bwysig wrth i Weinidogion Cymru benderfynu ar y TWAO a'r Caniatâd Cynllunio Tybiedig, er y gellid ystyried bod y ddau ar wahân yn gysyniadol. Nid dyma'r amser i ailadrodd y corff cyfan o gyfraith gynllunio, ond mae mater wedi codi'n fynych drwy gydol yr ymchwiliad, sef sut y dylid ystyried canfyddiad cyhoeddus o niwed. Cyfeiriwn at yr adran berthnasol o'r *Planning Encyclopaedia* ym mhara 70.39, sy'n crynhoi'r gyfraith.[96] Honnwn, yn fras:

(i) Nad yw gwrthwynebiad cyhoeddus ar ei ben ei hun yn ystyriaeth berthnasol. Fodd bynnag, gallai'r ffaith bod gan aelodau'r cyhoedd ofnau a phryderon fod yn ystyriaeth berthnasol

   a. Os ydynt yn ymwneud â mater sy'n ystyriaeth berthnasol;

---

[94] a.73 TCPA 1990.

[95] a.72 MCAA 2009

[96] Cododd y mater hwn yn ystod Diwrnod 10, Sesiwn Fore 1, pan ni oedd yr unig gyfreithwyr "yn yr ystafell". Gofynnodd yr Arolygydd i Mr Maurici QC "gamu i ffwrdd oddi wrth" ei gleient ac "i ganol yr ystafell" a chynghori'r ymchwiliad. Nid yw hynny'n gwbl briodol, fel y dywedodd Mr Maurici QC yn ystod y gwrandawiad. Mae'n ddyletswydd arnom i unrhyw dribiwnlys i sicrhau nad yw'n cael ei gamarwain. Mae hyn yn cynnwys tynnu sylw'r Tribiwnlys at unrhyw benderfyniad neu ddarpariaeth sy'n andwyol i fuddiannau ein cleient, sy'n arbennig o bwysig wrth ymddangos yn erbyn partïon nad ydynt yn cael eu cynrychioli (gC5). Felly, ni allwn gamu i ffwrdd oddi wrth ein cleient a "chynghori'r" Tribiwnlys, ond mae'n rhaid i ni sicrhau bod ganddo'r holl ddeunyddiau cyfreithiol perthnasol ger ei fron. O ystyried y rhwymedigaeth honno, rydym wedi amgáu'r darn cyfan o'r *Planning Encyclopaedia* (Dogfen Ymchwiliad -138) sy'n ymdrin â chanfyddiad cyhoeddus o niwed oherwydd credwn ei fod yn rhoi esboniad cynhwysfawr a theg. [Nodyn gan yr Arolygydd: Nodir yr esboniad manwl o'r ddyletswydd, a'i ffynhonnell. Defnyddiwyd y cydweddiad i gynorthwyo'r rhai hynny nad oes ganddynt (lawer o) brofiad o'r system dribiwnlys i ddeall priodoldeb cyflwyniadau diwrthwynebiad i'r ymchwiliad ar bwyntiau cyfreithiol.]

b. Os cânt eu cyfiawnhau'n wrthrychol; neu

c. Hyd yn oed os ydynt yn ddi-sail, y gallent fod â chanlyniadau o ran defnydd tir.

(ii) Mae'n llai clir a oes rhaid i'r cyfryw ofnau a phryderon gael eu gwrthod os dangosir eu bod yn ddi-sail, gan fod rhaniad yn awdurdod y Llys Apêl. Fodd bynnag, hyd yn oed os na chânt eu gwrthod yn syth, mae cwestiynau ynglŷn â pha risgiau sy'n bodoli, sy'n dderbyniol ac yn ddigon pwysig i gyfiawnhau gwyro oddi wrth y cynllun lleol, i gyd yn faterion i'r penderfynwr.

75. Felly, dyna'r tair cyfundrefn gyffredinol sy'n berthnasol i'r achos hwn. Fel y nodwyd gennym, mae'r cyfundrefnau a sut byddant yn gorgyffwrdd yn yr achos penodol hwn wedi cael ei amlinellu'n fanylach yn Nodyn Eversheds Sutherland, nad oedd yn ddadleuol iawn (heblaw am y pwyntiau cyfyngedig a wnaed gan yr RSPB, y rhoddwn sylw iddynt yn ddiweddarach). Dylid hefyd nodi bod y llywodraeth yn cynghori y dylai'r rheolaethau a osodir gan amryw gyfundrefnau ategu ei gilydd, yn hytrach na dyblygu neu wrthdaro â'i gilydd.[97] Rhoddodd CNC yr un cyngor i Fenter Môn yn yr achos hwn – gweler para.32 ei ddatganiad achos, sy'n dweud "*Bydd CNC yn dadlau y dylai unrhyw orgyffyrddiad yng ngofynion y TWAO, y caniatâd cynllunio a'r drwydded forol gael ei osgoi, lle bynnag y bo'n bosibl, er mwyn osgoi dyblygu a dryswch.*"[98]

*Rhwymedigaethau amgylcheddol*

76. Mae llawer o'r rhwymedigaethau amgylcheddol sy'n berthnasol i'r prosiect hwn yn deillio o gyfraith yr Undeb Ewropeaidd. Yn ystod yr ymchwiliad hwn, rydym wedi dod i ddiwedd y "cyfnod gweithredu" y darperir ar ei gyfer gan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 ("Deddf Ymadael 2018").[99] Mae a.(au) 2-3 Deddf Ymadael 2018, fel y'i diwygiwyd, yn darparu y bydd deddfwriaeth uniongyrchol yr Undeb Ewropeaidd, a deddfwriaeth ddomestig sy'n deillio o'r Undeb Ewropeaidd, yn

[97] Gweler e.e. Cyf: MDZ/D1 Polisi Cynllunio Cymru ym mhara.(au) 1.20 ("*Ni ddylid defnyddio'r system gynllunio i fodloni amcanion y gellid eu cyflawni'n fwy priodol o dan ddeddfwriaeth arall. Y nod yw cadw at yr egwyddor o beidio â dyblygu, lle bo'n bosibl, hyd yn oed os yw pwerau a dyletswyddau sy'n deillio o ddeddfwriaeth arall hefyd yn berthnasol i awdurdodau lleol. Nid yw hyn yn golygu methu â mynd i'r afael â materion y dylai'r system gynllunio fod yn rhoi sylw iddynt. Yn ymarferol, bydd materion yn gorgyffwrdd yn aml ac mewn amgylchiadau o'r fath bydd gan y system gynllunio rôl ataliol a chynnar i'w chyflawni, ac mae'n gallu osgoi creu problemau a sicrhau manteision lluosog trwy ddulliau cynllunio cadarnhaol a rhagweithiol. Lle bo'n briodol, bydd yn fuddiol mynd i'r afael â materion mewn ffordd gyfochrog. Nid yw rhoi caniatâd cynllunio yn diddymu'r angen i gael unrhyw ganiatâd arall a allai fod yn angenrheidiol, ac nid yw ychwaith yn golygu y bydd unrhyw ganiatâd o'r fath yn dilyn, ac yn yr un modd, ni ddylid defnyddio'r ffaith fod caniatadau eraill yn cael eu rhoi i gyfiawnhau rhoi caniatâd cynllunio") a 5.13.3 ("Mae'n rhaid i awdurdodau cynllunio, adrannau perthnasol eraill awdurdodau lleol a Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) gydweithio'n agos i sicrhau bod amodau sy'n gysylltiedig â chaniatadau cynllunio a'r rhai sy'n gysylltiedig â Thrwyddedau Amgylcheddol yn ategu ei gilydd ac nid yn dyblygu ei gilydd. Dylai sicrhau bod digon o wybodaeth yn dod gyda'r cynigion datblygu i fodloni awdurdodau cynllunio bod modd eu rheoleiddio'n effeithiol. Dylai CNC helpu'r awdurdod cynllunio i sefydlu'r safbwynt hwn trwy roi cyngor priodol. Dylid olrhain ceisiadau am ganiatâd cynllunio ac amgylcheddol ar y cyd os medrir, yn enwedig os ydy'r cynigion yn rhai cymhleth, hynny er mwyn osgoi oedi ac i osgoi cyflwyno ceisiadau sy'n cael eu gwrthod neu amodau a allai ddyblygu'r drwydded*").

[98] Cyf: MDZ/N9

[99] Fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2020.

parhau i fod mewn grym mewn cyfraith ddomestig ar ôl y diwrnod hwnnw. Yn gyffredinol iawn, bydd y dehongliad o unrhyw gyfraith yr Undeb Ewropeaidd a ddargedwir yr un fath ag yr oedd cyn y diwrnod hwnnw, i'r graddau bod y gyfraith Undeb Ewropeaidd a ddargedwir yn aros heb ei haddasu yng nghyfraith y Deyrnas Unedig ac nad yw rheoliadau wedi cael eu cyhoeddi sy'n darparu fel arall (a. 6(3) Deddf Ymadael 2018). Cyfeiriwn isod yn bennaf at reoliadau perthnasol y Deyrnas Unedig a Chymru sydd mewn grym o hyd, a hen gyfarwyddebau'r Undeb Ewropeaidd a chyfraith achosion CJEU, gan fod y rheiny'n parhau i fod o gymorth wrth ddehongli ac eithrio lle y cyfarwyddwn fel arall.

77. Mae gan y Gweinidogion rwymedigaethau o dan a. 13A-C TWA, rheolau 7, 11 ac Atodlen 1 Rheolau Trafnidiaeth a Gweithfeydd (Gweithdrefn Geisiadau a Gwrthwynebiadau) (Cymru a Lloegr) 2006 (S.I. 2006/1466) (y "Rheolau Ceisiadau TWA"), a Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) (Cymru) 2017 (S.I. 2017/567) ("Rheoliadau EIA 2017")[100] [101], i sicrhau bod y prosiect yn cynnal Asesiad digonol o Effeithiau Amgylcheddol ("EIA"). Mae hyn, wrth gwrs, yn deillio'n wreiddiol o Gyfarwyddeb EIA yr Undeb Ewropeaidd.[102] Ni fwriadwn sôn am hyn yn fanwl iawn yn awr gan nad ydym yn credu bod angen, ond tynnwn sylw at dri phwynt allweddol:

    (i) Bwriedir i EIA gynorthwyo i wneud penderfyniadau effeithlon a chynhwysol mewn achosion arbennig, nid bod yn ras rwystrau i ddatblygwyr EIA: ***R (Jones) v Mansfield DC*** [2004] Env LR 21, yn ôl yr Arglwydd Ustus Carnwath (fel yr oedd bryd hynny) ym mhara. 58. Nid yw'n ofynnol i ES gynnwys pob darn o wybodaeth amgylcheddol: ***R (Blewett) v Derbyshire CC*** [2003] EWHC 2775 ym mhara. 68. Fel arall, fel y nodwyd yn ***R v Rochdale MBC ex p. Milne (No. 2)*** [2001] Env LR 22 ym mhara. 113, byddai ES yn mynd mor fawr fel y byddai'r cyhoedd a'r awdurdod cynllunio lleol yn methu gweld y coed gan brennau. At hynny, yn ***Blewett*** ym mhara. 41, dywedodd yr Ustus Sullivan:

    > *"Fel y dywedodd yr Arglwydd Hoffmann yn **R. v North Yorkshire CC Ex p. Brown** [2000] 1 A.C. 397, yn nhud. 404, y diben yw "sicrhau bod penderfyniadau cynllunio a allai effeithio ar yr amgylchedd yn cael eu gwneud ar sail gwybodaeth lawn". Mewn byd amherffaith, cyngor delfrydol afrealistig yw disgwyl y bydd datganiad amgylcheddol ymgeisydd bob amser yn cynnwys y "wybodaeth lawn" am effaith amgylcheddol prosiect. Nid yw'r Rheoliadau wedi'u seilio ar ddisgwyliad mor afrealistig. Maen nhw'n cydnabod ei bod yn ddigon posibl y gallai datganiad amgylcheddol*

---

[100] O ran p'un a yw Rheoliadau 2017 yn berthnasol o ystyried y ffaith bod Rheoliadau 2006 yn gofyn am gyflwyno Datganiad Amgylcheddol hefyd. Credwn fod angen gwneud hynny. Mae Rheoliadau 2017 yn atal rhoi caniatâd cynllunio neu roi caniatâd dilynol am ddatblygiad EIA oni bai bod EIA wedi cael ei gynnal. Mae gan "Ganiatâd Cynllunio" yr un ystyr ag yn y TCPA 1990, sy'n golygu "caniatâd cynllunio a roddir o dan Ran III" y Ddeddf honno (a. 336 TCPA 1990). Mae Rhan III yn cynnwys caniatâd cynllunio tybiedig a. 90. A. 90(2A) yw'r sail y ceisir caniatâd cynllunio tybiedig arni, wrth gwrs. Sut bynnag, mater ffurfioldeb yw hyn yn bennaf, o ystyried ei fod eisoes yn ofyniad o dan Reoliadau 2006.

[101] Ceir Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau Morol Alltraeth 2017/1013 hefyd. Er mwyn osgoi amheuaeth, nid yw'r rhain yn berthnasol i'r cais presennol. Nid ydynt yn berthnasol i fôr tiriogaethol y Deyrnas Unedig. Y môr tiriogaethol, yn fras, yw 12 môr-filltir o'r lan: a. 1(1) Deddf Môr Tiriogaethol 1987. Mae'r MDZ o fewn hynny.

[102] Cyfarwyddeb 2011/92/EU fel y'i diwygiwyd gan Gyfarwyddeb 2014/52/EU.

> *fod yn ddiffygiol, ac yn darparu trwy'r prosesau cyhoeddusrwydd ac ymgynghori i unrhyw ddiffygion gael eu hamlygu fel bod y "wybodaeth amgylcheddol" ganlyniadol yn rhoi darlun mor gyflawn â phosibl i'r awdurdod cynllunio lleol …*".

Felly, nid dim ond yr ES y mae angen ei ystyried ond yr holl "*wybodaeth amgylcheddol*", gweler e.e. Rheoliadau EIA 2017 sy'n diffinio ystyr hyn yn Rheol. 2 fel "*y datganiad amgylcheddol, gan gynnwys unrhyw wybodaeth ychwanegol ac unrhyw wybodaeth arall, unrhyw sylwadau a wnaed gan unrhyw ymgynghorai ac unrhyw sylwadau a wnaed yn briodol gan unrhyw unigolyn arall ynglŷn ag effeithiau amgylcheddol y datblygiad*" (pwyslais wedi'i ychwanegu). Gweler hefyd y diffiniad o "Wybodaeth EIA" yn a. 13A(3) TWA. Felly, nid yw'n gywir, fel y mae'n ymddangos bod RYA ac SCC yn credu, y gall gwrthwynebwr gyfeirio at ryw ddiffyg honedig yn y wybodaeth sylfaenol a gyflwynwyd yn yr ES a bod hyn, hyd yn oed os caiff ei dderbyn fel diffyg, yn annilysu'r broses. Mae'n agored i wrthwynebwyr, ac yn wir yn ddyletswydd arnynt, nid yn unig i dynnu sylw at ddiffygion honedig ond cyflwyno eu gwybodaeth eu hunain am faterion o'r fath. Nid yw pob bwlch mewn gwybodaeth yn gyfystyr â gwall cyfreithiol; byddai awgrym o'r fath yn chwerthinllyd. Yn anffodus, gwastraffodd RYA ac SCC lawer o amser (ac adnoddau cyhoeddus) yn mynd ar ôl pwyntiau amlwg o wael fel y rhain mewn perthynas â'r effeithiau economaidd-gymdeithasol.

(ii) Gellir adolygu p'un a yw ES yn cynnwys digon o wybodaeth er mwyn i'r penderfynwr (sef Gweinidogion Cymru yn yr achos hwn) ddibynnu arni i wneud ei benderfyniad, ar sail ***Wednesbury*** yn unig: ***Atkinson v Yr Ysgrifennydd Gwladol dros Drafnidiaeth*** [2006] EWHC 995 (Admin) ym mhara. 31, ***R (Friends of the Earth Ltd) v Heathrow Airport Ltd*** [2020] UKSC 52 ym mhara. 142-143. Yn hyn o beth, byddem yn nodi y bu'r ES yn destun proses gwmpasu lawn gyda PINS cyn ei gyflwyno.[103] Ar ôl cyflwyno'r ES, bu'n destun asesiad manwl,[104] a chyflwynwyd gwybodaeth amgylcheddol ychwanegol. Nid oes unrhyw geisiadau sy'n weddill am wybodaeth amgylcheddol ychwanegol gan PINS yn y TWAO hwn. Aeth y cais ML drwy broses gwmpasu fanwl hefyd, ac atgoffir bod yr holl wybodaeth amgylcheddol a gyflwynwyd trwy'r broses ML wedi cael ei chyflwyno i'r ymchwiliad hwn hefyd.

(iii) Mae'n dra chyfarwydd bod ES wedi'i gyfyngu i'r hyn y gellir ei gyflawni ar sail y wybodaeth gyfredol sydd ar gael. Dylai hyn fod yn amlwg, ac mae wedi'i gydnabod mewn deddfwriaeth (gweler, e.e. Rheol. 11(2)(b) y Rheolau Ymgeisio TWA, Rheol. 17(4)(d) 2017 y Rheoliadau EIA) ac mewn cyfraith achosion (gweler e.e. ***Preston New Road Action Group v Yr Ysgrifennydd Gwladol dros Gymunedau a Llywodraeth Leol*** [2018] Env LR 18, para. 67). Dywedodd y Llys Adrannol yn ***Spurrier v SST*** [2019] EWHC 1070 (Admin)[105] ym mhara. 417, wrth ystyried darpariaethau'r Cyfarwyddebau EIA

---

[103] Cyf: MDZ/A8

[104] Cyf: MDZ/E10 a Cyf: MDZ/E11

[105] Cadarnhawyd y pwynt hwn gan y Llys Apêl yn ***Plan B v SST*** [2020] P.T.S.R. 1446, ac ni fu'n destun apêl i'r Goruchaf Lys heblaw bod cefnogaeth bellach i'r dull hwn yn nyfarniad y Gorchuaf Lys, gweler ***R. (Friends of the Earth Ltd) v Heathrow Airport Ltd*** [2020] UKSC 52 para. 144-145

ac SEA yn hyn o beth, o ran yr hyn y mae'n rhaid ei gynnwys "*mae'n rhaid barnu ynghylch "y wybodaeth a allai fod yn ofynnol yn rhesymol", gan ystyried gwybodaeth bresennol, dulliau asesu, cynnwys a lefel manylion y cynllun, ei gam yn y broses benderfynu a ph'un a fyddai'n fwy priodol asesu'r materion trwy weithdrefnau eraill*". Y mater yn yr ymgyfreithiad hwn oedd p'un a oedd angen asesiad manylach o sŵn ar y cam cynllun (mabwysiadu NPS y Maes Awyr sy'n cefnogi trydedd redfa yn Heathrow). Defnyddiodd awduron yr asesiad a oedd yn cyd-fynd â'r NPS lwybrau hedfan dangosol[106] oherwydd bod y patrymau symudiad traffig awyr a oedd yn debygol o gael eu creu trwy ddefnyddio rhedfa newydd yn ansicr ar yr adeg honno ac nid oedd yn bosibl seilio'r asesiad o effeithiau sŵn tebygol ar lwybrau hedfan pendant. Dadleuodd yr hawlwyr nad oedd defnyddio un set o lwybrau hedfan dangosol yn unig, fel yr oedd yr asesiad wedi'i wneud, yn ddigon. Gwrthodwyd y ddadl hon gan y Llys Adrannol a'r Llys Apêl[107]: gweler para.(au) 168, 170 a 173 – 175 dyfarniad y Llys Apêl.[108] [109] Fe'i gwrthodwyd ar y sail nad oedd lleoliad, dimensiynau a dyluniad y rhedfa newydd yn derfynol eto pan oedd yr NPS yn cael ei baratoi, ac felly roedd yn rhesymol defnyddio llwybrau hedfan dangosol yn unig, ac yn wir un set yn unig o'r rheiny.

78. Er nad yw'r cais ML gerbron yr ymchwiliad hwn i'w benderfynu, dylid nodi pan fydd gwaith yn golygu bod angen ML, mae'r Gyfarwyddeb EIA wedi cael ei chynnwys mewn deddfwriaeth genedlaethol gan Reoliadau Gwaith Morol (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) 2007 (S.I. 2007/1518), fel y'u diwygiwyd.

---

[106] Para. 167.

[107] Yn yr un ffynhonnell.

[108] *"174 Honnodd Mr Pleming os darllenir paragraff (c) Atodiad 1, fel y dylai gael ei ddarllen, yng ngoleuni'r egwyddor ragofalus a nod y Gyfarwyddeb SEA i sicrhau yr ymgynghorir â chymunedau y mae cynllun neu raglen yn debygol o effeithio arnynt ac y rhoddir cyfle cynnar ac effeithiol iddynt wneud sylwadau, fod angen osgoi rhoi amcangyfrif rhy isel o'r ardal lle y gallai awyrennau hedfan. <u>Nid oedd defnyddio un set o lwybrau hedfan dangosol yn unig, fel y gwnaeth yr Ysgrifennydd Gwladol yn yr achos hwn, yn ddigon. Roedd yn debygol y byddai sŵn yn cael effaith sylweddol ar lawer mwy o bobl nag a fyddai o dan y llwybrau hedfan hynny</u>. Roedd yn wir nad oedd hawlwyr Hillingdon yn y Llys Adrannol wedi dadlau dros ddefnyddio "llwybrau hedfan gwirioneddol" yn yr Arfarniad o Gynaliadwyedd (gweler para. 473 y dyfarniad). <u>Ond yn absenoldeb llwybrau hedfan manwl gywir, dylai'r Ysgrifennydd Gwladol fod wedi defnyddio ardaloedd yn lle hynny, ac nid llwybrau hedfan dangosol</u>. Dibynnodd Mr Pleming ar y dull a ddangosir ym marn yr Adfocad Cyffredinol Kokott yn **D'Oultremont v Région Wallonne** (Achos C-290/15) EU:C:2016:561, pwyntiau 37–45.*
*175. <u>Ni allwn dderbyn yr honiadau hynny.</u> Yn ein barn ni, nid oedd unrhyw beth o'i le ar ddefnydd yr Ysgrifennydd Gwladol o lwybrau hedfan dangosol. Nid oedd yn afresymol nac yn anghyfreithlon mewn unrhyw ffordd arall. Fel y dadleuodd Mr Maurici, roedd yn ddealladwy, am dri rheswm o leiaf. <u>Yn gyntaf, pan oedd yr ANPS yn cael ei baratoi, nid oedd lleoliad, dimensiynau a dyluniad y rhedfa newydd yn derfynol eto</u>. Yn ail, roedd rhaid i'r asesiad o effeithiau sŵn yn yr Arfarniad o Gynaliadwyedd gael ei gynnal cyn y broses statudol ar wahân ar gyfer newid gofod awyr, ac roedd angen gwybod ei ganlyniad. Ac, yn drydydd, roedd y dull a ddefnyddiwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol yn cyd-fynd â dull y Comisiwn Meysydd Awyr wrth gymharu'r tri chynllun ymestyn maes awyr yn ei adroddiad terfynol ym mis Gorffennaf 2015."* (pwyslais wedi'i ychwanegu).

[109] Nid oedd y rhan hon o ddyfarniad y Llys Apêl yn destun apêl i'r Goruchaf Lys ac felly nid yw'r penderfyniad hwnnw'n effeithio arno: [2020] UKSC 52, yn wir, cefnogodd y Goruchuaf Lys yr agwedd hon ar ddadansoddiad y Llys Apêl wrth ystyried y seiliau eraill a oedd ger ei fron.

79. Yr ail gangen gyffredinol o ddeddfwriaeth a rheoliadau amgylcheddol sy'n effeithio ar y prosiect hwn yw honno sy'n ymwneud â gwarchod cynefinoedd, adar a rhywogaethau. Ar lefel yr Undeb Ewropeaidd, mae'n deillio o'r Gyfarwyddeb Cynefinoedd a'r Gyfarwyddeb Adar Gwyllt. [110] [111] Y darn allweddol o ddeddfwriaeth yw Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017 (S.I. 2017/1012) (y "Rheoliadau Cynefinoedd"), fel y'u diwygiwyd.[112] Nid dyma'r adeg ar gyfer adolygiad deddfwriaethol trwyadl. Yn fras, mae'r Rheoliadau Cynefinoedd yn mynnu bod safleoedd yn cael eu dewis a'u dynodi fel Safleoedd Ewropeaidd.[113] Gwneir hyn trwy gyfeirio at ba fathau o gynefinoedd naturiol sydd wedi'u rhestru yn Atodiad I y Gyfarwyddeb Cynefinoedd, a pha rywogaethau sydd wedi'u rhestru yn Atodiad II y Gyfarwyddeb Cynefinoedd, y mae'r safle'n eu cynnal (Rheol.(au) 12-19 y Rheoliadau Cynefinoedd).

80. Pan fydd dynodiad wedi'i roi, mae rheolaethau'n bodoli ynglŷn â chymeradwyo cynlluniau a phrosiectau a allai gael effaith niweidiol ar gyfanrwydd Safle Ewropeaidd (Rhan 6, Rheol.(au) 61-113 y Rheoliadau Cynefinoedd). Mae Rheol. 63 yn mynnu bod asesiad priodol yn cael ei gynnal ar gyfer caniatadau ac ati cyn i'r caniatâd hwnnw gael ei roi, os yw'r cynllun neu'r prosiect yn debygol o gael effaith niweidiol ar gyfanrwydd Safle Ewropeaidd "o ystyried" amcanion cadwraeth y safle hwnnw (Rheol. 63(1)). Ni all awdurdod roi caniatâd os byddai'r prosiect yn cael effaith niweidiol ar gyfanrwydd y Safle Ewropeaidd (yn fyr, p'un a fyddai'n cael effaith niweidiol ar gyfanrwydd safle neu ("AEOSI")). Wrth ystyried p'un a oes AEOSI, mae'n rhaid i'r awdurdod cymwys ystyried y dull arfaethedig o gynnal y prosiect, neu unrhyw amodau neu gyfyngiadau y mae'n bwriadu rhoi'r awdurdodiad yn ddarostyngedig iddynt – hynny yw, unrhyw fesurau lliniaru arfaethedig. Os canfyddir bod AEOSI er gwaethaf unrhyw fesurau lliniaru arfaethedig, mae Rheol. 64 yn caniatáu i'r prosiect barhau mewn rhai amgylchiadau er budd cyhoeddus tra phwysig. (Er mwyn egluro, nid ydym yn dibynnu ar Reol. 64 yma, ond cyfeiriwn ato gan ei fod yn berthnasol i fater rhyngom ni a CNC). Mae Rheol.(au) 63 a 64 yn trosi Erth.(au) 6(3) a (4) y Gyfarwyddeb Cynefinoedd. O dan y darpariaethau hyn, mae gwahaniaeth clir yn y gyfraith rhwng mesurau lliniaru a mesurau digolledu. Gall mesurau lliniaru (h.y. y rhai hynny sy'n "*lleihau effaith negyddol cynllun neu brosiect, gyda'r nod o sicrhau, os oes modd,… nad oes effaith niweidiol ar 'gyfanrwydd y safle'*") gael eu hystyried wrth benderfynu p'un a oes AEOSI o dan Reol. 63. Mewn cyferbyniad, gall mesurau digolledu (h.y. rhai "*nad ydynt yn cyflawni'r nod hwnnw o fewn fframwaith culach y cynllun neu'r prosiect ei hun ond sy'n ceisio gwrthbwyso'r methiant i wneud hynny trwy effeithiau cadarnhaol gwahanol gyda'r bwriad, o leiaf, o osgoi effaith negyddol glir*") gael eu hystyried dim ond o dan Reol. 64: gweler ***Briels v Minister van Infrastructuur en Milieu*** [2014] PTSR 1120, yn ôl yr Adfocad Cyffredinol Sharpston ym mhara. 36.

81. Mae'n werth egluro'r hyn sy'n ofynnol gan asesiad priodol o dan Reol. 63 y Rheoliadau Cynefinoedd. Dywedodd yr Arglwydd Carnwath yn ***R (Champion) v North Norfolk District Council*** [2015] UKSC 52 ym mhara. 41:

[110] Cyfarwyddeb 92/43/EEC y Comisiwn Ewropeaidd (fel y'i diwygiwyd) (Cyf: MDZ/B5)
[111] Cyfarwyddeb 2009/147/EC y Comisiwn Ewropeaidd (fel y'i diwygiwyd) (Cyf: MDZ/B8)
[112] Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau (Diwygio) (Ymadael â'r UE) S.I. 2019/579 (Cyf: MDZ/B10)
[113] Er bod y rheoliadau'n amddiffyn safleoedd Ewropeaidd yn unig.

"*Nid term technegol yw 'priodol'. Mae'n dynodi dim mwy nag y dylai'r asesiad fod yn briodol i'r dasg dan sylw: sef y dasg o fodloni'r awdurdod cyfrifol 'na fydd [y prosiect] yn cael effaith niweidiol ar gyfanrwydd y safle dan sylw' o ystyried y materion a osodwyd yn yr erthygl. Fel y nododd y llys ei hun yn Waddenzee, mae'r cyd-destun yn awgrymu safon uchel o ymchwilio. … mae'r mater yn troi, yn y pen draw, ar farn yr awdurdod. … ni ragnodir unrhyw weithdrefn arbennig, ac er y mynnir safon uchel o ymchwilio, mae'r mater yn troi, yn y pen draw, ar farn yr awdurdod.*"

82. O ran yr hyn y mae'n rhaid iddo fynd i'r afael ag ef, mae'n rhaid iddo (a) gatalogio'r holl fathau o gynefinoedd a rhywogaethau y mae safle wedi'i warchod ar eu cyfer, (b) amlygu ac archwilio goblygiadau'r prosiect i'r rhywogaethau sy'n bresennol ar y safle hwnnw, <u>a'r</u> rhywogaethau hynny sy'n bresennol nad yw'r safle wedi cael ei restru ar eu cyfer, <u>a'r</u> goblygiadau i'r mathau o gynefinoedd a rhywogaethau y tu allan i ffiniau'r safle i'r graddau bod y goblygiadau hynny'n debygol o effeithio ar amcanion cadwraeth y safle, ac c) os yw'r awdurdod cymwys yn gwrthod canfyddiadau barn arbenigol wyddonol sy'n argymell bod gwybodaeth ychwanegol yn cael ei chasglu, cynnwys datganiad penodol a manwl o resymau sy'n gallu dileu pob amheuaeth wyddonol resymol ynglŷn ag effeithiau'r gwaith a ddisgwylir ar y safle dan sylw. Gweler dyfarniad y CJEU yn ***Holohan v An Bord Pleanala (C-461/17)*** [2019] Env L.R. 16, para. 37 ac ymlaen. Dylai hefyd fod wedi'i seilio ar "y wybodaeth wyddonol orau yn y maes".

83. Fodd bynnag, o ran faint o sicrwydd y mae'n rhaid ei ddangos, nid oes gofyniad am sicrwydd llwyr. Mae cyfraith achosion yn dangos yn glir nad oes angen dileu'r holl ansicrwydd gwyddonol er mwyn i asesiad priodol gael ei gwblhau: gweler ***Landelijke Vereniging tot Behoud van de Waddenzee and Another v Staatssecretaris Van Landbouw, Natuurbeheer en Visserij*** [2005] 2 C.M.L.R. 31 yn ôl yr Adfocad Cyffredinol ym mhara. 107. Mae rhywfaint o gyfraith achosion y CJEU yn sôn am yr angen i gael canfyddiadau a chasgliadau cyflawn, manwl gywir a phendant sy'n gallu dileu'r holl amheuon gwyddonol rhesymol ynglŷn ag effaith y gwaith arfaethedig ar y safle a warchodir sydd dan sylw. Fodd bynnag, mae llysoedd Cymru a Lloegr wedi egluro:

"*nid oedd angen sicrwydd llwyr na fyddai effeithiau niweidiol; gallai awdurdod cymwys fod yn sicr na fyddai effeithiau niweidiol er, yn wrthrychol, na phrofwyd sicrwydd llwyr;* ***R (Champion) v Cyngor Dosbarth Gogledd Norfolkl*** *[2015] UKSC 52 yn [41], a* ***Smyth v Yr Ysgrifennydd Gwladol dros Gymunedau a Llywodraeth Leol*** *[2015] EWCA Civ 174 yn [78]*"

(yn ôl Syr Duncan Ouseley a oedd yn eistedd fel Barnwr yr Uchel Lys yn ***Compton v Guildford BC*** [2019] EWHC 3242 (Admin) ym mhara. 207).

84. Archwiliwyd y gwahaniaethau rhwng rhwymedigaethau EIA a Chynefinoedd gan yr Arglwydd Ustus Sullivan yn ***R (An Taisce (National Trust for Ireland)) v Yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ynni a Newid Hinsawdd*** [2015] PTSR 189, ym mhara. 16:

"*Er bod testun Erth.2(1) y Gyfarwyddeb EIA ac Erth.6(3) y Gyfarwyddeb Cynefinoedd yn debyg yn y bôn, a bod y ddwy Gyfarwyddeb yn ymwneud â diogelu'r amgylchedd, mae gwahaniaeth clir rhwng y ddwy Gyfarwyddeb yn fy marn i. <u>Mae cwmpas y Gyfarwyddeb EIA yn bellgyrhaeddol</u>, mae'n sicrhau bod unrhyw brosiect sy'n debygol o gael effeithiau arwyddocaol ar yr amgylchedd yn destun proses o asesu effeithiau amgylcheddol. <u>Nid yw'r Gyfarwyddeb EIA yn</u>*

*rhagnodi pa benderfyniad y mae'n rhaid i'r awdurdod cymwys ei wneud i ganiatáu neu wrthod os daw'r asesiad o effeithiau amgylcheddol i'r casgliad bod y cynnig yn debygol o gael effeithiau arwyddocaol ar yr amgylchedd. Mae ffocws cryfach i'r Gyfarwyddeb Cynefinoedd, mae'n diogelu ardaloedd penodol sy'n bwysig i'r gymuned, a ddiffiniwyd fel "ardaloedd cadwraeth arbennig", ac y mae'n rhaid eu cynnal mewn "statws cadwraeth ffafriol" neu eu hadfer iddo: gweler erthyglau 2 a 3. Er mwyn cyflawni'r nod hwn, mae Erth.6(3) yn mynnu, yn amodol yn unig ar "resymau hanfodol er budd cyhoeddus tra phwysig" (gweler Erth.6(4)), lle y bu "asesiad priodol": bydd yr awdurdodau cymwys yn derbyn y cynllun neu'r prosiect dim ond ar ôl canfod na fydd yn cael effaith niweidiol ar gyfanrwydd y safle dan sylw.*"(pwyslais wedi'i ychwanegu)

85. Yn yr achos hwnnw, parhaodd i ystyried beth yw ystyr "tebygol" o ran y Gyfarwyddeb EIA a'r Gyfarwyddeb Cynefinoedd (sef y rheoliadau perthnasol bellach, wrth gwrs). Amlygwn y pwyntiau canlynol:

(i) O dan y Gyfarwyddeb Cynefinoedd, mae'n rhaid i asesiad priodol gael ei gynnal o brosiect os yw'n "debygol" o gael effaith arwyddocaol ar safle a warchodir (Erth. 6(3) y Gyfarwyddeb Cynefinoedd, sy'n cyfateb i Reol. 63(1) y Rheoliadau Cynefinoedd). Mae'n "debygol" os na ellir ei eithrio (para. 14). Mae hynny'n berthnasol i'r cam 'sgrinio' o'r Rheoliadau Cynefinoedd – rydym yn amlwg wedi mynd heibio i'r cam hwnnw, gan fod Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd wedi cael ei gynnal, felly'r mater dan sylw isod a'r hyn y mae'n rhaid i Weinidogion Cymru fynd i'r afael ag ef yw p'un a fydd yn cael AEOSI ai peidio (Rheol. 63(5) y Rheoliadau Cynefinoedd). Tynnwn sylw at y pwynt "tebygol" yma, nid oherwydd ein bod yn dibynnu arno, ond oherwydd ei fod yn gyferbyniad defnyddiol â "thebygol" o dan y Gyfarwyddeb EIA.

(ii) O dan y Gyfarwyddeb EIA, ar gyfer Datblygiad Atodlen 2, mae'n rhaid asesu p'un a yw'r effaith yn "debygol" o ddigwydd, ac yna p'un a fyddai'n "arwyddocaol" (gweler e.e. Erth. 1(1), a 2(1) y Gyfarwyddeb EIA, Rheol. 3 a'r diffiniad o "ddatblygiad EIA" yn Rheol. 2 Rheoliadau EIA 2017). Mae "tebygol" fan hyn yn golygu "risg go iawn", nid rhywbeth sy'n fwy tebygol na pheidio yn unig (gweler para.(au) 12, 23). Felly, roedd yr achos hwnnw, er enghraifft, yn ymwneud ag adeiladu adweithydd niwclear yn Hinkley Point yng Ngwlad yr Haf. Ni chynhaliodd y Diffynnydd ymgynghoriad trawsffiniol sy'n ofynnol gan Erth. 7 y gyfarwyddeb oherwydd er bod risgiau toddiad (dyweder) yn arwyddocaol, nid oeddent yn "debygol". Cadarnhaodd y Llys Apêl y dull hwnnw yn ***An Taisce***.

86. Mae'n bwysig nodi, o ran y materion adareg, bod achos yr RSPB yn canolbwyntio ar effeithiau – y mae Menter Môn yn dweud y byddant yn rhai mân niweidiol – ar ddwy rywogaeth adar: y poblogaethau gwylogod a llursod sy'n bridio o nythfeydd Ynys Lawd a Phenlas. **Nid** yw'r adar hyn yn nodweddion o unrhyw safle Ewropeaidd perthnasol. Mae'r dystiolaeth yn dangos yn glir na fydd unrhyw effaith ar y poblogaethau adar drycin Manaw sy'n berthnasol i AGAau cyfagos. Nid eir ar ôl unrhyw fater yn ymwneud ag effaith ar frain coesgoch yr AGA ychwaith.

87. Wrth gwrs, wrth ymdrin â bywyd gwyllt, mae dolffiniaid a morfilod eraill yn cael eu gwarchod o dan ddeddfwriaeth arall.[114] Mae gan Lywodraeth Cymru gyfrifoldebau penodol mewn perthynas â Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig

[114] Gweler Proflen Dystiolaeth Dr Learmonth ym mhara.(au) 4.9 – 4.12 (Cyf: MDZ/P2).

("SoDdGAau") o dan a. 28G *Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981*. Mae gan awdurdod y mae'r adran hon yn berthnasol iddo ddyletswydd "…i gymryd camau rhesymol, sy'n gyson ag arfer swyddogaethau'r awdurdod yn briodol, i hybu cadwraeth a gwelliant y fflora, y ffawna neu'r nodweddion daearegol neu ffisiograffig y mae'r safle o ddiddordeb gwyddonol arbennig o'u herwydd". Amlygwn fan hyn fod y rhywogaethau allweddol sydd o bryder i'r RSPB yn yr ymchwiliad hwn, sef gwylogod a llursod, yn gysylltiedig â SoDdGA Glannau Ynys Gybi, ond nid yw'r naill rywogaeth na'r llall wedi'u nodi fel nodweddion o ddiddordeb ar gyfer dynodiad y safle ac nid yw'r poblogaethau o'r rhywogaethau hyn yn y safle yn rhan o AGAau nac yn gysylltiedig â nhw.[115] Felly, nid oes gwaharddiad ar roi caniatâd (e.e. fel o dan Reol. 63 / Erth. 6(3)) beth bynnag fo'r effeithiau ar y rhywogaethau hyn, er bod y rhain yn ystyriaethau perthnasol, wrth gwrs.

Amlen Dylunio Prosiect

88. Fel yr ydym eisoes wedi nodi, mae natur parth arddangos yn golygu bod angen ceisio caniatâd ar gyfer PDE. Mae'n dra chyfarwydd bod ceisio caniatâd cynllunio ar gyfer cydsyniad amlinellol yn gallu cael ei gysoni â'r angen i gynnal EIA. Gosodwyd hyn gan y Barnwr Sullivan yn ***Milne (No. 2)***. Cydnabu ym mhara.(au) 89-90, pan ddisgwylir i brosiect esblygu dros gyfnod o flynyddoedd, nad oes rheswm pam na ddylai "disgrifiad o'r prosiect" gydnabod y ffaith honno, ar yr amod ei fod yn rhoi ystyriaeth lawn i oblygiadau'r angen hwn am hyblygrwydd i'r amgylchedd – yr awdurdod perthnasol sydd i benderfynu p'un a yw'r anawsterau a'r ansicrwydd yn annerbyniol o ran ei effaith bosibl ar yr amgylchedd.[116] Mae angen digon o wybodaeth i alluogi'r prif effeithiau neu'r effeithiau arwyddocaol tebygol i gael eu hasesu a'r mesurau lliniaru i gael eu disgrifio.[117] Yn ***Milne (No. 2)***, roedd y

---

[115] Gweler Proflen Dystiolaeth Dr Grant ym mhara. 4.4 (Cyf: MDZ/P1).

[116] Dyma'r darn yn ei gyfanrwydd:
*"89. Gan fod y "disgrifiad o'r prosiect" sy'n ofynnol gan Erthygl 5(2) yn fodd o gyflawni hynny, yn yr ystyr ei fod yn rhoi'r man cychwyn ar gyfer y broses asesu, nid oes rheswm i gredu bod y gyfarwyddeb yn ceisio bod yn rhy ragnodol ynglŷn â beth fyddai'n gyfystyr â disgrifiad priodol o brosiect penodol. Mae'r gofyniad yn Erthygl 5(2) (gweler tudalen 89C i E) i ddarparu "gwybodaeth am safle, dyluniad a maint y prosiect" yn ddigon hyblyg, o fwriad, i ganiatáu ar gyfer nodweddion penodol y gwahanol fathau o brosiectau a restrir yn atodiadau I a II (Atodlenni 1 a 2 i'r rheoliadau asesu). Fe allai fod yn bosibl darparu mwy neu lai o wybodaeth am y safle, y dyluniad a'r maint, yn dibynnu ar natur y prosiect sydd i'w asesu.*
*90. Os nad yw prosiect o fath penodol, fel prosiect datblygu ystad ddiwydiannol (neu efallai prosiect datblygu trefol), yn bendant ar y dechrau, oherwydd ei natur, ond disgwylir iddo esblygu dros nifer o flynyddoedd yn dibynnu ar alw'r farchnad, nid oes rheswm pam na ddylai "disgrifiad o'r prosiect" at ddibenion y gyfarwyddeb gydnabod y realiti hwnnw. Yr hyn sy'n bwysig yw y dylai'r broses asesu amgylcheddol roi ystyriaeth lawn ar y dechrau i oblygiadau'r angen hwn am elfen o hyblygrwydd i'r amgylchedd. Mae'n ddigon posibl y bydd y broses asesu'n haws yn achos prosiectau y mae eu holl fanylion yn "bendant" o'r dechrau, ond nid yw anhawster asesu prosiectau y mae angen rhywfaint o hyblygrwydd arnynt yn rheswm dros rwystro eu gweithredu. Yr awdurdod sy'n gyfrifol am roi caniatâd datblygu (yr awdurdod cynllunio lleol neu'r Ysgrifennydd Gwladol yn Lloegr) sydd i benderfynu p'un a yw'r anawsterau a'r ansicrwydd mor fawr fel nad yw'r graddau arfaethedig o hyblygrwydd yn dderbyniol o ran ei effaith bosibl ar yr amgylchedd."*

[117] Gweler para 104: "*Os gofynnir "faint o wybodaeth am safle, dyluniad, maint neu raddfa'r datblygiad sy'n ofynnol i fod o fewn 'disgrifiad o'r datblygiad a gynigir' at ddibenion paragraff 2(a)?", mae'n rhaid mai'r ateb yw: digon o wybodaeth i alluogi'r "prif" effeithiau neu'r effeithiau "arwyddocaol tebygol" ar yr amgylchedd i gael eu hasesu o dan baragraffau 2(b) ac (c), ac i'r mesurau lliniaru gael eu disgrifio o dan baragraff 2(d)*."

datganiad amgylcheddol wedi ystyried yr effeithiau amgylcheddol gwaethaf a allai godi o'r prosiect. Roedd y Barnwr Sullivan o'r farn bod hyn yn gwbl dderbyniol.[118] Y pwyntiau pwysig yw bod y cais (1) yn cydnabod yr angen i fanylion esblygu dros nifer o flynyddoedd o fewn paramedrau a ddiffiniwyd yn eglur, (2) bod yr asesiad amgylcheddol yn ystyried yr angen hwnnw ac yn adlewyrchu effeithiau arwyddocaol tebygol prosiect o'r fath yn y datganiad amgylcheddol, a (3) bod yr awdurdod yn gosod amodau i sicrhau bod y broses esblygu'n aros o fewn y paramedrau yr ymgeisiwyd amdanynt ac a aseswyd.

89. Wrth gwrs, er nad ydym yn ymdrin fan hyn â chydsyniad amlinellol yn y ffordd y byddai rhywun yn meddwl am ganiatâd cynllunio "amlinellol", cymhwysir yr un dull i brosiectau seilwaith mawr lle y bydd y manylion yn esblygu dros amser ac na ellir eu gosod yn bendant ar yr adeg cydsynio. Mae Nodyn Canllaw PINS ar ***Rochdale*** [119] yn berthnasol yma hefyd, er ei fod yn canolbwyntio ar Ddeddf 2008. Mae'n esbonio:

> "*1.2 Defnyddir y dull 'Amlen Rochdale' pan fydd natur y Datblygiad Arfaethedig yn golygu nad yw rhai o fanylion y prosiect cyfan wedi cael eu cadarnhau (er enghraifft, union ddimensiynau strwythurau) ar adeg cyflwyno'r cais, a cheisir hyblygrwydd i fynd i'r afael ag ansicrwydd. Defnyddiwyd dull o'r fath mewn cyfundrefnau caniatáu eraill (Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 a Deddf Trydan 1989) lle y gwnaed cais ar adeg pan nad oedd manylion y prosiect wedi cael eu cadarnhau.*[120]
>
> *1.3 Amlygir yr angen am hyblygrwydd mewn nifer o Ddatganiadau Polisi Cenedlaethol (NPS) sy'n awgrymu Amlen Rochdale fel dull o fynd i'r afael ag ansicrwydd sy'n gysylltiedig â'r Datblygiad Arfaethedig* …".

90. Mae NPS EN-1 yn esbonio bod "*"Amlen Rochdale" yn gyfres o rychwantau mwyaf prosiect y sefydlir yr effeithiau arwyddocaol ar eu cyfer. Yna, gall dyluniad manwl y prosiect amrywio o fewn yr 'amlen' hon heb wneud yr ES yn annigonol*".[121] Yn yr un modd, mae NPS EN-3 yn dweud yng nghyd-destun gwynt (ond mae'r un peth yn fwy perthnasol i ynni'r llanw o ystyried pa mor gychwynnol ydyw) bod "*gweithredwyr ffermydd gwynt yn annhebygol o wybod pa dyrbinau yn union a fydd yn cael eu caffael ar gyfer y safle tan beth amser ar ôl i unrhyw ganiatâd gael ei roi*".[122]

91. Mae'n dweud pan geisir hyblygrwydd ac ni wyddys yr union fanylion, "*dylai'r ymgeisydd asesu'r effeithiau y gallai'r prosiect eu cael… i sicrhau bod y prosiect fel y gallai gael ei adeiladu wedi cael ei asesu'n briodol (Amlen* ***Rochdale****). Yn y modd hwn, bydd y senario achos niweidiol gwaethaf yn cael ei asesu a dylai'r Comisiwn Cynllunio Seilwaith (IPC) ganiatáu ar gyfer yr ansicrwydd hwn wrth ystyried y cais a chaniatâd*". Esbonnir amlen ***Rochdale*** fel "*cyfres o rychwantau mwyaf prosiect y*

[118] Gweler para. 122: "*Mae'r gyfarwyddeb a'r rheoliadau'n cydnabod yr ansicrwydd sy'n gysylltiedig ag asesu effeithiau arwyddocaol tebygol, yn enwedig rhai'r prosiectau mawr, a allai gymryd blynyddoedd lawer i ddod i'r amlwg. Efallai bydd yr asesiad yn dod i'r casgliad y gallai effaith benodol ddod o fewn ystod eithaf eang. Wrth asesu'r effeithiau "tebygol", mae'n gwbl gyson ag amcanion y gyfarwyddeb i ddefnyddio dull "achos gwaethaf" gochelgar. Yna, bydd dull o'r fath yn bwydo i'r mesurau lliniaru a ddisgwylir o dan baragraff 2(c). Mae'n bwysig y dylent fod yn ddigonol i ymdrin â'r achos gwaethaf, er mwyn optimeiddio effeithiau'r datblygiad ar yr amgylchedd*".

[119] Cyf: MDZ/D14

[120] Gellid ei ddefnyddio hefyd yng nghyd-destun y TWA.

[121] Cyf: MDZ/D2, Troednodyn 78

[122] Cyf: MDZ/D3

*sefydlir yr effeithiau arwyddocaol ar eu cyfer. Yna, gall dyluniad manwl y prosiect amrywio o fewn yr 'amlen' hon heb wneud yr ES yn annigonol"* [123].

92. Fel y nodwyd eisoes uchod, cefnogir defnyddio amlen ***Rochdale***/ PDE yn benodol hefyd yn Adroddiad Gweithdy Parthau Arddangos Tonnau a Llanw y Deyrnas Unedig[124] - dogfen ar y cyd a gynhyrchwyd gan Lywodraeth Cymru, CNC ac Ystad y Goron, ymhlith eraill. Mae'n dweud bod ei chanfyddiadau allweddol yn cynnwys:

"*Defnyddio Amlen Rochdale*

- *Mae defnyddio amlen dylunio prosiect neu Amlen Rochdale yn gyffredin mewn ceisiadau ar gyfer prosiectau tonnau a ffrwd lanw.*
- *Mae defnyddio amlen dylunio a ddiffiniwyd yn dda sy'n gwahaniaethu'n glir rhwng gwybodaeth sy'n berthnasol i wahanol dechnolegau a gwahanol elfennau o'r prosiect yn caniatáu hyblygrwydd i ymdopi â datblygiadau yn y dyfodol a gwahanol baramedrau technegol.*
- *Os na ddefnyddir yr amlen yn gadarn, fe all achosi risgiau i'r broses ganiatáu a hefyd wrth gyflawni prosiectau ar y safle ar ôl rhoi caniatâd.*
- *Mae'r ddealltwriaeth o hanes yr amlen a goblygiadau llawn y defnydd ohoni'n amrywio ac mae'r disgrifiadau o brosiectau mewn asesiadau o effeithiau amgylcheddol (EIAs) yn adlewyrchu hyn.*
- *Nid yw'r gair 'Rochdale' yn berthnasol iawn i brosiectau morol ac roedd y rhai a gymerodd ran yn y gweithdy o'r farn bod 'amlen dylunio prosiect' yn derm mwy addas i'w ddefnyddio. Defnyddir y termau'n gyfnewidiol ar hyn o bryd.*
- *Mae amlenni dylunio prosiect wedi cael eu defnyddio mewn sectorau eraill a gallai profiad o'r rhain fod o fudd i'r diwydiant tonnau a ffrwd lanw."*

93. Honnwn fod dull PDE yr un mor dderbyniol o dan y Rheoliadau Cynefinoedd. Efallai bod yr hyn y mae'n rhaid i'r awdurdod ei asesu yn wahanol ac yn defnyddio trothwyon gwahanol (fel yr amlinellir uchod), ond nid oes unrhyw beth andwyol i'r Rheoliadau Cynefinoedd trwy geisio asesu paramedrau achos gwaethaf prosiect mewn fformat PDE. Byddai penderfynu fel arall yn lladd unrhyw ddatblygiadau ger Safleoedd Ewropeaidd y gallai fod angen iddynt esblygu dros amser. A chefnogir y farn hon yn bendant gan CNC yn y cyd-destun penodol hwn yn *Diffinio amlenni prosiect ar gyfer prosiectau ynni'r môr: adolygiad ac astudiaeth achos cyfleuster profi ynni'r llanw a mamaliaid môr*[125]: gweler uchod.

*Dibyniaeth ar gyfundrefnau caniatáu eraill*

94. Pan fydd angen caniatâd ar gyfer datblygiad o dan fwy nag un gyfundrefn, cydnabuwyd ers tro y caiff y penderfyniad dybio y bydd awdurdod rheoleiddio dilynol yn gweithredu'n gymwys. Ym ***Milne (Rhif 2)***, dywedodd y Barnwr Sullivan ym mhara. 128:

"*128. Bydd unrhyw brosiect datblygu mawr yn destun nifer o reolaethau manwl, nad ydynt i gyd wedi'u cynnwys yn y caniatâd cynllunio. Bydd allyriadau i'r aer,*

[123] Cyf: MDZ/D3, Troednodyn 23
[124] Cyf: MDZ/D13
[125] Cyf: MDZ/F15

*gollyngiadau i ddŵr, gwaredu'r gwastraff a gynhyrchir gan y prosiect, oll yn ddarostyngedig i reolaethau o dan ddeddfwriaeth sy'n ymdrin â diogelu'r amgylchedd. Wrth asesu effeithiau amgylcheddol arwyddocaol tebygol prosiect, mae gan awduron y datganiad amgylcheddol a'r awdurdod cynllunio lleol yr hawl i ddibynnu ar yr awdurdod cyfrifol i weithredu'r rheolaethau hynny gyda graddau rhesymol o gymhwysedd: gweler, er enghraifft, y tybiaethau a wnaed mewn perthynas ag effeithiau adeiladu, uchod. Dylid defnyddio'r un dull o ran pŵer yr awdurdod cynllunio lleol i gymeradwyo materion a gedwir yn ôl. Gall camgymeriadau ddigwydd mewn unrhyw system o reolaethau manwl, ond y bwriad yw amlygu a lliniaru "effeithiau arwyddocaol tebygol" prosiect mawr, nid pob effaith bosibl, ni waeth pa mor fach neu annhebygol."*

95. Ystyriwyd hyn wedi hynny gan ***Smith v Yr Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd, Trafnidiaeth a'r Rhanbarthau*** [2003] Env LR 32, [33]:

"*33. Yn fy marn i, egwyddor bwysig arall yw pan fydd ystyriaeth yn cael ei rhoi i'r effaith ar yr amgylchedd yng nghyd-destun penderfyniad cynllunio, caniateir i'r penderfynwr ystyried y penderfyniadau tebygol y bydd eraill yn eu gwneud mewn perthynas â manylion pan fydd buddiannau'r amgylchedd yn un o amcanion y rhai eraill hynny. Fodd bynnag, nid oes gan y penderfynwr yr hawl i adael asesu effaith debygol i adeg yn y dyfodol dim ond oherwydd ei fod yn ystyried y bydd y penderfynwr yn y dyfodol yn gweithredu'n gymwys. Mae'n rhaid gosod cyfyngiadau ar y caniatâd cynllunio y gellir cytuno ar fanylion yn y dyfodol oddi mewn iddynt, ac mae'n rhaid i'r penderfynwr ffurfio barn ynglŷn â'r manylion tebygol a'u heffaith ar yr amgylchedd.*" (pwyslais wedi'i ychwanegu).

96. Yn ***R (Hereford Waste Watchers Ltd) v Herefordshire CC*** [2005] Env LR 29, dywedodd y Barnwr Elias:

"*34. Felly, byddwn yn crynhoi'r egwyddorion perthnasol sydd ar waith yma, fel y maent yn deillio o Smith a Gillespie a'r penderfyniadau y cyfeiriant atynt, fel a ganlyn:*

*1. Mae penderfynu p'un a oes gan broses neu weithgaredd effeithiau amgylcheddol arwyddocaol yn fater i'r awdurdod cynllunio farnu arno. Wrth wneud y dyfarniad hwnnw, mae'n rhaid bod ganddo ddigon o fanylion am natur y datblygiad, ei effaith ar yr amgylchedd ac unrhyw fesurau lliniaru.*

*2. Yn yr un modd, yr awdurdod cynllunio sydd i benderfynu p'un a oes ganddo ddigon o wybodaeth i'w alluogi i wneud y dyfarniad perthnasol. Nid oes angen iddo fod â'r holl ddeunydd sydd ar gael ar yr amod ei fod yn fodlon bod ganddo ddigon i allu gwneud penderfyniad clir.*

*3. Wrth wneud y penderfyniad hwnnw, gall yr awdurdod cynllunio ystyried y mesurau lliniaru ar yr amod eu bod yn ddigon penodol, eu bod ar gael ac nad oes gwir amheuaeth ynglŷn â'u heffeithiolrwydd. Fodd bynnag, po fwyaf soffistigedig yw'r mesurau lliniaru a pho fwyaf dadleuol yw eu heffeithiolrwydd, y mwyaf anodd y bydd i'r awdurdod benderfynu nad yw'r effeithiau'n debygol o fod yn arwyddocaol.*

*4. Os yw'r awdurdod yn ansicr ynglŷn â'r effeithiau, i'r graddau nad yw'n sicr p'un a allent fod yn arwyddocaol ai peidio, dylai naill ai geisio gwybodaeth ychwanegol gan y datblygwr cyn dod i gasgliad neu, os yw ES eisoes wedi cael ei ddarparu, dylai fynnu atodiad i'r ES sy'n darparu'r data a'r wybodaeth*

*angenrheidiol. Ni all geisio rheoleiddio unrhyw anawsterau posibl yn y dyfodol trwy osod amodau yn unig.*

*5. Ni all yr awdurdod anwybyddu'r angen am wybodaeth ychwanegol oherwydd nad yw'n sicr p'un a oes effeithiau amgylcheddol arwyddocaol ai peidio, ond hyd yn os oes, bydd asiantaethau gorfodi eraill yn sicrhau bod camau'n cael eu cymryd i atal llygredd amhriodol. Fodd bynnag, dylai dybio y bydd asiantaethau eraill yn gweithredu'n gymwys ac ni ddylai, felly, ddisgwyl problemau neu anawsterau oherwydd efallai na fydd y cyfryw asiantaethau'n gwneud hynny*."

97. Ailadroddwyd hyn yn ***Atkinson v Yr Ysgrifennydd Gwladol dros Drafnidiaeth***. Roedd hwnnw'n ymwneud â TWAO a roddwyd ar gyfer adeiladu twnnel. Yn dilyn yr ymchwiliad, cymerodd yr Ysgrifennydd Gwladol yn ganiataol, yn rhannol, y gallai'r deunyddiau gael eu cloddio, eu trin a'u gwaredu heb niweidio iechyd a diogelwch y cyhoedd, gan dderbyn barn Asiantaeth yr Amgylchedd bod y gweithdrefnau statudol ar gyfer rheoleiddio'r gweithgareddau hyn, o'u hystyried gyda'r amodau cynllunio arfaethedig yn ymwneud â rheoli gwastraff, yn ddigonol. Ni ellid nodi ar y cam hwnnw pa safleoedd glanio a llwybrau cludo yn union y gellid eu defnyddio. Tynnwn sylw at baragraffau 25 ac ymlaen, sy'n ymwneud â dibyniaeth ar weithdrefnau dilynol wrth roi caniatâd o dan TWAO. Mae'n ystyried ***Smith*** a ***Rochdale***. Tynnwn sylw yn arbennig at bara. 29, sy'n debyg i hwnnw yr ydym eisoes wedi'i ddyfynnu yn ***Hereford Waste Watchers Ltd***:

> "*29. Mae'r sefyllfa, felly, yn ôl yr hyn a ddeallaf, fel a ganlyn. Mae'n rhaid i'r penderfynwr wneud ei benderfyniad yng ngoleuni datganiad amgylcheddol sy'n disgrifio effeithiau arwyddocaol tebygol y prosiect a'r mesurau a gymerir i osgoi, lleihau neu unioni unrhyw effeithiau niweidiol arwyddocaol. Wrth benderfynu p'un a yw'r datganiad yn rhoi'r disgrifiad angenrheidiol, nid oes ganddo'r hawl, mewn perthynas ag ardal benodol o effaith bosibl, i farnu nad oes angen ystyried p'un a oes effeithiau arwyddocaol yn debygol yn yr ardal honno, neu beth fyddant neu ba fesurau lliniaru sy'n angenrheidiol, dim ond oherwydd y bydd angen caniatâd dilynol gan ryw gorff cyfrifol arall. Fodd bynnag, mae ganddo'r hawl i ddod i'r casgliad, ar sail y gyfryw wybodaeth sydd ganddo sy'n berthnasol i'r ardal benodol o effaith bosibl, ac yng ngoleuni'r angen am ganiatâd dilynol gan y corff cyfrifol arall, bod yr effeithiau yn yr ardal honno'n annhebygol o fod yn arwyddocaol neu y bydd mesurau lliniaru priodol yn cael eu cymryd. Hynny yw, mae'n rhaid bod ganddo rywfaint o wybodaeth ger ei fron sydd, ynghyd â'r angen am ganiatâd dilynol, yn ei alluogi i ddod i'r casgliad na fydd yr effeithiau'n arwyddocaol neu y bydd mesurau lliniaru priodol yn cael eu cymryd. Fel y dywedodd y Barnwr Sullivan ym Milne (ym mhara. 114) mewn perthynas â materion a gedwir yn ôl mewn caniatâd cynllunio:*
>
> > *"Mae gan yr awdurdod cynllunio lleol yr hawl i ddweud, 'Mae gennym ddigon o wybodaeth am ddyluniad y prosiect hwn i'n galluogi i asesu ei effeithiau arwyddocaol tebygol ar yr amgylchedd. Nid oes arnom angen manylion y materion a gedwir yn ôl oherwydd ein bod yn fodlon nad yw'r cyfryw fanylion, ar yr amod y cânt eu rheoli'n ddigonol gan amod, yn debygol o gael unrhyw effaith arwyddocaol.'"*
>
> *30. Byddai dibyniaeth yr Ysgrifennydd Gwladol ar yr angen i gael caniatadau dilynol wedi bod yn anghyfreithlon yn unig, yn fy marn i, pe na byddai gwybodaeth wedi bod ger ei fron a oedd, ynghyd â'r angen am y cyfryw*

*ganiatadau, yn ei alluogi i wneud y penderfyniad a wnaeth. Felly, mae'r cwestiwn yn troi ar ddigonolrwydd y wybodaeth*."

98. Tra ein bod ni yma, mae hefyd yn werth nodi'r hyn y bydd yn rhaid i Wasanaeth Rheoleiddio CNC ei ystyried wrth benderfynu p'un ai rhoi ML. Yn ôl a. 69(1) MCAA 2009:

"(*1) Wrth benderfynu ar gais am drwydded forol (gan gynnwys y telerau ar gyfer ei rhoi a pha amodau, os o gwbl, sydd i'w gosod arni), mae'n rhaid i'r awdurdod trwyddedu priodol roi ystyriaeth i'r canlynol—*

*(a) yr angen i ddiogelu'r amgylchedd,*

*(b) yr angen i ddiogelu iechyd pobl,*

*(c) yr angen i atal ymyrryd â defnyddiau cyfreithlon o'r môr,*

*a'r cyfryw faterion eraill sy'n berthnasol ym marn yr awdurdod*."

99. Rhoddwyd ystyriaeth yn ddiweddar i ba rwymedigaethau yn union y mae hyn yn eu golygu i CNC yn ***Powell*** (gweler uchod) ym mhara.(au) 80 ac ymlaen. Felly, bydd ystyriaethau amgylcheddol ar frig meddwl CNC.

*Casgliad*

100. Roedd yr esboniad hwnnw o'r egwyddorion cyfreithiol rywfaint yn hirach nag arfer mewn sylwadau i gloi. Fodd bynnag, gobeithir y bydd y gwrandawiad hwn wedi taflu goleuni ar yr egwyddorion sy'n sail i rai o'r pwyntiau allweddol y dadleuir yn eu cylch. Yn erbyn y cefndir hwnnw y trown at y prif faterion a amlygwyd gan yr Arolygydd.

## Y prif faterion

### 1. Cefndir polisi a deddfwriaethol y cynnig

101. Mae dau brif fater o dan y pennawd hwn – cefndir polisi a deddfwriaethol y cynnig hwn, a'r berthynas rhwng yr amryw gyfundrefnau rheoleiddiol. Ystyriwn y ddau yn eu tro.

*Cefnogaeth bolisi a deddfwriaethol i'r cynnig*

102. Darparwyd rhestr ddarllen hanfodol yn adran 1.4 Proflen Dystiolaeth Mr Bell.[126] Amlinellir ei dystiolaeth ynglŷn â'r gefnogaeth bolisi i'r prosiect hwn yn fanwl yno, fe'i trafodwyd yn ei dystiolaeth lafar ac, fel y nodwyd eisoes, ni heriwyd ei dystiolaeth o gwbl er y'i cynigiwyd ar gyfer croesholi. Diweddarodd hyn gyda dau nodyn gan fod cefnogaeth bolisi ychwanegol wedi dod i'r amlwg yn ystod yr ymchwiliad.[127] Felly, mae'n ddiogel dibynnu ar ei gasgliadau bod cefnogaeth bolisi gref i'r prosiect hwn.

(i) Cefndir y Polisi Newid yn yr Hinsawdd ac Ynni

103. Nid yw'n syndod bod gorchmynion polisi i leihau'r newid yn yr hinsawdd ar lefel ryngwladol, Ewropeaidd, y Deyrnas Unedig a Chymru. Fel y dywed Mr Bell ym mhara. 4.1.2 ei Broflen Dystiolaeth, "*mae cefnogaeth bolisi ddiamwys, glir a chyson ar bob lefel, o'r rhyngwladol i'r lleol, ar gyfer defnyddio ynni adnewyddadwy yn gyffredinol i fynd i'r afael â gwresogi byd-eang, amrywiaethu'r cymysgedd o ffynonellau ynni, cyflawni mwy o sicrwydd o ran cyflenwad, a chyrraedd targedau ynni adnewyddadwy a lleihau allyriadau sy'n gyfreithiol gyfrwymol.*" Yn rhyngwladol, amlinellir y deunyddiau perthnasol ym mhroflen Mr Bell, ond yn enwedig Cytundeb Paris (12 Rhagfyr 2015) sy'n gorfodi pleidiau i gyrraedd brig allyriadau nwyon tŷ gwydr yn fyd-eang cyn gynted â phosibl. Mae'r Cytundeb hwn bellach yn bwydo i dargedau deddfwriaethol Llywodraeth y Deyrnas Unedig a Llywodraeth Cymru ar gyfer 2050.

104. Amlinellir targedau ar lefel Ewropeaidd ym mhara. 4.2.9 (ac ymlaen) proflen Mr Bell. Unwaith eto, cyfeiriwn at yr holl gyfeiriadau, ond amlygwn yn arbennig Gyfarwyddeb Ynni Adnewyddadwy 2018, sy'n sefydlu targed ynni adnewyddadwy cyfrwymol i'r Undeb Ewropeaidd ar gyfer 2030 o gynhyrchu o leiaf 32% o ynni o ffynonellau adnewyddadwy. Ar gyfer y Deyrnas Unedig, mae'r rhwymedigaethau'n cynnwys bod 15% o'r holl ynni a ddefnyddir yn y Deyrnas Unedig yn dod o ffynonellau adnewyddadwy erbyn 2020. Yn seiliedig ar yr ystadegau diweddaraf (Gorffennaf 2020) gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig, y sefyllfa bresennol yw bod y Deyrnas Unedig ymhell i ffwrdd o'r targed hwnnw ar ddiwedd 2019 – 12.3% yn unig. Er mai targedau Ewropeaidd yw'r rhain, fel yr esboniwyd uchod, mae Deddf Ymadael 2018 yn trosi deddfau, rheolau a thargedau'r Undeb Ewropeaidd yn gyfraith ddomestig y Deyrnas Unedig. Felly, ni ellir osgoi'r targedau hyn.

[126] Cyf: MDZ/P9
[127] Cyf: Dogfen Ymchwiliad – 014 a Cyf: Dogfen Ymchwiliad – 046

105. Amlinellir sefyllfa bolisi'r Deyrnas Unedig yn adran 4.3 proflen Mr Bell. Y cyfan a wnawn yma yw amlygu rhai pwyntiau allweddol:

(i) Cyhoeddwyd adroddiad pwysig CCC ar "*Sero-Net*" ym mis Mai 2019. Roedd yn argymell bod y Deyrnas Unedig yn cyrraedd y targed sero-net erbyn 2050, a bod Cymru yn lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr 95% erbyn 2050. Dywedwyd y byddai hyn yn cyflawni'r rhwymedigaethau a wnaed yng Nghytundeb Paris.

(ii) Yn fuan wedi hynny, diwygiodd y Deyrnas Unedig Ddeddf Newid yn yr Hinsawdd 2008, sydd bellach yn mynnu bod allyriadau nwyon tŷ gwydr yn cael eu lleihau 100% erbyn 2050.

(iii) Yn fwy diweddar, rhoddodd adroddiad blynyddol y CCC i Senedd y Deyrnas Unedig (Mehefin 2020)[128] gyngor i Lywodraeth y Deyrnas Unedig ar sicrhau adferiad gwyrdd a chryf yn dilyn y pandemig COVID-19. Hoffem amlygu'r rhan ganlynol yn benodol, a dynnwyd o'r Crynodeb Gweithredol:

> "*Mae'n rhaid i ddewisiadau yn y misoedd i ddod lywio adferiad sy'n sbarduno gweithgarwch economaidd newydd hollbwysig, sy'n cyflymu ein newid i Sero-Net ac sy'n cryfhau ein gwydnwch i effeithiau'r newid yn yr hinsawdd. Gall uchelgais hinsawdd domestig y Deyrnas Unedig fod yn sail i arweinyddiaeth ryngwladol y Deyrnas Unedig yn 2021, yn sgil Llywyddiaeth uwchgynhadledd hinsawdd ohiriedig y Cenhedloedd Unedig yn Glasgow (COP26) a Llywyddiaeth G7. Mae'n 12 mis ers i Sero-Net ddod yn gyfraith, gan fynnu bod y Deyrnas Unedig yn lleihau allyriadau net nwyon tŷ gwydr i sero erbyn 2050. Mae camau cychwynnol wedi cael eu cymryd tuag at becyn polisi sero-net, ond ni fu'r flwyddyn o gynnydd mewn polisi y galwodd y Pwyllgor amdani yn 2019.*
>
> *Mae Sero-Net wedi cael ei fabwysiadu fel un o nodau allweddol y Llywodraeth ……ond nid ydym yn gwneud digon o gynnydd wrth baratoi ar gyfer y newid yn yr hinsawdd. Mae gohirio COP26 tan fis Tachwedd 2021 yn rhoi cyfle i fynd i'r afael â'r diffyg polisi hwn a chreu sefyllfa gredadwy sy'n arwain y ffordd yn rhyngwladol*" [129]

I gyflawni llwyddiant, mae allyriadau sero-net a gwell cydnerthedd o ran yr hinsawdd yn allweddol i'r adferiad ar ôl COVID-19. Mae pwysau economaidd a chymdeithasol newydd, ond gall buddsoddi yn yr hinsawdd helpu i greu swyddi ac ysgogi'r adferiad economaidd, ar yr un pryd â newid trywydd allyriadau'r Deyrnas Unedig a gwella ein gallu i wrthsefyll y newid yn yr hinsawdd yn y degawd i ddod a thu hwnt:

> "*mae'r adferiad economaidd o [COVID-19] yn rhoi cyfle i'r Deyrnas Unedig aildyfu mewn ffordd sy'n addas i'r dyfodol carbon isel y mae'n dyheu amdano, ac sy'n gallu elwa o'r datblygiadau diwydiannol ac economaidd a gynigir gan y dyfodol hwn.*" [130]

(iv) Safbwynt diamwys Llywodraeth y Deyrnas Unedig, yn ei hymateb i adroddiad cynnydd y CCC,[131] yw y bydd cyflawni allyriadau sero-net yn gofyn am leihau

[128] Cyf: MDZ/D8
[129] Cyf: MDZ/D8 tud.13
[130] Cyf: MDZ/D8 tud.16, Blwch 1
[131] Cyf: MDZ/D50

allyriadau ar draws yr economi ar raddfa na welwyd mohoni o'r blaen. Mae'r Crynodeb Gweithredol yn datgan:

> "*mewn unrhyw senario posibl, bydd cyflawni sero-net yn gofyn am leihau allyriadau ar draws yr economi ar raddfa na welwyd mohoni o'r blaen; bydd defnyddio technolegau a dulliau sydd eisoes yn bodoli mewn ffordd uchelgeisiol a chynnar; ac arloesi mewn technolegau newydd… yn ein galluogi i wrthbwyso allyriadau o sectorau na allant ddatgarboneiddio'n llwyr".*[132] Amcan y llywodraeth yw "*cyflawni gostyngiadau mewn allyriadau ar raddfa sy'n…cynyddu'r cyfleoedd economaidd i'r Deyrnas Unedig gymaint â phosibl, trwy ddefnyddio technolegau glân yn y wlad hon yn ogystal â thrwy wireddu cyfleoedd allforio yn yr hyn sy'n addo bod yn farchnadoedd rhyngwladol mawr a chynyddol mewn technolegau a gwasanaethau carbon isel*" [133]

(v) Ers i'r ymchwiliad agor, cododd fwy o faterion yr oedd Mr Bell o'r farn eu bod yn berthnasol i'r adran hon: adroddiad *Cyflawni Sero-Net* (2020) y Swyddfa Archwilio Genedlaethol; targed newydd y Llywodraeth o leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr 68% o lefelau 1998 erbyn 2030; y Papur Gwyn newydd ar ynni; chweched Gyllideb Garbon y CCC; dogfen y CCC *Y llwybr tuag at Sero-Net a lleihau allyriadau yng Nghymru*; cyhoeddiad Llywodraeth y Deyrns Unedig ynglŷn â Bargen Twf y Gogledd; a Gorchymyn Caniatâd Datblygu (DCO) Fferm Wynt ar y Môr Hornsea Three. Roedd Mr Bell o'r farn bod y rhain yn cefnogi ei gasgliadau ymhellach, ac mae wedi cyflwyno dau nodyn i'r perwyl hwn. [134]

106. Gan droi at bolisi ynni Llywodraeth Cymru, cyfeiriwn unwaith eto at adran 4.4 proflen Mr Bell, lle mae'n sôn am ddarpariaethau polisi a statudol allweddol gan gynnwys Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015[135] ("Deddf 2015"), Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016[136] ("Deddf 2016") a *Ffyniant i Bawb, Cymru Carbon Isel* (2019).[137]

107. Dilynodd y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol gyfnod ymgynghori helaeth o'r enw Sgwrs Genedlaethol. Mae adran 3(1) Deddf 2015 yn mynnu bod cyrff cyhoeddus yn cynnal "datblygu cynaliadwy", a ddiffinnir yn a.2 fel "*y broses o wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru trwy weithredu, yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy (gweler adran 5), gyda'r amcan o gyflawni'r nodau llesiant (gweler adran 4)*." Mae adran 5(1) yn cynnwys y diffiniad adnabyddus o ddatblygu cynaliadwy fel gweithredu "*mewn ffordd sy'n ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu bodloni heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i fodloni eu hanghenion nhw*." Mae adran 4 yn amlinellu'r saith nod llesiant, ac amlygwn y chwech sy'n fwyaf perthnasol isod:

| | |
|---|---|
| <u>Cymru lewyrchus</u> | Cymdeithas arloesol, gynhyrchiol, carbon isel sy'n cydnabod y terfynau sydd ar yr amgylchedd byd-eang ac sydd, o ganlyniad, yn defnyddio adnoddau mewn modd effeithlon a |

[132] Cyf: MDZ/D50 tud.7
[133] Cyf: MDZ/D50 tud.7
[134] Cyf: Dogfen Ymchwiliad – 014 a Cyf: Dogfen Ymchwiliad – 046
[135] Cyf: MDZ/B15 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
[136] Cyf: MDZ/B6 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016
[137] Cyf: MDZ/J3 Ffyniant i Bawb: Cymru Carbon Isel (2019)

chymesur (gan gynnwys gweithredu ar newid yn yr hinsawdd); ac sy'n datblygu poblogaeth fedrus ac addysgedig mewn economi sy'n cynhyrchu cyfoeth ac yn cynnig cyfleoedd cyflogaeth, gan ganiatáu i bobl fanteisio ar y cyfoeth a gynhyrchir drwy gael gafael ar waith addas.

Cymru gydnerth Cenedl sy'n cynnal ac yn gwella amgylchedd naturiol bioamrywiol gydag ecosystemau iach gweithredol sy'n cynnal cydnerthedd cymdeithasol, economaidd ac ecolegol ynghyd â'r gallu i addasu i newid (er enghraifft, y newid yn yr hinsawdd). […]

Cymru iachach Cymdeithas lle mae llesiant corfforol a meddyliol pobl cystal â phosibl a lle deëllir dewisiadau ac ymddygiadau sydd o fudd i iechyd yn y dyfodol.

Cymru sy'n fwy cyfartal Cymdeithas sy'n galluogi pobl i gyflawni eu potensial ni waeth beth fo'u cefndir neu eu hamgylchiadau (gan gynnwys eu cefndir a'u hamgylchiadau economaidd-gymdeithasol).

Cymru o gymunedau cydlynus Cymunedau atyniadol, hyfyw a diogel sydd â chysylltiadau da. […]

Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang Cenedl sydd, wrth iddi wneud unrhyw beth i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, yn ystyried a allai gwneud peth o'r fath gyfrannu'n gadarnhaol at lesiant byd-eang.

108. Mae Deddf 2016 yn gosod rhwymedigaeth ar Lywodraeth Cymru i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr 80% o gymharu â lefelau 1990 erbyn 2050. Fel y mae Mr Bell yn amlinellu,[138] mae rheoliadau yn yr arfaeth i symud y targed hwn tuag at argymhelliad y CCC i gyflawni gostyngiad 95% mewn allyriadau nwyon tŷ gwydr erbyn 2050, ond cydnabyddir nad yw'r rhain ar waith eto. Fodd bynnag, mae'r ymrwymiadau gan y Llywodraeth yn bodoli ac yn glir.

109. Dyma'r cefndir polisi cryf y dylid ystyried pwysigrwydd yr argyfwng hinsawdd yn ei erbyn. Datganodd Llywodraeth Cymru ei bod yn argyfwng ar yr hinsawdd ar 29 Ebrill 2019:[139]

> "*Rwy'n credu ein bod yn ddigon penderfynol a dyfeisgar yma yng Nghymru i allu cynnal economi carbon isel….. rydyn ni'n gobeithio y gall y Datganiad gan Lywodraeth Cymru heddiw helpu i sbarduno ton o weithredu yma ac yn rhyngwladol. Nid yw taclo'r newid yn yr hinsawdd yn rhywbeth y gallwn ei adael i unigolion a'r farchnad rydd. Mae ein deddfwriaeth ar ddatblygu cynaliadwy a'r amgylchedd eisoes yn esiampl i'r byd a rhaid inni nawr ddefnyddio'r ddeddfwriaeth honno i gyflymu camau'r newid*."

110. Wrth gwrs, nid yw effeithiau'r newid yn yr hinsawdd wedi'u cyfyngu i blaned dwymach yn unig. Mae cysylltiad rhwng yr argyfwng hinsawdd ac argyfwng ecolegol sydd ar ddod, fel yr amlinellodd Mr Bell yn y brif dystiolaeth. Mae'r newid yn yr hinsawdd yn achosi niwed i ecosystemau a rhywogaethau – rhywbeth a gydnabyddir

[138] Proflen Dystiolaeth Mr Bell para. 4.4.9 (Cyf: MDZ/P9); a gweler MDZ/D12
[139] Cyf: MDZ/D11

yn y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol drafft (y dychwelwn ato isod),[140] a'r Datganiad Polisi Cenedlaethol Trosfwaol ar Ynni ("NPS") EN-1.[141]

111. Gan ddod â hynny i gyd at ei gilydd, barn ddiwrthwynebiad Mr Bell[142] yw bod polisi ynni lleol i ryngwladol yn dangos bod angen dybryd a gofyniad polisi sbardunol am fwy o gapasiti ynni adnewyddadwy. Cydnabuwyd bod yr angen yn ddybryd yn 2011 pan gyhoeddwyd y Datganiadau Polisi Cenedlaethol. Mae'r angen hwnnw'n fwy o lawer nawr. Nid yw Mr Bell yn honni, ac nid ydym ni'n dadlau, bod y mater hwn yn drech na phob ystyriaeth arall. Fodd bynnag, mae'n un y dylid rhoi pwys sylweddol iddo wrth ystyried yr achos hwn.[143] [144]

(ii) Polisi Cynllunio

112. Y gyfres arall o bolisïau sy'n berthnasol i'r cais hwn yw'r polisïau cynllunio lleol a chenedlaethol. Mae llawer o'r rhain, ac er y ceisiwn eu crynhoi yma, cyfeiriwn eto at bennod 5 ac adran 6.2 proflen Mr Bell yn llawn. Unwaith yn rhagor, roedd ei dystiolaeth ar y pwynt hwn yn gwbl ddiwrthwynebiad.

113. Gan ddechrau gyda pholisi cynllunio'r Deyrnas Unedig gyfan, mae'r gyfres o NPSs, yn enwedig yr NPS Trosfwaol ar Ynni EN-1[145] a'r NPS ar Ynni Adnewyddadwy EN-3[146] yn ystyriaethau perthnasol. Er bod y Papur Gwyn ar Ynni wedi cyhoeddi adolygiad o'r rhain, mae'n egluro eu bod yn parhau i fod mewn grym hyd nes y bydd yr adolygiad hwnnw wedi'i gwblhau.[147] Lluniwyd y rhain ar gyfer gorsafoedd cynhyrchu ynni a seilwaith ynni ar y raddfa hon, ac er mai dyddiad darparu'r polisi yw 2011, mae'r dogfennau'n bwysig ac yn berthnasol serch hynny, a gellir eu cymhwyso'n ddefnyddiol fel fframwaith ar gyfer asesu. Yn arbennig, mae NPS EN-3 adran 2.6 (sy'n ymwneud â ffermydd gwynt ar y môr) yn gyfatebol. Er bod technoleg ffrwd lanw wedi datblygu ers i NPS EN-3 gael ei ysgrifennu, mae gofynion polisi sy'n derbyn bod angen hyblygrwydd yn y caniatâd, gan seilio asesiad ar y senario achos gwaethaf mwyaf a chaniatáu am ansicrwydd wrth ystyried (gweler e.e. para. 2.6.42 EN-3), yn arbennig o berthnasol yma.

114. Mae Cynlluniau Morol Cenedlaethol y Deyrnas Unedig a Chymru yn uniongyrchol berthnasol hefyd, ar lefel y Deyrnas Unedig gyfan a Chymru. Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru (2019) ("WNMP")[148] yw'r un mwyaf cyfredol. Yn ogystal,

---

[140] Proflen Dystiolaeth Mr Bell para. 5.4.27 (Cyf: MDZ/P9)
[141] Cyf: MDZ/D2 para. 5.3.6; gweler Proflen Dystiolaeth Mr Bell para. 6.3.3
[142] Proflen Dystiolaeth Mr Bell, adran 4.5 (Cyf: MDZ/P9)
[143] Ar gyfer rhai enghreifftiau lle mae Gweinidogion Cymru wedi rhoi pwys mawr i'r ystyriaeth hon mewn penderfyniadau blaenorol, gweler Proflen Dystiolaeth Mr Bell ym mhara.(au) 4.5.6 (Cyf: MDZ/P9) ac ymlaen
[144] Yn eu Datganiad Achos (MDZ/N11), holodd Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Gogledd Cymru ynglŷn â chost ynni'r prosiect hwn o gymharu â, dyweder, gwynt. Er mwyn osgoi amheuaeth, mae'r gofyniad polisi ar gyfer technolegau adnewyddadwy – mae annog datblygu ynni adnewyddadwy yn elfen bwysig o bolisi ynni adnewyddadwy cenedlaethol. Mater ar gyfer polisi o'r fath yw p'un a oes ffyrdd mwy effeithiol o fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd, o bosibl – nid yw'n fater i'w ystyried yng nghyd-destun penderfynu ar y cais hwn. Gweler Proflen Dystiolaeth Mr Bell yn 4.5.4 ymlaen (Cyf: MDZ/P9)
[145] Cyf: MDZ/D2
[146] Cyf: MDZ/D3
[147] Cyf: Dogfen Ymchwiliad – 048 tud.55
[148] Cyf: MDZ/D5

cyfeiriwn at Bolisi Cynllunio Cymru (2018) ("PPW"),[149] sy'n gymharol gyfredol hefyd, gan ei fod wedi'i gyhoeddi yn 2018. Dyma rai pwyntiau allweddol a amlygwn o WNMP:

(i) Para. 20, sy'n mynegi'r egwyddor hirsefydlog "*dylai unrhyw benderfyniad a all effeithio ar ardal y cynllun, yn cynnwys y rheini sy'n ymwneud â gweithgareddau ar dir, gael eu gwneud yn unol â'r cynllun hwn oni bai bod ystyriaethau perthnasol yn awgrymu'n wahanol.*"

(ii) Mae WNMP yn amlygu nifer o "ardaloedd adnoddau" (h.y. dosbarthiad gofodol adnoddau naturiol) a allai gynnal gweithgarwch y sector yn y dyfodol. Mae WNMP tud.16, Ffig 2 yn dangos trosolwg o'r rhain, sy'n cynnwys ynni ffrwd lanw i'r gorllewin a'r gogledd o Ynys Môn. Felly, mae WNMP yn cefnogi lleoliad prosiect Morlais yn bendant.

(iii) Mae amryw bolisïau trawsbynciol yn WNMP hefyd. Rhestrir y rhai sy'n arbennig o berthnasol ym mhara. 5.4.11 proflen Mr Bell, yn ymwneud â materion fel polisi cynllunio (GEN_01 a GEN_02), twf economaidd cynaliadwy (ECON_01), cydfodolaeth sectorau (ECON_02), a lleihau'r newid yn yr hinsawdd (SOC_10).

(iv) Mae'n cynnwys polisïau cyffredinol sy'n berthnasol. Unwaith eto, tynnwn sylw at un enghraifft yn unig – Polisi SCI_01, sy'n datgan yn benodol:

> "*Dylai awdurdodau cyhoeddus perthnasol wneud penderfyniadau ar sail tystiolaeth gadarn a chan weithredu mewn ffordd gymesur, ar sail risg. Pan fo hynny'n briodol, dylent weithredu yn unol â'r egwyddor ragofalus ac ystyried cyfleoedd i reoli mewn ffyrdd addasol*."

(v) Mae polisi allweddol penodol i sector ar gyfer technolegau carbon isel. Ar dud.94, mae WNMP yn datgan:

> "*Ynni – Carbon Isel*
>
> *Amcan 1 y Sector*
>
> *Cyfrannu'n sylweddol at ddatgarboneiddio ein heconomi ac at ein ffyniant drwy gynyddu faint o ynni adnewyddadwy'r môr sy'n cael ei gynhyrchu, drwy:[…]*
>
> *Cefnogi'r gwaith o ddatblygu ac arddangos technolegau ynni tonnau a ffrwd lanw yn y tymor byr i ganolig;*
>
> *Cynyddu (lle y bo'n briodol) nifer y dyfeisiau cynhyrchu ynni tonnau a ffrwd lanw a ddefnyddir mewn datblygiadau ar raddfa fasnachol dros y tymor canolig; […]*
>
> *Amcan 2 y Sector*
>
> *Datblygu Cymru fel enghraifft o dechnoleg ynni adnewyddadwy morol drwy ddatblygu'r sylfaen sgiliau, seilwaith a gwybodaeth dechnegol hanfodol i gefnogi datblygiad y diwydiant dros yr 20 mlynedd nesaf.*"

[149] Cyf: MDZ/D1

Fel y mae Mr Bell yn dangos yn ei Broflen Dystiolaeth, mae'r polisi hwn wedi cael ei ddatblygu'n benodol gan gyfeirio at Ddeddf 2016 a PPW, ac mae'n amlygu ynni adnewyddadwy morol fel blaenoriaeth strategol ar gyfer cynllunio morol, gyda photensial sylweddol ar gyfer datblygu cynaliadwy ar hyd oes WNMP. Mae hefyd yn tynnu sylw at y posibilrwydd o greu cyflogaeth yn sgil cynyddu graddfa araeau masnachol, ac mae'n amcangyfrif y gallai ynni ffrwd lanw gynnal bron 14,500 o swyddi erbyn 2040 (gweler y testun ategol ym mhara.(au) 327-328). Mae hefyd yn nodi bod Llywodraeth Cymru wedi "ymrwymo'n gryf" i ddatgloi'r potensial ynni o ddyfroedd Cymru (para. 336), ac y byddai cefnogi'r prosiect hwn ond yn tanlinellu'r ymrwymiad hwnnw.

(vi) Mae Policy ELC_03 'Ynni ffrwd lanw (cefnogi) carbon isel' WNMP yn datgan:

> "*ELC_03 a: Bydd cynigion ar gynhyrchu ynni ffrwd lanw yn cael eu cefnogi lle maent yn cyfrannu at amcanion y cynllun hwn. Dylai cynigion gydymffurfio â pholisïau cyffredinol perthnasol a pholisïau diogelu'r cynllun hwn ac unrhyw ystyriaethau perthnasol eraill";*

> *"ELC03 b: Er mwyn deall cyfleoedd yn y dyfodol ar gyfer datblygu ynni ffrwd lanw, anogir awdurdodau cyhoeddus perthnasol a'r sector, ar y cyd â phartïon eraill â buddiant, i gydweithio i ddeall cyfleoedd ar gyfer defnyddio adnoddau ynni ffrwd lanw mewn modd cynaliadwy gan gynnwys nodi…… adnoddau naturiol sy'n rhoi cyfle posibl i'w defnyddio yn y dyfodol"*;

(vii) Unwaith eto, tynnwn sylw at y elfennau canlynol o'r testun ategol ym mhara. 344 (pwyslais wedi'i ychwanegu):

> "*344. O dan Bolisïau ELC_02 ac ELC_03 dylid cefnogi a hwyluso'r defnydd o barthau arddangos trwy ddefnyddio dull cydsynio sy'n seiliedig ar risg, gan ddefnyddio rheolaeth addasol lle mae hyn yn angenrheidiol ac yn briodol ar gyfer rheoli effeithiau sy'n anodd eu rhagweld adeg gwneud penderfyniadau yn unol â Pholisi SCI_01. Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'r TCE, CNC, y diwydiant, Ynni Morol Cymru ac eraill i fwrw ymlaen â pharthau profi ac arddangos ar gyfer ynni'r tonnau, ynni gwynt arnofiol ac ynni ffrwd lanw er mwyn gwella a datblygu ymhellach wybodaeth a dealltwriaeth o risgiau, cyfleoedd a galluoedd. <u>Mae'r ardaloedd arddangos oddi ar dde Sir Benfro (tonnau) a gorllewin Ynys Môn (ffrwd lanw) yn rhoi cyfle da i ddatblygwyr ddefnyddio, mireinio ac arddangos eu technolegau cyn ehangu prosiectau yn ardaloedd adnoddau ehangach ar raddfa fasnachol, yn amodol ar brofion llwyddiannus a'u derbynioldeb o ran effeithiau andwyol posibl</u>*."

115. Barn ddiwrthwynebiad Mr Bell yw bod y datblygiad arfaethedig yn gyson â'r darpariaethau polisi hynny, polisïau eraill perthnasol yn WNMP a WNMP yn ei gyfanrwydd. Yn groes i'r farn honno, mae RYA wedi awgrymu bod y polisi'n gwrthdaro â WNMP, wedi'i seilio'n gyfan gwbl ar farn RYA ynglŷn ag effaith y cynnig ar rwyfo hamdden.[150] Ymdriniwn â hynny'n fanylach wrth drafod y prif faterion yn ddiweddarach, ond digon yw dweud fan hyn nad oedd RYA wedi achub ar y cyfle i herio casgliad Mr Bell a roddwyd mewn tystiolaeth, a honnwn fod hynny'n dangos pa mor ddi-sail y maent yn gwybod yw eu dadleuon.

[150] Datganiad Achos RYA, para. 11.5 (Cyf: MDZ/N2)

116. Dogfen polisi cynllunio allweddol arall, ac un a amlygwyd yn benodol gan yr Arolygydd, yw'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol drafft *Cymru'r Dyfodol – Y Cynllun Cenedlaethol 2040*[151] (yr "NDF"). Mae Mr Bell yn mynd i'r afael â hyn yn ei Broflen Dystiolaeth o bara. 5.4.25 ac ymlaen.[152] Rhoddwyd yr NDF a ddiwygiwyd ar ôl ymgynghoriad gerbron y Senedd ar 21 Medi 2020. Amlygwn y pwyntiau canlynol:

(i) Mae Pennod 1 bellach yn cyfeirio at yr argyfwng hinsawdd a'r argyfwng ecolegol yr ydym eisoes wedi cyfeirio atynt. Dyfynnwn o dud.3:

> "*wynebwn argyfwng hinsawdd sy'n trawsnewid ein hamgylchedd ac yn cael effaith uniongyrchol ar gymunedau; rydym mewn argyfwng ecolegol, lle mae'r penderfyniadau y mae pobl yn eu gwneud, a'r ffordd y maent yn ymddwyn, yn niweidio cadernid ecosystemau a rhywogaethau; rydym wedi dioddef effeithiau pandemig iechyd byd-eang a rhaid inni ailfywiogi'r economi mewn ffordd gynaliadwy, gan ddangos ein bod wedi dysgu gwersi o'r trachwant a fu, lle na chaiff pawb chwarae teg o ran cyfoeth na mynediad at wasanaethau. Bydd Llywodraeth Cymru yn wynebu'r heriau hyn ac yn achub ar bob cyfle posibl i greu Cymru well. Yn y cyd-destun hwn, mae ein fframwaith datblygu yn sbardun pwysig i gyflawni'r newid sydd ei angen.*"

(ii) Mae'r NDF yn cyfeirio'n benodol at WNMP, gan nodi bod WNMP wedi llywio datblygiad yr NDF a, lle y bo'n berthnasol, y dylai lywio cynlluniau datblygu strategol a lleol a phenderfyniadau cynllunio. Mae'r ddau yn gweithio gyda'i gilydd i ddarparu fframwaith ar gyfer rheoli newid o amgylch yr arfordir. Mae'r NDF yn cydnabod yn bendant bod cydlynu cynllunio ar y môr ac ar y tir yn bwysig i hwyluso datblygiad cynhyrchu ynni, ymhlith pethau eraill.[153]

(iii) Mae cyfeiriadau ym Mhennod 2 at y newid yn yr hinsawdd wedi cael eu cryfhau o'r fersiwn gychwynnol. Yn arbennig, mae'n datgan bellach ei bod yn "*hanfodol ein bod yn lleihau ein hallyriadau er mwyn diogelu ein llesiant ni'n hunain a dangos ein cyfrifoldeb byd-eang*".[154]

(iv) Er nad yw cynigion ar y môr o fewn cylch gwaith yr NDF, mae Llywodraeth Cymru yn amlinellu ym Mholisi 18 ei bod yn cefnogi cynigion ar y môr, gan nodi "*cefnogir agweddau datblygu ar y tir cynlluniau ar y môr*".[155] Mae'n croesgyfeirio at WNMP, gan gydnabod bod nifer o gyfleoedd i gynhyrchu ynni adnewyddadwy ar draws amrywiaeth o dechnolegau ar y tir ac ar y môr "*y dylid manteisio arnynt i'r eithaf er mwyn helpu i gyflawni'r targedau*."

(v) Mae Pennod 5 yn cyfeirio at ranbarthau Cymru. Mae Polisi 24 yn canolbwyntio ar "Ogledd-orllewin Cymru ac Ynni", gan ddatgan "*Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi Gogledd-orllewin Cymru fel lleoliad ar gyfer datblygiadau ynni newydd a buddsoddiad. Cefnogir datblygiadau arfaethedig sy'n gysylltiedig â Rhaglen Ynys Ynni Môn, […] mewn egwyddor fel dull o greu buddiannau economaidd sylweddol i'r ardal yn ogystal â chynhyrchu ynni adnewyddadwy neu garbon*

[151] Cyf: MDZ/D41
[152] Proflen Dystiolaeth Mr Bell, para 5.4.25 ac ymlaen (Cyf: MDZ/P9)
[153] Rheol: MDZ/D41 ar dud.(au) 8-9 y ddogfen PDF
[154] Cyf: MDZ/D41 ar dud.21 y ddogfen PDF
[155] Cyf: MDZ/D41 ar dud.82 y ddogfen PDF, colofn 1.

*isel. […] Cefnogir datblygiadau ar y tir sy'n gysylltiedig â phrosiectau ynni adnewyddadwy ar y môr mewn egwyddor*".

117. Felly, mae fersiwn ddiweddaraf yr NDF yn rhoi pwyslais ychwanegol ar y newid yn yr hinsawdd a phwysigrwydd ychwanegol iddo, ac mae'n cynnal cyfeiriadau penodol at y cyfleoedd ar y môr a gyflwynir yng nghyd-destun Ynys Môn. Barn ddiwrthwynebiad Mr Bell yw bod y datblygiad hwn yn gyson â'r ddogfen o'i darllen yn ei chyfanrwydd, ac y dylid rhoi pwys sylweddol i'r NDF.

118. I gwblhau'r darlun polisi cynllunio, dylid cyfeirio at y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd ("CDLlC")[156] a darpariaethau Cynllun Rheoli Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Ynys Môn.[157] Mae Mr Bell yn ymdrin â pholisïau allweddol o'r ddau yn ei broflen.[158] Er mwyn arbed amser, amlygwn Thema 3 y CDLlC yn unig,[159] sy'n ceisio cefnogi twf ac adfywio a thrawsnewid yr economi leol o dan ambarél Rhaglen Ynys Ynni Môn, a Pholisi Strategol PS7 y CDLlC, sy'n cefnogi (lle bynnag y bo'n ymarferol ac yn hyfyw) cynhyrchu ynni adnewyddadwy, gan gynnwys o ffynonellau morol. Felly, mae cefnogaeth gref i'r cynllun hwn yn y cynllun datblygu statudol hefyd. Dylem hefyd nodi yma (ac ymdriniwn â hyn yn fanylach isod), er bod IoACC yn pryderu i ddechrau bod y cynllun yn groes i'r CDLlC, mae'r pryderon hynny wedi derbyn sylw.[160]

119. Gan ystyried hynny i gyd gyda'i gilydd – a sylweddolwn fod llawer – mae Mr Bell o'r farn bod cefnogaeth bolisi gymhellol i egwyddor y datblygiad hwn.[161] Mae Menter Môn yn cytuno, ac yn cymeradwyo'r casgliad diwrthwynebiad hwnnw i'r ymchwiliad.

120. Yn erbyn y cefndir eang hwnnw y symudwn ymlaen i'r cyd-destun polisi ar gyfer y prif faterion sydd dan sylw: ecoleg, cymeriad a golwg, effaith economaidd-gymdeithasol, a mordwyo.

121. Y cyntaf yw bioamrywiaeth ac ecoleg. Ymdriniwyd â'r rhain yn adran 6.3 Proflen Dystiolaeth Mr Bell ac unwaith eto, ganddo ef, yn y brif dystiolaeth. Cyfeiriwn yn arbennig at ei Broflen Dystiolaeth, gan fod honno'n cynnwys llawer o groesgyfeirio defnyddiol. Er bod bioamrywiaeth wedi mynnu llawer o amser yr ymchwiliad, gellir datgan y safbwynt polisi'n gymharol fyr, mewn gwirionedd. Y pwynt allweddol a wnaed gan Mr Bell yw, o ran mamaliaid môr, bod yr ymagwedd bolisi gyffredinol yn ceisio osgoi effeithiau niweidiol, lleiafu effeithiau lle na ellir eu hosgoi, a lliniaru effeithiau. O'i adolygiad o dystiolaeth Dr Learmonth (y deuwn ato'n fuan), mae Mr Bell o'r farn bod dull rhagofalus iawn wedi cael ei ddefnyddio i ganiatáu ar gyfer lleoli Cam Un, a rhoi mesurau diogelu priodol (fel yr EMMP) ar waith i leiafu risg effeithiau niweidiol.[162] At ei gilydd, mae'n dibynnu ar safbwynt Dr Learmonth bod yr ymgeisydd wedi gweithio gyda CNC, ac y bydd yn parhau i wneud hynny, i sicrhau nad oes risg arwyddocaol i famaliaid môr na photensial ar gyfer effaith niweidiol ar gyfanrwydd safleoedd dynodedig y mae mamaliaid môr yn nodwedd gymhwyso ar eu cyfer. Yn yr un modd, mae wedi defnyddio dull Dr Grant wrth ystyried materion adareg, a dull Mr Campbell o ran ecoleg ar y tir. O ystyried y corff hwnnw o

[156] Cyf: MDZ/D52
[157] Cyf: MDZ/D7
[158] Gweler para 5.5.1 ac ymlaen
[159] Tud.29
[160] Cyf: MDZ/L7 tud.22 rhes 26
[161] Proflen Dystiolaeth Mr Bell adran 6.2, a'r brif dystiolaeth Diwrnod 1, prynhawn (Cyf: MDZ/P9)
[162] Yn hyn o beth, mae Mr Bell yn dibynnu ar dystiolaeth Mr Fortune hefyd.

dystiolaeth yn ei gyfanrwydd, mae Mr Bell o'r farn bod y datblygiad arfaethedig yn dderbyniol o ran polisi cynllunio perthnasol. Dylid nodi hefyd, yn y Datganiad Tir Cyffredin sydd bellach wedi'i gytuno gydag IoACC,[163] cytunir bod cynllun gweithredu ecolegol wedi'i sicrhau bellach trwy amod cynllunio tybiedig 3.

122. Yr ail fater penodol a amlygwyd gan yr Arolygydd yw cymeriad a golwg. Nid yw IoACC yn gwrthwynebu ar y seiliau hyn bellach oherwydd mesurau lliniaru yr ymrwymwyd iddynt yn rhan o'r prosiect, ac oherwydd bod Menter Môn wedi cytuno i ariannu rhai mesurau, a sicrhawyd trwy rwymedigaeth adran 106 ("a.106") wedi'i chroesgysylltu ag amod 21 o'r amodau cynllunio tybiedig drafft.[164] Mae'r arian hwnnw i'w dalu gan Fenter Môn a'i ddefnyddio tuag at (1) waith gwella'r dirwedd ar dir a reolir gan IoACC, (2) darparu arian i brosiectau sy'n ymgymryd â rhaglenni adfer neu wella'r dirwedd, (2) ariannu gwaith gwella'r dirwedd yn uniongyrchol ar dir a berchnogir gan drydydd parti, a (4) gwella mynediad cyhoeddus at dir, gan gynnwys darparu hawliau ffyrdd cyhoeddus newydd neu wella ffyrdd presennol. Cytunir bod y mesurau hyn yn ddigonol i fynd i'r afael â phryder IoACC bod y cynigion yn groes i'r CDLlC, yn benodol polisïau PS 19, AMG 3 ac AMG 4.

123. Fodd bynnag, mae rhai partïon yn parhau i fynegi pryderon ynglŷn â chymeriad a golwg, felly rhoddwn sylw iddynt. Cyfeirir at yr holl faterion polisi, y dylid rhoi ystyriaeth iddynt, yn fanwl yn adran 6.4 Proflen Dystiolaeth Mr Bell. Yn arbennig, mae'n amlygu polisïau allweddol yn y CDLlC a'r Cynllun Rheoli AHNE. Ni restrwn nhw yma. Yn lle hynny, pwysleisiwn gasgliadau Mr Bell – sydd unwaith eto'n ddiwrthwynebiad. Yn ei farn ef, gan ddibynnu ar dystiolaeth fanwl Mr Myers:

(i) Mae Menter Môn wedi bod yn rhagweithiol wrth gynnwys mesurau lliniaru yn elfennau'r prosiect ar y môr. Mae'r rhain yn cynnwys cyfyngiadau ar nifer y dyfeisiau llanw sy'n codi o'r dŵr a ble y gellir eu lleoli; cymhwyso pellter gwahanu o 1km o leiaf oddi wrth y morlin ar gyfer dyfeisiau sy'n amlwg yn weledol, gyda'r pellter hwnnw'n fwy yn gyffredinol; a'r DDP;

(ii) Yn ogystal, o ran elfennau'r prosiect ar y tir, mae strwythurau wedi cael eu lleoli i leihau effeithiau gweledol posibl ac effeithiau posibl ar y dirwedd a'r morlun (e.e. trwy ystyried lefel tir unrhyw adeiladau a'u lleoli yng nghyd-destun strwythurau presennol, lle y bo'n bosibl); cynigir mesurau lliniaru penodol mewn perthynas ag Is-orsaf y lanfa (gan gynnwys dyluniad a gosodiad y strwythurau, deunyddiau arfaethedig, triniaethau ffin a lleihau ffensys a goleuadau diogelwch); a defnyddio ceblau tanddaear a'u lleoli o fewn coridorau ffyrdd lleol, lle y bo'n bosibl.

124. Derbynnir y byddai rhywfaint o effaith niweidiol arwyddocaol ar olygfeydd o'r morlun o'r AHNE, ac na fyddai'r datblygiad yn gyson ag amcanion polisi sy'n ceisio gwella'r AHNE. Fodd bynnag, byddai'n amhosibl bron i unrhyw ddatblygiad mawr fyth allu bodloni'r egwyddor polisi honno o wella, ac mae'n anochel y bydd unrhyw fath o ddatblygiad yn arwain at rai tensiynau polisi â'r darpariaethau hynny. At hynny, mae'r lleoliadau yn y Deyrnas Unedig sy'n addas ar gyfer lleoli dyfeisiau llanw i gyd o fewn neu'n agos at fannau pellennig sy'n cael eu gwerthfawrogi am y dirwedd – a'r rhai hynny sy'n aml yn cael eu gwarchod oherwydd hynny (fel yr esboniodd Dr Orme). Mae cynigion Ynysoedd y Moelrhoniaid a PTEC, er enghraifft, ill dau wedi'u lleoli oddi ar AHNEau. Mae angen cydbwysedd ynglŷn â'r hyn sy'n

[163] Cyf: MDZ/L7, Atodiad B
[164] Cyf: MDZ/L7, tud.21 ac Atodiad B Amod 21

dderbyniol o ystyried y cyfyngiadau a osodir gan ddaearyddiaeth a'r angen dybryd am fwy o ynni adnewyddadwy. Mae'n amlwg y gwnaed cryn ymdrech i sicrhau bod y dull dylunio wedi cael ei ystyried yn ofalus iawn, a ategir gan yr amryw ddarpariaethau lliniaru y cyfeirir atynt uchod. Esboniwyd y rhain i gyd yn fanwl yn nhystiolaeth Mr Myers, a dychwelwn at hynny. At ei gilydd, gan bwyso a mesur hynny i gyd, barn ddiwrthwynebiad Mr Bell, o ystyried y dystiolaeth a gyflwynwyd gan Dr Orme a Mr Myers, yw bod y datblygiad arfaethedig yn dderbyniol o ran polisi cynllunio mewn perthynas â'r materion hyn.

125. Gan droi at y polisïau sy'n sail i effaith economaidd-gymdeithasol y prosiect, ymdrinnir â'r rhain yn fanwl yn adran 6.5 Proflen Dystiolaeth Mr Bell, lle y mae'n croesgyfeirio'n fanwl at dystiolaeth Dr Jones ac at bolisïau cenedlaethol a'r CDLlC. Yn arbennig, tynnwn sylw at y Weledigaeth a amlinellir yn y CDLlC ym mhara. 4.7, sy'n gweld Ynys Môn yn addasu ac ymateb yn gadarnhaol i heriau'r newid yn yr hinsawdd. Rhan sylfaenol o'r weledigaeth honno yw bod Ynys Môn yn:

> "*cael ei chydnabod fel lleoliad blaenllaw ar gyfer amrywiaeth o sectorau ynni adnewyddadwy a charbon isel a diwydiannau sy'n seiliedig ar wybodaeth, a fydd wedi cyfrannu at drawsnewid yr economi leol, …., cynhyrchu ynni carbon isel a sbarduno adfywio yn ardal y Cynllun*."

126. Yn bwysig, o ran yr economi leol, mae buddion economaidd a amlinellir ym Mhennod 25 yr ES ac a grynhoir ym mhroflen dystiolaeth Mr Bell ym mhara. 6.5.9 o ran y gwariant lleol amcangyfrifedig yn ystod adeiladu, a'r swyddi sydd i'w creu yn ystod adeiladu a'r camau adbweru, ac o weithgarwch gweithredol a chynnal a chadw. At ei gilydd, o ran y buddion yr amcangyfrifir y bydd y prosiect yn arwain atynt, ac yng ngoleuni'r amryw gamau lliniaru a gynigir mewn perthynas ag economeg gymdeithasol fel yr amlinellir yn nhystiolaeth Dr Jones, mae Mr Bell o'r farn bod y datblygiad arfaethedig yn cyd-fynd â pholisïau cynllunio i gefnogi economïau lleol. Unwaith eto, nid yw hyn yn cael ei herio ac rydym yn ei gymeradwyo i'r ymchwiliad. Nodwn hefyd wrth fynd heibio (dychwelwn at hyn wrth drafod sylwedd yr effaith economaidd-gymdeithasol), fod IoACC bellach yn fodlon ar effeithiau economaidd-gymdeithasol y prosiectau a'r dulliau sy'n caniatáu ar gyfer monitro a sicrhau buddiannau a mesurau lliniaru. Adlewyrchir hyn yn y Datganiad Tir Cyffredin.[165]

127. Er gwaethaf y ffaith nad oedd unrhyw barti wedi croesholi Mr Bell pan roddwyd y cyfle, mae Proflen Dystiolaeth RYA yn sôn am amwynder hamdden a materion economaidd-gymdeithasol. Yn arbennig, mae Proflen Dystiolaeth Mr Hill yn honni bod NPS EN-1 yn mynnu bod asesiad o'r effaith economaidd-gymdeithasol yn cael ei gynnal ar lefelau lleol neu ranbarthol, ac nad oedd Menter Môn wedi cynnal yr asesiad hwnnw o ran rhwyfo hamdden a gweithgarwch economaidd cysylltiedig.[166] Mae hefyd yn datgan y dylai ymgeiswyr ddisgrifio'r amodau economaidd-gymdeithasol presennol yn yr ardal er mwyn rhoi ystyriaeth briodol i fesurau lliniaru, ac yn honni unwaith eto nad oedd Menter Môn wedi gwneud hynny.[167] Dychwelwn at b'un a yw hyn yn ffeithiol gywir isod, ond, o safbwynt polisi, mae Mr Bell o'r farn (ddiwrthwynebiad) bod dau bwynt yn berthnasol yma: (1) effaith economaidd-gymdeithasol y prosiect o ran rhwyfo hamdden a gweithgarwch economaidd

[165] Cyf: MDZ/L7 tud.22 ac ymlaen yng nghofnodion 27-36
[166] Proflen Dystiolaeth Mr Hill para A.10 (Cyf: POE008)
[167] Proflen Dystiolaeth Mr Hill para A.10 (Cyf: POE008)

cysylltiedig, a (2) effeithiau mewn perthynas ag amwynder hamdden ar y dŵr. Ystyriodd fod y rhain wedi derbyn sylw yn y canlynol:

(i) Tystiolaeth Mr Myers a'r bennod Asesiad o'r Effaith Weledol a'r Effaith ar y Dirwedd a'r Morlun ("SLVIA") o'r ES;[168]

(ii) Tystiolaeth Cdr Brown o ran mordwyo a'r bennod gysylltiedig o'r ES;[169] a

(iii) Thystiolaeth Dr Jones ac fel yr amlinellir ym Mhennod 25 yr ES.[170]

128. Roedd Mr Bell o'r farn y byddai'r effeithiau'n cynnwys effaith uniongyrchol bosibl ar yr ardal adnodd hamdden a aseswyd yn bennaf gan Cdr Brown. O safbwynt polisi cynllunio, mae'r effeithiau perthnasol, yn fras, ac ar sail lefel uchel, fel a ganlyn:

(i) Y posibilrwydd o effaith uniongyrchol ar ardaloedd gweithgarwch hamdden;

(ii) Effaith weledol o ran amwynder hamdden ar gyfer gweithgareddau dŵr; a

(iii) Ph'un a allai'r effeithiau, petaent yn codi, gael effaith anuniongyrchol gynyddol ar duedd ymwelwyr neu ddefnyddwyr i dreulio amser yn yr ardal, neu achosi iddynt fod yn amharod i ymweld drachefn.

129. Daeth Mr Bell i'r casgliad, o'i adolygiad o benodau'r ES a thystiolaeth y tystion, fod y materion hyn wedi derbyn sylw'n foddhaol. Felly, mae'r honiad nad yw asesiadau o'r fath wedi cael eu cynnal yn anghywir.

130. Yn ogystal, ystyriodd Mr Bell honiad Mr Hill ym mharagraff C1 ei Broflen Dystiolaeth[171], yn seiliedig ar WNMP a pholisi ELC-02b ynglŷn â'r angen i weithio ar y cyd wrth sefydlu parth arddangos, fod Menter Môn "*heb roi ystyriaeth briodol i WNMP o ran hyrwyddo gwaith cydweithredol rhwng rhanddeiliaid cyn gwneud cais am ganiatâd*". Roedd Mr Bell o'r farn bod hynny'n groes i'r dystiolaeth gerbron yr ymchwiliad ynglŷn â'r dull a ddefnyddiwyd a'r dystiolaeth a amlinellwyd gan Cdr Brown. Ym mhrofiad Mr Bell, wrth ymdrin â phrosiectau seilwaith mawr, os ystyrir bod effeithiau tirweddol a gweledol datblygiad yn dderbyniol yn y cydbwysedd cynllunio cyffredinol (a dyna'n amlwg yw sefyllfa Menter Môn yma), yna, o ganlyniad, byddai effeithiau'r datblygiad o ran twristiaeth a hamdden a'r agweddau hynny ar yr economi leol yn dderbyniol. Roedd Mr Bell o'r farn bod amgylchiadau arbennig yn bosibl mewn unrhyw achos penodol lle y gallai fod gweithgaredd penodol y mae angen ei ystyried yn fanylach, ac ymdrinnir â'r pwnc penodol hwnnw'n fanylach gan dystion eraill. Ychwanegodd hefyd mai un o faterion allweddol WNMP yw'r polisi o hwyluso cydfodolaeth foddhaol rhwng defnyddwyr, fel y mynegir trwy bolisi ECON_02 (a gweler proflen Mr Bell ym mhara 5.4.11). Mae'r polisi'n cydnabod y bydd cydfodoli'n helpu i optimeiddio defnydd o'r ardal forol. Roedd o'r farn bod cydfodolaeth foddhaol yn gallu digwydd a bod yr effeithiau sy'n ymwneud ag amwynder gweledol, gweithgarwch amwynder hwylio a'r effaith economaidd bosibl wedi derbyn sylw ac ystyrir eu bod yn dderbyniol.

131. Yn olaf, i'r graddau yr aeth unrhyw barti ymhellach, a honni y byddai effaith economaidd-gymdeithasol negyddol, yn ystod yr RT ar faterion economaidd-

[168] Cyf: MDZ/A25.24
[169] Cyf: MDZ/A25.15
[170] Cyf: MDZ/A25.25
[171] Proflen Dystiolaeth Mr Hill (Cyf: POE008)

gymdeithasol[172] atgoffodd Mr Bell bawb fod NPS EN-1 para 5.12.7[173] yn datgan y caiff penderfynwr roi pwys cyfyngedig i unrhyw honiadau o'r fath nad ydynt wedi'u hategu gan dystiolaeth.

132. Mae'r prif fater penodol olaf yn ymwneud â mordwyo. Mae Mr Bell yn mynd i'r afael â hyn yn ei Broflen Dystiolaeth ym mhara. 6.6. Dyma'r pwyntiau cynllunio allweddol, yn ei farn ef:

(i) Natur fesul cam lleoli dyfeisiau cynhyrchu, gyda dau gam cyntaf cymedrol yn rhoi cryn gyfle i fesur yr effeithiau gwirioneddol yn erbyn y rhagfynegiadau; a

(ii) Safbwynt Cdr Brown bod y prosiect yn ddiogel o ran mordwyo trwy ymrwymo i ddarpariaethau'r Asesiad Risg Mordwyo ("NRA"), ac ni allai weld unrhyw reswm pam na ddylid cymeradwyo'r prosiect o safbwynt morol a mordwyo.

133. Yng ngoleuni'r dystiolaeth dechnegol a gyflwynwyd gan Cdr Brown, mae Mr Bell o'r farn y dylid rhoi pwys cyfyngedig yn unig i wrthwynebiadau mordwyo. Un o amcanion polisi allweddol WNMP yw cyflawni cydfodolaeth foddhaol rhwng gweithgareddau. Mae Mr Bell o'r farn bod y prosiect yn cyflawni'r amcan hwnnw o ran buddiannau morol eraill. Unwaith eto, ac rydym wedi pwysleisio hyn o'r blaen, ni wrthwynebwyd hyn.

134. Gan droi at y cydbwysedd cynllunio cyffredinol, roedd Mr Bell o'r farn bod y casgliadau allweddol sy'n llywio'r cydbwysedd cynllunio yn cynnwys:

(i) Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi gogledd-orllewin Cymru fel lleoliad ar gyfer datblygu a buddsoddi mewn ynni newydd, fel yr amlinellir yn y fersiwn ddiweddaraf o'r NDF sydd wedi cael ei rhoi gerbron y Senedd ar ei cham terfynol. Mae'r iaith a ddefnyddir yn yr NDF wrth sôn am yr angen i fynd i'r afael â'r argyfwng cynhesu hinsawdd byd-eang yn amlwg yn gryfach na'r iaith a ddefnyddir yn PPW presennol. At hynny, mae'r cyd-destun y rhoddwyd datganiadau polisi'r NDF a WNMP ynddo yn wahanol iawn o ystyried targedau mwy heriol ar gyfer lleihau allyriadau a'r datganiad ynglŷn ag argyfwng hinsawdd.

(ii) Mae tystiolaeth Mr Bell wedi cadarnhau'r angen mwy dybryd am fwy o gapasiti ynni adnewyddadwy: cefnogir cynyddu'r dechnoleg ynni adnewyddadwy hon trwy nifer o ddogfennau polisi a chan ymrwymiadau Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y Deyrnas Unedig. Ystyriwyd a disgrifiwyd bod yr angen i gyflawni targedau eisoes yn "ddybryd"[174] yn 2011 yn sgil cyhoeddi'r NPS Trosfwaol ar Ynni, sef EN-1. Nid oes amheuaeth bod y gofyniad hwn wedi cynyddu ers i argyfwng hinsawdd gael ei ddatgan, a thargedau sero-net newydd gael eu cyflwyno.

(iii) Mae cefnogaeth gymhellol i'r MDZ mewn polisïau cynllun lleol a chenedlaethol i'r graddau y bydd y prosiect yn gwneud cyfraniad sylweddol at y newid i gynhyrchu trydan carbon isel a buddsoddi yn economi leol gogledd Cymru ac Ynys Môn.

[172] Diwrnod 6, Sesiwn 2 y prynhawn.
[173] Cyf: MDZ/D2
[174] EN-1 paragraff 3.4.5 (Cyf: MDZ/D2)

(iv) Mae’r datblygiad arfaethedig wedi cael ei ddylunio i osgoi effeithiau niweidiol arwyddocaol lle y bo’n bosibl a thrwy’r mesurau lliniaru arfaethedig a sicrheir trwy ddarpariaethau’r Gorchymyn ac amodau cynllunio tybiedig.

(v) Mae’r datblygiad arfaethedig wedi cael ei ddylunio i osgoi niweidio cyfanrwydd safleoedd a warchodir, o ran y Rheoliadau Cynefinoedd. Mae’r ES a’r Wybodaeth i Gefnogi’r HRA[175] yn dangos bod effeithiau posibl y datblygiad arfaethedig wedi cael eu hystyried yn ofalus ac y bydd y mesurau lliniaru arfaethedig yn lleihau ac yn rheoli effeithiau.

135. Mae Mr Bell yn cydnabod yn deg y rhagwelir y bydd rhai effeithiau arwyddocaol ar olygfeydd o’r morlun o rai lleoliadau o fewn yr AHNE. Fodd bynnag, ei farn ef, gan ystyried safbwynt Mr Myers, yw na ellir osgoi’r effeithiau hyn ac fe’u lliniarwyd cymaint ag sy’n rhesymol ymarferol trwy leoli a dylunio, a mesurau digolledu i wella’r dirwedd sydd i’w sicrhau trwy rwymedigaeth a.106. Mae IoACC yn rhannu’r safbwynt hwn.

136. Mae’r amryw ddogfennau polisi cynllunio ac ynni cenedlaethol a lleol a archwiliwyd gan Mr Bell yn mynegi cefnogaeth gref i ynni adnewyddadwy a thargedau ynni adnewyddadwy, ac yn cydnabod yr adnodd ynni arwyddocaol y gellir ei ddarparu gan adnoddau ar y môr. Nid yw hyn ar unrhyw draul, yn amlwg; mae angen barnu bod materion fel effeithiau amgylcheddol yn dderbyniol. Fodd bynnag, ym marn Mr Bell, mae’r effeithiau niweidiol gweddilliol yn cael eu gwrthbwyso yn y cydbwysedd cynllunio gan:

(i) y cydweddiad cyffredinol â pholisi cynllunio ac ynni;

(ii) cyflawni buddion arwyddocaol yn sgil cynhyrchu ynni adnewyddadwy o hyd at 240 MW, gan gynnwys

(iii) galluogi gweithredwyr newydd i dreialu eu cynhyrchion cyn eu lleoli’n ehangach;

(iv) y buddion economaidd arwyddocaol i Ynys Môn yn ystod adeiladu ac yn ystod y cam gweithredu a chynnal a chadw, ac i economi ehangach Cymru.

137. Daeth i’r casgliad, felly, y dangoswyd bod y datblygiad arfaethedig nid yn unig yn cydweddu â pholisi cynllunio lleol a chenedlaethol, ond bod hefyd angen sylweddol am ddatblygiad o’r math hwn er mwyn gallu cyrraedd targedau dybryd y dyfodol mewn perthynas â’r argyfwng cynhesu byd-eang, cynhyrchu ynni adnewyddadwy a lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr mewn pryd.

138. Ni allwn wneud mwy ar yr adeg hon na chymeradwyo’r safbwynt hwnnw i’r ymchwiliad. Mae Mr Bell yn gynllunydd profiadol. Mae ei safbwyntiau’n ofalus ac ystyriol, a daethpwyd iddynt ar ôl adolygu nid yn unig achos yr Ymgeisydd ond achosion y partïon eraill yn ofalus. Yn allweddol, ni wrthwynebwyd ei safbwynt o gwbl yn ystod croesholi ar Ddiwrnod 1.

*Y berthynas rhwng cyfundrefnau rheoleiddio*

[175] Cyf: MDZ/A27.11

139. Gan droi at y berthynas rhwng yr ML, y Caniatâd Cynllunio Tybiedig a'r TWAO hwn, ni ychwanegwn lawer at gynnwys Nodyn Eversheds Sutherland dyddiedig 23 Tachwedd 2020.[176] Heblaw am bwynt a godwyd gan yr RSPB, nid yw'r nodyn hwnnw wedi bod yn ddadleuol, ac, yn wir, clywsom gan gwnsler CNC, sef Mr G Lewis, ei fod wedi rhoi "*cryn dipyn o gysur*" i Wasanaeth Cynghori CNC o ran ein dealltwriaeth ni i gyd o sut mae'r cyfundrefnau a'r rheolaethau ar wahân yn gymwys.[177] Felly, argymhellwn y gall yr Arolygydd fwrw ymlaen ar sail yr hyn sydd wedi'i gynnwys yn Nodyn Eversheds Sutherland. Amlygwn hefyd y map llwybr lliniaru sy'n bresennol yn y Dogfennau Craidd, sy'n amlinellu ble mae rheolaethau penodol rhwng y tair cyfundrefn hyn.[178] Fodd bynnag, ymdriniwn â dau fater arall ar wahân, ond sydd â chysylltiad agos, sydd wedi codi yn yr ymchwiliad hwn.

140. Yn gyntaf, crybwyllodd yr Arolygydd y disgwyliad sydd wedi hen ennill ei blwyf y bydd rheoleiddwyr cymwys eraill yn gweithredu'n gymwys. Mae hynny'n gwbl gywir, fel yr ydym wedi'i esbonio uchod, ac yn rhywbeth a gefnogir gan gyfraith achosion yr Uchel Lys.

141. Yr ail fater, sydd â chysylltiad agos, yw beth mae hynny'n ei olygu'n ymarferol – beth mae'n rhaid i Weinidogion Cymru benderfynu arno nawr ac ar ba sail y gellir gwneud hynny, ac yna beth ellir ei adael i reoleiddio diweddarach. Mae hyn yn codi mewn dau gyd-destun ar wahân – mae'r RSPB wedi'i godi yng nghyd-destun yr hyn y gellid ei ystyried yn fater amgylcheddol "pur" (h.y. yr effaith ar adar), ond cododd yr Arolygydd y mater hefyd yng nghyd-destun materion mordwyo – os gellir tybio y bydd Gwasanaeth Rheoleiddiol CNC yn rheoleiddio'n gymwys o ran yr ML, i ba raddau y mae'n rhaid i Weinidogion Cymru ystyried yr un cwestiwn?[179] Mae'r un pwynt yn codi gyda'r MCA a Thŷ'r Drindod, sydd â rolau allweddol o ran y DDP a'r NRAs ychwanegol sy'n ofynnol ar gyfer pob achos o leoli dyfeisiau.

142. Rydym wedi amlinellu'r egwyddorion uchod. Yn arbennig, cyfeiriwn yr ymchwiliad yn ôl at y darnau o ***Atkinson*** (a ddyfynnwyd hefyd gan yr RSPB yn eu sylwadau i gloi), ***Smith***, a ***Hereford Waste Watchers***. O ran effeithiau amgylcheddol, awgrymir yn araith derfynol yr RSPB (gweler para. 25) ein bod yn dibynnu'n unig ar y ffaith bod angen caniatadau ychwanegol er mwyn darbwyllo Gweinidogion Cymru y gallant fod yn fodlon ynglŷn ag effeithiau amgylcheddol y prosiect hwn. Mae hynny'n camddarllen achos Menter Môn yn llwyr ac yn cael ei danseilio braidd gan yr wythnosau o dystiolaeth a glywyd yn ystod yr ymchwiliad a llwythi o ddogfennau sy'n ymwneud ag effaith amgylcheddol y prosiect hwn. Dywedwn (am resymau a archwiliwn ymhellach isod) fod yr hyn sydd gerbron yr ymchwiliad yn fwy na digonol er mwyn i Weinidogion Cymru ystyried effeithiau arwyddocaol tebygol y prosiect, a dod i'r casgliad, yng ngoleuni'r angen am ganiatâd dilynol gan gyrff cyfrifol eraill (ond nid dim ond oherwydd hynny), eu bod yn annhebygol o fod yn arwyddocaol ac

[176] Nodyn yr Ymgeisydd ar y Gorchymyn a'i gydberthynas â chyfundrefnau eraill (Cyf: RPE008)

[177] Mr G Lewis, cyfraniad yn yr RT Rheoleiddiol, Diwrnod 2, Sesiwn Fore 1. Un pwynt a godwyd oedd beth a olygir gan gyfeiriadau at "ddisgwyliad rhesymol" ym mhara 24.10 Nodyn Eversheds Sutherland. Fel yr esboniodd Mr Maile yn yr RT, mae hynny'n ddim mwy na mynegiad y byddai rhywun fel arfer yn disgwyl i amodau fod ynghlwm wrth ML i sicrhau bod y datganiad amgylcheddol yn cael ei gyflawni ac y cydymffurfir â pharamedrau prosiect. Fel y dywedodd yr Arolygydd, disgwyliad ydyw, yn syml, y bydd corff rheoleiddio perthnasol yr ML (CNC) yn gweithredu'n gymwys.

[178] Cyf: MDZ/A16.7

[179] Cwestiwn yr Arolygydd i Mr Byass o CNC yn ystod yr RT ar Gymeriad a Golwg, Diwrnod 6, Sesiwn Fore 1

y bydd mesurau lliniaru priodol yn cael eu cymryd.[180] Yn wir, gallwn weld o bara. 28 araith derfynol yr RSPB, a phryderon Dr McCluskie yn ystod croesholi, hyd yn oed os bydd yn cymryd rhan yn y Grŵp Cynghori, y gallai dyfeisiau nad yw'r RSPB yn fodlon arnynt gael eu lleoli, ac mai'r hyn sydd wir wrth wraidd eu pryder yw dymuniad am feto.

143. O ran effeithiau mordwyol yn benodol, honnwn y dylai Gweinidogion Cymru asesu'r rhain i'r un lefel y byddent yn asesu unrhyw effaith amgylcheddol bosibl arall o dan y gofynion EIA. Fel yr amlygodd yr Arolygydd yn yr RT ar Fordwyo,[181] mae'r angen i atal ymyrryd â defnyddiau cyfreithlon o'r môr yn un ffactor y bydd CNC yn ei ystyried wrth roi ML.[182] Mae hyn, wrth gwrs, yn cynnwys mordwyo a diogelwch mordwyol.[183] Dylai'r Arolygydd dybio y byddant yn rheoleiddio'n gymwys ac y gall ML ddarparu ar gyfer diogelu defnyddwyr dŵr yn ddigonol. Pan gynigiodd yr Arolygydd hynny i'r rhai a fynychodd yr RT ar Fordwyo, nid oedd neb yn anghytuno. Felly, tasg Gweinidogion Cymru yw asesu beth yw effeithiau tebygol y prosiect ar fordwyo'r môr a'i ddefnyddwyr, o ystyried (a) amlen y prosiect a'r senario "achos gwaethaf", (b) y mesurau lliniaru a gwirio sydd wedi'u cynnwys yn y Gorchymyn (mae'n rhaid i NRA wedi'i ddiweddaru gael ei gynnal a'i gymeradwyo cyn i unrhyw ddyfais gael ei lleoli, sy'n cynnwys MCA a Thŷ'r Drindod ac ymgynghori â rhanddeiliaid eraill) ac (c) y ffaith y bydd CNC hefyd yn ymwneud â diogelu defnyddiau cyfreithlon o'r môr ar y cam ML.

## 2. Bioamrywiaeth

144. Mae nifer o faterion bioamrywiaeth yn codi o'r prosiect hwn, yn cynnwys ecoleg ar y tir, ecoleg fenthig, adareg, mamaliaid môr ac EMMP arfaethedig Menter Môn. Er bod effeithiau'r prosiect ar bysgod mudol wedi cael eu codi, nid yw hynny'n fater mwyach ac felly ni ymdriniwn ag ef ymhellach.[184] Cyflwynwyd ES hir a manwl iawn,[185] llwythi o wybodaeth amgylcheddol ychwanegol,[186] yr ymatebion i'r wybodaeth amgylcheddol ychwanegol,[187] ein hymatebion ni i'r ymatebion hynny,[188] yr ymatebion i'n modelu ychwanegol,[189] ac, wrth gwrs, yr holl wybodaeth a gynhyrchwyd a thystiolaeth a gafwyd yn yr ymchwiliad hwn. Mae'n gynhwysfawr, a dweud y lleiaf.

---

[180] Gwneir pwynt penodol yn araith i gloi'r RSPB (Cyf: Dogfen Ymchwiliad – 146, para. 23), a ragfynegwyd yn yr RT ar Swyddogaethau Rheoleiddiol, ynglŷn â'r ffaith nad yw a. 13C(4) TWA yn caniatáu gosod amodau ar ML, ond ei bod yn caniatáu hynny ar ganiatâd cynllunio tybiedig. Nid yw hyn o bwys. Fel y mae ***Smith*** yn egluro, gall Gweinidogion Cymru roi ystyriaeth o hyd i'r hyn y mae cyrff cyfrifol eraill yn debygol o'i wneud, a byddai'n annhebygol iawn i CNC osod amodau llai llym yn yr ML na'r rheiny a gynigir gan Fenter Môn ei hun.

[181] RT ar Fordwyo, Diwrnod 10, Sesiwn 1 y Bore

[182] a. 69(1)(c) yr MCAA 2009

[183] Gweler, er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth, para. 241 y Nodiadau Esboniadol i'r MCAA 2009.

[184] Gweler para.21 Proflen Dystiolaeth gryno CNC (Cyf: POE021).

[185] Cyf.(au): MDZ/A25.1-MDZ/A27.11

[186] Cyf.(au): MDZ/A28.1-MDZ/A31.17

[187] Cyf.(au): EIC001-EIC013

[188] Cyf.(au): Dogfennau Ymchwiliad – 044 a 086

[189] Cyf: MOC001

145. Mae hyn yn cyd-fynd yn llwyr â’r gofynion ar gyfer EIA ac Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd. Yn wir, fel y daeth yn amlwg yn yr ymchwiliad, efallai mai’r unig effaith fiolegol y mae’n ymddangos ein bod wedi’i methu yw effaith y prosiect ar ‘Eirth Dyfrol’,[190] a theimlwn yn hyderus y byddai hynny wedi cael ei gwmpasu allan petai’r mater wedi cael ei godi.

*Ecoleg ar y tir*

146. Fel y dywedasom ar y dechrau, mae llu o asesiadau wedi cael eu cynnal ynglŷn ag effaith y datblygiad hwn ar ecoleg ar y tir.[191] O’r rhain, yr unig fater sy’n weddill bellach yw’r effaith ar ecoleg lle mae’r ceblau’n glanio ar y tir, os oes rhaid iddynt fynd i fyny’r clogwyni yn Abraham’s Bosom.

147. Y datrysiad a ffefrir gan Fenter Môn yw defnyddio HDD i roi’r ceblau y tu mewn i’r clogwyni. Mewn amgylchiadau o’r fath, byddai’r ceblau’n dod allan 220m o’r clogwyn.[192] Mae Menter Môn a CNC wedi cytuno na fydd HDD yn cael effaith uniongyrchol ar yr ACA/AGA/SoDdGA, ac ar ôl gweithredu cynlluniau rheoli gellir ystyried bod unrhyw effeithiau anuniongyrchol yn fân niweidiol yn unig.[193] Mae amod 5 yr amodau arfaethedig ar gyfer y caniatâd cynllunio tybiedig yn cyfyngu ar allu Menter Môn i ddefnyddio unrhyw beth heblaw am HDD oni bai bod adroddiad ysgrifenedig yn cael ei gyflwyno i IoACC, a’i gymeradwyo ganddo, sy’n esbonio pam nad yw HDD yn bosibl.[194]

148. Ar hyn o bryd, nid oes rheswm i gredu na ellir defnyddio HDD. Mae Dr Orme wedi cadarnhau nad yw’r un o’r arolygon na’r gweithgareddau a gynhaliwyd hyd yma yn dangos unrhyw reswm pam na all hynny weithio.[195] Clywodd yr ymchwiliad hefyd gan Mark Wheeler,[196] un o Gyfarwyddwyr Technegol Black and Veatch Ltd, a phennaeth ei dîm geotechnegol yn y Deyrnas Unedig a’r rhanbarth EMEA, sydd â 44 blynedd o brofiad daeareg beirianegol a geotechnegol. Ailadroddodd y tyst tra chymwys hwn ei bod yn “*annhebygol iawn*” na fyddai HDD yn llwyddiannus. Yn gyffredinol, er bod rhai materion yn gallu codi gyda chreigiau, mae’r rhan fwyaf o waith HDD yn cael ei wneud yn llwyddiannus. Er y cydnabu’n deg nad oedd ystyriaeth fanwl o’r ardal benodol sydd dan sylw wedi cael ei chynnal, y risgiau mwyaf yn yr achos hwn oedd natur ysgrafellog y graig sy’n deillio o’r cwarts neu’r silica sydd ynddi, a’r posibilrwydd y gallai strata oleddu’n serth mewn rhai mannau. Fodd bynnag, roedd Mr Wheeler o’r farn, yn seiliedig ar ei wybodaeth bresennol, nad oedd unrhyw beth yma na ellid ei oresgyn trwy gyfuniad o ddewis y darn drilio iawn a defnyddio technoleg llywio. Mae Mr Billcliff hefyd wedi ychwanegu y gallai materion godi os oes gwagleoedd.[197] O ran hynny – ni fyddwn yn gwybod hyd nes y bydd y

[190] Cyfeiriad camsyniol Mr Fortune at eirth wrth gael ei groesholi
[191] Gweler e.e. Cyf: MDZ/P3 Proflen Dystiolaeth Mr Campbell, Cyf: MDZ/L6 Datganiad Tir Cyffredin (“Pynciau Eraill”) rhwng Menter Môn a CNC; Diweddariad i’r Asesiad o Ecoleg Ddaearol v04 (Cyf: MDZ/A28.18); Pennod 19 yr ES Cyf: MDZ/A25.19; Gwybodaeth i Gefnogi HRA (Cyf: MDZ/A31.16).
[192] Mr Campbell yn yr RT ar Ecoleg ar y Tir, Diwrnod 2, Sesiwn 2 y Bore
[193] Mr Campbell yn yr RT ar Ecoleg ar y Tir, Diwrnod 2, Sesiwn 2 y Bore a Cyf: MDZ/L6 Datganiad Tir Cyffredin Menter Môn gyda CNC ar “Bynciau Eraill”, tud.34.
[194] Cyf: Dogfen Ymchwiliad – 098
[195] Prif Dystiolaeth Dr Orme, Diwrnod 1, Sesiwn 1 y Bore a Sesiwn 1 y Prynhawn.
[196] Mr Wheeler yn yr RT ar Ecoleg ar y Tir, Diwrnod 2, Sesiwn 2 y Bore.
[197] Proflen Dystiolaeth Mr Billcliff, para. 4.11.4 (Cyf: MDZ/P8)

drilio'n dechrau. Felly, nid oes rheswm amlwg i feddwl efallai na fydd HDD yn bosibl yma, ond tan fod manyleb y prosiect yn cael ei chwblhau'n derfynol a'r dulliau'n cael eu defnyddio, mae'n rhaid cynllunio ar gyfer unrhyw fethiant posibl.

149. Y datrysiad amgen a ddatblygwyd gan Fenter Môn yw rhedeg ceblau mewn tiwbiau-J dros ymyl y clogwyn yn Abraham's Bosom. Mae'n bwysig nodi nad dull "*y cwbl neu ddim*" yw hwn. Mae'n gywir, fel y cadarnhaodd Dr Orme yn ei dystiolaeth, na all y llwybr ar gyfer unrhyw gebl penodol ddefnyddio HDD a gosod tiwbiau-J ynghlwm wrth y clogwyn. Fodd bynnag, bydd nifer o geblau a nifer o dyllau turio – naw yr un. Mae'n eithaf posibl y gellir defnyddio rhai tyllau turio, tra byddai eraill yn anymarferol ar gyfer HDD. Yn unol â hynny, ac fel y cadarnhawyd gan Mr Billcliff, mae datrysiad hybrid yn bosibl.[198] Nid ydym yn dibynnu ar hynny – at ddibenion yr asesiad hwn, rydym wedi tybio yn y senario achos gwaethaf y bydd rhaid i bob cebl gael ei osod gan ddefnyddio'r dull tiwb-J – ond gall yr Arolygydd a Gweinidogion Cymru gael rhywfaint o gysur o'r ffaith pe na byddai HDD yn gweithio, y gallai'r asesiad a gynhaliwyd fod yn waeth na'r hyn a ddigwyddodd.

150. Gan droi, felly, at y sefyllfa wrth gefn, mae'n werth cofio'r camau a gymerwyd gan Fenter Môn ar ôl cyflwyno'r cais i ystyried pryderon CNC a lleiafu effaith bosibl y prosiect ar yr ACA/AGA/SoDdGA gymaint â phosibl. Yn dilyn cais gan CNC, cynhaliodd Menter Môn arolwg botanegol manwl o'r llystyfiant ar glogwyni ym mis Mehefin 2020. O ganlyniad i hynny, a thrwy ymgynghori ymhellach, mae nifer o gamau wedi cael eu cymryd i leihau effaith y prosiect ar y cynefin gymaint â phosibl. Gwnawn bedwar pwynt allweddol:

(i) Microleoli. Mae'r lanfa bellach wedi cael ei lleoli o fewn rhan gul iawn o'r ACA er mwyn lleihau'r ôl troed ar y cynefin dynodedig gymaint â phosibl. Yn y lleoliad hwn, mae'r ACA wedi'i chyfyngu i wyneb y clogwyn ac nid yw'n cynnwys y glaswelltir ar ben y clogwyn. Ar ôl derbyn data Arolwg Botanegol (NVC) 2020[199], mae'r llwybr wedi cael ei ficroleoli ymhellach i osgoi cymaint o'r clogwyn môr â llystyfiant â phosibl – tua 50% o arwyneb y clogwyn.[200]

(ii) Osgoi. Mae lled y coridor gweithio wedi cael ei leihau o fewn yr ACA o 30m gyda lled gweithio o hyd at 30m ar bob ochr (cyfanswm o 90m), i 7m gyda lled gweithio o 2m ar bob ochr (cyfanswm o 11m). Yr ôl troed adeiladu diwygiedig o fewn y clogwyn yw 510m$^2$, [201] sef 88% yn llai nag ôl troed gwreiddiol y prosiect a aseswyd yn yr ES.[202] Mae'r holl gynefin rhostir gwlyb a sych eisoes wedi cael ei osgoi hefyd wrth greu ffin wreiddiol y datblygiad a gyflwynwyd yn yr ES.

(iii) Methodoleg adeiladu a chynnal a chadw. I leihau difrod i'r ACA gymaint â phosibl, cynigir bellach ddrilio'r tiwbiau-J i mewn i'r clogwyn gan ddefnyddio bolltau angori, a fydd yn caniatáu i'r tiwbiau-J gael eu gosod tua 400mm i ffwrdd oddi wrth wyneb y clogwyn. Bydd y tiwbiau-J yn cael eu drilio gan ddefnyddio offer echdynnu llwch.[203] Ar ben y clogwyn, bydd gwaith o fewn

[198] Proflen Dystiolaeth Mr Billcliff, para 4.11.4.4 (Cyf: MDZ/P8)
[199] Cyf: MDZ/F10
[200] Mae'r llwybr wedi'i ficroleoli ar gael yn Ffigur 1, Diweddariad i'r ES (Cyf: MDZ/A28.18)
[201] Mr Campbell yn yr RT ar Ecoleg ar y Tir, Diwrnod 2, Sesiwn 2 y Bore.
[202] Cyf: MDZ/A31.4 Adran 6.1.2
[203] Fersiwn 04 y Diweddariad i'r ES (Cyf: MDZ/A31.4), para 5.2.1. Yn ystod yr RT, cododd yr Arolygydd fater llwch a pha mor effeithiol y gallai unrhyw gynllun fod, o ystyried y gallai llwch

cynefinoedd glaswelltir heb ei wella yn cael ei osgoi cyn belled ag y bo'n bosibl, a bydd unrhyw gyflenwadau'n cael eu pentyrru neu eu storio o fewn ardaloedd glaswelltir gwael wedi'i led-wella / wedi'i wella. Bwriedir gwneud gwaith yn uniongyrchol ar wyneb y clogwyn neu gan ddefnyddio craen wedi'i osod ar ben y clogwyn, y tu allan i'r ACA. I leihau rhyngweithio ag wyneb y clogwyn gymaint â phosibl, bydd mesurau'n cael eu rhoi ar waith wrth adeiladu'r tiwbiau-J (fel y rheiliau gafael) i sicrhau bod gweithgareddau cynnal a chadw (h.y. archwilio ac ailbeintio) yn gallu digwydd heb aflonyddu ar y clogwyn ymhellach yn ystod cynnal a chadw.[204] Mae CNC wedi cadarnhau ei fod yn fodlon y bydd y mesurau hyn yn sicrhau y byddai effeithiau yn ystod gwaith cynnal a chadw yn rhai mân niweidiol.[205]

(iv) Darparu cynlluniau rheoli amgylcheddol i reoli risgiau adeiladu ac amgylcheddol a sicrheir trwy amod cynllunio. Mae'r rhain yn cynnwys:

a. Cynllun gweithredu ecolegol,

b. Cod ymarfer adeiladu a chynllun rheoli atal llygredd,

c. Cynllun rheoli pridd a chynllun rheoli tywarch,

ch. Cynllun rheoli llwch,

d. Cynllun rheoli rhywogaethau estron goresgynnol,

dd. Cynllun rheoli tirwedd,

e. Strategaeth gwella bioamrywiaeth (Cyf: Dogfen Ymchwiliad – 070, y cytunwyd arni gyda CNC).

f. Mae copi o'r amodau cynllunio arfaethedig, y cytunwyd arnynt i gyd namyn un, yn Cyf: Dogfen Ymchwiliad – 098 (gweler amodau 3, 5, a 7).

151. Mae hynny'n dod â ni i'r unig fater sy'n destun dadl – effaith y datblygiad arfaethedig ar ACA/AGA/SoDdGA Glannau Ynys Gybi. Cytunir y bydd gosod y tiwbiau-J yn arwain at golli rhywfaint o'r cynefin clogwyn môr â llystyfiant (er hynny gryn dipyn yn llai na'r hyn a ystyriwyd yn wreiddiol). Mae Menter Môn a CNC yn anghytuno ynglŷn â ph'un a fyddai'r golled honno'n arwain at AEOSI. Byddwn yn amlinellu (1) cyflwr presennol y cynefin, (2) effaith ffisegol y gwaith arfaethedig ac yna (3) p'un a all hynny fod yn gyfystyr ag effaith arwyddocaol yn nhermau EIA neu AEOSI.

152. Cytunwn â CNC i raddau helaeth ynglŷn â chyflwr y cynefin a beth fydd effaith ffisegol y gwaith. O ran y cynefin, credwn y cytunir bod amrywiaeth o fathau o gynefinoedd yn bresennol ar wyneb y clogwyn ac ar ben y clogwyn. Mae cynllun o'r rhain ar gael yn Ffig. 1 fersiwn 4 o'r Diweddariad i Ecoleg Ddaearol.[206] Mae hyn yn cynnwys cymunedau MC1, MC1b, a brithwaith o MC5b/MC8f – yr holl gymunedau a

clai mân fod yn fwy anodd ei reoli na llwch mwy gronynnog. Dywedodd Mr Wheeler ei fod yn credu y byddai'n llwch mwy gronynnog yn yr achos hwn, a bod Mr G Lewis a Ms H Lewis wedi cadarnhau bod CNC yn fodlon ar fater rheoli llygredd os gellir cyflwyno cynllun boddhaol iddo (RT ar Ecoleg ar y Tir, Diwrnod 2, Sesiwn 2 y Bore.)

[204] Fersiwn 04 y Diweddariad i'r ES (Cyf: MDZ/A31.4)

[205] Cyf: MDZ/L6 tud.35

[206] Cyf: MDZ/A31.4, rhwng tud.(au) 38-39

restrir ar y dynodiad Atodiad 1. Mae wyneb y clogwyn hefyd yn cynnwys ardaloedd eraill, fel prysgwydd draenen ddu, ac ardal o graig noeth yn union uwchben y parth rhynglanw.[207] Dylid hefyd nodi er bod CNC wedi gofyn yn benodol i Fenter Môn archwilio'r ardal am fodolaeth cor-rosyn rhuddfannog, chweinllys ysbodolaidd, cen eurwallt a chen strap blewynnog, ni ddaethpwyd o hyd i'r un ohonynt.[208] Daethpwyd o hyd i ddwy rywogaeth arall o'r dynodiad SoDdGA (cedowydd suddlon a rhywogaethau o'r cydgasgliad lafant y morgreigiau) yn y cymunedau MC1b ac MC1. Dyna gyflwr y cynefin ar hyn o bryd.

153. Gan droi at effaith y gwaith arfaethedig, ystyriwn yr effaith yn ystod adeiladu ac yna yn ystod y camau gweithredu a datgomisiynu.

154. O ran y cam adeiladu (sef y prif ffocws yma),[209] mae Menter Môn wedi asesu colli cynefin ar y sail y bydd torri ffos rhwng llain arfordirol gul yn achosi aflonyddu a cholli cynefin dros dro ar gyfer 0.046% o'r Clogwyni Môr â Llystyfiant Atodiad I o'r Cynefin Arfordiroedd Iwerydd a Baltig. O hyn, dim ond 0.029% fydd yn destun effeithiau yn y tymor hir (h.y. dros oes 37+ blynedd y prosiect a 10 mlynedd o adfer) a byddai'r 0.016% sy'n weddill yn destun effeithiau yn ystod adeiladu yn unig. Asesodd Menter Môn fod unrhyw golled yn adferadwy yn y tymor hir, ac ni fydd yn arwain at golli'r rhywogaethau allweddol sy'n gwneud y cynefin yn unigryw yn yr ACA. Dylem nodi dau beth wrth fynd heibio:

(i) Mae'r 0.046% hwn ynddo'i hun yn ffigur rhagofalus iawn. Yn dilyn data Arolwg Botanegol (NVC) 2020, mae Menter Môn o'r farn bod yr ardal wirioneddol o Gynefin Atodiad I yr effeithir arni tua 50% o'r ffigur 0.046% hwnnw – sef 0.023%.[210] Fodd bynnag, rydym wedi asesu ac yn parhau i ddefnyddio'r ffigur 0.046%, ac yn ystod yr RT ar Ecoleg cadarnhaodd Ms H Lewis ei bod yn fodlon symud ymlaen gan ddefnyddio'r ffigur rhagofalus iawn hwnnw.[211]

(ii) Bu rhywfaint o drafodaeth yn ystod yr RT ar Ecoleg ynglŷn â ph'un a ddylai'r effeithiau gael eu hystyried yn rhai tymor byr ond tymor hir (dosbarthiad Menter Môn) neu barhaol (fel yr awgrymwyd gan Ms H Lewis). Nid yw'r effeithiau'n barhaol mewn gwirionedd oherwydd bydd y cynefin yn adfer – cynefin dynamig ydyw, er hynny'n un sy'n araf i adfer. Yn wir, cytunodd Ms H Lewis fod ein cyfnod adfer awgrymedig o 5-10 mlynedd yn rhesymol. Yn lle hynny, awgrymodd Ms H Lewis y dylai gael ei thrin fel effaith barhaol ar hyd oes y prosiect. Dywedwn nad yw hynny'n iawn – os byddwch yn trin effeithiau

---

207 Mr Campbell yn yr RT ar Ecoleg ar y Tir, Diwrnod 2, Sesiwn 2 y Bore. Roedd Ms H Lewis o CNC a Mr Campbell ar ran Menter Môn yn anghytuno ynglŷn â ph'un a ddylai pethau fel y graig noeth honno, lle nad oes cymunedau MBC [nodyn gan yr Arolygydd: Nid yw'r talfyriad hwn wedi'i ddiffinio'n glir], gael eu hystyried yn rhan o'r cynefin "Atodiad 1". Dywedodd Ms H Lewis ie, dywedodd Mr Campbell na. Fodd bynnag, fel y cadarnhaodd Mr Campbell yn yr RT Ecolegol, fel dull rhagofalus, mae'r asesiad yn ystyried fel senario achos gwaethaf y rhannau eraill o'r cynefin nad ydynt wedi'u hamddiffyn gan Atodiad 1. Felly, efallai bod gwahaniaeth fan hyn o ran dull, ond oherwydd bod Menter Môn wedi gweithredu mewn modd rhagofalus, nid yw wedi effeithio ar yr asesiad.

208 Mr Campbell yn yr RT ar Ecoleg ar y Tir, Diwrnod 2, Sesiwn 2 y Bore

209 O ran gweithredu a datgomisiynu, yn dilyn y newid i fethodoleg cynnal a chadw, mae Menter Môn yn asesu y bydd, yn yr achos gwaethaf, cen epilithig yn cael ei golli o fewn yr ôl troed cyfan – effaith o arwyddocâd niweidiol bach y mae CNC yn cytuno â hi – gweler Cyf: MDZ/I7. Nid yw'r Ymgeisydd yn sôn am hyn ymhellach yma.

210 Cyf: MDZ A31.4 Adran 8, Mr Campbell yn yr RT ar Ecoleg ar y Tir, Diwrnod 2, Sesiwn 2 y Bore

211 Ms H Lewis yn yr RT ar Ecoleg ar y Tir, Diwrnod 2, Sesiwn 2 y Bore

ar gynefin fel rhai parhaol dim ond oherwydd y byddant yn parhau cyhyd ag y byddai'r prosiect, byddwch yn cael effeithiau parhaol ar gynefin bob tro.

155. Gan droi, felly, at b'un a yw'r effeithiau adeiladu hyn yn arwyddocaol neu'n achosi AEOSI: mae Menter Môn yn dadlau bod effeithiau ffisegol y prosiect yn arwain at effaith niweidiol fach (h.y. un o faint dibwys ar dderbynnydd o bwysigrwydd uchel), nad yw'n arwyddocaol yn nhermau EIA ac nad yw'n achosi AEOSI. Yn yr un modd â HDD, asesir bod yr effeithiau anuniongyrchol sy'n deillio o waddodion ffo o bentyrrau o ddeunydd a gloddiwyd ac effeithiau llwch a gynhyrchir yn ystod adeiladu yn rhai niweidiol bach hefyd.[212] Deuir i'r casgliad hwn – nad oes AEOSI – o ystyried goblygiadau meintiol ac ansoddol y gwaith.

156. Gan ddechrau gyda maint yn gyntaf – mae amrywiaeth o effeithiau ar gynefinoedd y gellir ystyried eu bod mor fach fel nad oes AEOSI. Mae Mr Campbell wedi amlinellu rhai achosion lle y barnwyd bod effaith *de minimis*. Mae adolygiad Natural England, sef *Effeithiau ar Raddfa Fach: Sut mae graddfa effeithiau wedi cael ei hystyried o ran cynlluniau a phrosiectau sy'n effeithio ar safleoedd Ewropeaidd – adolygiad o benderfyniadau awdurdodol* (2016),[213] yn crynhoi llawer o'r penderfyniadau pwysicaf hyd at ei ddyddiad cyhoeddi. Mae rhan B yn archwilio'n benodol pam mae graddfa'r effaith yn bwysig i wneud penderfyniadau, ac mae rhan B.3 yn nodi sut gallai graddfa effaith ddylanwadu ar gasgliadau'r profion cam 1 (sgrinio) a cham 2 (asesiad priodol ac effaith ar gyfanrwydd). Mae'n datgan "*mae cyfanrwydd safle wedi'i gysylltu'n annatod â'r cysyniad o raddfa'r effaith*".[214] Yn ymarferol, mae tabl C.3[215] yn cofnodi bod hyn yn gallu bod yn unrhyw beth rhwng 0.00153% a 0.056% o'r ACA, neu 0.0000019% - 0.41% o'r cynefin perthnasol yn yr ACA, yn dibynnu ar y math o effaith a natur y cynefin. Mae tystiolaeth Mr Campbell hefyd yn archwilio rhai penderfyniadau mwy diweddar (penderfyniad Norfolk Vanguard (2020))[216] yn ogystal â Fferm Wynt ar y Môr Walney (2014), Parc Morol Able (2013) a phenderfyniad piblinell Gilwern i Hafodyrynys (2012). Crynhown hyn mewn tabl isod:

| **Prosiect** | **% y cynefin** | **Arwynebedd y cynefin a gollwyd** | **Math o Gynefin Atodiad I** |
|---|---|---|---|

[212] Mr Campbell yn yr RT ar Ecoleg ar y Tir, Diwrnod 2, Sesiwn 2 y Bore.

[213] Atodiad 1 Proflen Dystiolaeth Mr Campbell (Cyf: MDZ/P3).

[214] Mewnol tud.11 (PDF tudalen 72 o 218) Atodiad 1 Cyf: MDZ/P3

[215] Mewnol tud.15 (PDF tudalen 76 o 218) Atodiad 1 Cyf: MDZ/P3

[216] Roedd tystiolaeth Mr Campbell hefyd yn dibynnu ar y llythyr "O blaid" ym mhenderfyniad Hornsea 3. Fodd bynnag, ers i dystiolaeth Mr Campbell gael ei rhoi, mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi rhoi Gorchymyn Caniatâd Datblygu i brosiect Hornsea P3. Wrth wneud hynny, mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi ailystyried y casgliadau ynglŷn ag AEOSI ar gynefinoedd banc tywod ACA Riff Sadwrn a Banciau Tywod Gogledd Norfolk ac ACA The Wash ac Arfordir Gogledd Norfolk, a daeth i'r casgliad na ellir diystyru AEOSI ar sail ansicrwydd ynglŷn ag i ba raddau y gall y cynefin Atodiad I dan sylw adfer. Ni newidiwyd y penderfyniad gan gyfeirio at raddfa'r cynefin dan sylw, ac nid yw'r newid hwn i'r penderfyniad yn effeithio ar yr olion traed o ran penderfyniadau de minimis a gyflwynir yn Adran 5.34 Proflen Dystiolaeth Mr Campbell, gan fod terfyn uchaf y cynefinoedd Banciau Tywod Atodiad I yr effeithir arnynt (1.4% o arwynebedd yr ACA ar gyfer y cynefinoedd yr effeithir arnynt) wedi'i ddiffinio gan achos Norfolk Vanguard a gyflwynwyd, nid achos Hornsea P3.

| | **a gollwyd** | | |
|---|---|---|---|
| Norfolk Vanguard (2020) | 0.26-1.4% | Hyd at 930ha | Banciau tywod |
| Fferm Wynt ar y Môr Walney (2014) | 0.41% | 2.46ha | Fflatiau llaid rhynglanw |
| Parc Morol Able (2013) | 0.33% | 31.5ha | Fflatiau llaid rhynglanw |
| Piblinell Gilwern i Hafodyrynys (2012) | 0.28% | 1ha | Rhostir sych Ewropeaidd |
| Adeiladu llwybr arwyneb caled newydd yn Henborth (2019)[217] | Dd/B | Dim arwynebedd wedi'i ddarparu<br><br>Coridor 1m o led i lawr y clogwyn | Rhostir sych Ewropeaidd |
| *Dewiswyd y gwerth uchaf pan ystyriwyd mwy nag un ôl troed.* | | | |

157. Fel y gwelir yn syth o'r tabl hwnnw, rydym ymhell o fewn yr amrediad lle y penderfynwyd nad oes AEOSI. Yn ystod yr RT, mae Ms H Lewis wedi gwneud rhai pwyntiau ynglŷn â'r gwahaniaeth rhwng Clogwyn â Llystyfiant ar un llaw â Chynefinoedd fel Banciau Tywod a Fflatiau Llaid Rhynglanw ar y llall. Derbyniwn fod y cynefinoedd hyn yn wahanol a'r hyn sy'n bwysig yw barn Gweinidogion Cymru yn y cyd-destun presennol. Fodd bynnag, dylai barn gael ei llywio gan benderfyniadau blaenorol ac mae'r rhain yn rhoi cyd-destun defnyddiol a darbwyllol. Er mwyn osgoi pob amheuaeth, derbyniwn nad maint yw diwedd y dadansoddiad.

158. Mae'n rhaid ystyried ansawdd hefyd, wrth gwrs. Mae hyn yn cynnwys ystyried materion fel prinder, lleoliad, dosbarthiad, sensitifrwydd i newid a strwythur ecolegol y cynefin yr effeithir arno er mwyn pennu p'un a allai effaith ar raddfa fach arwain at AEOSI. Mae'r farn hon yn benodol i'r cyd-destun, wrth gwrs. O ystyried popeth gyda'i gilydd, mae Menter Môn yn honni na fyddai hyn yn arwain at AEOSI. Cyfeiriwn yr ymchwiliad at Broflen Dystiolaeth Mr Campbell a nodwn fel a ganlyn:[218]

(i) Nid oedd Arolwg Botanegol (NVC) 2020[219] wedi canfod tystiolaeth o'r pedair rhywogaeth allweddol a amlygwyd gan CNC (fel y nodwyd yng Nghynllun Rheoli Craidd y safle[220]) o fewn yr ôl troed gweithio. Dywedodd Ms H Lewis fod rhywogaethau'r SoDdGA (Cedowydd Suddlon a chydgasgliad lafant y

[217] Dychwelwn at lwybr Henborth isod – nid prosiect seilwaith ydyw fel y lleill, yn amlwg.
[218] Cyf: MDZ/P3 para 5.35
[219] Cyf: MDZ/F10
[220] Cyf: MDZ/F2

morgreigiau) yn bwysig hefyd, a bod y cyntaf yn brin yn genedlaethol, ac felly ni ellir diystyru pwysigrwydd yr ardal. Nid yw Menter Môn yn diystyru pwysigrwydd yr ardal mewn unrhyw ffordd, ond mae absenoldeb y pedair rhywogaeth allweddol a geisir gan CNC yn berthnasol. Byddai presenoldeb un o'r pedair rhywogaeth hyn yn amlygu'r rhan benodol hon o'r clogwyn fel ardal allweddol o werth uchel yn yr ACA. Mae'r rhywogaethau hyn yn brin ac wedi'u lleoli mewn nifer fach o ardaloedd yn yr ACA, gyda chytrefi ar wahân yn bresennol yn aml. Petaent wedi bod yn bresennol, ni fyddem wedi dod i'r casgliad y byddai'r cynefin wedi gallu ailgytrefu ar ôl adeiladu, oherwydd pe byddai'r rhywogaethau hyn yn cael eu colli mewn un ardal, ni fyddem yn hyderus y byddent yn ailgytrefu, gan ei bod yn annhebygol bod ardaloedd gerllaw a all ddarparu egin / banc hadu ar gyfer ailgytrefu;

(ii) Mae'r cynefin clogwyn môr â llystyfiant yn ecosystem ddynamig oherwydd ei natur, sy'n cynnwys rhywogaethau arloesi a sefydlwyr cynnar tir y tarfwyd arno, ac mae wedi'i leoli ar is-haen sy'n weithredol ac yn dueddol o gwympo'n anfynych. Er bod y cynefin yn ymylol ac felly'n dueddol o gael ei niweidio'n rhwydd, mae'n gallu adfer hefyd. Fel y cyfryw, gan dybio bod cyfanrwydd y cynefinoedd amgylchynol yn cael ei gynnal, mae'r rhagolygon y gallai cynefin y clogwyn adfer ar ôl tarfu arno yn gadarnhaol yn y tymor hir.[221] Dywedodd Ms H Lewis fod cynefin arloesi yn dibynnu ar yr amodau. Nid ydym yn anghytuno â hynny, ond gan y bydd yr amodau yr un fath ar ôl datgomisiynu (yr un is-haen, yr un strwythur clogwyn megis cadw agennau / silffoedd a'r greicaen sy'n gysylltiedig â nhw, yr un dylanwad halwynog, yr un amodau hinsoddol, yr un banc hadu gerllaw, yr un cynefinoedd ar ben y clogwyn), bydd yr amodau'n bresennol ar gyfer ailgytrefu. Fe allai hyn gymryd amser (cydnabyddwn 5-10 mlynedd), ac efallai na fydd yn union yr un fath â'r hyn a gollwyd (o ystyried bod y cynefin yn frithwaith gyda phocedi amrywiol o ddiddordeb), ond mae ailgytrefu'n debygol o ddigwydd.

(iii) Llain gul yw'r ardal yr effeithir arni (11m o led ar y mwyaf), yr ystyrir ei bod yn annhebygol o atal y patrwm gwasgaru hadau neu gysylltedd cynefin ar draws yr ardal weithio, ac felly ni fydd yn effeithio ar weithrediad cyffredinol yr ecosystem y tu hwnt i'r cynefin yr effeithir arno'n uniongyrchol;

(iv) Cyfeiriodd Ms H Lewis at yr amcanion cadwraeth, gan honni nad ydynt yn derbyn sylw mewn gwirionedd yn asesiad ecolegol Menter Môn a phwysleisio (gan gyfeirio at un dangosydd perfformiad), na ddylai fod unrhyw weithgarwch anthropogenig a allai newid graddau'r nodweddion. Ystyriwyd yr Amcanion Cadwraeth yn benodol ym mhroflen Mr Campbell a thrwy gydol y ddogfen – gweler e.e. para. 1.7 Proflen Dystiolaeth Mr Campbell[222] a phara.(au) 9.2 -9.3 y Diweddariad Ecoleg Ddaearol (fersiwn 4).[223] O ran pryderon ynglŷn ag amcanion cadwraeth yn benodol:

[221] Yn ystod yr RT, dywedodd Ms H Lewis nad oes modd ail-greu yn union debyg. Derbyniwn na fyddai unrhyw gamau ychwanegol a gymerir gan Fenter Môn i helpu gydag adenillion bioamrywiaeth clir (gweler isod) trwy newid cynefin glaswelltir yn ail-greu'r cynefin clogwyn môr â llystyfiant Atodiad 1 a gollir, ond nid yw erioed wedi honni fel arall. Nid ydym yn deall sut mae hyn yn berthnasol i'r pwynt ynglŷn â ph'un a yw unrhyw golled yn arwyddocaol a/neu'n AEOSI

[222] Cyf: MDZ/P3

[223] Cyf: MDZ/A28.18

a. mae *Safleoedd ar Raddfa Fach* yn nodi y bydd y graddau y gallai datblygiad danseilio'r amcanion cadwraeth yn dibynnu ar ei faint.[224] Mae hyn, yn amlwg, yn rhywbeth y mae Mr Campbell wedi rhoi ystyriaeth iddo wrth ddod i'w gasgliad, a

b. llwybr Henborth. Mae hyn yn enghraifft ddefnyddiol o ganiatâd cynllunio[225] a roddwyd ar gyfer llwybr (preifat) yn yr ardal sensitif hon. Mae'r cynnig yn cynnwys creu llain 1m o led o lwybr newydd ag arwyneb caled yn lle llwybr presennol heb darmac. Derbyniodd Mr Llewellyn nad yw'r llwybr presennol hwnnw i'w weld yn ei fideos a bod llystyfiant wedi gordyfu drosto i raddau helaeth. Roedd CNC a IoACC o'r farn, ar sail astudiaeth ecolegol fras a gynhaliwyd ar fwrdd gwaith, nad oedd unrhyw effeithiau arwyddocaol tebygol ar gyfer EIA a dim effaith niweidiol o ran cynefinoedd.[226] Cadarnhaodd Ms H Lewis fod CNC wedi ymweld â'r ardal hon[227] ac, o ran yr un ardal o glogwyni yn yr un ACA/AGA/SoDdGA, eu bod yn fodlon â'r gwaith hwn, a'r dulliau adeiladu. Mae hyn yn dangos bod safbwynt digyfaddawd eu tyst nad yw'r amcanion cadwraeth yn caniatáu ar gyfer "*unrhyw weithgarwch anthropogenig a allai newid graddau'r nodweddion*" a "*dim dirywiad mesuradwy ym maint y nodwedd a fapiwyd ym Mhenrhyn Mawr neu Fynydd Caergybi*" yn anghywir. Mae'n ymddangos yn rhyfeddol y byddai CNC yn defnyddio dull llymach o lawer pan fo'r cynllun dan sylw'n rhoi cymaint o fudd i'r cyhoedd, ond yn defnyddio dull mwy pragmatig (neu realistig ym marn rhai) o ran datblygiad preifat nad yw'n rhoi unrhyw fudd o gwbl i'r cyhoedd.

(v) Dywedodd Ms H Lewis fod Clogwyni Môr wedi'u cyfyngu i'r parth arfordirol, sef 1% o Gymru. Mae Menter Môn yn derbyn hynny, ond o ystyried y pwyntiau blaenorol nid yw hynny'n golygu na ellir dod i gasgliad o effaith niweidiol fach. Dim ond canran fach iawn o'r cynefin clogwyn môr â llystyfiant Atodiad I yr ydym yn effeithio arni. Mae'n bwysig cymharu'r golled yn erbyn faint o'r cynefin hwn sy'n bresennol yn lleol, nid cyffredinrwydd y cynefin yn y wlad.

(vi) Ar adegau, yn ystod yr RT ar ecoleg, roedd yn ymddangos bod Ms H Lewis yn edrych ar y cam anghywir o'r asesiad, gan ofyn a oedd effaith arwyddocaol yn debygol – y cam sgrinio mewn unrhyw asesiad cynefinoedd. Fodd bynnag, ar y cam hwn, rydym wedi mynd heibio i'r cam sgrinio a'r cwestiwn yw p'un a oes AEOSI.

159. Yng ngoleuni hyn, a natur dros dro'r effeithiau, daw'r prosiect i'r casgliad nad oes AEOSI ar yr ACA. Mae'r casgliad hwn yn cyd-fynd yn gyfforddus â phenderfyniadau blaenorol.

160. Achubwn ar y cyfle hwn hefyd i atgoffa'r ymchwiliad o'r canlynol:

---

[224] Atodiad 1 i Cyf: MDZ/P3, proflen dystiolaeth Mr Campbell.

[225] Gwadodd Mr Llewellyn fod ganddo ganiatâd cynllunio ar gyfer hyn i ddechrau, ond daeth i'r amlwg ar ôl holi yn ystod y sesiwn siarad cyhoeddus (Diwrnod 2, sesiwn siarad cyhoeddus y prynhawn) fod ganddo ganiatâd cynllunio ar ei gyfer, a'i fod yn amodol yn unig fel pob caniatâd cynllunio.

[226] Cyf: MDZ/P3 Atodiadau 11 a 12.

[227] Ms H Lewis, RT ar Ecoleg ar y Tir, Diwrnod 2, Sesiwn 2 y Bore.

(i) Mae’r morlin gorllewinol cyfan yn Safle Ewropeaidd dynodedig, felly os bwriedir cael prosiect ynni sy’n glanio ar Ynys Môn, sef rhywbeth a gefnogir gan WNMP, ymhlith pethau eraill, bydd rhaid mynd trwy’r safle a warchodir *yn rhywle* oni bai y gellir defnyddio HDD – ac ni all unrhyw un fod yn gwbl sicr bod hyn yn bosibl hyd nes y rhoddir cynnig arno. Mae Menter Môn wedi dewis y rhan gulaf o’r safle a warchodir. Bydd rhaid i unrhyw gynllun sy’n cael ei gyflwyno ddweud yr hoffai ddefnyddio HDD, ond ni all ddiystyru’r angen am opsiwn wrth gefn.

(ii) Y dulliau gwella cynefin y mae Menter Môn yn bwriadu eu rhoi ar waith, trwy fenter adenillion bioamrywiaeth net.[228] I fod yn glir iawn, nid ydym yn dweud mai “digolledu” yw hyn o fewn Erth. 6(4) y Gyfarwyddeb Cynefinoedd oherwydd dywedwn nad oes AEOSI. Fodd bynnag, cydnabyddwn y bydd rhai effeithiau (er hynny’n rhai *de minimis*) ar gynefinoedd y clogwyn, ac felly bwriadwn gymryd camau i adfer ardaloedd glaswelltir i gyflwr mwy naturiol ar hyd pen y clogwyn, i wella’r ecosystem arfordirol a chaniatáu ar gyfer datblygu parth trosiannol mwy naturiol. Mae CNC[229] wedi rhoi gwybod i Fenter Môn ei fod yn fodlon â’r cynllun gwella amlinellol hwn Cyf: Dogfen Ymchwiliad – 070.

161. Petai Gweinidogion Cymru yn gwrthod pob un o’r uchod ac, yn lle hynny, yn derbyn achos CNC bod yr effaith ar y clogwyni’n golygu na ellir diystyru AEOSI, yna mae ffordd arall o wneud y Gorchymyn o hyd – fel y mae CNC wedi awgrymu.

162. I fod yn glir, nid dyma’r achos y mae Menter Môn wedi’i gyflwyno, ac yn lle hynny anogwn gasgliad o ddim AEOSI yn seiliedig ar yr uchod. Yn ei araith i gloi, mae CNC yn dweud, gan ddibynnu ar achos Hart fel y’i cymhwyswyd gan y Llys Apêl ym ***Mynydd Gwynt*** (gweler para. 11 araith i gloi CNC), y dylid rhoi pwys mawr i safbwyntiau CNC ar y mater hwn oherwydd CNC yw’r corff cadwraeth natur priodol a bod angen rhesymau “cryf” i wyro oddi wrth ei safbwynt. Mae CNC hefyd yn cyfeirio at yr hyn a ddywedir yn TAN5, hynny yw y dylid gwyro oddi wrth safbwyntiau CNC ar faterion o’r fath dim ond lle y ceir “rhesymau eithriadol ac argyhoeddiadol”. Honnir mai’r sefyllfa gywir o ran y gyfraith yw honno a amlinellir gan y Llys Apêl ym ***Mynydd*** – achos o 2018, yn hytrach na’r TAN cynharach o 2009. Honnir, sut bynnag, bod tystiolaeth fanwl Mr Campbell a’r dogfennau manwl eraill a gyflwynwyd sy’n ymdrin yn helaeth ag ecoleg ar y tir (gweler uchod) yn rhoi sail gref ac, yn wir, cymhellol ac argyhoeddiadol dros wyro oddi wrth safbwyntiau CNC. Pan fydd safbwynt CNC yn cael ei herio a’i brofi a’i archwilio’n llawn mewn ymchwiliad – fel y mae yn yr achos hwn – nid yw’n iawn bod rhyw faich rhy uchel yn cael ei osod er mwyn i’w safbwyntiau gael eu diystyru. Ategir hyn gan nifer o achosion (gweler e.e. ***Wealden DC v Yr Ysgrifennydd Gwladol dros Gymunedau a Llywodraeth Leol*** [2017] EWHC 351 (Admin) yn 44 (viii) yn ôl y Barnwr Jay a ***Thorpe Hall Leisure Ltd v Yr Ysgrifennydd Gwladol dros Dai, Cymunedau a Llywodraeth Leol*** [2020] EWHC 44 (Admin) 15 Ionawr 2020 yn ôl Syr Duncan Ouseley a oedd yn

[228] Tystiolaeth RT Mr Campbell. Yn ystod yr RT, dywedodd Mr G Lewis ar ran CNC nad yw adenillion bioamrywiaeth net yn gysyniad sy’n bodoli ym Mholisi Cynllunio Cymru, sy’n sôn yn lle hynny am wella ac adfer. Mae Menter Môn yn honni nad oes unrhyw beth yn troi ar hyn.

[229] Mae’r ffaith y daethpwyd i gytundeb wedi’i chofnodi yn Cyf: Dogfen Ymchwiliad - 064

eistedd fel Barnwr Uchel Lys ym mhara.(au) 35 a 63– 64)[230] a phenderfyniadau mewn nifer o apeliadau cynllunio eraill. Mae'r dystiolaeth wedi cael ei phrofi a'i harchwilio. Dylai achos CNC o ran y gyfraith a'r ffeithiau gael ei wrthod.

163. Ond, os bydd Gweinidogion Cymru yn ein herbyn yn y pen draw, fel y mae CNC yn awgrymu, yna mae Rheol. 64 yn llwybr amgen sydd ar gael i Weinidogion Cymru. Dyma'r llwybr tuag at ganiatâd a ddefnyddiwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol ym mhenderfyniad diweddar Fferm Wynt ar y Môr Hornsea 3.

164. I roi caniatâd trwy'r llwybr hwn, mae rheol.(au) 64 a 68 y Rheoliadau Cynefinoedd yn mynnu tri pheth:

(i) Yn gyntaf, bod y prosiect yn cael ei gynnal am resymau hanfodol er budd cyhoeddus tra phwysig ("IROPI") ac a allai fod o natur gymdeithasol neu economaidd;

(ii) Yn ail, nad oes datrysiadau amgen ar gael i'r prosiect sy'n llai niweidiol i'r safle Ewropeaidd yr effeithir arno; ac,

(iii) Yn drydydd, bod mesurau cydbwyso'n cael eu sicrhau.

165. O ran y cyntaf, honnir bod buddion y cynllun hwn, a amlinellir yn llawn uchod ac nad ydynt wedi cael eu herio mewn gwirionedd gan unrhyw barti, yn ddigonol i arwain at IROPI. Wrth grybwyll y dewis amgen Rheol. 64 yn ei araith i gloi, ni cheisiodd CNC awgrymu na allai buddion y cynllun gael eu hystyried yn briodol yn IROPI.

166. O ran yr ail, mae rhywbeth yn ddewis amgen at ddibenion Rheol. 64 dim ond os yw'n bosibl ac y byddai'n bodloni amcanion y prosiect. Os nad yw dewis amgen yn bodloni un o amcanion dilys ac allweddol y prosiect, nid yw'n ddewis amgen: gweler yr achos Cynllun B (uchod). Nid oes dewisiadau amgen yn yr achos hwn am y rhesymau hyn:

(i) Mae amcanion hanfodol y cynllun hwn wedi'u hamlinellu ym mhara. 6 uchod (gan gynnwys creu cyflogaeth yng ngogledd Cymru, lliniaru cau Wylfa a manteisio ar y cyfle i ogledd Cymru ddod yn arwyddocaol yn fyd-eang o ran datblygu a masnacheiddio cynhyrchu ynni'r llanw). Amlinellir yr amcanion a'r angen am y prosiect hefyd yn yr ES (Pennod 1, Adran 1.2.1 a phara. 31, MDZ/A25.1). Ni fyddai'r amcanion hyn yn cael eu bodloni gan gynllun nad oedd yng Nghymru;

(ii) O ran Cymru, mae Ystad y Goron wedi amlygu'r ardal y mae'r MDZ wedi'i leoli ynddi fel y lleoliad priodol ar gyfer cyfleuster o'r fath oddi ar arfordir Cymru;

(iii) At hynny, mae polisi Llywodraeth Cymru, gan gynnwys WNMP a'r NDF (gweler uchod), yn gryf o blaid y prosiect hwn yn y lleoliad hwn;

[230] Yn ôl ***Wealden***: "*dylai penderfynwr sy'n cyflawni ei ddyletswyddau o dan y Gyfarwyddeb Cynefinoedd a'r Rheoliadau Cynefinoedd roi pwys sylweddol i safbwyntiau ymgynghorai statudol [sef NE yn yr achos hwnnw] … . <u>Fodd bynnag, nid yw'r cyngor hwnnw'n gyfrwymol ac nid oes rhaid rhoi cymaint o bwys iddo os gellir rhoi rhesymau cryf dros wyro oddi wrtho</u>*"; mae ***Thorpe Hall*** yn dangos bod Arolygydd yn rhydd i wyro oddi wrth gyngor NE cyn belled ag y rhoddir rhesymau

(iv) Os yw cynllun ynni'r llanw am gael ei leoli yn yr ardal adnoddau oddi ar Ynys Gybi, yna bydd rhaid i'r llwybr ceblau (fel yr esboniwyd uchod) groesi'r ACA sy'n mynd ar hyd y rhan gyfan hon o'r arfordir. Yn wir, fel yr esboniwyd uchod, dewiswyd y lleoliad glanio ar glogwyn lle mae'r ACA ar ei chulaf ac felly'r effeithiau ar eu lleiaf. Diystyriwyd opsiynau eraill ar gyfer ceblau gan nad oeddent yn ymarferol: gweler e.e. Proflen Dystiolaeth Mr Billcliff ym mhara. 4.5 a Phennod 3 yr ES (MDZ/A25.3).

(v) Ceir gweithio ar y clogwyni dim ond os dangosir nad yw HDD yn ymarferol: gweler yr amodau ar y caniatâd cynllunio tybiedig. Disgwylir i HDD fod yn ymarferol a gweithio.

(vi) Mae'r gwaith wedi cael ei ficroleoli cyn belled ag y bo'n bosibl: gweler Proflen Dystiolaeth Mr Campbell ym mhara.(au) 3.5 - 3.9.

(vii) Rhoddir mwy o wybodaeth am ddewisiadau amgen, a pham y'u gwrthodwyd, yn MDZ/A25.3. Mae'r bennod hon o'r ES yn ymdrin â pham y dewiswyd Ynys Môn, y broses dethol safle a dewisiadau amgen yn lle'r prosiect.

167. O ran y trydydd mater uchod, mae CNC wedi datgan (gweler ei araith i gloi ym mhara. 33) y gellir ystyried bod y "Cynllun Gwella Cynefin Amlinellol" (er na chyflwynwyd ef at y diben hwn) yn darparu mesurau digolledu angenrheidiol at ddibenion Rheol. 68 y Rheoliadau Cynefinoedd.

168. Mae'r uchod yn darparu sail ddigonol ar gyfer penderfyniad wedi'i seilio ar Reol. 64, ond nid dyma'r dull a argymhellir gan Fenter Môn.

*Cynefinoedd benthig a rhynglanw*

169. Gan droi at gynefinoedd benthig ac islanw, mae CNC a Menter Môn unwaith eto wedi dod i gytundeb ar y pwnc hwn,[231] ac roedd yr RT yn un arbennig o gynhyrchiol a cholegol. Mae Menter Môn yn bendant o'r farn nad yw pryderon benthig yn rheswm dros wrthod y cais hwn. Mae CNC o'r un farn.

170. I grynhoi, mae'r rhan hon o'r cais yn ymwneud â gwely'r môr rhwng yr MDZ a'r coridor ceblau allforio (a adwaenir weithiau fel yr Ardal Ddatblygu Alltraeth neu'r "OfDA"). Mae rhai nodweddion o bwysigrwydd cadwraeth wedi cael eu hamlygu yn yr OfDA trwy arolygon nodweddu'r EIA a gynhaliwyd yn 2018 – amlygwyd tair nodwedd riff Atodiad 1 (craigwely, riff caregog a riff biogenig), a warchodir o dan y Gyfarwyddeb Cynefinoedd. Fodd bynnag, dylid nodi o'r cychwyn nad yw'r nodweddion hyn yn nodwedd ddynodedig o ACA Gogledd Ynys Môn, felly nid yw Rheol. 63 y Rheoliadau Cynefinoedd yn berthnasol.[232]

171. Sut bynnag, nid yw'r cyfan o wely'r môr yn yr OfDA wedi'i ffurfio o'r cynefin gwarchodedig hwn. Dim ond rhai rhannau o'r OfDA sy'n cynnwys y cynefin hwn, ac fel yr eglurodd Mr J Lewis yn yr RT ar Gynefinoedd Benthig, heblaw am graigwely a riff caregog, mae gwely'r môr yn gwbl amrywiol. Felly, cynhaliodd ES Menter Môn asesiad ar sail y dybiaeth hynod ragofalus (ac artiffisial) bod y cyfan o wely'r môr

[231] Cyf: MDZ/L6

[232] Cyf: Dogfen Ymchwiliad – 069, y Strategaeth Gwella Bioamrywiaeth Forol Amlinellol, para.(au) 1-11

wedi'i ffurfio o'r cynefin gwarchodedig hwn. Heb fesurau lliniaru, asesodd yr ES y byddai colli cynefin benthig a nodweddion riff Atodiad I am gyfnod tymor hir trwy leoli seilwaith y prosiect yn gychwynnol ac adbweru, yn arwain at effaith niweidiol gymedrol.[233] Yn sgil lliniaru trwy arolygon cyn-adeiladu manylach (a fyddai'n egluro ble oedd y cynefinoedd Atodiad I) ac yna microleoli seilwaith y prosiect i geisio osgoi cynefinoedd o'r fath, daeth yr ES i'r casgliad y gallai hyn gael ei leihau i effaith niweidiol fach.[234]

172. Y sefyllfa pan agorodd yr RT oedd bod CNC yn ymddangos fel petai'n derbyn y bydd y cynnig hwn yn arwain at golli rhywfaint o gynefin. Nid yw CNC yn dadlau na all hynny ddigwydd. Yn lle hynny, mynegodd bryder ynglŷn ag effeithiolrwydd mesurau lliniaru a microleoli, ac mae'n cysylltu hynny'n ôl i ofyniad honedig am arolygon manylach. Roedd Mr Wray, ar ran CNC, wedi gofyn yn ei Atodiad i Broflen Dystiolaeth CNC[235] am Strategaeth Gwella Bioamrywiaeth Forol Amlinellol ("OMBES"), a fyddai'n cael ei sicrhau gan amod yn yr ML. Yna, darparodd Menter Môn strategaeth o'r fath yn Atodiad 3 Gwrthbroflen Dystiolaeth Mr Fortune.[236] Felly, erbyn yr RT, roedd (1) cwestiynau darlun mawr ynglŷn ag effeithiolrwydd arolwg ES Menter Môn a chwestiynau lliniaru, a (2) pwyntiau penodol eraill ynglŷn â'r OMBES. Rydym yn falch o ddweud bod y mater olaf wedi cael ei ddatrys. Cynhaliodd Menter Môn a CNC drafodaethau pellach ers yr RT, a arweiniodd at y fersiwn o'r OMBES a gyflwynwyd i'r ymchwiliad ym mis Ionawr eleni.[237] Deallwn fod hyn yn dderbyniol i CNC, ac felly bydd fersiwn derfynol yn cael ei chynhyrchu yn ystod y cam ôl-ganiatâd. Bwriedir i'r gofyniad i gynhyrchu'r fersiwn derfynol hon gael ei gynnwys mewn amod yn yr ML, ac fe'i cynhwyswyd fel un o'r dogfennau, ar gais CNC, yn Rhan 4 Atodlen 1 y Gorchymyn.[238]

173. Yng ngoleuni'r ffaith y daethpwyd i gytundeb bellach ar yr OMBES, nid ydym yn credu bod y ddadl gyntaf yn parhau i fod yn fater i'r ymchwiliad, oherwydd deallwn fod CNC o'r farn bod yr OMBES yn datrys ei bryderon. Fodd bynnag, rhoddwn ystyriaeth i hynny'n fuan. Fel y crybwyllwyd, mae CNC yn parhau i honni ei fod eisiau i waith arolygu ychwanegol, manylach, gael ei wneud ynglŷn â'r brithwaith o gynefinoedd benthig, ac na all asesiad priodol gael ei gynnal hebddo.[239] Mae gennym ddau bwynt byr wrth ymateb:

(i) Y cyfan y gallai asesiad manylach ei gyflawni fyddai lleihau arwyddocâd yr effaith asesedig ar gynefinoedd benthig. Mae'r asesiad yn yr EIA wedi cael ei gynnal ar sail hynod ragofalus, gan dybio bod y cynefin cyfan y gellid effeithio arno'n sensitif. Nid yw hynny'n wir, yn amlwg. Yn hollbwysig, felly, mae'r arolwg ES a'r asesiad cysylltiedig mor rhagofalus ag y gall fod.

---

[233] Cyf: MDZ/A25.9 para.(au) 144-151

[234] Cyf: MDZ/A25.9 para.(au) 152-153

[235] Cyf: POE021, Atodiad E, para. 4.9

[236] Mae'r OMBES para.(au) 1-11 yn amlinellu'r hanes hwnnw (Cyf: Dogfen Ymchwiliad – 069). Tynnwn sylw ato, ar yr adeg hon, oherwydd gwnaed pwyntiau yn yr RT ynglŷn â chyflenwi'r OMBES yn hwyr gan Fenter Môn. Fodd bynnag, bu'n rhaid i Fenter Môn ystyried a dylunio strategaeth amlinellol gwbl newydd

[237] Cyf: Dogfen Ymchwiliad – 069

[238] Cyf: Dogfen Ymchwiliad – 102

[239] Gweler e.e. para. 5.1 Atodiad X [Nodyn gan yr Arolygydd: efallai y dylai fod "…para. 5.1 Atodiad E…"] proflen CNC (Cyf: POE021).

(ii) Fel yr esboniodd Mr J Lewis yn yr RT, bydd ES fel arfer yn cael ei wneud cryn amser cyn y byddai gwaith adeiladu ar y môr yn cael ei gynnal – weithiau hyd at bedair neu bum mlynedd. Gallai'r cynefinoedd benthig newid yn ystod y cyfnod hwnnw. Mae hyn yn arbennig o berthnasol i gynefinoedd riff biogenig fel *Sabellaria spinulosa* a nodweddir gan amrywiadau mawr o ran amser a lle. Yn lle hynny, mae'n gyffredin[240] cynnal arolwg ychydig yn llai manwl i nodweddu'r safle a llywio'r ES, gan symud ymlaen i ddarlun dyfnach trwy arolygon cyn-adeiladu manylach yn agosach at yr adeg lleoli. Fel y dywedodd yr Arolygydd yn gryno wrth Mr J Lewis, mae ymgeisydd yn darparu'r dystiolaeth sy'n angenrheidiol ar y cam ES, ac yn ychwanegu ati ar lefel penodol i safle pan fydd lleoli'n digwydd.

Ar y sail honno, honnwn nad yw'r effeithiau ar ecoleg fenthig yn rheswm dros wrthod y cais hwn. Deallwn nad yw CNC yn credu hynny ychwaith.

*Mamaliaid môr*

<u>(i) Cyflwyniad</u>

174. Mae effeithiau posibl dyfeisiau llanw ar famaliaid môr wedi bod yn ystyriaeth allweddol o ran prosiect Morlais o'r cychwyn. Canolbwyntiwyd yn benodol ar:

(i) ACA Forol Gogledd Ynys Môn, y mae'r MDZ wedi'i leoli ynddi ac sydd wedi'i dynodi ar gyfer llamhidyddion; a'r

(ii) effeithiau posibl ar ddolffiniaid trwyn potel a morloi llwyd, sy'n nodweddion o ACAau Pen Llŷn, Bae Ceredigion a Sir Benfro Forol, i'r graddau y gallai'r anifeiliaid hyn chwilota am fwyd neu symud trwy'r MDZ.

175. Amlinellodd Bennod 12 yr ES[241] a'r Wybodaeth i Ategu HRA[242] yn fanwl yr holl effeithiau niweidiol posibl ar y tair rhywogaeth hyn yn ogystal â dolffiniaid Risso, dolffiniaid cyffredin a morfilod minke. Mae'r rhestr o effeithiau posibl yn gynhwysfawr, gan ymdrin â phob agwedd ar: (i) adeiladu, gosod ac adbweru; (ii) gweithredu a chynnal a chadw; (iii) datgomisiynu a (iv) effeithiau ar y cyd.[243]

176. Yn ei dystiolaeth i'r ymchwiliad hwn, pwysleisiodd CNC dair effaith bosibl yn unig ar famaliaid môr: (i) perygl gwrthdaro â dyfeisiau llanw; (ii) aflonyddu gan sŵn o weithrediad dyfeisiau llanw a (iii) effeithiau lleoli Dyfeisiau Atal Acwstig ("ADDs"). Nid yw CNC wedi pwysleisio unrhyw un o'r effeithiau posibl eraill niferus a aseswyd

[240] Roedd Mr Wray yn anghytuno â'r ddadl bod hyn yn gyffredin. Awgrymwn fod tystiolaeth Mr J Lewis yn amgenach. Mae Mr J Lewis yn un o gyfarwyddwyr Marinespace Ltd, ac mae ganddo gymwysterau rhagorol, gan gynnwys gweithio ar strategaeth gwella bioamrywiaeth Bae Abertawe. Fodd bynnag, nid ydym yn credu bod unrhyw beth yn troi ar hyn.
[241] Cyf: MDZ/A31.14
[242] Cyf: MDZ/A31.16
[243] Cyf: MDZ/A31.34 ym mhara. 301 [Nodyn gan yr Arolygydd: efallai y dylai fod "…Cyf: MDZ/A31.14…"].

ym Mhennod 12 yr ES yn yr ymchwiliad hwn.[244] Felly, yr unig faterion y mae angen eu hystyried yw'r tri a amlygwyd ym mhroflen CNC.

177. O ran y cyntaf o'r materion hyn, y dywedodd Mr G Lewis yn iawn yn yr RT mai "prif fater" CNC ydoedd o ran mamaliaid môr, mae Menter Môn a CNC bellach yn cytuno nad yw perygl gwrthdaro o ganlyniad i brosiect Morlais yn arwain at AEOSI o ran mamaliaid môr. Cadarnheir hyn gan nodyn CNC[245] sy'n esbonio bod "*sicrhau'r DEMMP (a'r manylion penodol sy'n ofynnol), yn seiliedig ar yr OEMMP, trwy amod ar y drwydded forol ddrafft"* yn rhoi "*sicrwydd… na fydd effaith niweidiol ar famaliaid môr o ganlyniad i wrthdaro*". Yn ffodus, cyhoeddodd CNC hefyd yn ei araith i gloi fod cytundeb ynglŷn â'r ddau fater arall.

(ii) Perygl gwrthdaro

178. Cyn rhoi mwy o fanylion am y safbwynt cytunedig y daethpwyd iddo bellach, yn ffodus, rhwng CNC a Menter Môn i'r perwyl na fydd prosiect Morlais yn arwain at AEOSI o ran mamaliaid môr o dan y Rheoliadau Cynefinoedd, mae rhai pwyntiau rhagarweiniol y mae angen eu hamlinellu.

179. Yn gyntaf, mae Menter Môn yn falch iawn o fod wedi dod i gytundeb â CNC bellach ar y mater allweddol hwn ynglŷn ag amddiffyn mamaliaid môr. Fe'ch atgoffir o dystiolaeth Dr Orme mai cwmni nid-er-elw yw Menter Môn sy'n darparu datrysiadau i'r heriau sy'n wynebu Cymru wledig, ac sy'n ceisio ychwanegu gwerth at ei hadnoddau naturiol. Ni fyddai Menter Môn byth wedi ymwneud â'r prosiect hwn petai'n credu bod perygl y byddai'n achosi niwed i famaliaid môr. Felly, drwy gydol y broses, mae wedi ceisio gwneud popeth o fewn ei allu i ddangos na fydd yr MDZ yn cael AEOSI ar famaliaid môr yn yr ardal trwy berygl gwrthdaro. Dyna pam:

(i) Ers 2017, yr arbenigwr technegol ar famaliaid môr ar gyfer prosiect Morlais fu Dr Learmonth. Mae ei phrofiad fel ymgynghorydd mamaliaid ar brosiectau seilwaith, gan gynnwys ynni'r llanw,[246] heb ei ail. Mae ei phrofiad helaeth yn cynnwys gweithio ar ddau brosiect ynni'r llanw arall.[247] Yn wir, dylid nodi ei bod wedi gweithio ar yr HRA mamaliaid môr a oedd yn ofynnol ar gyfer y polisi morlyn llanw yng Nghynllun Morol Cenedlaethol Cymru ar ran Llywodraeth Cymru;

(ii) Mae Menter Môn wedi cynnal llawer o asesiadau manwl a chynhwysfawr a darnau technegol o waith mewn perthynas â mamaliaid môr, ac yn enwedig o ran perygl gwrthdaro (yn ogystal â sŵn – gweler isod); ac

[244] Gweler y rhestr lawn o effeithiau posibl yn Cyf: MDZ/A31.14, tud.(au) 73 – 74, a gweler hefyd yn y Datganiad Tir Cyffredin Mamaliaid Môr Cyf: MDZ/L1, Tabl 3-2. Mae hyn yn rhestru 43 o faterion y mae 34 ohonynt wedi'u marcio'n wyrdd, sy'n dangos y cytunir arnynt yn llwyr. O'r rhai y marciwyd eu bod yn parhau neu heb eu cytuno, o ran tri ohonynt, mae CNC wedi cytuno bod effaith gronnol, methodoleg asesu ac effeithiau rhwystr ac IROPI yn faterion eilaidd y gellir cytuno arnynt yn ddiweddarach, ac felly ni ymdrinnir â nhw yn y dystiolaeth i'r ymchwiliad. Mae un yn ymwneud ag IROPI nad yw'n fater sydd dan sylw yma. O ran y materion sy'n weddill, sef: 16, 32, 39, 40 a 43, mae'r rhain i gyd yn ymwneud â'r tri phrif fater a amlinellir uchod: perygl gwrthdaro, sŵn gweithredol ac ADDs neu gynnwys yr EMMP

[245] Cyf: Dogfen Ymchwiliad - 085, ym mhwynt 1

[246] Felly, er mwyn rhoi enghraifft, gweithiodd ar ddatblygiad llanw Brims o 2015 i 2018.

[247] E.e. datblygiad llanw Brims.

(iii) Mae Menter Môn wedi bod mor barod i dderbyn a mabwysiadu cyngor CNC ar fesurau i'w cynnwys yn yr EMMP i gyfyngu unrhyw risgiau i famaliaid môr i'r lefel isaf posibl – gweler isod.

180. Yn ail, er na amheuir pwysigrwydd yr amddiffyniadau a roddir i famaliaid môr yn y gyfraith – ac yn wir mae hyn wedi sbarduno holl weithredoedd Menter Môn – mae'n rhaid dweud bod perygl gwrthdaro yn fater sydd wedi'i seilio ar dystiolaeth braidd yn ddamcaniaethol o risg. Felly:

(i) Mae CNC wedi cyhoeddi dogfen a gynhyrchwyd gan ABPmer o'r enw Adolygiad o berygl gwrthdaro posibl rhwng dyfeisiau ffrwd lanw a mamaliaid môr[248] ("Adolygiad perygl gwrthdaro CNC") sy'n cydnabod "*hyd yma, nid yw'r un o'r astudiaethau monitro ar famaliaid môr ac adar môr wedi gallu cofnodi gwrthdrawiad uniongyrchol â dyfais"* a bod hyn *"efallai'n adlewyrchu absenoldeb gwrthdrawiadau*";[249]

(ii) Mae proflen Dr Learmonth yn cynnwys trosolwg[250] o osodiadau tyrbin llanw gweithredol sy'n dangos bod 23.5 MW o ddyfeisiau llanw wedi cael eu lleoli am gyfanswm o 51.3 o flynyddoedd gweithredol mewn ardaloedd lle y gwyddys bod mamaliaid môr yn bresennol heb unrhyw dystiolaeth o'r un gwrthdrawiad.[251] Er gwaethaf hyn, mae Dr Learmonth yn nodi "*damcaniaethir bod rotorau symudol dyfeisiau ynni'r llanw yn achosi perygl gwrthdaro posibl i famaliaid môr*";[252]

(iii) At hynny, cyhoeddwyd adroddiad eleni ynglŷn â gwaith monitro a gynhaliwyd ar hyd nifer o flynyddoedd mewn perthynas â Swnt Bluemull. Gosodwyd y ddyfais lanw gyntaf yno yn 2016, ac mae pedair yno erbyn hyn.[253] Drwy gydol y cyfnod hwn (ac yn wir cyn hynny), gwnaed gwaith monitro helaeth gan gynnwys arolygon golygfannau a fideo tanddwr.[254] Cyhoeddwyd yr adroddiad monitro amgylcheddol, sef Galluogi Araeau Llanw yn y Dyfodol, ym mis Mehefin 2020 gan EnFAIT.[255] O ran mamaliaid môr, y rhai a gofnodwyd amlaf yn y safle hwnnw oedd llamhidyddion, ond, er gwaethaf hyn, dangosodd yr arolygon "*lefel isel iawn o orgyffyrddiad gofodol rhwng mamaliaid môr a thyrbinau … hyd yn oed gan ystyried y rhywogaethau mwyaf helaeth a gofnodwyd amlaf*"[256] a daethpwyd i'r casgliad bod "*y canlyniadau'n dangos bod tebygolrwydd cysylltiadau agos rhwng adar sy'n plymio a mamaliaid môr, ac felly risg effaith amgylcheddol negyddol, yn isel iawn*"[257].

181. Yn drydydd, er gwaethaf yr uchod i gyd, mae perygl (damcaniaethol) gwrthdaro rhwng mamaliaid môr a dyfeisiau llanw wedi cael ei fodelu a'i asesu'n helaeth gan Fenter Môn. Defnyddiwyd dau ddull i asesu perygl gwrthdaro â mamaliaid môr, sef

[248] Cyf: MDZ/F15.2
[249] Cyf: MDZ/F15.2 tud.10
[250] Gweler Tabl 2, tud.(au) 6–7 Cyf: MDZ/P2
[251] Gweler Proflen Dystiolaeth Dr Learmonth ym mhara 6.3 (Cyf: MDZ/P2)
[252] Gweler Proflen Dystiolaeth Dr Learmonth ym mhara 6.4 (Cyf: MDZ/P2)
[253] Er bod llawer o'r adroddiadau'n cyfeirio at dair dyfais, ychwanegwyd pedwaredd ddyfais ym mis Hydref 2020.
[254] Gweler adran 2.2. Mae'r darnau o ffilmiau fideo yn unig yn cynnwys 20,000 o oriau ac 1 filiwn o fideos (gweler adran 2.2.2)
[255] Gweler proflen yr RSPB, Cyf: POE007, ac sy'n dechrau ar PDF tudalen 915 o 1530.
[256] Gweler Cyf: POE007 adran 3.2.1, PDF tudalen 927 o 1530
[257] Cyf: POE007 adran 3.2.1, PDF tudalen 927 o 1530, a gweler hefyd adran 5.1.1

Modelu Cyfradd Cysylltiadau ("ERM") a Modelu Perygl Gwrthdaro ("CRM"), gan ddefnyddio canllawiau Treftadaeth Naturiol yr Alban ("SNH") ar gyfer asesu perygl gwrthdaro rhwng tyrbinau tanddwr a bywyd gwyllt morol.[258] Cytunwyd ar y dull hwn gyda CNC yn yr ail Weithgor Technegol ("TWG") ar Famaliaid Môr ym mis Chwefror 2019, fel yr amlinellir yn y SoCG ar famaliaid môr.[259] Mae'r defnydd o ERM a CRM, fel y mae Ms Morris yn nodi'n ddefnyddiol yn ei phroflen, "*yn cael ei dderbyn yn gyffredin yn sector y diwydiant adnewyddadwy*"[260] ac, yn wir, fe'u defnyddiwyd yn helaeth iawn (yn wir yn gyffredinol) ar gynlluniau adnewyddadwy eraill.[261] At hynny, mae Adolygiad perygl gwrthdaro CNC yn cydnabod mai'r modelau hyn, gan hyd yn oed gydnabod cyfyngiadau unrhyw fodelu, "*yw'r ffordd orau o hyd*[262] o "*asesu perygl posibl gwrthdaro*".[263]

182. Yn bedwerydd, gan fod ansicrwydd o hyd ynglŷn â'r modelu, o ganlyniad i'r nifer gymharol gyfyngedig o ddyfeisiau llanw sydd wedi cael eu lleoli hyd yma, roedd Menter Môn wedi cynnwys nifer o baramedrau rhagofalus iawn, megis:[264]

(i) defnyddio dau fodel a defnyddio'r achos gwaethaf i ragfynegi'r perygl gwrthdaro mwyaf;[265]

(ii) graddio dyfais unigol yn llinol i aráe, gan dybio y gallai'r un perygl gwrthdaro fod yn berthnasol i bob dyfais mewn aráe;[266]

(iii) defnyddio'r amcangyfrifon dwysedd mamaliaid môr mwyaf, gan dybio eu bod wedi'u dosbarthu'n gytbwys ar draws y safle a'r ardal ehangach ar hyd y flwyddyn;[267]

(iv) tybio y byddai pob gwrthdrawiad neu gysylltiad yn angheuol;[268] a,

(v) defnyddio achosion gwaethaf realistig ar gyfer y dyfeisiau.[269]

183. Yn bumed, mae'n rhaid cofio nad yw allbynnau'r modelu perygl gwrthdaro yn ystyried y mesurau lliniaru arfaethedig a sicrheir trwy'r EMMP. Mae hynny'n hollbwysig, wrth gwrs, oherwydd y gwaith monitro a'r mesurau lliniaru sydd wedi'u

[258] Cyf: MDZ/F19
[259] Cyf: MDZ/L1
[260] Gweler Proflen Dystiolaeth Ms Morris ym mhara. 4.1.1 (Cyf: POE021).
[261] Gweler Gwrthbroflen Dystiolaeth Dr Learmonth ym mhara. 2.16 (Cyf: RPE004).
[262] Fel y cofnodir yng ngwrthbroflen Dr Learmonth (Cyf: RPE004) "*dylid nodi, fel y cydnabyddir gan SNH (2016)* [Cyf: MDZ/F19]*, y bydd y dulliau ERM a CRM yn darparu, ar y gorau, amcangyfrif o berygl gwrthdaro yn ôl trefn maint. Fel y nodwyd yn SNH (2016)* [Cyf: MDZ/F19]*: "Ni ellir ystyried bod yr ERM na'r CRM yn cyfrifo'r gyfradd cysylltiadau a gwrthdaro'n gywir. Fodd bynnag, mae'r ddau'n debygol o roi amcangyfrif rhesymol yn ôl trefn maint." Yn hynny o beth, yn seiliedig ar y paramedrau a ddefnyddiwyd yn y modelau, dylai'r canlyniadau roi amcangyfrifon rhesymol o nifer yr unigolion a allai gysylltu neu wrthdaro â dyfais dyrbin, a gynyddir wedi hynny yn unol â nifer bosibl y dyfeisiu a allai gael eu lleoli.*"
[263] Gweler Cyf: MDZ/F15.2 p.10
[264] Gweler Proflen Dystiolaeth Dr Learmonth ym mhara. 6.6 (Cyf: MDZ/P2)
[265] Gweler Proflen Dystiolaeth Dr Learmonth ym mhara. 6.11 (Cyf: MDZ/P2)
[266] Gweler Proflen Dystiolaeth Dr Learmonth ym mhara. 6.17 (Cyf: MDZ/P2)
[267] Gweler Proflen Dystiolaeth Dr Learmonth ym mhara.(au) 6.23 – 6.27 (Cyf: MDZ/P2)
[268] Gweler Proflen Dystiolaeth Dr Learmonth ym mhara. 6.36 (Cyf: MDZ/P2)
[269] Gweler Proflen Dystiolaeth Dr Learmonth ym mhara. 6.14 – 6.16 (Cyf: MDZ/P2)

hymgorffori yn yr EMMP a'r sicrwydd y bydd EMMP Manwl yn cael ei ddatblygu,[270] yn unol ag amod drafft arfaethedig yn yr ML, yw'r rheswm pam mae CNC wedi tynnu ei wrthwynebiad i brosiect Morlais yn ôl ar sail perygl gwrthdaro â mamaliaid môr.

184. Yn chweched, mae'r gyfradd osgoi briodol sydd i'w chymhwyso yn fater o farn, yn ei hanfod.[271] Mae tystiolaeth Dr Learmonth yn esbonio bod cyfradd osgoi o 98% yn cael ei hystyried yn ddull rhagofalus ac eto realistig.[272] Bydd mamaliaid môr yn synhwyro sŵn tanddwr o dyrbinau gweithredol a dyna pam y gallai achosi aflonyddwch (gweler isod[273]), ond mae hefyd yn golygu y gall yr anifeiliaid hyn synhwyro ac felly osgoi'r dyfeisiau. Ond, er mwyn caniatáu ar gyfer y posibilrwydd y gallai sŵn gweithredol y dyfeisiau gael ei guddio gan sŵn cefndir uchel yn yr ardal, ni thybiwyd bod ymddygiad osgoi 100% yn digwydd wrth ymateb i sŵn dyfeisiau llanw. Fodd bynnag, mae'r dyfeisiau llanw yn gwneud sŵn ac maen nhw'n gymharol fawr gyda strwythur solet, y byddai mamaliaid môr yn gallu eu synhwyro. O ystyried hynny, mae'r gyfradd osgoi 98% yn amlwg yn farn gyfiawn. At hynny, mae'r gyfradd hon wedi cael ei defnyddio mewn asesiadau risg ar gyfer cynlluniau llanw eraill,[274] sy'n rhoi tawelwch meddwl.

185. Er gwaethaf yr uchod i gyd, mae CNC yn mynnu bod rhai diffygion o hyd yn yr asesiad o berygl gwrthdaro. Mae Menter Môn yn gwrthbrofi hyn, a dylid cyfeirio at wrthbroflen Dr Learmonth ym mhara.(au) 2.9 – 2.31 (Cyf: RPE004), sy'n rhoi'r gair olaf ar y materion hyn. Ond, sut bynnag, mae'r rhan fwyaf o'r anghydfodau sy'n parhau wedi'u datrys i bob pwrpas gan fod CNC a Menter Môn yn cytuno bellach, o ganlyniad i'r EMMP Amlinellol diwygiedig, a sicrwydd y bydd "cysylltiad digonol" rhwng hyn a'r EMMP Manwl,[275] y gall Gweinidogion Cymru gasglu'n ddiogel na fydd prosiect Morlais yn cael AEOSI ar famaliaid môr. Mae'r EMMP Amlinellol diwygiedig wedi ystyried holl gyngor CNC ar reoli addasol effeithiau perygl gwrthdaro ar rywogaethau mamaliaid môr a warchodir yn nyfroedd Cymru rhag prosiect Morlais.[276] Felly, mae'r EMMP Amlinellol[277] bellach yn cynnwys, ymhlith pethau eraill, yr holl ymrwymiadau canlynol:

(i) Cyn i unrhyw ddyfais lanw weithredu (ar gyfer Cam Un a'r holl gamau dilynol hyd at adeiladu'n llawn), dangosir y bydd monitro amser real yn gallu: (a) canfod symudiadau mamaliaid môr o fewn ac o gwmpas aráe a gwrthdrawiadau â'r dyfeisiau wrth iddynt ddigwydd, mewn amser real, ac adrodd yn unol â hynny; a (b) pennu, os bydd gwrthdaro, pa rywogaeth neu grwpiau o rywogaethau sydd wedi gwrthdaro â'r dyfeisiau, mewn amser real.[278]

---

[270] Cyf: Dogfen Ymchwiliad – 085 pwynt 1
[271] Gweler adolygiad perygl gwrthdaro CNC (Cyf: MDZ/F.15.2) ar dud.12.
[272] Gweler Proflen Dystiolaeth Dr Learmonth (Cyf: MDZ/P2) ym mhara. 6.32.
[273] Gweler y Nodyn Modelu Sŵn Tanddwr (Cyf: MDZ/A28.11).
[274] Gweler Cyf: MDZ/P2 Proflen Dystiolaeth Dr Learmonth ym mhara. 6.31 a Cyf: RPE004 ei gwrthbroflen ym mhara. 2.23. O ran yr awgrym ynghylch cyfradd osgoi bosibl o 68% (gweler POE021 proflen Ms Morris ym mhara. 4.1) gweler Cyf: RPE004 gwrthbroflen Dr Learmonth ym mhara.(au) 2.26 – 2.30. Mae'r awgrym ynghylch cyfradd mor isel yn gwbl ddi-sail.
[275] Cyf: Dogfen Ymchwiliad 085 – Pwynt 1. Bydd y cysylltiad hwn yn cael ei sicrhau yn yr EMMP Amlinellol ei hun (gweler Cyf: Dogfennau Ymchwiliad – 100 a 101, para. 16) ac fel amod ar yr ML – Cyf: Dogfen Ymchwiliad – 090.
[276] Cyf: MDZ/F15.3
[277] Cyf: MDZ/A16.8, fersiwn ddiweddaraf yn Cyf: Dogfennau Ymchwiliad – 100 a 101
[278] Para.(au) 8 a 46(1) yr EMMP Amlinellol (Cyf: Dogfennau Ymchwiliad – 100 a 101).

(ii) Os nad oes modd adnabod y rhywogaeth am unrhyw reswm yn dilyn tystiolaeth o wrthdrawiad, tybir senario achos gwaethaf mai dolffin trwyn potel ydoedd – y rhywogaeth â'r lefel Dileu Biolegol Posibl (PBR) isaf o bell ffordd. Ac, at hynny, os nad oes modd pennu difrifoldeb y gwrthdrawiad, tybir senario achos gwaethaf y bu'r gwrthdrawiad yn un angheuol.[279]

(iii) Os oes tystiolaeth o wrthdrawiad, rhoddir mesurau rheoli addasol ar waith i sicrhau bod risg gwrthdrawiadau pellach yn cael ei lleihau. Bydd y rhain yn cael eu cytuno a'u dangos cyn i unrhyw ddyfais lanw weithredu,[280] gan ddilyn yr hierachaeth haenog.[281]

(iv) Cyn i unrhyw ddyfais lanw weithredu, profir bod y mesurau lliniaru'n effeithiol ac fe'u haddasir i ymateb i unrhyw risg gynyddol o achosi effaith niweidiol.[282]

(v) Ac, yn hollbwysig, mae trefniant methu diogel sy'n caniatáu i CNC fynnu bod dyfeisiau llanw yn peidio â gweithredu.[283] Mae Fframwaith Penderfynu ar Wrthdrawiad CNC wedi cael ei gynnwys yn yr EMMP i sicrhau ymateb cyflym a dangos y bydd penderfyniadau'n cael eu gwneud mewn amser real os bydd amheuaeth o wrthdrawiad;[284]

(vi) Mae terfyn gwrthdaro uchaf na cheir mynd drosto wedi'i osod ar gyfer yr holl rywogaethau mamaliaid môr perthnasol.[285] Mae'r isaf o'r terfynau hyn – y llymaf – ar gyfer dolffiniaid trwyn potel, sef 2 dros 3 blynedd;

(vii) At hynny, mae Cam Un Prosiect Morlais wedi'i ddiffinio gan y terfynau rhywogaethau y rhoddodd CNC sicrwydd i Fenter Môn na fyddent yn arwain at unrhyw effaith arwyddocaol ar famaliaid môr nac AEOSI ar unrhyw safleoedd dynodedig y mae mamaliaid môr yn nodwedd gymhwyso ar eu cyfer.[286] Rhoddwyd y terfynau hyn (y mae'r isaf ohonynt ar hyn o bryd yn 0.7 ar gyfer dolffiniaid trwyn potel) mewn cyngor i Forlais ym mis Hydref 2020,[287] a chytunwyd arnynt wedi hynny yn y Datganiad Tir Cyffredin ar Famaliaid Môr.[288] Mae CNC wedi derbyn yn glir na fydd unrhyw ddyfeisiau a

[279] Para. 46(1) Cyf: Dogfennau Ymchwiliad – 100 a 101.
[280] Para. 46(2) Cyf: Dogfennau Ymchwiliad – 100 a 101.
[281] Para.(au) 46(3) a 48 Cyf: Dogfennau Ymchwiliad – 100 a 101.
[282] Para. 46(4) Cyf: Dogfennau Ymchwiliad – 100 a 101.
[283] Para.(au) 48-49, 69 a 137 Cyf: Dogfennau Ymchwiliad – 100 a 101.
[284] Para.(au) 98-99, 104, 137 a Phlât 2-1 Cyf: Dogfennau Ymchwiliad – 100 a 101.
[285] Para.(au) 45, 46(3) a 50 Cyf: Dogfennau Ymchwiliad – 100 a 101.
[286] Para.(au) 39 a 50 Cyf: Dogfennau Ymchwiliad – 100 a 101
[287] Cyf: MDZ/F15.3. Gweler e.e. tud.14 sy'n datgan "*Mae'r terfynau rhywogaethau'n cynrychioli uchafswm nifer y gwrthdrawiadau rhwng anifeiliaid unigol o rywogaeth neu grŵp rhywogaeth, a rhannau symudol y tyrbinau, yr ystyrir eu bod yn gydnaws ag osgoi effeithiau niweidiol ar gyfanrwydd ACAau ac a fyddai'n sicrhau dim niwed i statws cadwraeth Rhywogaethau a Warchodir gan Ewrop (EPS).*"
[288] Cyf: MDZ/L1. Gweler para 2.1.1.1 sy'n datgan: "*Mae dull rheoli addasol yn cael ei ddefnyddio ym Morlais, sy'n golygu y bydd cam cyntaf dyfais yn cael ei leoli a'i fonitro cyn i ddyfeisiau ychwanegol gael eu datblygu. Mae graddfa'r cam cyntaf wedi'i chyfyngu a diffinnir bod ganddi effaith ragfynedig o lai na 0.7 o wrthdrawiadau â dolffiniaid trwyn potel y flwyddyn. Bydd nifer y dyfeisiau a'r MW y mae hyn yn cyfateb iddo yn destun adolygiad ar ôl rhoi caniatâd yn dibynnu ar y math o ddyfais a ddefnyddir a'i pheryg cysylltiedig o wrthdrawiad. Rheolir hyn trwy Gynllun Lliniaru a Monitro Amgylcheddol (EMMP) a fydd yn amod o'r*

leolir o dan y terfynau hynny yn cael AEOSI, a gofynnwn yn benodol i Weinidogion Cymru ddod i'r un casgliad. Gofynnwn am y casgliad hwn yn benodol oherwydd er gwaethaf y derbyniad clir hwn, mae CNC yn nhystiolaeth Ms Morris ac mewn cyflwyniadau yn ceisio ei amodi. Mae Ms Morris yn awgrymu ym mhara.(au) 4.1.9 y dylai'r trothwy 0.7PBR gael ei leihau ymhellach, er ei bod yn cyfaddef yn ddiweddarach ym mhara. 4.2.3 "*nad yw* [CNC] *yn ystyried ei bod yn bosibl*" diffinio graddfa lle y rhagfynegir dim AEOSI.[289] Gweler hefyd nodyn CNC cyn y sesiwn EMMP ym mhwynt 2.[290] Mae safbwynt Ms Morris yn anghyfiawnadwy, yn syml – mae'n gwbl ddi-fudd i reoleiddiwr ddweud "*ychydig yn fwy*" ond "*nid ydym yn gwybod <u>faint</u> yn fwy*". Gofynnwn i Weinidogion Cymru ddod i'r casgliad bod y terfynau rhywogaethau y cytunodd CNC arnynt gyda ni yn ddigonol i osgoi AEOSI.

(viii) Dychwelwn yn awr at y pwynt yr oeddem yn ei wneud, sef y bydd yr EMMP yn diogelu'r terfynau rhywogaethau perthnasol. O ran Cam Un, "*bydd yn cael ei osod ar gapasiti (MW) lle na ragfynegir unrhyw effaith arwyddocaol ar famaliaid môr nac adar plymio sy'n defnyddio'r MDZ. Mae'r ymrwymiad hwn yn sicrhau bod lefel gychwynnol o fesurau lliniaru ar waith ar ddechrau'r EMMP trwy gyfyngu ar raddfa'r datblygiad*". Pennir faint o ddyfeisiau a leolir yng Ngham Un (MW) gan ganlyniad gwaith modelu pellach ynglŷn â pherygl posibl gwrthdrawiadau a chysylltiad ar gyfer mamaliaid môr ac adar plymio, a modelu poblogaeth cysylltiedig, sydd, yn ei dro, yn dibynnu ar: (i) y math o TECs sydd i'w gosod yn yr aráe; a (ii) nodweddion ffisegol lleoliad yr aráe.

(ix) Yna, byddai pob cam lleoli yn symud ymlaen dim ond ar sail y terfynau gwrthdaro â rhywogaethau a bod yr adolygiadau rheolaidd o'r gwaith monitro a'r mesurau lliniaru yn dangos nad oedd perygl uwch o wrthdaro.

186. Mae'n rhaid dweud bod Menter Môn yn disgwyl, ar sail yr holl waith manwl y mae wedi'i wneud ac, ar sail y profiad o weithredu dyfeisiau llanw eraill, na fydd unrhyw wrthdrawiadau â mamaliaid. Ond, yr hyn y mae'r holl ddarpariaethau uchod yn ei wneud yw rheoli a chyfyngu ar brosiect Morlais yn llym iawn a chaniatáu i gamau gweithredu gael eu cymryd ar unwaith mewn amser real os bydd unrhyw ran o hyn yn anghywir mewn unrhyw ffordd. Yn hyn o beth, mae'n berthnasol nodi yn adroddiad CNC *Diffinio amlenni prosiect ar gyfer prosiectau ynni'r môr: adolygiad ac astudiaeth achos cyfleuster profi ynni'r llanw a mamaliaid môr*[291] cydnabyddir bod bwlch gwybodaeth o ran deall sut y gallai mamaliaid môr ymateb i ddyfeisiau lluosog.[292] Ond, yr unig ffordd o ddatblygu gwybodaeth ddynol yw lleoli dyfeisiau, er

*Drwydded Forol, yn unol â'r EMMP Amlinellol (cyfeirnod y ddogfen, MOR/RHDHV/DOC/0072 (fersiwn ddiweddaraf a gyflwynwyd ar 18 Tachwedd 2020)). Trafodir safbwynt Menter Môn a CNC ynglŷn â lliniaru a monitro yn Adran 3." A gweler tud.14 cofnod 12 sy'n datgan "Mae CNC wedi cynghori, yn dilyn cyfarfod ynglŷn â mamaliaid môr ar 06/01/20, mai'r marwoldeb cynaliadwy uchaf ar gyfer y boblogaeth hon o ddolffiniaid trwyn potel ar hyn o bryd, a gyfrifwyd fel y lefel Dileu Biolegol Posibl, yw 0.7 o anifeiliaid y flwyddyn" a "Sylwer bod CNC wedi diweddaru ei safbwynt i 0.7 o ddolffiniaid trwyn potel, felly dylai'r perygl gwrthdrawiad a ragfynegir fod islaw'r ffigur hwn i allu diystyru effaith niweidiol ar gyfanrwydd safle."*

[289] Cyf: POE021
[290] Cyf: Dogfen Ymchwiliad - 085
[291] Cyf: MDZ/F15
[292] Gweler tud.82 Cyf: MDZ/F15

hynny mewn ffordd a reolir ac a gyfyngir yn llym, yn seiliedig ar fonitro a rheoli addasol. A dyna'r hyn y mae CNC a Menter Môn wedi cytuno arno trwy'r EMMP.

187. Mae angen archwilio'r cyfyngiad ar leoli yng Ngham Un, fel y'i hamlinellir yn yr EMMP, ychydig ymhellach gan ei fod hefyd yn berthnasol i'r materion sŵn sy'n weddill gan CNC. Mae'r Modelu Perygl Gwrthdrawiad Ychwanegol â Mamaliaid Môr[293] yn amlinellu yn Nhabl 3-3 yr uchafswm posibl o ran MW a nifer y dyfeisiau ar gyfer pob math posibl o ddyfais[294] yn seiliedig ar y PBR 0.7 ar gyfer dolffiniaid trwyn potel. O ganlyniad, nid yw Cam Un yn debygol o fod yn fwy nag oddeutu 12 MW ac mae'n debygol o gynnwys (yn fras iawn) rhwng 4 a 10 o ddyfeisiau llanw (er bod Tabl 3-3 yn egluro y gallai fod hyd at 21 o ddyfeisiau llai). Mae'r lefel hon o leoli cychwynnol yn gymharol gyfyngedig, o unrhyw safbwynt. A hynny'n fwriadol. Mae hyn yn caniatáu ar gyfer gwaith monitro, a bydd camau pellach yn dibynnu ar ganlyniad y gwaith hwnnw.

188. Mae'r casgliad byr fel a ganlyn. Gellir adrodd yn derfynol, ac yn ffodus, i Weinidogion Cymru y gellid caniatáu Prosiect Morlais heb berygl AEOSI o ganlyniad i wrthdrawiad â mamaliaid môr.

<u>(iii) Sŵn o weithredu dyfeisiau llanw</u>

189. O ran y materion sŵn sy'n deillio o weithredu dyfeisiau llanw, mae nifer o bwyntiau cyflwyniadol i'w gwneud.

190. <u>Yn gyntaf</u>, yn ffodus, mae CNC bellach wedi cytuno y gellir diystyru unrhyw effaith niweidiol ar gyfanrwydd o ganlyniad i sŵn – gweler cyflwyniad i gloi CNC ym mhara. 46 (Cyf: Dogfen Ymchwiliad - 148).

191. <u>Yn ail</u>, mae Menter Môn wedi darparu cryn dipyn o wybodaeth – gan gynnwys modelu sŵn ar sail achos gwaethaf dangosol a rhesymol – i ganiatáu ar gyfer asesu effeithiau sŵn cyn belled â phosibl ar y cam hwn; ond, sut bynnag, y tu hwnt i hynny mae'r EMMP yn cynnwys gofynion ar gyfer modelu ac asesu pellach pan wyddys pa ddyfeisiau sydd i'w lleoli, a monitro pellach ar ôl y lleoli cyntaf (cychwynnol, ac eithaf cyfyngedig). Felly, mae Menter Môn o'r farn: (i) ei fod wedi darparu mwy na digon o wybodaeth ynglŷn â'r materion hyn at ddibenion gwneud y Gorchymyn; a (ii) sut bynnag, mae mesurau rheoli pellach wedi cael eu hymgorffori yn yr EMMP sy'n mynnu modelu ac asesu ychwanegol ar ôl rhoi caniatâd. Mae darpariaeth trwy'r EMMP ar gyfer modelu manylach pan fydd y dyfeisiau arfaethedig yn hysbys. Mae hyn wedi'i gytuno bellach.

192. <u>Yn drydydd</u>, o dan yr EMMP Amlinellol (a'r EMMP Manwl yn ddiweddarach), mae sŵn yn fater a fydd yn cael ei fonitro ymhellach a'i liniaru os bydd angen. Mae hyn wedi'i gytuno bellach gyda CNC. Felly, mae amcanion yr EMMP Amlinellol o ran diogelu'r amgylchedd nid yn unig yn cynnwys perygl gwrthdrawiad ond hefyd sŵn (gweler para. 5), ac fe'u hesbonnir ym mhara. 53 "*mae asesu effeithiau arwyddocaol posibl o ganlyniad i sŵn tanddwr wedi'i gynnwys yn yr EMMP. Bydd hyn yn cynnwys modelu a monitro sŵn tanddwr*". Mae'r darpariaethau'n cynnwys:

[293] Cyf: MDZ/A31.13
[294] O ran hyn, gweler Tabl 12-76 ym Mhennod 12 yr ES, Cyf: MDZ/A31.14. Dangosir sut y gallai hyn edrych, gyda 6 dyfais yn unig, yng nghyflwyniad Dr Orme (Cyf: Dogfen Ymchwiliad - 001) tud. 21.

(i) Para. 22: sy'n cyfeirio at ddatblygu Protocol Lliniaru Mamaliaid Môr i ddiogelu yn erbyn unrhyw berygl anaf clywedol parhaol i famaliaid môr o ganlyniad i adeiladu, er gwaethaf asesiadau sy'n dangos bod dim perygl ac nad yw'r mater hwn wedi cael ei godi gan CNC.

(ii) Mae para. 23 yn darparu, cyn i unrhyw ddyfeisiau gael eu lleoli, "*bydd sŵn tanddwr o dyrbinau gweithredol yn cael ei adolygu yn rhan o ddatblygiad parhaus yr EMMP pan fydd manylion y mathau o ddyfeisiau sydd i'w lleoli ar gael ar ôl i ganiatâd gael ei roi*". Yna, bydd yr asesiadau hyn yn "*pennu'r potensial ar gyfer unrhyw aflonyddu arwyddocaol yn seiliedig ar lefelau sŵn dyfeisiau llanw gweithredol mewn gwahanol amodau, ar gyfer dyfeisiau unigol a'r aráe o ddyfeisiau sydd i'w lleoli, gan ystyried sŵn amgylchynol, sensitifrwydd clyw'r gwahanol rywogaethau a'r arweiniad diweddaraf ar asesu arwyddocâd aflonyddwch sŵn yn erbyn Amcanion Cadwraeth Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACAau) llamhidyddion (JNCC et al., 2020), gan fod yr MDZ wedi'i leoli yn ACA Gogledd Môn Forol sydd wedi'i dynodi ar gyfer llamhidyddion*".

(iii) Yn yr un modd, ac ystyrir hyn isod, "*bydd y sŵn tanddwr o Ddyfeisiau Atal Acwstig (ADDs) yn cael ei adolygu yn rhan o ddatblygiad parhaus yr EMMP pan fydd manylion y mathau o ADDs sydd i'w lleoli ar gael ar ôl i ganiatâd gael ei roi*". A "*phan fydd gwybodaeth am lefelau ffynhonnell sŵn ar gyfer y mathau o ADDs sydd i'w defnyddio ar gael, bydd yn pennu'r potensial ar gyfer unrhyw aflonyddu arwyddocaol yn seiliedig ar ADDs unigol a lluosog a allai gael eu hactifadu ar draws safle Morlais, gan ystyried sŵn amgylchynol, sensitifrwydd clyw gwahanol rywogaethau a Chanllawiau diweddaraf yr SNCB…*" (gweler para. 25). O ran yr EMMP "*bydd yn sicrhau na fydd sŵn tanddwr o dyrbinau gweithredol yn aflonyddu'n sylweddol ar famaliaid môr a, chan ddilyn Canllawiau diweddaraf y Corff Cadwraeth Natur Statudol (SNCB)…ni fyddai aflonyddu o ganlyniad i sŵn tanddwr yn ACA Gogledd Môn Forol, ar gyfer y prosiect ar ei ben ei hun neu ar y cyd â phrosiectau a gweithgareddau eraill, yn eithrio llamhidyddion o fwy nag*

1. *20% o ardal berthnasol y safle ar unrhyw ddiwrnod penodol; na*
2. *chyfartaledd o 10% o ardal berthnasol y safle ar hyd tymor"* (para. 24);[295]

(iv) At hynny, ac, unwaith eto, er na chodwyd y mater hwn gan CNC "*cyn lleoli, bydd gosodiad yr aráe yn ystyried y potensial ar gyfer unrhyw effeithiau rhwystr o ganlyniad i sŵn tanddwr o dyrbinau llanw gweithredol a'r defnydd o unrhyw ADDs, yn ogystal â'r potensial ar gyfer unrhyw effeithiau rhwystr ffisegol. Bydd hyn yn cael ei ddatblygu yn rhan o'r EMMP hefyd*" (gweler para. 25);

(v) Yn ogystal, ar ôl lleoli cychwynnol, bydd gwaith monitro'n cael ei wneud i fynd i'r afael â bylchau data a bydd nid yn unig yn llywio'r modelu a'r asesiadau ar gyfer camau nesaf datblygiad Morlais, ond hefyd ar gyfer datblygiad parhaus y diwydiant ynni'r llanw. Bydd hyn yn cynnwys, ond nid yn gyfyngedig i "*sŵn*

[295] Nid yw CNC, yn Cyf: Dogfen Ymchwiliad – 085, pwynt 5, yn ymgysylltu o ddifrif â phara. 24-26 yr EMMP Amlinellol. Yn lle hynny, mae'n gofyn yn syml am wybodaeth ychwanegol, a fydd yn cael ei rhoi, wrth gwrs, ar y cam EMMP Manwl.

*tanddwr i bennu a yw terfynau sŵn o dyrbinau llanw gweithredol yn ddigonol i famaliaid môr eu canfod, ond nid yn ddigon uchel i achosi unrhyw anaf clywedol nac aflonyddu tymor hir arwyddocaol*" (gweler para. 59, 3ydd pwynt bwled);

(vi) At hynny, o ran y Grŵp Cynghori sydd i'w sefydlu, un o'i nodau arfaethedig yw (gweler para 75) "*caniatáu i ddatblygiad y Prosiect symud ymlaen heb … aflonyddu arwyddocaol, dadleoli nac effeithiau rhwystr o ganlyniad i sŵn tanddwr*";

(vii) Mae'r dangosyddion monitro yn yr EMMP (gweler Tabl 2-1, yn Nangosydd 8) yn cynnwys sŵn, ac felly hefyd y cwestiynau monitro amlinellol (gweler Tabl 2-2, Cwestiwn 8);

(viii) Yn dilyn yr RT ar yr EMMP, ychwanegwyd rhywfaint o eiriad ar sŵn i ymdrin â'r materion a godwyd gan CNC yn Cyf.(au): Dogfen Ymchwiliad – 100 a Dogfen Ymchwiliad – 101, gweler para.(au) 30, 147, Tabl 4-1 a 163.

193. Y newidiadau diweddaraf yw'r hyn sydd wedi ysgogi CNC i gytuno y gellir diystyru effaith niweidiol o ganlyniad i sŵn.

194. O ystyried y cytundeb y daethpwyd iddo, nid yw'r materion technegol a archwiliwyd yn ganolog mwyach. Mae Menter Môn yn cyflwyno ei achos ar y rhain os ystyrir ei fod yn berthnasol wrth symud ymlaen.

195. <u>Yn gyntaf</u>, mae materion sŵn wedi cael eu hystyried yn eithaf helaeth yn yr ES, y Wybodaeth i Gefnogi HRA a hefyd yn yr Adroddiad Modelu Sŵn Tanddwr[296] a'r Nodyn Modelu Sŵn Tanddwr[297], yn ogystal ag yn nhystiolaeth ysgrifenedig a llafar Dr Learmonth. Cynhaliwyd y modelu sŵn tanddwr ar gyfer prosiect Morlais gan Subacoustech. Mae gan Subacoustech fwy nag 20 mlynedd o brofiad o gynnal modelu sŵn tanddwr ar gyfer y diwydiant morol i fonitro a lliniaru effeithiau sŵn yn yr amgylchedd morol.[298]

196. <u>Yn ail</u>, oherwydd na wyddys pa ddyfeisiau a fydd yn cael eu lleoli ar y cam hwn, mae'r asesiad o sŵn wedi cael ei seilio ar y senario achos gwaethaf mewn nifer o agweddau, ac felly mae'n rhagofalus. Felly, defnyddiodd Pennod 12 yr ES,[299] er enghraifft, senario achos gwaethaf ar ôl adolygu'r holl wybodaeth sydd ar gael ar hyn o bryd ar gyfer gwahanol fathau o ddyfeisiau: gweler adran 12.6.4.1.

197. <u>Yn drydydd</u>, mae'r asesiadau'n awgrymu y byddai mamaliaid môr yn gallu clywed y tyrbinau, ac mae'n bwysig nodi bod hyn yn ganlyniad dymunol i helpu i osgoi perygl gwrthdrawiad, ond yn amlwg mae'n bwysig nad ydynt yn ddigon uchel i achosi unrhyw aflonyddu ac effeithiau negyddol tymor hir arwyddocaol.

198. <u>Yn bedwerydd</u>, o ran y trothwyon a ddefnyddiwyd i asesu aflonyddu, mae nifer o bwyntiau i'w nodi:[300]

---

[296] Cyf: MDZ/A28.10
[297] Cyf: MDZ/A28.11
[298] Gweler Cyf: RPE004, Gwrthbroflen Dystiolaeth Dr Learmonth, ym mhara. 2.120.
[299] Cyf: MDZ/A31.14
[300] Gweler gwrthbrawf Dr Learmonth (Cyf: RPE004) ym mhara.(au) 2.123 a 2.135, a'i thystiolaeth yn yr RT.

(i) Nid oes unrhyw drothwyon a meini prawf cytunedig yn bodoli ar hyn o bryd ar gyfer modelu aflonyddu ar famaliaid môr o ganlyniad i sŵn tanddwr.[301]

(ii) Yn unol â hynny, defnyddiodd y modelu ddau drothwy posibl ar gyfer effeithiau aflonyddu: (i) 120 dB ($SPL_{RMS}$) yn seiliedig ar Southall *et al.* (2007); a (ii) 142 dB yn seiliedig ar Hastie *et al.* (2018).[302]

(iii) Cydnabyddir nad oedd y trothwy 142 dB wedi'i fwriadu gan Hastie *et al.*[303] i gynrychioli trothwy ar gyfer osgoi, ond, yn bwysig, mae hyn yn gyson â'r arsylwadau yn Southall *et al.* (2007), bod amlygiad uwch na 140 dB[304] yn ysgogi ymateb osgoi mewn llamhidyddion gwyllt. Fel dull rhagofalus, ystyrir bod gan lefelau sŵn uwch na'r trothwy 142 dB[305] botensial i achosi rhywfaint o aflonyddu, yn enwedig i lamhidyddion. Felly, bernir bod hwn yn drothwy addas i bennu'r potensial ar gyfer aflonyddu.

(iv) Y trothwy 120 dB[306] a ddefnyddir yw'r achos gwaethaf ar gyfer ymateb ymddygiadol cychwynnol posibl gan famaliaid môr, yn enwedig llamhidyddion. Fodd bynnag, ni fyddai mamaliaid môr, gan gynnwys llamhidyddion, yn cael eu haflonyddu'n sylweddol o'r ardal fwyaf a ragfynegir gan y trothwy 120 dB[307]. Mae hyn yn amlwg o ystyried bod lefelau sŵn cefndir o 120 dB[308] wedi cael eu cofnodi yng nghyffiniau Bae Cemlyn, Bae Cemaes ac Ardal Ddatblygu Wylfa Newydd i'r gogledd o Ynys Môn.[309] Fel y cyfryw, mae'r lleiniau sŵn y gwnaeth CNC sylwadau arnynt (ac sy'n dangos y gallai sŵn hyd at drothwy o 120dB ledaenu oddeutu 17km o ganol yr aráe[310]) yn dangos yr ardal lle y gallai mamaliaid môr (a) synhwyro'r sŵn o dyrbinau gweithredol a (b) a allai ysgogi rhyw fath o ymateb. Ond ni fyddent yn achosi aflonyddu parhaus ar y pellter hwn ac yn sicr ni fyddent yn achosi AEOSI ar ACA Gogledd Môn Forol ar hyd gweithrediad y prosiect.

(v) Yn yr RT, dywedodd Ms Morris fod CNC wedi gofyn i amrywiaeth o drothwyon gael eu defnyddio i ddangos pellterau effaith, ac er bod CNC wedi herio'r lefel 142db a ddewiswyd, cydnabuwyd bod trothwyon tebyg yn cael eu defnyddio weithiau. Dywedodd fod CNC yn cynghori y dylai lefel 120db gael ei chyflwyno hefyd i ganiatáu ar gyfer asesu a chymharu, a derbyniodd fod hyn wedi cael ei wneud. Ond fe aeth ymlaen i gwyno bod y gwaith modelu hwn wedi cael ei wneud ar gyfer un tyrbin mawr ac un tyrbin bach, ac nid ar gyfer yr holl

---

301 Yn yr RT, cydnabu Ms Morris nad oes trothwyon a dderbynnir ar gyfer aflonyddu, a bod hyn yn anodd ei ddiffinio.

302 Gweler Cyf: MDZ/A28.11 tud.6. Mae'n bwysig nodi nad oedd y meini prawf 120dB re 1 μPa ($SPL_{RMS}$) seiliedig ar Southall *et al.* (2007), wedi'u cynnwys ym meini prawf dilynol Southall *et al.* (2019), sef Meini Prawf Amlygiad Sŵn Mamaliaid Môr: Argymhellion Gwyddonol wedi'u Diweddaru ar gyfer Effeithiau Clyw Gweddilliol: gweler para.(au) 2.127 – 2.130 gwrthbrawf Dr Learmonth (Cyf: RPE004).

303 Gweler gwrthbrawf Dr Learmonth ym mhara. 2.134 (Cyf: RPE004).

304 re 1 μPa ($SPL_{RMS}$)

305 re 1 μPa ($SPL_{RMS}$)

306 re 1 μPa ($SPL_{RMS}$)

307 re 1 μPa ($SPL_{RMS}$)

308 re 1 μPa ($SPL_{RMS}$)

309 Cyf: MDZ/A25.12, er yn uwch na lefelau sŵn cefndir o fewn ac o amgylch yr MDZ o 89 dB i 107 dB $SPL_{RMS}$ re 1 μPa (Nodyn Modelu Sŵn Tanddaear, Cyf: MDZ/A28.11). Mae hyn yn dangos bod lefelau sŵn cefndir yn gallu bod yn uwch na 120dB re 1 μPa ($SPL_{RMS}$)

310 Cyf: MDZ/A28.10 Ffigur 3

senarios aráe. Nid oedd y pryder yn ymwneud â diffyg asesu senarios aráe, fel yr awgrymodd Mr G Lewis yn gyntaf, ond yn hytrach bod yr asesiad wedi'i gyfyngu i ddau senario dangosol yn unig a ddangoswyd mewn lleiniau yn yr Adroddiad Modelu Sŵn Tanddwr yn ffigurau 4-10 a 4-11.[311] Mae hyn yn debyg iawn i'r gŵyn a wnaed yn achosion ***Spurrier*** a ***Plan B*** ac a wrthodwyd: gweler y drafodaeth ynglŷn â'r achos hwn uchod. O ystyried y cam a gyrhaeddwyd, roedd rhaid i'r asesiad fod yn ddangosol, ac mae'r senarios dangosol a ystyriwyd yn amlwg yn rhesymol. Cwynodd Mr Morris hefyd nad oedd y data cysylltiedig ar gyfer y senarios dangosol hyn wedi'i gyflwyno a bod hyn yn golygu felly nad oedd amcangyfrif o'r pellter aflonyddu mwyaf o ganlyniad i sŵn.[312] Ond o ran hyn, mae gwrthbroflen Dr Learmonth yn esbonio[313] mai "*achos gwaethaf dangosol yw'r modelu sŵn a gyflwynwyd fel lleiniau sŵn. Fel yr amlinellir yn adran 4.2.3 yr Adroddiad Modelu Sŵn Tanddwr*[314]*, nid yw'r pellterau ar gyfer effaith gronnol wedi cael eu cyfrifo gan fod nifer o wahanol leoliadau ffynhonnell, ac nid oes lleoliad 'dechrau' posibl ar gyfer unrhyw dderbynnydd i gyfrifo amlygiad. O ran rhagfynegi'r pellter mwyaf, byddai'n rhaid i'r modelu benderfynu pa bwynt cyfeirio i'w ddefnyddio – er enghraifft pwynt mewn aráe, naill ai ar ddiwedd aráe neu yng nghanol aráe. Felly, gan fod y modelu sŵn tanddwr yn ddangosol ac nid yw wedi'i seilio ar lefelau sŵn gwirioneddol o senarios aráe posibl, nid yw hyn wedi cael ei fodelu'n fanwl*". Mae hyn yn esboniad clir a chymhellol o'r rheswm pam na ellir darparu mwy ar y cam hwn, ac wrth gwrs mae'r EMMP ei hun yn mynnu bod mwy o waith modelu'n cael ei gynnal yn ddiweddarach pan wyddys pa ddyfeisiau sydd i'w lleoli: ac mae hyn wedi'i gytuno bellach. Ond mae rheswm mwy sylfaenol pam nad oes sail i feirniadaeth CNC. Trown at hyn nesaf.

199. <u>Yn bumed</u>, er bod y modelu sŵn yn ddangosol ar y cam hwn ac nid yw wedi'i seilio ar senarios aráe gwirioneddol, nad ydynt wedi cael eu modelu eto – ac na ellir eu modelu – ar y cam hwn, mae'r asesiadau a'r modelu sŵn tanddwr ar gyfer tyrbinau gweithredol wedi cael eu seilio ar y wybodaeth orau sydd ar gael ar hyn o bryd a senarios achos gwaethaf, gan ddefnyddio dull tebyg i hwnnw a ddefnyddiwyd ar gyfer y modelu a'r asesiadau perygl gwrthdrawiad. Mae amrywiaeth o drothwyon a meini prawf wedi cael eu cyflwyno a'u hasesu yn yr ES,[315] y Wybodaeth i Gefnogi HRA,[316] yr Adroddiad Modelu Sŵn Tanddwr[317] a'r Nodyn Asesu Modelu Sŵn Tanddwr.[318] Gan nad oes unrhyw drothwyon a meini prawf cytunedig ar hyn o bryd ar gyfer modelu aflonyddu ar famaliaid môr o ganlyniad i sŵn tanddwr, defnyddiwyd y wybodaeth orau sydd ar gael ar hyn o bryd. Roedd darparu amrywiaeth o drothwyon a meini prawf posibl yn ddull rhagofalus i sicrhau bod amrywiaeth o bellterau effaith posibl yn cael eu cynnwys yn yr asesiadau.

200. Mae canllawiau diweddaraf y Cyrff Cadwraeth Natur Statudol (SNCBs) ar gyfer asesu arwyddocâd aflonyddu o ganlyniad i sŵn yn erbyn Amcanion Cadwraeth ACAau llamhidyddion yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon (JNCC *et al.*, 2020),

[311] Cyf: MDZ/A28.11
[312] Gweler Cyf: POE021 proflen Ms Morris ym mhara 4.3.6.
[313] Gweler para. 4.120.
[314] Cyf: MDZ/A28.10
[315] Cyf: MDZ/A25.12
[316] Cyf: MDZ/A31.16
[317] Cyf: MDZ/A28.10
[318] Cyf: MDZ/A28.11

yn diffinio aflonyddu arwyddocaol o ganlyniad i sŵn o fewn ACA llamhidyddion fel aflonyddu o ganlyniad i sŵn o fewn ACA o gynllun/prosiect sydd, yn unigol neu ar y cyd, yn eithrio llamhidyddion o fwy nag: (i) 20% o ardal berthnasol y safle ar unrhyw ddiwrnod penodol, neu (ii) gyfartaledd o 10% o ardal berthnasol y safle ar hyd tymor.

201. Cyflwynodd y Nodyn Modelu Sŵn Tanddwr asesiad ar gyfer lleoli llawn yn seiliedig ar araeau yn hytrach na dyfeisiau llanw unigol,[319] oherwydd byddai mamaliaid môr unigol yn fwy tebygol o gael eu haflonyddu gan y tyrbin agosaf y byddent yn dod ato yn hytrach na'r holl dyrbinau unigol yn yr aráe. Fel achos gwaethaf rhagofalus dangosol, seiliwyd yr asesiad ar hyd at 10 aráe ar gyfer 240MW. Hefyd, tybiodd yr asesiad na fyddai ardaloedd aflonyddu'n orgyffwrdd rhwng araeau / grwpiau o dyrbinau.

202. Mae'r ardal effaith bosibl o 0.15km$^2$ ar gyfer 10 dyfais lanw sy'n cynrychioli 10 aráe (yn seiliedig ar bellter mwyaf o 70m ar gyfer tyrbin mawr ac amrediad 142dB) yn cynrychioli hyd at 0.005% o ACA Gogledd Môn Forol (sydd ag arwynebedd o 3,249km$^2$).[320] Hyd yn oed ar gyfer yr ardal effaith fwyaf o 5.31km$^2$ (yn seiliedig ar bellter effaith mwyaf o 1.3km ar gyfer tyrbin mawr a defnyddio'r trothwy 120db), gallai'r ardal fwyaf ar gyfer 10 dyfais sy'n cynrychioli 10 aráe arwain at ardal aflonyddu o hyd at 53.1km$^2$, sef 1.6% o ACA Gogledd Môn Forol.[321] Roedd yr asesiad yn y Wybodaeth i Gefnogi HRA[322] a'r ES[323] wedi'i seilio ar ardal fwyaf o 11.7km$^2$ o aflonyddu posibl ar lamhidyddion o ganlyniad i dyrbinau gweithredol, sy'n cynrychioli 0.36% o ACA Gogledd Môn Forol.[324]

203. Mae'r asesiadau yn yr ES,[325] yr HRA[326] a'r Nodyn Modelu Sŵn Tanddwr[327] yn dangos, yn yr amgylchiadau hyn, ar sail canllawiau cyfredol yr SNCB (JNCC *et al.*, 2020), na allai'r ardal aflonyddu bosibl fyth – ni waeth faint o fodelu manwl a gynhelid – fynd yn fwy nag 20% o ardal yr ACA ar unrhyw adeg benodol na mynd yn fwy na chyfartaledd o 10% o ardal dymhorol y safle ar hyd tymor.

204. Esboniwyd hyn gan Dr Learmonth yn y modd hwn.[328] Mae ardal 35km$^2$ gyfan yr MDZ yn cynrychioli 1.08% o'r ACA. Ond, wedi dweud hynny, byddai'r holl araeau, gan gynnwys gofodau rhwng dyfeisiau, yn meddiannu ardal fwyaf amcangyfrifedig o hyd at 12.5 km$^2$ (35% o ardal araeau 35 km$^2$ yr MDZ) ar gyfer y prosiect capasiti llawn 240MW. Petai pellterau effaith modelu sŵn tanddwr yn cael eu cymhwyso fel "clustogfa" o amgylch ardal 35km$^2$ gyfan yr MDZ, yn seiliedig ar y trothwy 120 db

---

[319] Cyf: MDZ/A28.11
[320] Y cyfartaledd tymhorol ar gyfer 183 o ddiwrnodau yn nhymor yr haf yw hyd at 0.005%.
[321] Y cyfartaledd tymhorol ar gyfer 183 o ddiwrnodau yn nhymor yr haf yw hyd at 1.6%.
[322] Cyf: MDZ/A31.16
[323] Cyf: MDZ/A25.12
[324] Y cyfartaledd tymhorol ar gyfer 183 o ddiwrnodau yn nhymor yr haf yw hyd at 0.36%. Roedd hyn wedi'i seilio ar bellter (rhywogaeth) 90 $dB_{ht}$ o'r modelu ar gyfer PTEC ynglŷn ag osgoi cryf posibl, gyda phellter effaith o 610m ar gyfer un ddyfais, ac felly 11.7km2 ar gyfer 10 dyfais mewn 10 aráe.
[325] Cyf: MDZ/A25.12
[326] Cyf: MDZ/A31.16
[327] Cyf: MDZ/A28.11
[328] Gweler ymhellach y nodyn *Potensial i Sŵn Tanddwr o Dyrbinau Gweithredol Aflonyddu'n Arwyddocaol ar Famaliaid Môr* (Cyf: Dogfen Ymchwiliad – 045). Mae CNC, yng Nghyf: Dogfen Ymchwiliad – 085, yn cydnabod bod y nodyn hwn wedi'i ddarparu, ond yna'n ymddangos fel petai'n methu ag ymgysylltu â chynnwys yr asesiad tra ragofalus hwn.

rhagofalus iawn a ffefrir gan CNC, byddai hynny'n arwain at 35km$^2$ ar gyfer yr MDZ a chlustogfa 1.3km o amgylch yr MDZ cyfan sy'n mesur 73.02km$^2$.[329] Hynny yw, 2.25% o'r ACA.[330] Mae'r dull hynod ragofalus hwn yn dangos na fyddai'r ardal aflonyddu posibl yn dod yn agos at fynd yn fwy nag 20% o ardal yr ACA ar unrhyw adeg benodol na mynd yn fwy na chyfartaledd o 10% o ardal dymhorol y safle ar hyd tymor. Fel y cyfryw, ni fyddai aflonyddu arwyddocaol ar lamhidyddion ac ni fyddai AEOSI ar gyfer ACA Gogledd Môn Forol. Felly, nid oes angen unrhyw fodelu manwl pellach, hyd yn oed petai'n bosibl. Mae'n amlwg na allai'r hyn a gynigir fyth fynd yn fwy na'r trothwyon canrannol ar gyfer arwyddocâd a amlinellir yn yr amcanion cadwraeth. Mewn geiriau eraill, roedd CNC yn gofyn am brawf ychwanegol o rywbeth sy'n amlwg o'r dystiolaeth. Nid oes unrhyw werth o gwbl mewn gofyn am dystiolaeth bellach o rywbeth sy'n amlwg wedi'i sefydlu eisoes, ond yn enwedig felly pan na ellir darparu mwy mewn gwirionedd.

205. Ac mae un pwynt arall sy'n cau pen y mwdwl ar y ddadl hon. Mae'r pryderon y mae Ms Morris yn parhau i'w mynegi wedi'u seilio ar leoli 240MW llawn. Ond mae'r cam cyntaf yn debygol o fod wedi'i gyfyngu i oddeutu 10-12MW. Pan fydd ar waith, mae'r EMMP yn mynnu bod gwaith monitro'n cael ei wneud, a bydd lleoli dyfeisiau ychwanegol yn amodol ar y canlyniadau. Mae hyn wedi'i gytuno bellach.

206. Yn chweched, mae'r materion eraill a godwyd gan CNC ynglŷn â'r modelu sŵn manwl a gynhaliwyd yn ddi-sail. Gan ymdrin â phob un yn ei dro:[331]

(i) Heriodd CNC ffynhonnell y lefelau sŵn gweithredol a ddefnyddiwyd: y safbwynt yw bod ffynhonnell amlinellol y nodweddion sŵn gweithredol ar gyfer modelu sŵn wedi'u rhoi yn adran 3.1.4 yr Adroddiad Modelu Sŵn Tanddwr.[332] Ni roddwyd cyfeirnodau ar gyfer y mewnbynnau hyn gan nad yw'r mesuriadau wedi'u cyhoeddi'n ffurfiol nac ar gael yn gyhoeddus – maen nhw'n gyfrinachol. Fel y nodwyd uchod, cynhaliodd Subacoustech y modelu sŵn tanddwr ar gyfer Prosiect Morlais. Cymerwyd y data a ddefnyddiwyd wrth fodelu'r tyrbinau gweithredol o gronfa ddata Subacoustech sy'n cynnwys (i) asesiad o sŵn tyrbin llanw cyfredol (rotor 11m, 350kW) yn safle Lynmouth ac effaith ragfynedig sŵn tanddwr yn Strangford Lough; a (ii) mesur ac asesu sŵn tanddwr o ddyfais tyrbin llanw Openhydro (250kW) yng nghyfleuster EMEC, Orkney.[333] Yn amlwg, dyma'r wybodaeth wyddonol orau sydd ar gael a ddefnyddiwyd.

(ii) Heriodd CNC p'un a yw deillio lefel ffynhonnell dyfais rotor fawr trwy gynyddu'r raddfa o un fach yn "realistig": fodd bynnag, mae Dr Learmonth wedi esbonio:[334]

a. Bod y dybiaeth y gellir cael lefel sain dyfais rotor fawr trwy gynyddu'r raddfa o ddyfais rotor fach yn dybiaeth achos gwaethaf wedi'i seilio ar ddata Subacoustech, gyda llinell syml wedi'i thynnu rhwng lefelau ffynhonnell mesuriadau Subacoustech o dyrbinau llanw o Lynmouth ac Orkney er mwyn allosod lefelau sŵn disgwyliedig ar gyfer Morlais, a byddai hyn yn cynhyrchu lefelau sŵn rhagofalus;

329 O ystyried y gorgyffyrddiad â'r tir, oherwydd fel arall byddai'r ffigur yn 75.71km.

330 Os defnyddir y trothwy 142 dB mwy realistig, mae hyn yn arwain at "glustogfa" 70m yn unig, ac felly ardal gyfan o 37.23km, neu 1.2% o'r ACA.

331 Gweler Proflen Ms Morris ym mhara. 2.120 (Cyf: POE021).

332 Cyf: MDZ/A28.10

333 Gweler Gwrthbroflen Dystiolaeth Dr Learmonth ym mhara. 2.120 (Cyf: RPE004).

334 Gweler Gwrthbroflen Dystiolaeth Dr Learmonth ym mhara. 2.121 (Cyf: RPE004).

b. Bod Subacoustech wedi dod i wybod yn ddiweddar am Risch *et al.* (2020)[335] sy'n cyflwyno lefelau sŵn a fesurwyd ar gyfer tyrbin 1.5 MW â diamedr rotor 18m. Mae hyn ychydig yn llai na'r dyluniad tyrbin mawr ym Morlais (rotor deuol 24m, allbwn i'w gadarnhau), ond yn fwy cymaradwy na'r data cynharach o ddyluniadau llai. Mesurodd Risch *et al.* (2020)[336] 138 dB SPL ar ~60m. Ar gyfer y tyrbinau ychydig yn fwy, modelodd Subacoustech 140-145 dB ar 60 m. Felly, mae'r amcanestyniad y dibynnwyd arno yn y modelu sŵn yn ymddangos yn rhesymol, ac yn wir mae CNC wedi cydnabod bod Risch yn cefnogi safbwynt Menter Môn.[337]

(iii) Heriodd CNC p'un a oedd y modelu'n "*rhoi ystyriaeth ddigonol i'r amryw wahanol fathau o ddyfeisiau a allai fod â nodweddion sŵn gwahanol*": nid oes sail i hyn oherwydd, fel y mae Dr Learmonth wedi esbonio:[338]

a. Mae'r modelu sydd wedi'i seilio ar 120 o dyrbinau rotor mawr neu 620 o dyrbinau rotor bach, fel achos gwaethaf, a'r cyfrifiad lefelau sŵn o araeau amlddyfais yn defnyddio nodwedd benodedig o'r model dBSea;

b. Gan ddefnyddio hyn, mae rhyngweithio'r maes sain cymhleth rhwng lleoliadau lluosog yn cael ei gyfrifo'n awtomatig;

c. Mae'r model dBSea a ddatblygwyd gan Marshall Day Acoustics ac Irwin Carr Consulting yn cael ei ddefnyddio'n helaeth fel offeryn i ragfynegi sŵn tanddwr mewn amrywiaeth o amgylcheddau gan weithwyr acwstig proffesiynol, fel Subacoustech, a gynhaliodd y modelu sŵn tanddwr ar gyfer safle Morlais;

(iv) Mae'r tri datryswr a ddefnyddir gan dbSea wedi'u seilio ar godau a ddefnyddir yn eang ac a brofwyd yn y diwydiant acwsteg tanddwr. Fe'u profwyd yn helaeth yn erbyn data mesuredig a datrysiadau dadansoddol, gan ddilysu'r model.

<u>(iv) Dyfeisiau atal acwstig ("ADDs")</u>

207. Cynigir defnyddio ADDs ar hyn o bryd fel mesur lliniaru posibl i allyrru sain a ddyluniwyd i atal neu rybuddio mamaliaid môr rhag dod i berygl gwrthdaro â'r dyfeisiau.[339] Yn yr RT, cadarnhaodd Ms Morris yn ddefnyddiol fod CNC yn cefnogi defnyddio ADD fel mesur lliniaru ar gyfer y cynllun hwn. Mae'r mater hwn wedi'i ddatrys bellach hefyd, yn unol â'r hyn a ddeallwn, ac wedi'i gytuno gan CNC.

208. Mae'n bosibl nad yw'r dadansoddiad canlynol yn angenrheidiol bellach, ond mae wedi'i gynnwys er mwyn cyflawnder.

209. Mae'r dystiolaeth yn glir bod ADDs wedi'u profi i fod yn effeithiol fel mesur lliniaru yn ystod gwaith clirio ordnans heb ffrwydro a gosod seilbyst ar gyfer ffermydd gwynt

[335] Gweler Atodiad 1 Cyf: RPE004.
[336] Gweler Atodiad 1 Cyf: RPE004.
[337] Cyf: EIC013, dyddiedig 27 Tachwedd 2020, Atodiad 1 para. 55, er yr amheuir o hyd sut y cyfrifwyd hyn neu a yw'n cynrychioli tybiaeth achos gwaethaf.
[338] Gweler Gwrthbrawf Dystiolaeth Dr Learmonth ym mhara. 2.122 (Cyf: RPE004).
[339] Gweler Proflen Dystiolaeth Dr Learmonth ym mhara. 6.57 (Cyf: MDZ/P2).

ar y môr ac i gadw morloi draw oddi wrth ffermydd pysgod, lle mae gofyniad i sicrhau bod mamaliaid môr yn cael eu hatal rhag mynd i mewn i ardal eang.[340]

210. Mae'r wybodaeth am ADDs ym Mhennod 12 yr ES,[341] y nodyn Monitro a Lliniaru Mamaliaid Môr[342] a'r Adroddiad Modelu Sŵn Tanddwr[343] wedi cael ei darparu i ddangos effeithiolrwydd ADDs fel mesur lliniaru ac y bydd mamaliaid môr yn gallu eu clywed uwchben lefelau sŵn amgylchynol. Mae'n bwysig nodi mai dyma'r rheswm y darparwyd y wybodaeth. Felly, mae CNC yn cefnogi ADDs fel modd o atal mamaliaid môr rhag mynd yn agos at ddyfeisiau llanw, ond mae'n parhau i bryderu y bydd ADDs yn "aflonyddu" ar y creaduriaid hyn. Mae'r safbwynt hwn yn rhyfedd o ystyried mai diben ADD yw aflonyddu, ac felly atal.

211. Mae'r mater yn codi yn y modd hwn. Mae'r enghreifftiau a roddwyd yn y dystiolaeth yn dangos, mewn rhai astudiaethau ynglŷn ag ADD Lofitech – sef un math o ADD yn unig – y bu gostyngiad yn nifer y llamhidyddion a ganfuwyd trwy Fonitro Acwstig Goddefol (PAM) hyd at 7.5km o'r ffynhonnell.[344] Felly, gallai hyn gael ei ystyried yn "achos gwaethaf" ar gyfer effaith ADD, neu'r achos gorau os ydych eisiau atal ar draws pellter sylweddol. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi: (i) byddai pellter aflonyddu unrhyw ADDs a leolir yn yr MDZ yn cael ei bennu fel y lefel ffynhonnell isaf posibl a fyddai'n sicrhau bod unrhyw famal môr y tu hwnt i bellter perygl gwrthdrawiad posibl, ond heb achosi unrhyw aflonyddu arwyddocaol na chynyddu'r perygl o wrthdaro â dyfeisiau eraill; ac (ii) felly, byddai'r pellterau aflonyddu'n llai o lawer na'r senarios achos gwaethaf.

212. Rhoddir ystyriaeth ofalus i benderfynu ar y math(au) mwyaf priodol ac effeithiol o ADDs i sicrhau lliniaru digonol ac effeithiol ar gyfer yr holl rywogaethau mamaliaid môr yn yr MDZ ac o'i amgylch. Gallai hyn gynnwys: (i) newid neu addasu ADDs a systemau presennol a /neu ddefnyddio gwahanol fathau o ADDs; (ii) ystyried sensitifrwydd clyw'r gwahanol rywogaethau; a (iii) sicrhau bod lefelau sŵn yn ddigon uchel, yn yr holl amodau amgylcheddol, i fod yn glywadwy uwchben lefelau sŵn cefndir ar bellter i rybuddio mamaliaid môr ac osgoi gwrthdaro â'r tyrbinau llanw, heb achosi unrhyw aflonyddu arwyddocaol. At hynny, byddai ADDs yn cael eu hactifadu am gyfnodau byr iawn ac yn ysbeidiol yn unig. Ni fyddai ADDs yn cael eu hactifadu am gyfnod tymor hir dros ardal eang.

213. Cynhaliwyd asesiadau yn ystod y modelu sŵn tanddwr[345] i gael gwybod lefelau ffynhonnell sŵn yr ADD Lofitech (felly achos gwaethaf, o ran aflonyddu, gweler uchod), ac yn seiliedig ar y trothwy 142 dB, rhagfynegir mai pellter effaith ADD o'r math hwn yw hyd at 0.84km, sef arwynebedd o 2.22km$^2$ (0.07% o ACA Gogledd Môn Forol (sydd ag arwynebedd o 3,249km$^2$)). Ar gyfer hyd at 10 o ADDs, byddai'r arwynebedd hyd at 22.2km$^2$ (0.7% o ACA Gogledd Môn Forol). Ar gyfer hyd at 40 o ADDs, byddai'r arwynebedd hyd at 88.8km$^2$ (2.7% o ACA Gogledd Môn Forol).

214. Esboniodd Dr Learmonth yn glir yn yr RT, wrth ymateb i gwestiwn gan Ms Morris, pam yr oedd yr asesiadau wedi ystyried 10 a 40 o ADDs. 40 o ADDs yw'r uchafswm nifer a fyddai'n cael eu lleoli yn seiliedig ar senario achos gwaethaf o 10 aráe gydag

340 Gweler Proflen Dystiolaeth Dr Learmonth ym mhara. 2.94 (Cyf: MDZ/P2).
341 Cyf: MDZ/A31.14
342 Cyf: MDZ/A28.13
343 Cyf: MDZ/A28.10
344 Cyf: MDZ/A28.13
345 Cyf.(au): MDZ/A28.10 ac MDZ/A28.11

un ADD ym mhob cornel.[346] 10 o ADDs yw'r uchafswm nifer o ddyfeisiau a fyddai erioed yn cael eu sbarduno ar un adeg, mewn senario achos gwaethaf. Yna, cododd Ms Morris bwynt newydd ynglŷn â ph'un a allai maint yr araeau olygu y byddai angen mwy na 4 ADD (mae hyn wedi'i seilio ar bellter atal o 840m, yn hytrach na mwy na hynny). Bydd nifer yr ADDs yn dibynnu ar faint yr araeau, ond hefyd pellter atal yr ADD, er enghraifft, os oes ganddynt bellter isel efallai y byddai angen mwy o ADDs, ond os oedd ganddynt bellter mwy byddai angen llai o ADDs i gwmpasu pob ardal aráe yn ddigonol. Ond, gan dybio bod angen iddynt gwmpasu'r tyrbinau ar ymyl allanol yr araeau yn unig, gan ganiatáu i famaliaid môr gael eu hatal ni waeth o ba gyfeiriad a dyfnder maen nhw'n dod, mae'r dybiaeth o 4 ADD fesul aráe yn rhesymol.

215. Roedd modelu sŵn tanddwr hefyd wedi'i seilio ar feini prawf SEL pwysoledig Southall *et al.* (2019)[347] gan ystyried sensitifrwydd clyw rhywogaethau, ac y gallai'r pellter mwyaf a ragfynegir ar gyfer gostyngiad dros dro mewn sensitifrwydd clyw (y cyfeirir ato yn Southall *et al.* fel newid trothwy dros dro = "TTS") fod hyd at 5.3km ar gyfer llamhidyddion. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi: (i) bod y gwaith modelu hwn wedi'i seilio ar lefelau sŵn amledd uchel ADD Lofitech, fel achos gwaethaf; (ii) fel yr esboniwyd yn flaenorol, byddai pellter aflonyddu'r ADDs yn cael ei bennu fel y lefel ffynhonnell isaf posibl a fyddai'n sicrhau bod unrhyw famal môr y tu hwnt i bellter perygl gwrthdrawiad posibl, ond heb achosi unrhyw aflonyddu arwyddocaol. Felly, ni fyddai'r lefelau sŵn a fodelwyd ar gyfer dyfais ADD Lofitech yn ofynnol ar gyfer yr MDZ, ac maen nhw wir yn achos gwaethaf.

216. Unwaith eto, defnyddiodd asesiadau ychwanegol yn yr ES[348] asesiad achos gwaethaf o hyd at 40 o ADDs, yn seiliedig ar achos gwaethaf mwy realistig o bellter aflonyddu 1km ar gyfer pob ADD heb orgyffyrddiad. Fodd bynnag, fel y nodwyd eisoes, mae'n annhebygol iawn y byddai 40 o ADDs fyth yn cael eu hactifadu ar yr un pryd. Ar gyfer 40 o ADDs (hyd at 125.6km$^2$) byddai hyn yn cynrychioli hyd at 3.8% o arwynebedd ACA Gogledd Môn Forol, gyda chyfartaledd tymhorol o hyd at 4%.

217. Yn y Wybodaeth i Gefnogi HRA,[349] aseswyd hyd at 10 o ADDs fel achos gwaethaf (pellter 1km) ar gyfer uchafswm nifer yr ADDs y gellid eu hactifadu ar yr un pryd.[350] Mae'r asesiad ar gyfer 10 o ADDs (31.4km$^2$) yn dangos aflonyddu posibl ar hyd at 1% o ACA Gogledd Môn Forol (3,249km$^2$), gyda chyfartaledd tymhorol o hyd at 1% (yn seiliedig ar 183 o ddiwrnodau yn nhymor yr haf).

218. Felly, ni fyddai'r achos gwaethaf mwy tebygol ar gyfer aflonyddu posibl ar lamhidyddion yn ACA Gogledd Môn Forol yn dod hyd yn oed yn agos at dorri canllawiau'r SNCB ar gyfer arwyddocâd aflonyddu o ganlyniad i sŵn yn erbyn Amcanion Cadwraeth ACAau llamhidyddion (JNCC *et al.*, 2020), sef: 20% o ardal berthnasol y safle ar unrhyw ddiwrnod penodol, neu gyfartaledd o 10% o ardal berthnasol y safle ar hyd tymor.

[346] Fe allai'n wir fod yn llai.
[347] Cyf: POE049
[348] Cyf: MDZ/A31.14
[349] Cyf: MDZ/A27.11
[350] e.e. yn seiliedig ar nifer yr araeau.

219. Yn ei ymateb i'r wybodaeth amgylcheddol ychwanegol dyddiedig 27 Tachwedd 2020,[351] mae CNC yn dweud petai'r asesiad yn cael ei wneud ar sail pellter aflonyddu o 7.5km, yr ardal aflonyddu ar gyfer 10 o ADDs fyddai 1,770km² a'r ardal aflonyddu ar gyfer 40 o ADDs fyddai 7,080km². Mae CNC yn cydnabod bod hyn yn annhebygol oherwydd y bylchau rhwng yr ADDs a'u cyfluniad, ac ati. Ond mae pwynt mwy sylfaenol. Nid yw hyn yn realistig o gwbl oherwydd nid oes angen pellter aflonyddu o 7.5km – y math a ddefnyddir ar gyfer taniadau – ar gyfer ADDs yn yr MDZ. Dywedodd CNC nad oedd unrhyw wybodaeth ychwanegol i seilio asesiad mwy realistig arni. Ond mae hyn yn anghywir oherwydd, fel yr amlinellir uchod, mae amrywiaeth o senarios realistig ac eto rhagofalus wedi cael eu cyflwyno.

220. Fel y nodwyd yn flaenorol, byddai pellterau aflonyddu'r ADDs yn cael eu pennu ar sail lefelau sŵn sy'n ddigon uchel, yn yr holl amodau amgylcheddol, i fod yn glywadwy uwchben lefelau sŵn cefndir ar bellter i rybuddio mamaliaid môr ac osgoi gwrthdaro â'r tyrbinau llanw, heb achosi unrhyw aflonyddu arwyddocaol. Yn wir, ym mhroflen Ms Morris ym mhara. 4.2.8, dywedir bod CNC "*yn cefnogi defnyddio ADD â'r lefel ffynhonnell isaf posibl, sy'n ddigon i ysgogi ymddygiad osgoi pellter byr rhag perygl uniongyrchol gwrthdaro, ar yr un pryd â lleihau effeithiau aflonyddu ehangach i'r eithaf*". Dyma'r sail i'r dull o benderfynu ar yr ADDs mwyaf addas i'w defnyddio yn safle Morlais.

221. Bydd manylion lleoli ADDs, gan gynnwys cyfluniad, pa fath o ADDs a faint, yn cael eu datblygu yn gyfochrog â'r dyluniad terfynol. Bydd angen i hyn gael ei deilwra yn seiliedig ar y math o dyrbinau llanw, faint ohonynt a'u gosodiad aráe i sicrhau lliniaru digonol ac effeithiol. Yn ogystal, bydd datblygu'r EMMP Manwl cyn adeiladu yn caniatáu ar gyfer ystyried y dechnoleg a'r wybodaeth ddiweddaraf. Bydd yr opsiynau ar gyfer sbarduno'r ADDs yn cael eu hymchwilio a'u datblygu, yn seiliedig ar awtomeiddio sbardunau o'r technegau monitro, fel sonar gweithredol, pan fydd mamal môr posibl yn nesáu ac y gallai fod mewn perygl gwrthdrawiad. Byddai'r rhain yn sbardunau amser real gyda dull wrth gefn wedi'i seilio ar ymagwedd ragofalus, e.e. os gallai fod yn famal môr neu os yw'n anhysbys, byddai'r mesurau lliniaru'n cael eu sbarduno. Yn olaf, fel yr amlinellir ym mhroflen Ms Morris ym mhara. 4.2.8, mae CNC "*yn cefnogi'r dyhead i ddefnyddio system 'canfod ac actifadu' awtomataidd sy'n defnyddio sonar gweithredol i sbarduno ADDs, gan felly sicrhau eu bod yn cael eu hactifadu pan fydd angen yn unig*". Cytunir ar y manylion gyda CNC trwy'r EMMP. Fel y nodwyd uchod, darperir ar gyfer ADDs yn yr EMMP[352] ym mhara.(au) 24, 25 a 51.

222. I grynhoi, nid yw unrhyw bryderon ynglŷn â defnyddio ADDs yn ddigonol i gyfiawnhau peidio â gwneud y Gorchymyn, ac mae CNC yn cytuno â hynny bellach.

*Adareg*

<u>(i) Cwmpas a chyd-destun ar gyfer y materion adareg</u>

---

[351] Cyf: EIC013 ym mhara 62.

[352] Cyf: MDZ/A16.8, fersiwn ddiweddaraf Cyf.(au) – Dogfen Ymchwiliad – 100 a Dogfen Ymchwiliad – 101

223. Mae nifer o bwyntiau y mae angen eu gwneud ynglŷn â chwmpas a chyd-destun y materion adareg, yr archwiliwyd hwy i gyd wrth groesholi Dr McCluskie.[353]

224. Yn gyntaf, mae'n bwysig nodi bod yr effaith ar adar yn fater a archwiliwyd yn llawn mewn trafodaethau â Gwasanaeth Cynghori CNC dros gyfnod o sawl blwyddyn. Yn dilyn y broses hon, nid yw Datganiad Achos a phroflenni CNC yn ceisio honni unrhyw effaith niweidiol ar adar o ganlyniad i'r prosiect. Yn wir, mae SoCG wedi'i gytuno rhwng CNC a Menter Môn ar adareg.[354] Fel y cyfryw, gellir cynghori Gweinidogion Cymru nad oes gan CNC, sef y corff cadwraeth natur statudol perthnasol, bryderon ynglŷn ag effeithiau posibl y prosiect mewn perthynas ag adareg. Felly, yr RSPB yn unig a gododd y materion adareg yn yr ymchwiliad.[355]

225. Yn ail, mae adareg wedi bod yn destun asesiad manwl iawn gan Fenter Môn: gweler yn arbennig Cyf.(au): MDZ/A31.9 – 12.[356] Arweiniwyd y gwaith hwn, sydd wedi cael ei dderbyn gan CNC, gan Dr Grant, a oedd ei hun yn brif wyddonydd cadwraeth yn yr RSPB am 18 mlynedd. Derbyniodd Dr McCluskie, a roddodd dystiolaeth ar ran yr RSPB, fod ganddo barch mawr at Dr Grant, a bod ganddo hanes cyhoeddi rhagorol a'i fod, ym marn Dr McCluskie, yn "*wyddonydd o'r iawn ryw*".

226. Yn drydydd, roedd y materion a godwyd gan yr RSPB yn yr ymchwiliad yn ymwneud ag effeithiau posibl ar ddwy rywogaeth – gwylogod a llursod – o ganlyniad i wrthdrawiad.[357] Ni chododd yr RSPB unrhyw faterion yn ymwneud â brain coesgoch nac adar drycin Manaw.[358] Nid yw'r rhywogaethau dan sylw, fel y trafodwyd eisoes uchod, yn rhan o AGA nac yn gysylltiedig ag AGA. Felly, nid yw unrhyw effeithiau ar y rhywogaethau hyn yn cychwyn Rheoliad 63 y Rheoliadau Cynefinoedd, ac felly nid oes angen ystyried AEOSI a'r gwaharddiad posibl ar ganiatâd sy'n deillio o effeithiau o'r fath. Y gwir yw nad yw'r Rheoliadau Cynefinoedd yn berthnasol i'r rhywogaethau hyn o gwbl.[359] Yn hytrach, mae'r rhywogaethau dan sylw yn gysylltiedig â SoDdGA Arfordir Ynys Gybi. Fodd bynnag, er eu bod yn rhan o gytref adar môr sy'n bridio yr amlygwyd ei bod yn cyfrannu at ddiddordeb arbennig y safle hwn ac y dylid ei chynnal, nid yw'r naill rywogaeth na'r llall wedi'u hamlygu fel nodweddion o

---

353 Mae'r cyfeiriadau isod at broflen Dr McCluskie yn cyfeirio at ei broflen ddiwygiedig (Cyf: POE007.1) oni nodir fel arall yn benodol.

354 Cyf: MDZ/L2

355 Gyda chefnogaeth ysgrifenedig rhai trydydd partïon eraill e.e. NWWT – y mae Dr Grant wedi ymateb iddynt yn yr atodiadau i'w Broflen Dystiolaeth (Cyf: MDZ/P1).

356 Sylwer hefyd fod prif dystiolaeth Dr Grant wedi dechrau gyda throsolwg manwl o'r gwaith asesu a wnaed hyd yma mewn perthynas ag adar.

357 Derbyniodd Dr McCluskie yn XX nad oedd dadleoli ac effeithiau rhwystr yn broblem, nac unrhyw effeithiau eraill. At hynny, er y cyfeiriodd proflen Dr McCluskie at wrthdaro uwchben y dŵr yn XX, derbyniodd mai gwrthdaro o dan y dŵr oedd y brif broblem. Gweler ymhellach wrthbroflen Dr Grant ym mhara.(au) 2.3 a 2.4 a'i brif dystiolaeth. Yn ogystal, cwmpaswyd gwrthdrawiadau uwchben y dŵr allan o'r ES ac ni heriwyd hyn gan yr RSPB. Yn ei brif dystiolaeth, esboniodd Dr Grant fod unrhyw effeithiau dadleoli'n debygol o fod yn fach.

358 Fel y cadarnhaodd Dr McCluskie yn ei brif dystiolaeth. Mae'r rhywogaethau adar hyn ac unrhyw effeithiau arnynt yn derbyn sylw, er mwyn cyflawnder, ym mhroflen Dr Grant (Cyf: MDZ/P1) ac yn ei atodiadau sy'n ymateb i CNC, yr RSPB ac NWWT.

359 Mae gwylogod wedi'u rhestru yn Atodiad I y Gyfarwyddeb Adar, ond nid llursod: gweler proflen Dr McCluskie ym mhara.(au) 3.15 a 3.21, ond mae'r rhwymedigaethau mewn perthynas â'r cyfryw rywogaethau adar o dan Erthygl 4 y Gyfarwyddeb Adar i greu AGAau. Fodd bynnag, nid yw'r adar dan sylw yn rhan o unrhyw AGA nac yn gysylltiedig ag unrhyw AGA. Derbyniodd Dr McCluskie hynny'n iawn yn XX.

ddiddordeb ar gyfer dynodiad y safle.[360] Felly, mae'r ddeddfwriaeth yn rhoi llai o amddiffyniad o lawer i'r rhywogaethau hyn na mamaliaid. Fel y gwyddom, mae Cam Un y prosiect wedi cyfyngu ar unrhyw leoli i raddfa digon isel i osgoi'r effeithiau ar famaliaid môr, ac mae'n anochel y bydd hyn hefyd yn osgoi effeithiau a ragfynegir ar yr adar môr sy'n cael eu hamddiffyn i raddau llai o lawer ac sydd dipyn llai agored i niwed.

227. Yn bedwerydd, mae'r holl bartïon yn cytuno na fydd Cam Un arfaethedig y datblygiad yn cael effaith arwyddocaol ar wylogod a llursod.[361] Mae'r nodyn modelu perthnasol *Nodyn Modelu Risg Gwrthdrawiad Adar Môr*[362] (y "nodyn adareg") yn rhagfynegi effeithiau niweidiol bach – effaith isel – ar yr adar hyn; nid oedd CNC na'r RSPB yn anghytuno â'r asesiad hwn yn y diwedd.

228. Yn bumed, bydd y lleoli cychwynnol hwn ac unrhyw leoli pellach yn cael ei reoli'n llym, a bydd yn dibynnu ar ganlyniadau gwaith monitro sydd i'w wneud, a modelu ychwanegol ac ati. Bydd y broses hon yn ddarostyngedig i gyflwyno EMMP Manwl yn unol â'r EMMP Amlinellol a chynnwys materion a nodwyd yn benodol yn yr amod hwnnw – a sicrheir yn yr ML ac fel un o'r dogfennau Atodlen 1, Rhan 4.[363] Roedd y broses hon yn ddigon i ddarbwyllo CNC nad oedd angen iddo godi yn yr ymchwiliad unrhyw wrthwynebiad wedi'i seilio ar risg AEOSI o ganlyniad i berygl gwrthdrawiad ar famaliaid môr a warchodir yn ddwys,[364] ac mae'n gwneud yr un peth ar gyfer yr adar môr dan sylw a warchodir i raddau llai.

229. Yn chweched, mae'r RSPB yn dweud ei bod yn credu mai'r newid yn yr hinsawdd yw'r bygythiad mwyaf dybryd i fywyd gwyllt y Deyrnas Unedig a bod gan ynni adnewyddadwy rôl bwysig i'w chwarae wrth wrthbwyso'r bygythiad hwnnw.[365] Ond, er gwaethaf hyn, mae Dr McCluskie yn dweud y bydd yr RSPB yn gwrthwynebu ynni adnewyddadwy os yw'n credu bod y lleoliad arfaethedig yn amhriodol ac y gallai wneud niwed sylweddol i safleoedd neu rywogaethau.[366] Mae'r newid yn yr hinsawdd yn achosi bygythiad difrifol i adar môr. Felly, mae'r ES yn cofnodi "*mae'n debygol mai'r newid yn yr hinsawdd fydd y dylanwad cryfaf ar boblogaethau adar môr yn y blynyddoedd i ddod, a disgwylir i amodau bridio a goroesi ddirywio ar gyfer y rhan fwyaf o rywogaethau adar môr ... Felly, disgwylir i niferoedd llawer o boblogaethau adar môr y Deyrnas Unedig ddirywio ymhellach yn y tymor byr, canolig a hir mewn senario lle mae'r newid yn yr hinsawdd yn parhau o ganlyniad i lefelau cynyddol o nwyon tŷ gwydr yn yr atmosffer*".[367] At hynny, mae'r adroddiad gan Furness *et al.*[368] yn nodi'n glir, er gwaethaf yr ansicrwydd: (i) "*bod consensws cryf iawn yn y*

---

[360] Gweler Proflen Dystiolaeth Dr Grant ym mhara. 4.4 (Cyf: MDZ/P1), Proflen Dystiolaeth Dr McCluskie ym mhara. 3.12 (Cyf: POE007.1) ac atebion Dr McCluskie yn XX.

[361] Gweler ymateb CNC yn FEI Cyf: REP004 tud. 9 o 23, para. A.29; gweler Proflen Dystiolaeth Dr McCluskie ym mhara 8.1 (Cyf: POE007.1) a'i atebion yn ei brif dystiolaeth a XX.

[362] Cyf: MDZ/A31.10

[363] Gweler Cyf: Dogfen Ymchwiliad - 90 a Cyf: Dogfen Ymchwiliad – 102

[364] Gweler Cyf: Dogfen Ymchwiliad - 85, adran 1.

[365] Gweler Proflen Dystiolaeth Dr McCluskie ym mhara 3.3 (Cyf: POE007.1), a'i atebion yn XX. Gweler hefyd Pennod 11 yr ES (Cyf: MDZ/A31.11) ym mhara. 39 a phroflen Mr Bell ym mhara. 6.3.3 sy'n dyfynnu o bolisi cenedlaethol y Deyrnas Unedig – y cytunodd Dr McCluskie â phwysigrwydd cynnwys y ddau yn XX.

[366] Fel yr uchod.

[367] Gweler Cyf: MDZ/A31.11 ym mhara. 39.

[368] Y dibynnwyd arno'n drwm gan Dr McCluskie yn ei Broflen Dystiolaeth (Cyf: POE007.1), gweler e.e. para.(au) 3.20 a 3.24.

*llenyddiaeth gyhoeddedig bod y technolegau ynni adnewyddadwy gwlyb hyn yn annhebygol o gynrychioli perygl mor fawr i adar môr â ffermydd gwynt ar y môr"* a (ii) bod *"y perygl cymharol isel i adar môr o ganlyniad i ynni adnewyddadwy gwlyb hefyd yn cyferbynnu'n gryf â'r effaith fawr ar boblogaethau adar môr o ganlyniad i ddisbyddu stociau pysgod gan bysgodfeydd byd-eang… ac o bosibl y newid yn yr hinsawdd…"*. Ac, fel y derbyniodd Dr McCluskie, mae'r lleoliadau posibl ar gyfer ynni'r llanw yn fwy cyfyngedig o lawer nag ar gyfer gwynt,[369] ac mae lleoliad yr MDZ yn un o dri lleoliad yn unig ledled y Deyrnas Unedig y mae Ystad y Goron yn ystyried eu bod yn arbennig o addas ar gyfer parth arddangos o'r fath.[370]

230. Yn seithfed, mae Dr McCluskie yn dibynnu'n drwm ar Furness *et al.* a'u casgliad bod gwylogod a llursod yn agored iawn i niwed o ran tyrbinau llanw. Ond derbyniodd wrth gael ei groesholi *"na ddylai hyn gael ei ystyried yn dystiolaeth o effeithiau sefydledig dyfeisiau llanw ar y rhywogaethau hyn. Yn hytrach, mae Furness et al. (2012) yn rhoi dosbarthiad yn seiliedig ar ffactorau fel i ba raddau mae ymddygiad gwahanol rywogaethau a'u blaenoriaethau o ran cynefin yn golygu eu bod yn debygol o ddod i gysylltiad â'r cyfryw ddyfeisiau, a bod yn agored iddynt, gan felly adnabod y rhywogaethau hynny y mae'n debygol y bydd angen ymchwilio i effeithiau posibl arnynt fwyaf"*.[371] At hynny, fel yr ydym wedi'i weld yn gyffredinol, roedd Furness *et al.* o'r farn bod y risg i adar môr yn gymharol fach ac yn llai nag ar gyfer ffermydd gwynt.

231. Yn wythfed, cyfeiriodd dystiolaeth Dr McCluskie (yn iawn) at y ffaith *"er bod sawl astudiaeth wedi cael ei chynnal ynglŷn â risg gwrthdrawiad â thyrbinau ar y tir ac ar y môr, ychydig o wybodaeth sydd ar gael am … wrthdrawiadau o dan y dŵr â thyrbinau llanw, yn bennaf oherwydd*[372] *y nifer fach o ddyfeisiau sydd ar waith"*. Felly, sefydlodd yr RSPB broblem amhosibl gyfarwydd: (i) mae'r wybodaeth sydd gennym am y rhyngweithio rhwng tyrbinau llanw ac adar plymio yn gyfyngedig yn bennaf o ganlyniad i'r nifer fach ohonynt sydd wedi'u lleoli; (ii) yr unig ffordd o oresgyn hyn yw trwy ganiatáu i fwy ohonynt gael eu lleoli; (iii) dylai'r Gorchymyn hwn sy'n ceisio lleoli tyrbinau ychwanegol ond mewn ffordd reoledig, fesul cam, a monitro'r rhain, gael ei wrthod. Pam? Oherwydd y diffyg gwybodaeth bresennol am yr effaith ar adar môr. Dim ond un ffordd sydd o dorri'r cylch cythreulig hwn, sef: (i) caniatáu a lleoli dyfeisiau llanw ar raddfa fach i ddechrau; (ii) monitro eu lleoli; a (iii) chaniatáu i ddyfeisiau ychwanegol gael eu lleoli dim ond os yw canlyniad y gwaith monitro'n galluogi rheoleiddwyr i ddod i'r casgliad bod hynny'n gallu digwydd heb effeithiau niweidiol. Dyna'r hyn a gynigir yma. Mae rhesymeg dull Menter Môn – sy'n dibynnu ar gyflwyno fesul cam a monitro a rheoli addasol – yn anochel.

232. Yn wir, mae Dr McCluskie yn dweud *"Rwy'n llwyr gefnogi'r gwaith monitro ac ymchwilio hollbwysig a gynigir, os yw'n gyflawnadwy, gan y byddai'n cynyddu ein dealltwriaeth o sut mae adar môr yn rhyngweithio â dyfeisiau llanw a sut mae'r*

---

[369] Fel y derbyniodd Dr McCluskie yn XX, mae'r gallu i gyfeirio datblygiad ynni adnewyddadwy tuag at ardaloedd lle y ceir yr effeithiau lleiaf ar yr amgylchedd naturiol (gweler ei broflen ym mhara. 103) yn fwy cyfyngedig o lawer o ran ynni'r llanw o ystyried bod lleoliad ynni'r llanw yn dibynnu'n drwm iawn ar ddaearyddiaeth.

[370] Gweler atebion Dr McCluskie yn XX, a gweler uchod parthed: tystiolaeth Dr Orme ynglŷn â'r materion hyn. Roedd cwnsler yr RSPB yn bresennol pan roddodd Dr Orme ei dystiolaeth ac ni heriodd unrhyw ran o'i dystiolaeth ynglŷn â'r pwyntiau hyn.

[371] Gweler Gwrthbroflen Dystiolaeth Dr Grant ym mhara. 2.5 (Cyf: RPE010), ei brif dystiolaeth ac atebion Dr McCluskie yn XX.

[372] Gweler Proflen Dystiolaeth Dr McCluskie ym mhara. 5.1 (Cyf: POE007.1) a'i atebion yn XX.

*dyfeisiau hynny'n effeithio arnynt. Byddai'r dystiolaeth y gellid ei chasglu, pe byddai'r cynnig hwn yn symud ymlaen, yn rhoi eglurder y mae mawr angen amdano ynglŷn â sut, ac os, gellir lleoli'r dechnoleg hon, gan gynyddu sicrwydd i ddatblygwyr a buddsoddwyr ar yr un pryd â sicrhau bod natur a'r amgylchedd yn cael eu diogelu*." [373] Mae'r gydnabyddiaeth hon gan yr RSPB o rai o fuddion y prosiect hwn yn galonogol, er ei bod yn hwyr. Yna, mae Dr McCluskie yn dweud[374] "*un enghraifft o Gytundeb Rheoli Addasol da yw'r datblygiad ynni'r llanw yn aber Pentland, sef "Meygen", lle'r oedd caniatâd Llywodraeth yr Alban yn amodol ar ddatblygiad cam cychwynnol cyfyngedig gyda monitro llawn a manwl, a'r holl gamau dilynol yn ddarostyngedig i gymeradwyaeth ysgrifenedig o flaen llaw gan Weinidogion yr Alban*". Yn ystod croesholi, awgrymais wrth Dr McCluskie mai dyna'n union beth a gynigir yma. Ni wyddai sut i ymateb. Yn y pen draw, yn ystod croesholi ac ailarchwilio, ceisiodd ddadlau mai'r prif wahaniaeth rhwng Meygen a'r achos presennol oedd y byddai'r cymeradwyaethau pellach yn cael eu rhoi gan CNC yn yr achos hwn, a chan Weinidogion yn achos Meygen. Am ryw reswm diesboniad, glynodd Dr McCluskie at y syniad hwn bod cymeradwyaeth gan Weinidogion yn well, mewn rhyw ffordd amhenodol, na chymeradwyaeth gan CNC. Ond, oni bai bod yr RSPB yn amau cymhwysedd CNC – ac mae'r RSPB yn gwadu hyn yn gryf – mae'r pwynt hwn yn un gwirioneddol anobeithiol. Datgelwyd safbwynt yr RSPB yn ystod ailarchwilio. Dywedwyd y gellid torri'r cylch cythreulig yn lle hynny trwy ymgeisio am gam cyntaf yn unig a monitro hwnnw, ac yna ymgeisio am ganiatâd ar wahân wedi hynny yn seiliedig ar y gwaith monitro. Ond, mae hynny'n sylweddol wahanol i'r hyn a gynigir yma mewn un ffordd yn unig, sef pwy sy'n penderfynu ar y camau diweddarach. Drwgdybiaeth ymddangosiadol yr RSPB o CNC yw'r unig beth a all fod wrth wraidd hyn.

233. Yn nawfed, yr unig fater arall a godwyd gan Dr McCluskie, a'r RSPB, yn y cyd-destun hwn yw'r gŵyn a wnaed nad yw'r camau wedi'u gosod ar flaen y Gorchymyn ac nad ydynt yn pennu terfynau ar nifer yr araeau, dyfnderoedd, math ac ati, i'r graddau eu bod yn "*gyfyngedig ac yn ansymudol*.[375] Yn ystod ailarchwilio, awgrymwyd bod Meygen yn wahanol yn yr ystyr hon hefyd gan fod Atodiad 1 yn nodi uchafswm nifer y tyrbinau a'u maint.[376] Ond mae'r pwynt hwn yn un gwael oherwydd: (i) mae'r ES ym mhennod 4 yn nodi'r PDE a ganiateir ac mae'n cynnwys nifer o derfynau ar ddyfeisiau a sicrheir gan y Gorchymyn; (ii) roedd Meygen yn ceisio lleoli eu technoleg eu hunain a ddatblygwyd ganddynt, ac nid oedd yn MDZ sy'n ceisio hyblygrwydd ar gyfer amrywiaeth o ddatblygwyr a dyfeisiau; a (iii) sut bynnag, o ran yr hyn a gynigir yma, mae Dr McCluskie yn dweud yn ei dystiolaeth ei hun "*esboniwyd i mi fod yr EMMP arfaethedig presennol a gyflwynwyd gyda'r cais am Drwydded Forol yn mynd i'r afael â rhai o'r pryderon hyn trwy gynnwys cymal 'Atal' a hefyd cymal 'Dileu' petai effaith, arwyddocaol neu fel arall, yn cael ei nodi trwy ganlyniadau monitro cytunedig.*" Mae'r cymalau hyn wedi cael eu cynnwys yn yr EMMP Amlinellol a gyflwynwyd i'r broses TWAO hon hefyd.

234. Yn olaf, gwneir dau bwynt er mwyn rhoi cyd-destun:

(i) Yn gyntaf, yr hyn sy'n dod i'r amlwg yn y pen draw o dystiolaeth Dr McCluskie yw ei fod yn pryderu ynglŷn ag effeithiolrwydd unrhyw waith monitro a'r gallu

[373] Gweler Proflen Dystiolaeth Dr McCluskie ym mhara. 8.4 (Cyf: POE007.1).
[374] Gweler Proflen Dystiolaeth Dr McCluskie ym mhara. 8.4 (Cyf: POE007.1).
[375] Gweler Proflen Dystiolaeth Dr McCluskie ym mhara. 8.5 (Cyf: POE007.1).
[376] Cyf: Dogfen Ymchwiliad - 083

i'w wneud.[377] Derbyniodd pe gallai fod yn fodlon ar hyn, byddai gwrthwynebiadau'r RSPB yn diflannu i raddau helaeth.[378] Ystyrir y materion yn ymwneud â monitro isod, ond mae'n amlwg:

a. O dan yr EMMP Amlinellol, ni cheir lleoli unrhyw ddyfeisiau oni bai bod y rheoleiddiwr yn fodlon y gellir eu monitro'n effeithiol (gweler para. 8 yr EMMP);

b. Felly, os oedd cyfiawnhad i bryderon Dr McCluskie ynglŷn ag effeithiolrwydd monitro, (ac nid oes cyfiawnhad iddynt), ni fyddai unrhyw ddyfeisiau'n cael eu lleoli gan na fyddai'r rheoleiddiwr yn cymeradwyo hyn;

c. Bod nifer o opsiynau ar gyfer monitro, gan gynnwys monitro gwrthdrawiadau (gweler isod). Mae rhywfaint o'r dechnoleg wedi datblygu'n sylweddol yn ystod y 10 mlynedd diwethaf yn sgil lleoli dyfeisiau ynni'r gwynt ar y môr (e.e. technoleg tagio fel GPS, TDR ac ati), ac nid oes rheswm i gredu na fydd yn parhau i ddatblygu;

ch. Yn wir, derbyniodd Dr McCluskie y bydd gwneud y Gorchymyn hwn yn cymell y farchnad i wella monitro gan y bydd hynny'n allweddol i ddatgloi lleoli mwy o ddyfeisiau hyd at 240MW;[379]

d. Bod nifer fach o ddyfeisiau llanw gweithredol eisoes ar waith yn y Deyrnas Unedig lle y defnyddir tagio, fideo a sonar i fonitro: e.e. Meygen a Swnt Bluemull. Mae sylfaen dystiolaeth gynyddol ynglŷn â hyn sy'n dangos rhywfaint o lwyddiant cychwynnol o leiaf: gweler isod.

dd. Nid oes unrhyw dystiolaeth yn unman yn y byd o aderyn erioed yn gwrthdaro â dyfais lanw – mae'r risg yn un ddamcaniaethol o hyd;

e. Hyd yn oed heb ffordd o fonitro gwrthdrawiadau unigol rhwng adar a thyrbinau (gan dybio, wrth gwrs, bod unrhyw rai'n digwydd), mae nifer o ddulliau eraill sefydledig o fonitro unrhyw effeithiau ar boblogaethau adar e.e. cyfrif cytrefi (gweler isod);

(ii) Yn ail, yn ei broflen wreiddiol, dywedodd Dr McCluskie[380] "*mae'n amlwg, felly, y dylai'r Ymgeisydd, o leiaf, geisio cyflwyno EMMP manwl ochr yn ochr â'r Gorchymyn y gellir craffu arno ar y cam hwn sy'n amlinellu strategaeth fonitro effeithiol a chyflawnadwy. Yna, dylai hwn gael ei ddiweddaru a'i ddiwygio cyn pob Cam lleoli a'i gyflwyno wedi hynny i Weinidogion Cymru graffu arno a'i gymeradwyo i sicrhau strategaeth liniaru effeithiol, yn yr un ffordd ag y cynigir ar gyfer y Drwydded Forol*". Dilëwyd y paragraff hwn o'r broflen ddiwygiedig. Pan ofynnais i Dr McCluskie pam y'i dileodd, ni allai roi ateb. Dim ond un rheswm sy'n bosibl ar gyfer ei ddileu, sef bod Dr McCluskie wedi sylweddoli bod yr hyn yr oedd yn ei awgrymu y dylai ddigwydd yn union yr un fath a'r hyn a gynigir mewn gwirionedd. Nid oedd hynny'n cyd-fynd â gwrthwynebiad

---

[377] Gweler Proflen Dystiolaeth Dr McCluskie ym mhara. 8.6 "*heb fonitro a mesurau diogelu effeithiol, pryderaf o hyd ynglŷn ag effeithiau a allai fod yn arwyddocaol ar y poblogaethau adar sy'n defnyddio ardal y Cais*" (Cyf: POE007.1).

[378] Gweler atebion Dr McCluskie yn XX.

[379] Gweler atebion Dr McCluskie yn XX

[380] Gweler para. 8.10 yn y broflen wreiddiol heb ei diwygio (Cyf: POE007).

di-ildio ac, yn ein barn ni, cwbl ddigyfiawnhad yr RSPB i'r prosiect, felly fe'i dilëwyd.[381]

(ii) Modelu'r effeithiau posibl

235. Bellach, mae angen ystyried y gwaith modelu a gynhaliwyd i asesu'r effaith ar adar nad ydynt yn gysylltiedig ag AGA a'r materion y mae'r RSPB, ond nid CNC, yn eu codi yn hyn o beth.

236. Yn gyntaf, fel y nodwyd eisoes, mae Dr McCluskie yn derbyn na fydd y raddfa leoli a gynigir yng Ngham Un yn cael effaith arwyddocaol ar y rhywogaethau hyn. Ond, er gwaethaf hyn, mae Dr McCluskie yn codi rhai materion ynglŷn â'r asesiad a gynhwysir yn y nodyn modelu adareg, Cyf: MDZ/A31.10. Mae'r materion a godir ganddo yn hyn o beth mor ddi-sail ag ydynt yn ddibwys. Dyma'r pwyntiau allweddol:

(i) Mae'r raddfa leoli ar gyfer Cam Un wedi'i chyfyngu gan y PBR 0.7 ar gyfer dolffiniaid trwyn potel, a bydd yn fach iawn (rhwng 4 a 21 o ddyfeisiau, 5 – 12 MW): gweler uchod a gweler MDZ/A31.13. Mae hyn yn edrych ar nifer y dyfeisiau posibl ac yn gosod MW penodedig ar gyfer pob un, yna mae'n modelu'r uchafswm nifer o bob un y gellid ei lleoli er mwyn dod o dan y PBR 0.7 ar gyfer dolffiniaid trwyn potel (gweler uchod);

(ii) Yn y nodyn modelu adareg,[382] oherwydd bod nifer y dyfeisiau a'r math o ddyfeisiau'n anhysbys, mae'n dewis y dyfeisiau achos gwaethaf ar gyfer llursod a gwylogod, felly dyfais 3F a 6S yn y drefn honno[383];

(iii) Yna, mae'n modelu'r amcangyfrifon gwrthdaro yn seiliedig ar yr achosion gwaethaf hyn: gweler Tabl 3-1 yn MDZ/A31.10 (gydag allbynnau'r Dadansoddiad Hyfywedd Poblogaeth ("PVA") sy'n gysylltiedig â'r amcangyfrifon gwrthdaro hyn yn Nhablau 3-2 i 3-5);

(iv) Mae Dr McCluskie yn derbyn nad yw'r effeithiau hyn fel y'u modelwyd yn arwain at effeithiau arwyddocaol;

(v) Mae Dr McCluskie yn gwneud tri chwyn ynglŷn â'r gwaith modelu hwn (y derbyniodd ei fod wedi'i seilio ar ddull achos gwaethaf):

a. Mae'n cwyno y rhagdybir bod perthynas linol rhwng MW y dyfeisiau a leolir ac effaith, a bod hyn heb ei brofi ac yn annhebygol o fod yn gywir: ond mae'r pwynt hwn yn un gwael, fel y derbyniodd,[384] oherwydd: (i) bod

---

[381] Sylwer nad oedd y dull olrhain a ddefnyddiwyd ar gyfer ychwanegiadau yn y broflen ddiwygiedig yn olrhain testun a ddilëwyd.
[382] Cyf: MDZ/A31.10
[383] Yn y nodyn modelu mamaliaid, mae'r rhain wedi'u labelu'n ddyfeisiau 2a a 5b – gweler Tabl 2-1 yn y nodyn hwnnw (Cyf: MDZ/A31.13).
[384] Gweler atebion Dr McCluskie yn XX:
*"Cwestiwn: O ran hynny – pan aseswn y dyfeisiau yn y nodiadau modelu, mae gan bob dyfais MW penodedig?*
*Ateb: Oes*
*Cwestiwn: Felly, nid oes ots p'un a edrychir ar hyn yn nhermau niferoedd neu MW – maen nhw'n rhyng-gyfnewidiol?*
*Ateb: Maen nhw'n rhyng-gyfnewidiol os oes dyfeisiau cyfan. Mae angen realaeth yn yr asesiad. Nid yw'n realistig cael rhannau o asesiadau. 0.89 o ddyfais …"*

perthynas linol yn y modelu rhwng nifer y dyfeisiau a gwrthdrawiadau;[385] a (ii) bod allbwn gradd MW penodedig ar gyfer pob math o ddyfais, felly mae MW a nifer y dyfeisiau'n gwbl ryng-gyfnewidiol yn hyn o beth ac mae'r berthynas, felly, yn llinol;

b. Mae'n cwyno bod y modelu'n edrych ar ran o ddyfais: mae'r pwynt hwn hyd yn oed yn waeth na'r un cyntaf. Fel y derbyniodd Dr McCluskie, roedd ei wrthwynebiad wedi'i seilio ar ddim mwy na gwrthwynebiad mewn egwyddor yn ymwneud â chymhlethdod modelu o'r fath. O ran y pwynt hwn, derbyniodd: (i) ei fod yn "academaidd", (ii) nad oedd wedi'i gefnogi gan unrhyw beth yn y Rheoliadau EIA na'r canllawiau; (iii) nad oedd yn gwneud unrhyw wahaniaeth o gwbl i'r asesiad, ac (iv) mewn gwirionedd, os o gwbl, ei fod yn gwneud yr asesiad a gynhaliwyd yn achos gwaeth fyth.[386]

c. Mae'n cwyno oherwydd y gallai'r dyfeisiau a leolir yn y pen draw fod yn wahanol i'r rhai hynny a aseswyd, ac oherwydd bod y terfyn cyffredinol ar gyfer Cam Un wedi'i seilio ar y PBR 0.7 ar gyfer dolffiniaid trwyn potel, y gallai'r effaith a ragfynegir ar adar fod yn uwch: ond yn ei dystiolaeth lafar, derbyniodd Dr McCluskie fod y pwynt hwn yn diflannu gan ei bod yn amlwg o'r EMMP, cyn lleoli Cam Un, y byddai effaith y dyfeisiau penodol sydd i'w lleoli yn cael ei modelu o ran yr effeithiau ar adar a mamaliaid: gweler yr EMMP ym mhara. 39.[387] Ac mae pwynt arall, sef bod y nodyn modelu adareg yn tybio achos gwaethaf ar gyfer gwylogod a llursod o ran y dyfeisiau a leolir;

(vi) Felly, ar sail y pwyntiau hyn sydd braidd yn ddibwys ac yn academaidd i raddau helaeth, mae Dr McCluskie yn dweud[388] "… *mae fy archwiliad o'r wybodaeth ychwanegol a gyflenwyd gan yr Ymgeisydd wedi dangos absenoldeb cyfrifiadau cadarn ar gyfer y senarios effaith lai. Felly, parhaf i seilio fy nghasgliadau ar ganlyniadau modelu'r Ymgeisydd o'r senarios 240 a 40 MW*" ac, yn wir, mae'r rhan fwyaf o'i dystiolaeth ysgrifenedig yn canolbwyntio ar hyn.

237. Yn ail, mae'r naid hon yn gwbl ddigyfiawnhad sut bynnag. Nid yw'n gwneud unrhyw synnwyr ar unrhyw sail. A dweud y gwir, mae'n tanseilio hygrededd

---

[385] Esboniodd Dr Grant hyn yn fanwl yn ei dystiolaeth lafar. Os oes gennych 5 dyfais – 3 o fath A a dau o fath B, mae'r model yn ychwanegu, h.y. mae'n cymryd 3 x A a 2 x B. Dyna sut mae'r modelau'n gweithio.

[386] Gweler atebion Dr McCluskie i'ch cwestiynau, Syr:

*"Cwestiwn: Ond yr hyn sydd o ddiddordeb i Mr Maurici, ac i minnau, yw pa wahaniaeth y mae'n ei wneud. Os yw'r ymchwiliad yn ymwneud ag asesu effeithiau posibl yr achos gwaethaf a gynigir, a bod modelu'n mynd y tu hwnt i'r 5 uned hynny a allai fod yn eu lle, pam nad yw'r asesiad yn briodol? Pam na fyddai'n rhoi asesiad realistig i Weinidogion Cymru o effeithiau posibl y cynllun?*

*Ateb: Mae'n bwynt egwyddor, yn rhannol. Gan ein bod yn delio â chymaint o fodelu, rwy'n awyddus iawn i gyflwyno realaeth. Mae hyn yn gam i ffwrdd oddi wrth realaeth ffisegol.*

*Cwestiwn: Iawn, ond at ddiben yr ymchwiliad – rwy'n deall y dymuniad i gadw modelu mor agos i'r sefyllfa go iawn â phosibl, ond os yw hynny'n mynd tuag at fwy o asesu a diogelwch, beth yw'r broblem?*

*Ateb: Heblaw am y ddadl academaidd, dylai hynny fod mor wirioneddol â phosibl.*

*Ateb: Ar wahân i'r ddadl y dylai fod mor realistig â phosibl, nid yw'n broblem. Ond mae'r ymgeisydd yn sôn am faint o ragofalon sydd yn yr asesiad, ac mae rhagofalon yn cael eu cyflwyno'n ddiangen yma."*

Gweler hefyd gwrthbroflen Dr Grant ym mhara. 4.20.

[387] Gweler Cyf.(au): Dogfen Ymchwiliad – 100 a Dogfen Ymchwiliad – 101, ac atebion Dr McCluskie yn XX.

[388] Gweler Proflen Dystiolaeth Dr McCluskie ym mhara. 5.46 (Cyf: POE007.1).

tystiolaeth Dr McCluskie yn ei chyfanrwydd. Yr hyn a gynigir yma yw lleoli cam cychwynnol bach sy'n llai o lawer na'r 40MW neu'r 240MW a aseswyd yn yr ES. Ni fydd caniatâd byth yn cael ei roi i leoli'r camau mwy hyn oni bai bod gwaith monitro Cam Un yn cadarnhau na fydd y niwed ar y lefel a ragfynegwyd yn geidwadol iawn – a heb dybio unrhyw fesurau lliniaru – yn yr ES. Nonsens llwyr yw dweud oherwydd bod ganddo rai pryderon (disylwedd) ynglŷn â'r asesiad o leoli Cam Un, y bydd yr RSPB yn canolbwyntio yn lle hynny ar effaith, heb ei liniaru, lleoli nifer fwy o ddyfeisiau, gan anwybyddu'r EMMP.

238. Yn drydydd, mae proflen Dr McCluskie, felly, wrth asesu'r effeithiau posibl ar lursod a gwylogod, yn canolbwyntio ar yr asesiadau 40MW a 240MW yn yr ES.[389] Felly, mae ei broflen yn datgan "*o ran y cynnig 240 MW, mae cyfrifiadau'r Ymgeisydd ei hun yn rhagfynegi y byddai poblogaeth gwylogod Ynys Lawd a Phenlas, gan ddefnyddio Cyfradd Osgoi 95%, yn 2.4% o'r lefel y byddai heb y datblygiad (h.y. gostyngiad o 97.6%) ar ôl 25 mlynedd, a chan ddefnyddio Cyfradd Osgoi 98%, byddai'n 40.5% o'r lefel y byddai heb y datblygiad. O ran llursod, mae cyfrifiadau'r Ymgeisydd ei hun yn rhagfynegi y byddai poblogaeth Ynys Lawd a Phenlas yn cael ei lleihau i sero (h.y. ei difodi) gan ddefnyddio Cyfradd Osgoi 95%*".[390] Dywedodd yr RSPB yr un peth yn ei chyflwyniad agoriadol ac yn y cyfryngau ar ddiwrnod cyntaf yr ymchwiliad. Er bod hyn i gyd yn rhoi sylw bachog i'r RSPB a'i hachos, mae'r datganiadau hyn yn gamarweiniol iawn o ystyried:

(i) Bod y ffigurau hyn wedi'u seilio ar yr hyn sy'n ddadansoddiad rhagofalus iawn (gweler isod), y "cwynodd" Dr McCluskie yn ystod croesholi ei fod yn rhy ragofalus mewn rhai ffyrdd;

(ii) Bod y ffigurau hyn yn llwyr anwybyddu'r EMMP ac unrhyw gyflwyno fesul cam, mesurau lliniaru a rheolaethau eraill;

(iii) Yn unol â hyn, nid oes senario yn y byd go iawn lle y byddai lleoli'n cael ei ganiatáu yn agos at 240MW pe byddai'r monitro ar ôl Cam Un yn dangos bod effeithiau o'r lefel hon yn digwydd,[391] cyn belled â bod CNC yn gweithredu'n gymwys fel rheoleiddiwr. At hynny, wrth gwrs, byddai'r Grŵp Cynghori (y gwahoddwyd yr RSPB i ymuno ag ef) yn gweithredu fel hidlydd i atal sefyllfa o'r fath byth rhag cael ei chyflwyno i CNC ar gyfer penderfyniad.

239. Yn bedwerydd, mae'r modelu gwrthdrawiad a gynhaliwyd yn rhagofalus iawn mewn nifer o ffyrdd:

(i) **Tybir bod lefel y plymio nosol yn 90% o'r lefel yn ystod y dydd, sy'n debygol o fod yn oramcangyfrif ar ben uchaf yr hyn sy'n debygol o leiaf**:[392] derbyniodd Dr McCluskie fod yr agwedd hon ar yr asesiad yn "rhagofalus ond yn realistig";[393]

389 Gweler proflen dystiolaeth Dr McCluskie ym mhara.(au) 5.25 - 5.37 (Cyf: POE007.1).
390 Ystyrir cyfraddau osgoi isod, ond digon yw dweud bod tystiolaeth Dr Grant yn dangos bod cyfradd osgoi 95% yn rhagofalus iawn ynddi'i hun.
391 Yn ystod ailarchwilio, dywedodd Dr Grant, o ystyried y rheolaethau sydd i'w gosod ar yr ML a'r EMMP Amlinellol, fod y tebygrwydd y gallai'r effeithiau hyn fyth ddigwydd yn "*Annhebygol iawn, ac ni ddylai ddigwydd*".
392 Gweler Proflen Dystiolaeth Dr Grant ym mhara. 6.24 (Cyf: MDZ/P1) a Gwrthbroflen Dr McCluskie ym mhara. 7 (Cyf: RPE012).
393 Gweler atebion Dr McCluskie yn XX.

(ii) **Tybiwyd bod dyfnderoedd plymio yr un fath yn y nos ag ydynt yn y dydd, er bod y dystiolaeth yn dangos bod plymio yn y nos yn fwy bas**:[394] derbyniodd Dr McCluskie fod hyn yn "briodol o ragofalus";[395]

(iii) **Tybiwyd bod yr holl wrthdrawiadau'n angheuol: unwaith eto, derbyniodd Dr McCluskie fod hyn yn rhagofalus**,[396] gan fod tebygrwydd cryf y byddai gwrthdrawiad â dyfais lanw, pe byddai erioed yn digwydd, yn llai nag angheuol;

(iv) **Mae'r nodyn modelu adareg yn tybio achos gwaethaf ar gyfer pob rhywogaeth o ran y math o ddyfais ac yn edrych ar niferoedd dyfeisiau nad ydynt yn rhifau cyfan uwchlaw'r hyn y gellid ei leoli mewn gwirionedd**: gweler uchod, awgrymodd Dr McCluskie yn rhyfedd fod hyn yn "ddiangen o ragofalus" – nid oeddwn erioed yn credu y byddem yn clywed y gŵyn honno gan yr RSPB.

240. Yn bumed, mae'r dadansoddiad PVA a gynhaliwyd yn rhagofalus iawn hefyd oherwydd:

(i) "*maen nhw wedi defnyddio maint poblogaeth dechreuol ar gyfer poblogaethau gwylogod a llursod Ynys Lawd a Phenlas sy'n sylweddol lai nag yr amcangyfrifir ar hyn o bryd. Felly, mae'r amcangyfrifon mwy diweddar o faint poblogaeth y cytrefi 75% a 34% yn uwch ar gyfer gwylogod a llursod, yn ôl eu trefn (Pennod 11 yr ES, cyfrol 3 – Atodiad 11.3 …. Bydd hyn yn lleihau effaith yr effeithiau rhagfynedig fel y'u pennwyd gan wrthffeithiau cyfradd twf y boblogaeth a maint y boblogaeth, ac mae'r gostyngiad yn debygol o fod yn sylweddol yn achos gwylogod*".[397] Heriodd yr RSPB hyn:

a. Yr unig bwynt a awgrymwyd i Dr Grant wrth ei groesholi ynglŷn â'r mater hwn oedd na fyddai hyn yn gwneud llawer o wahaniaeth o ystyried graddau'r effeithiau a aseswyd yn yr ES. Gwrthbrofodd hyn yn llwyr;[398]

---

394 Gweler Proflen Dystiolaeth Dr Grant ym mhara. 6.24 (Cyf: MDZ/P1).
395 Gweler atebion Dr McCluskie yn XX.
396 Gweler Proflen Dystiolaeth Dr Grant ym mhara. 6.25 (Cyf: MDZ/P1) ac atebion Dr McCluskie yn XX.
397 Gweler Proflen Dystiolaeth Dr Grant ym mhara. 6.26 (Cyf: MDZ/P1).
398 Ar ôl cyfeirio at yr hyn a ddywedodd Dr Grant yn ei broflen ym mhara. 6.26, croesholodd Ms Lean fel a ganlyn:

*"Cwestiwn: Efallai bod hyn yn wir o ran mathemateg, ond nid yw'n golygu y byddwch yn cael effaith arwyddocaol o lefel wahanol dim ond oherwydd bod gwahaniaeth yn y rhifau*

*Ateb. Fe allai. Ni fydd hynny'n digwydd yn yr achos hwn gan nad oes effaith arwyddocaol. Os dechreuwch gyda 2,000 o adar, a thybio marwoldeb o 20 y/f, a dod i gasgliad o effaith arwyddocaol. Os dechreuwch gyda 4,000 o adar a gwneud yr un gwaith, fe allech ganfod ei fod yn newid casgliadau'r asesiad. Mae marwoldeb gwrthdrawiadau'n cael ei fynegi yn berthynol i faint poblogaeth, ac felly mae maint poblogaeth dechreuol yn allweddol. Yn yr achos hwn, amcangyfrifaf (nid wyf wedi gwneud y gwaith modelu, dyfaliad deallus yw hwn), lle mae gennych – o gymharu â'r hyn rydym ni wedi'i wneud – petaech chi'n gwneud yr un PVA a'r un amcangyfrifon gwrthdrawiad, ond gyda phoblogaeth ddechreuol sydd 75% yn uwch, byddech yn haneru graddau'r effaith bron - oddeutu 40%. Felly, mae'r pwynt dechreuol yn rhan allweddol o'r broses hon*

*Cwestiwn: A yw hynny mewn perthynas â'r 0.7 rydym yn sôn amdano?*

*Ateb: Ydy, ond mae'r un peth yn berthnasol i leoli 40MW a 240MW. Mae PVAs wedi'u seilio ar yr un peth – ac yn ôl yr un raddfa a maint. Felly, defnyddir yr un meintiau poblogaeth dechreuol mewn PVAs ar gyfer lleoli 40MW, 240MW, 0.7pba. Felly, yn achos gwylogod, gallai ailwneud PVA gyda phoblogaeth fwy o faint effeithio ar y casgliad. Fe allai ei leihau o effaith niweidiol fawr i effaith niweidiol gymedrol o ran*

b. Dadleuodd Dr McCluskie yn bennaf petai maint poblogaeth dechreuol uwch yn cael ei ddefnyddio ar gyfer y dadansoddiad PVA, byddai'n rhaid i hwn gael ei ddefnyddio yn y modelu, gan arwain at y canlyniad bod mwy o adar yn golygu mwy o wrthdrawiadau. Ymddangosai fod tystiolaeth Dr McCluskie ynglŷn â'r pwynt hwn yn camddeall yr hyn a wnaed yn yr asesiad mewn gwirionedd, ond gan na awgrymwyd y pwynt hwn i Dr Grant yn y diwedd, ni ellir rhoi llawer o bwys iddo, os o gwbl;

c. Cytunodd Dr McCluskie yn ystod croesholi:

   1. fod yr arolygon sylfaenol a gynhaliwyd rhwng mis Tachwedd 2016 a mis Hydref 2018 yn briodol ac wedi'u cynnal yn unol â safonau'r diwydiant;[399]

   2. bod y meintiau poblogaeth dechreuol a ddefnyddiwyd ar gyfer PVAs yn dibynnu ar y data mwyaf diweddar o ran cyfrif cytrefi a oedd ar gael ar yr adeg y gwnaed y gwaith modelu. Roedd hyn yn cynnwys data 2018 o rai rhannau o'r gytref ond roedd rhannau eraill yn defnyddio data 2016. Fodd bynnag, mae'r meintiau poblogaeth (cyfredol) uwch ar gyfer y gytref y cyfeirir atynt ym Mhroflen Dystiolaeth Dr Grant yn cynrychioli'r amcangyfrifon fel y maent wedi'u seilio ar ddata cyflawn 2018 (h.y., ar gyfer pob rhan o'r gytref). Felly, mae'r amcangyfrifon uwch o feintiau poblogaeth yn gyfoes â'r data arolwg sylfaenol, ac felly mae'r data sylfaenol yn gynrychioliadol o'r meintiau poblogaeth hynny;

   3. bod cymhwyso ffactor cywiro[400] i'r data cyfrif cytref er mwyn rhoi amcangyfrif dechreuol o'r boblogaeth yn dilyn y dull a argymhellir ar gyfer trosi cyfrifon gwylogod a llursod yn y gytref yn feintiau poblogaeth go iawn. Cytunir ar hyn hefyd yn y Datganiad Tir Cyffredin gyda CNC.[401]

ch. Awgrymodd Dr McCluskie wrth gael ei groesholi y dylai'r ffactor cywiro fod wedi cael ei gymhwyso i'r data arolwg sylfaenol hefyd. Fodd bynnag, fel yr awgrymwyd wrtho, mae hyn yn anghywir. Roedd y dulliau a ddefnyddiwyd i gasglu a dadansoddi'r data arolwg sylfaenol yn dilyn canllawiau a argymhellir gan y diwydiant (fel y cytunodd ef), nad ydynt yn cynnwys cymhwyso unrhyw ffactor o'r fath.

(ii) **Defnyddiodd yr asesiad fodelau poblogaeth annibynnol ar ddwysedd ac ni ystyriodd ddulliau digolledu y mae tystiolaeth glir fod y rhain yn gyffredin mewn poblogaethau carfilod a phoblogaethau adar môr yn fwy cyffredinol:**[402] **Roedd hyn yn destun cryn ddadlau yn seiliedig ar bapur Horswill *et al.***,[403] a dadl ynglŷn â ph'un a oedd y dystiolaeth yn cefnogi dulliau digolledu neu ostyngiad yn y boblogaeth (*depensatory*) mewn poblogaethau o'r fath. Dyma'r pwyntiau allweddol:

*240MW. Rwy'n dweud y gallai, byddai'n rhaid i chi ei wneud i ganfod yn bendant. Byddai'n gwella'r asesiad o raddau'r effaith ar yr adar."*

399 Gweler Proflen Dystiolaeth Dr Grant ym mhara 5.2 (Cyf: MDZ/P1) ac atebion Dr McCluskie yn XX.

400 Yr oedd Dr McCluskie yn ymddangos ei fod yn feirniadol ohono yn ei brif dystiolaeth.

401 Cyf: MDZ/L2 tud.(au) 22-23

402 Gweler Proflen Dystiolaeth Dr Grant ym mhara. 6.27 (Cyf: MDZ/P1).

403 Cyf: Dogfen Ymchwiliad - 082

a. Adolygydd Horswill *et al.* 89 o astudiaethau ynglŷn â'r mater mewn adar môr a chanfu dystiolaeth o ddulliau digolledu yn 67 o 89 o'r rheiny;

b. Roedd 15% o'r 67 o bapurau hynny (felly 10) yn ymwneud â charfilod;[404]

c. O ran recriwtio (5 papur), twf poblogaeth (3 phapur) a goroesi[405] (2 bapur), canfuwyd bod dulliau digolledu'n bresennol mewn poblogaethau carfilod,[406] a dim ond mewn perthynas â chynhyrchedd yr oedd papurau'n cyfeirio at ffactorau gostyngiad yn y boblogaeth ar gyfer carfilod (2 bapur);

ch. O ran y ffactorau perthnasol, mae'n amlwg bod "goroesi" yn un pwysig[407] ac mae Horswill *et al.* yn dweud "*roedd y dystiolaeth ar gyfer rheoleiddio digolledu er mwyn goroesi wedi'i nodi'n bennaf mewn astudiaethau ynglŷn â ...charfilod* …";[408]

d. Mae Horswill *et al.* yn dweud "*yng nghyd-destun ffermydd gwynt ar y môr, fe allai dulliau digolledu ganiatáu i rai colledion o'r boblogaeth fridio fod… Mae hyn yn cynnwys, o bosibl, mulfrain, sgiwennod a charfilod*";[409]

dd. Yn ei brif dystiolaeth, esboniodd Dr Grant pan ganfuwyd ffactorau gostyngiad yn y boblogaeth, fod y rhain yn gysylltiedig yn gyson â phoblogaethau a oedd eisoes ar ddwysedd isel, ac roedd Horswill *et al.* o'r farn eu bod yn berthnasol i boblogaethau wedi'u darwagio a rhywogaethau dan fygythiad. Nid oedd Dr Grant o'r farn bod hyn yn gymwys i'r poblogaethau perthnasol yn Ynys Lawd a Phenlas oherwydd bod y rhain yn gymharol fawr, gydag oddeutu 12,000-13,000 o wylogod a 2000 o lursod, ac mae'r data sydd ar gael yn awgrymu bod niferoedd wedi cynyddu yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Felly, ni chredai fod dulliau gostyngiad yn y boblogaeth o ran dwysedd yn bwysig yn y cyd-destun hwn. Unig ateb Dr McCluskie oedd dweud y gallai hyn fod yn berthnasol os oedd yr effeithiau'n cyfateb i'r rhai ar gyfer lleoli dyfeisiau 240MW heb fesurau lliniaru, a aseswyd yn yr ES. Ond, fel yr esboniwyd eisoes, ni fydd yr effeithiau hyn byth yn digwydd mewn gwirionedd.

(iii) Tybiodd yr asesiad boblogaeth gaeëdig heb fewnfudo nac allfudo. Symleiddiad biolegol yw hynny sy'n debygol o arwain at oramcangyfrif effeithiau.[410] Derbyniodd Dr McCluskie fod hyn yn rhagofalus, er na ellid pennu i ba raddau y goramcangyfrifwyd effeithiau.[411]

241. <u>Yn chweched</u>, nid yw'r partïon yn dadlau, er gwaethaf yr anallu i ddilysu'r modelau oherwydd diffyg data o ganlyniad i ddiffyg lleoli, mai'r ffordd orau o asesu

404 Gweler tud.1409 Cyf: Dogfen Ymchwiliad - 082

405 Derbyniodd Dr McCluskie fod hyn yn ffactor cryf mewn carfilod gan eu bod yn rhywogaeth hir-oes: gweler ei atebion yn XX. Mae bod yn rhywogaeth hir-oes yn berthnasol oherwydd ei fod yn golygu bod tueddiadau yn y boblogaeth yn fwyaf sensitif i newidiadau i gyfraddau goroesi.

406 Gweler Tabl 1, tud.1409 Cyf: Dogfen Ymchwiliad – 082 (PDF tudalen 4 o 9).

407 Fel y derbyniodd Dr McCluskie yn XX.

408 Gweler tud.1410 Cyf: Dogfen Ymchwiliad – 082

409 Gweler tud.1411 Cyf: Dogfen Ymchwiliad – 082

410 Gweler Proflen Dystiolaeth Dr Grant ym mhara. 6.27 (Cyf: MDZ/P1).

411 Gweler atebion Dr McCluskie yn XX.

risg gwrthdrawiad â dyfeisiau llanw yw trwy ddefnyddio'r modelau CRM ac ERM.[412] Dyma ddau o'r tri model a argymhellir gan SNH.[413] Argymhellodd CNC ddefnyddio'r modelau hyn yma, ac fe'u defnyddiwyd.[414]

242. Yn seithfed, ceisiodd yr RSPB, yn anochel, wneud rhywbeth o'r camgymeriad yn y modelu a ganfuwyd yn hwyr yn 2020. Fodd bynnag, esboniodd Dr Grant natur gynnil iawn y camgymeriad ac mai ef a sylwodd arno.[415] Gwnaeth y camgymeriad wahaniaeth ymylol i'r asesiad.[416] Nid yw hyn yn tanseilio'r hyder yn y gwaith modelu a wnaed hyd yma na'r gwaith modelu a ddaw yn ddiweddarach mewn unrhyw ffordd. Er bod yr holl ddata wedi bod ym meddiant yr RSPB ers rhai misoedd bellach, ni allai ddod o hyd i unrhyw gamgymeriad arall yn y modelu.

(iii) Y PDE/materion rheoli addasol

243. Mae proflen Dr McCluskie yn egluro mai un o faterion allweddol yr RSPB oedd defnyddio PDE a rheoli addasol.[417] Ymdrinnir â'r materion hyn yn fanylach uchod, ond gellir gwneud y pwyntiau byr canlynol:

(i) Nid oes gan yr RSPB unrhyw wrthwynebiad mewn egwyddor i ddefnyddio PDE ar gyfer caniatáu prosiectau ynni'r llanw;[418]

(ii) Mae CNC yn cefnogi defnyddio PDE a rheoli addasol mewn papurau cyhoeddedig;[419]

(iii) I'r graddau bod cwyn yn cael ei gwneud nad yw'r PDE wedi'i diffinio'n briodol mewn perthynas â'r prosiect hwn, mae'r safbwynt hwn wedi cael ei wrthod gan yr Arolygiaeth Gynllunio (PINS);[420]

(iv) Mae CNC wedi cefnogi defnyddio PDE a rheoli addasol ar gyfer prosiectau llanw yn gyffredinol ac mewn perthynas â'r prosiect hwn yn benodol;[421]

(v) Mae CNC wedi bodloni'i hun bod "*sicrhau'r DEMMP (a'r manylion penodedig sy'n ofynnol) yn seiliedig ar yr OEMMP, trwy amod ar y drwydded forol ddrafft*"[422] yn ddigonol i roi sicrwydd iddo na fydd AEOSI ar famaliaid môr ac mae'r rhain yn cael eu hamddiffyn i raddau mwy o lawer na'r rhywogaethau

412 Gweler Proflen Dystiolaeth Dr Grant ym mhara. 8.8 (Cyf: MDZ/P1), gweler Cyf: MDZ/F15.2 ar dud. 10, 2il baragraff ac atebion Dr McCluskie yn ei brif dystiolaeth ac yn XX.

413 Gweler Cyf: MDZ/F19.

414 Gweler Proflen Dystiolaeth Dr Grant ym mhara. 8.8 (Cyf: MDZ/P1) ac atebion Dr McCluskie yn XX.

415 Gweler atebion Dr Grant yn XX ac yn ystod ailarchwilio.

416 Gweler prif dystiolaeth Dr Grant.

417 Gweler Proflen Dystiolaeth Dr McCluskie ym mhara.(au) 4.1, 4.2 ac 8.5 (Cyf: POE007.1) a'i atebion yn XX.

418 Gweler atebion Dr McCluskie yn XX.

419 Gweler Cyf: MDZ/F15 a hefyd Cyf: MDZ/K1 ac atebion Dr McCluskie yn XX.

420 Gweler Cyf: MDZ/E10, para. 15.

421 Gweler Cyf.(au): MDZ/F15, MDZ/K1 ac MDZ/L2 tud.5 para. 21 a gweler atebion Dr McCluskie yn XX.

422 Gweler Cyf: Dogfen Ymchwiliad – 085, pwynt 1.

adar dan sylw.[423] Mae’n ymddangos hefyd bod CNC yn fodlon â’r EMMP Amlinellol o ran adar.

244. Er bod yr RSPB wedi cwyno nad yw’r EMMP Amlinellol[424] yn rhoi digon o amddiffyniad i adar, mae’n cynnwys llawer o amddiffyniadau mewn gwirionedd. Felly:

(i) Mae ymrwymiad Menter Môn i ddiogelu’r amgylchedd yn cynnwys adar môr sy’n plymio yn benodol (para. 5);

(ii) Caniateir lleoli dyfeisiau dim ond ar raddfeydd y mae CNC yn cytuno bod y ddealltwriaeth wyddonol orau sydd ar gael yn rhagfynegi na fydd effeithiau niweidiol ar boblogaethau adar môr sy’n plymio o gytrefi lleol nad ydynt yn gysylltiedig ag AGA (gweler para. 7);

(iii) Ni chaniateir i unrhyw ddyfais weithredu hyd nes bod CNC yn fodlon bod monitro effeithiol ar waith sy’n gallu llywio’r broses o weithredu’r EMMP yn uniongyrchol, a llywio’r nodau, yr amcanion a’r cwestiynau rheoli cytunedig a osodwyd gan yr EMMP ar gyfer y prosiect (gweler para. 8). Ac mae’r holl nodau (gweler para. 75); amcanion (gweler para. 76) a chwestiynau monitro (gweler Tabl 2-2) yn cynnwys amddiffyn adar nad ydynt yn gysylltiedig ag AGA;

(iv) Un o brif ddibenion yr EMMP yw osgoi effeithiau arwyddocaol ar adar plymio nad ydynt yn gysylltiedig ag AGA o gytrefi lleol (gweler para.(au) 18, 30); ac un arall yw casglu data am adar er mwyn diweddaru’r modelu risg gwrthdrawiad (gweler para. 21);

(v) Dywedir yn benodol y bydd Cam Un yn cael ei benderfynu maes o law gan ganlyniad y gwaith modelu ar gyfer, ymhlith pethau eraill, adar môr (gweler para. 39);

(vi) Mae darpariaeth sylweddol yn yr EMMP Amlinellol ar fonitro a lliniaru mewn perthynas ag adar môr: gweler para.(au) 58, 61, 62 – 63, 67, Tabl 1-1, 76 (y ddau bwynt bwled), para.(au) 77 – 78, 84 – 87, 100, Tablau 2-1 a 2-2, para. 139, Tabl 4-1, para.(au) 153, 159 a 167 -169. At hynny, mae’r EMMP Amlinellol yn cynnig bod yr RSPB yn ymuno â’r Grŵp Cynghori.

<u>(iv) Y materion asesu sy’n weddill</u>

245. O ystyried yr uchod i gyd, roedd Dr Grant yn iawn i awgrymu efallai bod llawer o’r materion asesu manwl a godwyd gan Dr McCluskie o arwyddocâd ymylol braidd.[425] Mae hyn yn arbennig o wir o ystyried bod yr ES yn asesu effeithiau heb eu lliniaru lleoli dyfeisiau 40MW a 240MW mewn perthynas â gwylogod a llursod fel bod yn “*niweidiol mawr*” mewn nifer o ffyrdd”;[426] hynny yw, y lefel uchaf o arwyddocâd

[423] Gweler atebion Dr McCluskie yn XX.
[424] Cyf.(au): Dogfen Ymchwiliad – 100 a Dogfen Ymchwiliad – 101.
[425] Gweler prif dystiolaeth Dr Grant.
[426] Gweler Gwrthbroflen Dystiolaeth Dr Grant ym mhara. 4.23 (Cyf: RPE010), pennod 11 yr ES (Cyf: MDZ/A31.11) ym mhara.(au) 176 – 177 ac atebion Dr McCluskie yn XX. Dylid nodi

effaith a geir yn yr ES.[427] O ystyried hyn, hyd yn oed petai unrhyw un o feirniadaethau Dr McCluskie yn iawn, ac nid ydynt, ni fyddai'n newid[428] y lefel arwyddocâd gyffredinol a aseswyd.[429] Troir, felly, at y materion.

246. Yn gyntaf, mae Dr McCluskie yn dadlau bod canllawiau SNH yn mynnu bod rhaid i amrediad llawn o gyfraddau osgoi (0-99%) gael eu cyflwyno *a'u cymhwyso*[430] mewn unrhyw asesiad. Fodd bynnag, y sefyllfa yw:

(i) Bod canllawiau SNH (o'u darllen yn iawn) yn mynnu bod amrediad llawn o gyfraddau'n cael eu cyflwyno ond nid eu cymhwyso i'r asesiad o reidrwydd;[431]

(ii) Bod canllawiau SNH hefyd yn cydnabod bod y gyfradd osgoi sydd i'w chymhwyso yn fater o farn broffesiynol yn y pen draw;[432]

(iii) Ni ddadleuir bod yr ES a'r nodyn modelu gwrthdrawiad ag adar[433] yn amlinellu'r amrediad llawn o ganlyniadau. Mae'r gŵyn yn honni y rhoddir pwyslais ar amrediad culach o gyfraddau osgoi (95 – 99.9%) at ddibenion yr asesiad.[434] Fodd bynnag, mae'r amrediad "culach" honedig hwnnw'n cwmpasu gwahaniaeth 50 gwaith mewn amcangyfrifon gwrthdrawiad o hyd;[435]

(iv) Barn broffesiynol Dr Grant yw bod y pwyslais ar yr amrediad culach o gyfraddau osgoi yn iawn oherwydd dyma'r rhai mwyaf tebygol, ac mae'n rhoi dau brif reswm:

a. Mae gwylogod a llursod yn blymwyr ymlid, gan ddefnyddio eu hadenydd i yrru ymlaen wrth iddynt geisio dal pysgod chwim sy'n aml yn hyrddio'n gyflym iawn ac yn symud yn hydrin i ddianc rhag ysglyfaethwyr. Mae gwylogod a llursod yn chwilotwyr gweledol hefyd, gan ddibynnu ar eu golwg wrth ganfod, ymlid a dal eu hysglyfaeth. Fel y cyfryw, mae'r rhywogaethau hyn yn gallu gwneud symudiadau ymatebol cyflym a symud yn hydrin iawn wrth nofio o dan y dŵr, sy'n awgrymu bod cyfraddau osgoi uwch yn debygol o fod yn briodol.[436] Derbyniodd Dr McCluskie ei bod yn

hefyd bod yr effaith ar wylogod yn "*niweidiol cymedrol*" ar gyfer lleoli dyfeisiau 40MW – gweler Cyf: MDZ/A31.11 ym mhara. 177.

[427] Gweler Cyf: MDZ/A25.5 Pennod 5 yr ES ar dud.18.

[428] Yn ei brif dystiolaeth, dywedodd Dr Grant, er nad yw'n bychanu pwysicrwydd sicrhau bod y manylion technegol yn gywir, fod beirniadaethau Dr McCluskie o'r asesiad yn academaidd mewn sawl ffordd o ystyried yr asesiad cyffredinol a wnaed o'r effeithiau heb eu lliniaru ar 40MW a 240MW.

[429] Yn XX, ceisiodd Dr McCluskie wadu hyn trwy ddweud y gallai'r effeithiau fod yn uwch, ond o ystyried ei fod yn disgrifio'r effeithiau heb eu lliniaru fel difodi, nid yw'n glir sut mae hynny'n wir. Unig awgrym Dr McCluskie oedd y gallai difodi ddigwydd yn gynt.

[430] Gweler proflen Dr McCluskie ym mhara. 5.12 a'i atebion yn XX

[431] Gweler MDF/F19 ar dud.67 "*O ystyried y diffyg gwybodaeth bresennol am ymddygiad osgoi, mae SNH yn argymell y dylai pob asesiad risg gwrthdrawiad sy'n defnyddio ffactor osgoi osod y canlyniadau allan gan ddefnyddio chwe chyfradd osgoi: 0% (h.y., dim osgoi), 50%, 90%, 95%, 98% a 99%*" (pwyslais wedi'i ychwanegu)

[432] Gweler Cyf.(au): MDZ/F19 tud.67 ac MDZ/F15.2 tud.12, 2il baragraff, ac atebion Dr McCluskie yn XX.

[433] Cyf: MDZ/A31.11

[434] Gweler Atodiad 11.3 Cyf: MDZ/A31.12

[435] Fel yr esboniodd Dr Grant yn ei brif dystiolaeth.

[436] Gweler Proflen Dystiolaeth Dr Grant ym mhara. 4.4 (Cyf: MDZ/P1).

berthnasol ystyried ffactorau o'r fath.[437] Ni chynigiodd Dr McCluskie gyfradd osgoi briodol (neu amrediad o gyfraddau) ei hun, ond 'does bosibl na all unrhyw un honni y byddai gan adar môr fel y rhain gyfradd osgoi 0%. Mae hynny'n wrthun o ystyried galluoedd yr adar môr hyn. Nid oes cyfiawnhad i ddadlau dros asesiad llawn ar sail o'r fath.

b. Mae'r cyfraddau osgoi a gymhwysir i CRMs ar gyfer tyrbinau gwynt ar y tir ac ar y môr mewn perthynas ag adar sy'n hedfan wedi cynyddu ar gyfer llawer o rywogaethau adar (ac yn amlwg felly mewn rhai achosion) o werthoedd cychwynnol, rhagofalus o 95% i 98% yn ddiweddarach wrth i ddata a dealltwriaeth o sut mae adar yn rhyngweithio â thyrbinau gwynt gynyddu.[438] Felly, ar gyfer llawer o rywogaethau (neu grwpiau o rywogaethau), mae'r cyfraddau osgoi sydd bellach wedi'u cyfrifo mewn perthynas â thyrbinau gwynt yn 99% neu'n uwch.[439] Mae'n amlwg bod yr amrediad a ddefnyddiwyd yn yr asesiad yn cynnwys gwerthoedd sylweddol is na'r mwyafrif helaeth o amcangyfrifon a gafwyd ar gyfer adar sy'n hedfan mewn perthynas â thyrbinau gwynt. At hynny, mae ffactorau eraill sy'n debygol o achosi i gyfraddau osgoi ar gyfer tyrbinau llanw fod yn uwch nag ar gyfer tyrbinau gwynt, efallai'n fwyaf nodedig: (i) cyflymderau teithio arafach adar sy'n nofio yn hytrach na hedfan; (ii) cyflymder blaen llafn arafach tyrbinau llanw (oddeutu 20mya ar gyfer tyrbinau llanw o gymharu ag oddeutu 100mya ar gyfer tyrbinau gwynt); (iii) y potensial uwch i adar gael eu hysgubo o amgylch llafnau'r tyrbin llanw o ganlyniad i rymoedd hydrodynamig (oherwydd bod dŵr yn ddwysach o lawer nag aer) a (iv) y ffaith y gallai gweithgarwch chwilota gan adar plymio fod yn is yn y cyflyrau llanw a'r cyfraddau llif hynny sy'n gysylltiedig â chyflymderau troi araf tyrbinau neu sydd islaw cyflymder dechrau troi (gweler isod).

(v) Mae Dr McCluskie yn dadlau dros gyfradd osgoi is o bosibl (sydd heb ei phennu) yn seiliedig ar ddau bwynt:

a. **Atyniad i ysglyfaeth sy'n cydgasglu**: y safbwynt yw, er bod rhywfaint o dystiolaeth o bysgod yn cael eu denu i ddyfeisiau llanw mewn rhai safleoedd, ac felly bod posibilrwydd y gallai adar gael eu denu i ddyfeisiau, nid oes unrhyw dystiolaeth o hyn mewn gwirionedd;[440]

---

[437] Gweler atebion Dr McCluskie yn XX.

[438] Gweler Proflen Dystiolaeth Dr Grant ym mhara. 6.20 (Cyf: MDZ/P1), ei wrthbroflen ym mhara. 4.4 (Cyf: RPE010), ei dystiolaeth lafar ac atebion Dr McCluskie yn XX.

[439] Gweler Gwrthbroflen Dystiolaeth Dr Grant yn Atodiad 2 (Cyf: RPE010), Tabl 1 ac atebion Dr McCluskie yn XX. Gweler hefyd Gwrthbroflen Dystiolaeth Dr Grant yn Atodiad 3 (Cyf: RPE010), Tabl 1 a dadansoddiad Cook *et al.* yn atodiadau Dr McCluskie ar dud.(au) 26 -27 a archwiliwyd yn XX Dr Grant a Dr McCluskie. Dechreuodd y gyfradd ddiofyn ar 95%, ac fe'i cynyddwyd yn ddiweddarach i 98% ar gyfer y rhan fwyaf o rywogaethau neu grwpiau o rywogaethau. At hynny, o ran ffermydd gwynt ar y tir, mae gan 9 o 11 o rywogaethau neu grwpiau o rywogaethau gyfraddau osgoi uwch bellach na'r gyfradd ddiofyn newydd, ac mae dwy rywogaeth ar y lefel ddiofyn wreiddiol o 95% o hyd, sef cudyllod coch ac eryrod y môr. O ran ffermydd gwynt ar y môr, argymhellodd yr SNCBs gynyddu'r gyfradd osgoi ddiofyn o 98% ar gyfer y pum rhywogaeth adar môr yr amlygodd dadansoddiad Cook *et al.* ddigon o dystiolaeth ar eu cyfer i alluogi adolygu'r gyfradd osgoi (er bod yr SNCBs wedi argymell cynnydd llai nag a awgrymwyd gan Cook *et al.* yn achos gwylanod coesddu).

[440] Gweler adroddiad Enfait yn atodiadau Dr McCluskie ym mhara.(au) 3.2.1 a 3.3.3 (Cyf: POE007.1 tudalennau electronig 926 a 928 -929) ac atebion Dr McCluskie yn XX.

b. **Llai o weledd o ganlyniad i eglurder dŵr**: mae hyn yn ymddangos yn annhebygol o ystyried bod yr adar hyn yn plymio ac yn ymlid pysgod o dan y dŵr gan ddefnyddio eu golwg, er ei bod hefyd yn wir bod rhaid i gyfraddau osgoi a gymhwysir i adar sy'n hedfan o ran tyrbinau gwynt gyfrif am gyfnodau o weledd gwael hefyd (e.e. yn y nos ac yn ystod adegau o gymylau isel neu niwl).

(vi) At hynny, "*nid yw'r canllawiau'n datgan y dylai'r asesiad ganolbwyntio ar yr amrediad eang hwn o gyfraddau osgoi o reidrwydd, ac nid yw'n ymddangos bod SNH yn disgwyl i ddull o'r fath gael ei ddefnyddio. Er enghraifft, roedd yr Arfarniad Rheoliadau Cynefinoedd (HRA) a gynhaliwyd gan SNH mewn perthynas â'r (chweched) tyrbin ychwanegol arfaethedig ar gyfer Aráe Llanw Shetland wedi'i seilio ar asesiad o berygl gwrthdrawiad ag adar môr gan ddefnyddio'r ERM gyda chyfradd osgoi 98%*";[441]

(vii) Cwynodd Dr McCluskie yn ei broflen[442] nad oedd yr asesiad o gyfraddau osgoi yn yr ES yn ystyried ansicrwydd, ond tynnodd y feirniadaeth hon yn ôl, a hynny'n iawn, gan dderbyn ei fod yn anghywir yn hyn o beth.[443]

247. <u>Yn ail</u>, mae Dr McCluskie yn cwyno bod yr asesiad wedi defnyddio cyfradd osgoi gyffredin a gymhwyswyd i allbynnau ERM a CRM cyfartalog (cymedrig) yn hytrach na defnyddio'r allbynnau achos gwaethaf. Mae sawl pwynt i'w gwneud wrth ymateb:

(i) Mae'r canllawiau'n gwbl ddistaw y naill ffordd neu'r llall ynglŷn â derbynioldeb dull o'r fath;[444]

(ii) Defnyddiwyd y dull am resymau ymarferol, yn y bôn, er mwyn i'r allbynnau fod yn ddirnadwy, o ystyried bod yr asesiad yn edrych ar sawl gwahanol rywogaeth, 9 dyfais, 2 gapasiti cynhyrchu ac amrywiaeth o gyfraddau osgoi;[445]

(iii) Gellir cyfiawnhau'r dull o ystyried nad yw'r naill fodel na'r llall wedi'i amlygu'n ddull a ffefrir gan ganllawiau perthnasol y diwydiant[446] ac nid oes sail i dybio bod yr amcangyfrifon o un model yn fwy cywir na'r rhai o'r llall. Er bod cyfrifiadau a dulliau'r ddau fodel yn wahanol, yn y ddau achos mae'r gyfradd osgoi yn cael ei chymhwyso i allbwn y model fel pwynt terfyn wrth amcangyfrif marwoldeb o ganlyniad i wrthdrawiad. Felly, mae'r un mor debygol bod allbynnau'r ERM, y CRM neu allbynnau cyfartalog yr ERM/CRM, gyda chyfradd osgoi benodol wedi'i chymhwyso, yn rhoi'r gwir amcangyfrif gwrthdrawiad;[447]

(iv) Er bod yr RSPB yn dweud y byddai'n fwy rhagofalus defnyddio'r gwerthoedd ERM/CRM uwch, mae llawer o elfennau rhagofalus eisoes (gweler uchod) a chwynodd Dr McCluskie ei hun fod dadansoddiad Menter Môn yn rhy ragofalus

[441] Gweler Gwrthbroflen Dystiolaeth Dr Grant ym mhara. 4.3 (Cyf: RPE010) a'i Atodiad 1 mewnol tud.(au) 9, 13 a 19 ac atebion Dr McCluskie yn XX.
[442] See para. 5.31 of Ref: POE007.1.
[443] Gweler Gwrthbroflen Dystiolaeth Dr Grant ym mhara. 4.9 (Cyf: RPE010) ac atebion Dr McCluskie yn XX.
[444] Gweler atebion Dr McCluskie yn XX.
[445] Gweler prif dystiolaeth Dr Grant.
[446] Cyf: MDZ/F19
[447] Gweler Gwrthbroflen Dr Grant ym mhara. 4.13, pwynt bwled 1 (Cyf: RPE010) a'i brif dystiolaeth.

mewn mannau.[448] Os yw dadansoddiad yn rhy ragofalus, mae perygl y bydd yn gwbl annhebygol. Mae angen arfer barn wrth bennu pa mor rhagofalus y dylid bod;

(v) Yn wir, yn y pen draw, mae hyn enghraifft nodweddiadol o fater o farn broffesiynol y gallai dau adaregydd anghytuno arno'n rhesymol[449] heb fod safbwynt y naill na'r llall yn afresymol;

(vi) At hynny, sut bynnag, mae Dr Grant, fel y disgrifiodd yn ei broflen, wedi cynnal y dadansoddiad ar sail y gwerthoedd CRM/ERM uwch a argymhellwyd gan Dr McCluskie ar gyfer y senario Cam Un, a chanfu nad oedd yn cael llawer o effaith ar y canlyniad nac yn newid y casgliad o ddim effaith arwyddocaol ar y poblogaethau gwylogod na llursod.[450]

248. <u>Yn drydydd</u>, o ran y dadansoddiad PVA:

(i) Mae Dr Grant a Dr McCluskie yn cytuno:

a. Bod adolygiadau a gomisiynwyd gan y JNCC a Gwyddoniaeth Forol yr Alban wedi amlygu bod dau fetrig yn briodol, sef Sefyllfa Wrthffeithiol Maint Poblogaeth (CPS) a hefyd Sefyllfa Wrthffeithiol Cyfradd Twf Poblogaeth;

b. Bod yr asesiad a gynhaliwyd gan Fenter Môn yn yr ES yn berthnasol i'r ddau fetrig hyn;[451]

(ii) Yn ei broflen,[452] mae Dr McCluskie yn dweud bod "*yr RSPB yn croesawu'r ffordd y cynhaliwyd y Dadansoddiad Hyfywedd Poblogaeth ar gyfer y poblogaethau gwylogod a llursod yn Ynys Lawd a Phenlas a'r metrigau allbwn cywir, argymelledig a gwrthffeithiol a gyflwynwyd*";

(iii) Yr unig gwynion a wnaeth Dr McCluskie ynglŷn â'r dadansoddiad PVA oedd:

a. Nid oedd y dadansoddiad PVA wedi defnyddio'r amrediad llawn o gyfraddau osgoi (0-99%):[453] ymdrinnir â hyn uchod;

b. Defnyddiodd Menter Môn drydydd metrig hefyd, sef "*y boblogaeth 25 mlynedd o gymharu â'r boblogaeth bresennol*":[454] Ond dadansoddiad ychwanegol oedd hwn ac ni ellir gwneud cwyn synhwyrol ynglŷn â'i gynnwys ochr yn ochr â'r metrigau argymelledig.[455]

<u>(v) Materion monitro</u>

249. Yn y diwedd, mae'n ymddangos bod achos yr RSPB yn canolbwyntio i raddau helaeth ar y materion monitro. Mae proflen Dr McCluskie, wrth ystyried yr EMMP, yn

---

448 Gweler uchod.
449 Gweler atebion Dr McCluskie yn XX.
450 Gweler Proflen Dr Grant ym mhara. 6.23 (Cyf: MDZ/P1) ac atebion Dr McCluskie yn XX.
451 Gweler Gwrthbroflen Dr Grant ym mhara. 4.14 (Cyf: RPE010) ac atebion Dr McCluskie yn XX.
452 Gweler para. 5.33.
453 Gweler Proflen Dystiolaeth Dr McCluskie ym mhara. 5.33 (Cyf: POE007.1).
454 Gweler Proflen Dystiolaeth Dr McCluskie ym mhara. 5.19 (Cyf: POE007.1).
455 Gweler atebion Dr McCluskie yn XX.

canolbwyntio bron yn gyfan gwbl ar fonitro.[456] Cyn troi at y materion monitro'n fanwl, mae nifer o bwyntiau i'w hailadrodd er mwyn rhoi cyd-destun:

(i) Fel y nodwyd uchod, derbyniodd Dr McCluskie yn absenoldeb y pryder ynglŷn â ph'un a ellid monitro'n effeithiol, y byddai achos yr RSPB yn diflannu i raddau helaeth;

(ii) Os yw'r RSPB yn iawn ynglŷn â monitro (ac nid yw'n iawn), yna mae'r EMMP yn datgan yn glir na cheir lleoli unrhyw ddyfeisiau. Mae hynny'n golygu, ni waeth am rinweddau'r pwyntiau manwl a wnaed gan yr RSPB, nid oes pryder ar y cam hwn cyhyd ag y tybir bod CNC yn rheoleiddiwr cymwys. Oherwydd oni bai bod CNC yn fodlon y bydd monitro'n effeithiol cyn lleoli dyfeisiau, ni all dyfeisiau gael eu lleoli. Felly, yn ein cyflwyniad, nid yw'n bosibl i unrhyw achos ddal dŵr ar sail y pwynt hwn yn unig;

(iii) Mae pryderon yr RSPB gan mwyaf yn rhai nad ydynt yn benodol i'r safle neu'r prosiect. Materion ydynt sy'n ymwneud ag argaeledd technoleg i ganiatáu monitro a fyddai'n berthnasol i unrhyw gynnig llanw yn unrhyw le yn y byd. Casgliad rhesymegol dadleuon yr RSPB yw na ddylai mwy o ddyfeisiau llanw gael eu lleoli. Yn wir, yn ystod ailarchwilio, cefnogodd Dr McCluskie hyn yn benodol drwy ddweud y dylai monitro barhau, yn lle hynny, mewn perthynas â'r nifer gyfyngedig o ddyfeisiau llanw sydd eisoes wedi cael eu lleoli. Nid oes unrhyw ddyfeisiau llanw oddi ar arfordir Cymru ar hyn o bryd, ac mae safbwynt Dr McCluskie yn gwbl groes i bolisi Llywodraeth Cymru sy'n ceisio cefnogi MDZ yn y lleoliad hwn. Mae'r ddadl hon hefyd yn anwybyddu'r angen am fwy o ddata ar effeithiau araeau lluosog y byddai'r prosiect hwn yn caniatáu ar ei gyfer.

250. Nid yw'r EMMP yn diystyru unrhyw fath o fonitro. Mae Tabl 4-1 yn edrych ar sonar gweithredol, camera sbectrwm gweledol is-goch arwyneb, arolygon golygfannau, camera fideo tanddwr, cyfrifiadau cytrefi a thagio.

251. Nod monitro yw edrych ar: (i) gwrthdrawiadau posibl; (ii) niferoedd blynyddol/cyfraddau llwyddiant bridio yn y gytref a (iii) olrhain symudiadau ac ymddygiad plymio.

252. Er nad oes unrhyw dechneg yn cael ei "diystyru", mae Dr Grant yn ystyried tair prif dechneg fonitro'n fanwl, a dyma'r rhai y rhoddwyd yr ystyriaeth fwyaf iddynt hyd yma:-

253. <u>Yn gyntaf</u>, cyfrifiadau cytrefi blynyddol. Nod y rhain yw amcangyfrif nifer yr adar sy'n bridio mewn cytref a'r cynhyrchedd bridio. Nid oes unrhyw beth newydd ynglŷn â'r rhain, ac estyniad arfaethedig ydynt, yn y bôn, o'r hyn y mae'r RSPB eisoes yn ei wneud o ran monitro cytrefi.[457] Mae'r RSPB yn llwyr gefnogi gwneud cyfrifiadau o'r fath, ac yn cytuno bod y rhain yn gwbl bosibl. Bydd manylion pellach ynglŷn â'r hyn a gynigir yn fater i'r EMMP Manwl a'r prosesau y mae'n eu rhoi ar waith. Yn y diwedd, unig bwynt yr RSPB yw bod cyfrifiadau cytrefi yn unig yn annigonol o ran y monitro sy'n angenrheidiol, a chytunir â hynny.

[456] Gweler Proflen Dystiolaeth Dr McCluskie ar dud.20 ymlaen (Cyf: POE007.1) a'i atebion yn XX.
[457] Proflen Dystiolaeth Dr Grant ym mhara. 6.10 (Cyf: MDZ/P1) ac atebion Dr McCluskie yn XX.

254. Yn ail, tagio ac olrhain. Nid monitro gwrthdrawiadau yw diben hyn,[458] ond yn hytrach monitro a chael data i gael gwybod ble mae adar môr o'r gytref berthnasol yn teithio a beth yw eu hymddygiad plymio. Bydd hyn yn caniatáu ar gyfer cynnal asesiad pellach o'u tebygrwydd o ddod i gysylltiad â dyfeisiau llanw, ac yn golygu y gellir mireinio paramedrau mewnbwn allweddol a ddefnyddir i fodelu gwrthdrawiadau. Mae'r data hwn yn bwysig a chydnabu Dr McCluskie fod tagio ac olrhain yn caniatáu i chi "*gael gwybodaeth ddefnyddiol iawn*".[459] At hynny, nid oes unrhyw beth newydd nac arbrofol am astudiaethau o'r fath. Mae'n ddull sydd wedi cael ei brofi'n rhesymol dda. Wrth gwrs, mae'r gallu i wneud gwaith o'r fath yn dibynnu ar yr amodau a'r sefyllfa yn y cytrefi dan sylw e.e. wrth benderfynu pa adar y mae'n ddiogel eu dal ar y clogwyni nythu. Mae pawb yn cytuno bod dal adar yn heriol. Ond mae nifer o bwyntiau i'w gwneud:

(i) Mae Menter Môn wedi ymgysylltu â'r RSPB i benderfynu ar ymarferoldeb dal gwylogod a llursod yng nghytrefi Ynys Lawd a Phenlas, a dywedodd yr RSPB y gallai fod yn bosibl dal tua 15 unigolyn o'r ddwy rywogaeth yn ystod un tymor bridio.[460] Roedd yr ymgais i newid y safiad hwn yn nhystiolaeth lafar Dr McCluskie (awgrymodd fod hyn yn "uchafswm yn sicr",[461] yn ôl pob tebyg) yn resynus, ac yn dangos dull cyffredinol rwystrol yr RSPB mewn perthynas â'r prosiect hwn;

(ii) Mae dau bwynt i'w gwneud ynglŷn â maint yr astudiaeth dagio hon. Yn gyntaf, bydd y cyfyngiad ar niferoedd yn berthnasol i unrhyw astudiaeth o'r fath yn yr ardal hon, p'un a'i cynhelir gan yr RSPB neu Fenter Môn. Mae'n deillio o'r anawsterau sy'n gysylltiedig â dal a thagio adar o'r fath. Yn ail, mae tua 15 o'r ddwy rywogaeth y flwyddyn yn ddigonol o ystyried y data a geisir, sef symudiadau ac ymddygiad plymio, ac y byddai data o'r fath yn cael ei gasglu dros nifer o flynyddoedd. Mae'r niferoedd yn debyg i astudiaethau tagio/olrhain eraill y mae'r RSPB wedi dibynnu arnynt;[462]

(iii) Pwysleisiodd yr RSPB fod yr adeg o'r flwyddyn pryd y ceir dal adar wedi'i chyfyngu i fagu cywion – er mai dyma'r adeg pan fydd yr adar yn gweithio galetaf wrth chwilio am fwyd. Ond, unwaith eto, nid yw'r mater hwn yn benodol i safle gan ei fod yn berthnasol i'r mwyafrif helaeth o astudiaethau o'r fath a gynhelir ar adar môr sy'n bridio, ac nid yw'n golygu na ellir cael data defnyddiol;[463]

(iv) O ran natur y tagiau sydd i'w defnyddio, mae'r manylion i'w cymeradwyo yn yr EMMP manwl. Mae posibilrwydd o gysylltu cofnodwyr GPS a TDR. O ran hyn, mae Menter Môn wedi ymgysylltu â Phrifysgol Bangor sy'n cynnal astudiaethau tebyg gerllaw.[464] Mae posibilrwydd bellach hefyd, o leiaf, o un ddyfais sy'n casglu'r ddwy set o ddata;

---

458 Gweler Gwrthbroflen Dystiolaeth Dr McCluskie ym mhara. 17 (Cyf: RPE012), ac ymateb Dr Grant yn ei brif dystiolaeth.
459 Gweler prif dystiolaeth Dr McCluskie.
460 Gweler Proflen Dystiolaeth Dr Grant ym mhara. 6.11 (Cyf: MDZ/P1), ei brif dystiolaeth a hefyd MDZ/A28.56.
461 Nid dyna a ddywedodd y cyngor.
462 Gweler prif dystiolaeth Dr Grant.
463 Gweler atebion Dr McCluskie yn XX.
464 Gweler Proflen Dystiolaeth Dr Grant ym mhara. 6.12 (Cyf: MDZ/P1) ac MDZ/A28.56.

(v) Mae posibilrwydd bellach hefyd o lawrlwytho data o bell. Mae un astudiaeth ynglŷn â gwylogod a llursod sy'n bridio yn y Deyrnas Unedig sy'n gwneud hyn eisoes, ac mae'r dull wedi cael ei ddefnyddio'n llwyddiannus gyda rhywogaethau eraill o adar môr. Felly, mae'n ymarferol, o bosibl. Ond fe allai astudiaeth dagio fod yn llwyddiannus heb hyn, ac mae nifer o rai eraill wedi bod yn llwyddiannus (e.e. gwaith Prifysgol Bangor ar wylogod mewn cytref gyfagos y cyfeiriwyd ato uchod);

(vi) Mae manylion y cyfnod pryd y byddai tagiau'n casglu data yn fater ar gyfer cam hwyrach,[465] ac felly hefyd penderfyniadau ar fanylion y tagiau sydd i'w defnyddio (e.e., un cofnodwr sy'n casglu data GPS a TDR neu ddau gofnodwr ar wahân);

(vii) Mae prosiectau ynni'r llanw eraill wedi defnyddio astudiaethau o'r fath.[466]

255. Roedd tystiolaeth Dr McCluskie yn ymgais i wneud gormod o anawsterau defnyddio tagio/olrhain. Roedd hyn yn siomedig ac yn annheilwng. Mae Menter Môn yn gobeithio, os caiff y Gorchymyn ei wneud, y bydd yr RSPB yn fwy cydweithredol yn hyn o beth fel y gellir llenwi'r bylchau mewn data y mae pawb yn cytuno eu bod yn bodoli. Mae'n gythruddol cael gwybod y dylai'r cynllun hwn gael ei wrthod gan nad oes digon o wybodaeth ar gael ar hyn o bryd i asesu'r effeithiau, ac yna i'r RSPB geisio gorbwysleisio'r anawsterau sy'n gysylltiedig â chael y data hwn. Beth yw'r dewis arall? Dim lleoli dyfeisiau llanw, a fyddai'n ergyd fawr i'r frwydr yn erbyn y newid yn yr hinsawdd, sy'n rhywbeth y mae'r RSPB yn dweud yw'r bygythiad mwyaf i'r anifeiliaid maen nhw i fod i geisio eu gwarchod.

256. Felly, i grynhoi mater olrhain/tagio, mae'n bwysig deall bod gwaith o'r fath ar y rhywogaethau hyn wedi cael ei wneud ac yn cael ei wneud mewn cytrefi mewn rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig, e.e. mae astudiaethau tebyg ar wylogod yn mynd rhagddynt yn llwyddiannus ar hyn o bryd mewn cytrefi cyfagos yng ngogledd Cymru. Mae ymagweddau a dulliau hen sefydledig ar gael eisoes. Nid yw'n arbennig o newydd nac 'arbrofol'. Yn wir, mae llawer o agweddau wedi'u profi. Gellir amlinellu'r cynnig cyffredinol o ran yr ymagwedd at astudiaethau olrhain ar y cam hwn, gyda phenderfyniadau i'w gwneud ynglŷn â manylion y dulliau a'r union offer i'w defnyddio yn ddiweddarach, ac yn ddarostyngedig i gymeradwyaeth reoleiddiol.

257. <u>Yn drydydd</u>, fideo a sonar. Unwaith eto, mae'r RSPB yn gwneud gormod o'r anawsterau. Treuliwyd llawer o amser ar hyn yn y dystiolaeth lafar. Dyma'r prif faterion yn y bôn:

(i) Mae'r technolegau'n datblygu yn y maes hwn, ond mae dyfeisiau llanw'n bodoli sydd eisoes yn defnyddio'r technegau hyn a chyda pheth llwyddiant: gweler adroddiad Enfait mewn perthynas â Swnt Bluemull;[467] a hefyd mewn perthynas â Meygen.[468]

---

[465] Gwrthbroflen Dystiolaeth Dr McCluskie ym mhara. 15 (Cyf: RPE012) a'i atebion yn XX.

[466] Gweler yr adroddiad 'Cyflwr y Wyddoniaeth' yn atodiadau Dr McCluskie i'w broflen (Cyf: POE007.1 ar dudalen electronig 1180).

[467] Gweler atodiadau Dr McCluskie i Gyf: POE007.1. Mae'r adroddiad yn dechrau ar dudalen electronig 915 (defnyddir rhifau tudalennau mewnol o hyn ymlaen): gweler adran 1.2 tud.4; adran 2.1 tud.4; tud.5, adran 2.2.2 tud.7; tud.9 adran 3.3.1, adran 3.3.2, adran 3.3.2, tud.13 i 14 a'r ffotograffau ac adran 3.4.2 tud.15. Gweler hefyd atebion Dr McCluskie yn XX.

[468] Gweler yr adroddiad Cyflwr y Wyddoniaeth yn atodiadau Dr McCluskie i'w broflen (Cyf: POE007.1) tudalennau electronig 1164, 1179 a 1181. Mae'r testun mewn perthynas â

(ii) Nid oes tystiolaeth sy'n awgrymu bod y math o ddŵr yn yr MDZ yn diystyru defnyddio fideo;[469]

(iii) Mae'r defnydd posibl o sonar (nad yw'n gallu adnabod rhywogaethau adar ar ei ben ei hun ar hyn o bryd) gydag arolygon fideo neu olygfannau (neu hyd yn oed tagio) ar gyfer monitro adar yn cael ei gefnogi yn adolygiad CNC o dystiolaeth[470] ac mae'n edrych ar enghreifftiau byd-eang o lwyddiant gan ddefnyddio sonar: gweler Cyf: MDZ/F15.2 tud.(au)29 – 30:

> "*Mae monitro adar môr yn acwstig yn aml wedi bod yn nod eilaidd o ddyfeisiau hydroacwstig a ddefnyddir mewn prosiectau ffrwd lanw. Y rheswm am hyn yw oherwydd ei bod yn anodd adnabod rhywogaethau am fod adar môr yn weddol fach o gymharu â mamaliaid môr. Fodd bynnag, mae sawl dyfais hydroacwstig wedi olrhain adar môr yn llwyddiannus trwy olrhain plymiadau trwy ddelweddaeth acwstig ... Dyluniwyd y platfform FLOWBEC a ddefnyddiwyd yn EMEC yn benodol i fonitro adar môr, trwy ddefnyddio algorithmau newydd sy'n helpu i ganfod adar môr o fewn ardaloedd ynni uchel (Williamson et al., 2019). Roedd chwe threial a barodd 14 diwrnod yr un wedi canfod un aderyn môr yn y lleoliad rheoli ac yn y lleoliad gyda thyrbin yn bresennol. Profwyd y dechnoleg yn ystod y cyfnod treialu byr, a mireiniwyd yr algorithmau i sicrhau y byddai'r dechnoleg yn gallu cofnodi gwrthdrawiad (pe byddai'n digwydd). Yn yr un modd, o ran y ddyfais DeltaStream yn Swnt Ramsey, canfu'r ddyfais hydroacwstig adar môr sawl gwaith, heb arsylwi gwrthdrawiad*."

(iv) At hynny, derbyniodd Dr McCluskie, fel dewis amgen, y gallai'r cyfyngiad ar adnabod rhywogaethau trwy sonar gael ei oresgyn gan ddull rhagofalus a fyddai'n tybio bod unrhyw wrthdrawiad yn ymwneud â'r rhywogaeth adar a oedd yn fwyaf sensitif o ran marwoldeb;

(v) Bydd y prosiect yn para am 37 mlynedd – prin bod rheswm i amau y bydd technolegau ar gyfer monitro'n parhau i wella, ac, yn wir, fel y nodwyd uchod, mae rhoi'r caniatâd hwn yn creu cymhellion ar gyfer hyn.

---

Meygen yn cyfeirio at ddefnyddio camerâu fideo a monitro acwstig i fonitro adar môr gan gynnwys gwylogod duon a mulfrain gwyrddion.

[469] Yn wir, mae tystiolaeth i'r gwrthwyneb yn yr atodiad i'r ES ar ecoleg fenthig.

[470] "*Monitro gwrthdrawiadau'n uniongyrchol. Mae mesurau uniongyrchol i bennu gwrthdrawiad yn defnyddio technolegau sy'n gallu "gweld" y ddyfais, naill ai trwy fonitro hydroacwstig (e.e., sonar neu ecoseinwyr) neu gamerâu fideo tanddwr. Yn ddamcaniaethol, gallai'r technolegau hyn ganfod pan fydd gwrthrych, boed hynny'n weddillion neu aderyn môr, yn gwrthdaro â'r ddyfais yn uniongyrchol, ond nid yw hyn wedi digwydd hyd yma. Mae'r dulliau a ddefnyddir i ganfod adar môr yn debyg i'r dulliau a ddefnyddir i ganfod mamaliaid môr, ac mae'r holl dechnolegau'n berthnasol i'r ddau dderbynnydd. Cyfeiriwch at Adran 6.1.3 am esboniad llawn o'r dulliau monitro a ddefnyddir*."

"*Un o gyfyngiadau penodol y ddyfais o ran adar môr, yn enwedig dyfais hydroacwstig, yw ei bod yn amhosibl adnabod rhywogaeth yr aderyn môr a gofnodir oherwydd bod adar môr yn fach (Williamson et al., 2017). Ar hyn o bryd, mae angen defnyddio camerâu fideo i ddeall monitro gwrthdrawiadau uniongyrchol sy'n benodol i rywogaethau. Fodd bynnag, ar gyfer prosiectau yn y dyfodol, gallai monitro hydroacwstig gael ei ddefnyddio ar yr un pryd â chofnodwyr data neu arolygon golygfannau i adnabod pa rywogaethau a ganfyddir ar y ddyfais monitro hydroacwstig…*"

258. Mae Menter Môn yn deall yr heriau, ond mae'n dweud bod yr RSPB, yn ei hawydd i wrthwynebu'r cynllun hwn, yn rhy ddiystyriol o'r potensial, ac nad yw wedi rhoi ystyriaeth ddigonol i'r llwyddiannau a gyflawnwyd eisoes gyda fideo/sonar mewn safleoedd eraill.

*Yr EMMP*

259. Ar sail y cefndir sylweddol hwnnw, symudwn ymlaen i drafod yr EMMP. Mae llawer o'r materion sy'n ymwneud ag amryw feirniadaethau o'r EMMP eisoes wedi derbyn sylw uchod, felly ni fwriadwn ddweud llawer mwy ynglŷn â hynny fan hyn heblaw am godi rhai pwyntiau na ymdriniwyd â nhw mewn mannau eraill. Mae Mr Fortune, yn ei broflen[471] a'i wrthbroflen,[472] ac yn ei dystiolaeth,[473] wedi rhoi amlinelliad defnyddiol o'r broses EMMP. Nid yw'n anghyffredin defnyddio rheoli addasol. Fe'i defnyddiwyd, er enghraifft, ar gyfer Prosiect Tyrbin Llanw SeaGen yn Llyn Strangford, Prosiect Aráe Llanw Meygen yn Aber Pentland, DCO Bae Abertawe,[474] a Phrosiect Aráe Llanw Ynysoedd y Moelrhoniaid yng ngogledd Cymru.[475] Nid yw dull lleoli fesul cam yn anghyffredin ychwaith – unwaith eto, mae Meygen yn enghraifft glir.[476] Nac ychwaith defnyddio cynllun amlinellol ar y cam caniatáu, wedi'i ddilyn gan gynlluniau ôl-ganiatâd manwl yn ddiweddarach.[477]

260. Fel man cychwyn, dyma ein safbwynt: rydym yn hyderus y gellir rhoi cynllun lliniaru a monitro effeithiol ar waith. Rydym wedi archwilio'r heriau honedig i hynny uchod, a honnwn y gall weithio ac y bydd yn gweithio. Fodd bynnag, mae'r EMMP yn darparu system (i) lle mae Grŵp Cynghori yn ymwneud yn sylweddol â'r broses, (ii) pan fydd y dyfeisiau wedi'u cadarnhau, a'r holl fodelu ac asesiadau rhagofalus a gynhaliwyd yn cael eu hailwneud, (iii) y gellir ystyried y dechnoleg ddiweddaraf sydd ar gael, a (iv) rhaid i ni brofi <u>o hyd</u> i CNC bod lliniaru a monitro yn gallu bod yn effeithiol, a'i fod yn effeithiol, ac y gellir darparu'r prosiect o fewn y PDR y gofynnwn iddi gael ei gymeradwyo a heb effeithiau arwyddocaol ar adar môr na mamaliaid.

261. Gan oedi yn y fan honno, gofynnodd yr Arolygydd yn benodol i ni egluro sut mae defnyddio rheoli addasol yn berthnasol i'r EMMP ac yn mynd i'r afael â'r gwahanol rywogaethau. Gobeithiwn fod hyn wedi derbyn sylw uchod yn yr adrannau ar Famaliaid Môr ac Adareg.

262. Mae hynny'n dod â ni i safbwynt CNC ar yr EMMP. Clywodd yr ymchwiliad gan Mr G Lewis yn yr RT ar yr EMMP[478] fod yr Arolygydd wedi gweld "*…o ran ein hasesiad gofalus o'r deunydd a roddwyd i ni, ein bod yn fodlon er na fyddai'r gweithdrefnau rheoli addasol a monitro a lliniaru ymatebol yn ddull amgen o weithredu nac yn ddewis cyntaf i ni, mewn amgylchiadau lle yr ymdrinnir â thechnoleg newydd ac arbrofol, derbyniwn fod y dull yn yr achos hwn yn un y gall Gwasanaeth Cynghori*

[471] Cyf: MDZ/P4
[472] Cyf: RPE005
[473] Diwrnod 13
[474] Gorchymyn Gorsaf Gynhyrchu Ynni'r Llanw Bae Abertawe, Cyf: MDZ/B14.
[475] Proflen Dystiolaeth Mr Fortune, para. 82 (Cyf: MDZ/P4).
[476] Cyf: Dogfen Ymchwiliad – 083, gweler tud.26 Atodiad 2 Amod 2.
[477] Prif Dystiolaeth Mr Fortune, Diwrnod 13, Sesiwn 1 y bore, Cyf: MDZ/P4 ym mhara.(au) 22-24.
[478] Diwrnod 14, Sesiwn 1 y prynhawn

*CNC dderbyn ei fod yn briodol…. Clywn ac ystyriwn bryderon yr RSPB ynglŷn â rhywfaint o ddiffyg manylion yn yr OEMMP. Credwn ei bod yn anochel na fydd cymaint o fanylion ag y dymunid ar gael ar y cam hwn o'r broses. Rydym wedi pwyso ar Fenter Môn i ddarparu cymaint o fanylion ag y credwn ei bod yn bosibl ac yn ymarferol ar y cam hwn. Credwn ein bod wedi dihysbyddu hynny. Mae rhai materion y credwn na fydd yn gallu eu datrys – ac mae'r rheiny'n ymwneud yn bennaf â sŵn tanddwr*" a chan oedi yn y fan honno, rydym wedi ymdrin â hynny. Aeth Mr G Lewis ymlaen i ddweud: "*Felly, nid ydym wedi cyrraedd bodlonrwydd llwyr, ond byddwn yn amlygu pa feysydd yr anghytunir arnynt o hyd. Ond, mae hynny mewn cyd-destun lle yr ydym, fel arall, wedi gallu dod i gytundeb ar y ffordd briodol ymlaen yn yr hyn sy'n gyd-destun heriol oherwydd natur arbrofol y dechnoleg*."

263. O ran y materion sy'n weddill (heblaw am sŵn tanddwr, yr ymdriniwyd ag ef uchod). Yn gyntaf, ceisiodd CNC rai newidiadau drafftio. Mae'r rhain wedi cael eu gwneud i raddau helaeth.[479] Yn ail, mae CNC yn herio datganiad ym mhara. 39 yr OEMMP cyfredol bod Menter Môn yn bwriadu dileu gofynion monitro a lliniaru cyn gynted ag y bydd tystiolaeth a gafwyd o'r EMMP yn dangos bod hynny'n briodol ac yn ddiogel, gyda chytundeb y Rheoleiddwyr. Mae CNC o'r farn, i bob pwrpas, ei bod yn debygol y bydd angen monitro ar hyd y prosiect.[480] Fodd bynnag, mae gennym ddau ymateb. Yn gyntaf, nid ydym yn credu ei bod yn anochel y bydd rhaid i ni fonitro ar hyd y 37 mlynedd i gyd. Yn ail (a dyma'r pwynt allweddol), hyd yn oed gyda'r paragraff hwnnw wedi'i gynnwys, mae gan CNC reolaeth lwyr o hyd dros b'un a ellir atal y gwaith monitro. Nhw sy'n rheoli o hyd – y cyfan mae'r paragraff hwnnw'n ei wneud yw rhoi cyfle i ni geisio ei ddarbwyllo os oes gennym sail i wneud hynny. Felly, os na chynhwysir newid CNC, bydd rhaid i ni fonitro oni bai y gallwn ei ddarbwyllo nad yw hynny'n angenrheidiol. Os gwneir newid CNC, bydd rhaid i ni barhau i fonitro hyd yn oed os daw hynny'n ddiangen – a dadleuwn nad yw hynny'n ddefnydd da o amser nac adnoddau unrhyw un. Mae gan yr ymchwiliad awgrym Mr G Lewis hefyd, sef os na fydd yr Arolygydd yn dileu'r paragraff hwn, gallai CNC gael rhywfaint o gysur o ddiwygiad i'r geiriad i'w gwneud yn fwy eglur y byddai unrhyw ddileu yn ddarostyngedig i gytundeb CNC.[481] Rydym wedi gwneud y diwygiad hwn – gweler para. 39 yr OEMMP.[482]

264. Gwnaeth yr Arolygydd ymholiad ynglŷn ag asesiadau ansawdd aer. Mae hyn wedi cael ei ddatrys.[483]

265. Yn erbyn hynny, gwnaeth yr RSPB nifer o gwynion ynglŷn â'r EMMP Amlinellol. Unwaith eto, mae llawer o'r rhain wedi derbyn sylw uchod, felly adran "dacluso" yw hon mewn gwirionedd. Mae'r RSPB yn mynegi pryder ynglŷn ag "ymgripiad" y

---

[479] Gweler Cyf: Dogfen Ymchwiliad – 085 a'r RT ar yr EMMP, Diwrnod 14, sesiwn y prynhawn. Mae fersiwn ddiweddaraf yr OEMMP yng Nghyf.(au) Dogfen Ymchwiliad - 100 a Dogfen Ymchwiliad - 101. Gofynnodd CNC i eiriad yr OEMMP adlewyrchu amod 36 diwygiedig yn yr ML ddrafft. Rydym wedi gwneud hynny ym mhara 28. Gofynnodd CNC am eiriad ychwanegol i egluro na fyddem yn "diystyru" unrhyw ddulliau lliniaru neu fonitro. Gwneir hyn ym mhara 149. Yn olaf, gofynnodd CNC am rai newidiadau i bara. 7 yr OEMMP i egluro bod "pob cam" yn cynnwys "Cam Un". Rydym wedi gwneud hynny.

[480] Gwneir yr her yng Nghyf: Dogfen Ymchwiliad - 085, adran 3.

[481] Yr RT ar yr EMMP, Diwrnod 14, Sesiwn y prynhawn.

[482] Cyf.(au): Dogfen Ymchwiliad – 100 a Dogfen Ymchwiliad – 101.

[483] Cyf: REP007 a Chyf: EIC013, tud. 25 para.(au) 89-90 a chyflwyniad Mr Maurici QC a Mr G Lewis, Diwrnod 15, sesiwn y bore.

prosiect. Mynegwyd hyn mewn dwy ffordd. Awgrymwyd wrth Mr Fortune nad oes unrhyw beth yn yr EMMP Amlinellol sy’n cysylltu Cam Un â’r senario 0.7PBR a drafodwyd drwy gydol yr ymchwiliad hwn.[484]

266. Mae hynny’n amlwg yn anghywir: gweler para. 39 yr EMMP Amlinellol. Yna, mynegwyd pryder na fyddai Cam Un yn gysylltiedig â sicrhau dim effaith arwyddocaol ar adar sy’n plymio – mae’n ymddangos bod y pryderon yn ddeublyg. Yn gyntaf, bod para. 39 yr EMMP Amlinellol yn “ddangosol”, ac, yn ail, pan fydd y dyfeisiau wedi’u cadarnhau, gallai eu proffil risg gwrthdrawiad gael mwy o effaith ar adar na mamaliaid môr, ac felly gallai effeithiau arwyddocaol gael eu cyrraedd ar gyfer adar sy’n plymio cyn i’r terfyn 0.7PBR gael ei gyrraedd ar gyfer dolffiniaid. Fodd bynnag, mae para. 87 yn egluro’n bendant y bydd Cam Un yn cael ei leoli ar lefel is na’r lefel lle y rhagfynegir effeithiau arwyddocaol “ar gyfer mamaliaid môr neu adar sy’n plymio”, ac, fel yr esboniodd Mr Fortune ac y mae Plât 2-1 yn egluro, mae ailgynnal modelu ERM a CRM ar gyfer mamaliaid môr ac adar sy’n plymio yn rhan o’r broses. Gyda phob parch, nid oes rheswm i bryderu cymaint.

267. Mynegodd yr RSPB bryder wrth Mr Fortune nad oedd unrhyw beth yn yr EMMP Amlinellol sy’n dweud “bydd hyn yn bendant yn yr EMMP Amlinellol terfynol a gymeradwyir yn rhan o’r ML.”[485] Unwaith eto, gellir ystyried hyn yn fyr – dyma’r pwynt ynglŷn â “chysylltiad”, i bob pwrpas, yr ymdriniwyd ag ef yn flaenorol gyda CNC (gweler uchod). Mae CNC yn fodlon â’r hyn yr ydym wedi’i gynnig i sicrhau’r cysylltiad hwnnw, a gall yr ymchwiliad fod yn fodlon hefyd.

268. Mynegodd yr RSPB bryder ynglŷn â pha ddulliau oedd “i mewn” neu “allan” o ran monitro a lliniaru. Unwaith eto, gallwn drafod hynny’n fyr – bydd popeth yn cael ei ystyried. Mae’n anffodus bod ychydig o destun wedi’i gynnwys mewn EMMP Amlinellol drafft a oedd yn awgrymu fel arall, ond roedd Mr Fortune yn glir iawn wrth gywiro hynny yn ei brif dystiolaeth ac wrth gael ei groesholi.[486]

269. Mae’r RSPB wedi awgrymu na ellir rhoi llawer o bwys i’r hyn a gynigir yn yr EMMP Amlinellol, oherwydd ei fod yn cydnabod y bydd asesiadau’n digwydd yn y dyfodol gan ystyried y wybodaeth orau sydd ar gael bryd hynny.[487] Mae’r pwynt hwn yn gwbl (ac yn amlwg) ddi-sail. Mae’r EMMP Amlinellol yn cynnwys technolegau ar gyfer monitro a lliniaru yr ydym ni’n ystyried, ar hyn o bryd, y byddant yn gweithio. Mae’n cydnabod y bydd technoleg yn datblygu dros gyfnod prosiect 37 mlynedd. Mae’n rhoi proses glir ar waith lle mae camau’n cael eu rheoli gan Weinidogion Cymru/CNC, lle mae Grŵp Cynghori (a allai gynnwys yr RSPB) yn rhoi mewnbwn clir i’r prosiect, a lle y gall datblygiadau mewn technoleg gael eu cynnwys. Mae’n broses rheoli addasol glir a chyfrifol. Mae awgrymu “na ddylid rhoi llawer o bwys” i rywbeth oherwydd ei fod yn cydnabod ansicrwydd (er gwaethaf y ffaith ei fod yn rhoi rheolaethau ar waith i reoli hynny) yn anghyson â’r dull PDE a thechnoleg tymor hir sy’n datblygu.

270. Gofynnwyd cwestiwn ynglŷn â’r “pwyntiau sbardun” ar gyfer gweithredu mesurau lliniaru, a threuliodd Ms Lean gryn amser yn croesholi Mr Fortune ynglŷn ag i ba raddau y mae angen adalw data’n amserol er mwyn i hynny fod yn effeithiol.[488] Derbyniwn ei bod yn bwysig derbyn data’n amserol, ond rydym wedi mabwysiadu’r

[484] Croesholiad Ms Lean o Mr Fortune, Diwrnod 13 yr ymchwiliad, sesiwn 1 y bore
[485] XX Ms Lean o Mr Fortune, Diwrnod 13, sesiwn 1 y bore.
[486] Diwrnod 13, sesiwn 1 y bore
[487] Cwestiwn Ms Lean i Mr Fortune, Diwrnod 13, sesiwn 1 y bore
[488] Diwrnod 13, sesiwn 1 y bore.

fframwaith gwrthdrawiad sy'n ofynnol gan CNC ar gyfer mamaliaid,[489] a'r adolygiad data sy'n ofynnol gan y Grŵp Cynghori ar gyfer adar. Fel yr ydym wedi dweud yn fanwl, er mwyn lleoli dyfeisiau, mae angen i ni argyhoeddi rheoleiddwyr y bydd hyn yn gweithio.[490] Rydym ni'n credu y bydd yn gweithio, ond nhw piau'r penderfyniad. Unwaith eto, felly, nid yw hyn yn mynd i unman heblaw am herio p'un a yw CNC yn rheoleiddiwr cymwys. Rydym ni'n credu ei fod.

271. Felly, i grynhoi, mae'r broses hon yn un glir a rheoledig a fydd yn sicrhau nad oes unrhyw beth yn mynd i mewn i'r dŵr oni bai a hyd nes bod y rheoleiddwyr yn fodlon y bydd yn aros o fewn paramedrau'r prosiect, ac na fydd yn cael unrhyw AEOSI ar famaliaid môr nac effeithiau arwyddocaol ar adar sy'n plymio.

[489] Cyf: Dogfen Ymchwiliad – 063, Plât 2-2 i 2-3.

[490] Cyf: Dogfen Ymchwiliad – 063, para. 8: "*Ni chaniateir i unrhyw ddyfais weithredu hyd nes bod y Rheoleiddwyr yn fodlon bod dulliau monitro effeithiol ar waith a all lywio'r broses o weithredu'r EMMP yn uniongyrchol, a llywio'r nodau, yr amcanion a'r cwestiynau rheoli a osodwyd gan yr EMMP ar gyfer y Prosiect.*"

**Prif faterion 3- 5: pwyntiau cyffredinol**

272. Rydym yn gadael ecoleg ac yn symud ymlaen i gymeriad a golwg, materion economaidd-gymdeithasol a mordwyo. Cyn i ni fynd i'r afael â phob un o'r rhain yn eu tro, mae rhai pwyntiau cyffredinol yr hoffem eu gwneud, oherwydd bod cwynion wedi cael eu gwneud ynglŷn ag ymgynghori a'r ES sydd, er iddynt gael eu mynegi gyntaf yn yr RT ar faterion economaidd-gymdeithasol, yn treiddio trwy gyflwyniadau'r partïon mewn nifer o wahanol feysydd. Mynegir y rhain yn bennaf gan RYA ac SCC,[491] a rhai aelodau o'r cyhoedd. Felly, ceisiwn amlygu'r rhain ac ymdrin â nhw fel pwynt trosfwaol.

*Ymgynghori*

273. O ran ymgynghori:

(i) Rydym yn llwyr wrthod y ddadl y bu ymgynghori annigonol. Nid oes neb yn awgrymu na ddilynwyd yr hysbysiadau statudol sy'n ofynnol ar gyfer y Gorchymyn. Mae'n amlwg eu bod wedi'u dilyn. At hynny, ymgynghorwyd i raddau mwy o lawer na'r gofynion statudol hyn, y mae llawer ohono wedi'i amlinellu ym Mhennod 6 yr ES.[492]

(ii) Cyfeiriwn yr ymchwiliad hefyd at y nodyn a gyflwynwyd gennym i'r ymchwiliad ynglŷn â phryd yr ymgynghorwyd ag aelodau'r cyhoedd a rhanddeiliaid caiacio a hwylio lleol, gan gynnwys manylion y diwrnodau gwybodaeth i'r cyhoedd.[493] Yn ein cyflwyniad, rydym wedi gwneud popeth a oedd yn ofynnol a llawer, llawer mwy. Yn wir, cydnabu Mr Pattullo ar ran SCC yn deg iawn bod yr ymgynghoriad "wedi gweithio".[494]

(iii) Gwnaeth Mr Hill bwynt ynglŷn ag ymgynghoriad penodol yn 2013, gan awgrymu'n gyntaf nad oedd yn ymwneud â'r prosiect hwn, ac yna holi pam na chyfeirir at hyn ym Mhennod 6 yr ES (yr Adroddiad Ymgynghori).[495] Nid yw hyn yn mynd i unman, mewn gwirionedd. Nid oes neb yn dadlau nad oedd yr ymgynghoriad hwn wedi digwydd. Reodd yn ymwneud ag opsiynau posibl ar gyfer safle ynni'r llanw, yr oedd un ohonynt oddi ar Ynys Gybi ac Ynys Lawd.[496] Fel y mae'r egwyddorion a amlinellwyd gennym yn flaenorol yn dangos, nid cyfres o faglau yw'r ES, ac nid oes rhaid iddo ychwaith gynnwys pob darn o wybodaeth. Mae'r gŵyn hon yn un ddibwrpas o ffurfiolaidd.

(iv) Mae dwy broblem benodol ynglŷn â'r ddadl hon gan yr RYA.

[491] Tystiolaeth Mr Hill yn yr RT ar faterion Economaidd-gymdeithasol, Diwrnod 5, sesiwn 1 y bore.
[492] Cyf: MDZ/A25.6
[493] Cyf: Dogfen Ymchwiliad – 013
[494] Tystiolaeth Mr Pattullo yn yr RT ar faterion Economaidd-gymdeithasol, Diwrnod 5, sesiwn 1 y bore.
[495] Cyf: MDZ/A9
[496] Gweler mewnol tud.37.

a. Yn gyntaf, mae'r RYA wedi gweithredu fel rhwystrwr o fath. Nid yw clybiau hwylio lleol wedi ymgysylltu â ni, gan fynd trwy'r RYA yn lle hynny. Awgrymodd Mr Hill fod yr RYA wedi awgrymu y dylai clybiau fynd atyn nhw yn lle ymgysylltu â ni ar 22 Hydref 2020 yn unig – er bod sgrin lun o un clwb lleol o 16 Hydref 2020 eisoes yng Ngwrthbroflen Dystiolaeth Cdr Brown.[497] Yna, diwygiodd Mr Hill ei ddyddiad i 09 Hydref 2020. Er nad oes unrhyw beth o'i le ar yr RYA yn gweithredu fel corff cynrychioliadol (yn wir, gellir gweld y byddai hynny'n ddefnyddiol mewn rhai sefyllfaoedd), mae'r ymatebion a gawsom gan yr RYA wedi bod yn gyfyngedig – yn enwedig ynglŷn â'r asesiadau economaidd-gymdeithasol – ac wrth estyn allan i glybiau ar gyfer yr asesiad twristiaeth a hamdden atodol. At hynny, ni chafwyd unrhyw ymatebion i'r wybodaeth a anfonasom at glybiau hwylio, yn unigol a thrwy'r RYA, gyda'r bwriad o fynd i'r afael â chamdybiaethau cyffredin ynglŷn â'r MDZ yn y gymuned hwylio.

b. Yn ail, mae'r RYA wedi honni y bu angen iddi weithredu fel corff cynrychioliadol oherwydd "*ymgynghori gorfrwdfrydig*" honedig.[498] Gwrthododd Mr Hill roi unrhyw sylwedd pellach i'r hyn a olygai gan hynny. Nid oes angen i Fenter Môn ymateb i ensyniadau – ymgysylltodd â llongwr lleol i geisio cyfathrebu'n uniongyrchol â chlybiau, ond dywedodd y mwyafrif helaeth wrthym i gyfeirio ein pryderon at yr RYA.[499] Fodd bynnag, mae'n ddirgelwch i ni sut mae Menter Môn rywsut wedi dod yn Ymgeisydd Schrödinger, gan ymgynghori gormod a rhy ychydig ar yr un pryd.

(v) Sut bynnag, nid ydym yn hollol siŵr i ba gyfeiriad y mae hyn yn mynd. Mae pawb yma, mae cyfle iddynt wneud sylwadau a chyflwyniadau. Yn wir, ac fel y cydnabu Mr Pattullo yn deg unwaith eto, yr ymgynghoriad yw'r rheswm pam y mae SCC yma.[500]

*Diffygion honedig yn yr ES*

274. O ran y beirniadaethau o'r ES, roedd SCC yn cwyno'n gyffredinol nad oeddent wedi'u cwmpasu i mewn ac felly ni allent gyfrannu at ddylunio mesurau lliniaru.[501] Yna, gwnaethant gwyno ynglŷn â rhaglenni monitro a lliniaru parhaus Menter Môn, gan ddymuno newidiadau eraill i'r prosiect. Honnodd Mr Hill yn ychwanegol na allai weld sut oeddem wedi ystyried defnyddiau sefydledig, ac felly ni allem ddangos bod yr ardal hon yn briodol, ac nid oedd yn cydymffurfio ag WNMP na phrosesau EIA. Gellir ymdrin â'r rhain i gyd yn fyr iawn, mewn gwirionedd:

---

497 Yr RT ar faterion Economaidd-gymdeithasol, Diwrnod 5, sesiwn 1 y prynhawn; Cyf: RPE006 ar dud.13.

498 Yr RT ar faterion Economaidd-gymdeithasol, Diwrnod 5, sesiwn 1 y prynhawn.

499 Gwrthbroflen Dystiolaeth Cdr Brown para. 6.1.2 (Cyf: RPE006).

500 Tystiolaeth Mr Pattullo yn yr RT ar faterion Economaidd-gymdeithasol, Diwrnod 5, sesiwn 1 y bore.

501 Tystiolaeth Ms Wong yn yr RT ar faterion Economaidd-gymdeithasol, Diwrnod 5, sesiwn 1 y bore.

(i) Yn gyntaf, llwyr wrthodwn y ddadl na ystyriwyd y gweithgareddau hyn. Fel yr ydym eisoes wedi'i amlinellu, clywodd yr ymchwiliad gan Mr Bell y byddai rhwyfo hamdden yn cael ei ystyried trwy gyfuniad o'r dystiolaeth ynglŷn â'r dirwedd, mordwyo a materion economaidd-gymdeithasol. Nid oedd neb wedi herio'r farn broffesiynol honno, a dyna'r hyn a glywyd ac a welwyd trwy dystiolaeth ysgrifenedig a llafar Mr Bell, Mr Myers, Dr Jones a Cdr Brown, a'r dogfennau maen nhw'n dibynnu arnynt.[502]

(ii) Er gwaethaf hyn i gyd, er mwyn bod yn glir iawn, nid yw ein parodrwydd i gynnal gwaith monitro ar ôl caniatâd yn arwydd bod rhywbeth sylfaenol ar goll o'r ES, nac y bydd effaith niweidiol. Yn hytrach, ymgais ydyw i sicrhau nad oes unrhyw effeithiau niweidiol yn digwydd ac i roi mwy o sicrwydd i randdeiliaid.

(iii) Fel yr amlinellwyd gennym eisoes, nid ras rwystrau yw ES ac ni all fod felly. Y cwestiwn yw p'un a oes digon o wybodaeth er mwyn i'r ymchwiliad ffurfio barn gadarn ynglŷn ag effeithiau'r prosiect, a dyna'r achos fan hyn. Nid oes unrhyw ddiffyg cyfreithiol clir wedi cael ei honni heblaw am y gŵyn fwy cyffredinol hon, ac ni allwn weld unrhyw sail ar gyfer gwneud cwyn o'r fath mewn gwirionedd.

(iv) O ran cwestiynau lliniaru SCC yn benodol, mae'n anodd gweld pa fesurau lliniaru economaidd-gymdeithasol ychwanegol y gellid eu cynnwys yn y prosiect. Rydym wedi amlinellu'r paramedrau uchod y dyluniwyd y prosiect ynddynt. Byddai symud elfennau sy'n codi o'r dŵr ymhellach i ffwrdd o'r arfordir,[503] er enghraifft, yn achosi problemau i gynhyrchu pŵer a hyblygrwydd y prosiect.

[502] Gweler e.e. Cyf: MDZ/A25.25 (pennod Economaidd-gymdeithasol yr ES) adran 25.4.8, para 131, 139 a 142 sy'n edrych ar gaiacio a hwylio ar lefel genedlaethol, ranbarthol a lleol, a chroesgyfeirio at Gyf: MDZ/A25.15 (y bennod Morgludo a mordwyo), sy'n cynnwys yr NRA a'r NRAA. Cwmpaswyd yr ES hwnnw gyda PINS, a ofynnodd am fwy o wybodaeth am dwristiaeth a hamdden ond nid rhwyfo'n benodol (Cyf: MDZ/A8, tud.(au)46-47). Mae gwybodaeth ychwanegol am gaiacio a hwylio yn yr Asesiad Twristiaeth a Hamdden Atodol (Cyf: MDZ/H1 tud.(au)9, 12, 17, 22, 24, 25), yr Asesiad Gweithgareddau Caiacio a Hwylio Atodol (Cyf: MDZ/A28.58), dwy flynedd o ddata sy'n edrych ar gaiacio hamdden yng nghyffiniau'r MDZ (Cyf: MDZ/A28.40), a mwy fyth o ddogfennau a grëwyd megis y Wybodaeth Ychwanegol am newidiadau rhagfynedig i gerhyntau (Cyf: MDZ/A31.1, gweler y Crynodeb ar dud.6 y PDF), yr ymateb cyfeirio i sylwadau gan y cyhoedd ar yr ymateb ML (Cyf: MDZ/A28.32, yn enwedig ar dud.5), y Strategaeth Twristiaeth a Hamdden a Monitro Amlinellol (Cyf: MDZ/A28.17 gweler tud.5), yr Ymatebion Mordwyo a Morgludo (Cyf: MDZ/A28.14, gweler tud.(au)3-4) yr adroddiad ymgynghori (Cyf: MDZ/A9, gweler e.e. Tabl 5-2 tud.69, 74, 75,), ac elfennau ar y môr y SLVIA (Cyf: MDZ/A25.24).

[503] Datganiad Agoriadol SCC, Cyf: Dogfen Ymchwiliad – 010, tud.5.

## **3. Cymeriad a golwg yr ardal**

*Crynodeb*

275. Gan droi at gymeriad a golwg yr ardal, mae Menter Môn yn honni'n gryno bod SLVIA cynhwysfawr, cadarn a phriodol wedi cael ei gynnal. Ymgynghorwyd yn helaeth drwy gydol y broses honno. Mae'r prosiect wedi ymateb i sylwadau rhanddeiliaid allweddol, yn enwedig CNC ac IoACC, drwy gydol y broses dylunio ac esblygu, gan gynnwys mesurau lliniaru cyn belled â phosibl. Bydd y DDP yn darparu mesurau rheoli effeithiol i reoli effeithiau'r prosiect ar y morlun a'r dirwedd a'i effaith weledol drwy gydol y cam lleoli, ac yn darparu ar gyfer monitro unrhyw newidiadau fesul cam trwy'r gofyniad am asesiad cronnol. Mae amodau'r caniatâd cynllunio tybiedig (gan gynnwys y Cynllun Rheoli Tirwedd manwl) yn darparu dulliau priodol o gyflawni mesurau lliniaru ar gyfer elfennau'r prosiect ar y tir. Yn fyr, mae'r prosiect wedi gwneud cymaint â phosibl i liniaru effeithiau'r prosiect hwn ar dirwedd a chymeriad yr ardal.

276. Fe ddaw adeg, fodd bynnag, pan fydd bodloni pryderon rhanddeiliaid yn gwrthdaro â chyfyngiadau'r prosiect, ac ni all y prosiect liniaru effeithiau ymhellach heb achosi problemau difrifol i'r prosiect. Dyna'r achos fan hyn. Er gwaethaf yr ymdrechion sylweddol a wnaed, mae rhai effeithiau arwyddocaol ar y morlun, y dirwedd a derbynyddion gweledol yn parhau – casgliad y mae CNC ac IoACC yn cytuno ag ef, at ei gilydd. Lle na ellir cynnal mesurau lliniaru pellach, fel yn yr achos hwn, mae Menter Môn wedi ymrwymo i ddarparu pecyn digolledu trwy gytundeb a.106, i helpu i wrthbwyso'r effeithiau posibl ar y morlun, y dirwedd a derbynyddion gweledol. I grynhoi, credwn na allwn wneud mwy – a nodwn fod Mr Solomon ar ran IoACC wedi cadarnhau eu bod nhw hefyd o'r farn ein bod wedi gwneud yr hyn a allwn, ac felly bod y datblygiad arfaethedig yn dderbyniol o safbwynt cynllunio.[504] Fel yr amlinellwyd gennym, mae Mr Bell o'r farn bod yr effeithiau hynny sy'n weddill yn dderbyniol yn amgylchiadau'r achos hwn, lle maent yn sgil-gynnyrch angenrheidiol o'r prosiect a'i fuddion cysylltiedig. Mae hyn yn arbennig o wir, fel y clywodd yr ymchwiliad gan Dr Orme, lle mae manteision yn gysylltiedig â dyfeisiau arnofiol sy'n golygu bod angen iddynt fod o fewn y PDE o hyd ar y cam hwn (gweler uchod). Er bod effeithiau, honnwn eu bod yn dderbyniol o safbwynt cynllunio.

277. Felly, dyna ein safbwynt yn gryno. Rhoddwn ychydig fwy o fanylion yn awr, ac ymdriniwn â rhai o'r pwyntiau a wnaed yn ein herbyn. Er hwylustod cyfeirio, amlinellwn yn gyntaf sut y cynhaliwyd y SLVIA, cyn troi at y mesurau lliniaru a ymgorfforwyd yn y prosiect a'r rheolaethau ar ei leoli trwy'r DDP. Yn erbyn y cefndir hwnnw yr amlinellwn yr hyn y mae'r ymchwiliad wedi'i glywed ynglŷn ag effeithiau'r prosiect ar dirwedd a chymeriad yr ardal, cyn troi at gynnwys y cytundeb a.106.

278. Amlinellwyd safbwynt Menter Môn gan Simon Myers, sef Pensaer Tirwedd profiadol a oedd nid yn unig wedi rhoi tystiolaeth ar ffurf ysgrifenedig a thrwy'r RT ar gymeriad a golwg, ond a oedd hefyd wedi paratoi'r SLVIA, ymatebion ôl-ymgeisio, mynychu cyfarfodydd TWG gyda CNC ac IoACC, a mynychu pedwar o'r diwrnodau

[504] Yr RT ar Gymeriad a golwg, Diwrnod 6, sesiwn 1 y bore.

gwybodaeth i'r cyhoedd. Mae wedi rhoi adroddiad clir a chymhellol o'r prosiect a'i asesiad o'i effeithiau, a dylid rhoi pwys mawr i'w dystiolaeth.

279. Cyn i ni dreiddio i'r manylion, hoffem sôn am un pwynt rhagarweiniol. Rhoddwyd tystiolaeth ar ran CNC gan Ms Maidment, a gyflenwodd yn ddefnyddiol iawn ar ran Mr Sumner. Ar ddechrau'r sesiwn, amlinellodd Mr Byass dri mater allweddol o ran safbwynt CNC:

(i) Estyniad awgrymedig i'r Ardal Gyfyngedig Ogleddol, i'r triongl a amlinellir ym Mhroflen Dystiolaeth Mr Sumner yn Ffig. 5 (y "Triongl");[505]

(ii) Diffiniad o ddyfeisiau nad ydynt yn amlwg yn weledol fel dyfeisiau llanw o dan y dŵr;[506] ac,

(iii) O ran integreiddio a lliniaru ceblau sy'n glanio ar y tir, os na ellir dibynnu ar HDD, yr awgrym yw bod yr adferiad ecolegol a'r integreiddiad â'r dirwedd yn cael eu dylunio i ystyried yr ACA a'r AHNE.

280. Roedd mân faterion eraill hefyd, ac, wrth gwrs, mae gan bawb ohonom Ddatganiad Achos a phroflen CNC. I'r graddau bod safbwyntiau Ms Maidment yn yr RT ar gymeriad a golwg yn mynd y tu hwnt i'r materion allweddol hynny, anogwn yr Arolygydd i'w ddiystyru fel achos o orfod camu i mewn i achos cymhleth ar y funud olaf. Ni fwriedir unrhyw amarch tuag at unrhyw un sy'n gysylltiedig trwy ddweud hynny, ond mae achos CNC fel a gyflwynir yn ei Broflen Dystiolaeth ac a grynhowyd i raddau helaeth gan Mr Byass. Dyna'r hyn a ymatebwn iddo.

*SLVIA – Y broses*

281. Cyn i ni droi at y meysydd sy'n destun dadl, dymunwn amlygu rhai pwyntiau allweddol ynglŷn â sut y cynhaliwyd y SLVIA.[507] Ni fwriadwn fynd dros hynny'n fanwl yn awr, ond fe'i hadroddir yn y Bennod SLVIA o'r ES,[508] ac yn nhystiolaeth lafar Mr Myers.[509] Nodwn hefyd fod yr agweddau ar broses y SLVIA wedi cael eu cytuno gyda CNC.[510] Yn ogystal, nodwn yr arweiniad a roddodd yr Arolygydd yn yr RT ar gymeriad a golwg, sef, yn hytrach na threiddio i fanylion cyflwyniadau a sleidiau unigol, ei fod eisiau canolbwyntio ar gwestiynau darlun mawr, megis p'un a oedd y datblygiad yn weladwy, a ph'un a yw'r effaith yn dderbyniol.[511] Amlygwn y canlynol:

505 Cyf: POE021, tud.71.
506 Fel yn Ffig. 4 Cyf: POE021, tud.70.
507 Diwrnod 6, sesiwn 1 y bore.
508 Cyf: MDZ/25.24
509 RT ar Gymeriad a golwg, Diwrnod 6 sesiwn 1 y bore.
510 Cyf: MDZ/L5, Tabl 4-1 Eitemau 1-10.
511 RT ar Gymeriad a golwg, Diwrnod 6 sesiwn 1 y bore.
[Nodyn gan yr Arolygydd: Ceisiodd fy sylwadau amlygu y gallai'r drafodaeth yn yr RT ar Gymeriad a Golwg ganolbwyntio ar effeithiau posibl manwl penodol, ond efallai bod dau gwestiwn a fyddai, yn y pen draw, yn sail i'r drafodaeth a'r casgliadau y deuid iddynt:
1) a yw'r gwaith yno, ai peidio? (h.y. mae angen i'r partïon fod yn glir ynglŷn â chwmpas y gwaith ar y tir ac ar y môr a gynigir, yn enwedig gan y bydd gwaith sy'n codi o'r dŵr yn weladwy mewn morlun); a phetai'r gwaith yno,
2) a fyddai ei effaith ar gymeriad a golwg yr ardal yn dderbyniol?]

(i) Mae'r SLVIA wedi cael ei gynhyrchu yn unol ag arweiniad perthnasol, megis GLVIA 3;

(ii) Mae'r cwmpas wedi cael ei drafod a'i gytuno gyda CNC ac IoACC;

(iii) Mae'n ymdrin â phob elfen o'r prosiect;

(iv) Mae'r cymeriad sylfaenol wedi'i lywio gan astudiaethau a gynhaliwyd neu a gomisiynwyd neu a gyhoeddwyd gan IoACC, yn enwedig ei asesiadau o gymeriad y dirwedd a'r morlun. Lle'r oedd gorgyffyrddiad rhwng y dirwedd a'r morlun, rhoddwyd blaenoriaeth i'r morlun i osgoi cyfrif ddwywaith;

(v) Mae'r effaith weledol wedi golygu asesu derbynyddion niferus (ar y tir ac ar y môr, yn ystod y dydd a'r nos) o olygfannau sy'n benodol i wahanol elfennau o'r prosiectau. Dewiswyd y rhain yn y modd arferol trwy ddefnyddio parthau gwelededd damcaniaethol,[512] a chytunwyd arnynt gydag IoACC a CNC hefyd.[513] Fe'u haseswyd yn y ffordd arferol, gan edrych ar faint a graddau'r newid, ehangder daearyddol a hyd y prosiect. Gan oedi yn y fan honno, holodd Ms Wong yn ystod y sesiwn pam nad oedd mwy o olygfannau o ardaloedd a ddefnyddir gan rwyfwyr hamdden. Mae dau ymateb i hyn, a amlinellwyd gan Mr Myers yn ei dystiolaeth lafar:[514]

a. Esboniodd na all unrhyw SLVIA asesu pob derbynnydd posibl o fewn ardal astudio 15km – yr hyn sy'n bwysig yw p'un a ddefnyddiwyd golygfeydd cynrychioliadol, a dyna a wnaed yn yr achos hwn.

b. Cydnabyddir yn y SLVIA, sut bynnag, y bydd effaith arwyddocaol ar dderbynyddion hamdden ar y môr o fewn 2km o'r MDZ. Ymdrinnir â hyn yn benodol gan yr asesiad o olygfannau,[515] gyda golygfannau 13 a 14 yn cynrychioli derbynyddion ar y môr ar bellteroedd o 1.9 a 2.4km, yn y drefn honno, a golygfan 14 yn cynrychioli pobl sy'n teithio ar longau hamdden. Ni amlygwyd unrhyw effeithiau arwyddocaol yn y naill na'r llall o'r golygfannau hyn, felly mae'n rhesymol dod i'r casgliad y byddai'r effeithiau arwyddocaol yn digwydd o fewn oddeutu 2km. Mae hefyd yn rhesymol defnyddio golygfannau eraill i ddeall effeithiau tebygol y prosiect mewn lleoliadau eraill gan fod graddfa a maint cymharol y strwythurau ar y môr yn dibynnu ar safle, pellter ac uchder, i raddau helaeth. Felly, rhoddir ystyriaeth lawn i'w pryderon a chydnabyddir yr effaith negyddol, ac felly mae gerbron yr ymchwiliad.

(vi) Yn y ddau achos, mae'r asesiad wedi tybio senario achos gwaethaf realistig ar gyfer lleoli'r prosiect yn llawn. O fewn y paramedrau a amlinellir yn yr MDZ (h.y., pellter lleiaf o 1km o'r morlin a dim dyfeisiau sy'n amlwg yn weledol yn ei ran ogleddol), tybiwyd, er enghraifft, y byddai'r dyfeisiau ynni'r llanw yn cael eu lleoli tua ymyl dwyreiniol yr MDZ, ac y byddai amrywiaeth o fathau o

[512] Cyf: MDZ/A26.9, Ffigur 24-2-2a a Chyf: MDZ/A26.9, Ffigur 24-2-2b.
[513] Yn yr RT ar Gymeriad a Golwg, Diwrnod 6, sesiwn 1 y bore, dywedodd Ms Wong nad oedd unrhyw ddelweddau o olygfan 14, sef golygfan o ddefnyddiwr môr hamdden. Nid yw hyn yn gywir, gweler Cyf: MDZ/A27.8, Ffig 24-3-14.
[514] RT ar Gymeriad a Golwg, Diwrnod 6, sesiwn 1 y bore.
[515] Cyf.(au): MDZ/A25.24 ac MDZ/A27.8.

ddyfeisiau'n cael eu defnyddio.[516] Mae hefyd wedi cynnwys amrywiaeth o ddelweddau a ffotogyfosodiadau.[517]

(vii) Mae'r prosiect wedi ymateb i faterion a godwyd gan CNC ac IoACC, fel y deuwn iddynt isod.

282. Mae gan yr ymchwiliad ffotogyfosodiadau a gynhyrchwyd gan Mr Roberts hefyd.[518] Ef fu'r cyntaf i gyfaddef, yn deg iawn, "*nad oes sail wyddonol*" (ei eiriau ef) i'r ddelwedd a geir yn OBJ058, ac er bod Menter Môn yn deall ei bryderon diffuant, honnwn nad yw'r ddelwedd honno'n gynrychioliad cywir ac y gellir rhoi pwys lleiafsymiol iawn iddi yn unig. Ni ddywedwn fwy amdani. Yn lle hynny, cyfeiriwn yr ymchwiliad at y ddelwedd o Benrhyn Mawr, Golygfan 06.[519] Bydd yr Arolygydd hefyd yn ymwybodol bod Mr a Mrs Roberts wedi cynnwys rhai delweddau ychwanegol yn eu Datganiad Achos.[520] Nid yw cyflwyno'r delweddau hyn yn eu Datganiad Achos yn helpu i ddeall y prosiect a'r effeithiau posibl ar y morlun a'r dirwedd a'r effeithiau gweledol. Ymdrinnir â'r delweddau hyn a'u cyfyngiadau, ynghyd â chymariaethau cyffredinol â'r gwaith a wnaed yn rhan o'r SLVIA, yn y Broflen Dystiolaeth a baratowyd gan Mr Myers, Adran 8.6.[521]

*Mesurau lliniaru*

283. Hoffem achub ar y cyfle hwn hefyd i atgoffa'r ymchwiliad o rai o'r mesurau lliniaru a sefydlwyd yn benodol i leihau effaith y prosiect ar y morlun a'r dirwedd a'i effaith weledol. Unwaith eto, mae cyfeiriadau manwl yn y dogfennau,[522] ond crynhown rai ohonynt yma fel y'u hadroddwyd yn nhystiolaeth lafar Mr Myers.

284. <u>Yn gyntaf</u>, o ran elfennau'r MDZ ar y môr:

(i) Mae nifer o ardaloedd cyfyngedig lle y rheolir lleoli mathau penodol o ddyfeisiau.[523] O bwysigrwydd arbennig, ni cheir lleoli unrhyw ddyfeisiau ynni'r llanw sy'n amlwg yn weledol[524] yn rhan ogleddol yr MDZ, i leihau'r effeithiau posibl ar y dirwedd a'r effeithiau gweledol posibl o ran y morlun/y dirwedd a derbynyddion gweledol i'r gogledd-orllewin o Fynydd Caergybi. Sefydlwyd hyn yn benodol i ymateb i'r pryderon a godwyd gan CNC ac IoACC ynglŷn â'r

[516] Gweler, ar gyfer sut yr ystyriwyd hynny, Cyf: MDZ/A28.19 FIG SLIVA POST APP 1.
[517] Gweler e.e. Cyf: MDZ/A28.19 a'r ffigurau a gynhwysir ynddo. Fe gofiwch fod Mr Myers, wrth ymateb i gwestiwn gan Mr Pattullo, wedi cadarnhau bod y rhain yn tybio'r llanw seryddol isaf.
[518] Cyf: OBJ058
[519] Cyf: MDZ/A28.19
[520] Cyf: MDZ/N10
[521] Cyf: MDZ/P5
[522] Gweler e.e. Cyf: MDZ/A28.19
[523] Gweler e.e. Cyf: MDZ/G13 a Chyf: MDZ/A25.4 Ffig 4-2
[524] Gan fod y mater hwn yn gysylltiedig â diogelwch mordwyol, dylid nodi bod "amlwg yn weledol" yn golygu o'r lan. Byddant yn amlwg i ddefnyddwyr lleol y môr gan ddilyn y DDP – gweler y drafodaeth rhwng Mr Bolton o SCC, Mr Maurici QC a Mr Salter o'r MCA yn yr RT ar Fordwyo, Diwrnod 10, sesiwn 2 y bore.

berthynas rhwng yr MDZ a Bae Gogarth, ochr ogledd-orllewinol Mynydd Caergybi ac Ynys Lawd.[525]

Gan oedi yn y fan honno, gofynnodd CNC pam na allai “amlwg yn weledol” gael ei ddiffinio yn y Gorchymyn. Fel yr amlinellodd Mr Myers,[526] nid oes diffiniad penodol o amlygrwydd gweledol yn y canllawiau perthnasol, fel GLVIA 3, ond mae’n rhan annatod ac a dderbynnir o waith SLVIA. Fodd bynnag, mae’n dibynnu ar amrywiaeth o ffactorau sy’n gysylltiedig (er enghraifft) â ble mae dyfeisiau wedi’u lleoli (yn enwedig y pellter o’r lan), maint unrhyw elfen sy’n codi o’r dŵr, goleuadau, manylion y seilwaith, ac ati. Gan nad ydym yn gwybod pa ddyfeisiau a fydd yn datblygu yn ystod y 37 mlynedd nesaf, ni allwn ddweud ar hyn o bryd pa rai fydd yn amlwg yn weledol. Byddai ceisio diffinio amlygrwydd gweledol yn awr, neu fabwysiadu’r diffiniad y gofynnodd CNC amdano, sef “unrhyw beth uwchben y dŵr”, yn cyfyngu ar hyblygrwydd y dull PDE. Fe allai fod yn wrthgynhyrchiol hefyd – fel yr amlinellodd Mr Myers, mae’n dra thebygol y bydd datblygwyr yn ymateb i’r angen am ddyfeisiau nad ydynt yn amlwg trwy fireinio eu dyluniadau. Byddai mynnu’n syml nad yw dyfeisiau’n torri’r wyneb yn amharu ar hynny. Os cynhwysir diffiniad o’r fath, ac yna credir y bu’n wrthgynhyrchiol, ni ellir ei ddileu – fel y nodwyd eisoes, ni ellir diwygio TWAO. Y pwynt allweddol i Weinidogion Cymru, fodd bynnag, yw bod y DDP, gan gynnwys ei ofyniad am SLVIA pan fydd angen, yn fesur diogelu a fydd yn sicrhau na fydd unrhyw beth yn cael ei leoli y tu allan i’r PDE a ganiatawyd ac y bydd amlygrwydd gweledol yn cael ei ystyried yn drwyadl. Nhw, neu CNC, fydd yn gwneud y penderfyniad – nid Menter Môn.[527]

(ii) Byddai pellter gwahanu o 1km o leiaf yn cael ei gymhwyso o’r morlin ar gyfer dyfeisiau sy’n amlwg yn weledol, gan helpu i gynyddu’r pellter gwahanu rhwng strwythurau o’r fath a’r morlin.

(iii) Mae elfennau arnofiol mewn rhannau eraill o’r is-barthau yn cael eu lleihau i’r eithaf i helpu i sicrhau bod cyfansoddiad elfennau ar y môr yn cael ei gadw mor syml â phosibl.

(iv) Ar ôl ymgynghori ag ymgyngoreion mordwyo statudol ynglŷn â lliwiau a goleuadau, gall lliw’r strwythurau a’r offer goleuo gael eu newid o gymharu â’r hyn a dybiwyd yn y SLVIA. Er bod y SLVIA yn tybio y bydd y strwythur cyfan

[525] Tystiolaeth Mr Meyer, yr RT ar Gymeriad a Golwg, Diwrnod 6, sesiwn 1 y bore. Gofynnodd Mr Roberts yn benodol pam oedd CNC wedi dewis cadw’r rhan ogleddol yn rhydd rhag dyfeisiau sy’n codi o’r dŵr, er bod mwy o ddefnyddwyr yn y rhan ddeheuol. Yn hynny o beth, rydym yn dilyn gofynion CNC ac IoACC yn syml. Ar ran CNC, esboniodd Ms Maidment fod CNC yn dibynnu ar y system LANDMAP, sy’n cynnwys sawl ardal weledol a gwylio yn yr ardal ogleddol. Mae hyn yn cyd-fynd â golwg naturiol arw, wyllt yr ardal a’r profiad o hynny pan fydd rhywun yn yr ardal gymeriad. Mae rhan o hynny’n ymwneud â’r golygfeydd o’r môr hefyd. Mae’r ardal ymhellach i’r de yn fwy sefydlog, gan fod eiddo ac adeiladau hwnt ac yma, tra bod Bae Gogarth a Mynydd Caergybi yn fwy pellennig a gwyllt. Gweler y drafodaeth rhwng Ms Maidment a Mr Roberts yn yr RT ar Gymeriad a Golwg, Diwrnod 6, sesiwn 1 y bore a sesiwn 1 y prynhawn.

[526] Yr RT ar Gymeriad a Golwg, Diwrnod 6, sesiwn 1 y bore.

[527] Yn ystod yr RT ar Gymeriad a Golwg, Diwrnod 6, sesiwn 1 y bore, mynegodd Ms Maidment bryderon a oedd yn awgrymu y byddai anghytundeb rhwng y partïon amrywiol ynglŷn â ph’un a yw dyfais yn amlwg yn weledol. Gallai hynny fod yn wir, ond nid Menter Môn fydd â’r gair olaf, felly gall Gweinidogion Cymru fod yn hollol sicr bod amddiffyniad o sylwedd – p’un yw Menter Môn yn cytuno â hynny ai peidio.

yn felyn, gellir lleihau hyn bellach, mewn egwyddor, i farciau megis band 5m – er y bydd rhaid i'r dyluniadau terfynol gael eu cytuno gyda Thŷ'r Drindod a'u hasesu yn rhan o'r DDP. Mae ffotogyfosodiadau sy'n dangos y marciau diwygiedig hyn wedi'u cynnwys yn yr Ymateb Ymgynghori Ôl-ymgeisio SLVIA.[528] O ran goleuadau, gall y marcwyr ddefnyddio goleuadau 2NM ar ochr yr MDZ tua'r lan, a goleuadau 5NM ar yr ochr tua'r môr. Mae'r ffotogyfosodiadau wedi'u gwneud, a'r asesiadau wedi'u cynnal, ar y sail dybiedig y bydd goleuadau mordwyo ar y TECs yn weladwy o'r arfordir. Fodd bynnag, mae'n *bosibl* y bydd angen i'r dyfeisiau eu hunain gael goleuadau â gwelededd 150m yn unig,[529] ac os felly, fel y cadarnhaodd Mr Myers, ni ddylent fod yn weladwy o'r arfordir. Mae'n bosibl, felly, bod y ffotogyfosodiadau yn y nos[530] sy'n dangos goleuadau ar y dyfeisiau eu hunain, yn hytrach na'r bwiau marcio yn unig, yn achos gwaethaf o gryn dipyn. Mae Tŷ'r Drindod wedi egluro y byddant yn gallu asesu hyn dim ond pan fydd dyfeisiau'n barod i gael eu lleoli,[531] ac felly mae'r asesiad yn tybio goleuo dyfeisiau'n llawn yn unol â'r rheoliadau. Yn ôl tystiolaeth y Capten Harris o Dŷ'r Drindod yn yr RT ar Fordwyo, er bod goleuadau LED modern yn weladwy, maen nhw'n ymddangos fel dot yn hytrach na thywynnu fel goleudy.[532]

285. Yn ail, o ran yr is-orsaf lanio:

(i) Mae lleoliad enciliol yn y dirwedd wedi cael ei dewis, mewn safle cymharol isel. Defnyddiwyd y tirffurf i helpu i integreiddio'r is-orsaf, trwy dorri i mewn i ochr dyffryn yn hytrach nag adeiladu platfform sy'n ymwthio allan;

(ii) mae'r offer a'r cyfarpar yn yr adeiladau wedi cael eu trefnu i arwain at gasgliad o adeiladau yn hytrach nag un adeilad mawr – mae hyn yn lleihau graddfa'r datblygiad ac yn creu ffurf a màs sy'n debyg i adeiladau amaethyddol lleol;

(iii) cynigir lliwiau a deunyddiau (gan gynnwys deunyddiau naturiol) sy'n gyson â chymeriad cyffredin adeiladau amaethyddol, ac maen nhw'n enciliol yn y cyd-destun lleol;

(iv) diffinnir ffiniau'r is-orsaf gan yr adeiladau lle y bo'n bosibl, sy'n lleihau'r gofyniad am ffensys diogelwch;

(v) defnyddiwyd waliau cerrig a ffensys cadw stoc yn rhan o'r ffiniau newydd, unwaith eto i helpu i integreiddio'r adeilad i'r ardal leol;

(vi) mae plannu wedi cael ei ystyried, er y cydnabyddir yn deg bod hyn o gymorth cyfyngedig mewn tirwedd arfordirol agored a digysgod; a

---

[528] Cyf: MDZ/A28.19. Holodd Ms Wong p'un a oedd hynny'n addas ar gyfer cychod bach yn agos i'r dyfeisiau. Cadarnhaodd y Capten Harris o Dŷ'r Drindod fod y canllawiau wedi'u seilio ar asesiadau risg sy'n ystyried yr holl ddefnyddwyr rheolaidd. Yr RT ar Gymeriad a Golwg, Diwrnod 6, sesiwn 2 y bore, ac unwaith eto yn yr RT ar Fordwyo, Diwrnod 10, sesiwn 2 y bore.

[529] Datganiad Tir Cyffredin â Thŷ'r Drindod tud.10-11 (Cyf: MDZ/L9).

[530] Cyf: MDZ/A28.19, Atodiad 24.4

[531] Trafodaeth rhwng yr Arolygydd, Mr McNamara a Mr Myers, yr RT ar Gymeriad a Golwg, Diwrnod 6, sesiwn 2 y bore.

[532] Tystiolaeth y Capten Harris (ar ran Tŷ'r Drindod), yr RT ar Fordwyo, Diwrnod 10, sesiwn 2 y bore.

(vii) defnyddir goleuadau allanol cyn lleied â phosibl yn y lleoliad gwledig hwn, gan ddefnyddio synwyryddion i leihau'r angen am oleuo'n barhaus.

286. Yn drydydd, mae'r Adeilad Switshis yn cael ei leoli o fewn safle a ddyrannwyd ar gyfer cyflogaeth, gerllaw is-orsaf bresennol a lle y bydd y datblygiad amgylchynol yn debyg o ran ffurf, màs a golwg.

287. Yn bedwerydd, mae'r is-orsaf cysylltu â'r grid wedi cael ei leoli mewn man lle mae strwythurau diwydiannol yn ffurfio rhan sefydledig o'r cyd-destun sylfaenol, a lle mae llystyfiant sefydledig o amgylch y safle'n ei amgáu'n weledol yn effeithiol.

288. Yn bumed, wrth gwrs, mae'r ceblau'n cysylltu'r holl elfennau hyn. Maen nhw wedi cael eu gosod o dan y ddaear, i osgoi'r angen am unrhyw linellau uwchben ac annibendod ar yr Ynys. Yn ogystal, fe'u lleolwyd ar hyd ffyrdd presennol cyn belled ag y bo modd i leihau unrhyw darfu posibl ar ffiniau caeau i'r eithaf, a bydd y nodweddion tir a thirwedd yn cael eu hadfer ar ôl adeiladu.

*Rheolaethau ar y prosiect*

289. Gan droi felly at y rheolaethau ar y prosiect, rydym wedi sôn am rai o'r rhain uchod wrth amlinellu sut y caiff ei gyflawni. Fodd bynnag, maen nhw'n arbennig o berthnasol fan hyn.

290. Yn gyntaf, tynnwn sylw'r ymchwiliad at y DDP. Mae cynrychioliad darluniadol o lif y broses wedi'i gynnwys yn yr Atodiad R-B i Wrthbroflen Dystiolaeth Mr Myers.[533] Fel yr esboniodd Mr Maile yn yr RT ar gymeriad a golwg, bydd rhaid i hyn gael ei gyflwyno cyn lleoli unrhyw ddyfais lanw neu unrhyw hyb gweithredol a fydd yn codi o'r wyneb. Bydd angen cynnal SLVIA newydd ar gyfer pob cynnig i leoli, gan gynnwys asesiad o effeithiau cronnol y datblygiad arfaethedig gydag unrhyw leoli gweithredol neu a ganiatawyd. Felly, bydd yn caniatáu i'r materion a drafodwyd yn ystod yr ymchwiliad gael eu barnu yn ystod y cam lleoli, yn seiliedig ar y dyfeisiau a gynigir.[534] Bydd hyn yn sicrhau bod y datblygiad cyffredinol yn aros o fewn y PDE a ystyriwyd trwy'r broses EIA ar y cam hwn.

291. Yn ail, y Cynllun Rheoli Tirwedd. Mae Cynllun Rheoli Tirwedd amlinellol wedi cael ei gyflwyno.[535] Mae'r Cynllun Rheoli Tirwedd ei hun wedi bod yn ddogfen sy'n esblygu hyd at yr adeg hon, ond caiff ei sicrhau trwy amod o'r caniatâd cynllunio tybiedig.[536] Bydd hyn yn canolbwyntio ar elfennau daearol y prosiect i osgoi gorgyffwrdd â'r DDP a'i ddyblygu. Bydd yn cynnwys rhai elfennau gwella (felly, er enghraifft, mae'n dra thebygol y bydd nodweddion fel ffiniau caeau yn cael eu gwella lle mae'r prosiect yn effeithio arnynt), ac, wrth gwrs, mae lle i ychwanegu mwy o fanylion wrth i'r cynllun amlinellol gael ei gwblhau'n derfynol. Mae hyn, wrth gwrs, yn cyd-fynd â'r mesurau digolledu a sicrheir trwy'r cytundeb a.106, y trown ato isod.

[533] Cyf: RPE007
[534] Tystiolaeth Paul Maile yn yr RT ar Gymeriad a Golwg, Diwrnod 6, sesiwn 1 y bore.
[535] Cyf: MDZ/A28.20
[536] Cyf: MDZ/L7, Atodiad B amod 6.

292. Yn drydydd, ac yn gysylltiedig â hynny, mae amodau eraill o'r caniatâd cynllunio tybiedig yn mynnu bod manylion tirweddu caled a meddal yn cael eu cytuno gydag IoACC a'u cymeradwyo ganddo.[537]

*Asesu*

293. Yn erbyn y cefndir hwnnw felly, sef SLVIA trwyadl sy'n dilyn yr holl brosesau gofynnol ac arferion gorau, a'r mesurau lliniaru ymgorfforedig hynny, y trown at effeithiau'r prosiect hwn ar y morlun a'r dirwedd, a'i effeithiau gweledol. Rhennir hyn yn ddwy elfen – yr effeithiau ar Gymeriad y Morlun a'r Dirwedd a dynodiadau AHNE/Arfordir Treftadaeth (h.y. yr effeithiau ar y morlun/y dirwedd), a'r effeithiau ar dderbynyddion gweledol (yr effaith weledol).

294. Yn gyntaf, trown at yr effeithiau ar y morlun/y dirwedd. Ymdriniwyd â'r rhain yn gynhwysfawr yn y SLVIA.[538] Mae hynny'n rhoi cefndir pwysig ar gyfer ystyried y tri mater a godwyd yn yr RT: yr effeithiau ar nodweddion arbennig yr AHNE, lleoliad Ynys Lawd, a glanfa'r ceblau. Nid oedd yr effeithiau ar ardaloedd cymeriad morlun a thirwedd yn destun dadl mewn gwirionedd. Mae tabl 24-10 yn rhestru wyth o'r ardaloedd cymeriad morlun a thirwedd lle y rhagfynegir y bydd yr effeithiau'n gyfyngedig. Yna, mae tabl 24-11 yn rhestru'r pum ardal cymeriad morlun y mae'r prosiect yn debygol o effeithio arnynt fwyaf, y mae dwy ohonynt yn unig (SCA 13 – *Mynydd Caergybi* a SCA 14- *Rhoscolyn*) yn debygol o gael effaith gymedrol o leiaf sy'n arwyddocaol, gyda'r effeithiau posibl yn gysylltiedig yn bennaf â llethrau gorllewinol Mynydd Caergybi a'r morlin rhwng Ynys Lawd a Phenrhyn Mawr. Os edrychwn ar effaith y prosiect ar nodweddion arbennig yr AHNE (y prif fater cyntaf yn yr RT), mae'r holl randdeiliaid a Menter Môn yn cytuno'n gyffredinol y rhagfynegir effeithiau arwyddocaol ar yr AHNE.[539] Mae nodweddion arbennig yr AHNE yn cynnwys golygfeydd a morluniau eang, a heddwch a llonyddwch. Fodd bynnag, esboniodd Mr Myers fod yr effeithiau'n lleol ac yn berthnasol i ran o'r ANHE (er hynny rhan nodedig) yn hytrach na'r dynodiad cyfan.[540] Byddai adeiladu'r cynllun yn cyflwyno elfennau newydd o wneuthuriad dyn i'r ardal a fyddai'n effeithio ar ei nodweddion arbennig. Mae Menter Môn yn derbyn hynny. Fodd bynnag, clywodd yr ymchwiliad hefyd gan Mr Myers na fyddai'n atal y rheiny rhag cael eu gwerthfawrogi – byddai'r morlin yn wyllt ac yn arw o hyd, byddai'r golygfeydd eang o'r môr ar gael o hyd, ac mae gan y prosiect oes ddiffiniedig (er hynny un hir), felly byddai'r effeithiau'n cael eu gwrthdroi.[541] Mae pob cam posibl wedi cael ei gymryd i leihau'r effeithiau i'r eithaf.

295. Tra ein bod ar y pwnc hwn, codwn fater y Triongl (a geisir gan CNC). Unwaith eto, clywsom asesiad teg iawn gan Mr Myers, a gydnabu y byddai ymestyn y parth

[537] Cyf: MDZ/L7, Atodiad B amod 6
[538] Cyf: MDZ/A25.24, gweler para.(au) 189 – 251
[539] Cyf: MDZ/A25.24, gweler para.(au) 219 – 251
[540] Tystiolaeth Mr Meyer, Diwrnod 6, a gweler Cyf: MDZ/A25.24 para.(au) 244-249
[541] Dywedodd Ms Maidment y gallai'r prosiect gael ei adbweru neu y byddai cynllun arall yn dilyn hwn. Mae hynny'n gwbl dybiannol ac rydym yn ymdrin fan hyn yn unig â'r Gorchymyn sydd ger eich bron, sydd wedi'i gyfyngu i 37 mlynedd.

cyfyngedig i'r Triongl yn gwneud rhai gwahaniaethau i'r effaith ar yr AHNE. At hynny, fel y nododd yr Arolygydd, fe allai leihau'r golygfeydd ar gyfer rhai derbynyddion penodol iawn.[542] Fodd bynnag, daeth Mr Myers i'r casgliad hefyd na fyddai'n gwneud gwahaniaeth i'r asesiad cyffredinol – byddai effaith arwyddocaol o hyd. Ymddangosai fod Ms Maidment hefyd yn ystyried er y byddai gwelliant, y byddai effaith arwyddocaol o hyd, ond gan fynegi achos CNC ar ei gryfaf, ymddangosai ei bod hi'n credu y byddai'r gwelliant yn fwy nag a aseswyd gan Mr Myers.[543] Sut bynnag, mae'r cwestiwn sylfaenol i Weinidogion Cymru yr un fath oherwydd bod effaith arwyddocaol o hyd.[544] O ystyried hynny, clywodd yr ymchwiliad hefyd gan Dr Orme am yr effeithiau y byddai hyn yn eu cael ar y prosiect, a'i gydweddiad goleuol ynglŷn â chynnau tân gwersyll. Yr ardal dan sylw yw un o'r ardaloedd gwell o ran adnodd llanw. Mae hefyd yn un o'r ardaloedd dyfnaf. I helpu i gychwyn y diwydiant cyfan, mae angen i rai o'r ardaloedd gorau – fel yr un hon – fod ar gael i alluogi dyfeisiau arnofiol.[545] Mae'r prosiect (er gwaethaf rhai awgrymiadau gan CNC) eisoes wedi cyfaddawdu wrth sefydlu'r MDZ i roi sylw i bryderon SLVIA – mae'r Ardal Aur gyfan yn gyfaddawd, mae'r ardal sydd ar gael ar gyfer dyfeisiau sy'n amlwg yn weledol eisoes wedi cael ei lleihau 73%.

296. <u>Yn ail</u>, gan droi at leoliad Ynys Lawd, y mater allweddol rhwng Menter Môn a CNC, unwaith eto, yw'r Triongl. Ni fwriadwn ailadrodd y ddadl eto – ymddangosai fod Ms Maidment yn awgrymu y byddai cynnwys y Triongl yn golygu nad oes effaith arwyddocaol ar leoliad Ynys Lawd. Daeth Mr Myers i'r casgliad y byddai effeithiau'r prosiect ar leoliad Ynys Lawd yn lleihau rhywfaint, ond y byddai'r rhain yn cael dylanwad cyfyngedig ar y dyfarniadau cyffredinol yn y SLVIA.

297. <u>Yn drydydd</u>, o ran glanfa'r ceblau, mae hyn yn ymwneud â rhan benodol o'r AHNE ac, unwaith eto, rydym yn delio ag opsiwn wrth gefn os na fydd y dull HDD a ffefrir gan Fenter Môn yn bosibl. Mae'r SLVIA yn cydnabod os defnyddir yr opsiwn wyneb clogwyn, y byddai effeithiau arwyddocaol ond lleol.[546] Mae ffotogyfosodiad gan Fenter Môn sy'n dangos sut y bydd hyn yn edrych o Lwybr Arfordirol Ynys Môn/Llwybr Arfordir Cymru[547] – lleoliad a ddewiswyd yn benodol i gynrychioli lleoliad sydd ar gael i'r cyhoedd yn gymharol agos i lanfa'r ceblau.[548] Os bydd rhaid i'r prosiect ddilyn y llwybr hwn (ac ailadroddwn y byddai hyn dim ond os nad oedd dewis arall), mae Cynllun Rheoli Tirwedd yn cynnig dull addas, ym marn Mr Myers, o sicrhau mesurau lliniaru priodol. Mae cynllun amlinellol wedi'i gynnwys yn y dogfennau craidd,[549] a sicrheir un manwl trwy amod yn y Caniatâd Cynllunio Tybiedig.[550] Felly, byddai angen cymeradwyaeth gan IoACC a disgwyliwn i hynny gynnwys ymgynghoriad gyda CNC. Gan droi at bryderon penodol a godwyd:

---

[542] Tystiolaeth Mr Meyer, Diwrnod 6, sesiwn 2 y bore.
[543] Diwrnod 6, sesiwn 2 y prynhawn.
[544] Tystiolaeth Mr Meyer, Diwrnod 6, sesiwn 1 y bore.
[545] Tystiolaeth Dr Orme yn yr RT ar Gymeriad a Golwg, Diwrnod 6, sesiwn 1 y bore
[546] Cyf: MDZ/A25.24, para. 327
[547] Cyf: REP007, Atodiad R-A
[548] Rydym yn gwybod bod yr olygfa hon yn arbennig o bwysig i Mr Llewellyn. Nodwn yn ystod cyfarfodydd y gweithgor technegol nad oedd CNC nac IoACC wedi awgrymu delwedd o'r platfform y mae'n cyfeirio ato na chartref Mr Llewellyn. Gweler tystiolaeth Mr Myers, Diwrnod 6, sesiwn 1 y bore.
[549] Cyf: MDZ/A28.20
[550] Cyf: MDZ/L7, Atodiad B

(i) Mae IoACC a CNC wedi mynegi rhywfaint o bryder ynglŷn â cheblau'n ymestyn hyd at 2m dros ben y clogwyni.[551] Mae hyn i'w benderfynu o hyd – fel yr esboniodd Mr Myers, mae'r manylion peirianegol wedi'u seilio ar y ffaith bod wyneb y clogwyn yn berpendicwlar, h.y. gyda chornel lem ar y pen. Fodd bynnag, ar ôl gwerthuso ymhellach, gwelwyd bod pen y clogwyn yn crymu'n fwy graddol, sy'n golygu ei bod yn debygol y gallent gael eu hintegreiddio'n fwy effeithiol â'r tirffurf. Gallai unrhyw estyniad uwchben wyneb y clogwyn, hyd yn oed un o hyd at 2m, gael ei liniaru ar ôl adeiladu trwy fesurau gan gynnwys newidiadau bach i'r tirffurf lleol ac adfer ffin y cae gerllaw – byddai hyn i gyd yn rhan o'r cynllun rheoli tirwedd a ddatblygir yn y pen draw, ac y cytunir arni yn yr amodau cynllunio.[552]

(ii) Mae CNC wedi mynegi pryder y gallai'r mesurau lliniaru a gynigiwn fod yn anodd o ystyried ecoleg yr ardal, ond fel y clywodd yr ymchwiliad gan Mr Myers, disgwylir y byddai'r Cynllun Rheoli Tirwedd yn cael ei integreiddio â'r cynllun rheoli ecolegol.[553] Byddai'r integreiddiad hwn yn cael ei gyflawni trwy'r amod cynllunio sy'n mynnu bod y cynllun hwn yn cael ei gwblhau'n derfynol a'i gytuno gydag IoACC. Llwyr ddisgwylir, yn ôl yr hyn sy'n nodweddiadol, y byddai IoACC yn ymgynghori â CNC yn rhan o'r broses hon.[554]

(iii) Cyfeiriodd Mr Llewellyn a Ms Maidment at yr effaith arwyddocaol ar y rhai hynny yn y cyffiniau lleol. Ychwanegodd Ms Wong fod hyn yn effeithio ar gaiacwyr. Derbyniwn hynny, ond, unwaith eto, mae hyn yn lleol, fel y mae Mr Myers wedi nodi.

298. Gan droi, felly, at yr effaith ar dderbynyddion gweledol. Mae tri grŵp cyffredinol wedi cael eu hamlygu – preswylwyr lleol, pobl sy'n ymwneud â hamdden ar y tir, a phobl sy'n ymwneud â hamdden ar y môr. Ymdrinnir â phob un yn fanwl yn y SLVIA.[555]

299. O ran preswylwyr lleol, ni amlygwyd unrhyw effeithiau arwyddocaol mewn perthynas ag aneddiadau Caergybi, Trearddur a Rhosneigr, yn bennaf o ganlyniad i'r pellter neu'r tirffurf yn y canol. Yn ystod yr ymchwiliad, cyfeiriodd yr Arolygydd yn benodol at yr olygfa o Raven's Point Road, Trearddur, yr aseswyd y bydd yn newid i raddau bach i ddibwys (effaith gymedrol/bach ac nid arwyddocaol).[556] Fodd bynnag, yn deg (ac er gwaethaf y ffaith nad diben y system gynllunio yw arbed golygfeydd unigolyn penodol), amlygwyd effeithiau arwyddocaol mewn perthynas â'r eiddo gwasgaredig i'r gogledd-orllewin o Drearddur, gan gynnwys y rhai hynny yng nghymuned Penrhosfeilw. Yn allweddol, fel yr amlinellodd Mr Myers,[557] ni ofynnwyd i Fenter Môn gynnal asesiad o amwynder gweledol preswyl, ac nid yw wedi gwneud

[551] Cyf: MDZ/A28.19, para 23
[552] Cyf: Dogfen Ymchwiliad – 098, amodau arfaethedig 5 a 7
[553] Cyfraniadau Ms Maidment a Mr Myers, Diwrnod 6, sesiwn 1 y prynhawn.
[554] Cyf: Dogfen Ymchwiliad – 098, amodau arfaethedig 5 a 7
[555] Gweler Cyf: MDZ/A25.24 SLVIA para. 252 ymlaen, er bod y derbynyddion wedi'u gosod mewn grŵp ychydig yn wahanol i'r ffordd y'u crynhowyd yn ystod yr RT ar Gymeriad a Golwg.
[556] Yr RT ar Gymeriad a Golwg, Diwrnod 6, sesiwn 2 y prynhawn
[557] Yr RT ar Gymeriad a Golwg, Diwrnod 6, sesiwn 2 y prynhawn

hynny, oherwydd bod gan y strwythurau raddfa fertigol gyfyngedig ac mae'r pellteroedd gwahanu'n golygu na fyddent yn amlwg i'r graddau hynny. Fel y cadarnhaodd Mr Bell, nid ydym yn delio ag effeithiau gormesol yn nhermau polisi a fyddai'n newid eiddo i fod yn fan anneniadol i fyw.[558]

300. O ran y rhai hynny sy'n ymwneud â hamdden ar y tir, yn enwedig y rhai sy'n defnyddio llwybrau troed pellter hir, llwybrau beicio a hyrwyddir, hawliau tramwy cyhoeddus a Thir Mynediad Agored, ac ymwelwyr â'r traethau a gwarchodfa'r RSPB ar Ynys Lawd – unwaith eto, mae'r SLVIA yn cydnabod yn deg y bydd effeithiau arwyddocaol ar y derbynyddion hyn, er bod y rhain yn fwy lleol o ran derbynyddion llinellol/byrhoedlog ac ar gyfer ymwelwyr â thraethau.

301. O ran hamdden ar y môr, mae hyn wedi cael ei ystyried yn y SLVIA, fel y nodwyd uchod. Clywodd yr ymchwiliad hefyd yn faith gan Ms Wong am safbwyntiau caiacwyr.[559] Unwaith eto, y farn gyffredinol yn y SLVIA, gan gyfeirio at y golygfannau cytunedig a amlygwyd, yw bod posibilrwydd o effaith arwyddocaol ar dderbynyddion hamdden ar y môr o fewn tua 2km o'r MDZ. Fodd bynnag, dylid nodi efallai na fydd y rhai hynny sy'n ymwneud â chwaraeon neu hamdden yn canolbwyntio'n llwyr ar yr olygfa.[560] I'r graddau yr awgrymir bod yr effeithiau gweledol posibl ar dderbynyddion ar y môr wedi cael eu hanwybyddu, gellir a dylid diystyru hynny.

302. A, phwynt cyflym wrth fynd heibio – wrth gwrs, bydd rhaid i holl effeithiau a buddion y prosiect gael eu pwyso a'u mesur gyda'i gilydd, ond cyfeiriwn yr ymchwiliad at dystiolaeth: Dr Orme, sy'n cadarnhau bod ardaloedd lle y gellir lleoli'r dechnoleg hon yn gyfyngedig yn ddaearyddol; a, Mr Myers, bod cysylltiad rhwng y tirweddau mwy garw a gwyllt ac ardaloedd sy'n addas ar gyfer prosiectau llanw. Mae'n awgrymu bod cymariaethau â dyfeisiau sy'n codi o'r dŵr a ganiatawyd, megis Ynysoedd y Moelrhoniaid (oddi ar Arfordir Môn hefyd) a PTEC oddi ar Ynys Wyth, lle y rhagfynegwyd effeithiau arwyddocaol ar y morlun/y dirwedd ac yn weledol, ond rhoddwyd caniatâd i'r prosiectau er gwaethaf y rhain. Mae'r olaf, yn arbennig, mewn rhan o AHNE yn agos at bwynt St Catherine, sef tirnod (fel goleudy Ynys Lawd) sy'n ganolbwynt. Wrth gwrs, nid cydweddiadau manwl gywir yw'r rhain (cydnabu Mr Myers, yn deg iawn, nad yw'r cymaryddion ar y raddfa hon ac efallai nad yw'r

---

558 Yr RT ar Gymeriad a Golwg, Diwrnod 6, Sesiwn 2 y prynhawn. Er mwyn osgoi amheuaeth, ni ddadleuir, a chadarnhaodd Mr Bell, fod rhaid rhoi pwys mawr i'r AHNE (gweler PPW Cyf: MDZ/D1 para 6.3.7) a Chyf: MDZ/D7 yr Adolygiad o'r Cynllun Rheoli AHNE. Dywedodd Mr Myers yn ei dystiolaeth hefyd nad yw'r mater "gormesol" erioed wedi bod yn asesiad gofynnol ar gyfer derbynyddion hamdden ar y tir, o gymharu ag eiddo.

559 Yr RT ar Gymeriad a Golwg, Diwrnod 6, Sesiwn 2 y prynhawn

560 Yn wir, fel y dywedodd yr Arolygydd yn yr RT, mae'r gweithgaredd hamdden ei hun yn gallu parhau a bydd yn parhau – daw'r mwynhad o'r gweithgaredd ei hun ac nid dim ond y dirwedd y mae'n digwydd ynddi. Awgrymodd Ms Wong fod pryderon ynglŷn â diogelwch – nid ydym yn derbyn y rhain ond rhoddwn sylw iddynt isod – ac yna byddai hyn yn amharu ar ymdeimlad cyffredinol yr ardal, o gymharu â lleoedd eraill fel Oban, Penfro a Chernyw. Yna, dywedodd fod y tri lle yna "dan fygythiad" yn yr un ffordd ac y bydd angen mynd i'r afael â'r rhyng-gysylltiad rhwng defnyddwyr hamdden a strwythurau o'r fath yn yr un ffordd. Mae hyn, yn ein barn ni, yn dychwelyd i'r ffaith bod y môr yn newid a bydd rhaid i ddefnyddwyr presennol addasu i hynny. Fel arall, ni all ynni ffrwd lanw a'i fuddion fyth ddatblygu. Nid oes gan gaiacwyr fonopoli ar ddefnyddio'r môr.

pellteroedd ar y môr yr un fath), ond y pwynt allweddol yw y rhoddwyd caniatâd iddynt er gwaethaf yr effeithiau rhagfynedig.[561]

*Iawndal*

303. Un pwynt olaf cyn gadael yr adran hon – cytunwyd gydag IoACC y bydd mesurau iawndal yn cael eu talu ar sail lleoli fesul cam, a gyflawnir trwy gytundeb a.106. Mae fersiwn lawn wedi'i chynnwys yn y dogfennau.[562] Bydd hyn yn cael ei sicrhau trwy amod hefyd.[563] Bydd y mesurau hyn yn daladwy tuag at wneud gwaith gwella'r dirwedd ar gyfer tir sydd ym mherchenogaeth y Cyngor neu a reolir gan y Cyngor, darparu cyllid i brosiectau sy'n cynnal rhaglenni adfer neu wella'r dirwedd, cyllido gwaith gwella'r dirwedd yn uniongyrchol ar dir a berchenogir gan drydydd partïon, a gwella mynediad cyhoeddus i dir, gan gynnwys darparu hawliau tramwy cyhoeddus newydd neu wella hawliau tramwy presennol. Cytunwyd gydag IoACC bod y rhain yn mynd i'r afael â'i bryderon y gallai'r cynigion fod yn groes i bolisïau PS 19, AMG 3 ac AMG 4 y CDLl.

*Yn gyffredinol*

304. Crynhowyd ein safbwynt ar ddechrau'r adran hon ac ni ailadroddwn ef yma.

[561] Tystiolaeth Mr Myers, Diwrnod 6, sesiwn 1 y bore a sesiwn 1 y prynhawn.
[562] Cyf: MDZ/L7, Atodiad C.
[563] Cyf: MDZ/L7, Atodiad B Amod 21.

## 4. Materion economaidd-gymdeithasol

305. Gan droi, wedyn, at faterion economaidd-gymdeithasol, treuliwyd mwyafrif yr amser yn yr RT economaidd-gymdeithasol yn trafod materion dan sylw rhwng Menter Môn a SCC/RYA. Roedd hyn yn canolbwyntio'n bennaf ar yr effeithiau economaidd ar dwristiaeth a adlewyrchwyd drwy effeithiau honedig ar weithgarwch sy'n gysylltiedig â'r môr. Byddwn yn ymdrin â hynny isod a'r cwynion a wnânt, ond dylid nodi ar y dechrau mai rhan fach yw hon o dwristiaeth leol a'r economi leol, fel y derbyniodd Ms Wong ar gyfer SCC pan gyflwynodd yr Arolygydd hynny iddi.[564]

*Crynodeb*

306. Rydym yn tynnu ein crynodeb cyffredinol a'n pwyntiau darlun mawr o dystiolaeth Mr Bell ar ddiwrnod 1, Dr Jones ar ddiwrnod 5, ac yn cadw mewn golwg y ffaith bod cytundeb bellach rhwng Menter Môn ac IoACC ar y pwnc hwn.[565] Y pwyntiau allweddol a gyflwynwyd gennym i'r ymchwiliad:

(i) Yn gyntaf, mae manteision y cynllun hwn, o ran materion fel creu swyddi a manteision anuniongyrchol, wedi'u hamlinellu ym Mhennod 25 o'r ES.[566] Ailadroddwyd y rhain yn y dystiolaeth ddiwrthwynebiad gan Mr Bell a chyfeirir atynt yn gynharach yn y terfyniad hwn. I gofio rhai uchafbwyntiau – hyd at 467 o swyddi'r flwyddyn yn ystod y gwaith adeiladu a 456 o weithredu a chynnal a chadw, defnyddio'r gweithlu lleol a'r gadwyn gyflenwi leol, ychwanegu rhwng 0.4% a 4.0% at weithgarwch economaidd blynyddol Ynys Môn, a rhwng £3.2m a £41.4m o wariant blynyddol lleol ar gyfer bywyd y prosiect. Rydym hefyd yn cyfeirio'r ymchwiliad at Bennod 4 o *Study of the Socio-economic benefits of the Marine Industries* ABPMer (Chwefror 2019)[567] sydd, er nad yw'n benodol i'n prosiect ni, yn amlinellu rhai o fanteision economaidd-gymdeithasol y diwydiant.

(ii) Yn ail, a bron yn unigryw yn ein profiad, yn hytrach na “dweud eu dweud” yn dda yn unig, mae Menter Môn yn mynd ymhellach ac yn ceisio sicrhau'r manteision hynny drwy amodau ar y caniatâd cynllunio tybiedig.[568] Mae amodau arfaethedig 17-21 o'r caniatâd cynllunio tybiedig hwnnw[569] yn sicrhau Strategaeth Monitro Twristiaeth a Hamdden, Strategaeth Hyrwyddo a Dehongli, Cynllun Gweithredu Sgiliau a Hyfforddiant, Grŵp Gorchwyl a Gorffen, a Chynllun Gweithredu'r Gadwyn Gyflenwi, a’r cyfan wedi'i anelu at liniaru unrhyw effeithiau posibl a gwella manteision economaidd-gymdeithasol y cynnig hwn ar gyfer y rhanbarth.

---

564 Diwrnod 5, sesiwn PM 1.
565 Cyf: MDZ/L7
566 Cyf: MDZ/A25.25, gweler yn benodol para. 161 ymlaen.
567 Cyf: POE013
568 Cyf: MDZ/L7, Atodiad B
569 Cyf: Dogfen yr Ymchwiliad – 098

(iii) Cytunwyd ar y rhain gydag IoACC. Er bod gan IoACC bryderon cychwynnol, maent bellach wedi egluro, yn y SoCG ac yn sylwadau Mr Solomon i'r ymchwiliad hwn[570], eu bod yn gyfforddus bod eu pryderon bellach wedi cael sylw drwy osod yr amodau perthnasol.

307. Amlinellwyd lefelau'r gefnogaeth gyhoeddus i'r manteision hyn yn gynharach – nid awn drwyddynt eto, dim ond tynnu sylw atynt unwaith eto.

308. Gan gymryd hynny i gyd gyda'i gilydd, mae ein safbwynt yn glir iawn y bydd y cynllun yn cael effaith economaidd-gymdeithasol fuddiol ar yr ardal. Mae Menter Môn wedi mynd ymhellach na llawer o gynlluniau ynni eraill wrth nodi a chytuno ar fecanweithiau i fonitro'r sefyllfa ac, os nad ydym yn iawn yn y pen draw a bod effeithiau andwyol, gellir defnyddio mesurau lliniaru. Fel y cadarnhaodd Mr Solomon, safbwynt IoACC yw y gellir monitro a lliniaru unrhyw effeithiau negyddol, gyda manteision y prosiect yn eu gwrthbwyso.[571] Cynigiwn fod hynny ynddo’i hun yn ddigon ar gyfer penderfyniad y Gweinidogion.

*Amwynder hamdden*

309. Awn ymlaen yn awr i siarad am amwynder hamdden defnyddwyr y môr ac unrhyw effeithiau (posibl) ar yr economi, ond unwaith eto rydym yn annog yr Arolygydd a Gweinidogion Cymru i gofio’r ffaith bod yr amser a dreulir yn delio â'r dadleuon hyn yn anghymesur â lefel yr effaith economaidd-gymdeithasol sydd dan sylw. Rydym hefyd yn atgoffa'r ymchwiliad o'r awgrym polisi yn NPS EN-1 y dylai effeithiau economaidd-gymdeithasol honedig, heb eu cefnogi gan dystiolaeth, ddenu’r pwys lleiaf. Mae hyn yn arbennig o wir lle mae'r cwynion yn cael eu gwneud gan sefydliadau ag adnoddau da (fel yr RYA) a allai wneud eu gwaith cartref eu hunain – nid yw'n ddigon taflu baw at y wal a gobeithio y bydd rhywfaint ohono'n glynu.

310. Drwy fodd sylw rhagarweiniol, hoffem atgoffa'r ymchwiliad o dair ffaith allweddol y cynigiwn eu bod yn camliwio sut y dylai Gweinidogion Cymru bwyso a mesur y dadleuon a gyflwynwyd yn ein herbyn. Credwn y dylai fod yn bosibl i bob parti gytuno (1) y byddai’r prosiect hwn yn helpu i ateb angen am gynhyrchu ynni carbon isel, (2) bod y prosiect hwn yn gyfle i Ynys Môn ddod yn ganolfan ynni carbon isel, a (3) bod angen dybryd am swyddi yn ardal Ynys Môn, ac felly dylid ystyried y manteision swydd yr ydym wedi'u hamlinellu yn fantais. Yn anffodus, pan ystyriwch sut mae rhai o'r gwrthwynebwyr wedi ymateb i'r pwyntiau (cymharol annadleuol) hyn, dechreuwch weld bod eu dull gweithredu yn tanseilio hygrededd eu dadleuon:

(i) Wrth fynd i'r afael â'r pwynt cyntaf (cynhyrchu ynni carbon isel), awgrymodd Mr Hill fod yr RYA hefyd yn cefnogi camau gweithredu i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd, ac mai dyma'r unig brosiect ynni adnewyddadwy morol y mae'r RYA wedi’i wrthwynebu'n ffurfiol.[572] Fodd bynnag,

a. pan bwyswyd ynghylch pam yr oedd RYA yn gwrthwynebu'r cynnig penodol hwn yn hytrach na phrosiectau eraill (fel gwynt) yn defnyddio

[570] Diwrnod 5, Sesiwn AM 1.
[571] Tystiolaeth Mr Solomon, Diwrnod 5 Sesiwn PM 1.
[572] RT economaidd-gymdeithasol, Diwrnod 5 sesiwn AM 2.

PDE, roedd oherwydd materion diogelwch (byddwn yn dod yn ôl at y rheini) ac oherwydd bod hon yn dechnoleg arloesol tra bod rhai eraill (fel ffermydd gwynt) yn hysbys.[573] Yn ein barn ni, mae hyn yn dioddef o ddau ddiffyg. Yn gyntaf, fel yr ydym wedi'i drafod ynghylch bylchau data yn y wybodaeth wyddonol (a'r cyfle y mae'r prosiect hwn yn ei roi i gywiro hynny mewn ffordd reoledig iawn) - nid yw’r prosiect hwn wedi’i wneud o'r blaen ac ni chafwyd astudiaethau hydredol (pwynt a wnaed hefyd gan Ms Wong).[574] Mae hwn yn gyfle i unioni hynny. Yn ail, ni allwn weld unrhyw gysylltiad rhesymegol rhwng y ffaith bod y dechnoleg yn arloesol ac a fydd yn effeithio ar economeg gymdeithasol yr ynys. Yn enwedig pan fydd materion fel tirwedd a diogelwch fel arall yn cael eu hasesu a'u hystyried yn dderbyniol.

b. Wrth holi[575] daeth yn amlwg o ddogfennau RYA cyhoeddus fod yr RYA mewn gwirionedd wedi gwrthwynebu prosiectau llanw eraill,[576] ac yna ceisiodd Mr Hill awgrymu mai'r hyn yr oedd yn ei olygu oedd mai dyma'r tro cyntaf i'r RYA fynd i lefel ymchwiliad cyhoeddus yn gwrthwynebu TWAO. O ystyried mai dyma'r TWAO cyntaf ar gyfer prosiect llanw, nid yw hynny'n golygu fawr ddim.

(ii) Pan ofynnwyd iddo roi sylw i'r ail fantais (hyrwyddo Ynys Môn), awgrymodd Mr Hill fod hyn "*y tu hwnt i gylch gwaith yr RYA*", ac y dylid cymryd camau i sicrhau nad yw'n niweidio diwydiant cychod hamdden “*ffyniannus*” y DU. Pan gafodd ei bwyso, ni allai ddarparu unrhyw ffigurau i gefnogi'r farn bod y diwydiant cychod hamdden yng Nghymru neu Ynys Môn yn "ffynnu".

(iii) Pan ofynnwyd iddo roi sylw i’r drydedd fantais (creu swyddi), dywedodd Mr Hill nad oedd yn gymwys i siarad am hynny a dweud bod gan gychod ddiwydiant y tu ôl iddynt. Unwaith eto, pan gafodd ei bwyso, gwrthododd dderbyn bod y swyddi a grëwyd o fudd. Cynigiwn nad oes sail mewn gwirionedd y gallai unrhyw barti rhesymol ei rhoi i beidio ag ystyried bod creu swyddi mewn ardal ddifreintiedig fel Gogledd Cymru yn beth da; roedd safbwynt Mr Hill a safbwynt yr RYA yn hyn o beth yn chwerthinllyd. Wrth gwrs, mae o fudd i bob un ohonom i'r cyfranogwyr perthnasol gydnabod eu cyfyngiadau a pheidio â cheisio rhoi tystiolaeth ar faterion y tu allan i'w harbenigedd. Fodd bynnag, mae'r ffaith bod RYA yn teimlo eu bod yn gorfod peidio â chytuno â chynnig mor sylfaenol yn dangos y farn eithriadol o gul y mae'n agosáu ati o ran yr achos hwn.

311. Gan dynnu'r holl edafedd hynny at ei gilydd, daw'n amlwg mai’r hyn sydd gennym yma yw llinyn arbennig o anarferol o NIMBYaeth a elwir yn NIMBAaeth – nid cymaint "ddim yn fy iard gefn i", mwy "ddim yn fy ardal gychod i." Mae'r RYA yn cefnogi ynni adnewyddadwy, ar yr amod nad ydynt lle mae ei aelodau am hwylio. Maent yn ystyried eu hunain yn ddigon cymwys i roi barn am ddiwydiant cychod "ffyniannus" y DU, ond dim digon i drafod hyrwyddo cyflogaeth ar Ynys Môn. Maent am gefnogi swyddi yn y diwydiant cychod, ond ni allant roi barn am unrhyw rai eraill. Gallai’r RYA ddweud yn rhesymol iawn mai’r corff cynrychioliadol ar gyfer cychod hamdden ydyw ac felly dyna sydd o bwys iddo. Mae'n ddigon posibl bod hynny'n iawn, ond

[573] RT economaidd-gymdeithasol, Diwrnod 5 sesiwn AM 2.
[574] RT economaidd-gymdeithasol, Diwrnod 5 sesiwn AM 2.
[575] RT economaidd-gymdeithasol, Diwrnod 5, sesiwn PM 1
[576] Cyfeirir at y gwrthwynebiadau hyn yn y ddogfen RYA sydd ynghlwm wrth ei Ddatganiad Achos.

felly mae'n bwysig i Weinidogion Cymru werthfawrogi nad yw sylwadau'r RYA, felly, yn dechrau o safbwynt cytbwys. Yn wir, er nad ydym yn dymuno'n arbennig ychwanegu at derfyniad sydd eisoes yn hirfaith drwy wyntyllu'r pwynt hwn yn ormodol, gellir gweld agwedd rwystrol yr RYA at y trafodion hyn yn glir yn y digwyddiadau sy'n ymwneud â'r Datganiad o Dir Cyffredin y gwnaethom fethu ei gytuno â hwy. Anfonwyd drafft atynt ar 2 Tachwedd 2020. Ni chafwyd ymateb. Yn yr RT economaidd-gymdeithasol, cyhoeddodd Mr Hill wedyn na fyddai'r RYA yn cytuno ar Ddatganiad o Dir Cyffredin – a ninnau wedi mynegi siom ddifrifol yn hyn. Ar 28 Ionawr, ychydig cyn 6pm, dychwelodd yr RYA y Datganiad Tir Cyffredin drafft – ac roedd yn amlwg nad oedd bron dim wedi'i gytuno mewn gwirionedd. Roedd hwn un diwrnod gwaith cyn oedd yr ymchwiliad i fod i ailddechrau'r sesiwn fordwyo. Ymatebodd Eversheds Sutherland i ddweud na fyddem yn gallu ymateb, o ystyried ei fod wedi'i ddychwelyd mor hwyr.

312. Yn erbyn y cefndir hwnnw, trown at y manylion. Mae Pennod 25 yr ES yn mynd i'r afael ag effeithiau economaidd-gymdeithasol y datblygiad. Yn fras, mae'n sefydlu llinell sylfaen, ac yn mynd ymlaen i asesu effeithiau economaidd-gymdeithasol y prosiect. Amlinellir y crynodeb yn Nhabl 25-38, ac rydym newydd drafod llawer o'r manteision. Dyna'r ddogfen allweddol gyntaf i Weinidogion Cymru ac, wrth oedi yno, hoffem wneud tri phwynt am hyn:

(i) Yn gyntaf, mae'r llinell sylfaen a'r hyn a aseswyd yn llawer ehangach na chwaraeon dŵr hamdden. Os edrychwch ar adran 25.4 ac yn arbennig para. 62, gwelwch fod yr asesiad hwn yn cynnwys Poblogaeth a Demograffeg; Cyflogaeth a GYC; Sgiliau, Hyfforddiant ac Addysg; Tai a Llety; Pysgodfeydd Masnachol; Llongau a Mordwyo; Twristiaeth; Hamdden; a Threftadaeth Ddiwylliannol. Ym mharagraff 164 fe welwch fod yr effeithiau a aseswyd mewn materion cymdeithasol, materion economaidd, materion swyddi a chyflogaeth, materion sgiliau a hyfforddiant, yr effeithiau ar dwristiaeth, hamdden, llongau a physgota a materion seilwaith. Amlinellir yr effeithiau sy'n destun asesiad manwl ym mharagraff 171. Y pwynt allweddol i dynnu sylw ato yw mai astudiaeth eang yw hon, i edrych ar bob sector o'r economi.

(ii) Codwyd pryder ynghylch i ba raddau y mae defnyddwyr amwynder hamdden chwaraeon dŵr yn ymddangos yn y llinell sylfaen honno. Rydym yn cyfeirio'r ymchwiliad yn benodol at adran 25.4.8. Mae honno'n edrych ar y lefel genedlaethol, ranbarthol a lleol. Ar y lefel ranbarthol, mae'n cyfeirio at gaiacio a hwylio fel gweithgareddau rhanbarthol poblogaidd ledled Gogledd Cymru (gweler para. 131). Ar lefel leol, amlinellir hwylio ym mharagraff 139,[577] a chaiacio ym mharagraff 142.[578] Mae'r ystyriaeth ym mharagraff 139 hefyd yn

[577] "*Mae gan Ynys Môn gymuned hwylio ffyniannus. Mae'r ynys yn gartref i chwe chlwb hwylio sy'n darparu ar gyfer hwylio dingi arfordirol i hwylio'r dyfnfor. Yn ystod mis Awst bob blwyddyn, mae'r Ynys yn cynnal Regata Afon Menai, gyda regata 2018 yn denu tua 100 o gychod. Un o uchafbwyntiau'r Regata hon yw'r Ras o Amgylch Môn sydd wedi digwydd ers 1966 ac sy'n gylchfordaith ddi-stop o gwmpas yr Ynys. Mae llawer o arfordir Ynys Môn yn destun ychydig bach neu gymedrol o weithgarwch cychod hamdden ger y lan (Atlas Cychod Hamdden Mynediad Arfordirol y DU) – gweler **Pennod 15, Llongau a Mordwyo**.*"

[578] "*Mae Ynys Môn yn gyrchfan boblogaidd ar gyfer caiacio môr i nofyddion a phadlwyr profiadol. Mae caiacio môr yn digwydd o amgylch dyfroedd arfordirol yr ynys i gyd, ond mae gan arfordir gogleddol Ynys Môn gyfuniad heriol o glogwyni serth, ffrydiau llanw cryf, ynysoedd pell o'r lan a baeau cysgodol. Mae'r ardal o fôr o amgylch Ynys Gybi gan gynnwys yr MDZ yn arbennig o heriol ei natur ac yn gyffredinol dim ond ar gyfer caiacwyr profiadol y caiff ei*

croesgyfeirio at bennod llongau a mordwyo'r ES, lle bydd yr ymchwiliad yn dod o hyd i gryn dipyn o fanylion, yno ac yn yr NRA a'r NRAA ar ddefnydd gan gychod. Cwmpaswyd yr ES hwnnw gyda'r Arolygiaeth Gynllunio, a ofynnodd am fwy o wybodaeth am dwristiaeth a hamdden ond nid cychod yn benodol.[579]

(iii) Holodd Mr Hill ymhellach i ba raddau y mae'r morio pellter hir o'r Alban, Gogledd Iwerddon, Ynys Manaw a Gweriniaeth Iwerddon yn ymddangos yn y llinell sylfaen. Unwaith eto, i'r graddau y mae'r rhain yn cyfrannu at yr economi leol drwy faterion fel creu swyddi a gwariant ymwelwyr, caiff hynny ei ddal.

313. Yna cynhaliodd Dr Jones Asesiad Twristiaeth a Hamdden Atodol[580] rhwng mis Ionawr a mis Mawrth 2020. Unwaith eto, rydym yn pwysleisio y dylid cadw hyn yn ei gyd-destun – mae'n canolbwyntio'n llwyr ar dwristiaeth a hamdden, ac nid yw'r ffaith bod hyn wedi'i wneud yn amharu ar ddilysrwydd yr asesiad 'darlun mawr' mwy cyffredinol a gynhaliwyd ym Mhennod 25 o'r ES. Rhedodd drwy'r pwyntiau allweddol o hyn yn ei dystiolaeth lafar, a gweler hefyd adran 6 o'i Brawf o Dystiolaeth.[581] Yn fyr, cynhaliodd hyn ddadansoddiad yn seiliedig ar (1) data sydd ar gael i'r cyhoedd a gyhoeddwyd drwy system NOMIS (gwasanaeth a ddarperir gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol) (2) cyfweliadau â busnesau lleol a (3) astudiaethau achos bwrdd gwaith i ategu (2). Mae'r asesiad hwn, a lywiwyd gan ddata NOMIS, yn cydnabod pwysigrwydd twristiaeth a hamdden i Ynys Môn – roedd yn cyfrif am 16.2% o bawb a gyflogwyd ar Ynys Môn, a 41% o'r holl gyflogaeth ar Ynys Gybi. O'r 41%, roedd 86% yn llety a bwyd, a'r 14% arall yn y celfyddydau, adloniant a hamdden. Yna ceisiodd yr astudiaeth gyfweld â 14 o fusnesau, a ddewiswyd oherwydd eu lleoliad ac oherwydd y gallent roi darlun eang o'r sector twristiaeth a hamdden. O'r pedwar ar ddeg o fusnesau hynny, ymatebodd wyth. O'r wyth hynny, roedd pump yn gweithredu ar dir, a thri ar y môr. Roedd y rhaniad hwn, meddai Dr Jones, yn galluogi Menter Môn i grisialu gwahanol agweddau ar y sector twristiaeth a hamdden. Prif ganfyddiadau'r cyfweliadau hynny oedd:

(i) *Gallai* prosiect Morlais gael effaith andwyol ar gynnig yr ardal i dwristiaid. Er enghraifft, drwy gyfyngiadau ar lwybrau caiacio, yr effaith ar geryntau trolif, tagfeydd traffig yn ystod y cyfnod adeiladu, mynediad i'r llwybrau arfordirol, a'r effaith ar y golygfeydd.

(ii) Mae busnesau'n credu y *gallai* prosiect Morlais gael effaith gadarnhaol ar y sector twristiaeth lleol, ac mae busnesau sydd eisoes wedi cael profiad o hyn. Mae contractwyr a pheirianwyr sy'n gweithio ar y datblygiad yn aros yn yr ardal leol, sydd o fudd i westai a bwytai lleol, a dim ond tyfu y disgwylir i'r duedd hon ei wneud wrth i ddatblygiad Morlais fynd rhagddo. Amlygwyd pwysigrwydd 'twristiaid busnes' yn y cyfweliadau (h.y. bydd y rhai sy'n dod i'r ardal ar fusnes yn ystod yr wythnos yn dychwelyd ar wyliau gyda'u teulu).

---

*hargymell (Krawiecki a Biggs, 2013). Bydd y gymuned caiacio môr, gan gynnwys clybiau lleol a darparwyr hyfforddiant caiacio lleol, yn cael gwybod am ddatblygiad y safle, yn enwedig yn ystod y cyfnod adeiladu a'r gwaith gosod cebl yn agosach at y lan. Ategir hyn drwy gyflwyno arwyddion perthnasol.*"

[579] Cyf: MDZ/A8, tt46-47
[580] Cyf: MDZ/H1
[581] Cyf: MDZ/P6

(iii) Mae yna fusnesau sy'n credu y bydd gan dwristiaid ddiddordeb mewn gweld datblygiad ynni'r llanw (h.y. 'twristiaeth ddiwydiannol'), a bod Morlais yn barhad o hanes cyfoethog Ynys Môn o arloesi a'i pherthynas â'r môr. Rhoddwyd Experimentarium yn Copenhagen fel enghraifft o ddefnyddio technoleg ac arloesedd newydd i ddenu ymwelwyr i'r ardal.

314. Roedd yr astudiaethau achos a oedd yn ategu'r cyfweliadau hyn yn dangos nad yw cynhyrchu ynni morol yn cael unrhyw effaith ar weithgareddau twristiaeth lleol, neu effaith ddibwys yn unig. Tynnodd sylw at y ffaith nad yw ynysoedd Orkney (cymharydd defnyddiol gan eu bod hefyd yn ddeniadol ar gyfer hanes a diwylliant) wedi dioddef gostyngiad yn nifer yr ymwelwyr ers gosod tyrbinau yno – o 2013-2017 roedd gwerth ymweliadau ag ynysoedd Orkney wedi cynyddu o £31.1 miliwn i £49.5 miliwn. Gan droi at Barth Arddangos Sir Benfro, mae ymchwil gan Grŵp Ymchwil Ynni Morol Prifysgol Abertawe wedi canfod, mewn ardal lle cyfrannodd yr amgylchedd morol at 78% o fwynhad ymwelwyr o'r ardal, mai dim ond 3.5% fyddai'n cael eu hannog i beidio ag ymweld oherwydd datblygiadau ynni adnewyddadwy morol. Yn olaf, yng Ngwynt y Môr, ychydig iawn o effaith, os o gwbl, y mae aráe tyrbinau gwynt ar y môr 576MW wedi'i chael ar y sector twristiaeth yn Llandudno. Holodd yr Arolygydd a oedd yr enghraifft olaf hon yn gymharydd defnyddiol o gofio bod Llandudno'n fwy adeiledig na'r ardal uniongyrchol, a chynigiwn fod ymateb Dr Jones (sef bod llawer o economi twristiaeth Llandudno ar lan y môr oherwydd ei golygfeydd agored, yn awr gyda ffermydd gwynt) yn ateb y pryder hwnnw. At hynny, gall yr ymchwiliad gymryd cysur o'r ffaith bod ei ymchwil hefyd yn seiliedig ar Ynysoedd Orkney.

315. Nawr, nid yw'r camau a gymerodd Menter Môn yn dod i ben yno (byddwn yn dod i'r camau lliniaru mewn munud), ond codwyd ymholiadau pellach am yr asesiad atodol hwn gan RYA a SCC y byddai'n dda petai'n ymdrin â hwy yn awr.

(i) Yn gyntaf, codwyd cwestiynau am ddigonolrwydd y cyfweliadau. Fel yr eglurodd Dr Jones[582] mae'n hapus bod y cyfweliadau â busnesau a rhanddeiliaid lleol wedi'u cael a'u hystyried yn briodol. Nid oes angen inni ddweud mwy am hynny.

(ii) Codwyd cwestiwn gan SCC am ddefnyddio papur Grŵp Ymchwil Ynni Morol, o ystyried (a) ei fod yn gofyn cwestiwn damcaniaethol ac nad oedd ynddo'i hun yn astudiaeth hydredol a (b) nid oedd cyfranogwyr chwaraeon dŵr yn cael eu cynrychioli'n ddigonol yn yr ymateb. Dywedodd Ms Wong ar ran SCC eu bod wedi rhoi'r un cwestiwn yn eu harolygon ac wedi cael ymateb gwahanol, ac yna gofynnodd sut y dylid cydbwyso'r ddau. Mae tri ymateb.

a. Yn gyntaf, fel yr amlinellwyd eisoes, nid oes unrhyw astudiaethau hydredol – mae hwn yn fwlch i'w lenwi, ac mae Dr Jones yn gweithio ar y wybodaeth orau sydd ar gael.

b. Yn ail, gyda'r parch mwyaf at SCC, os dewis rhwng dau arolwg, dylid rhoi blaenoriaeth i'r un a gyhoeddwyd mewn cyfnodolyn blaenllaw a adolygwyd gan gymheiriaid a gynhelir gan academyddion.

c. Fel y nododd Dr Jones, mae'r awduron yn defnyddio'r dull asesu "costau teithio" a "prisiad amodol", ac mae'r cyntaf yn ystyried y costau

[582] Diwrnod RT Economaidd-gymdeithasol 5, sesiwn AM 2.

gwirioneddol a ysgwyddir gan ymwelwyr. Felly, mae data gwirioneddol y tu ôl i'r ddadl honno ac nid yw'n gwbl ddamcaniaethol, fel yr awgrymwyd gan SCC.

(iii) Codwyd cwestiwn gan RYA am ddefnyddio data NOMIS. Awgrymodd yr RYA fod Grŵp Defnyddwyr a Datblygwyr Gwely'r Môr o'r farn nad yw defnyddio codau Dosbarthiad Diwydiannol Safonol (SIC) (a ddefnyddir i lywio data ONS) yn cydymffurfio'n dda â gweithgareddau morol. Mae gennym chwe phwynt

a. Yn gyntaf, mae hwn yn ddadansoddiad economaidd hynod o fanwl gan sefydliad a oedd yn teimlo nad oedd yn gallu dweud bod creu swyddi yng Ngogledd Cymru yn beth da.

b. Yn ail, mae NOMIS yn wasanaeth a ddarperir gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol, i roi mynediad at yr ystadegau manylaf a diweddaraf am y farchnad lafur yn y DU o ffynonellau swyddogol. Data'r llywodraeth ydyw.[583]

c. Yn drydydd, cadarnhaodd Dr Jones fod academyddion a gweithwyr proffesiynol eraill yn dibynnu'n aml ar ddata NOMIS.

d. Yn bedwerydd, mae'n crisialu gwybodaeth o sawl ffynhonnell.

e. Yn bumed, sylwn fod sylw IoACC ar 11 Mai 2020 yn cefnogi'r defnydd o setiau data NOMIS.[584]

f. Yn chweched, nid ydym yn hollol siŵr i ble mae hyn yn mynd. Mae'r asesiadau a wnaed yn dangos budd economaidd i'r ardal. Os yw'r RYA yn mynd i honni bod hynny'n anghywir, neu fod yr economi'n cael ei sbarduno gan rywbeth arall (fel hamdden) mewn gwirionedd, roedd angen asesiad economaidd arnynt i gefnogi hynny. Ni ddarperir yr un ohonynt.

(iv) Ceisiodd yr RYA feirniadu nifer y sefydliadau y cysylltwyd â hwy i gael cyfweliad, gan awgrymu'n benodol na chysylltwyd â chlybiau cychod a hwylio.[585] Dyma ein hymatebion:

a. cafwyd ymdrechion i gysylltu â busnesau eraill (gan gynnwys, er enghraifft, caiacio môr y DU) ond ni wnaethant ymateb;

b. fel y clywodd yr ymchwiliad gan Dr Jones – llety a bwyd yw prif sbardunau gweithgarwch economaidd sy'n gysylltiedig â thwristiaeth yn yr ardal, ac felly mae'r ffocws ar sicrhau bod hynny'n cael ei gynrychioli'n briodol; ac

c. roedd yr RYA yn atal Menter Môn rhag ymgysylltu'n uniongyrchol â chlybiau cychod.

316. Felly, er y beirniadaethau a wnaed, rydym yn cynnig bod digon o ddeunydd y gall Gweinidogion Cymru lunio barn ystyriol yn seiliedig arno am effeithiau economaidd-gymdeithasol y prosiect hwn. Ac rydym yn ail-bwysleisio y dylid ystyried y rhain dros yr economi gyfan – nid un rhan arbenigol ohoni, waeth pa mor faith yw cyflwyniadau ei chynrychiolwyr. Ein barn ni yw y bydd y prosiect hwn yn cael effaith economaidd-

[583] Prawf o Dystiolaeth Dr Jones (Cyf: MDZ/P6), troednodyn 1.
[584] Cyf: FEI REP00, para. 35
[585] Diwrnod RT Economaidd-Gymdeithasol 5 Sesiwn AM 2.

gymdeithasol fuddiol, am y rhesymau a amlinellir uchod. Clywodd yr ymchwiliad hefyd gan Dr Jones y gallai fod mantais ychwanegol i dwristiaeth ddiwydiannol - i bobl yn dod i weld sut mae ynni'n cael ei wneud o'r môr, fel y maen nhw yn Ynysoedd Orkney. Yn wir, dywedodd Dr Jones wrth yr Arolygydd fod tywyswyr lleol yn Ynysoedd Orkney wedi cael hyfforddiant ychwanegol oherwydd y diddordeb yn hyn, nid oes tystiolaeth ei fod wedi costio swyddi.[586] Cwestiynodd yr Arolygydd hynny, gan bwyso ar Dr Jones ynghylch oni fyddai'n deg tybio bod yn rhaid colli rhywfaint o'r gyfran honno o weithgarwch twristiaeth sy'n gysylltiedig ag adar, mannau agored, ac absenoldeb datblygiad. Fodd bynnag, ymatebodd yn deg iawn nad oedd unrhyw dystiolaeth glir i awgrymu gostyngiad yn nifer y twristiaid neu ymwelwyr – nid oes unrhyw dystiolaeth yn rhywle arall ac nid oes unrhyw ddangosyddion y byddai'n digwydd yma.[587] Mae'n ddigon posibl y bydd manteision. Fodd bynnag, er gwaethaf hyn oll, mae dull ceidwadol Menter Môn, fel yr amlinellwyd gan Dr Jones, wedi tybio effaith niwtral ar dwristiaeth.[588] Mae'r manteision economaidd cyffredinol yn amlwg yn gadarnhaol beth bynnag.

317. Ond beth petaem yn anghywir? Wel, dyma drydedd ran fawr ein hachos ar economeg gymdeithasol: y camau lliniaru y mae Menter Môn wedi'u rhoi ar waith. Rydym wedi mynd ymhellach na llawer o ddatblygwyr eraill ac wedi cytuno i sicrhau drwy amod cynllunio arolygon ar gyfer monitro effeithiau economaidd-gymdeithasol y prosiect, a'u lliniaru os ydynt yn negyddol. Cytunwyd ar y dull hwn gydag IoACC ac mae wedi lliniaru eu pryderon.[589] Gall y penderfynwr gymryd cysur o hyn – mae cynllun ar waith. Fel y cadarnhaodd Mr Solomon, safbwynt IoACC yw, lle bynnag yr ystyrir bod y llinell sylfaen yn eistedd, fod camau lliniaru ar waith i fynd i'r afael ag unrhyw effaith negyddol bosibl gan y cynllun.[590] Cyflwynwyd hefyd i'r ymchwiliad gynllun asesu a monitro caiacio a hwylio atodol.[591] Rydym yn rhagweld y bydd monitro caiacio a hwylio penodol yn rhan o'r cynllun ehangach a sicrhawyd gan amod 17 o'r caniatâd cynllunio tybiedig.[592]

318. Yn olaf, yn erbyn y cefndir gwaith manwl hwnnw, gadewch i ni siarad am effeithiau andwyol gwirioneddol – oherwydd, a dweud y gwir, nid oes llawer iawn o sylwedd a ddarperir ar hynny. Cymerwyd pwyntiau cyfyngedig, yn bennaf gan SCC ac RYA, felly mae'r pryder yn perthyn i isadran fechan o'r economi nid yr economi gyfan. Er hynny, rhoddodd yr Arolygydd y dasg i RYA a SCC, pe baent yn gwneud achos cadarnhaol y byddai effeithiau andwyol gwirioneddol, nodi ar ba lwybr y gallai hynny ddigwydd, a'r fector (h.y. maint y niwed) yr oeddent yn dadlau drosto. Awn i'r afael â phob un yn ei dro. Fodd bynnag, manteisiwn ar y cyfle hwn i atgoffa'r ymchwiliad o ddau bwynt allweddol y dywedwn eu bod yn effeithio'n sylweddol ar hyn. Yn gyntaf, fel y nodwyd eisoes, bod sefyllfa'r MDZ wedi'i llywio gan ofynion ynni a gwyddonol. Yn ail, rhaid annog cydfodoli os yw'n bosibl o gwbl. Cydnabyddir hyn gan bolisi ECON_02 a thestun ategol y WNMP. Mae natur y môr yn newid. Mae'r rheidrwydd polisi cryf tuag at ynni'r llanw a amlinellwyd gennym eisoes uchod yn golygu bod angen hyn. Os yw adnoddau llanw am gael eu defnyddio i gynhyrchu

586 RT economaidd-gymdeithasol, Diwrnod 5 Sesiwn PM 1.
587 RT economaidd-gymdeithasol, Diwrnod 5 Sesiwn PM 1.
588 RT economaidd-gymdeithasol, Diwrnod 5 Sesiwn PM 1.
589 Tystiolaeth Dr Jones RT Economaidd-Gymdeithasol, Diwrnod 5 Sesiwn PM 1; Tystiolaeth Mr Solomon Diwrnod 5 Sesiwn PM 1.
590 RT economaidd-gymdeithasol, Diwrnod 5 Sesiwn PM 1.
591 Cyf: MDZ/A28.58
592 Cyf: Dogfen yr Ymchwiliad – 098

ynni, mae hynny'n rhywbeth y bydd yn rhaid i ddefnyddwyr eraill y môr, megis caiacwyr a morwyr, addasu iddo. Nid oes ganddynt fonopoli ar yr adnodd hwn a rennir. Mae hyn yn rhywbeth y gwnaeth Ms Wong ei gydnabod yn deg iawn pan ddywedodd yr Arolygydd wrthi.[593] Gadewch inni droi, felly, at effeithiau niweidiol honedig y prosiect – i'r graddau fod unrhyw rai i'w cael.

319. Ar gyfer yr RYA, dechreuodd Mr Hill drwy ddweud mai dim ond pan fydd llinell sylfaen wedi'i chreu y gellir arddangos llwybrau, ac nad mater i'r RYA yw arddangos llwybrau pan fydd diffyg data.[594] Pan bwysodd yr Arolygydd arno, ni allai Mr Hill feddwl am unrhyw lwybr. Y gorau a ddywedwyd oedd bod 2,500 o aelodau'r RYA yno a thua 700 o gychod, roedd un clwb yn pryderu y byddai colled aelodaeth ac roedd clwb arall yn gyfagos. Dywedodd mai'r effaith fyddai ar y clybiau hynny, eu haelodaeth a beth fyddai'r sgil-effeithiau. Fodd bynnag, effeithiau yw'r rheini, nid llwybrau. Ni nododd, yn yr RT economaidd-gymdeithasol, sut y gallai rhywun fynd o ddyfeisiau yn y dŵr i leihau aelodaeth y clwb. Yn benodol, ni amlygodd effeithiau mordwyo fel llwybr (a thynnwyd sylw at hyn yn benodol gennym, felly gallai fod wedi dychwelyd arno). Ychydig yn ddiweddarach cododd bosibilrwydd yr effaith ar y farchnad morio pellter hir[595] ond eto nid oedd yn darparu llwybr. Ni ddarparodd yr RYA lwybr tan yr RT mordwyo cyntaf (wythnos yn ddiweddarach) – felly'n amlwg nid oeddent yn meddwl amdano cyn iddo gael ei godi'n benodol yn yr RT economaidd-gymdeithasol, ac mae hynny'n effeithio ar y pwys y dylai'r penderfynwr ei roi i'w achos.

320. Ar gyfer SCC dywedodd Ms Wong y byddai cyfnod o addasu i bob pwrpas ac, er gallai caiacwyr lleol addasu, roedd cwestiwn a allai'r diwydiant yma adfer o'r cyfnod addasu hwnnw oherwydd y byddai'r ardal wedi'i gwneud yn llai dymunol.[596] Felly, mae'n ymddangos bod dau fater: yn gyntaf, unrhyw faterion a achosir gan y cyfnod addasu;[597] yn ail, a fyddai'r ardal yn cael ei hystyried yn llai dymunol ar ôl hynny. Fel pwynt cyffredinol, hyd y gallwn ei ddweud, gyda gwerth dwy flynedd o ddata, prin yw'r rhyngweithio rhwng caiacwyr a'r MDZ.[598] Codwyd pwynt am newidiadau i geryntau. Ymdrinnir â hyn gan adroddiad a gomisiynwyd yn benodol at y diben hwnnw [599] ac er ein bod yn cydnabod y byddai rhywfaint o newid, nid oes sail wirioneddol iddo gael unrhyw effaith ar economeg gymdeithasol yr ardal. Fel y nododd yr Arolygydd yn gryno, gall caiacio barhau. Fodd bynnag, yn gyffredinol, nodwn hefyd fod SCC, yn eu hymateb diweddaraf i'r FEI, wedi dweud nad oes neb yn disgwyl y bydd caiacwyr yn methu defnyddio'r ardal gyda'r MDZ ar waith.[600] Dyna eu llinell waelod a dywedwn ei bod yn gywir. Mewn gwirionedd, bu SCC yn glir iawn drwy ba lwybr y dywed y bydd gosod dyfeisiau yn cael effaith negyddol ar yr economi leol: y canfyddiad o risg ydyw. Yn yr achos hwn, am resymau a amlinellir isod ac a gwmpaswyd yn y sesiwn fordwyo, cynigir nad oes unrhyw effaith ar iechyd a diogelwch. Mae'r ofnau'n ddi-sail. Felly, mae'r cwestiwn yn codi i ba raddau y byddai canlyniadau defnydd tir yn dilyn o'r ofn di-sail hwn? Rydym yn cynnig nad oes sail i feddwl hynny o gwbl:

593 Diwrnod 5, sesiwn AM 1.
594 RT economaidd-gymdeithasol, Diwrnod 5 Sesiwn AM 2 a sesiwn PM 1.
595 Diwrnod 5, sesiwn PM 1.
596 Diwrnod 5, Sesiwn AM 1 a sesiwn PM 1.
597 Tystiolaeth Mr Pattullo, RT Economaidd-Gymdeithasol, Diwrnod 5, sesiwn AM 1.
598 Cyf: MDZ/A28.40
599 Cyf: MDZ/A31.1
600 Cyf: EIC012, t. 4.

(i) Fel y nododd Dr Jones, nid oes unrhyw dystiolaeth bod unrhyw effaith negyddol o osod y dyfeisiau hyn. Yn wir, tystiolaeth Mr Dennis oedd y gallai rhai caiacwyr fynd i chwarae yno.[601]

(ii) Fel y nododd Dr Jones, mae rhywfaint o dystiolaeth y bydd angen hyd yn oed mwy o dywyswyr, gan gyfrannu at dwf y sector.

(iii) Fodd bynnag, fel y nododd yr Arolygydd: bydd y ffrydlifoedd llanw yno o hyd. Bydd y draethlin yn dal i fod yno. Bydd yr holl faterion y mae caiacwyr yn ymwneud â hwy, ac yn eu mwynhau, yn dal i fod yno. Byddai gan gaiacwyr rai dyfeisiau i'r gorllewin, dyna'i gyd. Efallai bod ychydig llai o lif, ond mae'r llifoedd yn dal yno.[602]

321. Mae'n werth treulio eiliad ar y strategaeth fonitro. Mae hon ar y gweill. Gall, fel y nododd Dr Jones, gynnwys clybiau cysylltiedig â'r RYA. Ni wadir bod angen casglu rhagor o wybodaeth. Bydd, unwaith eto, yn cynnwys cyfweliadau strwythuredig a data SYG,[603] ochr yn ochr â data a gasglwyd gan ddefnyddio technoleg awtomataidd.[604] Mynegwyd rhai pryderon am hyn, ond fel y nododd yr Arolygydd sy'n manylu ar y strategaeth a gynigiwyd – mae'r manylion i'w datrys yn unol ag amod drafft 17 (?) yn nes at yr amser. Ein cynnig yw, mae hyn yn parhau i fod yn rhan lai o'r economi gyfan, ac mae strategaeth eisoes yn bodoli i'w diogelu.

322. Yn olaf, gadewch inni droi at y camau y mae'r prosiect hwn wedi'u rhoi ar waith i fanteisio i'r eithaf ar gyfleoedd cyflogaeth lleol. Ni threuliwyd llawer o amser ar hyn yn ystod yr RT economaidd-gymdeithasol, ond rydym o'r farn ei fod yn bwynt allweddol. Mae Menter Môn wedi cytuno i sefydlu cynllun gweithredu hyfforddiant sgiliau a chynllun gweithredu cadwyn gyflenwi. Datblygwyd Cynllun Gweithredu'r Gadwyn Gyflenwi drwy drafod gydag IoACC ac mae'n seiliedig ar effaith gadarnhaol strategaeth gaffael Cyngor Sir Gwynedd "Cadw'r Budd yn Lleol". Clywodd yr ymchwiliad gan Mr Gleeson fod ei gwmni eisoes wedi cwrdd â nifer o gwmnïau lleol, ac yn cael eu synnu a'u plesio gan yr hyn sydd ar gael. Yn hollbwysig, rhagwelodd hefyd bosibilrwydd cyflwyno prosiectau pellach ledled y DU a Ffrainc, gan ddefnyddio'r gadwyn gyflenwi o amgylch Ynys Môn os gellir ei huwchsgilio.[605] Mae cryn fantais "symudwr cyntaf" yma. Datblygwyd y cynllun gweithredu sgiliau a hyfforddiant hefyd drwy drafod ag IoACC a rheolwr sgiliau rhanbarthol Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Gogledd Cymru. Gofynnodd yr Arolygydd i Dr Jones roi hyn yn ei gyd-destun – a gwnaeth hynny. Mae nifer fawr o gyflenwyr ar yr ynys a uwchsgiliodd ac a gafodd amrywiaeth o ganiatâd a thystysgrifau i baratoi ar gyfer Wylfa. Efallai y bydd angen addasu rhai sgiliau ychydig, ond mae busnesau yma'n barod ac yn gallu manteisio ar fanteision y prosiect hwn. Mae'r cynlluniau gweithredu yn bodoli i sicrhau hynny.

---

601 Sesiwn siarad cyhoeddus Diwrnod 2 PM, Cyf: Dogfen yr Ymchwiliad – 013.

602 Diwrnod 5 Sesiwn PM 1.

603 Dr Jones yn RT Economaidd-Gymdeithasol Diwrnod 5, sesiwn PM 1. Gofynnodd Ms Wong pam nad ellid defnyddio'r safbwyntiau a fynegwyd ar hyn o bryd – byddai hynny'n hunan-drechol. Y pwynt yw gweld sut mae pethau'n newid ar ôl i'r MDZ gael ei osod.

604 Mynegwyd rhai pryderon gan SCC am y dechnoleg y bwriedir ei defnyddio – mae hwn yn bwynt bach am fod modd datblygu'r strategaeth mewn ymgynghoriad â rhanddeiliaid o'r fath.

605 Diwrnod 5 Sesiwn PM 1.

323. Bu hon yn adran hir – yn bennaf oherwydd yr amser anghymesur a dreuliwyd ar y pryderon a godwyd gan SCC ac RYA. Amlinellwyd yn gryno ein safbwynt ar ddechrau'r sesiwn hon ac nid ydym yn bwriadu gwneud hynny eto.

## 5. Materion morol heblaw bioamrywiaeth - mordwyo

324. Rydym, felly, yn dod i faterion morol heblaw bioamrywiaeth - mordwyo. Ni all Menter Môn roi ei safbwynt yn well o gwbl nag a gynhwyswyd yng nghrynodeb Cdr Brown, yr aethom drwy ei gymwysterau yn ystod yr RT mordwyo ac sy'n siarad drostynt eu hunain. Mae Menter Môn yn cydnabod y bydd y prosiect hwn yn cyflwyno eitemau i'r môr nad oeddent yn bresennol o'r blaen, ac y bydd hyn yn anochel yn newid y proffil risg sy'n gysylltiedig ag ardal môr Gorllewin Ynys Môn. Mae wedi ymrwymo i gynnal diogelwch defnyddwyr dŵr. Mae wedi comisiynu dau NRA llawn – NRA cychwynnol (yr "NRA Cyntaf") ac un arall (yr "NRAA")[606] yn dilyn newidiadau sylweddol i'r prosiect (cyflwyno parth UKC 8m a chyflwyno'r parth UKC 20m)[607] wedi'u cynllunio'n benodol i liniaru'r risgiau a nodwyd yn yr NRA Cyntaf.[608] Er ceisiwyd eglurhad ynghylch data'r arolwg a ddefnyddiwyd ac ansawdd yr NRA a'r NRAA, fel y cytunwyd gan yr MCA, mae'r ddau asesiad hyn yn glynu wrth ofynion Nodyn Cyfarwyddyd Morol 543 ("MGN 543") – y Canllawiau MCA perthnasol. Asesodd yr NRAA fod yr holl risgiau sy'n gysylltiedig â'r prosiect mor isel ag sy'n rhesymol ymarferol ("ALARP") neu'n is. Nodwn hefyd y tri chynnig allweddol a amlinellwyd gan yr Arolygydd ar ddechrau'r RT mordwyo – mae diogelwch morol hefyd yn cael ei reoleiddio gan yr ML, nid oes rheswm dros amau na fyddai trwydded yn cael ei chyhoeddi o gwbl,[609] ond nid oes rheswm ychwaith dros amau cymhwysedd y rheoleiddiwr yn yr achos hwn (felly, gellir tybio bod CNC yn amddiffyn diogelwch defnyddwyr yn ddigonol). Yn gysylltiedig â hyn, aethom i'r afael uchod â'r marciau perthnasol sy'n ofynnol gan Trinity House a sut y caiff y rhain eu hasesu fel rhan o'r DDP – nid ydym yn cynnig dweud mwy yma ond cyfeirio at hynny

---

[606] Cyf: MDZ/I1

[607] Roedd cais am eglurhad am ddewisiadau UKC. Roedd yr MCA wedi gofyn am rywfaint o wybodaeth, ond darparwyd hyn a datryswyd y mater gyda hwy – gweler y Datganiad o Dir Cyffredin yng Nghyf: MDZ/L8 tt.16-17. Yna, gofynnodd yr RYA am eglurhad pellach ynghylch sut y dewiswyd amseroedd y flwyddyn (RT Mordwyo, Diwrnod 10 Sesiwn PM 2). Mae Adran 10 o'r NRAA (Cyf: MDZ/I1, tt. 74-78) yn esbonio bod UKC o 8m ac 20m wedi'u cyfrifo i ddechrau gan ddefnyddio Papur Polisi Lle o Dan y Cilbren yr MCA, wedi'i ategu gan ymgynghoriad lleol er mwyn canfod UKC a fyddai'n "caniatáu mordwyo diogel a pharhaus o fewn yr MDZ". Crynhoir yr adborth yn Nhabl 10-2. Esboniodd Cdr Brown hefyd fod ffin ddiogelwch o 30% yn cael ei chymhwyso i sicrhau, yn y storm waethaf, gyda llong wedi'i thrimio yn y ffordd waethaf, yn wynebu'r tonnau gwaethaf, fod "dim siawns +30%" o hyd y bydd llong yn taro TEC.

[608] Yn ystod yr ail RT Mordwyo (Diwrnod 11), Sesiwn PM 2, cododd Mr Pattullo ar gyfer SCC ymholiad ynghylch risg i fywyd. Er nad oedd yr ymholiad yn gwbl glir, roedd fel petai'n gofyn am raddio risgiau rhwng yr NRA a'r NRAA. Yn gryno, mae'r anghysondeb yn codi oherwydd bod yr NRAA yn asesu dyluniad gwahanol, mwy diogel na'r NRA – nid yw'n wir bod risg wedi'i "throsi" rhwng y ddau fel y deallwyd, fel petai. Mewn terfyniadau, mae'n ymddangos bod SCC yn gofyn am raddio risgiau o fewn yr NRA. Mae hwn yn bwynt gwahanol, ac mae'n un o swyddogaethau'r broses NRA sy'n ofynnol gan MGN 543, ac nid dyma'r lle i'w herio.

[609] Mynegodd Mr Pattullo ar gyfer SCC amheuon ynghylch a allai CNC gyhoeddi ML oherwydd y pryderon a fynegwyd gan SCC. Fodd bynnag, pan ofynnwyd iddo gan yr Arolygydd, dywedodd nad oedd CNC wedi rhoi unrhyw reswm i SCC feddwl hynny.

ar gyfer y darllenydd gan ei fod hefyd wedi'i drafod yn yr RT mordwyo, ac wrth gwrs yn effeithio ar ddiogelwch.[610] Y materion y mae'r partïon wedi anghytuno arnynt yw:

(i) A oes amwynder yn cael ei golli;

(ii) A oes digon o le i'r môr yn y llwybr gyda’r glannau;

(iii) I ba raddau y mae llongau eraill yn cael eu dadleoli;

(iv) Graddau'r ymgysylltu cydweithredol; a

(v) Rhyngweithio caiacwyr â'r MDZ.

325. Nid oes yr un o'r rhain, dywedwn, yn rheswm dros beidio â rhoi caniatâd.

326. Fel pwynt rhagarweiniol pellach, cytunwyd ar ddatganiadau Tir Cyffredin ar longau a mordwyo rhwng Menter Môn a Trinity House[611] a'r MCA.[612] Cyfeirir at gyfrannau o hyn lle bo hynny'n berthnasol.

327. O ran yr MCA, clywodd yr ymchwiliad gan Mr Salter, er bod tri pheth yn dal i gael eu trafod (lle’r llwybr gyda’r glannau, dadleoli llongau, a risg caiacwyr), mai dim ond y cyntaf a'r trydydd oedd heb eu cytuno. Mae'r MCA yn fodlon ar y mater dadleoli, fel y byddwn yn ei drafod maes o law.[613]

328. O ran Trinity House, clywodd yr ymchwiliad gan Mr McNamara fod Trinity House wedi gweithio'n agos gyda Menter Môn i ddarparu amodau trwydded forol awgrymedig a newidiadau i'r Gorchymyn i fynd i'r afael â'u pryderon. Rydym bellach wedi gwneud hyn, fel y cadarnhaodd Mr McNamara, ac ar yr amod ein bod yn cyflwyno'r diwygiadau i'r Gorchymyn a’r amodau ML y mae Trinity House yn eu ceisio (ac rydym wedi gwneud hynny), maent yn fodlon.[614] Cadarnhaodd Mr McNamara fod yr ardaloedd a restrir yn y Datganiad o Dir Cyffredin fel rhai "parhaus" yn adlewyrchu materion yr ymdrinnir â hwy o dan yr ML, a bod Trinity House am ddefnyddio fforwm y Datganiad o Dir Cyffredin i gofnodi hynny er mwyn cyfeirio ato ymhellach. Nid oes awgrym bod y rheini'n rhwystr i'r Gorchymyn.[615]

329. Yn ogystal, nid oes unrhyw wrthwynebiadau gan y Siambr Llongau, Irish Ferries, Stena Line na'r RNLI.

*NRA yn gyffredinol*

330. Mae'n helpu i ddechrau drwy ystyried beth yw NRA a sut mae'n digwydd. Eglurodd Cdr Brown hyn, yn fyr, yn ei dystiolaeth lafar.[616] Yn fyr, er ei bod yn ddyddiau cynnar ar ddatblygu ynni'r llanw, mae'r broses cymeradwyo morol ar gyfer

[610] Tystiolaeth Tom McNamara a’r Capten Trevor Harris, RT Mordwyo 1 (Diwrnod 10) Sesiwn AM 2.
[611] Cyf: MDZ/L9
[612] Cyf: MDZ/L8
[613] Tystiolaeth Mr Salter, Diwrnod Mordwyo RT 10 Sesiwn AM 1.
[614] Tystiolaeth Mr McNamara, RT Mordwyo Diwrnod 10 Sesiwn AM 1.
[615] Tystiolaeth Mr McNamara, RT Mordwyo Diwrnod 10 Sesiwn AM 2.
[616] Tystiolaeth Cdr Brown, RT Mordwyo, Diwrnod 10, Sesiwn AM 1.

Gosodiadau Ynni Adnewyddadwy ar y Môr ("OREI") eisoes yn eithaf aeddfed. Mae'r MCA, sef awdurdod y DU ar gyfer diogelwch mordwyo, wedi cyhoeddi MGN 543,[617] sy'n nodi'r cyfnodau a'r camau y mae'n rhaid i ddatblygwr basio drwyddynt er mwyn bodloni'r safonau sy'n ofynnol ar gyfer cymeradwyo. Cynlluniwyd hyn yn benodol gyda'r rhwymedigaethau deddfwriaethol perthnasol mewn golwg – gweler paragraffau 2.1-2.5. Mae'r MGN yn gofyn am asesiad risg mordwyo gan ddefnyddio methodoleg Asesiad Diogelwch Ffurfiol ("FSA") a gymeradwywyd gan y Sefydliad Morol Rhyngwladol ("IMO"). Datblygwyd yr FSA hwn mewn gwirionedd gan yr MCA, ac fe'i mabwysiadwyd yn ddiweddarach gan yr IMO.

331. Diben NRA yw crisialu a disgrifio'r holl beryglon mordwyo sy'n gysylltiedig â phrosiect a diffinio, mesur a graddio'r risgiau dilynol sy'n gysylltiedig. Disgrifir hyn i gyd yn fanwl yn Atodiad A i'r NRAA.[618] Fel yr amlinellodd Cdr Brown, mae'n caniatáu ffrâm gyfeirio gyffredin ar gyfer pob morwr. Y canlyniad yn y pen draw yw nodi a rhestru'r prif risgiau. Lle nad yw'r risgiau hynny'n ALARP, dylai'r NRA gynnig mesurau lliniaru i'w gostwng i lefel dderbyniol. Os na ellir gostwng y risg i lefel dderbyniol, rhaid i'r NRA ddod i'r casgliad na all y prosiect fynd rhagddo. Hyd yn oed lle mae'r risgiau'n ALARP, caiff yr NRA gynnig mesurau lliniaru o hyd.[619] Un rhan allweddol o'r NRA yw casglu data ac ymgynghori â rhanddeiliaid.[620] Mae pob NRA yn cymryd 3-4 mis.[621]

*NRA ac NRAA Morlais*

332. Fel yr amlinellodd Cdr Brown, ymgymerwyd â'r NRA Cyntaf[622] yn 2019, wedi'i gynnal gan Marico. Marico yw'r ymgynghoriaeth a gyflogwyd gan Menter Môn i ymgymryd â'r gwaith hwn. Mae'n gymwys dros ben i wneud hyn, gan fod Marico yn cynnwys rhywun a oedd yn wreiddiol yn aelod allweddol o dîm datblygu'r FSA yn yr MCA, ac a oedd yn allweddol wrth gymryd y cysyniad drwodd i gymeradwyaeth yr IMO ym 1996. Roedd yr allbwn o NRA 2019 yn golygu bod Menter Môn wedi dewis ailgynllunio rhannau helaeth o'r MDZ er mwyn caniatáu UKC mwy o faint i Fferïau Môr Iwerddon yn pasio drwy ei sector gogleddol, ac ehangu'r dramwyfa ddwyreiniol gyda'r glannau i ganiatáu mwy o le yn y môr i ddefnyddwyr hamdden. O ystyried maint y newidiadau hyn, comisiynodd Menter Môn yr NRAA, a ddiweddarodd ac a estynnodd yr NRA Cyntaf. Roedd yr NRA Cyntaf a'r NRAA yn cynnwys ymgynghori helaeth.[623] Yn wir, bu ymgysylltu â'r holl randdeiliaid dros dair blynedd a mwy.[624]

333. Mewn amlinelliad bras, daeth yr NRAA i'r casgliad:

---

617 Cyf: MDZ/I2
618 Cyf: MDZ/I1
619 Tystiolaeth Cdr Brown, RT Mordwyo, Diwrnod 10, Sesiwn AM 1.
620 Atodiad 1 paragraffau 2a-e o MGN 543 (Cyf: MDZ/I2) a thystiolaeth Cdr Brown, RT Mordwyo, Diwrnod 10, Sesiwn AM 2.
621 Tystiolaeth Cdr Brown, RT Mordwyo, Diwrnod 10, Sesiwn AM 2.
622 Hynny yw, NRA a gynhaliwyd gan sefydliad heb unrhyw fuddiant breintiedig iddo yng nghanlyniad yr NRA. Nid yw'n golygu, fel yr oedd yr MCA fel pe bai'n camddeall, nad yw'r NRAA yn defnyddio data tebyg i'r NRA.
623 Gweler Atodiad D yr NRA.
624 Gweler Atodiadau i'r NRA a'r NRAA, a'r Datganiadau o Dir Cyffredin gyda Trinity House (Cyf: MDZ/9) a MCA (Cyf: MDZ/L8).

(i) Bod y prosiect wedi'i asesu i fod yn dderbyniol o ran risg mordwyo, gan dybio ei fod yn cydymffurfio â'r mesurau lliniaru a awgrymwyd sydd wedi'u hymgorffori a'u gweithredu;[625]

(ii) O'r 85 o beryglon a ystyriwyd ar gyfer y cyfnod adeiladu, a 70 o'r cyfnod gweithredol, yn erbyn 7 math gwahanol o longau

a. Roedd 6 pherygl yn y cyfnod adeiladu yn yr ystod ALARP canol i isel;[626]

b. Roedd 3 pherygl yn y cyfnod gweithredol yn yr ystod ALARP canol i isel;[627]

c. Roedd pob perygl arall yn isel.[628]

(iii) Y perygl a sgoriodd uchaf oedd llong hamdden yn cael ei gorfodi i dirio. Roedd hyn yn bresennol gyda'r MDZ neu hebddo.[629]

(iv) Llong hamdden heb bŵer yn cael ei llenwi â dŵr neu ei throi drosodd oedd yr ail berygl a sgoriodd uchaf yn ystod y cyfnod gweithredol, a gofrestrodd fel ALARP o fewn trwch blewyn ac nad oedd ychwanegu'r prosiect yn effeithio ar y sgorio.[630]

Yn ardal las yr MDZ, lle bydd UKC o 8m o leiaf yn cael ei gyflawni, bydd mordwyo pob math o long sy'n defnyddio'r llwybr gyda'r glannau ar hyn o bryd yn dal i fod yn bosibl ac yn ddiogel. Yn ardal borffor yr MDZ lle bydd UKC o 20m o leiaf yn cael ei gyflawni, dylai mordwyo llongau masnachol a theithwyr fod yn bosibl ac yn ddiogel. Bydd mordwyo'n cael ei gyfyngu yn yr ardaloedd Gwyrdd ac Aur oherwydd presenoldeb dyfeisiau llanw arnofiol a suddedig.[631]

*Diogelwch defnyddwyr dŵr, a'u rheolaethau*

334. Codwyd cwestiwn ynghylch diogelwch defnyddwyr dŵr. Mae hyn yn gorgyffwrdd â rhai o'r pynciau eraill y byddwn yn eu tynnu allan isod, ond cynigiwn fod Menter Môn wedi ymrwymo'n gadarn i sicrhau diogelwch defnyddwyr dŵr. Ceir tystiolaeth o hyn gan:

(i) Y broses yr aeth Menter Môn drwyddi i gyrraedd yma: y ddau NRA, ailgynllunio'r prosiect yn helaeth, yr ymgynghoriad parhaus;

(ii) Rheolaethau a osodwyd yn y Gorchymyn ei hun. Yn benodol,

a. Y gofyniad bod dyfeisiau sy'n dod i'r wyneb o leiaf 1km o'r tir;[632]

---

[625] Cyf: MDZ/I1, t.102
[626] Cyf: MDZ/I1, Tabl 14-2
[627] Cyf: MDZ/I1, Tabl 14-3
[628] Cyf: MDZ/I1, Tabl 14-1
[629] Cyf: MDZ/I1, t100 pwynt bwled cyntaf.
[630] Cyf: MDZ/I1, Tabl 14-3
[631] Cyf: MDZ/I1, t. 101
[632] Mae'r Gorchymyn (Cyf: Dogfen yr Ymchwiliad – 102) yn diffinio "paramedrau'r prosiect" megis y paramedrau a nodir yn Nhablau 4-21 i 4-30 o Bennod 4 o'r ES (Cyf: MDZ/A25.4). Mae Tabl 4-22 o Bennod 4 o'r ES yn nodi bod y senario gwaethaf ar gyfer dyfeisiau sy'n dod i'r wyneb wedi'i nodi ym mharagraffau 104 a 117 o Bennod 4, ynghyd â Phennod 24 h.y. yr SLVIA (Cyf: MDZ/A25.24). Mae Para. 147 o'r SLVIA yn cadarnhau'r 1km o bellter gwahanu.

b. Y bwlch rhwng dyfeisiau o fewn araeau;[633]

c. Yr angen am NRA cyn lleoli pob dyfais.[634] Rydym yn tynnu sylw'n arbennig at hyn gan fod Ms Wong o SCC wedi amlinellu pryderon sydd ganddynt am ddyfeisiau penodol, ond byddai'r rhain yn destun NRA pellach cyn eu lleoli.[635]

(iii) Y set gynhwysfawr o amodau sydd wedi'u cynnwys yn yr ML drafft ar hyn o bryd.[636] Unwaith eto, rydym yn ailadrodd y tri phwynt allweddol hynny a amlinellwyd gan yr Arolygydd ar ddechrau'r sesiwn, sef bod y rhain yn gyffredinol yn rheoli diogelwch ond mai mater i CNC yw hwnnw i raddau helaeth. At hynny, rydym yn manteisio ar y cyfle hwn i nodi bod Menter Môn wedi ymrwymo i sianeli Dwyrain-Gorllewin o 500m o leiaf rhwng araeau, er y bwriedir i hyn gael ei sicrhau gan yr ML yn hytrach na'r TWAO.[637]

335. Clywodd yr ymchwiliad gan Mr Salter o'r MCA ei fod yn brif gynghorydd i CNC ar yr ochr ML, yr ymgynghorwyd ag ef ym mhob cam o'r broses. Dywedodd wrth yr ymchwiliad y byddai unrhyw reolaethau nad ydynt yn y Gorchymyn yn yr ML ac roedd yn hyderus y byddai'r broses yn digwydd.[638] Dywedodd hefyd fod y MCA yn cytuno bod y broses asesu diogelwch ffurfiol wedi'i dilyn yn ddigonol, ac nad oedd gan yr MCA "unrhyw bryderon" ar yr ochr honno. Yn hytrach, dywedodd mai'r hyn a oedd yn cael ei drafod heddiw yn bennaf "rhwng popeth" oedd "lefelau gallu rhanddeiliaid unigol i oddef". Pan ofynnodd yr Arolygydd iddo egluro'r hyn yr oedd yn ei olygu, ac ai hynny oedd y canfyddiad o berygl, cytunodd mai'r "canfyddiad o risg" oedd hynny.[639] Mae hwnnw'n bwynt pwysig, oherwydd er bod barn gwahanol ddefnyddwyr y môr yn gwahaniaethu ynghylch y risgiau,[640] yr NRA yw'r broses a sefydlwyd i reoli ac asesu'r risg <u>gwirioneddol</u> yn wrthrychol, nid y risg <u>canfyddedig</u>.

336. Efallai y byddai'n ddefnyddiol mynd i'r afael yma hefyd â phryder a godwyd ynghylch rhwygo offer o'i angorfeydd.[641] Clywodd yr ymchwiliad yn fras gan Dr Orme (peiriannydd mecanyddol gyda PhD mewn modelu llif tyrbinau llanw) fod peirianneg yn defnyddio ffactor diogelwch i sicrhau bod y llwythi y cyfrifwyd i bob dyfais eu dal yn llawer uwch na'r llwythi uchaf y gellid disgwyl iddynt eu dal mewn gwirionedd. Mae hyn yn gyffredin yn y meysydd olew a nwy. Clywodd yr ymchwiliad hefyd gan Mr Salter mai un o amodau'r MCA yw cydymffurfio â'r holl ddisgwyliadau rheoleiddio a ysgrifennwyd gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE) a'r MCA (i'w gwirio gan Drydydd Parti annibynnol),[642] a chan Mr McNamara fod darpariaethau fel Erthygl 17 o'r Gorchymyn drafft [643] ac Amod 25 o amodau drafft yr ML yn gosod

[633] Gweler Tabl 4-9 yn Cyf: MDZ A25.4.
[634] Gweler Cyf: ROD001, Atodlen 1 Rhan 4.
[635] Tystiolaeth Ms Wong RT Mordwyo, Diwrnod 10 Sesiwn AM 2.
[636] Cyf: MdZ/I4 Amodau 19-32.
[637] Gweler e.e. Cyf: MDZ/P7 Cdr Brown yn gwrthbrofi Prawf o Dystiolaeth t.33 eitem g; Cyf: RPE006 Cdr Brown Prawf o Dystiolaeth adran 1.7, pwynt 8
[638] Tystiolaeth Mr Salter, RT Mordwyo, Diwrnod 10, Sesiwn AM 1.
[639] Tystiolaeth Mr Salter, RT Mordwyo, Diwrnod 10, Sesiwn AM 1.
[640] Fel y daeth i'r amlwg, er enghraifft, pan redodd Ms Wong drwy bryderon am ddyfeisiau penodol yn RT Mordwyo Diwrnod 10 Sesiwn AM 2.
[641] RT Mordwyo, Diwrnod 10, sesiwn PM 1.
[642] Cyf: MDZ/L8 mewnol t.24.
[643] Cyf: Dogfen yr Ymchwiliad - 102

rhwymedigaethau ar Fenter Môn os bydd difrod, dadfeiliad neu ddirywiad. Nid oes yr un o'r prif reoleiddwyr dan sylw.

*Ansawdd data'r arolwg*

337. Os cawn droi, felly, at y prif faes cyntaf yr oedd angen ei egluro, sef a oedd data'r arolwg yn gynrychiolaeth ddigonol o weithgarwch ac yn cydymffurfio ag MGN 543.

338. Fel yr ydym wedi'i amlinellu, mae MGN543, Atodiad 1 paragraffau 2a-e yn cynnwys cyfres o gyfarwyddiadau clir a chryno ar sut y maent yn disgwyl i arolygon gael eu cynnal. Fel man cychwyn, cytunir â'r MCA fod data'r arolwg yn "*mwy na bodloni gofynion MGN 543*".[644] Clywodd yr ymchwiliad gan Cdr Brown fod Menter Môn wedi comisiynu Anatec – y safon aur o ran y math hwn o arolwg – i ddarparu data'r arolwg hwnnw. Cynhaliwyd 28 diwrnod o arolygon (AIS, RADAR a Gweledol) rhwng mis Awst a mis Medi 2017 ac ym mis Ebrill 2019.[645] Roedd cryn dipyn o anghydfod ynglŷn â hyn yn yr ymchwiliad ond gallwn gadarnhau bod yr arolygon gweledol (a) wedi'u cynnal a (b) nad arolygon cadarnhau yn unig oeddent. Mae'r MCA a'r RYA bellach wedi cytuno ar hyn.[646] Roedd arolygon 2017 yn cynnwys penwythnos Gŵyl y Banc ar 26-28 Awst, cyfnod y cyfeiriwyd Menter Môn ato gan Mr Davis, Comodor Clwb Hwylio Bae Trearddur.[647] Yn ogystal, daeth chwe mis arall o ddata'r AIS o'r cyfnod rhwng mis Hydref 2017 a mis Mawrth 2018, ac ar gyfer yr NRAA prynodd Menter Môn wybodaeth Atlas y DU o Gychod Hamdden yr RYA ei hun. Rydym yn ymwybodol nad yw rhai llongau'n cario systemau AIS, a bod eraill yn anodd eu canfod ar radar. Dyna pam y defnyddiom gyfuniad o'r tri, a dyna pam y rhoddwyd hwn yn benodol ar gontract allanol i gwmni safon aur. Wrth gwrs, ni all unrhyw arolwg sicrhau y bydd yn crisialu popeth byth. Dyna pam mae gweithdrefnau safonol i gael y syniad gorau posibl, a sicrhau y gall pawb fod â ffydd bod y broses, o leiaf, yn gynrychioliadol. Dyna'r hyn yr ydym wedi'i wneud, gan fwy na bodloni gofynion MGN 543.

339. Y brif gŵyn a wnaed yn ein herbyn yw nad yw ein harolygon wedi dal pawb. Mae hyn yn cael ei roi mewn gwahanol ffyrdd drwy wahanol bartïon amrywiol a byddwn yn mynd i'r afael â phob un, ond ni all yr un ohonynt oresgyn y pwynt ein bod wedi cydymffurfio ag arfer gorau, wedi dal yr hyn y gallwn, ac yn wir wedi gwneud mwy na'r hyn y mae'n ofynnol i ni ei wneud – fel y cadarnhawyd gan yr MCA. Rydym yn eu cwmpasu ar gyfer nodyn yr Arolygydd. Gan droi at bob un yn ei dro:

(i) Mae Mr Davis, Comodor Clwb Hwylio Bae Trearddur yn derbyn ein bod wedi dilyn y broses berthnasol, ond mae o'r farn nad ydym wedi dal defnydd lleol perthnasol oherwydd nad yw'r broses (h.y. MGN 543) yn crisialu hynny. Awgrymodd hefyd nad yw'r amseroedd a ddewiswyd yn adlewyrchu'r cyfnodau defnyddio trymaf, a dywedodd y byddai wedi sicrhau ei fod ar gael i ymgynghori arno.[648] Mewn ymateb:

644 Datganiad o Dir Cyffredin rhwng Menter Môn a'r MCA, t. 14-15 (Cyf: MDZ/L8).
645 Cyf: MDZ/I1 Tabl 7-1
646 Cyf: Dogfen yr Ymchwiliad - 055 a llythyr yr RYA at Fenter Môn ar 13 Ionawr 2021, wedi'i gopïo i'r Arolygiaeth Gynllunio.
647 Cyf: MDZ/I1 t.E-8, PDF t.213.
648 Tystiolaeth Mr Davis, RT Mordwyo Diwrnod 10 Sesiwn PM 1.

a. Yn gyntaf, i raddau mae hwn yn ymosodiad ar MGN 543 ei hun. Deallwn nad yw defnyddwyr cychod bach yn credu ei fod yn ddigonol. Mae hwn yn bwynt a wnaed hefyd gan SCC. Fodd bynnag, mae hynny'n rhywbeth sy'n fwy priodol ei gyfeirio at yr MCA (ac mae'n bwynt yr ymddengys ei fod yn anghytuno'n llwyr ag ef) [649] – nid hwn yw'r fforwm ar gyfer ymosodiadau anuniongyrchol ar bolisi rheoleiddio. Beth bynnag, a hyd yn oed pe bai, ar ôl cynnal Arolygon AIS, Radar a Gweledol, mae'n anodd gweld beth arall y gallem fod wedi'i wneud.

b. Yn ail, ac yn gysylltiedig â hynny, trown at y broblem 'wythnosau a ddewiswyd'. Mae dwy. Ymatebodd Mr Davis i'n hymgynghoriadau, ond ni wnaeth y pwynt a gododd yn yr ymchwiliad fod gweithgarwch hwylio yn dod i ben ar ddydd Sadwrn cyntaf gŵyl banc mis Awst, felly ni fyddem wedi dal unrhyw weithgaredd ar y dydd Sul na'r dydd Llun ac felly nid yw'n gynrychioliadol. Felly, unwaith eto, mae Menter Môn wedi gweithredu ar y wybodaeth a roddwyd iddo. I raddau nid yw hynny'n cydsynio ag amodau lleol, nid yw hynny arnom ni.

c. Yn drydydd, i raddau awgrymir nad oedd digon o ymgynghori - rydym yn anghytuno.[650]

(ii) Cododd Mr Dennis fater pa weithgarwch caiacio neu hwylio a ddigwyddai y tu allan i'r MDZ ond lle byddai'r cyfranogwyr yn yr MDZ yn y pen draw pe byddent yn mynd i drafferthion.[651] Gan fod hwn yn bryder sy'n ymwneud yn bennaf â chaiacio, trown ato isod, ond i'r graddau y mae hwn yn gwestiwn data, cynigir ei fod wedi'i ystyried yn yr NRAA.[652]

Cododd yr RYA hefyd ymholiad am ansawdd data'r arolwg ac a gwblhawyd arolygon gweledol.[653] Mae hyn bellach wedi'i ddatrys.

*Ansawdd a digonolrwydd yr NRA a'r NRAA*

340. Un cwestiwn arall, sy'n gysylltiedig â'r cyntaf ond yn gysyniadol wahanol iddo, yw i ba raddau yr oedd yr NRA a'r NRAA yn ddigonol ac yn cydymffurfio ag MGN 543. Unwaith eto, cynigiwn fod y rhain yn berffaith ddigonol. Roedd y ddau NRA llawn yn dilyn methodoleg yr FSA a gymeradwywyd gan yr IMO, ac ystyrir eu bod yn cydymffurfio ag MGN 543 gan yr MCA.[654] Nodwn hefyd fod RYA wedi egluro wrth gloi

[649] Tystiolaeth Mr Salter mewn ymateb i dystiolaeth Chris Brown (SCC), RT Mordwyo, Diwrnod 10, Sesiwn PM 2.
[650] Ymdriniwyd ag ymgynghoriad uchod ond cyfeiriwyd yn benodol at glwb hwylio Bae Trearddur yn Atodiad E i'r NRAA – gweler Cyf: MDZ/I1.
[651] Tystiolaeth Mr Dennis, RT Mordwyo, Diwrnod 10, Sesiwn PM 1.
[652] Cyf: MDZ/I1 t.35-36
[653] Tystiolaeth Mr Hill, RT Mordwyo, Diwrnod 10, Sesiwn PM 1.
[654] Cyf: MDZ/N6 tudalen 1. Er cyflawnrwydd, cyfeiriodd Mr Pattullo (Diwrnod 10, Sesiwn PM 1) at set o gofnodion yng Nghyf: MDZ/N12 t.88 i ddadlau bod Menter Môn a SCC wedi cytuno nad oedd MGN543 yn asesu anghenion caiacwyr yn ddigonol. Mae'r cofnodion mewn gwirionedd ychydig yn amwys, ond yn ddigon i nodi at y dibenion hyn fod y cyfarfod hwn wedi digwydd ar ôl yr NRA ond cyn yr NRAA; cydnabu Morlais y byddai angen mynd i'r afael yn fanwl â

(t.1) fod eu gwrthwynebiad ar y sail hon hefyd wedi gostwng. Dyna, ddywedwn ni, yw diwedd y mater.

341. Codwyd pryder gan Mr Pattullo ar gyfer SCC ynghylch i ba raddau yr oedd caiacwyr yn rhan o weithdai'r Adolygiad o Beryglon.[655] Fel yr eglurodd Cdr Brown, fodd bynnag, wrth ddelio ag NRA sylweddol (fel y byddai rhywun yn ei wneud yma) a fyddai'n manylu ar 130 o beryglon, y byddai angen trafod pob un ohonynt gyda rhanddeiliaid a'u rhestru – byddai'n broses letchwith yn y pen draw. Y ffordd y caiff ei wneud ar gyfer NRA o'r fath yw drwy ymgynghori – a dyna pam y cafodd yr ymatebion caiacio a hwylio eu cynnwys fel Atodiad i'r NRAA.[656] Mae hyn yn arfer derbyniol. Bydd pob un, wrth gwrs, yn gallu bwrw ati ar gyfer yr NRA mwy cyfyng a phendant ynghylch dyfeisiau penodol.

342. Mynegodd yr RYA bryder pellach ynghylch a oedd yr NRAA yn ystyried yn ddigonol fadau heb eu pweru heblaw byrddau padlo a chaiacau. Fel yr amlinellodd Cdr Brown mae Tabl 11-2 o'r NRAA yn manylu ar gychod hamdden heb eu pweru, sy'n cynnwys er enghraifft dingis hwylio, caiacau a chanŵod. Buasai hyn, fel yr eglurodd Cdr Brown, yn ystyried badau fel y badau 16 troedfedd-24 troedfedd allan o Fae Trearddur yr oedd yr RYA yn pryderu amdanynt.[657]

343. Ac eithrio'r pwyntiau penodol hynny, nid oedd y pryderon a fynegwyd o dan y pwnc hwn yn canolbwyntio'n wirioneddol ar ein NRA a'n NRAA, ond a yw MGN 543 yn cynrychioli neu'n crisialu'n ddigonol fadau heb bŵer fel caiacwyr. Yn benodol, clywodd yr ymchwiliad gan Mr Bolton ar gyfer SCC, a geisiodd ail-ysgrifennu asesiad risg MGN 543.[658] Yr oedd, felly, yn ymosodiad anuniongyrchol ar y canllaw ei hun. Fel yr ydym wedi'i nodi uchod, nid dyma'r lle ar gyfer hynny. At hynny, ceisiodd Mr Bolton alw ar gymorth rhai canllawiau HSE nad ydynt, fel yr amlinellodd Mr Salter, o'u hunain yn berthnasol i'r math hwn o asesiad.[659]

*Colli Amwynder*

344. Yn fyr, (gan ofalu rhag cyd-doddi hyn â lle yn y môr), mae colli amwynder yn cyfeirio at y ffaith, drwy roi rhywbeth yn y dŵr lle mae pobl yn hamddena, nad allant wneud hynny mwyach. Cyfeiriodd Mr Hill at ddau fath o ddefnyddiwr dŵr hamdden - y rhai sy'n pasio drwodd a'r rhai sy'n fwy lleol. Cyfeiriwn y darllenydd at Gyf: Dogfen yr Ymchwiliad - 043 sy'n rhoi arwydd eithaf defnyddiol (ond dangosol yn unig) o gyn lleied o ddŵr a fyddai'n cael ei gymryd gan y dyfeisiau mewn gwirionedd, a faint

chaiacio, a gwnaeth hynny wedyn yn yr NRAA. Felly, mae bygythiadau i gaiacwyr wedi'u hystyried.

[655] Tystiolaeth Mr Pattullo yn y RT Mordwyo, Diwrnod 10, sesiwn PM 2. Gwnaeth Mr Hill ar gyfer yr RYA yr un pwynt (tystiolaeth Mr Hill, RT Mordwyo, Diwrnod 10 Sesiwn PM 1), ond fel y nodwyd, mae gwrthwynebiad cydymffurfio MGN 543 ar gyfer yr RYA wedi gostwng.

[656] Tystiolaeth Cdr Brown i'r RT Mordwyo, Diwrnod 10, Sesiwn PM 2 a gweler Atodiad A o'r NRAA (Cyf: MDZ/I1).

[657] Trafodaeth rhwng Cdr Brown a Mr Hill, RT Mordwyo, Diwrnod 10, Sesiwn PM 2, a gweler Cyf: MDZ/I1 Tabl 11-2.

[658] RT Mordwyo, Diwrnod 10, sesiwn PM 2.

[659] Tystiolaeth o MCA mewn ymateb i dystiolaeth SCC, RT Mordwyo Diwrnod 10 Sesiwn PM 2.

sydd ar ôl. Y man cychwyn yw nad gosodiad mawr mo hwn, hyd yn oed wrth ei ddefnyddio'n llawn – pwynt a gydnabyddir gan Mr Salter o'r MCA.[660]

345. O ran yr hyn a fyddai'n cael ei golli (a derbyniwn y byddai rhywfaint yn cael ei golli) mae Cdr Brown wedi nodi bod yr ardal yn ddrwg-enwog am eirwyau môr, am fod yn agored, a'i bod yn ardal lle gall y gwynt a'r môr ddod, yn ei eiriau ef, yn "wirioneddol ffyrnig". Cyfeiriwn at ddarnau yn ei Brawf o Dystiolaeth[661] a Phrawf Tystiolaeth gwrthbrofi[662] lle mae'n cyfeirio at natur arswydus y darn hwn o ddŵr, a dyfyniadau o wahanol gyfeiriadau hwylio. Y pwynt cyffredinol yma yw nad yw hwn yn ddarn tawel o ddŵr a ddefnyddir yn rheolaidd ar gyfer mordeithiau hamddenol. Mae'n anodd ac yn gythryblus. Felly, mae'r gwerth amwynder sydd ganddo'n lleihau. Daw hyn yn groes i'r rheidrwydd polisi yn y WNMP i ddefnyddwyr presennol rannu'r defnydd o'r môr – gweler uchod.

346. Yn fyr, felly, prin iawn yw'r pwys y dylid ei roi yn y cydbwysedd cynllunio i unrhyw golled amwynder y dadleuir ei bod yn deillio o'r darnau cyfyngedig o ddŵr nad ydynt ar gael ar gyfer hwylio mwyach.

*Lle ar y môr*

347. Fel man cychwyn byddai'n ddefnyddiol cyfeirio at Gyf: Dogfen Yr Ymchwiliad – 043 fel arwydd darluniadol (a dim ond dangosol) o faint yn union o le sydd yma. Hawdd yw colli golwg ar hyn wrth droshaenu'r gwahanol barthau, ond mae Cyf: Dogfen yr Ymchwiliad – 043 yn arwydd da. Unwaith eto fel pwynt rhagarweiniol, dylid nodi bod hyn yn rhagdybio'r defnydd llawn o 240MW. Unwaith eto, wrth gwrs, mae'r defnydd graddol yn golygu ein bod yn dechrau'n llawer is, ac felly bydd gan ddefnyddwyr hamdden eraill fwy o le yn gymesur dros gyfran fawr o oes y prosiect.

348. Nododd Cdr Brown fod penderfynu faint o le môr sy'n "ddigon" yn gwestiwn cymhleth, sy'n debygol o gael pedwar ateb gwahanol gan bedwar gwahanol forwr. Ar gyfer pob person, bydd yn swyddogaeth nifer fawr o newidynnau, gan gynnwys y tywydd, y llanw, amser o'r dydd, gwelededd, math o gwch, uchder y llygad, yr offer mordwyo wedi'i osod, a thraffig arall. Mae hyn yn helpu i egluro pam mae'r gwahanol geisiadau am le môr yn tueddu i amrywio yn ôl y gwrthwynebydd: Dywedodd Mr Carruthers o'r RYA wrth yr ymgeisydd fod 4 cebl (732m) yn dderbyniol,[663] fel y gwnaeth Llywiwr bad achub Caergybi.[664] Mae Datganiad Achos yr RYA yn ategu y dylai lle môr fod yn 4 cebl (732m) o'r geirwyau môr (ac yn nodi mai dyna oedd ystyr Mr Carruthers – er nad yw hynny yn y cofnodion).[665] Gofynnodd Mr M Davis yn wreiddiol i'r ffin ddwyreiniol gyda'r glannau gael ei symud 1,000m o'r tir,

660 Diwrnod 11, Sesiwn AM 1.
661 Cyf: MDZ/P7, t.11
662 Cyf: RPE006, t.10
663 Cyf: MDZ/I1, E-17
664 Cyf: MDZ/I1, E-12
665 Mr Hill, RT Mordwyo, Diwrnod 11 a Datganiad Achos para. 6.3.4 (Cyf: MDZ/N2).

ac ers hynny mae wedi cynyddu hynny i 1,500m.[666] Fodd bynnag, gan dorri drwy'r gwahanol safbwyntiau goddrychol gwahanol hyn – mae'r IMO a'r MCA yn MGN 543 yn cymeradwyo proses yr NRA i asesu, mesur ac ateb y math hwn o gwestiwn cymhleth. Dyna'r broses y mae Menter Môn wedi'i chynnal.

349. O safbwynt Menter Môn – yn seiliedig ar ei hasesiadau trylwyr a'i thystiolaeth fanwl - mae'r ffin bresennol ddwyreiniol gyda'r glannau, sydd ar gyfartaledd yn 1.9km ac sydd ag isafswm pellter o 1,000m o'r tir yn ddigon o le môr. Dyna'r hyn y darperir ar ei gyfer yn y prosiect hwn, ac mae'r NRAA wedi asesu hyn ac wedi dod i'r casgliad bod y risgiau a gyflwynir yn y llwybr dwyreiniol gyda'r glannau yn ALARP.[667] Mae'r asesiad hwn yn cynnwys ystyried a all defnyddwyr fynd drwy ddatblygiad, o'i gwmpas, neu drosto – ac eto byddem yn cyfeirio'r darllenydd at Gyf: Dogfen yr Ymchwiliad – 043.[668] Mae'r MCA, i raddau helaeth, yn cytuno bod y risgiau'n dderbyniol – mae'n nodi bod y ffin ddwyreiniol gyda'r glannau yn ddigon mawr ar gyfer badau modur a 90% o'r croesiadau a gofnodir drwy'r sianel hon.[669] Ac mae data'r arolwg traffig yn dangos bod y rhan fwyaf o fadau'n pasio ar hyn o bryd rhwng yr hyn a fydd ffin ddwyreiniol yr MDZ, a'r morlin.[670]

350. Mae craidd yr anghydfod yn ymwneud mewn gwirionedd â chychod ar eu hynt – ac yn benodol y cychod hynny nad oes ganddynt injan, o ystyried, fel y nododd Cdr Brown, y daw cwch hwylio yn gwch sy'n cael ei bweru cyn gynted ag y bydd yn tanio ei fodur.[671] Ar ôl llawer o drafod, roeddem yn gallu canfod rhywfaint o dir cyffredin gyda'r RYA yn yr ystyr mai gwahaniaeth barn sydd yma, yn y bôn. Cynigiwn mai barn Cdr Brown y dylid ei ffafrio. Gellir crynhoi ei farn, i bob pwrpas, fel a ganlyn:

(i) Mae mordwyo o amgylch peryglon sefydlog gweladwy sydd wedi'u marcio'n dda yn rhan o hwylio – fel y dywed yr RYA yn ei bapur safbwynt ar ynni'r llanw.[672]

(ii) Mae'n amlwg bod 1km o le môr yn ddigonol yn sianel Hurst Castle/Needles. Roedd y gymhariaeth hon yn ddadleuol: Roedd Mr Hill ar ran yr RYA o'r farn bod yr ardal yn sefyllfa tonnau a gwynt hollol wahanol oherwydd effaith gysgodol Ynys Wyth, gan ddadlau nad oes cymaint o lan gysgodol a bod yr

---

[666] Gweler llythyr Mr M Davis at yr Arolygiaeth Gynllunio, dyddiedig 16 Hydref 2019, a'i e-bost at Morlais CC Philip Thompson o'r Arolygiaeth Gynllunio, 22 Ionawr 2021 am 17.29 o'r gloch, y trafodwyd y ddau ohonynt gan Cdr Brown yn yr RT Mordwyo, Diwrnod 11, sesiwn AM 1.

[667] Gweler Cyf: DZ/I1, Adran 12, a'r Log Peryglon ar gyfer y Cyfnod Adeiladu (Atodiad B) a'r Cyfnodau Gweithredol (Atodiad C).

[668] Wrth ddelio ag MGN 543 dylem hefyd ymdrin â phwynt bach a godwyd gan yr RYA ar Ddiwrnod 11, sesiwn AM 2: dadleuasant fod MGN 543 yn ei gwneud yn ofynnol i Fenter Môn ystyried barn y gymuned leol. Nid ydym yn anghytuno â hynny, ond fel y nodwyd yn ystod yr RT hwnnw mae gwahaniaeth rhwng ystyried safbwyntiau, a chytuno â hwy. Mae Menter Môn wedi gwneud y peth cyntaf, nid yw'n gorfod gwneud yr ail beth. Mae'r MCA, fel y bydd partïon yn cofio, yn fodlon bod yr NRAA yn cydymffurfio â MGN 543.

[669] Cyf: MDZ/N19, t.1

[670] Tystiolaeth Cdr Brown RT Mordwyo, Diwrnod 11, Sesiwn AM 1.

[671] Tystiolaeth Cdr Brown RT Mordwyo, Diwrnod 11, Sesiwn AM 1 yn dyfynnu Rheolau 3b a 3c o'r Rheoliadau Rhyngwladol ar gyfer Atal Gwrthdrawiadau ar y Môr. Cofir ei fod yn disgwyl y buasai gan y rhan fwyaf o gychod yn pasio drwy'r ardal o leiaf fodur ategol yn barod, fel y'i cymeradwywyd gan y detholiad o Yachting Monthly yn ei Brawf o Dystiolaeth Gwrthbrofi (Cyf: RPE006).

[672] Cyf: MDZ/N2

arfordir yn is, gan wneud achub yn fwy posibl.[673] Ni aeth Mr Salter mor bell â hynny, ond dywedodd nad oes gan Needles yr un amodau llanw o ran geirwyau môr, ffrydlifoedd a throlifau.[674] Mewn ymateb, clywodd yr ymchwiliad gan Cdr Brown fod y môr yn amrywiol ac yn anrhagweladwy ac y bydd gan bob morwr brofiadau gwahanol. Mae Needles yn cynnwys ardaloedd o eirwyau môr gwynt a llanw, ac er nad mor aml â'r rhai yn ardal y safle hwn efallai, yn ei farn arbenigol yntau fel morwr, gallant fod mor heriol â Gorllewin Ynys Môn. At hynny, parhaodd, mae'r Solent 3-5 gwaith yn brysurach. Cyfaddefodd yn rhydd nad yw'n union gyffelyb, ond nid oes unman yn y byd oherwydd bod tir (a môr) yn unigryw. Fodd bynnag, mae modd tynnu cyffelybiaeth ddilys a defnyddiol.[675]

(iii) Mae'r amodau lle'r oedd Cdr Brown yn ystyried y byddai morwyr doeth fel arfer yn arsylwi cyn hwylio'r darn hwn o ddŵr – sydd, fel y dywedodd Is-Gomodor Davis wrth yr ymchwiliad, yn "arbennig o anodd".[676] O leiaf, roedd Cdr Brown yn disgwyl rhagolwg cyfredol yn cwmpasu amser y daith, cryfder gwynt addas ar gyfer maint y llong, cyfeiriad gwynt addas gyda'r wybodaeth am beryglon glan gysgodol, dealltwriaeth dda o debygolrwydd effeithiau lleol a dyddiol, gwelededd da, amseru'r daith gyda'r llanw o'i blaid, cynllunio i wneud y daith yng ngolau dydd (neu gyda chymhorthion i fordwyo fel plotydd siart, radar neu AIS os yw'n teithio yn y nos).[677]

(iv) Mae'n ymddangos bod y rhan fwyaf o gychod sy'n cael eu pweru gan hwyliau'n unig yn dilyn y canllawiau hyn. Clywodd yr ymchwiliad gan Is-Gomodor Davis ei fod yn ystyried bod Cdr Brown yn gwneud "pwyntiau da iawn". Pan fydd clwb hwylio Bae Trearddur yn hwylio ei fflyd o gychod treftadaeth wedi'u pweru gan hwyliau, mae'n dilyn y canllawiau y byddai rhywun yn eu disgwyl (er efallai gyda rhai newidiadau nad ydynt yn gwbl gonfensiynol, ond gyda rheswm da). Esboniodd yr Is-Gomodor, pe byddai'r morwyr yn hwylio allan o Fae Trearddur a bod yr amodau'n newid, y byddent fel arfer yn troi'n ôl. Mae'r anhawster yn codi pe baent yn ceisio dychwelyd o Gaergybi (ac fel arfer wedi ymrwymo i'r llwybr), ond clywodd yr ymchwiliad hefyd, os yw'r Clwb Hwylio yn mynd â'i fflyd i Gaergybi, ei fod yn cymryd y rhagofal ychwanegol o gael cwmni cychod diogelwch modur fel arfer.[678]

(v) Fel y nodwyd yn ystod diwrnod 11 yr ymchwiliad – mae opsiynau eraill. Os sylwn am eiliad ar y rhaniad y mae'r RYA yn ei dynnu rhwng y morwyr hynny sy'n mordeithio o'r naill ardal i'r llall, a'r morwyr hamdden llai o faint:[679] i'r morwyr hamdden, os nad yw'r amodau ar gyfer mynd i mewn i'r ardal MDZ yn optimaidd, gallant, wrth gwrs, hamddena yn rhywle arall. Unwaith eto, clywodd yr ymchwiliad gan Is-Gomodor Davis ei bod yn fwy anarferol i hwylwyr Bae Trearddur hwylio i'r gogledd, yn hytrach na'r de - a phe bai amodau'n newid byddent yn troi'n ôl.[680] Ar gyfer llongau mordaith, a'r llongau

[673] Mr Hill yn yr RT Mordwyo, Sesiwn AM 1.
[674] Tystiolaeth Mr Salter (ar gyfer yr MCA) yn yr RT Mordwyo, Sesiwn AM 1.
[675] Tystiolaeth Cdr Brown, RT Mordwyo Sesiwn AM 2.
[676] Tystiolaeth Is-Gomodor Davis i'r RT Mordwyo, Diwrnod 11, sesiwn AM 1.
[677] Tystiolaeth Cdr Brown i'r RT Mordwyo, Diwrnod 11, Sesiwn AM 1.
[678] Tystiolaeth Is-Gomodor Davis i'r RT Mordwyo, Diwrnod 11, Sesiwn AM 1.
[679] A welwyd, yn groes i awgrym Mr Hill, yn yr NRAA – gweler tystiolaeth Cdr Brown yn yr RT Mordwyo, Diwrnod 11, Sesiwn AM 1.
[680] Tystiolaeth Is-Gomodor Davis i'r RT Mordwyo, Diwrnod 11, Sesiwn AM 1.

mwy hynny, mae ganddynt yr opsiwn o fynd o amgylch yr MDZ. Nid yw hyn yn rhywbeth y gallai llongau 20 troedfedd llai o faint geisio ei wneud, ond gallai'r rhai mwy (er enghraifft, y cwch 36 troedfedd a amlinellwyd gan Is-Gomodor Davis) yn ddigon posibl.[681] Rydym yn derbyn y gallai hynny achosi rhywfaint o ddadleoli – y down yn ôl ato isod – ond o ran lle yn y môr, mae hynny'n ateb i'r cychod mwy o faint.

(vi) Fel yr amlinellodd Is-Gomodor Davis, croesawyd ehangu'r llwybr gyda'r glannau i 1,000m, a hynny'n "help mawr" iddynt. Mae pryder o hyd ynghylch y digwyddiad "1 mewn miliwn", ond rydym yn sôn yma am ddigwyddiad 1 mewn miliwn ar gyfer 10% o'r traffig môr yr awgrymodd yr MCA fod angen ystyriaeth bellach ar ei gyfer. Risg bychan yw hwnnw.[682]

(vii) Er bod yr asesiad yn cael ei ystyried yn annioddefol o safbwynt Asesiad Ffin Ryngweithiol ("IBA") – fel yr eglurodd Cdr Brown, roedd hyn braidd yn anochel, o ystyried bod yr IBA wedi'i gynllunio ar gyfer llwybrau llongau masnachol a ffermydd gwynt ar y môr. Mae'r IBA ei hun yn cydnabod hyn wrth ddweud am y broses: "*nid offeryn rhagnodol mohono ond mae angen ei gymhwyso'n ddeallus a bydd cyngor yn cael ei roi fesul achos*". Gofynnodd yr ymgeisydd am y cyngor hwn gan yr MCA ac ymatebasant drwy ddweud bod y Sianel Ddwyreiniol gyda'r Glannau yn "ddigon mawr ar gyfer llongau modur ac ar gyfer 90% o'r teithiau a gofnodir drwy'r sianel hon".[683]

(viii) Wrth gwrs, fel y nododd Mr Salter ar gyfer yr MCA, mae gwiriad ychwanegol y broses ML.[684]

351. Felly, am yr holl resymau hynny, cynigiwn fod lefel dderbyniol o le môr yn y sianel ddwyreiniol gyda'r glannau.

*Dadleoli*

352. Nid oes llawer i'w ddweud am ddadleoli. Fe'i hystyriwyd yn yr NRA a'r NRAA, ond ceisiodd yr MCA ragor o wybodaeth.[685] Cynhyrchwyd nodyn egluro a'i atodi i Brawf Tystiolaeth Gwrthbrofi Cdr Brown, a chadarnhaodd Mr Salter ar ddechrau'r sesiwn RT mordwyo gyntaf fod y mater wedi'i ddatrys. Fel yr amlinellodd Cdr Brown, disgwylir y bydd y dadleoli mwyaf ar gyfer llongau sy'n dargyfeirio o amgylch yr MDZ yn debygol o fod tua 2.5 môr-filltir ychwanegol – neu 30 munud ychwanegol ar gyflymder o 5 not.[686] Nid oedd yr un parti'n anghytuno'n benodol â hyn. Cynigiwn nad yw hyn yn llawer iawn o ddadleoli, a'i fod yn gwbl dderbyniol yng nghyd-destun y manteision y gallai'r prosiect hwn eu cynnig.

*Caiacwyr yn cael eu gwthio allan*

[681] Tystiolaeth Is-Gomodor Davis i'r RT Mordwyo, Diwrnod 11, Sesiwn AM 1.
[682] Tystiolaeth Is-Gomodor Davis i'r RT Mordwyo, Diwrnod 11, Sesiwn AM 1.
[683] "Ymateb i Ddatganiadau Achos" MCA, t.1 (Cyf: MDZ/N19).
[684] RT Mordwyo, Diwrnod 11, Sesiwn AM 1.
[685] Cyf: MDZ/N19
[686] Cyf: RPE0006, t.23 ymlaen

353. Treuliwyd llawer iawn o amser yn yr ail RT mordwyo ar y pwnc hwn. Fodd bynnag, gellir nodi achos Menter Môn yn gymharol gryno. Mae'r NRAA yn asesu bod y risg i gaiacwyr yn yr MDZ yn isel,[687] ac ni ddisgwylir y bydd yn berygl ychwanegol i fywyd y tu hwnt i'r hyn sy'n bodoli eisoes. Rydym eisoes wedi ymdrin â'r tarddiad a'r gefnogaeth i'r NRAA uchod, ac ni fyddwn yn ei ailadrodd eto. Felly, yn erbyn y cefndir hwnnw, rhaid inni ymgysylltu â'r pwyntiau a godwyd gan SCC, ac roedd y rheini'n perthyn yn fras i ddau gategori: yn gyntaf, a fyddai caiacwyr yn cael eu hysgubo i'r MDZ, ac yn ail beth fyddai'n digwydd pan fyddent yn cyrraedd yno. Yn amlwg, i raddau mae'r rhain yn rhyngberthyn (gall y graddau y mae caiacwyr yn cael cwmni fod yn berthnasol i'r ddau, er enghraifft) felly mae eu rhannu braidd yn artiffisial.

354. Os cawn ddechrau drwy drafod a fyddai caiacwyr yn cael eu hysgubo i'r MDZ – nid yw Menter Môn yn dadlau'r achos na all hyn ddigwydd, ac ni wnaeth hynny erioed. Derbyniwn ei fod yn bosibl, ond cynigiwn fod y posibilrwydd hwn yn fychan iawn. Dechreuwch gyda lle maent yn teithio – mae'r rhan fwyaf (er nad y cyfan, rhaid cyfaddef) o weithgarwch caiacio neu ganŵio yn digwydd yn gymharol agos i'r lan – o fewn 500-700m i'r morlin. Bydd dyfeisiau sy'n dod i'r wyneb, ar y llaw arall, yn gorwedd o leiaf 1000m o'r tir.[688]

355. Hyd yn oed gan dybio bod caiaciwr mewn anhawster, ni dderbyniwn o hyd ei bod yn debygol y byddai'n cael ei ysgubo i'r MDZ. Hysbyswyd yr NRAA gan yr astudiaethau a gynhaliwyd gan HR Wallingford. Roedd SCC yn anghytuno â'r dadansoddiad hwnnw, gan gyflwyno eu barn eu hunain yn seiliedig ar dystiolaeth newydd yn yr ymchwiliad, a honni nad oedd model HR Wallingford yn ddigon manwl na manwl gywir.[689] Ond, mae HR Wallingford, fel y cadarnhaodd Cdr Brown, yn arweinwyr y byd mewn modelu hydrodynamig ers bron i 20 mlynedd.[690] Nid yw SCC. Rydym hefyd yn cyfeirio'r ymchwiliad at ein hymateb FEI ar y pwyntiau hyn.[691] Bydd barn a gwaith HR Wallingford, gyda pharch, yn cael eu ffafrio. Felly mae hynny'n gosod y sefylfa o ran pa mor bell y gallai caiaciwr mewn anhawster deithio, ar ei liwt ei hun. Fodd bynnag, cadarnhaodd Cdr Brown fod yr ardal hon yn cael ei dosbarthu gan Glwb Canŵio Prydain fel "dŵr uwch", y mae gofyn profiad a medrusrwydd i'w feistroli. Mae'n deg tybio y bydd defnyddwyr y dŵr hwn yn gallu hunan-achub. At hynny, ni ddisgwylir y byddai canŵ-wyr yn yr ardal hon ar eu pen eu hunain, felly disgwylir yn rhesymol y byddent yn helpu ei gilydd neu'n galw ar adnoddau allanol.[692]

356. A phan fydd caiacwyr o fewn yr MDZ - beth wedyn? Dywedodd Cdr Brown wrth yr ymchwiliad y byddai dyfeisiau sy'n dod i'r wyneb fel arfer hyd at 200m ar wahân ac wedi'u gwahanu'n hydredol[693] hyd at 500m – a hynny'n ddefnydd llawn (wrth gwrs, yng ngham cychwynnol y prosiect, dim ond nifer fach o ddyfeisiau fydd o bosibl). Fel y clywodd yr ymchwiliad gan Cdr Brown, mae hydrodynameg synhwyrol yn mynnu y bydd unrhyw ran o ddyfais sy'n dod i'r wyneb gyn lleied â phosibl, ac yn llyfn, y mae

687 Cyf: MDZ/I1, t. B-2 ID Perygl Rhif 6
688 Tystiolaeth Cdr Brown i'r RT Mordwyo, Diwrnod 12, Sesiwn AM 2.
689 Tystiolaeth Ms Wong a Mr Bolton (ar gyfer SCC) i'r RT Mordwyo, Diwrnod 11, Sesiwn AM 2.
690 Tystiolaeth Cdr Brown i'r RT Mordwyo, Diwrnod 11, Sesiwn AM 1.
691 Cyf: Dogfen yr Ymchwiliad – 052
692 Tystiolaeth Cdr Brown i'r RT Mordwyo, Diwrnod 12, Sesiwn AM 1.
693 Neu'n "ochrol" i'r rheini ohonom nad ydynt mor gyfarwydd â mordwyo.

gwrthrych arnofiol cymharol ysgafn fel caiac neu berson yn debygol o gael ei ysgubo o'i chwmpas. Felly, mae'n ddigon posibl na fydd caiacwyr o fewn yr MDZ hyd yn oed yn dod i gysylltiad agos â dyfais. Cododd Ms Wong bryderon ar gyfer yr SCC am y dŵr yn byrlymu neu'r tyrbinau'n cael effaith grychu.[694] Roedd hwn yn bwynt newydd, heb ei gadarnhau gan unrhyw dystiolaeth ac na ellir gosod unrhyw bwys wrtho.

357. Hyd yn oed os byddant, cynigiwn fod presenoldeb yr MDZ yn risg isel i gaiaciwr. Mae fideos, y cyfeiriwyd yr Arolygydd at un ohonynt, o gaiacwyr yn chwarae yn y tyrbinau hyn ac o'u hamgylch yn Strangford Lough.[695] At hynny, awgrymodd Mr Dennis, mewn ymateb i ymgynghoriad Menter Môn yn 2013, pe bai tyrbinau'n sefyll uwchlaw'r dŵr y byddai'r caiacwyr yn defnyddio'r llinellau trolif a'r pileri fel ardal hyfforddi dŵr gwyn.[696] Yn yr MDZ, mae unrhyw ran symudol o ddyfais yn debygol o fod metrau islaw'r wyneb, a dylai caiacwyr fod yn gwisgo siacedi achub neu gymhorthion hynofedd caiacio arbenigol, felly mae'r risg o gysylltiad â rhan symudol yn fach iawn.[697] Derbynnir bod Ms Wong, ar gyfer SCC, wedi tynnu sylw at yr hyn a ystyrir yn beryglon rhwygo ar rai modelau o dyrbinau. Fodd bynnag, fel sydd wedi'i lafurio'n helaeth yn yr ymchwiliad hwn, rydym mewn cyfnod lle nad ydym yn gwybod pa ddyfeisiau sy'n mynd i'r dŵr mewn gwirionedd. Fel y nododd Cdr Brown, bydd yn rhaid ymgorffori gwerth diogelwch yn y broses o ddylunio'r ddyfais. Gobaith Menter Môn yw y gellir dylunio dyfeisiau i fod yn lloches i gaiacwyr, ond nid ydym yn dweud gormod am hynny. Felly, mae'n rhy gynnar – ac nid yw'n gyfiawnadwy – i ddewis dyfeisiau penodol, dweud "byddwn yn cael ein hanafu os byddwn yn cyffwrdd â'r rhain" ac felly ceisio gosod cyfyngiadau ar y prosiect. Mae hynny, ar hyn o bryd, yn anhysbys.

358. Fodd bynnag, daw hyn oll yn erbyn cefndir lle bydd yn rhaid diweddaru'r NRA ar gyfer y Safle bob dwy flynedd (gan ymgorffori ymgysylltu â rhanddeiliaid), a bydd pob aráe newydd yn destun ei NRA ei hun (hefyd gydag ymgysylltu â rhanddeiliaid). Wedi'i grynhoi'n gyfan gwbl, rydym yn atgoffa'r ymchwiliad fod SCC eu hunain wedi dweud nad oes neb yn disgwyl i'r ardal fod yn annefnyddiadwy gan gaiacwyr.[698]

359. Tua diwedd yr ail RT mordwyo, darparodd SCC, drwy Ms Wong a Mr Bolton, gyflwyniad helaeth i gyfleu ymhle yr ystyria SCC fod y risgiau'n gorwedd a pham y maent yn anghytuno ag asesiad yr NRAA, nid ydynt yn cytuno na fyddai'r MDZ yn ychwanegu at risgiau, a pham nad yw'r canfyddiad o risg gynyddol yn afresymol. Gan ddiystyru'r ffaith bod hyn i gyd wedi'i gyflwyno'n hwyr iawn yn y dydd – cafwyd cyflwyniad 35 sleid a oedd, mae arnom ofn, yn cynnwys tystiolaeth newydd – credwn y gellir datrys hyn yn weddol fuan, a hynny am ddau reswm:

(i) Yn gyntaf, rydym wedi ystyried hyn i gyd yn yr NRAA.[699] Nid yw'r ffaith ein bod wedi dod i gasgliad gwahanol i'r SCC yn golygu na wrandawyd arnynt.

[694] RT Mordwyo Diwrnod 12 Sesiwn AM 1.

[695] Cyfeiriwyd ato ac fe'i dangoswyd yn rhan o dystiolaeth Cdr Brown i'r RT Mordwyo, Diwrnod 12, Sesiwn AM 1.

[696] Cyf: Dogfen yr Ymchwiliad – 013, Atodiad 4.8.

[697] Wrth gwrs, rydym wedi ystyried y pryderon a godant ynghylch defnyddio llinellau tynnu 15m. Fodd bynnag, fel y nododd Ms Wong, gall rhywun ddefnyddio llinellau tynnu sy'n arnofio. Mae hwn yn gymhwysiad rhesymol i gaiacwyr ei wneud.

[698] Cyf: EIC012, t.4.

[699] Cyf: MDZ/I1, t. B-2 Perygl ID Rhif 6.

(ii) Yn ail, roedd hyn, yn bennaf, yn ymwneud â diogelwch. Ystyrir hynny yn y broses ML a chaiff ei ailarchwilio ar gyfer unrhyw NRA sy'n benodol i ddyfais. Mae pob un o'r rheolyddion yn gymwys – os yw dyfais benodol yn peri risg go iawn i gaiacwyr (ac ni dderbyniwn hynny), gellir ei rheoli bryd hynny. Gall SCC gyflwyno sylwadau. Nid yw CNC na'r MCA yn mynd i adael i ni roi rhywbeth yn y dŵr sy'n creu risg annerbyniol. Er mwyn i SCC fod yn rhedeg y ddadl hon, neu'r ddadl bod cyfiawnhad dros unrhyw ganfyddiad o risg gynyddol, rhaid iddynt ystyried na fydd y rheoleiddiwr yn rheoleiddio'n gymwys. O'r drafodaeth ar ddiwedd y sesiwn hon – efallai nad yw hynny'n rhywbeth y mae'r SCC wedi'i werthfawrogi'n llawn gan eu bod wedi colli'r RT Rheoleiddiol. Nid oes sail i ystyried na fydd y rheoleiddiwr perthnasol yn diogelu eu diogelwch. Mater i CNC yw'r holl bryderon hyn. At y dibenion presennol, rydym yn dychwelyd at y pwynt a wnaeth yr Arolygydd ar ddechrau diwrnod cyntaf yr RT Mordwyo: mae diogelwch morol hefyd yn cael ei reoleiddio gan yr ML, nid oes rheswm dros amau na fyddai trwydded yn cael ei chyhoeddi,[700] ac nid oes rheswm dros amau cymhwysedd y rheoleiddiwr yn yr achos hwn.

*Effaith ac amserlenni adeiladu*

360. Un mater penodol arall a godwyd oedd effeithiau adeiladu ar fusnesau a defnyddiau lleol, ac (yn gysylltiedig â hynny) effaith argaeledd Abraham's Bosom.

361. Gan ddechrau gyda'r llinell amser adeiladu, clywodd yr ymchwiliad gan Cdr Brown linell amser fras yr hyn a fyddai'n digwydd: Bydd Menter Môn yn nodi'r gofynion adeiladu, manylion y gweithgarwch arfaethedig yn ystod y DDP, yn unol ag amodau 1-2 amodau drafft yr ML. Yn rhan o hyn, bydd yn rhaid iddo nodi hyd tebygol y gwaith a chyflwyno cynllun rheoli amgylcheddol adeiladu (amod 4 o amodau drafft yr ML).[701] Mae'r amcangyfrifon gwaethaf yn yr ES.[702] Yna bydd yn rhaid i Fenter Môn ystyried NRA sy'n benodol i aráe, yn unol ag amod 27 yr ML drafft. Bydd angen ymgynghori â rheoleiddwyr a rhanddeiliaid – fel yr ydym eisoes wedi'i drafod. Dywedodd Cdr Brown wrth yr ymchwiliad y byddai disgwyl i hyn fel arfer nodi'r amser gorau posibl ar gyfer gwaith er mwyn tarfu cyn lleied ag y bo modd, ochr yn ochr â chamau lliniaru a mesurau eraill, ac unrhyw gyfyngiadau eraill.

362. Ar yr amod y daw'r NRA i'r casgliad bod y prosiect yn ALARP neu'n llai, bydd Menter Môn wedyn yn gwneud cais am y parthau diogelwch morol i Weinidogion Cymru.[703] Mae gan y broses hon ofynion cyhoeddi gwybodaeth, a gweithdrefnau a

[700] Mynegodd Mr Pattullo ar gyfer SCC amheuon ynghylch a allai CNC gyhoeddi ML oherwydd y pryderon a fynegwyd gan SCC. Fodd bynnag, dywedodd pan ofynasoch nad oedd CNC wedi rhoi unrhyw reswm i SCC feddwl hynny.

[701] Cyf: MDZ/I4

[702] Cyf: MDZ/A25.4, Tabl 4-17.

[703] Fel yr amlinellodd Mr Maile yn yr RT Mordwyo, Diwrnod 11, Sesiwn AM 2, mae Erth. 43 o'r Gorchymyn Drafft (Cyf: ROD001) yn darparu y caiff Gweinidogion Cymru gyhoeddi hysbysiadau parth diogelwch. Mae hyn yn adlewyrchu'r sefyllfa o dan ddeddfwriaeth. Roedd Adran 41 Deddf Cymru 2017 yn diwygio aa. 95-96 Deddf Ynni 2004 fel bod gan Weinidogion Cymru swyddogaethau datgan parthau diogelwch. Mae Rheoliadau Trydan (Gorsafoedd Cynhyrchu Alltraeth) (Parthau Diogelwch) (Gweithdrefn Gwneud Cais a Rheoli Mynediad) (Diwygio) (Cymru) 2019 (O.S. 0219/293, 2019 Cy.71) wedi diwygio Rheol. 5 Rheoliadau

chyfnodau gwrthwynebu, i gyd wedi'u nodi mewn rheoliadau.[704] Mae'r broses cymeradwyo parthau diogelwch honno hefyd yn debygol, ym mhrofiad Cdr Brown, o ofyn am gynllun rheoli adeiladu a chynllun ymateb brys, llongau gwarchod, monitro ardal gan AIS/VHF/CCTV, cyfnodau hysbysu cyhoeddus o leiaf fis ymlaen llaw (a hysbysiadau i forwyr bythefnos ymlaen llaw), ffenestri amser i waith ddechrau a chyfyngiadau tywydd neu dymhorol o bosibl. Mae'r parthau diogelwch hynny'n annhebygol o ymestyn y tu hwnt i 100-150m.[705] Mae Menter Môn wedi siarad â gweithredwyr dyfeisiau yn Orkney a ddywedodd nad oedd eu parthau byth yn fwy na 200m (y rhai yr oedd eu hangen arnynt, ac nid pob un ohonynt felly) – roedd y rhai o amgylch llongau rhyfel wedi'u hangori yn 50m, a'r ataliad niwclear yw 200m.[706] Felly, yn ystod y broses NRA benodol i aráe a'r broses parth diogelwch, bydd digon o rybudd i fusnesau lleol a chaiacwyr. Dywedodd Ms Wong yn deg iawn fod SCC wedi'i galonogi'n fawr gan hynny.[707]

363. Un is-set benodol o'r pryderon a godwyd oedd lefel yr aflonyddwch yn Abraham's Bosom, y dywedodd SCC dro ar ôl tro ei bod yn bwysig ar gyfer eu hegwyliau cinio, ac yr ydym i gyd yn cydnabod ei bod yn allweddol i fynediad caiacwyr at wasanaethau brys.[708] Dim ond os na ellir defnyddio HDD y mae hyn yn codi – ac rydym eisoes wedi delio ag ef. Byddwn yn delio â hyn mewn dau gam. Yr agwedd gyntaf a phwysicaf yw'r mynediad i wasanaethau brys. Fel y dywedodd Cdr Brown, mae diogelwch bywyd yn bwysicach na phob pryder peirianyddol a phrosiect yn y môr. Felly, os oes angen mynediad brys yn Abraham's Bosom, bydd yr holl waith arall yn dod i ben a gwneir pob ymdrech i hwyluso hyn. Yn wir, nododd y gallai presenoldeb personél adeiladu a chychod diogelwch, yn ei brofiad ef, wella'r mesurau diogelwch yn yr ardal honno. Felly, ar gyfer argyfyngau, bydd yr aflonyddwch yn fach iawn – os o gwbl.[709] Ar gyfer elfennau eraill o darfu – e.e. egwyliau cinio – mae Menter Môn yn cydnabod y bydd rhywfaint o darfu. Rydym eisoes wedi amlinellu y bydd angen gosod naw cebl allforio. Fel achos gwaethaf, mae'r ES [710] yn rhagweld treulio 32 diwrnod y flwyddyn i gyd yn gosod ceblau allforio. Bydd tuag 20% o hyn yn digwydd yn Abraham's Bosom, hynny yw tua saith diwrnod o amser gosod y flwyddyn. Mae'r Cynffonnau Cebl yn ychwanegu dau ddiwrnod arall y flwyddyn – felly naw diwrnod y flwyddyn i gyd o fynediad

Trydan (Cynhyrchu Alltraeth) (Parth Diogelwch) (Gweithdrefnau Gwneud Cais a Rheoli Mynediad) 2007 (O.S. 2007/1948) (y "Rheoliadau Parth Diogelwch") i ddarparu bod ceisiadau i'w gwneud i Weinidogion Cymru.

704 Fel yr amlinellodd Mr Maile, Rheoliadau 3-8 o'r Rheoliadau Parth Diogelwch, a gymhwysir gan Erth. 43(3) o'r Gorchymyn Drafft (Cyf: Dogfen yr Ymchwiliad - 102).

705 Mynegwyd rhywfaint o bryder gan Ms Wong a SCC am yr hyn sy'n digwydd os byddant yn mynd i mewn i'r parth diogelwch. Fel y nododd Mr Salter ar gyfer yr MCA yn yr RT Mordwyo, Diwrnod 11, Sesiwn AM 2, nid yw'r gwaharddiadau ar fynd i mewn i barth diogelwch yn berthnasol os yw'r llong yn achub bywyd neu eiddo neu os yw'r llong yno oherwydd tywydd garw neu drallod – gweler Rheoliad 9(g),(h) y Rheoliadau Parth Diogelwch.

706 Tystiolaeth Cdr Brown i'r RT Mordwyo, Diwrnod 11, Sesiwn AM 2.

707 Tystiolaeth Ms Wong (ar gyfer SCC) i'r RT Mordwyo, Diwrnod 11, Sesiwn AM 2.

708 Bydd partïon hefyd yn nodi y cyfeiriwyd at hyn ym mharagraff 6 o Gyf: Dogfen yr Ymchwiliad – 078. Ar gyfer y gydnabyddiaeth, gweler e.e. tystiolaeth Cdr Brown, RT Mordwyo, Diwrnod 11, Sesiwn AM 2.

709 Cdr Brown, RT Mordwyo, Diwrnod 11 sesiwn AM 2.

710 Cyf: MDZ/A25.4 para. 231 ymlaen a Thabl 4-17, a thystiolaeth Cdr Brown i'r RT Mordwyo, Diwrnod 11, Sesiwn AM 2.

cyfyngedig posibl i Abraham's Bosom.[711] Bydd y rhain yn cael eu cyfyngu i rai ffenestri tywydd a llanw, ac felly'n dibynnu ar longau y mae angen eu siarteru 3, 6 neu hyd yn oed 9 mis ymlaen llaw.[712] Felly, gan gyfuno hynny â'r gofynion ymgynghori yr ydym eisoes wedi'u nodi uchod, cynigir nad yw hyn yn amharu'n sylweddol ar gaiacwyr yn yr ardal, a'i fod yn amhariad sy'n amlwg o hydrin fel y gall defnyddiau'r môr gydfodoli.

364. Cododd SCC bryderon hefyd am yr aflonyddwch ehangach yn sgil adeiladu, yn enwedig pan fydd llongau'n gosod ceblau o amgylch Ynys Lawd, neu pan fydd Hybiau'n cael eu gosod yn yr Ardal Las.[713] Gofynnodd fod SCC yn gallu cyd-drafod pryd fydd y llongau hynny yno, ac a oes iawndal yn ddyledus am unrhyw aflonyddu ar fusnesau caiacio. Ar y cwestiwn blaenorol, mae ein hateb yr un fath ag ar gyfer Abraham's Bosom - mae gofynion ymgynghori a hysbysu wedi'u cynnwys ym mhroses yr NRA sy'n benodol i ddyfais a'r broses parth diogelwch. Ar yr olaf – nid oes hawl i iawndal ac nid dyna ddiben y broses hon, ac eithrio wrth gwrs mewn perthynas â'r rhai yr ydym yn caffael eu tir – ond fel y gwerthfawrogir, nid yw caiacwyr yn "berchen" ar y môr yn fwy nag y mae morwyr. Adnodd cyhoeddus ydyw. Nid oes angen iawndal ar "gydfodoli". Beth bynnag, wrth gwrs, mae mesurau lliniaru economaidd-gymdeithasol i'w rhoi ar waith.

*Casgliad*

365. Bu hon yn adran hir mewn dadl hir, ond cynigiwn, am yr holl resymau a archwiliwyd ac a amlinellwyd uchod, nad yw materion nad ydynt yn ymwneud â mordwyo yn sail i wrthod y Gorchymyn hwn. Rydym wedi amlinellu'r rhesymau dros hyn yn y crynodeb ar y dechrau.

711 Dylem dynnu sylw yn y man hwn at gamgymeriad bach yn Nhabl 4-17 o'r ES (Cyf: MDZ/A25.4). Mae'n nodi'n anghywir y bydd gosod Cynffonnau Cebl yn cymryd 20 diwrnod y flwyddyn (cyfanswm o 200). Mewn gwirionedd, 20 diwrnod i gyd ydyw, felly dau ddiwrnod y flwyddyn ar gyfartaledd. Mae'r geiriad ym mharagraff 233 yn gywir, fel yr hyn a amlinellodd Cdr Brown yn y dystiolaeth.

712 Tystiolaeth Cdr Brown i'r RT Mordwyo, Diwrnod 11, Sesiwn AM 2.

713 Tystiolaeth Ms Wong i'r RT Mordwyo, Diwrnod 11, Sesiwn AM 2.

## 6. Caffael Gorfodol

*Cyflwyniad*

366. Nid ydym yn rhagweld y bydd llawer iawn o anghydfod ynglŷn â'r egwyddorion cyffredinol i'w cymhwyso i ystyried materion CPO. Gall ble i chwilio am y canllawiau perthnasol fod ychydig yn gylchol,[714] ond nid ydym yn rhagweld unrhyw ddadlau penodol ynghylch yr egwyddorion canlynol:

(i) Yn y bôn, rhoddir CPO i hwyluso datblygiad sydd er budd y cyhoedd. Bwriedir iddo fod yn ddewis olaf, lle mae caffael drwy gytundeb wedi methu.

(ii) Bydd yn rhaid i Weinidogion Cymru ystyried:

a. A wnaed ymdrechion i gaffael y tir drwy gytundeb,

b. A oes angen cymryd y tir i ddatblygu cynllun datblygu,

c. A oes achos cymhellol er budd y cyhoedd, ac

d. A oes tystiolaeth glir y bydd budd y cyhoedd yn y cynllun datblygu yn drech na'r golled breifat.

(iii) Rhaid i Fenter Môn ddangos bod y cynllun yn debygol o fynd rhagddo, gan gynnwys a oes digon o gyllid wedi'i sicrhau. Mae hwn yn fater yr ymdriniwyd ag ef gan Mr Billcliff yn ei brawf [715] a'i dystiolaeth lafar ac na chafodd ei herio na'i groesholi gan neb yn ei gylch.

(iv) Mae Gweinidogion Cymru yn argymell bod cyrff nad ydynt yn gyrff cyhoeddus sy'n ceisio defnyddio a chyfiawnhau pwerau CPO yng Nghymru yn gwneud hynny yn unol â'r nodau llesiant cyffredinol a geir yn Neddf 2015. Dylid ystyried sut mae defnyddio pwerau CPO yn cyfrannu at y nodau llesiant. At hynny, rhaid i unrhyw gaffaeliad fod yn drosedd gyfiawn gyda hawliau'r tirfeddianwyr o dan A1P1. Ni fydd unrhyw doriad pan fydd y caffaeliad wedi'i

[714] Mae Cylchlythyr Llywodraeth Cymru 003/2019 Prynu Gorfodol yng Nghymru a '*Rheolau Crichel Down (Fersiwn Cymru, 2020)* (Hydref 2020) yn cynnwys canllawiau manwl ar gymhwyso gweithdrefnau CPO yng Nghymru. Fodd bynnag, ym mharagraff 24 mae'n nodi bod gan CPO o dan TWA 1992 ei ganllawiau ei hun. Nid yw dogfennau Arolygiaeth Gynllunio Cymru *Applications for Orders under the Transport & Works Act 1992* (Medi 2019) yn dweud llawer iawn am brynu gorfodol, ond mae'n nodi bod canllaw'r Adran Drafnidiaeth *A Guide to TWA Procedures* (2006) yn parhau'n berthnasol ac yn darparu canllawiau manylach, er dylid ei ddarllen gan gofio newidiadau deddfwriaethol mwy diweddar. Mae *A Guide to TWA Procedures* ym mharagraff 1.39 yn nodi bod cyngor perthnasol ar ddefnyddio pwerau CPO i'w weld yng Nghylchlythyr 06/2004 Prynu Gorfodol a Rheolau Crichel Down. Yn Lloegr, disodlwyd hynny gan Ganllawiau MHCLG i *Compulsory Purchase Process and the Crichel Down Rules* (2018). Nid yw hynny, wrth gwrs, yn ystyried newidiadau deddfwriaethol Cymru, a adlewyrchir yng Nghylchlythyr 003/2019 yn unig. Yn gyffredinol, felly, cynigiwn y gallwch, ac y dylech, ystyried Cylchlythyr 003/2019 er gwaethaf y datganiad ym mharagraff 24.

[715] Gweler Cyf: MDZ/P8 Prawf Tystiolaeth Mr Billcliff Adran 9.

awdurdodi gan y gyfraith, pan fyddai'n gymesur, er budd y cyhoedd a phan fyddai unrhyw dirfeddiannwr yn cael ei ddigolledu'n briodol. Felly, dylai awdurdodau sy’n caffael egluro pam eu bod o'r farn bod y dibenion y mae'r tir i'w gaffael ar eu cyfer yn ddigon pwysig i gyfiawnhau'r cymryd, pam mae angen y tir er mwyn cyflawni'r dibenion hynny, a pham na ellid bod wedi defnyddio mesur llai ymwthiol, a bod cydbwysedd teg wedi'i daro rhwng hawliau'r unigolion a buddiannau'r gymuned.

(v) Mae hyn, wrth gwrs, i gyd yn digwydd yn erbyn cefndir yr egwyddor gyfreithiol gyffredinol y dylid gwneud iawn am unrhyw gymryd mewn modd a fydd yn rhoi'r tirfeddiannwr yn y sefyllfa y buasai ynddi pe na bai wedi digwydd (egwyddor cyfatebiaeth). Mae hynny'n fwy o fater ar gyfer iawndal ond dylid ei gadw mewn cof.

367. Yn erbyn yr egwyddorion cyffredinol hynny, deuwn at y CPO a geisir yn yr achos hwn. Byddwn yn delio ag Orthios yn fanwl isod, ond byddem yn ceisio gwneud y tri phwynt rhagarweiniol canlynol:

(i) Yn gyntaf, fel yr amlinellwyd gennym ar y dechrau, sefydlwyd y gweithrediad cyfan hwn i leihau'r tir y mae’n ofynnol ei gymryd oddi wrth dirfeddianwyr preifat ac ymgymerwyr statudol. Fel y dywedodd Mr Billcliff, yn ei Brawf o Dystiolaeth ac wrth roi prif dystiolaeth yn benodol,[716] cyflawnwyd hyn drwy gladdu'r cebl ar hyd y llwybr ffordd presennol cyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol, a defnyddio llwybr gyda'r nifer isaf o dirfeddianwyr preifat gan ddefnyddio safleoedd tir llwyd a thir cyhoeddus neu fawr sy'n eiddo i gwmnïau lle bo hynny'n bosibl, fel y byddai llai o berchnogion gyda mwy o fuddiannau tir a byddai'r rheini'n cael eu defnyddio i ymdrin â chytundebau eiddo. At hynny, mae Menter Môn wedi cymryd pa gamau y gall i ymateb yn rhagweithiol i wrthwynebiadau a wnaed gan dirfeddianwyr. Er enghraifft, mae wedi adlinio llwybrau cebl er mwyn osgoi gweithgareddau adeiladu masnachol, wedi caffael y cebl mewn hydoedd maith i leihau'r angen am faeau uniad, yn ymgymryd â gweithgareddau yn ddwfn ac yn mynd i gytundebau diogelu asedau er mwyn osgoi difrod i asedau, yn defnyddio pwerau dros dro yn hytrach na derbyniadau parhaol lle bo hynny'n bosibl, ac wedi datblygu rhaglen adeiladu a fydd yn tarfu cyn lleied ag y bo modd ar fusnesau lleol.[717] At hynny, clywodd yr ymchwiliad gan Mr Billcliff mai'r bwriad ar hyn o bryd yw darparu prosiect sydd wedi’i ddiogelu at y dyfodol – gan osod, er enghraifft, ceblau mwy yn awr fel y gellir defnyddio'r rheini, pan fydd y prosiect yn cynyddu, heb amharu ymhellach ar drigolion a busnesau lleol.[718] Yn fyr, mae'n gwneud ac wedi gwneud popeth o fewn ei allu i leihau'r cymeriant tir ac aflonyddwch ar eraill.

(ii) Yn ail, dilynwyd y gweithdrefnau a'r canllawiau gofynnol i gyd – creodd Menter Môn ei llyfr cyfeirio ac mae wedi ymgysylltu â phawb yn y llyfr.[719] Yng ngoleuni'r pwynt hwnnw a phwynt (i) uchod, daethpwyd i gytundeb â bron pob un o'r rhai yr effeithir arnynt. Yng Nghyf: Dogfen yr Ymchwiliad – 099 mae tabl sy'n amlinellu cynnydd presennol materion gyda'r holl bartïon sy'n berchen ar dir ar draws y llwybr. Fodd bynnag, hyd yn oed pan fydd cytundeb

[716] Prawf Tystiolaeth Mr Billcliff para. 5.2.14, Adrannau 6 a 10.5 a'i brif dystiolaeth.
[717] Prawf Tystiolaeth Mr Billcliff Adran 7.
[718] Prif dystiolaeth Mr Billcliff.
[719] Prawf Tystiolaeth Mr Billcliff para. 10.3.9.

wedi'i wneud, rydym yn cadw'r tir yn y CPO i lanhau teitl y llyffetheiriau a diogelu Menter Môn os bydd unrhyw gytundeb yn cael ei dorri neu rhag ofn y daw unrhyw fuddiannau newydd i'r amlwg.

(iii) Yn drydydd, mae'r cynllun yn bodloni'r profion yr ydym wedi'u hamlinellu uchod. Mae'n amlwg bod achos cymhellol er budd y cyhoedd:

a. Lle mae'r manteision yn amrywiol ac yn ddiwrthwynebiad i raddau helaeth, fel yr ydym wedi'i amlinellu uchod.[720] Yn erbyn hynny, drwy weithio gyda thirfeddianwyr lleol a lleihau'r ardaloedd hynny lle'r ydym yn tresmasu ar dir, prin iawn yw'r golled breifat.

b. Lle mae cymryd y tir a geisiwn yn angenrheidiol i ddatblygu'r cynllun hwn ac i gyflawni'r manteision hynny. Rydym bellach wedi cyrraedd isafswm anostwng y tir i'w gymryd, a byddai unrhyw ostyngiadau pellach iddo'n peryglu'r cynllun. Rydym yn ailadrodd bod yr ymchwiliad wedi clywed gan Mr Billcliff fod y tir i'w gymryd wedi'i gynllunio i "ddiogelu'r" prosiect "at y dyfodol" – felly er gwaethaf y gostyngiad yn y raddfa ddefnyddio i ddechrau, mae'r seilwaith ar gael sy'n caniatáu iddi gynyddu yn ôl y gofyn.

c. Mae'r cynllun yn debygol o fynd rhagddo o fewn amserlen resymol.[721] Clywodd yr ymchwiliad gan Mr Billcliff fod cyllid grant wedi'i sicrhau, a thystiolaeth ddiwrthwynebiad o'r ffynonellau arfaethedig ar gyfer gweddill yr arian. Felly, mae'n debygol y bydd yr holl adnoddau ar gael i gyflawni'r hyn a gynigir o fewn amserlen resymol.

d. Fel yr amlinellodd Mr Bell, mae datblygu'r cynllun yn unol â Deddf 2015.

368. Hefyd, dylid nodi bod y dystysgrif cais tir categori arbennig bellach wedi'i chyhoeddi gan Weinidogion Cymru.[722] Mae hyn yn awdurdodi caffael hawliau newydd dros yr ardal o fannau agored cyhoeddus tybiedig yn Abraham's Bosom.

*Conygar/Horizon*

369. Mae'n werth sôn am bwynt byr ar dir Conygar/Horizon (Llain 39). Conygar sy'n berchen ar y tir, mae gan Horizon opsiwn. Mae gan Horizon wrthwynebiad heb ei ateb, ond cyflwynodd lythyr yn nodi bod cynnydd cadarnhaol yn cael ei wneud i ddod o hyd i ateb ymarferol sy'n diwallu anghenion y ddau brosiect. Mae DCO drafft Wylfa bellach wedi'i dynnu'n ôl wrth gwrs.[723] I'r gwrthwyneb, nid oedd Conygar yn gwrthwynebu'r cynllun yn wreiddiol, gan gyflwyno llythyr gwrthwynebu byr ar 12 Ionawr 2021 yn unig.[724] Mae gan yr ymchwiliad ein hymateb i hwnnw,[725] ac er byrdra nid ydym yn ei ailadrodd yma. Yn gryno, roedd hwn yn wrthwynebiad ofnadwy o hwyr, nid oes unrhyw dystiolaeth ynghlwm wrtho, ac mae fel petai'n

[720] Gweler hefyd Adran 10.2 o Brawf Tystiolaeth Mr Billcliff.
[721] Prawf Tystiolaeth Mr Billcliff Adran 10.7 (Cyf: MDZ/P9) a'i brif dystiolaeth.
[722] Cyfeiriadau: Dogfen yr Ymchwiliad – 077 a Dogfen yr Ymchwiliad – 078
[723] Cyf: Dogfen yr Ymchwiliad – 058
[724] Cyf: Dogfen yr Ymchwiliad – 060
[725] Cyf: Dogfen yr Ymchwiliad – 061

gwrthdaro â llythyr Horizon sy'n nodi ei fod yn disgwyl i ateb ymarferol gael ei gyrraedd. Anogwn beidio â rhoi pwys iddo.

*Orthios*

<u>(i) Cyflwyniad</u>

370. Er bod Orthios yn esgus cefnogi peidio â gwrthwynebu egwyddor prosiect Morlais a'i gefnogi "*yn gyffredinol*" [726] mae'r realiti'n anffodus ychydig yn wahanol gyda Mr LeVasseur yn ei ail brawf yn ceisio awgrymu, yn groes i dystiolaeth gwbl ddi-her Mr Bell a Dr Jones, nad yw prosiect Morlais yn "*ddim mwy na chwndid trosglwyddo ynni"* a fyddai'n cynhyrchu *"nifer fach o swyddi uniongyrchol (llai na 10?)*" [727].[728] Mewn croesholiad, derbyniodd Mr LeVasseur, fel y bu'n rhaid iddo, na allai herio tystiolaeth Mr Bell mewn gwirionedd yn seiliedig ar yr ES y byddai prosiect Morlais yn cynhyrchu hyd at 456 o swyddi i gyd, a 240 ohonynt yn uniongyrchol. Ond mae tystiolaeth Mr LeVasseur yn arwydd o'r ffordd y mae Menter Môn wedi cael ei thrin mewn trafodaethau sy'n mynd yn ôl pedair blynedd bellach, hynny yw, yn destun cymysgedd o draha a gwatwar. Mae prosiect Morlais yn cael ei ystyried gan Orthios yn ddim llawer mwy na mân anghyfleustra i'w ysgubo o'r neilltu o blaid ei gynlluniau mawr ei hun,[729] neu fel arall fel modd o ryddhau rhywfaint o arian parod.

371. At hynny, er mai safbwynt Orthios yn ôl pob golwg yw ei fod yn ceisio diwygiadau yn unig i'r Gorchymyn, nid ei fod yn cael ei wrthod.[730] Mewn gwirionedd, byddai'r gwelliannau y mae'n eu ceisio, gweler er enghraifft para. 7.25.7 o brawf cyntaf Mr LeVasseur (Cyf: POE005), yn dileu gallu Menter Môn i gaffael y tir sydd ei angen yn Llain 49 i wneud cysylltiad â'r Grid. Mae'n ymddangos bod y gwelliannau wedi'u hanelu at hwyluso (yn rhannol o leiaf) y dewisiadau amgen a gynigiwyd yn ddiweddar gan Mr Jesson. Ond fel y derbyniwyd yn rhwydd gan dystion Orthios ill dau, nid yw'r rhain yn ddewisiadau amgen os na cheir cytundeb rhwng Menter Môn ac Orthios ar lu o faterion, gan gynnwys pris unrhyw fuddiannau tir sydd i'w caffael. Effaith yr hyn y mae Orthios yn ei gynnig yw y byddent yn cael eu rhoi mewn sefyllfa bridwerth a fyddai'n golygu na allai prosiect Morlais fynd yn ei flaen. Holl ddiben ceisio pwerau caffael gorfodol drwy'r Gorchymyn oedd goresgyn y ffaith nad ellid dod i gytundeb.

---

[726] Prawf Tystiolaeth cyntaf Mr LeVasseur ym mharagraff 7.4 (Cyf: POE005) a'i atebion yn XX.

[727] Ail Brawf Tystiolaeth Mr LeVasseur ym mharagraffau 3.9.3 a 4.8.2 (Cyf: RPE013).

[728] Prawf Mr Bell (Cyf: MDZ/P9) ym mharagraff 7.1.16, yr 2il, y 3ydd ac yn enwedig y 4ydd pwynt bwled a phennod 24 yr ES (Cyf: MDZ/25.25) yn Nhabl 25-25, t.59. Yn ei atebion yn XX eglurodd Mr LeVasseur ei fod yn seilio 10 ar nifer y bobl a allai gael eu cyflogi yn Llain 49 gan Fenter Môn ac roedd yn cymharu hynny yn erbyn y 100 o swyddi y dywed y byddant yn codi o'r gwaith REP (nad oes caniatâd ymarferol yn bodoli iddo – gweler isod). Mae hynny megis cymharu afalau a gellyg. Heb Lain 49 ni all prosiect Morlais ddigwydd ac mae hynny'n golygu colli hyd at 240 o swyddi uniongyrchol.

[729] Trafodir y cynlluniau mawr isod, ond o ran cyflogaeth gyfredol ar 213 erw gyfan Orthios roedd tystiolaeth Mr LeVasseur ar hyn yn ddryslyd ac yn anghyson – byddai fel petai rhywle rhwng 20 a 55 "efallai mwy" (gweler ei brawf cyntaf ym mharagraff 6.3.46 ymlaen a'i atebion yn XX).

[730] Prawf Tystiolaeth cyntaf Mr LeVasseur ym mharagraffau 2.5 a 7.25.7 (Cyf: POE005).

(ii) Dewisiadau amgen Mr Jesson, a chynlluniau diwygiedig a gyflwynwyd ar 08/01 a 04/02

372. Mae'n wir fod Mr Jesson yn gweithio i Orthios ers sawl blwyddyn efallai ond dim ond ers mis Awst neu fis Medi 2020 y bu’n "cymryd rhan yn benodol" gyda phrosiect Morlais a'r trafodaethau o'i gwmpas.[731] Dim ond "*rhoi cymorth ymgynghori trydanol technegol i Orthios mewn perthynas â phrosiect Morlais*" [732] y cyfarwyddwyd iddo’i wneud yn y cyfnod hwyr iawn, iawn hwnnw, ac ar y gorau nid oedd ganddo fwy nag ymwybyddiaeth gyffredinol o'r prosiect cyn hyn.[733] Nid oedd ganddo unrhyw ran yn y cyfarfodydd niferus na’r mwy na 3000 o e-byst[734] yn ôl ac ymlaen rhwng 2016 ac yn gynharach eleni, a dim ond ers mis Medi 2020 y bu'n brif bwynt cyswllt mewn trafodaethau.[735] Cyn mis Medi 2020 nid oedd gan Orthios unrhyw arbenigedd technegol o'r fath yn y trafodaethau,[736] ac yn hytrach roeddent yn canolbwyntio ar y telerau masnachol yn unig – ar yr arian, y dywedasant y dylid cytuno arno'n gyntaf cyn i unrhyw faterion technegol gael eu harchwilio: gweler isod. Codwyd y dewisiadau amgen a gyflwynwyd wrth wraidd achos Orthios i'r ymchwiliad hwn am y tro cyntaf yn ei Ddatganiad Achos ym mis Medi 2020.

373. Mae'n amlwg hefyd fod dealltwriaeth Mr Jesson o brosiect Morlais a'i esblygiad braidd yn ansicr (nid ef sydd ar fai, ond mae’n nodwedd ar ei benodiad hwyr a'i gyfarwyddiadau). Felly:

(i) Mae'n awgrymu [737] bod rhagdybiaethau a wnaed gan Fenter Môn am y cyfyngiadau sy'n ymwneud â drilio yn "*golygu nad oedd ganddynt ddewis heblaw cynllunio safle ar gyfer cysylltiad grid yn Llain 49*" ond mae hyn yn anghywir[738] oherwydd mewn gwirionedd cafodd Menter Môn "*wybod gan Orthios na ellid darparu mwy o dir o gwbl na maint cwrt tenis yn yr is-orsaf bresennol*".[739] Felly, "*awgrymodd Orthios lain yn llain 49 lle gellid ail-leoli*

[731] Prawf Tystiolaeth cyntaf Mr LeVasseur ym mharagraff 1.8 (Cyf: POE005) a phrawf cyntaf Mr Jesson ym mharagraff 1.8.
[732] Prawf Tystiolaeth cyntaf Mr LeVasseur ym mharagraff 1.8 (Cyf: POE005) a phrawf cyntaf Mr Jesson ym mharagraff 1.8.
[733] Prawf Tystiolaeth Mr LeVasseur ym mharagraff 1.3 (Cyf: POE005).
[734] Prawf Tystiolaeth Mr Billcliff ym mharagraff 3.1 (Cyf: MDZ/P8).
[735] Mae ail brawf Mr LeVasseur ym mharagraff 1.5 i'r graddau y ceisia awgrymu fel arall yn anghywir (Cyf: RPE013), fel y derbyniodd yn XX.
[736] Yn XX, cyfeiriodd Mr LeVasseur at Richard Court yn darparu arbenigedd o'r fath. Dywedodd "*Mae'n beiriannydd trydanol. Roedd yn brif bwynt cyswllt i ni*" ond o'r 3,000 a mwy o e-byst rhwng Orthios a Menter Môn mae Mr Court yn cael ei gopïo i ddau ac nid yw’n anfon yr un, ac nid oes cofnod ohono'n mynychu unrhyw gyfarfod. Pan ofynnwyd a oedd hyn yn adlewyrchu'n deg lefel gyfyngedig o gyfranogiad Mr Court yn y materion hyn, nid oedd Mr LeVasseur yn gallu dweud.
[737] Prawf Tystiolaeth cyntaf Mr LeVasseur ym mharagraffau. 4.1.2 – 4.1.4 (Cyf: POE005).
[738] Gweler gwrthbrofiad Mr Billcliff ym mharagraffau 4.14 – 4.17 (Cyf: MDZ/P8), ac fe'i cefnogir gan Atodiad P1.2.2 o Brawf Tystiolaeth cyntaf Mr LeVasseur (Cyf: POE005) sydd yng nghamau 4 a 6 yn dangos Orthios yn cynnig Llain 49 i'w defnyddio gan Fenter Môn. Yn XX nid oedd Mr LeVasseur yn gwadu bod Orthios wedi cynnig Llain 49 i Fenter Môn ar wahanol adegau fel lleoliad ar gyfer eu seilwaith ar y sail nad oedd digon o le yn yr Iard Switsio, mae'n debyg. Roedd tystiolaeth lafar Mr Billcliff yn glir yn XX "*Dywedodd eich cleient wrthym am fynd i Lain 49*".
[739] Prawf Tystiolaeth Mr Billcliff yn yr Atodiad ym mharagraffau 4.29, 4.32 a 4.33 (Cyf: MDZ/P8).

*gwaith brig nwy 'wedi'i gynllunio' a gellid symud prif bibell nwy 150mm fach i weddu. Digwyddodd hyn i gyd yn 2019, cyn i Mr Jesson gael ei gyflogi gan Orthios. Felly, gosodwyd yr is-orsaf ac yna cynlluniwyd y llwybrau drilio i gwrdd â'r is-orsaf, nid y ffordd arall*".[740] Felly, mae rhagosodiad sylfaenol Mr Jesson yn anghywir o ran dewis safle ar gyfer is-orsaf Morlais: "*Roedd yr is-orsaf wedi'i gosod o fewn llain 49 fel y cytunwyd gydag Orthios ac nid oedd yn ymwneud o gwbl â drilio. Fodd bynnag, dewisodd Menter Môn y llwybr risg lleiaf i ddrilio i'r is-orsaf ar ôl i fras leoliad yr is-orsaf gael ei osod*";[741]

(ii) Yn rhyfedd iawn, er bod Llain 49 yn cael ei chynnig at ddefnydd Menter Môn gan Orthios. Ymddengys cyfarwyddiadau Mr Jesson fel petaent ar gyfer cynllunio opsiynau amgen a oedd yn osgoi gosod seilwaith yn Llain 49 cyn belled ag y bo modd.[742] Nid yw'r rheswm am hyn yn amlwg ar wahân i'r ffaith bod Mr LeVasseur wedi dod i ddatblygu syniadau braidd yn chwyddedig o werth Llain 49 ar gyfer datblygiadau cwbl ddamcaniaethol eraill (gweler isod);

(iii) Mewn perthynas â drilio, mae tystiolaeth Mr Jesson yn gwbl afresymegol. Dywed y "*gallai*" Network Rail ("NR") fod yn barod i dderbyn "*gofyniad clirio llai beichus*" na 9m ond bod hyn yn dibynnu ar y ddaeareg a'i fod hefyd beth bynnag "*yn ôl disgresiwn Network Rail a bydd angen ei gadarnhau*".[743] Ni chafodd unrhyw drafodaeth gydag NR ac nid oedd yn ymwybodol bod Menter Môn ac NR wedi dod i gytundeb ar 9m a'u bod (bryd hynny) yn y cyfnod cwblfeddiant. Mae hyn bellach wedi'i weithredu ac mae gwrthwynebiad NR yn cael ei dynnu'n ôl.

(iv) Tybiodd astudiaeth ddichonoldeb Mr Jesson y byddai holl gynlluniau mawr niferus Orthios – fel y'u nodir yn Atodiad P1.2.1 Mr LeVasseur – yn dwyn ffrwyth. Cadarnhaodd ei fod yn eu defnyddio "*fel mewnbynnau ar gyfer fy astudiaeth*",[744] defnyddiodd y rhain "*fel mewnbynnau i'm proses ddylunio fel barn orau Orthios am ofynion defnyddwyr dros y 10 mlynedd nesaf*".[745] Ni wnaeth arfer unrhyw farn annibynnol am debygolrwydd nac amseriad unrhyw un o'r cynlluniau hyn o ran cynllunio, gofynion caniatâd eraill cyllid [746] er nad yw llawer ohonynt yn llawer mwy na phefriad yn llygad Mr LeVasseur: gweler isod ynglŷn â hynny. O ran y mewnbynnau hyn, mae'r hen ddywediad yn berthnasol: sbwriel i mewn, sbwriel allan.[747]

374. Dywed Mr Jesson[748] nad yw ei ddewisiadau amgen yn "*ddrutach o gwbl*" na'r cynllun a ddilynir gan Fenter Môn drwy'r Gorchymyn. Ond mae'n derbyn bod yr awgrym hwn yn anwybyddu'n llwyr unrhyw gostau caffael tir sy'n angenrheidiol ar

[740] Prawf Tystiolaeth Gwrthbrofi Mr Billcliff ym mharagraff 4.16 (Cyf: RPE011).
[741] Prawf Tystiolaeth Gwrthbrofi Mr Billcliff ym mharagraff 4.17 (Cyf: RPE011).
[742] Prawf Tystiolaeth cyntaf Mr Jesson ym mharagraffau 4.2 a 7.1.1 (Cyf: POE005), a'i atebion yn XX.
[743] Prawf Tystiolaeth cyntaf Mr Jesson ym mharagraff 4.3 (Cyf: POE005), a'i atebion yn XX.
[744] Gweler atebion Mr Jesson yn XX.
[745] Prawf Tystiolaeth Mr Jesson ym mharagraff 3.4 (Cyf: POE005).
[746] Gweler atebion Mr Jesson yn XX.
[747] Er hynny, roedd Mr Jesson yn derbyn yn briodol fod y cynlluniau hyn wedi newid a'i bod yn ddigon posibl y byddent yn newid eto. Gweler ymhellach Brawf Tystiolaeth Mr LeVasseur ym mharagraff 6.3.1 (Cyf: POE005).
[748] Prawf Tystiolaeth cyntaf Mr Jesson ym mharagraff 6.1 (Cyf: POE006).

gyfer ei ddewisiadau amgen,[749] ac unrhyw swm a fynnir gan Orthios am gysylltiad o dan Opsiwn 1.[750] Opsiwn 1 yw cysylltiad â bar bws Orthios, Opsiwn 2 yw cysylltiad uniongyrchol â'r Grid Cenedlaethol. Mae'r ddau opsiwn yn dibynnu ar seilwaith trydanol yn yr Iard Switsio sy'n eiddo i Orthios nad ydynt yn bodoli ar hyn o bryd.[751] Nid oes gan y naill opsiwn na'r llall unrhyw ganiatâd cynllunio.[752] Ond y mater allweddol yw cytundeb. Mae'r ddau opsiwn – a gyflwynwyd ar y funud olaf un – yn gofyn am gytundeb rhwng Orthios a Menter Môn ar amrywiaeth o faterion gan gynnwys: (i) y manylion technegol ynghylch sut y byddai'r opsiynau hyn yn gweithio; (ii) y telerau masnachol a fyddai'n cynnwys y pris am y tir angenrheidiol (y mae Orthios yn berchen arno) yn ogystal â chost unrhyw gysylltiad yn Opsiwn 1;[753] a (iii) sut y gellid sicrhau sefyllfa Menter Môn pe byddai Orthios yn methu.[754]

375. Gan edrych ar yr hyn y mae angen cytuno arno o dan yr opsiynau hyn mewn ychydig mwy o fanylder:

(i) Mae seilwaith y Grid Cenedlaethol y mae'n rhaid i Fenter Môn gysylltu ag ef – y diweddion sêl cebl 132kV - yn gorwedd yn gyfan gwbl ar dir Orthios, ac wedi'i amgylchynu ganddo,[755] a derbynnir bod angen i Fenter Môn wneud cysylltiad o'r fath er mwyn i brosiect Morlais fynd yn ei flaen.[756] Mae'r sefyllfa'n anarferol – ased Grid Cenedlaethol wedi'i gloi o fewn tir preifat.[757] Felly, heb gaffael tir na hawliau dros dir gan Orthios, ni all prosiect Morlais fynd yn ei flaen. Heb bwerau caffael gorfodol yr unig ddewis arall yw cytuno ar bris ar gyfer hyn ac, ar ôl pedair blynedd o drafod, ni chafwyd cytundeb;

(ii) Opsiwn 1 Mr Jesson – cysylltiad uniongyrchol â bar bws Orthios. Mae hyn yn gofyn cytundeb ar sawl lefel:[758]

---

[749] Ac, ar ben hynny, nid yw Mr Jesson mewn gwirionedd yn darparu unrhyw gostau ar gyfer ei ddewisiadau amgen o gwbl.

[750] Prawf Tystiolaeth cyntaf Mr Jesson ym mharagraff 6.1 (Cyf: POE006) a'i atebion yn XX.

[751] Prawf Tystiolaeth Mr Billciff ym mharagraff 4.45 "*Byddai llofnodi cytundeb cysylltiad ag Orthios sy'n caniatáu cyfarpar cysylltu yn haws pe bai'r asedau ffisegol eisoes yn eu lle, neu pe byddai unrhyw gytundeb wedi'i gysylltu'n uniongyrchol â phrynu tir. Ar hyn o bryd nid oes unrhyw ased ffisegol i gysylltu ag ef ac nid yw Orthios yn dymuno gwerthu tir nac opsiynau tir at y diben hwnnw*" (Cyf: MDZ/P8).

[752] Gweler Prawf Tystiolaeth gwrthbrofi Mr Billcliff ym mharagraff 5.9 (Cyf: MDZ/RPE011), ac atebion y Mri. LeVasseur a Jesson yn XX. Ac ar achos Orthios, nid oes unrhyw dystiolaeth gerbron yr ymchwiliad ynglŷn â'r materion cynllunio mewn perthynas â'r opsiynau hyn. Wedi dweud hynny, mae llythyr JLL (gweler Atodiad P4.2.7 i brawf Mr LeVasseur) yn ôl pob golwg fel petai'n ymwneud a'r rhain ond gwadodd Mr LeVasseur hyn yn XX.

[753] Gweler Prawf Tystiolaeth Mr Billcliff ym mharagraff 4.46 "*Byddai cysylltu drwy Orthios ar unrhyw adeg yn gadael Menter Môn yn llawer mwy agored i risg, na phe bai'n cysylltu'n uniongyrchol ag ased a reoleiddir gan y Grid Cenedlaethol*" (Cyf: MDZ/P8) a gweler ymhellach isod ar hyn.

[754] Fe'i derbyniwyd gan y Mri. LeVasseur a Jesson yn XX fod angen cytundeb ar yr holl faterion hyn er mwyn i opsiynau Mr Jesson weithio.

[755] Derbyniodd Mr Jesson yn XX ddisgrifiad y ffeithiau sy'n ymwneud â seilwaith y Grid Cenedlaethol fel y'i nodir ym mhrawf Mr Billcliff ym mharagraffau 4.6.3.1, 4.6.3.2 a 6.6.3.3.

[756] Gweler yr atebion yn XX Mri. LeVasseur a Jesson.

[757] Mae'r awgrym gan Mr LeVasseur yn ei dystiolaeth lafar fod seilwaith y Grid Cenedlaethol yn "westai" ar dir Orthios gan nad yw'r teitl cofrestredig yn datgelu unrhyw hawddfreintiau yn ddiffygiol, oherwydd mae'n debygol y bydd fforddfraint ac nid oes modd cofrestru'r rhain, fel y derbyniwyd Mr Jesson yn XX.

[758] Derbyniwyd pob pwynt gan Mr Jesson yn XX.

a. Mae'n amlwg bod cysylltiad felly ei hun yn gofyn cytundeb gan gynnwys ar bris am hyn;

b. Mae'r cysylltiad yn gofyn terfyniad cebl a bae switsio[759] i gysylltu[760] – y byddai'r seilwaith am hynny ar dir Orthios y mae angen cytundeb arno gan gynnwys ar bris;

c. Byddai'r offer eilaidd gofynnol [761] yn cael ei osod mewn ystafell offer arfaethedig a rennir – nad yw'n bodoli ar hyn o bryd – a honno unwaith eto ar dir sy'n eiddo i Orthios ac sy'n gofyn cytundeb gan gynnwys ar bris;

d. Byddai'r offer ategol sydd ei angen ar Fenter Môn [762] - ar gyfer cyfleuster batri a statcom - hefyd yn cael ei osod yn yr Iard Switsio naill ai ar dir a gadwyd ar gyfer Menter Môn ar gyfer hyn neu mewn cyfleusterau a rennir[763] – a hyn oll unwaith eto felly ar dir sy'n eiddo i Orthios ac felly mae angen cytundeb arno gan gynnwys ar bris;[764]

(iii) Mae Opsiwn 2 Mr Jesson – sef cysylltiad uniongyrchol â'r Grid Cenedlaethol – hefyd yn gofyn am gytundeb ag Orthios ar sawl lefel:

a. Mae hyn hefyd yn gofyn am fae switsio[765] i gysylltu – y byddai'r seilwaith amdano ar dir Orthios ac yn gofyn cytundeb gan gynnwys ar bris;

b. Unwaith eto, byddai'r offer eilaidd sydd ei angen yn cael ei osod mewn ystafell offer arfaethedig a rennir – nad yw'n bodoli ar hyn o bryd – ar dir Orthios ac sy'n gofyn cytundeb gan gynnwys ar bris;

c. Unwaith eto, byddai angen gosod offer ategol sydd ei angen ar Fenter Môn [766] yn yr Iard Switsio – felly ar dir sy'n eiddo i Orthios ac felly mae angen cytundeb arno gan gynnwys ar bris;[767]

(iv) Hefyd, mae Mr Jesson yn cynnig ceblau sy'n rhedeg ar draws tir Orthios (Lleiniau 46, 47, 48 a 49) a drilio ar dir Orthios [768] ac felly mae angen cytundeb gan gynnwys ar bris am hyn;

(v) Felly, fel y daw Mr Billcliff i'w gasgliad, "y*n y ddau opsiwn A a B, mae popeth ond y cysylltiad sylfaenol ei hun yn eistedd y tu allan i derfynau gwyriad presennol y TWAO felly mae'r naill opsiwn neu'r llall yn cyflwyno risg cynllunio*

---

[759] Wedi'i farcio MSB1 yn Atodiad P2.2.1 Mr Jesson i'w Brawf Cyntaf o Dystiolaeth (Cyf: POE006).
[760] Prawf Tystiolaeth cyntaf Mr Jesson ym mharagraff 6.3.2 (Cyf: POE006).
[761] Prawf Tystiolaeth cyntaf Mr Jesson ym mharagraff 6.3.3 (Cyf: POE006).
[762] Prawf Tystiolaeth cyntaf Mr Jesson ym mharagraffau 6.3.1 a 6.3.7 (Cyf: POE006).
[763] Prawf Tystiolaeth cyntaf Mr Jesson ym mharagraff 7.3.1 (Cyf: POE006).
[764] Cynigir hyn yn yr ardaloedd sydd wedi'u marcio â chroeslinellu glas ac oren yn Atodiad P.2.2.1 i Brawf Tystiolaeth cyntaf Mr Jesson (Cyf: POE006) neu i'w rannu.
[765] Wedi'i farcio MSB2 yn Atodiad P2.2.2 i Brawf Tystiolaeth cyntaf Mr Jesson (Cyf: POE006).
[766] Prawf Tystiolaeth cyntaf Mr Jesson yn Atodiad P2.2.2 a hefyd adran 7.3 (Cyf: POE006) a'i atebion yn XX.
[767] Unwaith eto, cynigir hyn yn yr ardaloedd sydd wedi'u marcio â chroeslinellu glas ac oren yn Atodiad P.2.2.1 i Brawf Tystiolaeth cyntaf Mr Jesson neu i'w rannu: gweler para. 7.3.1 o brawf cyntaf Mr Jesson (Cyf: POE006).
[768] Gweler y llinell las ar Atodiadau P2.2.1 a P2.2.2 i Brawf Tystiolaeth cyntaf Mr Jesson a'i atebion yn XX, a hefyd ei brawf cyntaf ym mharagraff 7.1.3 (Cyf: POE006).

*sylweddol*" [769] Mae cytundeb yn ofynnol ar y ddau opsiwn;[770] ac mae dau dyst Orthios yn derbyn bod hyn yn wir. A'r gwir yw nad oes yr un cytundeb wedi'i wneud. Yr unig ffordd arall o wneud i'r cynllun ddigwydd yw drwy roi pwerau caffael gorfodol drwy'r Gorchymyn. Heb gytundeb – ac nid oes un – cytunir nad oes unrhyw ddewisiadau amgen i'r Gorchymyn. Mae diwygiadau arfaethedig Orthios i'r Gorchymyn wedi'u cynllunio i hwyluso eu dewisiadau amgen, ond ni fyddent yn rhoi'r pwerau angenrheidiol gan ei gwneud yn angenrheidiol dod i gytundeb ar yr uchod i gyd.

376. Cyn yr achos hwn, nid oedd gan Mr Jesson fwy na mân brofiad o drafodion CPO.[771] Nid oedd yn ymwybodol bod canllawiau Cymru Prynu Gorfodol yng Nghymru a 'Rheolau Crichel Down (Cymru Fersiwn 2020)' (Cylchlythyr 003/2019) yn datgan ym mharagraff 28 [772] (ychwanegwyd pwyslais):

> "*Bwriedir prynu gorfodol i sicrhau cydosod tir sydd ei angen ar gyfer gweithredu cynllun lle na ellir ei gaffael drwy gytundeb. <u>Fodd bynnag, os bydd awdurdod caffael yn aros i drafodaethau chwalu cyn dechrau proses y prynu gorfodol, bydd amser gwerthfawr yn cael ei golli. Felly, gan ddibynnu pryd y mae angen y tir, o ystyried faint o amser sydd ei angen i gwblhau'r broses prynu gorfodol a nifer y lleiniau o dir y mae'n ofynnol eu cydosod, gall fod yn synhwyrol yn aml fod yr awdurdod caffael:</u>*
>
> - *<u>yn cynllunio amserlen prynu gorfodol fel mesur wrth gefn; ac</u>*
> - *<u>yn cychwyn gweithdrefnau ffurfiol.</u>*
>
> *<u>Mae hyn yn arbennig o berthnasol ar gyfer cynlluniau seilwaith ar raddfa fawr</u>.* Mae'r cynlluniau hyn yn aml yn cynnwys nifer o leiniau a phartïon a all ei gwneud yn anymarferol o ran yr amser a'r adnoddau sydd eu hangen i awdurdodau caffael ddod i gytundeb â thirfeddianwyr unigol ar werthu eu tir cyn Gorchymyn Prynu Gorfodol. Gall cychwyn gweithdrefnau prynu gorfodol o dan yr amgylchiadau hyn helpu i wneud difrifoldeb bwriadau'r awdurdod caffael yn glir o'r cychwyn cyntaf, a allai yn ei dro annog y rhai yr effeithir ar eu tir i fynd yn fwy parod i drafodaethau ystyrlon" (ychwanegwyd pwyslais)

O ystyried hyn, a'r ffaith bod ei opsiynau'n gofyn am gytundeb ac nad oes cytundeb wedi'i gael, derbyniodd Mr Jesson fod ei gasgliad yn ei brawf nad oedd angen CPO yn gwbl anghywir.[773]

377. Ar ôl cwblhau'r dystiolaeth cyflwynodd Orthios gynlluniau pellach i'r ymchwiliad hwn,[774] sydd wedi'u diwygio wedyn yn dilyn cyflwyniad Menter Môn o ymgymeriad

---

[769] Gweler prawf Mr Billcliff ym mharagraff 5.9 (Cyf: MDZ/P8). Enw'r opsiynau yw Opsiynau 1 a 2 ym Mhrawf Tystiolaeth cyntaf Mr Jesson. Yn Natganiad Achos Orthios fe'u gelwir yn Opsiynau A a B (gweler Cyf: MDZ/N14) ac mae'n amlwg bod llythyr JLL (gweler uchod) yn cyfeirio at y rhain.

[770] Prawf Tystiolaeth Mr Billcliff ym mharagraff 5.8 (Cyf: MDZ/P8).

[771] Gweler atebion Mr Jesson yn XX.

[772] Nid oedd Mr LeVasseur yn XX ychwaith yn ymwybodol o'r canllawiau hyn.

[773] Gweler atebion Mr Jesson yn XX. Mae Paragraff 7.2.2 o'i brawf cyntaf (Cyf: POE006) yn dweud "*Yr wyf wedi dod i'r casgliad nad oes rheswm i Morlais gaffael y tir yn orfodol yn Llain 49 ac nad oes angen is-orsaf ar wahân at ddefnydd Morlais.*"

[774] Cyfeiriadau: Dogfen yr Ymchwiliad – 056 a Dogfen yr Ymchwiliad – 057, a gweler Cyf: Dogfen yr Ymchwiliad – 091 a Dogfen yr Ymchwiliad – 092.

unochrog.[775] Ni allwn gytuno ag unrhyw un o'r rhain, ac atodwn yn Atodiad 2 dabl sy'n esbonio ymatebion penodol. Mae'r cynlluniau i fod i adlewyrchu'r dystiolaeth a roddwyd ac felly mae ein hachos ar y rheini wedi'i nodi yn hyn.

<u>(iii) Mae'r Gorchymyn yn darparu ateb sy'n ymarferol yn dechnegol ar gyfer cysylltu</u>

378. Achos Menter Môn yw:

(i) Os gwneir y Gorchymyn ac os caiff y pwerau caffael gorfodol y mae'n eu ceisio dros Leiniau 46, 47, 48, 48, 49, 50 a 51 bydd yn gallu cysylltu â'r Grid. Derbyniodd Mr Jesson fod "*y Grid Cenedlaethol yn dechnegol yn gallu gwneud hyn yn bendant*".[776] Derbyniodd fod ei Opsiwn 2 ei hun (P2.2.2) yn dangos sut y gellid gwneud cysylltiad o'r fath yn uniongyrchol â'r Grid Cenedlaethol o fewn Llain 49. Derbyniodd hefyd fod lle, yn wir mae'n dweud bod mwy na digon o le (gweler isod), i adeiladu'r holl seilwaith ategol ac eilaidd angenrheidiol sydd ei angen o fewn Llain 49 a 50. Yn ogystal, nid oedd yn anghytuno bod llwybrau cebl yn cael eu sicrhau yn Lleiniau 46, 47 a 48, a bod mynediad yn dod drwy'r hawliau sydd i'w rhoi dros Lain 51;

(ii) At hynny, derbynnir y gellid cyflawni ateb o'r fath o fewn Llain 49 heb aflonyddu ar y ceblau 132kV;[777]

(iii) At hynny, mae'r Gorchymyn yn rhoi pwerau i gyflawni'r holl waith angenrheidiol i wneud y cysylltiad: gweler Atodlen 1, Rhan 2, Pennod 2. Ac, nid yw Orthios wedi dweud ar unrhyw adeg fod angen awdurdodi gwaith pellach;[778]

(iv) Yn olaf, mae'r ffaith bod y Gorchymyn yn caniatáu i gysylltiad gael ei wneud yn cael ei phrofi ymhellach gan y ffaith bod Menter Môn yn elwa ar gynnig cysylltiad â'r grid.[779]

---

[775] Gweler y Cyfeiriadau: Dogfen yr Ymchwiliad - 091, Dogfen yr Ymchwiliad – 092 a'r Ymgymeriad Unochrog yn Nogfen yr Ymchwiliad – 108.

[776] Gweler atebion Mr Jesson yn XX.

[777] Roedd llawer o achos Orthios yn canolbwyntio ar Brawf Tystiolaeth gwrthbrofi Mr Billcliff ym mharagraff 5.6 (Cyf: RPE011) a ffordd amgen bosibl o gysylltu a ystyriwyd mewn cyfarfod â'r Grid Cenedlaethol. Ond nid oes dim yn troi ar hyn gan y derbynnir bod ateb technegol o fewn y tiroedd sy'n destun y Gorchymyn. Pwynt Mr Jesson yw y gallai fod angen hyn ar ateb aml-ddefnyddiwr yn Llain 49 (gweler paragraff 3.1.3 o'i ail brawf). Ond mae'n derbyn, er ei fod yn annymunol, ei fod yn rhywbeth y gellid ei wneud ac sy'n dechnegol ymarferol. Mae Mr Jesson yn ei ail brawf yn derbyn mewn termau ym mharagraff 3.1.3 fod "*(Black and Veatch) sef ymgynghorydd technegol Menter Môn wedi dangos y byddai'n ffisegol bosibl gweithredu un cysylltiad Defnyddiwr y tu mewn i lain tir 49*" mewn geiriau eraill ceir ateb technegol ond byddai hwn yn ei farn ef yn *"ateb technegol israddol i'r Grid Cenedlaethol*".

[778] Yn groes i'r hyn a awgrymwyd yn RX Mr Jesson, nid yw Prawf Tystiolaeth cyntaf Mr Jesson ym mharagraff 5.6 (Cyf: POE006) na Phrawf Tystiolaeth cyntaf Mr LeVasseur ym mharagraff 5.7.8 (Cyf: POE005) yn awgrymu bod angen pwerau ar gyfer unrhyw waith ychwanegol i wneud y cysylltiad.

[779] Gweler prawf Mr Billcliff ym mharagraff 9.3.5 "*Derbyniwyd cynnig gyda'r Grid Cenedlaethol ar gyfer capasiti cysylltiedig trosglwyddo 180MW yn is-orsaf Penrhos. Cysylltiad i ddod ym mis Medi 2023. Derbyniwyd y cynnig gan Menter Môn ar 28 Awst 2020. Gweler Atodiad 2*" (Cyf:

379. Dadl Mr Jesson yw hyn: er bod yr hyn a gynigir yn amlwg yn dechnegol ymarferol, na all Menter Môn fod yn sicr o gysylltiad os gwneir y Gorchymyn, a hynny am dri rheswm yn y bôn. Gan ymdrin â phob un yn ei dro:

(i) Mae ateb Menter Môn yn ateb un defnyddiwr ac mae hwn yn aneffeithlon gan y bydd angen dyblygu seilwaith (e.e. is-orsafoedd lluosog) a byddai hyn yn torri model rheoleiddio'r RIIO a'i ddyletswyddau statudol.[780] Mae'r ateb i hyn yn syml. Mae ateb aml-ddefnyddiwr yn gofyn am gytundeb rhwng Orthios a Menter Môn (yn ogystal â'r Grid Cenedlaethol). Nid oes cytundeb o'r fath. Mae ateb o'r fath hefyd yn gofyn am dir Orthios, ac mae'r pris a geisir am hwn yn uniongyrchol berthnasol i'r ateb mwyaf cost-effeithlon.[781] Nid yw'r cynnig cysylltiad y mae Menter Môn yn ei ddal yn seiliedig ar ateb aml-ddefnyddiwr. Nid oes unrhyw anghydfod y byddai'n well gan y Grid Cenedlaethol yn gyffredinol gael ateb aml-ddefnyddiwr a seilwaith a rennir.[782] Byddai hynny'n well gan Fenter Môn hefyd, ond heb gytundeb ag Orthios nid yw hynny'n bosibl. Os felly, mae Menter Môn a'r Grid Cenedlaethol yn fodlon bwrw ymlaen ag ateb un defnyddiwr;

(ii) Gallai'r ateb a gynigir ofyn am ragor o dir y tu hwnt i'r Gorchymyn ar gyfer unrhyw seilwaith Grid Cenedlaethol:[783] ond nid yw'n gwneud hynny, mae P2.2.2 amgen (Opsiwn 2) Mr Jesson ei hun yn dangos ateb ar gyfer seilwaith y Grid Cenedlaethol yn gyfan gwbl o fewn Llain 49;

(iii) Gallai ateb Menter Môn ymyrryd â hawliau presennol Orthios i gysylltu:[784] mae hyn heb deilyngdod. Mae gan Orthios hawliau sy'n bodoli eisoes o dan gytundebau â'r Grid Cenedlaethol [785] ac mae'r Gorchymyn yn cynnwys darpariaethau amddiffynnol yn Atodlen 10 ac 11 i ddiogelu'r Grid Cenedlaethol ac osgoi unrhyw effaith ar ei ddyletswyddau statudol a rhwymedigaethau eraill. Ni chodir unrhyw feirniadaeth gan Orthios o'r darpariaethau drafft hyn, nac unrhyw awgrymiadau bod angen mwy, mae Orthios (gweler isod) wedi tynnu ei gais am ddarpariaethau amddiffynnol yn ôl. At hynny, nid yw'r Grid Cenedlaethol yn gwrthwynebu ac felly maent yn fodlon na fyddai'r Gorchymyn yn peri iddo dorri ei rwymedigaethau. At hynny, derbyniwyd mewn termau gan Mr Jesson nad oedd rheswm ffisegol na thechnegol pam y byddai gweithredu'r Gorchymyn yn atal Orthios rhag cysylltu â'r Grid.[786] Nid bwriad Menter Môn yw rhwystro cysylltiad Orthios, a bydd y darpariaethau amddiffynnol yn sicrhau na all wneud hynny. Mae amheuon Orthios yn ddealladwy o ystyried ei fwriadau ei hun yma; mae'n tybio y byddai Menter Môn, gyda'r esgid ar y droed arall, yn gweithredu'n debyg o wael i'r ffordd y mae wedi gweithredu. Ond mae Menter Môn yn gwmni trydydd sector heb ei

---

MDZ/P8). Mae Mr Jesson yn derbyn bod cynnig o'r fath – gweler ei brawf cyntaf ym mharagraff 5.1 (Cyf: POE006) a'i atebion yn XX.

780 Gweler e.e. ail brawf Mr Jesson ym mharagraff 3.1.1 (Cyf: RPE014).

Yn RX, gwnaeth Mr Jesson y pwynt fod gan y Grid Cenedlaethol ei bwerau CPO ei hun, ond nid yw hwnnw'n opsiwn di-gost. Rhaid ystyried costau a risgiau'r broses honno a'r iawndal.

782 Nid yw'r e-bost yn Atodiad P3.2.2 Mr Jesson yn awgrymu bod y Grid Cenedlaethol yn mynd ar drywydd cysylltiad aml-ddefnyddiwr, mae'n nodi ei fod yn ceisio prynu'r Iard Switsio "*er mwyn cysylltu cynllun Ynni Morol Morlais Ynys Môn*". Nid yw ateb Orthios wedi'i ddatgelu.

783 Gweler e.e. Prawf Tystiolaeth cyntaf Mr Jesson ym mharagraff 5.4.1 (Cyf: POE006).

784 Gweler e.e. Prawf Tystiolaeth cyntaf Mr Jesson ym mharagraffau 5.4.2 a 5.4.3 (Cyf: POE006).

785 Gweler ail Brawf Tystiolaeth Mr Jesson para. 2.3 (Cyf: RPE014).

786 Gweler ei atebion yn XX.

sbarduno gan elw, ac yn bwysicach na hynny mae gan y Gorchymyn ddarpariaethau amddiffynnol sy'n sicrhau'n llwyr na fydd hyn yn digwydd.

380. Yn olaf, ceisia Mr Jesson[787] awgrymu bod y tir y cynigir ei gymryd "*yn cymryd tua 6,000 metr sgwâr o dir sydd, yn fy marn i, o leiaf 2,000 metr sgwâr yn fwy nag sy'n wirioneddol angenrheidiol*". Mae hwn yn bwynt gwael am nifer o resymau:

(i) Yn rhyfedd iawn, ar yr un pryd, mae Mr Jesson yn dadlau y gallai fod angen mwy o dir er mwyn hwyluso cysylltiad nag y darperir ar ei gyfer yn y Gorchymyn ar gyfer seilwaith y Grid Cenedlaethol. Felly, ar yr un pryd, mae Orthios yn dadlau bod y cynllun enghreifftiol ar gyfer is-orsaf ar Lain 49 yn cymryd gormod o dir ac y gallai fod angen mwy o dir;

(ii) Mae'r tir a gymerir yn seiliedig ar bedwar peth – gan gydnabod bod yr is-orsaf arfaethedig yn enghreifftiol yn unig ar hyn o bryd – (i) na fydd cytundeb ag Orthios na chydweithrediad gan Orthios[788] yn cael eu cyflawni (ii) cyngor a ddarparwyd gan beirianwyr ymgynghorol Black & Veatch;[789] (iii) Safonau'r UE, y DU a'r diwydiant ar gyfer adeiladu, gosod a gweithredu seilwaith a chyfarpar trydanol foltedd uchel (HV)[790] a (iv) "*senario gwaethaf a ragwelwyd yn rhesymol*".[791] Mewn croesholiad, derbyniodd Mri. LeVasseur a Jesson ill dau fod pob un o'r rhain yn fewnbynnau rhesymol i benderfyniad ar gymryd tir ar gyfer y Gorchymyn. Mae'r olaf o'r ffactorau hyn yn arbennig o bwysig; os yw Menter Môn yn rhy gyfyng wrth gymryd ei dir, a bod angen mwy o dir yn y pen draw, mae'n rhoi pridwerth i Orthios a dyna ddiwedd y prosiect. Ond er hyn, mae'r dystiolaeth yn dangos bod Menter Môn wedi gwneud popeth yn eu gallu i leihau'r tir sy'n cael ei gymryd.

(iii) Mae'r gofynion ar gyfer seilwaith ar Lain 49 wedi'u nodi'n fanwl mewn tabl yn Atodiad 5 Mr Billcliff i'w wrthbrofiad, sy'n e-bost gan Black & Veatch ac yn cynnwys is-orsaf Grid Cenedlaethol,[792] is-orsaf 132kV Morlais, is-orsaf 33kV Morlais, storfa batris, Statcom, caeadle trosglwyddo, hidlo harmonig a ffyrdd mynediad.[793]

---

787 Gweler ail Brawf Tystiolaeth Mr Jesson ym mharagraff 3.1.6 (Cyf: RPE014).

788 Gweler Prawf Tystiolaeth gwrthbrofi Mr Billcliff (Cyf: RPE011) ym mharagraff 4.11 "*Roedd yn rhaid i faint terfynol yr is-orsaf fod yn seiliedig ar dybiaeth 'heb gydweithrediad Orthios' am nad oedd, ac nid oes, sicrwydd o hyn. Fe'i gostyngwyd yn dilyn her fewnol a thrafodaeth gyda B&V i 1.5 erw gan fod angen iddo fod yn hunangynhwysol a chael ei ffensio i safonau Ansawdd a Pharhad Diogelwch Trydanol (ESQC), a chynnwys ffyrdd mynediad ar gyfer gwaith cynnal a chadw a chodi trwm. Pe bai cydweithrediad ag Orthios o'r cychwyn cyntaf, a rhywfaint o sicrwydd y byddai hyn yn cael ei sicrhau, gallai hyn fod wedi galluogi ôl troed llai i fod yn destun y TWAO ond nid oedd unrhyw gydweithrediad bryd hynny ac nid oes unrhyw sicrwydd ohono bellach heb fod cytundeb yn cael ei wneud*". Yn XX esboniodd Mr Billcliff fod mynd ar eu pen eu hunain yn gofyn am le i barcio ceir, cyfleusterau bwyta, storio, ceblau, goleuadau a draenio.

789 Prawf Tystiolaeth Mr Billcliff ym mharagraff 2.4 (Cyf: MDZ/P8).

790 Prawf Tystiolaeth Mr Billcliff (Cyf: MDZ/P8).

791 Prawf Tystiolaeth Mr Billcliff (Cyf: MDZ/P8).

792 Mae'n ymddangos y derbyniwyd y byddai'r Gorchymyn fel y'i diwygiwyd yn caniatáu trosglwyddo pwerau yn y Gorchymyn i'r Grid Cenedlaethol pe byddai angen.

793 Gwnaeth Mr Carter gynnwys Mr Billcliff yn rhan gyntaf yr e-bost hwn ond nid yn y gofynion fel y'u nodir yn y tabl. At hynny, mae rhan gyntaf yr e-bost yn dangos Menter Môn yn cyfarwyddo Black & Veatch i edrych ar fireinio a lleihau'r ardal o dir a geisir a pheidio â chynnwys 415m2 ar gyfer hidlo harmonig er mwyn cymryd cyn lleied â phosibl o dir. Pan

(iv) Mae Mr Jesson yn derbyn, o ran ôl troed, y gall y dewis technoleg ddylanwadu ar y tir sy'n cael ei gymryd[794] ac, wrth gwrs, ar hyn o bryd mae'r is-orsaf yn enghreifftiol ac ni wnaed penderfyniad terfynol eto ar lawer o faterion dylunio nac ychwaith technoleg;

(v) At hynny, mae ffactorau eraill a allai olygu na ellir defnyddio Llain 49 i gyd:

a. Mae Llain 49 yn dir llwyd o fewn safle diwydiannol ac nid yw'r materion halogi wedi'u datrys eto. Er bod gwaith dihalogi wedi'i wneud gan Orthios: (i) ni chyflwynwyd y gwaith hwn i'r ymchwiliad hwn; (ii) nid yw wedi'i wirio/ei ddilysu eto;[795] a (iii) nid yw wedi'i gymeradwyo gan reoleiddiwr.[796] Esboniodd tystiolaeth Mr Billcliff pam mae posibilrwydd halogiad yn parhau i achosi pryder rhesymol i Fenter Môn.[797]

b. Mae nifer o wasanaethau sy'n bodoli eisoes yn Llain 49 (tanddaearol) gan gynnwys hawddfraint cebl 132kV, rhai ceblau 11kV a phrif bibell ddŵr fechan. Achos Orthios ei hun sy'n nodi bod yn rhaid rhoi sylw gofalus i'r rhain, ac y gallent ddylanwadu ar leoliad unrhyw ffurf adeiledig.[798] Ni ellir dweud bod cymryd rhywfaint o dir ychwanegol i gyfrif am hyn yn afresymol o gwbl. Mae hyn yn parhau i fod yn broblem gyda gwelliannau arfaethedig Orthios yn 2021.

<u>(iv) Yr heriau o ran dod i gytundeb</u>

381. Felly, mae'n amlwg bod angen caffael gorfodol os na cheir cytundeb llawn rhwng Orthios a Menter Môn. Yn y cyd-destun hwnnw, mae nifer o bwyntiau allweddol.

382. <u>Yn gyntaf</u>, nid yw Orthios yn ymgymerwr statudol. Mae'n grŵp cwbl anrheoleiddiedig o gwmnïau. Roedd Menter Môn am brisio opsiwn i gysylltu â'r Grid Cenedlaethol drwy Orthios. Roedd hwn i fod yn un o nifer o opsiynau y gellid eu prisio, eu hadolygu gan Fenter Môn, cyn dewis yr opsiwn gorau. Mae hwn yn arfer cyffredin ar brosiectau pŵer. Mae unrhyw gostau a ddarperir gan gwmnïau a reoleiddir fel Scottish Power Energy Networks ('SPEN') a'r Grid Cenedlaethol yn fformiwläig ac maent yn cael eu rheoleiddio'n helaeth ar eu methodoleg codi tâl/rheoli prisiau a materion eraill megis gweithdrefnau cwyno, cyfnodau diffodd [799], ansawdd asedau, tryloywder perchenogaeth. Nid yw hynny'n wir am Orthios ac mae hyn yn bryder gwirioneddol i Fenter Môn.[800] Nid yw Orthios yn gorff rheoleiddiedig ac

gyflwynwyd i Mr Billcliff yn XX fod maint yr ôl troed yn cael ei yrru gan yr amserlen ar gyfer yr ES, gwadodd hynny gan ddweud "*Roedd yn ymwneud mwy â'r ffaith nad oeddwn am fynd ymhellach nag erw*".

[794] Prawf Tystiolaeth cyntaf Mr Jesson ym mharagraff 3.8 (Cyf: POE006) a'i atebion yn XX.

[795] Ail Brawf Tystiolaeth Mr LeVasseur ym mharagraffau 3.7.3 a 4.2.3 (Cyf: RPE013).

[796] Prawf Tystiolaeth cyntaf Mr LeVasseur ym mharagraff 3.6 (Cyf: POE005).

[797] Prawf Tystiolaeth gwrthbrofi Mr Billcliff ym mharagraff 2.5 (Cyf: RPE011) a'i atebion yn XX.

[798] Prawf Tystiolaeth cyntaf Mr LeVasseur ym mharagraff 3.7.4 (Cyf: POE005) a'i atebion yn XX

[799] Mae Prawf Tystiolaeth Gwrthbrofi Mr Billciff ym mharagraff 5.2 yn codi pryder ynghylch y risg y gallai cyfnodau diffodd dianghenraid fod yn ofynnol gan Orthios (Cyf: RPE011).

[800] Prawf Tystiolaeth Gwrthbrofi Mr Billcliff ym mharagraff 3.7 (Cyf: RPE011) ac atebion Mr LeVasseur yn XX.

felly ddaw â nifer o'r mesurau diogelu statudol a chyfreithiol sydd eu hangen ar Fenter Môn i dawelu meddyliau ei chyllidwyr.[801]

383. Awgrymodd Mr LeVasseur yn ei dystiolaeth ysgrifenedig y byddai Orthios, er na fyddai'n cael ei drwyddedu fel gweithredwr rhwydwaith annibynnol ("IDNO"), yn cyhoeddi ei holl gyfraddau ac yn gweithredu yn ei holl rinweddau fel pe bai'n IDNO.[802] Ond derbyniodd mewn croesholiad fod hyn yn gwbl ddiystyr. Mae'r amodau safonol mewn trwydded IDNO o dan adran 6(1)(c) o Ddeddf Trydan 1989 yn llenwi bron i 300 tudalen ac yn gofyn am fethodolegau codi tâl cymeradwy, cydymffurfio â chodau a safonau'r diwydiant, archwilio ac ati. A'r nod cyffredinol yw atal unrhyw bŵer monopoli a/neu safle trechaf rhag cael eu cam-drin. Nid oes dim o hyn yn berthnasol i Orthios sy'n gallu gweithredu mor fympwyol ag y mynna er mwyn gwneud yr elw ariannol mwyaf posibl, hyd yn oed os yw hynny'n niweidiol iawn i les y cyhoedd.

384. Yn ail, mae'r materion hyn yn arbennig o ddifrifol ar gyfer prosiect Morlais gan ei fod yn cael ei ariannu'n bennaf gan y sector cyhoeddus. Oherwydd hynny, mae pob penderfyniad ariannol yn destun craffu ychwanegol. Mae hyn yn wahanol iawn i gwmni sy'n eiddo preifat ac yn cael ei ariannu'n breifat.[803] Mae peidio â bod yn gorff rheoleiddiedig o dan OFGEM wedi golygu erioed fod angen i Fenter Môn ddarparu ffordd amgen o sicrhau'r amddiffyniad sydd ei angen arni hi a'i chyllidwyr i gynnal diogelwch unrhyw gysylltiad trydanol drwy gydol oes y prosiect.[804] Ni all hynny ond golygu cytundeb cynhwysfawr.[805]

385. Yn drydydd, mae'r risgiau'n fwy yma o ystyried natur y cwmni a'r ffordd y mae wedi ymddwyn. Felly, tystiolaeth Mr Billcliff yw "*mae'r ymwneud busnes y mae Menter Môn wedi'i gael ag Orthios hyd yma yn ychwanegu at y proffil risg gan y bu mor anodd ymgysylltu'n briodol, rhaid bod perygl y byddai hyn yn ailadrodd ei hun yn y dyfodol. Mae'r strwythur cwmni cymhleth hefyd yn destun pryder. Nid pryder i'r arianwyr yn unig o reidrwydd, mae'n mynd at wraidd sicrhau bod prosiect Morlais yn cael ei gyflawni a chyflawni'r holl fanteision sy'n deillio ohono*".[806] Ar strwythur y cwmni mae'n ddryslyd, ac mae'r cofnodion cyhoeddus yn dangos[807] bod ganddo rwymedigaethau net o dros £33 miliwn. Mae unrhyw ateb ar y cyd yn ei gwneud yn ofynnol i Orthios ddarparu seilwaith a bod ffordd sicr o ddelio â'r hyn sy'n digwydd os yw'n methu â gwneud hynny, er enghraifft pe bai'n rhoi'r gorau i fasnachu neu'n torri unrhyw gytundeb.[808]

---

801 Prawf Tystiolaeth Gwrthbrofi Mr Billcliff ym mharagraff 4.5 (Cyf: RPE011), ac atebion yn XX gan y Mri. LeVasseur a Jesson.

802 Ail Brawf Tystiolaeth Mr LeVasseur ym mharagraff 3.9.4 (Cyf: RPE013).

803 Prawf Tystiolaeth Gwrthbrofi Mr Billcliff ym mharagraff 4.2 (Cyf: RPE011), ac atebion Mr LeVasseur yn XX.

804 Prawf Mr Billcliff ym mharagraff 10.8.12 (Cyf: MDZ/P8), a derbyniodd Mr LeVasseur yn XX fod hon yn safbwynt rhesymol i Fenter Môn ei gymryd.

805 Awgrymodd Mr LeVasseur yn XX (am y tro cyntaf) y *gallai* Orthios geisio dod yn IDNO. Ond fel y mae hi, nid corff felly mohono ac nid oes unrhyw dystiolaeth wedi'i chyflwyno ei fod hyd yn oed wedi dechrau ymchwilio i bosibilrwydd o'r fath.

806 Gwrthbrofiad Mr Billcliff ym mharagraff 5.3 (Cyf: RPE011).

807 Fel y derbyniodd Mr LeVasseur yn XX.

808 Mae gwrthbrofiad Mr Billcliff ym mharagraff 4.7 (Cyf: RPE011) yn dweud "*Mae Môn yn pryderu ynghylch pwy fydd y parti i'r contract os ceir cytundeb a sut y caiff buddiannau Menter Môn eu diogelu drwy gydol oes y cytundeb hwnnw, diffyg unrhyw reoleiddio a'r risg ar faterion fel*

386. Yn bedwerydd, mae cyfyngiadau yn y gweithredoedd eiddo ar draws yr holl leiniau perthnasol y mae angen i drydydd partïon eu cymeradwyo[809] ar gyfer gwaredu tir.[810] Byddai'r rhain yn cael eu diystyru drwy brynu gorfodol, ond heb hyn mae angen cytundeb nid yn unig gan Orthios ond y trydydd partïon hyn i unrhyw drosglwyddiad. Efallai y bydd modd eu cael, neu beidio, ac ni arweiniodd Orthios unrhyw dystiolaeth ar debygolrwydd rhoi cytundebau o'r fath.

387. Yn bumed, mae'r trafodaethau rhwng Menter Môn ac Orthios yn dyddio'n ôl i 2016, ond tan fis Medi 2020 [811] dull gweithredu Orthios "e*rioed oedd ceisio cytuno ar delerau ariannol allweddol a manteision ariannol i Orthios cyn ystyried y telerau masnachol sy'n weddill sy'n ffurfio cytundeb*" cyn ystyried y materion technegol.[812] Mae'r e-bost yn Atodiad 1 i wrthbrofiad Mr Billcliff yn dangos mai dyma'n wir oedd y dull gweithredu.[813] Mae'r galw am £6 miliwn yn yr e-bost hwnnw, a anfonwyd ar ran Orthios, yn dweud llawer.[814] Prynodd Orthios dir gan gynnwys y rhan fwyaf o Lain 49 a bron yr holl Iard Switsio am £400,000 yn 2015.[815] Mae bellach yn chwilio am £6miliwn am ychydig bach yn unig o'r tir hwn. Daw'r un thema i'r amlwg o'r ymateb i'r cais i wneud arolygon ecolegol.[816] Felly, er bod Orthios yn dweud eu bod yn cefnogi prosiect Morlais, mewn gwirionedd ni ystyrir bod y prosiect yn llawer mwy na chyfle i wneud punten sydyn. Mae’n sicr y bydd Menter Môn yn cael ei dal am bridwerth os na fydd Gorchymyn.

388. Yn chweched, mae hefyd yn dweud llawer mai Orthios yw'r unig wrthwynebydd sy'n weddill o'r caffaeliadau tir arfaethedig (ac eithrio sefyllfa anarferol

*ansolfedd unrhyw un o'r cwmnïau, o ystyried strwythur cymhleth iawn y cwmni*." A derbyniodd Mr LeVasseur yn XX fod pryderon gwirioneddol.

809 Mr Robert Colin ac Anglesey Aluminium Metal Limited.

810 Gwrthbrofiad Mr LeVasseur yn P4.2.1 (Cyf: RPE013).

811 Rhwng cyflwyno’r Gorchymyn a Mis Medi 2020 mynnodd Mr LeVasseur fod yr holl gyfathrebu'n digwydd drwy gyfreithiwr yn unig. Dywed Mr Billcliff yn ei wrthbrofiad ym mharagraff 3.10 "*Cyfarwyddodd Mr Levasseur ei hun Fenter Môn i wneud yr holl gyfathrebu drwy gyfreithiwr y cwmni ar 20 Medi 2019 ar ôl gohirio cyfarfod technegol a achoswyd drwy gael gohebiaeth TWAO a roddwyd i’r holl dirfeddianwyr yr effeithir arnynt. Ni ddylai'r TWAO fod wedi bod yn syndod gan fod yr holl dirfeddianwyr yr effeithir arnynt gan gynnwys Orthios wedi cael gwybod am gyflwyniad gorchymyn Menter Môn, a’r rhan fwyaf yn deall ac yn parhau trafodaethau cytuniad preifat heb golled. Yn hytrach, ymatebodd Orthios yn wael i'r TWAO ac roedd hyn yn llesteirio trafodaethau am gyfnod hir*".

812 Gwrthbrofiad Mr Billcliff ym mharagraff 3.4 a 3.6 (Cyf: RPE011).

813 A derbyniodd Mr LeVasseur hyn yn XX.

814 Prawf Tystiolaeth Mr Billcliff, Atodiad 1 (Cyf: MDZ/P8).

815 Ail Brawf Tystiolaeth Mr LeVasseur (Cyf: RPE013) yn Atodiad 4.2.1, Teitl CYM671912.

816 Gwrthbrofiad Mr Billcliff (Cyf: RPE011) ym mharagraff 3.12 "*Gofynnodd Menter Môn am fynediad i safle Orthios i gynnal arolygon ecolegol gan mai yno oedd y rhan olaf o'r llwybr cyfan i'w harolygu. Roedd yn rhaid gwneud y gwaith hwn i gwblhau'r gwaith astudiaeth amgylcheddol neu fel arall byddai'r prosiect yn cael ei ohirio. Ymatebodd Orthios drwy e-bost na fyddai unrhyw fynediad i'r safle yn cael ei roi nes i'r cytundeb gael ei gymeradwyo. Dyma'r testun o'r ymateb e-bost ar yr un diwrnod: "Yn unol â negeseuon e-bost blaenorol, ar hyn o bryd nid oes gennym gytundeb ar waith gyda Morlais i fwrw ymlaen â'r prosiect a hyd nes y cytunir ar hyn a’i gymeradwyo ni roddir mynediad i'r safle. Rydym yn aros i Morlais ddod yn ôl gyda chynnig ar hyn o bryd, ond os yw'n golygu oedi tan y flwyddyn nesaf, felly y bo. Yn gywir Sean.*" Yn XX Mr LeVasseur cynigiwyd iddo mai'r dull gweithredu oedd "*Mae angen i mi gytuno ar yr arian, y telerau ariannol" ac ar hyn o bryd mae Sean yn dweud na allwch ddod i wneud eich arolygon. Dyna mae'n ei ddweud*". Atebodd, "*Mae'n dweud yn union beth mae'n ei ddweud*".

Conygar/Horizon a drafodir uchod). Mae Menter Môn wedi gwneud popeth i ddod i gytundeb â'r holl dirfeddianwyr yr effeithir arnynt, gweler uchod. Bu'n llwyddiannus iawn yn hyn o beth. Ond gydag Orthios bu hyn yn amhosibl.

389. Yn seithfed, bu llawer o'r cyfathrebu heb ragfarn ac ni ellir ei rannu, ond mae'r uchod yn rhoi blas ar y sefyllfa. Fel y mae hi ar hyn o bryd, gellir rhoi gwybod i Weinidogion Cymru nad oes cytundeb, a hynny er gwaethaf pedair blynedd o drafodaethau, llawer o gyfarfodydd, dros 3,000 o negeseuon e-bost. Ac felly, yr unig ffordd o ganiatáu i brosiect Morlais fynd rhagddo yw caffael gorfodol. Heb hyn, bydd Menter Môn yn cael ei dal i bridwerth ac ni fydd y prosiect yn digwydd.

(v) Yr angen i gaffael lleiniau Orthios

390. **Lleiniau 46 a 47**: Mewn perthynas â Lleiniau 46[817] a 47, derbynnir gan Orthios, os oes cysylltiad am fod, bod angen o leiaf hawliau isbridd gan Fenter Môn dros y lleiniau hyn.[818]

391. **Llain 51**: Mewn perthynas â Llain 51:

(i) Mae'r caffaeliad yma wedi'i gyfyngu i hawliau mynediad newydd ar gyfer adeiladu a chynnal a chadw sy'n hanfodol i'r prosiect;[819] hebddo eto byddai gan Orthios bridwerth;

(ii) Yn ei dystiolaeth ysgrifenedig cododd Mr LeVasseur yr effaith ar AMG Alpoco UK Limited sydd hefyd yn defnyddio'r mynediad[820] ond mae Menter Môn wedi dod i delerau gydag Alpoco;

(iii) Mae Orthios wedi gwahodd darpariaethau pellach i'w diogelu mewn perthynas â'u defnydd o'r mynediad. Mae Menter Môn wedi darparu ymgymeriad unochrog i'r ymchwiliad at y diben hwnnw.[821]

(iv) Cyfeiria SoC Orthios at adeiladu is-orsaf newydd yn Llain 51 ond cadarnhaodd Mr LeVasseur fod hyn ychydig oddi ar y llain hon.[822]

392. **Lleiniau 48, 49 a 50**: at y dibenion hyn gallwn ganolbwyntio ar Lain 49. Lleiniau bach yw Lleiniau 48 a 50 sy'n rhan annatod o Lain 49 ond sydd ar wahân gan eu bod o dan deitlau gwahanol. Dylem nodi yma hefyd fod ffin Llain 49 wedi'i haildynnu er mwyn osgoi cymryd cyfran o adeilad sy'n eiddo i Orthios.[823]

---

817 Cyfeiriodd fersiwn cais y Llyfr Cyfeirio (Cyf: MDZ/A16) at Lain 46 fel un sydd ym mherchenogaeth Network Rail. Ers hynny, mae Orthios wedi llwyddo i gofrestru perchenogaeth i ran o Lain 46, yn gyfagos i'w dirddaliad presennol yn Llain 47. Mae'r llyfr cyfeirio a chynlluniau wedi'u diweddaru (Cyf: Dogfen Ymchwiliad – 074 i Ddogfen Ymchwiliad – 076, a gweler y cynllun diweddaraf yng Nghyf: Dogfen yr Ymchwiliad - 097) wedi ail-lunio'r llinell rannu rhwng Lleiniau 46 a 47 i adlewyrchu'r berchenogaeth ddiwygiedig, fel bod Llain 46 bellach yn eiddo i Network Rail yn unig, ac mae'r rhan sydd wedi'i chofrestru ym mherchenogaeth Orthios wedi'i hymgorffori mewn Llain 47 estynedig.

818 Prawf cyntaf Mr LeVasseur ym mharagraff 3.3 (Cyf: POE005), ei atebion yn XX a dewisiadau amgen Mr Jesson yn P2.2.1 a P2.2.2.

819 Prawf cyntaf Mr LeVasseur ym mharagraff 6.1.3 (Cyf: POE005) a'i atebion yn XX.

820 Prawf cyntaf Mr LeVasseur ym mharagraff 6.210 (Cyf: POE005).

821 Cyf: Dogfen yr Ymchwiliad – 108.

822 Atebion Mr LeVasseur yn XX.

823 Gweler y Cyfeiriadau: Dogfen yr Ymchwiliad – 074 i Ddogfen yr Ymchwiliad – 076.

393. Safbwynt Mr LeVasseur yn ei dystiolaeth ysgrifenedig,[824] ac i ddechrau, mewn tystiolaeth lafar oedd bod Llain 49 "*yn goridor cebl 132kV gweithredol sy'n gofyn am ardaloedd o atalfa ar ddwy ochr y llwybr cebl, gan lyncu darn gweddol o dir felly. Hefyd, mae Ardal 49 yn cynnal y brif linell gyflenwi dŵr ar gyfer safle Orthios, yn ogystal â'r llwybr cebl ar gyfer y cyflenwad pŵer eilaidd 11kV a ddarperir gan SPEN. Nid yw'r tir yn segur; <u>mae'r tir yn cael ei adael yn bwrpasol heb adeiladau neu ddatblygiadau uwchben y ddaear i gadw'r coridor cyfleustodau a gwasanaethau hanfodol hwn</u>*" (ychwanegwyd y pwyslais). Mae'r dystiolaeth hon yn gwbl anghynaliadwy. Mae unrhyw awgrym nad oes modd datblygu'r tir yn gamddealltwriaeth o ystyried:

(i) Mae'n dod o fewn llinell goch y caniatâd Biomas sy'n bodoli;

(ii) Mae Orthios ei hun wedi cyflwyno Llain 49 fel lleoliad i osod seilwaith Menter Môn;[825]

(iii) Roedd Orthios yn 2019 yn cynnig gwaith codi nwy ar Lain 49;[826]

(iv) Yn fwy diweddar, mae Orthios wedi ceisio gosod ei ddatblygiad batri masnachol ei hun ar Lain 49.[827]

394. Mewn croesholiad dywedodd Mr LeVasseur ei fod wedi gwrthod llawer o gyfleoedd i ddatblygu Llain 49 a bod hyn yn ymwneud ag arian. Byddai angen prosiect o werth sylweddol uchel – enillion blynyddol gwerth miliynau o bunnoedd – i ddatblygu Llain 49.[828] Ddim yn ddrwg i lain oedd yn rhan fechan o ardal fwy o dir a brynwyd am £400,000 yn 2015. Yn wir, fel y dywedodd Mr LeVasseur "*Byddwn yn ei ystyried ar gyfer dwy ferch ysgol ramadeg gyda stondin lemonêd pe bai'n gwneud digon o arian*". Mae hyn mor glir â sefyllfa bridwerth ag y gellir ei dychmygu. Dim ond caffael gorfodol all ddatrys hyn.

395. Cyn gadael y lleiniau a throi at yr effaith bosibl ar gynlluniau mawr Orthios ei hun dylid nodi:

(i) Yn groes i awgrymiadau yn nhystiolaeth ysgrifenedig Mr LeVasseur[829] nid yw'r Gorchymyn yn ceisio caffael y "*cyfan o iard switsio Orthios*" na'i reoli, yn hytrach, mae'n cymryd cornel fach ohoni, efallai 10%[830] dyweder, er mwyn sicrhau'r cysylltiad angenrheidiol;

(ii) Yn ei dystiolaeth lafar, cymerodd Mr LeVasseur arno ei fod yn arswydo at faint y caffaeliad yn y Gorchymyn e.e. cymryd Llain 49 ac sy'n cynnwys dim ond rhan fach iawn o'r Iard Switsio, ac eto wrth ail-archwilio Mr Jesson, cyfnewidiwyd y geiriau canlynol gan awgrymu mai achos Orthios yw y dylid bod wedi ceisio rhagor o dir i'w gaffael:

"*Mr Carter: O ran maint tir y Gorchymyn, a ydych yn ymwybodol o unrhyw reswm ymarferol neu reswm arall pam na allai Menter Môn fod wedi*

[824] Ail brawf Mr LeVasseur ym mharagraff 3.7.4 (Cyf: RPE013).
[825] Prawf cyntaf Mr LeVasseur Atodiad 1.2.2 cam 4 a 6 (Cyf: POE006), a'i atebion yn XX.
[826] Atodiad Mr Billcliff i'w brawf ym mharagraff 1.429, tt.104 – 105 (Cyf: MDZ/P8), ac atebion Mr LeVasseur yn XX.
[827] Ail brawf Mr LeVasseur paragraffau 6.3.35 a 6.3.36 (Cyf: RPE013) a'i atebion yn XX.
[828] Ail brawf Mr LeVasseur ym mharagraff 3.7.6 (Cyf: RPE013) a'i atebion yn XX.
[829] Paragraffau 4.15.1, 7.25.3, 7.19 a 7.22 o brawf cyntaf Mr LeVasseur (Cyf: POE005).
[830] Derbyniodd Mr LeVasseur hyn yn XX.

*hyrwyddo gorchymyn a oedd yn cynnwys iard switsio yn hytrach na llain 49?*

*Mr Jesson: Ni allaf feddwl am unrhyw reswm pam na allent fod wedi gwneud hynny a hyrwyddo fersiwn well o'r Gorchymyn*".

(vi) Cynlluniau mawr Orthios

396. Mae'r achos yn erbyn caffael gorfodol a ddatblygwyd gan Orthios drwy ei dystion yn ceisio awgrymu y bydd yn cyfaddawdu ei gynlluniau lawer ar gyfer ei safle. Mae'r cynlluniau hyn, i'w roi'n garedig, braidd yn gyfnewidiol. Mae'n ddyddiau cynnar ar y rhan fwyaf ohonynt ac mae'r cofnod o unrhyw gyflenwi gwirioneddol ar y safle - i fod yn garedig - yn brin.

397. Cyn edrych ar y cynigion amrywiol mae'r pwyntiau cyffredinol canlynol yn codi.

398. Yn gyntaf, mae safle Orthios yn wirioneddol helaeth, sef 213 erw i gyd.[831] Mae graddau llawn y caffael gorfodol tua thair erw, ac mae'n debygol o fod yn llai yn barhaol – hynny yw, tua 1% o'r safle yn y bôn. Ac, o ran yr Iard Switsio – gweler uchod – efallai 10% o hyn ar y mwyaf.

399. Yn ail, wrth wraidd yr achos a ddatblygwyd yn hyn o beth mae Atodiad 1.2.1 o brawf cyntaf Mr LeVasseur. Ond nid oes gan y cynllun hwn unrhyw statws cynllunio o gwbl [832] – nid yw'n gynllun cymeradwy i unrhyw gydsyniad. Dywedir bod ei statws "*I'w drafod*". Mae wedi'i ddyddio tua'r un adeg â phrawf Mr LeVasseur ac mae'n amlwg ei fod wedi'i gynhyrchu at ddibenion yr ymchwiliad hwn.

400. Yn drydydd, fel y mae hi, mae'r rhan fwyaf o'r safle yn wag ac wedi'i glirio o lawer iawn o'r adeiladau a'r strwythurau a safai ar y safle yn flaenorol. Mae'n anghredadwy awgrymu, fel yr oedd Mr LeVasseur fel petai'n ei wneud, na fyddai'n gallu dod o hyd i le ar y safle ar gyfer y prosiectau eraill hyn (i'r graddau y maent yn bodoli), megis storfa batris.

401. Yn bedwerydd, yn ei brif dystiolaeth gofynnwyd i Mr LeVasseur, y Prif Swyddog Gweithrediadau, faint yr oedd Orthios eisoes wedi'i fuddsoddi yn y safle a faint o fuddsoddiad yr oeddent wedi'i sicrhau. Yn eithriadol braidd, nid oedd yn gallu rhoi unrhyw ffigur ar gyfer y naill na'r llall i'w Gwnsler ei hun. Yn ddiweddarach mewn croesholiad, tynnodd ffigur o'r awyr ar hap ar gyfer yr eilbeth, ond nid oedd ganddo ffigur erioed ar gyfer y cyntaf. Mae'r diffyg tystiolaeth i gefnogi unrhyw ran o hyn yn dweud llawer. Rhaid trin ei dystiolaeth â gofal mawr.

402. Gan edrych wedyn ar yr holl faterion a nodir yn y dystiolaeth, mae angen ystyried:

a. Y Lanfa;

b. Ardal 7 Cyfleuster Pelenni Gwastraff i Ynni;

c. Ardal 8 Canolfan Logisteg;

[831] Prawf cyntaf Mr LeVasseur Atodiad P1.2.9 (Cyf: POE005), a gwrthbrofiad Mr Billcliff ym mharagraff 4.13 (Cyf: RPE011).

[832] Yn RX, cyfeiriodd Mr Billcliff ato fel un nad oedd ganddo statws ac mai braslun yn unig ydoedd.

d. Ardal 6 Dyframaethu, hydroponeg, ymchwil a datblygu;

e. Canolfan ddata;

f. Ardaloedd 1, 2 a 3: Plastigau i olew;

g. Y caniatâd Biomas sy'n bodoli;

h. Cyfleuster arfaethedig RDF/Busnes y Ganolfan Ynni;

i. Y gwaith codi nwy;

j. Y cynnig batri.

*a. Y Lanfa*

403. Ni fydd y caffaeliad tir a gynigir yma yn effeithio ar y lanfa mewn unrhyw ffordd o gwbl. Mae ym mhen pellaf y safle ac mae ganddi gysylltiad eithriadol o gyfyngedig â'r tir sy'n destun y Gorchymyn. Derbynnir bod yr ardal o amgylch Llain 49 yn dal y cyflenwadau 11kV ar gyfer y lanfa, ond ni effeithir ar y rhain heblaw am fân gyfnodau diffodd pŵer. Codi sgwarnogod yn llwyr yw codi hwn.

*b. Ardal 7 Cyfleuster Pelenni Gwastraff i Ynni*

*404.* Mae unrhyw awgrym o effaith andwyol ar yr hyn a gynigir yma yn gamddealltwriaeth. Y sefyllfa yw bod yr adeilad ffrâm A mawr hwn sy'n bodoli eisoes yn elwa ar dystysgrif datblygu cyfreithlon a roddwyd mor ddiweddar â mis Medi 2020. Fodd bynnag, nid yw'n cael ei ddefnyddio ar hyn o bryd. Cyhoeddodd Mr LeVasseur yn ei dystiolaeth lafar fod cyllid wedi'i sicrhau ond ni chyflwynwyd unrhyw dystiolaeth wirioneddol o hyn. Ond beth bynnag, mae'r adeilad hwn unwaith eto ym mhen draw'r safle o'r tir sy’n destun y Gorchymyn ac ni nodwyd un effaith andwyol bosibl ar y cynnig hwn gan Mr LeVasseur yn ei dystiolaeth ysgrifenedig neu lafar.

*c. Ardal 8 Canolfan Logisteg*

405. Mae hwn yn gynnig nad oes caniatâd ar ei gyfer, dim cais am ganiatâd a dim tystiolaeth o unrhyw drafodaethau cyn ymgeisio.[833] Mae'n ddarn o dir gwag a segur ar gyrion y safle. Nid oes ganddo unrhyw gysylltiad ffisegol na swyddogaethol beth bynnag â'r tir sy'n destun y Gorchymyn, ac mae’n ddigon pell oddi wrtho. Mae’r unig effaith bosibl a nodwyd gan Mr LeVasseur[834] ar y cilffyrdd rheilffordd sy'n eiddo i Orthios ac y mae'n pryderu y gallai'r HDD arfaethedig effeithio arnynt. Mae'r gilffordd hon yn rhedeg yn gyfochrog â'r brif lein. A'r gwir yw mai’r hyn y mae Menter Môn wedi’i gytuno â Network Rail mewn perthynas â'r olaf yw cliriad dyfnder o 9m – y cliriad mwyaf. Bydd y ddarpariaeth hon yn diogelu'r brif lein ond bydd hefyd yn diogelu cilffyrdd Orthios yn llawn. Yn eironig, er gwaethaf y pryder ymddangosiadol hwn am y cilffyrdd, mae Mri. LeVasseur a Jesson mewn mannau eraill yn eu tystiolaeth ill dau yn dadlau ei bod yn bosibl cael llai o gliriad y

833 Atebion Mr LeVasseur yn XX.
834 Prawf Tystiolaeth cyntaf Mr LeVasseur ym mharagraff 6.3.20 (Cyf: POE005) a'i atebion yn XX.

rheilffordd ac felly cael llai o amddiffyniad. Nid oes unrhyw effaith o gwbl ar y Ganolfan arfaethedig hon, y mae’n ddyddiau cynnar iawn arni ac sydd heb unrhyw gyllid.

*d. Ardal 6 Dyframaethu, hydroponeg, ymchwil a datblygu*

406. Unwaith eto, mae hwn yn gynnig nad oes caniatâd ar ei gyfer, dim cais am ganiatâd a dim tystiolaeth o unrhyw drafodaethau cyn ymgeisio.[835] Mae'r rhan hon o'r safle yn wag ac yn segur ac mae ymhell iawn o'r tir sy'n destun y Gorchymyn. Nid oes unrhyw fater yma o gwbl pe bai'r cynnig hwn byth yn cael ei gyflwyno ac nid oes un darn o dystiolaeth y bydd yn cael ei gyflwyno.

*e. Canolfan ddata*

407. Nid yw hwn yn gynnig a ddangosir ar y cynllun yn P1.2.1. Esboniwyd gan Mr LeVasseur y gellid gosod hyn ar Ardal 6 – hynny yw’r ardal a gynigir ar gyfer Dyframaethu, hydroponeg, ymchwil a datblygu. Mae'r un pwyntiau a wnaed uchod yn berthnasol. Unwaith eto, mae hwn yn gynnig nad oes caniatâd ar ei gyfer, dim cais am ganiatâd a dim tystiolaeth o unrhyw drafodaethau cyn ymgeisio.[836] Breuddwyd gwrach ydyw.

*f. Ardaloedd 1, 2 a 3: Plastigau i olew*

408. Mae hyn yn llenwi Ardaloedd 1, 2 a 3 ar Gynllun P1.2.1. Mae Ardaloedd 1 a 2 – PDU 1 a PDU2 mewn adeiladau presennol a dywedir eu bod yn cael eu gosod ar hyn o bryd – er nad oes unrhyw dystiolaeth wirioneddol o hyn fel ffotograffau, anfonebau wedi'u cynhyrchu. Nid yw Menter Môn yn ymwybodol o unrhyw ganiatâd cynllunio ar gyfer tystysgrif datblygiad cyfreithlon mewn perthynas â'r cynnig hwn. Mewn perthynas ag Ardal 3 – PPC – mae hwn mewn ardal fawr o le wedi'i glirio ar y safle. Unwaith eto, o ran y PPC, mae hwn yn gynnig nad oes caniatâd ar ei gyfer, dim cais am ganiatâd a dim tystiolaeth o unrhyw drafodaethau cyn ymgeisio.[837] Nid yw'n glir ychwaith a allai fod angen trwydded amgylcheddol ar y gweithgareddau hyn. Os felly, nid oes unrhyw dystiolaeth o wneud cais am un, heb sôn am ei chael. Efallai fod gan y cynigion ar raddfa fach iawn PDU1 a PDU2 rywfaint o gyllid, ond nid oes tystiolaeth o gwbl i gefnogi'r hyn y dywedir ei fod yn £26 miliwn. Mae'n ymddangos yn glir nad oes cyllid ar gyfer camau diweddarach y cynllun hwn.[838] Nid yw'r tir sy'n destun y Gorchymyn yn effeithio'n uniongyrchol ar unrhyw un o'r ardaloedd hyn sydd dan sylw. At hynny, dywed Mr LeVasseur mai unig effaith honedig y Gorchymyn ar y cynigion hyn yw[839] effaith cyfnod diffodd pan fydd prosiect Morlais yn cysylltu ond mae'n sicr y gellir ymdrin â hyn drwy reolaeth briodol. Mae'n darparu'r sail fwyaf simsan erioed i wrthsefyll gwneud y Gorchymyn.

[835] Atebion Mr LeVasseur yn XX.
[836] Atebion Mr LeVasseur yn XX.
[837] Atebion Mr LeVasseur yn XX.
[838] Prawf Mr Levasseur ym mharagraffau 4.7.2 a 4.7.3 (Cyf: POE005).
[839] Prawf Mr Levasseur ym mharagraff 6.3.44 (Cyf: POE005).

*g. Y caniatâd Biomas sy'n bodoli*

409. Mae Orthios yn elwa ar ganiatâd cynllunio tybiedig sy'n bodoli a chaniatâd adran 36 trydan ar gyfer gwaith biomas 299MV. Cytunir, er hynny, nad yw hyn yn hyfyw.[840]

410. Mae'r llinell goch ar gyfer y caniatâd hwn yn cynnwys rhywfaint o Lain 49 a 50 sy'n destun y Gorchymyn. Yr hyn sydd a gymeradwywyd yn y lleoliad hwn i raddau helaeth yw iard cynnal a chadw a chontractwyr gyda llawer iawn hefyd draw i un ochr – ac yn meddiannu rhan fechan iawn o Lain 49 - tanciau arfaethedig ar gyfer hydoddiannau dyfrllyd ac ati gan gynnwys gwasanaethau a llinell gludo deunydd rhuddo, storio a chasglu deunydd rhuddo a mynediad i gerbydau.[841] Rhoddwyd y caniatâd tybiedig a'r caniatâd mor bell yn ôl â 2011 ac fe'u diwygiwyd. Fe'u gweithredwyd drwy adeiladu sylfeini siop feiciau.[842] Mewn geiriau eraill, y weithred leiaf un y gellir ei dychmygu. Ar wahân i hynny, mae'r ardal o fewn y llinell goch heb ei datblygu o gwbl, a derbynnir nad yw'r hyn a ganiatawyd yn ymarferol. Mae'r rhan fwyaf o'r atodiadau i brawf cyntaf Mr LeVasseur yn cynnwys dogfennau sy'n ymwneud â'r caniatâd presennol. Nid yw hynny'n syndod o gofio mai dyma un o'r unig gynigion sydd gan Orthios sydd ag unrhyw fath o gydsyniad. Ond o gofio y cytunir nad yw'n ymarferol, ni all fawr ddim droi ar hyn.

*h. Cyfleuster Busnes/RDF arfaethedig y Ganolfan Ynni*

411. Cynnig yw hwn i ddiwygio'r caniatâd Biomas sy'n bodoli i ganiatáu gorsaf gynhyrchu trydan ar gyfer biomas a/<u>neu</u> RDF, hynny yw, caniatáu llosgi gwastraff.[843] Nid oes unrhyw anghydfod ond bod angen caniatâd pellach ar hyn, gan fod y caniatâd Biomas presennol yn cyfyngu'r math o danwydd i fiomas yn unig.[844] Mae'n debyg hefyd y cynigir newidiadau hefyd [845] i'r seilwaith a'r prosesau. Felly, mae'r boeleri a ganiatawyd am gael eu disodli gan "*unedau pyrolysis tymheredd uchel (HTP)*", mae'r generaduron tyrbin stêm am gael eu disodli gan "*beiriannau nwy*" a'r tyrau oeri hybrid am gael eu disodli gan "*olchwyr trin nwy synthesis*". At hynny, mae'n ymddangos mai'r hyn a gynigir yn awr yw canolfan ynni 10MWe ac yna 3 x 30MWe arall ar ôl troed eang y canolfannau ynni biomas crai a gynigiwyd yn flaenorol ond gydag uchder is [846] a llai o ôl troed cyffredinol.[847]

412. Mae'n ddyddiau cynnar iawn ar y cynigion o ran datblygu felly:

[840] Atodiad prawf Mr Billcliff ym mharagraffau A3.6 ac A3.7 (Cyf: MDZ/P8), gan gyfeirio at yr hyn a ddywedir ar wefan Orthios ei hun; prawf Mr LeVasseur ym mharagraffau 6.3.8 a 6.3.9 (Cyf: POE005) a'i atebion yn XX.

[841] Cyflwynwyd y cynlluniau a gymeradwywyd i'r ymchwiliad gan Orthios ar ôl i'r dystiolaeth lafar gael ei chwblhau.

[842] Prawf Tystiolaeth cyntaf Mr LeVasseur Atodiad P1.2.7 (Cyf: POE005).

[843] Prawf Tystiolaeth cyntaf Mr LeVasseur ym mharagraffau 6.3.23 a 6.3.24 (Cyf: POE005), Atodiad 4.2.6 o'i ail brawf a'i atebion yn XX.

[844] Prawf Tystiolaeth cyntaf Mr LeVasseur Atodiad P.1.2.6 p.23 (Cyf: POE005).

[845] Atodiad 4.2.6 Mr LeVasseur i'w ail brawf (Cyf: RPE013).

[846] Prawf Tystiolaeth cyntaf Mr LeVasseur ym mharagraffau 6.3.23 a 6.3.24 (Cyf: POE005).

[847] Derbyniodd Mr LeVasseur hyn yn XX.

(i) Yn groes i'r hyn a ddywedwyd ym mhrawf cyntaf Mr LeVasseur [848] ni chyflwynwyd unrhyw gais am amrywiad o'r caniatâd adran 36;[849]

(ii) Mae'r cynigion yn gofyn nid yn unig am amrywio'r caniatâd adran 36 ond mae'n ymddangos hefyd y gofynnir am ganiatâd cynllunio yn gyfochrog gan Lywodraeth Cymru ar gyfer cynnig o arwyddocâd cenedlaethol;[850]

(iii) Dim ond ym mis Awst 2020 y cynhaliwyd cyfarfod cychwynnol (cyntaf) â'r Arolygiaeth Gynllunio, a gwnaed yn glir y byddai angen ES bron yn sicr ac y gallai fod angen Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd hefyd. Nid yw hyn yn syndod mawr o ystyried y bydd yr allyriadau'n gwbl wahanol i'r RDF o'i gymharu â biomas crai. Mae gofyn ES ar gyfer llosgi gwastraff. Er gwaethaf cynghori y dylai Orthios wneud naill ai cais sgrinio neu gwmpasu, nid ydynt wedi gwneud yr un o’r pethau hyn. Nid oedd Mr LeVasseur yn gallu dweud a oedd unrhyw waith wedi'i wneud yn hyn o beth. Nid oedd yn gwybod a fu trafodaethau gyda CNC nac unrhyw waith ecolegol pellach. Ni ddangosodd Mr LeVasseur unrhyw ddealltwriaeth o gwbl o'r hyn y gallai fod ei angen ar ES. Dyna pam y mae unrhyw awgrym bod y cynllun hwn ychydig fisoedd i ffwrdd o'i gyflwyno yn chwerthinllyd;[851]

(iv) Yr unig dystiolaeth a gyflwynwyd i awgrymu na fydd unrhyw faterion cynllunio yw llythyr gan Jones Lang LaSalle Ltd,[852] ond mae'n amlwg nad yw'r llythyr yn ymwneud â'r cynnig hwn ac nid yw ymgais Mr LeVasseur at awgrymu fel arall ond yn tanlinellu ei ddiffyg dealltwriaeth druenus o'r materion hyn;[853]

(v) Mae fel petai’n anochel y bydd angen trwydded amgylcheddol ar y cynnig hefyd. Ond nid oedd gan Mr LeVasseur unrhyw ddealltwriaeth o angen posibl o'r fath nac unrhyw wybodaeth am y peth. O ystyried y dywedir mai hwn yw craidd y busnes, mae diffyg dealltwriaeth o hyd yn oed y pethau sylfaenol gan y Prif Swyddog Gweithrediadau yn drawiadol, nid yw'n ychwanegu unrhyw hygrededd at y cynigion hyn.

413. At hynny, o ran unrhyw effaith ar y cynigion hyn gan y Gorchymyn, yr awgrym a wneir[854] yw bod angen Llain 49 ar gyfer ardal gosod i lawr i gontractwyr. Felly, mae'r pwyntiau canlynol yn codi:

[848] Gweler paragraff 6.3.32 (Cyf: POE005).

[849] Ail Brawf Tystiolaeth Mr LeVasseur ym mharagraff 4.5.4 (Cyf: RPE013) a'i atebion yn XX. Mae ei gamgymeriad yn y prawf cyntaf yn eithaf anesboniadwy a chyfeiriodd yn anghywir o hyd at gais wedi'i gyflwyno yn ei dystiolaeth lafar. Ac yntau’n Brif Swyddog Gweithrediadau, dangosodd ddiffyg dealltwriaeth warthus o brosesau cydsynio a oedd yn berthnasol i'r busnes.

[850] Ail Brawf Tystiolaeth Mr LeVasseur ym mharagraff 4.5.5 (Cyf: RPE013) a'i atebion yn XX.

[851] Ail Brawf Tystiolaeth Mr LeVasseur ym mharagraff 4.5.4 (Cyf: RPE013), sy'n awgrymu dyddiad cyflwyno Ch2 2021.

[852] Ail Brawf Tystiolaeth Mr LeVasseur Atodiad P4.2.7 (Cyf: RPE013).

[853] Mae'r llythyr dan y pennawd "opsiynau Iard Unionydd", ac mae'r paragraff cyntaf yn cyfeirio at opsiynau arfaethedig yn yr Iard honno. Mae hyn yn amlwg yn ymwneud â dau ddewis Mr Jesson. Mae'r llythyr yn fud ynghylch porthiant ac mae'n cyfeirio at ddiwygiad ansylweddol adran 96A o Ddeddf 1990 fel llwybr posibl at gydsynio. Byddai unrhyw awgrym bod hyn yn bosibl i'r Ganolfan Busnes Ynni arfaethedig yn hurt.

[854] Prawf Mr LeVasseur ym mharagraff 6.3.30 (Cyf: POE005).

(i) Mae'r cynnig hwn flynyddoedd i ffwrdd o unrhyw gydsyniad, ac mae'n ddigon posibl na fydd byth yn ei gael;

(ii) Mae gan y cynnig ôl troed llai na'r caniatâd Biomas sy'n bodoli sy'n golygu y gellid symud yn hawdd yr hyn a gynigiwyd yn Llain 49 yn y caniatâd biomas presennol ond anhyfyw hwnnw;

(iii) Mae'n amlwg bod lleoedd eraill o fewn y safle enfawr, a'r rheini o fewn a'r tu allan i linell goch y caniatâd Biomas, y gellid eu defnyddio ar gyfer ardal gosod i lawr i gontractwr;

(iv) Mae'n debyg nad oes cynlluniau o gwbl (hyd yn oed rhai cynnar) yn bodoli nac wedi'u cyflwyno i'r ymchwiliad hwn ar gyfer unrhyw gynllun arfaethedig ar gyfer y Busnes Canolfan Ynni arfaethedig hwn;

(v) Ychydig o ystyriaeth, os o gwbl, a roddwyd yn ôl pob golwg i faterion adeiladu, ac ni ffurfiwyd dim byd tebyg i gynllun adeiladu;

(vi) Mae'r awgrym mai Llain 49 yw'r unig leoliad ar gyfer ardal gosod i lawr i gontractwyr heb unrhyw gyfiawnhad; mae'n ddadl a wnaed yn unswydd i geisio cryfhau achos gwan Orthios yn erbyn y Gorchymyn;

(vii) Mae'r sefyllfa ariannu ar y cynllun hwn hefyd yn parhau i fod yn ansicr [855] ac yn ddi-sail, ar ei gorau.

*i. Y gwaith codi nwy*

414. Cynigiwyd hwn ar Lain 49 yn 2019. Ni ddigwyddodd byth. Mae wedi'i adael.

*j. Y cynnig batri*

415. Mae achos Orthios am unrhyw effaith ar y cynnig hwn yn eithaf anobeithiol. Mae nifer o bwyntiau:

(i) fe'i crybwyllwyd gyntaf i Fenter Môn ym mis Medi 2020, flwyddyn ar ôl gwneud cais am y Gorchymyn;

(ii) unwaith eto, mae hwn yn gynnig nad oes caniatâd ar ei gyfer, dim cais am ganiatâd a dim tystiolaeth o unrhyw drafodaethau cyn ymgeisio;

(iii) ni phenderfynwyd hyd yn oed pa faint o fatri sydd i'w gynnig gyda'r Mri LeVasseur a Jesson yn rhoi tystiolaeth anghyson;[856]

[855] Ail brawf Mr LeVasseur ym mharagraff 4.5.1 (Cyf: RPE013) a'i atebion yn XX.

[856] Prawf cyntaf Mr LeVasseur ym mharagraff 6.3.37, ystyrir 2 awr o ddyfnder (Cyf: POE005) a phrawf cyntaf Mr Jesson ym mharagraff 8.2 (Cyf: POE006). Mae hyn yn berthnasol gan ei fod yn mynd i ôl troed. Maent hefyd fel petaent yn gwrthdaro ynghylch ymhle y cynigir hyn gyda Mr LeVasseur yn dweud ei fod yn yr Iard Switsio (gweler ei brawf cyntaf ym mharagraff 5.9.3) a Mr Jesson yn dweud ei fod yn Llain 49.

(iv) derbynnir nad oes angen i'r cynnig hwn fynd ar Lain 49 ond y gallai fynd unrhyw le ar y safle;[857]

(v) dim ond os na ellir ei leoli yn rhywle arall y mae'r colledion yr honnir eu bod yn codi o gaffael Llain 49 ar y cynnig hwn yn codi, a dywed tystiolaeth Orthios ei hun y gellir ei leoli yn rhywle arall;

(vi) beth bynnag, mae’r colledion a awgrymwyd gan Mr Jesson [858] yn gwbl ddi-sail – ac mae’n debyg mai cyfanswm refeniw gros y prosiect batri yw hyn yn hytrach na’r gwerth i’r tirfeddiannwr, neu hyd yn oed y gwerth i berchennog y prosiect y byddai angen iddo ystyried cost yr ased, O&M [Nodyn yr Arolygydd: tybir mai ‘gweithredu a chynnal a chadw’ yw hyn], cost cyfalaf, ac felly nid yw'n gymaradwy. At hynny, mae'r ffigur hwn fel petai’n dibynnu ar holl gynigion eraill Orthios yn dwyn ffrwyth.

416. Rydym hefyd yn cyfeirio'r ymchwiliad at yr ail o'r ddau baragraff isod ynghylch y "*Caniatâd cynllunio*", lle rydym yn mynd i'r afael â chais Orthios am gyfyngiad ar y capasiti cynhyrchu trydan, o gofio ein bod yn deall bod y cynllun penodol hwn y tu ôl i'r cais hwnnw.

<u>(vii) Casgliad ar wrthwynebiad Orthios</u>

417. I gloi, nid oes llawer o sail dystiolaethol gadarn, os o gwbl, yn perthyn i gynlluniau mawr cyfnewidiol a niferus iawn Orthios. Mae’n ddyddiau cynnar arnynt ar eu gorau,[859] ac nid yw llawer yn cael unrhyw effaith wirioneddol ar y tir sy'n destun y Gorchymyn. Ac mae'r gwerthfawrogiad o'r hyn sydd ei angen i gael caniatâd ar gyfer rhywfaint o'r hyn a gynigir yn ddiffygiol ar lefel sylfaenol. Nid oes hygrededd i gynlluniau Orthios. Yn fyr, byddai'r Gorchymyn hwn yn hwyluso prosiect Morlais – prosiect a ddaw â budd gwirioneddol i'r cyhoedd - ac na fydd yn cael unrhyw effaith wirioneddol ar gynigion Orthios fel y maent. Ond hyd yn oed pe bai'n cael unrhyw fân effaith ar y cynigion hyn, byddai Orthios yn gallu hawlio iawndal beth bynnag.

418. [Nodyn Arolygydd: mae cyflwyniadau cloi Menter Môn (Cyf: Dogfen yr Ymchwiliad – 155) yn cynnwys dau Atodiad:

Atodiad 1 - sy’n rhoi sylwadau'r Ymgeisydd ar newidiadau arfaethedig Orthios i'r Gorchymyn a'r Cynllun Tir (a gynhwysir yng Nghyf: Dogfen yr Ymchwiliad – 091 a Dogfen yr Ymchwiliad – 056)

Atodiad 2 - sy’n cynnwys ymatebion yr Ymgeisydd i bwyntiau a wnaed gan bartïon yn eu cyflwyniadau cloi, gan gynnwys y rhai ar ran Orthios, CNC, RSPB, RYA, Mr a Mrs Llewellyn, Mr a Mrs Roberts a MCA. Mae'r ymatebion hyn yn ychwanegol at y materion y mae Menter Môn yn ymdrin â hwy ym mhrif gorff ei gyflwyniadau cau]

[857] Gweler sylw tebyg Mr LeVasseur ar gynnig Menter Môn am fatri ym mharagraffau 5.9.2 o'i brawf cyntaf, ei atebion yn XX a rhai Mr Jesson.

[858] Gweler ei brawf cyntaf ym mharagraff 8.3 (Cyf: POE006).

[859] Mewn gwirionedd, nid yw llawer wedi bod ym mhen draw’r ffwrn.

## 7. Y gorchymyn a'i reolaethau

419. Mae'r fersiwn ddiweddaraf o'r Gorchymyn drafft i'w gweld yng Nhyf: Dogfen yr Ymchwiliad – 102. Bu Mr Maile a Ms Moss, partneriaid yn Eversheds Sutherland, yn egluro’r rheolaethau i’r Arolygydd yn yr RT Gorchymyn terfynol.[860] Ac eithrio rhai materion CPO, nid oes unrhyw newidiadau wedi'u codi gan drydydd partïon nad ydynt naill ai wedi'u hymgorffori neu eu datrys drwy ddulliau eraill.

## 8. Y caniatâd cynllunio tybiedig ac adran 106

*Caniatâd cynllunio*

420. Cytunwyd ar y caniatâd cynllunio tybiedig bron yn gyfan gwbl gydag IoACC. Mae'r fersiwn diweddaraf i'w gweld yng Nghyf: Dogfen yr Ymchwiliad – 098. Mae'r unig fater sy'n weddill rhyngom yn ymwneud ag amod arfaethedig 17, ac yn benodol a ddylai gynnwys cymal sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r rhestr o ymgyngoreion gael ei chytuno gydag IoACC. Amlinellwyd ein safbwynt ar hyn mewn nodyn gan Eversheds Sutherland, sydd yn y dogfennau craidd.[861] Rydym wedi esbonio sut y caiff effaith economaidd-gymdeithasol ei monitro, a sut y bydd busnesau lleol yn cael eu cynnwys. Nid ydym yn derbyn bod angen cytuno ar y rhestr o fusnesau ymgynghorai gydag IoACC – y pryder yw y bydd y rhestr honno'n cael ei dominyddu'n anghymesur gan y rhai sy'n gweiddi'r uchaf, yn hytrach na maes yr academyddion sy'n gwybod, mewn gwirionedd, sut i ymgymryd â'r gwaith hwn.

421. Mae Mr Carter, ar gyfer Orthios, wedi codi ar y funud olaf un gais am wybod a ddylai'r caniatâd cynllunio tybiedig gyfyngu ar faint y storfa batris.[862] Rydym yn llwyr wrthbrofi unrhyw awgrym o'r fath, ac roedd ein hymateb i hynny mewn llythyr a gyflwynwyd gan Eversheds sydd yng Nghyf: Dogfen yr Ymchwiliad – 095. Ni fyddwn yn ei osod allan yma.

*Adran 106*

422. Mae'r cytundeb drafft terfynol adran 106 wedi'i atodi yng Nghyf: Dogfen yr Ymchwiliad – 079. Unwaith eto, cytunwyd yn llawn arno ag IoACC.

423. Mae SCC wedi codi ymholiad ynghylch a ddylid digolledu busnesau am osod y prosiect. Rydym wedi delio â hynny, ond unwaith eto yr ateb yw ‘na’ yn ddigamsyniol. Mae'r môr yn adnodd a rennir – nid yw caiacwyr yn berchen arno. Nid yw busnes sy'n gwneud arian ohono yn berchen arno. Nid ydynt yn cael eu digolledu

[860] RT y Gorchymyn, Diwrnod 15, sesiwn AM 1.
[861] Cyf: Dogfen yr Ymchwiliad – 054
[862] RT caniatâd cynllunio tybiedig, Diwrnod 15, Sesiwn AM 1.

oherwydd bod defnyddwyr eraill yn dymuno gwneud defnydd ohono, ac wedi cael caniatâd i wneud hynny er budd y cyhoedd.

424. Gofynnodd Ms Wong ar gyfer SCC hefyd a ellid ailysgrifennu'r diffiniad o "dderbynyddion" i gynnwys defnyddwyr y môr. Nid oes gennym lawer i'w ddweud am hyn – mater i IoACC a CNC yw penderfynu sut y maent yn gwario'r arian adran 106.

## 9. Materion eraill

425. Nid oedd llawer iawn o faterion eraill yn codi yn ystod yr ymchwiliad hwn nad ymdriniwyd â hwy yn yr uchod. Cododd Mr Llewellyn bryderon iechyd a diogelwch ynghylch EMF ac EMR [Nodyn yr Arolygydd: deallwyd mai "ymbelydredd electromagnetig" yw hynny] pe bai'r opsiwn glanfa wrth gefn yn cael ei ddefnyddio, a gofynnodd am eglurhad a fyddai Menter Môn yn cydymffurfio â chanllawiau perthnasol y llywodraeth.[863] Yr ydym wedi cyflwyno nodyn i Mr Llewellyn a'r ymchwiliad ar hyn [864] ac fel y cadarnhaodd ar ddechrau Diwrnod 11 rydym wedi codi trafodaethau cynhyrchiol all-lein. Felly, nid ydym yn credu bod hwn yn fater y mae angen i'r ymchwiliad ymwneud ag ef.[865]

## Casgliad ar gyfer Menter Môn Cyfyngedig

426. Bu hwn yn derfyniad hir. Y terfyniad hiraf y mae'r naill neu'r llall ohonom erioed wedi'i ysgrifennu (neu, yn wir, yn gobeithio ei ysgrifennu).

427. Gerbron yr ymchwiliad ceir cais am brosiect gwirioneddol arloesol. Y cyntaf o'i fath yn unman yn y byd. Mae ganddo gefnogaeth bolisi eithriadol o gryf, fel yr amlinellodd Mr Bell ar gyfer yr ymchwiliad. Byddai'n dod â miliynau o bunnoedd mewn buddsoddiad i Ynys Môn, Cymru a'r DU, ar adeg pan fo gwir angen hynny. Byddai'n chwarae rhan allweddol yn y gwaith o gyflwyno technoleg ffrwd llanw – nid yn unig yma ond dros y byd i gyd – sy'n elfen allweddol yn y portffolio ynni adnewyddadwy ac yn un a all, yn unigryw, helpu i lenwi'r bwlch sylfaenol hwnnw. Mae hefyd yn rhoi cyfle i ddysgu – i gasglu'r data y mae ei absenoldeb wedi achosi cymaint o broblemau yn yr ymchwiliad hwn, i symud ymlaen gyfanswm y wybodaeth ddynol ac i sbarduno'r dechnoleg hon.

428. Bu'r dadleuon a gafwyd yn ein herbyn dan bwysau, yn faith. Mewn llawer o achosion, roeddent yn llawer hirach nag y maent yn ei haeddu. Nid oes yr un ohonynt yn rhoi rheswm dros wrthod y cais. Gerbron yr ymchwiliad ceir llinellau clir ar gyfer diffinio'r PDE. Defnyddiwyd hynny i ddarparu asesiad amgylcheddol eithriadol o fanwl, sy'n cydymffurfio'n llawn â'r EIA a'r Gofynion Cynefinoedd.

[863] RT economaidd-gymdeithasol, Diwrnod 5, Sesiwn AM 1.
[864] Cyf: Dogfen yr Ymchwiliad – 053
[865] Datganiadau Mr Llewellyn, Diwrnod 11, Sesiwn AM 1.

429. O ran effeithiau ecolegol y prosiect hwn, o'r llu o effeithiau a aseswyd, mae'r pwyntiau a gymerwyd yn ein herbyn yn cwmpasu, mewn gwirionedd, cymharol ychydig. Rydym wedi llwyddo i ddod i gytundeb â CNC ar yr effaith ar bysgod mudol, ecoleg benthig, a rhannau helaeth o ecoleg artraeth. Ynghylch yr effaith ar famaliaid morol – sy’n denu'r cryfaf o amddiffyniadau Ewropeaidd ac yn yr achos hwn yn darparu'r cyfyngiad tynnaf ar y prosiect – rydym yn gytûn, drwy ddefnyddio'r EMMP, y gellir cadw'r risg o wrthdrawiadau mamaliaid o'r fath gyda thyrbinau llanw ar lefel islaw AEOSI. Ynghylch yr effaith ar Weilch y Penwaig a Gwylogod – nad ydynt yn denu statws Ewropeaidd yma, maent ond yn ystyriaeth berthnasol - ni chymerir unrhyw bwyntiau gan CNC, y rheoleiddiwr perthnasol, dim ond gan yr RSPB (a NWWT). Ond mae RSPB yn cytuno â ni hefyd y gellir rhoi'r cam cyntaf – y Cam Un 10-12MW cymesur hwnnw sy’n llai o faint, wedi'i gyfyngu gan PBR 0.7 dolffin trwynbwl – yn y dŵr heb unrhyw effaith sylweddol ar Weilch y Penwaig na Gwylogod. Lle maent yn ei chael hi'n anodd yw credu y gall yr EMMP weithio. Rydym wedi nodi'n helaeth pam y credwn y gall, ond y pwynt allweddol yw hwn: os na allwn brofi i CNC a Gweinidogion Cymru y gall weithio, ni fyddant yn gadael inni roi unrhyw beth yn y dŵr. Yn wir, mae mor syml â hynny. Mae'r risg arnom ni, ond ar yr amod bod Gweinidogion Cymru yn ymddiried yn CNC (y cynigiwn y dylem), gallant fod yn sicr (a) beth yw'r sefyllfa waethaf posibl, (b) na fydd Cam Un yn cael effaith sylweddol, ac (c) nad yw CNC byth yn mynd i adael i ni gyrraedd cyfnod lle gallai'r prosiect hwn gael cymaint o effaith.

430. Codir pryder, yn ddealladwy, am gymeriad ac ymddangosiad yr ardal, o ystyried natur hardd ddiymwad y lleoliad. Ond unwaith eto, rydym wedi gwneud popeth o fewn ein gallu i liniaru'r effeithiau hynny (rydym wedi cytuno i ddefnyddio HDD oni bai nad yw'n bosibl, wedi cynllunio'r gwaith ar y tir i leihau eu heffaith, a rhoi'r DDP ar waith a fydd yn gwneud SLVIA yn ofynnol) a darparu iawndal lle nad yw hynny'n bosibl (gweler y Cytundeb adran 106). Mae IoACC yn cytuno ein bod wedi gwneud popeth o fewn ein gallu, ac nid yw bellach yn gwrthwynebu ar y sail hon. Mae rhai gwrthwynebiadau sy'n weddill gan CNC, ond mae'r rhain yn weddol fach.

431. Rydym wedi gwneud popeth o fewn ein gallu hefyd i leihau unrhyw effeithiau economaidd-gymdeithasol. Rydym wedi cynnal asesiadau trylwyr, ystyriol ond hefyd unwaith eto wedi cytuno ag IoACC becyn o fesurau lliniaru i'w rhoi ar waith os bydd (yn groes i'n gwaith arbenigol a'n rhagfynegiadau) yn cael unrhyw fath o effaith economaidd negyddol Treuliwyd llawer o amser ar forwyr a chaiacwyr o dan y pennawd hwn ond rydym yn annog cadw hyn mewn persbectif sef rhan gymharol fechan o'r economi, i'r graddau y byddai'n dioddef unrhyw niwed (cynnig yr ydym yn anghytuno ag ef, o ystyried bod gweithgarwch economaidd yn cael ei fesur ar dir ac felly byddai wedi cael ei asesu).

432. O ran effeithiau mordwyo, rydym wedi ymgymryd â dau NRA, gan gydymffurfio'n llawn â chanllawiau'r rheoleiddwyr perthnasol – yn wir, nododd yr MCA ein bod wedi mynd y tu hwnt i'r hyn yr oedd ei angen. A chofiwch y bydd NRA wedi'i ddiweddaru unwaith eto cyn i unrhyw beth fynd i mewn i'r dŵr. Felly, a yw'n anniogel? Nac ydy. O ran diogelwch mordwyo, mae'r MCA yn cytuno â ni fod y llwybr dwyreiniol gyda’r glannau yn addas ar gyfer 90% o draffig – yr unig bryder posibl sy'n weddill yw llongau o dan eu hwyliau heb fodur. Ond clywodd yr ymchwiliad gan Is-Gomodor Bae Trearddur eu bod yn mabwysiadu'r union awgrymiadau a gyflwynwyd gan Cdr Brown ynghylch pam y caiff y pryder hwn ei leihau. Yn wir, aethant y tu hwnt i hynny a nodi eu bod yn defnyddio cychod RIB yn gwmni i’w fflyd o gychod heb fodur. Nodwn fod gan SCC bryderon ond mae'r rheini'n seiliedig i raddau helaeth ar ofnau di-sail a diffyg ffydd yn y broses MGN 543 – nid dyma'r amser i wyntyllu

hynny. A yw'n ormod o osodiad? Nac ydy, heb os. Mae'r môr yn newid, ac mae rheidrwydd polisi clir bod yn rhaid i ddefnyddwyr y môr addasu i hynny. A dweud y gwir, bydd y gosodiad yn fach iawn – edrychwch ar Gyf: Dogfen yr Ymchwiliad – 043, a chofiwch y ffaith mai defnydd llawn yw hwnnw. Mae’r 'NIMBYaeth' sy'n bresennol wrth geisio atal y prosiect blaenllaw hwn sy'n ymladd y newid yn yr hinsawdd, fel y gall hwylwyr a chaiacwyr barhau i fonopoleiddio'r môr, yn ddigyfiawnhad ond mae hefyd yn torri i’r byw, a dweud y gwir. Ni ddylid rhoi pwys iddo o gwbl.

433. Ac yn erbyn y cefndir hwnnw y deuwn at y CPO. Rydym wedi canfod bod angen clir a chymhellol am y prosiect hwn. Rydym wedi amlinellu bod popeth wedi'i wneud i gymryd cyn lleied â phosibl o dir. Ni allwn wneud mwy. Y prif wrthwynebydd yw Orthios. Fel yr ydym wedi amlinellu, yn faith, mae sail eu gwrthwynebiad a’u "cynlluniau mawr" yn gwbl ddychmygol ar hyn o bryd. Ni fyddai eu "dewisiadau amgen" a awgrymwyd i ddiogelu'r cynlluniau hynny'n gwneud dim mwy na rhoi pridwerth iddynt dros y prosiect hwn a'r arian cyhoeddus sy'n mynd i'w gefnogi. Byddem yn annog yr Arolygydd i wrthod eu gwrthwynebiadau.

434. I gloi, mae hwn yn brosiect hollol, hollol arloesol, gydag ystod enfawr o fanteision. Mae'r gwrthwynebiadau i gyd naill ai'n ddi-werth, neu’n hylaw. Rydym yn annog yr Arolygydd i argymell i Weinidogion Cymru eu bod yn gwneud y Gorchymyn wedi’i geisio.

## Achosion IoACC, CNC (Cynghori) a’r Prif Wrthwynebwyr Parti

### Cyngor Sir Ynys Môn ("IoACC")

435. IoACC yw'r awdurdod cynllunio lleol ar gyfer rheoleiddio elfen ar y tir y prosiect pe bai'r caniatâd cynllunio tybiedig yn cael ei roi a hwn fydd y corff sy’n rhyddhau'r amodau cynllunio ac yn monitro cydymffurfiaeth.

436. Hwn yw’r awdurdod priffyrdd lleol ac mae'n dirfeddiannwr y mae ei dir yn destun y darpariaethau prynu gorfodol arfaethedig.

437. Bu’r Cyngor yn gyson yn cefnogi egwyddor y datblygiad, er bod ganddo nifer o sylwadau a phryderon penodol. Nodir y rhain mewn dau gyflwyniad (Cyf: REP007, dyddiedig 1/10/19 a Chyf: FEI REP00, dyddiedig 18/5/20), Datganiad Achos (Cyf: MDZ/N3) a Phrawf o Dystiolaeth (Cyf: POE003) sy'n ymdrin â materion morlun, tirwedd ac effaith weledol (cymeriad ac ymddangosiad).

438. Ar ôl ymgysylltu â'r Ymgeisydd, llwyddodd y Cyngor i gytuno ar Ddatganiad Manwl o Dir Cyffredin (Cyf: MDZ/L7) sy'n cadarnhau cefnogaeth y Cyngor i'r cynigion, ar yr amod bod y cynigion yn darparu math cynaliadwy o ddatblygiad sy'n sicrhau’r buddion mwyaf posibl o’r prosiect i'r economi a chymunedau lleol gan gydbwyso effeithiau amgylcheddol a chymdeithasol tebygol (Cyf:  MDZ/L7, para. 12).

439. Nodir o'r Datganiad o Dir Cyffredin fod pob mater heblaw un wedi’i gytuno i foddhad y Cyngor a'i fod yn gallu dileu ei wrthwynebiad cyn dechrau'r ymchwiliad (drwy lythyr dyddiedig 27/11/2020 – Cyf: Tynnu'n ôl – 001).

440. Gan ei fod wedi cyrraedd y safbwynt hwn, fel y nodwyd, dim ond chwarae rhan gyfyngedig y bu angen i’r Cyngor ei wneud yn yr ymchwiliad hwn, gan ganolbwyntio ar rai materion penodol, yr ymdrinnir â hwy isod. Safbwynt y Cyngor erioed oedd y byddai amcanion y prosiect yn helpu i wireddu'r weledigaeth gyffredinol yn Rhaglen Ynys Ynni'r Cyngor a'r polisïau strategol sy'n ymwneud â mentrau sy'n seiliedig ar dechnolegau ynni adnewyddadwy neu garbon isel fel y'u nodir yn y JLDP (Cyf: MDZ/N3, para. 2.2). Byddai'n cyfrannu at darged sero net y DU 2050 yn ogystal â helpu i gyrraedd targed Llywodraeth Cymru *Ffyniant i bawb: Cymru carbon isel* (Cyf: REP007, para. 2.4).

441. Nod y Cyngor drwy ei gyflwyniadau ac yn yr ymchwiliad hwn felly fu sicrhau bod y cynigion yn cyflawni ei ofyniad fel y'i mynegwyd yn y Datganiad o Dir Cyffredin (h.y. bod y prosiect yn darparu math cynaliadwy o ddatblygiad, ei fod yn sicrhau’r buddion mwyaf posibl o’r prosiect i'r economi a’r cymunedau lleol gan gydbwyso effeithiau amgylcheddol a chymdeithasol yn briodol).

442. Bu llawer o dystiolaeth a thrafodaeth yn ystod yr ymchwiliad ac mae'r Cyngor yn parhau i fod yn gefnogol ac yn fodlon bod y prosiect yn un sy'n dderbyniol, a fydd yn cyflwyno manteision economaidd-gymdeithasol a sicrheir drwy'r amodau ac y bydd y mesurau diogelu angenrheidiol ar waith (drwy'r amodau a'r Gorchymyn) er mwyn cwtogi cymaint â phosibl ar effaith y datblygiad arfaethedig ar gymeriad ac ymddangosiad yr ardal.

443. Yn hyn o beth, mae dau amod, yn arbennig, yr wyf am sôn yn fyr amdanynt. Amodau 17 a 23.

444. Amod 17 yw'r unig amod nad yw'r Cyngor wedi llwyddo i ddod i gytundeb â'r Ymgeisydd arno. Amlygwyd hyn yn y sesiwn ford gron ddydd Gwener, 05/02/2021). Cytunir ar weddill yr amodau, sydd ohono'i hun yn cymeradwyo derbynioldeb y cynigion i'r Cyngor.

445. Mae Amod 17 yn ymdrin â'r gofyniad am Strategaeth Twristiaeth a Hamdden. Mae angen hyn er mwyn helpu i sicrhau bod yr effeithiau a'r manteision economaidd-gymdeithasol yn cael eu gwireddu. Mae'n fater pwysig i'r Cyngor. Yn y sesiwn bord gron ddydd Gwener 05/02/2021, nododd y Cyngor ei fod o'r farn y dylai'r Ymgeisydd gytuno (gyda'r Cyngor) ar restr o fusnesau ac unigolion y dylid ystyried eu barn wrth lunio'r Strategaeth honno cyn ei chyflwyno. Gellir gweld y newid arfaethedig y mae'r Cyngor yn ei geisio yng Nghyf: Dogfen yr Ymchwiliad – 054. (Nodyn i'r Arolygydd: mae'n ymddangos mai hwn yw amod posibl 15 yng Nghyf.: MDZ/N3, MDZ/L7 a Dogfen yr Ymchwiliad – 054)

446. Mae hwn, ym marn y Cyngor, yn mynd i'r afael â'r pwyntiau a godwyd yn y sesiwn bord gron ar faterion economaidd-gymdeithasol ynghylch cwmpas yr ymgysylltu hwnnw a'r angen i ymgynghori ac ymgysylltu'n ehangach â'r gymuned hamdden yn benodol. Mae'r Cyngor am sicrhau bod rhanddeiliaid priodol yn cael eu nodi ac yr ymgynghorir â hwy, ac mae'n cynnig mai dyma'r ffordd i wneud hyn.

447. Byddai mabwysiadu'r dull hwn yn yr amod hefyd yn helpu Menter Môn gan y byddai'n osgoi beirniadaeth nad ydynt wedi bwrw eu rhwyd yn ddigon eang, ac mae'n rhoi'r hyder i bawb fod y safbwyntiau a fynegwyd i lywio'r strategaeth yn gynrychioliadol ac yn gyfredol.

448. Yr amod arall i dynnu sylw ato yw amod 23 gan fod hwn yn canolbwyntio ar safbwynt y Cyngor ar gymeriad ac ymddangosiad. Cynlluniwyd Amod 23 i sicrhau bod rhwymedigaeth gynllunio wedi'i chwblhau (Cyf: Dogfen yr Ymchwiliad – 079). Mae'r amod hwn yn atal gwaith rhag cael ei wneud nes bod parti sydd â buddiant cyfreithiol cofrestradwy yn y tir a ddangosir ar gyfer y gwaith ar y tir yn ymrwymo i rwymedigaeth gynllunio adran 106 gyda'r Cyngor.

449. Pam mae angen hyn? Mae ei angen oherwydd cymeriad ac ymddangosiad yw'r maes allweddol sy'n peri pryder i'r Cyngor, gyda chefnogaeth Prawf Tystiolaeth Ian Gates.

450. Mae dwy ffurf ar bryderon y Cyngor:

(1) Effeithiau o'r seilwaith ar y tir (cebl golwg tir, is-orsaf, is-orsaf cysylltiad grid ac adeilad offer switsh); a

(2) Effeithiau'r newid a grëir ar y môr drwy osod yr aráe sy'n anochel yn newid yr olygfa i mewn ac allan o'r ardaloedd tirwedd arfordirol (Cyf: POE003, para. 6.1).

451. Safbwynt y Cyngor yw y bydd yr effeithiau hyn yn cael effaith andwyol sylweddol ar AHNE Ynys Môn ac Arfordir Treftadaeth Mynydd Tŵr, yn arbennig. Heb ei herio (gweler Cyf: POE003 paragraffau 6.7 i 6.12).

452. Mae'r Cyngor yn derbyn, a chlywodd yr ymchwiliad, fod yr Ymgeisydd wedi gwneud yr hyn a all i liniaru'r effeithiau hyn drwy gynllunio i liniaru a lleoli'r dyfeisiau ar y môr a thrwy gynnig tirlunio’r seilwaith ar y tir – ac mae nifer o amodau wedi'u cynnig ar y caniatâd cynllunio tybiedig i fynd i'r afael â materion dylunio a thirlunio.

Y mater i'r Cyngor yw hwn: hyd yn oed gyda'r camau lliniaru wedi’u cynllunio, mae effaith andwyol sylweddol o hyd ar rai rhannau o'r AHNE a'r Arfordir Treftadaeth.

453. Gyda hynny mewn golwg, gan nad yw lliniaru pellach yn ymarferol, mae angen ystyried a fyddai darparu iawndal yn briodol i’w osod yn erbyn y niwed a fyddai'n cael ei achosi gan y prosiect. Safbwynt y Cyngor yw y byddai'n briodol – sef "... bod darpariaeth ddigolledu yn angenrheidiol... i gydbwyso effeithiau'r prosiect a gwneud y Prosiect yn dderbyniol" (Cyf: POE003, para. 9.2).

454. Ystyrir felly fod angen amod 23, a'r rhwymedigaeth adran 106 y mae’r amod yn mynnu ei chwblhau, er mwyn cyflenwi'r iawndal gofynnol.

455. Ni fwriadwn ailadrodd yma fanylion y rhwymedigaeth gynllunio (Cyf: Dogfen yr Ymchwiliad – 079), ac eithrio dweud ei fod yn cyflawni cyfraniad sylweddol, sydd wedi'i rannu'n daliadau ar wahân a sbardunir yn y bôn drwy roi cymeradwyaeth i osod dyfais lanw o gapasiti cynhyrchu penodol. Felly po fwyaf o ddyfeisiau sy'n cael eu cymeradwyo, po fwyaf o arian sy'n daladwy i'r Cyngor hyd at yr uchafswm 240 megawat sy'n cael ei geisio gan y Gorchymyn.

456. Mae'n ofynnol i'r Cyngor gymhwyso'r arian tuag at fesurau a fydd, ym marn resymol y Cyngor, yn gwneud iawn am yr effeithiau a achosir gan y datblygiad ar dderbynyddion penodol. Rhestrir y derbynyddion hynny yn y Cytundeb (SCA Mynydd Tŵr, SCA Rhoscolyn. AHNE Ynys Môn, Arfordir Treftadaeth Ynys Gybi, ambell eiddo preswyl a mân ffyrdd yng ngogledd-orllewin Ynys Gybi, ac i dderbynyddion hamdden penodol fel y’u rhestrir yn y Cytundeb).

457. Mae'r math o fesurau a ragwelir gan y Cytundeb yn cynnwys gwneud gwaith gwella tirwedd, ariannu prosiectau ar gyfer cynnal rhaglenni adfer neu wella tirwedd a gwella tir mynediad cyhoeddus (fel gwelliannau i hawliau tramwy cyhoeddus neu eu darparu).

458. O dan y Cytundeb (Cyf: Dogfen yr Ymchwiliad – 079), dylid ymgynghori â CNC ar fesurau tirwedd sy'n effeithio ar yr AHNE.

459. Safbwynt y Cyngor yw bod y rhwymedigaeth yn cydymffurfio â Rheoliad 122 o Reoliadau Ardoll Seilwaith Cymunedol 2010. Mae'r Cyngor o'r farn bod angen darparu iawndal er mwyn gwneud y datblygiad yn dderbyniol o ran cynllunio. Mae'r arian iawndal arfaethedig yn uniongyrchol gysylltiedig â'r datblygiad er mwyn mynd i'r afael â'r niwed a achosir gan y prosiect i gymeriad ac ymddangosiad yr ardal ac ystyrir bod maint y gronfa yn rhesymol gysylltiedig o ran maint a math. Nid yw'n ffigur ansylweddol ac mae'n daladwy'n gynyddrannol ar y datblygiad sy'n cael ei gymeradwyo. Cyflwynwyd Datganiad Cydymffurfio ag Ardoll Seilwaith Cymunedol i'r ymchwiliad dyddiedig 09/02/2021 (Cyf: Dogfen yr Ymchwiliad – 144), sy'n cadarnhau'r sefyllfa hon.

460. O ran y Gorchymyn drafft, mae hyn yn dderbyniol a chroesawir y diwygiadau amrywiol a wnaed yn ystod ac yn arwain at yr ymchwiliad. Yn benodol, y gofyniad i ymgynghori â'r Cyngor ar unrhyw brotocol gosod dyfais ar gyfer dyfais sy'n dod i'r wyneb cyn iddo gael ei gymeradwyo a sicrhau bod effeithiau cronnol y dyfeisiau'n cael eu hystyried. Mae hyn ymhellach yn helpu i oresgyn pryderon cymeriad ac ymddangosiad. (Cyf: MDZ/L7, Tabl 5.1, cyf. 6).

461. Er cyflawnrwydd, mae'n dderbyniol defnyddio'r briffordd gyhoeddus y mae'r Cyngor yn awdurdod priffyrdd ar ei chyfer yn unol â'r Gorchymyn (Cyf: MDZ/L7, Tabl 5.1, cyf. 4).

462. Mae’r un mater a oedd heb ei ddatrys yn y Datganiad o Dir Cyffredin ond sydd bellach wedi'i ddatrys mewn perthynas â'r Cyngor fel tirfeddiannwr (Cyf: MDZ/L7, Tabl 5.1, cyf. 7). Cytunodd y Cyngor ar Benawdau’r Telerau gyda'r Ymgeisydd yn rheoleiddio sut y bydd buddiannau'r Cyngor ar y tir yn cael eu defnyddio gan yr Ymgeisydd ar gyfer y prosiect (cwblhawyd Penawdau’r Telerau 06/11/2020) ac mae hynny wedi dileu ei bryderon yn hynny o beth.

463. I gloi, ystyrir bod y cynnig yn un cadarnhaol i Ynys Môn. Mae'n addo dod â nifer o fanteision i'r ardal a'r cymunedau lleol. Mae digon o amddiffyniadau wedi'u cynnwys i sicrhau bod y manteision hynny'n cael eu gwireddu a sicrhau y cwtogir cymaint â phosibl ar effeithiau andwyol a'u bod yn cael sylw priodol.

464. O'r herwydd, mae'r Cyngor yn cefnogi gwneud y Gorchymyn ar ei ffurf bresennol a rhoi'r Caniatâd Cynllunio Tybiedig.

**Cyfoeth Naturiol Cymru ("CNC")**

465. Pan gafwyd y cais ac ymgynghorwyd yn ei gylch, roedd gan gangen gynghori CNC bryderon sylweddol ynghylch amrywiaeth eang o faterion a'r wybodaeth amgylcheddol gysylltiedig a gyflwynwyd gyda'r cais. Nodwyd y pryderon hyn yn ymateb CNC i'r ymgynghoriad, dyddiedig 31 Hydref 2019. Yn dilyn hynny, gwnaeth CNC sylwadau (Cyf: FEI – REP004) ar wybodaeth amgylcheddol bellach yr Ymgeisydd.

**Cyflwyniadau cloi CNC (Cangen Gynghori)**

466. Cadarnhaodd datganiad agoriadol CNC Cynghori fod ganddo bryderon eithriadol am bedair agwedd ar y cais hwn:

(1) Effaith y cynnig ar ACA, AGA a SoDdGA Arfordir Ynys Gybi, yn enwedig colli cynefinoedd a warchodir o dan Atodiad I o Gyfarwyddeb 92/43/EEC ("y Gyfarwyddeb Cynefinoedd");

(2) Effeithiau'r cynnig ar famaliaid morol, yn benodol (i) y marwolaethau sy'n deillio o wrthdrawiadau â'r datblygiad ffisegol arfaethedig; a (ii) yr aflonyddwch o sŵn tanddwr gweithredol.

(3) Effeithiau tirwedd, morlun a gweledol y cynnig ar AHNE Ynys Môn.

(4) Effeithiau'r cynnig ar gynefinoedd benthig a rhynglanwol a warchodir o dan Atodiad I o'r Gyfarwyddeb Cynefinoedd.

467. Mewn perthynas â mater (4), mae'r Ymgeisydd a CNC wedi cytuno, yn ystod yr ymchwiliad, ar delerau 'Strategaeth Amlinellol ar gyfer Gwella Bioamrywiaeth Forol'[866]. Paratôdd yr Ymgeisydd y ddogfen hon mewn ymateb i gyngor CNC bod angen strategaeth o'r fath, ar hyn o bryd, yn absenoldeb arolygon cyn-ganiatâd manwl yn nodi graddau llawn y posibilrwydd o golli neu newid cynefinoedd benthig

[866] Cyf: Dogfen yr Ymchwiliad - 069

morol o ganlyniad i'r cynnig. Mae CNC yn fodlon bod y strategaeth amlinellol yn nodi egwyddorion allweddol priodol ar gyfer gweithredu unrhyw fesurau gwella ecolegol y gallai fod eu hangen (paragraffau 60-66). Mae CNC hefyd yn nodi cynnig yr Ymgeisydd am amod drafft ar y drwydded forol sy'n gofyn am gyflwyno 'Strategaeth Gwella Bioamrywiaeth Forol' fanwl yn seiliedig ar y strategaeth amlinellol (paragraffau 67-68). Mae ymgysylltu adeiladol yr Ymgeisydd â chyngor CNC ar y mater hwn yn golygu y gall y cyflwyniadau cloi hyn ganolbwyntio ar faterion (1) i (3) uchod.

Mater (1): ACA, AGA a SoDdGA Arfordir Ynys Gybi

468. Mae'r mater hwn yn codi oherwydd bod angen cludo ceblau o'r aráe llanw arfaethedig i seilwaith ar y tir. Y dull a ffafrir gan yr Ymgeisydd – dewis a rennir gan CNC – fyddai cludo'r ceblau drwy dechneg a elwir yn 'ddrilio cyfeiriadol llorweddol', gan osgoi unrhyw ymyrraeth berthnasol â chynefin clogwyni môr â phlanhigion Atodiad I ACA/AGA/SoDdGA Arfordir Ynys Gybi.

469. Fodd bynnag, pe bai'r dechneg hon yn anymarferol, a gall yr Ymgeisydd ddangos hyn er boddhad yr IoACC (gweler amod drafft 5 ar yr 'Amodau Arfaethedig ar gyfer Caniatâd Cynllunio Tybiedig' ), yr ail opsiwn fyddai'r sefyllfa waethaf sef diogelu'r ceblau i wyneb y clogwyn gan ddefnyddio "J-tiwbiau" wedi’u diogelu gan folltau craig. Cytuna’r Ymgeisydd a CNC y byddai hyn yn golygu colli rhywfaint o’r cynefin clogwyni môr â phlanhigion Atodiad I yn y tymor hir am o leiaf 40 mlynedd. Mae CNC o'r farn bod y golled hon mor "hirdymor", o ran maint, fel ei bod yn gyfystyr â cholled barhaol. Mae'n well gan yr Ymgeisydd ei ddisgrifio fel colled "hirdymor, dros dro", ond rhaid bod disgrifiad o'r fath yn hunan-wrthddweud.

470. Yn fwy sylfaenol, mae'r Ymgeisydd a CNC yn anghytuno ynghylch a ddylid ystyried y golled yn "sylweddol" a/neu’n golled sy’n cael effaith andwyol ar gyfanrwydd yr ACA. Mae CNC yn honni y dylid ystyried y golled yn "sylweddol" ac na ellir diystyru effaith andwyol ar gyfanrwydd yr ACA.

*Y gyfraith*

471. Mae Rheoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017/1012 ("y Rheoliadau Cynefinoedd") yn trawsosod Cyfarwyddeb 92/43/EEC Cyngor y CE ar warchod cynefinoedd naturiol a ffawna a fflora gwyllt ("y Gyfarwyddeb Cynefinoedd"). Maent yn ymestyn i Gymru. Fel "deddfwriaeth ddomestig sy'n deillio o'r UE", mae'r Rheoliadau Cynefinoedd yn parhau i gael effaith mewn cyfraith ddomestig yn dilyn ymadawiad y Deyrnas Unedig o'r Undeb Ewropeaidd: a. 2, Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018.

472. Mae Rheoliadau 63 a 64 o'r Rheoliadau Cynefinoedd yn trawsosod, yn y drefn honno, erthyglau 6(3) a 6(4) o'r Gyfarwyddeb Cynefinoedd sy'n darparu ar gyfer system asesu goblygiadau "cynllun neu brosiect" arfaethedig ar gyfer "safleoedd Ewropeaidd" gwarchodedig, sy'n cynnwys Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (fel ACA Arfordir Ynys Gybi): Rheol. 8.

473. Mae rheoliad 63 yn datgan, i'r graddau y bo'n berthnasol (ychwanegwyd pwyslais):

> *"(1) Rhaid i awdurdod cymwys, cyn penderfynu cynnal, neu roi unrhyw gydsyniad, caniatâd neu awdurdodiad arall i gynllun neu brosiect sydd –*

a) *yn debygol o gael effaith sylweddol ar safle Ewropeaidd neu safle morol alltraeth Ewropeaidd (naill ai ar ei ben ei hun neu ar y cyd â chynlluniau neu brosiectau eraill), ac*

b) *nad yw wedi'i gysylltu'n uniongyrchol â rheoli'r safle nac yn angenrheidiol iddo,*

*wneud asesiad priodol o oblygiadau'r cynllun neu'r prosiect ar gyfer y safle hwnnw yng ngoleuni amcanion cadwraeth y safle hwnnw.*

*(2) Rhaid i berson sy'n gwneud cais am unrhyw gydsyniad, caniatâd neu awdurdodiad arall o'r fath ddarparu unrhyw wybodaeth y gall yr awdurdod cymwys ei gwneud yn rhesymol ofynnol at ddibenion yr asesiad neu i'w alluogi i benderfynu a oes angen asesiad priodol.*

*(3) Rhaid i'r awdurdod cymwys, at ddibenion yr asesiad, ymgynghori â'r corff cadwraeth natur priodol a rhoi sylw i unrhyw sylwadau a wnaed gan y corff hwnnw o fewn unrhyw amser rhesymol a benoda'r awdurdod.*

*(4) Rhaid iddo hefyd, os yw'n ystyried ei bod yn briodol, gymryd barn y cyhoedd, ac os yw'n gwneud hynny, rhaid iddo gymryd unrhyw gamau at y diben hwnnw y mae'n eu hystyried yn briodol.*

*(5) Yng ngoleuni'r casgliadau, ac yn destun rheoliad 64, caiff yr awdurdod cymwys gytuno i'r cynllun neu'r prosiect dim ond ar ôl canfod na fydd yn cael effaith andwyol ar gyfanrwydd y safle Ewropeaidd neu'r safle morol alltraeth Ewropeaidd (fel y bo).*

*(6) Wrth ystyried a fydd cynllun neu brosiect yn cael effaith andwyol ar gyfanrwydd y safle, rhaid i'r awdurdod cymwys roi sylw i'r modd y cynigir ei gyflawni neu i unrhyw amodau neu gyfyngiadau y mae'n cynnig y dylid rhoi'r cydsyniad, y caniatâd neu'r awdurdodiad arall yn amodol arnynt.*

[…]"

474. Mae rheoliad 64 yn datgan, i'r graddau y bo'n berthnasol:

*"(1) Os bodlonwyd yr awdurdod cymwys, am nad oes unrhyw atebion amgen, fod rhaid i'r cynllun neu'r prosiect gael ei gynnal am resymau hanfodol o fudd cyhoeddus hollbwysig (a all, yn destun paragraff (2), fod o natur gymdeithasol neu economaidd), caiff gytuno i'r cynllun neu'r prosiect er gwaethaf asesiad negyddol o'r goblygiadau i'r safle Ewropeaidd neu'r safle morol alltraeth Ewropeaidd (fel y bo).*

*(2) [ddim yn berthnasol yn yr achos hwn]*"

475. Mae rheoliad 68 yn ychwanegu, os bydd cynllun neu brosiect am gael cydsyniad er gwaethaf asesiad negyddol o'i oblygiadau ar gyfer safle Ewropeaidd, fod "*rhaid i'r awdurdod priodol sicrhau bod unrhyw fesurau digolledu angenrheidiol yn cael eu cymryd i sicrhau bod cydlyniad cyffredinol Natura 2000 yn cael ei ddiogelu*". "Natura 2000" yw'r rhwydwaith o safleoedd Ewropeaidd gwarchodedig sy'n cynnwys ACA: Rheol. 3.

476. Yn *R (Mynydd y Gwynt Ltd) v Secretary of State for Business, Energy and Industrial Strategy* [2018] EWCA Civ 231; [2018] Env LR 22, tynnodd Peter Jackson LJ ynghyd ofynion erthyglau 6(3) a 6(4) o'r Gyfarwyddeb Cynefinoedd (fel y'u trawsosodwyd yn y Rheoliadau Cynefinoedd) fel a ganlyn (ychwanegwyd pwyslais):

"*(1) Mae'r mecanwaith diogelu'r amgylchedd yn erthygl 6(3) yn cael ei sbarduno lle mae'r cynllun neu'r prosiect yn debygol o gael effaith sylweddol ar amcanion cadwraeth y safle: gweler Landelijke Vereniging tot Behoud van de Waddenzee v Staatsseccretaris van Landbouw, Natuurbeheer en Visserij* (Case C-127/02) [2005] All ER (EC) 353, 1279 para 42 (Waddenzee).

*(2) Yng ngoleuni'r egwyddor ragofalus, mae prosiect yn debygol o gael effaith sylweddol er mwyn gwneud asesiad priodol yn ofynnol os na ellir eithrio'r risg ar sail gwybodaeth wrthrychol: gweler Waddenzee, ym mharagraff 39.*

*(3) O ran yr asesiad priodol, nid yw priodol yn nodi mwy nag y dylai'r asesiad fod yn briodol i'r dasg dan sylw, a'r dasg honno yw bodloni'r awdurdod cyfrifol na fydd y prosiect yn cael effaith andwyol ar gyfanrwydd y safle dan sylw. Mae angen safon uchel o ymchwiliad, ond mae'r mater yn y pen draw yn dibynnu ar ddyfarniad yr awdurdod: R (Champion) v North Norfolk District Council [2015] 1 WLR 3710, para 41 per Lord Carnwath JSC.*

*(4) Y cwestiwn i'r awdurdod sy'n cynnal yr asesiad yw: beth fydd yn digwydd i'r safle os aiff y cynllun neu'r prosiect hwn yn ei flaen; ac a yw hynny'n gyson â chynnal neu adfer statws cadwraeth ffafriol y cynefin neu'r rhywogaeth dan sylw?: gweler barn Eiriolwr Cyffredinol Sharpston yn Sweetman v An Bord Pleanála (Cyngor Sir Galway yn ymyrryd) (Achos C-258/11) [2014] PTSR 1092, pwynt 50.*

*(5) Yn dilyn asesiad, <u>dim ond os yw'r awdurdod yn argyhoeddedig na fydd yn cael effaith andwyol ar gyfanrwydd y safle dan sylw y caniateir i'r prosiect dan sylw gael ei gymeradwyo. Os oes amheuaeth o hyd, bydd yn rhaid gwrthod yr awdurdodiad:</u> gweler Waddenzee, ym mharagraffau 56-57.*

*(6) Nid oes angen sicrwydd llwyr. Os na ellir canfod sicrwydd, ar ôl dihysbyddu pob dull a ffynhonnell wyddonol, bydd angen gweithio gyda thebygolrwydd ac amcangyfrifon, y mae'n rhaid eu nodi a'u rhesymu: gweler Waddenzee, pwyntiau 107 a 97 o farn yr Eiriolwr Cyffredinol, a gymeradwywyd yn achos Champion, ym mharagraff 41, a chan Sales LJ yn Smyth v Secretary of State for Communities and Local Government [2015] PTSR 1417, Para.* 78.

*(7) Rhaid i'r penderfynwr ystyried mesurau lliniaru a sicrhawyd a thystiolaeth am eu heffeithiolrwydd: European Commission v Federal Republic of Germany (Case C-142/16) EU:C:2017:301, para.* 38.

*(8) <u>Byddai angen rhywfaint o esboniad grymus pe bai'r penderfynwr wedi dewis peidio â rhoi cryn bwys i farn y corff cadwraeth natur priodol:</u> R (Hart District Council) v Secretary of State for Communities and Local Government [2008] 2 P & CR 16, para.* 49.

*(9) Y safon adolygu berthnasol gan y llys yw safon resymoldeb Wednesbury (Associated Provincial Picture Houses Ltd v Wednesbury Corpn [1948] 1 KB 223) ac nid safon adolygu ddwysach: gweler achos Smyth ym mharagraff* 80."

477. Er cyd-destun, un o'r rhesymau dros herio yn achos *Mynydd y Gwynt* oedd bod yr Ysgrifennydd Gwladol wedi cyfeiliorni wrth ddod i'r casgliad (yn seiliedig ar gyngor CNC) nad oedd yr ymgeisydd wedi darparu digon o wybodaeth i alluogi diystyru effaith andwyol ar gyfanrwydd safle Ewropeaidd gwarchodedig. Gwrthododd y Llys Apêl y sail honno o her, gan ddod i'r casgliad bod gan yr Ysgrifennydd Gwladol hawl i

gymryd y farn bod y wybodaeth a ddarparwyd yn annigonol: [34]. Yn yr Uchel Lys isod, roedd y barnwr wedi sylwi "*na allai'r Ysgrifennydd Gwladol fod wedi gweithredu'n afresymol neu fel arall yn anghyfreithlon wrth ddilyn cyngor rhesymegol CNC*" ar y mater hwn: [81].

*Canllawiau perthnasol*

478. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi cyfres o 'Nodiadau Cyngor Technegol' sy'n rhoi arweiniad ar wahanol agweddau ar bolisi cynllunio. Mae Nodyn Cyngor Technegol 5, 'Cadwraeth a Chynllunio Natur' ("TAN 5"), yn rhoi cyngor ar "sut y dylai'r system gynllunio gyfrannu at ddiogelu a gwella bioamrywiaeth a chadwraeth ddaearegol" (para. 1.2.1).

479. Mae Atodiad 3 i TAN 5 yn rhoi cyngor manwl ar 'Gynigion datblygu sy'n debygol o effeithio ar safle cadwraeth natur a ddynodwyd yn rhyngwladol'. Mae'n cadarnhau (gan ddyfynnu Waddenzee) bod effaith "sylweddol", at ddibenion y Rheoliadau Cynefinoedd, yn effaith “a allai danseilio amcanion cadwraeth y safle” (para. 7). O dan yr is-bennawd 'Canfod yr effaith ar gyfanrwydd y safle', mae TAN 5 wedyn yn darparu'r cyngor hwn (ychwanegwyd y pwyslais):

> "*19. Cyfanrwydd y safle yw cydlyniad ei strwythur a'i swyddogaeth ecolegol, ar draws ei holl ardal, sy'n ei alluogi i gynnal cynefin, cyfres o gynefinoedd a/neu lefelau poblogaethau'r rhywogaethau y cafodd ei ddosbarthu neu ei restru ar eu cyfer. Wrth benderfynu ar yr effaith ar gyfanrwydd y safle, bydd angen ystyried yn ofalus gyngor CCGC [CNC erbyn hyn] a’r dyfyniad a gyhoeddwyd ganddynt yn dweud pam y cafodd y safle ei ddosbarthu neu ei restru. Er mai dyletswydd y sawl sy'n gwneud penderfyniad yw cynnal yr asesiad priodol a llunio barn ynghylch yr effaith ar gyfanrwydd y safle, fel arfer byddai disgwyl iddo fabwysiadu cyngor CCGC ar y prawf cyfanrwydd. Os nad yw'n gwneud hynny, dylai'r sawl sy'n gwneud penderfyniad fod â rhesymau argyhoeddiadol ac eithriadol dros beidio â mabwysiadu'r cyngor, y dylai fod yn barod i'w hesbonio, a dylai allu dangos bod y rhesymau hyn yn cael eu hategu'n glir gan dystiolaeth wyddonol gadarn*.
>
> […]
>
> *21. **Ni** ddylid ystyried mesurau digolledu (gweler isod) wrth asesu a fyddai'r cynnig yn cael effaith andwyol ar gyfanrwydd safleoedd Ewropeaidd neu safleoedd morol alltraeth Ewropeaidd*."

480. Mae'r Ymgeisydd hefyd wedi dibynnu ar adroddiad a gomisiynwyd gan Natural England: ‘*Small-scale effects:* How the scale of effects has been considered in respect of plans and projects affecting European sites – a review of authoritative decisions’ ("Adroddiad NE") (gweler Atodiad 1 i brawf Mr Campbell). Nid yw'r "adroddiad" hwn a baratowyd gan ymgynghorwyr yn ganllaw a fabwysiadwyd gan Natural England: mae ymwadiad yn y 'Rhagair' i'r adroddiad yn nodi nad yw cynnwys yr adroddiad "o reidrwydd yn cynrychioli rhai Natural England". Beth bynnag, nid oes gan "adroddiad" a gyhoeddwyd gan Natural England unrhyw gymhwysiad yng Nghymru. Serch hynny, ni fyddai CNC yn anghytuno â'r darn hwn o 'Gasgliadau Cyffredinol' Adroddiad NE wrth geisio crynhoi'r ffactorau a ystyrir fel arfer gan benderfynwyr wrth asesu a yw "effeithiau graddfa fach" ar ACA yn ddigon i gael effaith andwyol ar gyfanrwydd (gweler tudalen olaf y 'Crynodeb' gweithredol ar ddechrau'r adroddiad):

"*Mae'r achosion a adolygwyd yn dangos, yn ymarferol, fod gwneuthurwyr penderfyniadau awdurdodol yn ystyried ystod eang o ffactorau yn ddieithriad wrth bennu arwyddocâd effeithiau ar raddfa fach, gan gynnwys:*

- *nodweddion y nodwedd gymhwysol (er enghraifft, prinder, lleoliad, dosbarthiad, i ba raddau mae'n agored i newid posibl);*
- *sut y gellid effeithio ar strwythur a swyddogaeth ecolegol y safle;*
- *pa swyddogaeth ecolegol y mae'r ardal yr effeithir arni yn ei chyflawni, neu pha un y gallai ei chyflawni, o ran gofynion ecolegol y nodweddion cymwys;*
- *lleoliad yr ardal yr effeithir arni o ran ei safle daearyddol yn y safle dynodedig ac o ran ei safle o'i gymharu â'r prosiect;*
- *lle effeithir ar rywogaethau cymwys, pryd fyddai'r gweithgareddau'n digwydd, prinder unigolion o'r rhywogaeth, ei statws cadwraeth a'i ragolygon yn y dyfodol yn y lleoliad dan sylw*."

*Amcan cadwraeth perthnasol*

481. Yn erbyn y cefndir cyfreithiol a pholisi hwn, mae'n drawiadol nad oedd Prawf Tystiolaeth yr Ymgeisydd sy'n ymdrin â'r mater hwn, gan Mr Campbell, yn cynnwys unrhyw ystyriaeth ystyrlon o'r amcan cadwraeth perthnasol ar gyfer ACA Arfordir Ynys Gybi, er bod y llysoedd yn ei gwneud yn glir bod yn rhaid asesu effeithiau ar gyfanrwydd ACA drwy gyfeirio at yr amcan hwnnw.

482. Yn ei Phrawf Tystiolaeth ei hun ar ran CNC ar y mater hwn, gwnaeth Ms Heather Lewis iawn am yr hepgoriad hwn yn nadansoddiad Mr Campbell, gan nodi'r amcan cadwraeth perthnasol ar gyfer yr ACA ym mharagraffau 4.8-4.10. Dyma'r amcan cadwraeth ar gyfer "Nodwedd 1" yr ACA, "Clogwyni môr â phlanhigion arfordiroedd yr Iwerydd a'r Baltig", a disgrifir y prif elfennau cydrannol mewn cromfachau ar ôl enw'r nodwedd: "(gan gynnwys llystyfiant clogwyn ac agen, glaswelltir morol a rhostir morol)". Fel y nododd Ms Lewis, mae'r amcan cadwraeth ar gyfer y "Nodwedd 1" hon yn cynnwys, i'r graddau y bo'n berthnasol, y datganiadau hyn (<u>ychwanegwyd pwyslais</u>):

"Y weledigaeth yw iddi [clogwyni môr â phlanhigion] fod mewn statws cadwraeth ffafriol, lle mae'r holl amodau canlynol wedi'u bodloni:

- Mae llystyfiant clogwyn ac agen, glaswelltir morol a rhostir morol yn digwydd ar draws y safle mewn ardaloedd priodol <u>a phennir eu graddau a'u dosbarthiad cylchfaoedd cymharol gan dopograffeg, amlygiad, pori a digwyddiadau stocastig naturiol (e.e. stormydd)</u>.
- Mae llystyfiant y clogwyni yn cynnwys planhigion brodorol fel troellig arfor (Spergularia rupicola), lafant y môr (Limonium britannicum, L procerum, L. binervosum) a Ffenigl y Môr (Crithmum maritimum).
- [...]
- Bydd poblogaethau cynaliadwy o'r planhigion sy'n ffurfio'r casgliad o blanhigion clogwyn prin môr yr Iwerydd yn bresennol, yn arbennig, chweinllys (Tephroseris integrifolia) Ynys Lawd, lafant y môr (Limonium

britannicum, L. procerum, L. binervosum), cen eurwallt (Teloschistes flavicans) a chen dolen blewynnog (Heterodermia leucomelos)."

483. Un o'r "dangosyddion perfformiad" perthnasol a nodwyd yn y ddogfen i gyflawni cyflwr "da" o glogwyni môr â phlanhigion yw: "*Ni fydd unrhyw weithgarwch anthropogenig a allai newid graddau'r nodweddion*" (gweler paragraff 4.10, prawf Ms Lewis [Atodiad A o Gyf: POE021]).

*Yr effeithiau ar gyfanrwydd yn yr achos hwn*

484. Nid yw'r dystiolaeth yn yr achos hwn yn galluogi'r penderfynwr i gael ei "argyhoeddi" na fyddai'r cynnig yn cael effaith andwyol ar gyfanrwydd yr ACA: *Waddenzee* yn [56]-[57].

485. Fel yr eglurodd Ms Lewis yn ei thystiolaeth, mae arolwg botanegol a gomisiynwyd gan yr Ymgeisydd wedi cadarnhau bod wyneb y clogwyn yn yr ardal a gynigir ar gyfer gosod ceblau yn frithwaith gwych o lystyfiant agen a silff, cymunedau theroffyt morwrol a glaswelltir morol (para. 5.1.2). Er bod y cynefin clogwyn môr â phlanhigion Atodiad I yn ei gyfanrwydd yn cynnwys tua 110.59 ha o'r ACA, mae'r llystyfiant agen a silff a'r cymunedau theroffyt morwrol yn rhan fechan iawn o'r ardal gyffredinol hon (para. 5.1.3). Ni ellir mesur union faint yr ardal fach hon yn hawdd ar wyneb y clogwyn fertigol, ond mae wedi'i chyfyngu i'r rhannau o wyneb y clogwyn lle mae natur y graig a lefelau amlygiad i'r tonnau yn caniatáu i briddoedd bas ffurfio (para. 5.1.4).

486. Er bod CNC yn derbyn, mewn termau syml, y byddai ardal yr effaith bosibl yn ganran fach o gynefin clogwyni'r môr â phlanhigion *yn ei gyfanrwydd*, mae'n gyfran lawer mwy sylweddol o'r ardal gyffredinol o lystyfiant agen a silff a theroffyt morol bregus a chyfyng sy'n ffurfio rhan fach o'r cynefin mwy hwnnw. Mae'n dilyn nad ellir diystyru posibilrwydd colli'r llystyfiant bregus hwn, *yn ei gyd-destun*, ar fyrder fel "*de minimis*" fel y cynigia'r Ymgeisydd. Mae'n debyg y daethpwyd i'r casgliad hwnnw heb roi sylw priodol i amcanion cadwraeth yr ACA.

487. Mae asesiad Ms Lewis na ellir diystyru'r effeithiau tebygol fel "*de minimis*" yn gyson â'r casgliad a wnaed yn Adroddiad NE ar "effeithiau ar raddfa fach" y dylid rhoi sylw i, *ymhlith pethau eraill,* "brinder" a "dosbarthiad" y nodwedd gymhwysol (gyda'r disgrifiad o'r nodwedd yma yn cynnwys, yn benodol, "llystyfiant clogwyn ac agen"). Rhaid hefyd ystyried "lleoliad yr ardaloedd yr effeithir arnynt o ran eu safle daearyddol yn y safle dynodedig ac o ran eu safle o'i gymharu â'r prosiect". Mae CNC o'r farn ei bod yn berthnasol iawn yn yr achos hwn fod y cynefin gwarchodedig wedi'i 'leoli' ar wyneb clogwyn fertigol lle mae amodau eithafol o'r môr yn cyflwyno heriau penodol ar gyfer arolygu gwaith. Mae'r heriau hyn yn ei gwneud yn anymarferol bod yn "argyhoeddedig" na fyddai'r cynnig yn cael unrhyw effaith andwyol ar gyfanrwydd yr ACA. Yn ddiamau, mae gan CNC gryn dipyn o "amheuaeth" ynghylch a fyddai effaith o'r fath yn cael ei hosgoi: *Waddenzee* yn [56]-[57].

488. I gefnogi ei farn y byddai'r effeithiau yn yr achos hwn yn "*de minimis*", cyfeiriodd Mr Campbell, yn ei brawf, at ddyfarniadau a wnaed am faint yr effeithiau andwyol ar gyfanrwydd mewn gwahanol benderfyniadau blaenorol. Mewn gwirionedd, nid oedd yr un o'r penderfyniadau blaenorol hynny'n cefnogi ei ymagwedd yn yr achos presennol.

489. *Sweetman v An Bord Pleanála* (para. 4.6): Cyfeiriodd Mr Campbell at y cyfeiriad ym marn yr Eiriolwr Cyffredinol yn yr achos hwn at drothwy "de minimis" ar gyfer asesu arwyddocâd, ond ni chrybwyllodd fod yr Eiriolwr Cyffredinol wedi mynd ymlaen wedyn i gymhwyso'r trothwy hwnnw ar ffeithiau'r achos hwnnw. Darperir y wybodaeth hon yn Adroddiad NE: gweler Atodiad E7 (t. 43). Mae hyn yn cadarnhau bod yr achos yn ymwneud â cholli 1.47 ha o balmant calchfaen a oedd yn gynefin â blaenoriaeth yn ymestyn i dros 270 ha o fewn y safle (h.y. colled o 0.5% o'r nodwedd gymhwysol a 0.006% o'r safle yn gyffredinol) (adran E.7.6). Roedd yr arolygydd annibynnol a benodwyd i ystyried y cynnig wedi dweud "na fyddai'r golled gymharol fechan hon, o ran maint, yn gyfystyr ag effaith andwyol ar gyfanrwydd yr ardal". Cyfeiriwyd y mater at y CJEU am ddyfarniad rhagarweiniol ar ba "feini prawf" y dylid eu cymhwyso wrth ystyried a fyddai cynnig yn cael effaith andwyol ar gyfanrwydd. Dyfarnodd y CJEU, pan ddaw asesiad priodol i'r casgliad y bydd cynllun neu brosiect yn arwain at "golli'n barhaol ac yn anadferadwy'r cyfan neu ran o fath o gynefin naturiol â blaenoriaeth <u>yr oedd ei gadwraeth yn amcan a oedd yn cyfiawnhau dynodi'r safle dan sylw fel SCI, dylid ystyried y bydd cynllun neu brosiect o'r fath yn cael effaith andwyol ar gyfanrwydd y safle hwnnw</u>": [46].

490. Yna mae Adroddiad NE yn cyfeirio at farn yr Eiriolwr Cyffredinol yn achos *Sweetman*, gan ddweud ei bod yn taflu "mwy o oleuni ar fater maint yr effaith dan sylw" (adran E.7.8). Roedd yr Eiriolwr Cyffredinol yn cyferbynnu cynllun neu brosiect a allai olygu "ychydig o golled amwynder dros dro yn unig y gellir ei dadwneud yn llwyr" (na fyddai'n effaith andwyol ar gyfanrwydd) â "dinistrio parhaol rhan o'r cynefin y dynodwyd y safle mewn perthynas â'i bodolaeth" a fyddai'n cael ei "gategoreiddio'n andwyol drwy ddiffiniad": [59]-[60]. Gan fod yr effaith bosibl yn yr achos presennol yn y categori olaf, yn gyfystyr â dinistr hirdymor tebygol rhywfaint o'r "llystyfiant clogwyn ac agen" y mae dynodiad yr ACA yn seiliedig arno, mae hefyd yn cael ei "chategoreiddio'n andwyol drwy ddiffiniad".

491. *North Norfolk Vanguard Offshore Wind Farm* (prawf Mr Campbell, para 4.16) a *Hornsea Project Three Offshore Wind Farm* (para. 4.20): Cyfeiriodd Mr Campbell at y prosiectau hyn fel enghreifftiau o achosion sy'n dangos "lefel lle pennwyd bod maint colled cynefin <u>dros dro</u> yn ddigon bach i beidio â chael AEOI" (para. 4.22). Nid yw'r prosiectau hyn yn debyg i'r achos presennol. Fel yr eglurodd Ms Lewis, roedd y ddau ohonynt yn ymwneud yn bennaf ag effeithiau ar fath gwahanol iawn o gynefinoedd (banciau tywod), sy'n adferadwy iawn am eu bod yn dibynnu ar rywogaethau symudol. At hynny, roedd yr effeithiau, fel y nodwyd, yn rhai "dros dro"; i'r graddau y gallai hefyd fod "colledion cynefin dros dro hirdymor", roedd y rhain yn wirioneddol bitw o'u cymharu, ac roedd hynny'n hysbys adeg yr asesiad (colli 0.002% o'r cynefin riffiau yn achos Norfolk; 0.002% o'r banc tywod yn achos Hornsea). Yn yr achos presennol, nid yw'n bosibl cael eich argyhoeddi y bydd unrhyw golled hirdymor y cynefin gwarchodedig yn *de minimis* yn yr un modd.

492. *Walney Offshore Wind Farm* (para. 4.23): Yn yr achos hwn, daeth Natural England i'r casgliad na fyddai unrhyw effaith andwyol ar gyfanrwydd, ond roedd hynny unwaith eto'n seiliedig ar effeithiau dros dro yn unig. Fel yr eglurodd Ms Lewis, buasai'r effeithiau hyn yn rhai tymor byr iawn gan eu bod yn ymwneud â gosod ceblau ar forfeydd heli a fflatiau llaid, sydd eto'n gynefinoedd gwahanol iawn i'r cynefin sydd dan sylw yn yr achos presennol.

493. Piblinell *Gilwern i Hafod-yr-Ynys* (para. 4.28): Yn groes i dystiolaeth Mr Campbell, mae'r dyfarniad a wnaed am faint yr effeithiau yn yr achos hwn yn cefnogi safbwynt CNC yn yr achos presennol. Roedd dau achos posibl o golli cynefin rhostir sych

Ewropeaidd dan sylw: ar y naill law, colli dros dro am flwyddyn neu ddwy 1 ha (0.28%) o'r rhostir sych Ewropeaidd (yr ystyriwyd ei fod yn *de minimis* ac felly na fyddai'n cael unrhyw effaith andwyol ar gyfanrwydd); ac ar y llaw arall, colli am 10 i 12 mlynedd 1.5 ha (0.43%) o rostir sych Ewropeaidd, nad ystyriwyd ei fod yn *de minimis* ac felly ystyrir ei bod yn cael effaith andwyol. Mae'r golled bosibl, hirdymor yn yr achos presennol yn llawer agosach at y senario olaf na'r cyntaf: mae'n debyg y byddai unrhyw lystyfiant agen a silff a'r cymunedau theroffyt morol a gollir yn yr achos presennol yn cael eu colli am o leiaf 40 mlynedd oherwydd yr amodau eithafol ar wyneb y clogwyn. Mae'r cynefin llystyfol hwn hefyd yn brinnach na'r rhostir sych a ystyrir yn achos Gilwern.

494. Mae CNC yn cytuno â Mr Campbell fod achos Gilwern "yn ei gwneud yn glir bod ffactorau sy'n cynnwys endemigrwydd ac unigrywiaeth leol cynefin, adferadwyedd, hyd yr effaith a'r hyder mewn lliniaru" yn berthnasol wrth asesu maint yr effeithiau (para. 4.29). Fodd bynnag, ni all ystyriaeth briodol o'r ffactorau hyn yn yr achos presennol ond cyfeirio'n synhwyrol at un casgliad: na ellir diystyru effaith andwyol ar gyfanrwydd.

495. *Henborth* (para. 4.30): Roedd y penderfyniad diweddar hwn gan Gyngor Sir Ynys Môn yn ymwneud â chreu llwybr arwyneb caled "newydd" 1m o led a chanllaw ar y clogwyn arfordirol o fewn ACA/AGA Arfordir Ynys Gybi. Mewn barn sgrinio EIA, daeth y Cyngor i'r casgliad na fyddai'r cynnig yn arwain at "effeithiau sylweddol ar ecoleg fel bod angen EIA". Daeth y Cyngor i'r casgliad hefyd, yn seiliedig ar astudiaeth ddesg ecolegol a ddarparwyd gan yr ymgeisydd, na fyddai'r gwaith yn debygol o gael effaith sylweddol ar yr ACA/AGA. Fodd bynnag, fel y daeth yn amlwg yn ystod y sesiwn bord gron, nid oedd y cynnig hwn ar gyfer llwybr "newydd" yn y gwir ystyr, ond ar gyfer adfer llwybr a oedd wedi bodoli ers degawdau ac a oedd wedi dadfeilio. Arwyneb presennol y llwybr oedd pridd cywasgedig ac nid oedd yn cynnal unrhyw lystyfiant o ddiddordeb cadwraeth. Gan nad oedd amgylchiadau'r achos hwn yn debyg o gwbl i rai'r presennol, nid oedd cyfeiriad Mr Campbell ato yn addysgiadol.

496. I grynhoi, felly, mae CNC yn honni y dylid ystyried bod posibilrwydd colli rhywfaint o'r cynefin clogwyni môr Atodiad 1 a warchodir yn "sylweddol" yn nhermau EIA ac na ellir diystyru effaith andwyol ar gyfanrwydd ACA Arfordir Ynys Gybi. Y rhesymau am hyn yw:

(1) Mae un o'r tair cymuned blanhigion a gofnodwyd ar y clogwyn – y gymuned agen a silff – wedi'i chyfyngu i arfordiroedd deheuol a gorllewinol y Deyrnas Unedig.

(2) Mae gan wyneb y clogwyn sydd dan sylw yn yr achos presennol orchudd arbennig o dda o lystyfiant agen a silff (a chymunedau theroffyt morwrol), ond dim ond cyfran fechan o'r 'cynefin clogwyn môr â phlanhigion' cyfan o fewn yr ACA yw hwn, gan ei wneud yn nwydd gwerthfawr o fewn y cynefin gwarchodedig ehangach.

(3) Mae posibilrwydd colli'r llystyfiant agen a silff a'r cymunedau theroffyt morwrol yn hirdymor, a hynny'n fwy na 40 mlynedd yn ôl pob tebyg, gydag amser adfer araf yn debygol (ar y gorau) y tu hwnt i hyn os collir y priddoedd ar silffoedd agored wyneb y clogwyn.

(4) Mae perygl sylweddol y daw'r priddoedd yn fwy agored os bydd cysgod a achosir gan y J-tiwbiau yn achosi i'r llystyfiant sy'n diogelu'r pridd ar hyn o bryd gael ei golli.

(5) O ystyried y risgiau hyn, mae'n amhosibl cael eich argyhoeddi (yn wir, mae'n amhosibl cael unrhyw hyder hyd yn oed) y byddai unrhyw gynefin agen a silff neu

gymunedau theroffyt morwrol a gollwyd o ganlyniad i'r datblygiad arfaethedig yn adfer eu hunain ar ôl datgomisiynu.

(6) Y realiti yw nad yw tebygolrwydd unrhyw adferiad cynefin felly, na chyflymder unrhyw adferiad felly, yn hysbys ar hyn o bryd. Mae'n fater sy'n arwain at gryn amheuaeth.

497. Dyma gyngor CNC i'r sawl sy’n gwneud penderfyniad am fater effaith andwyol ar gyfanrwydd mewn perthynas â 'Mater 1'. Dylid rhoi "pwys sylweddol" i'r cyngor hwn, gan nad oes rheswm cryf dros beidio â gwneud hynny: *Hart DC* yn [49]. Yn sicr, nid oes unrhyw resymau "argyhoeddiadol ac eithriadol" yn yr achos hwn dros beidio â dilyn cyngor arbenigol CNC ar y mater hwn: gweler Atodiad 3 i TAN 5 yn [19]. Os yw'r sawl sy'n penderfynu yn derbyn y cyngor hwn, mae'n dilyn bod rheoliad 64 o'r Rheoliadau Cynefinoedd yn cael ei gynnwys wedyn, a bod angen wedyn i'r awdurdod cymwys gael ei fodloni, am nad oes atebion amgen, bod yn rhaid i'r cynllun neu'r prosiect gael ei gyflawni am resymau hollbwysig o fudd cyhoeddus blaenaf.

498. Mewn cydnabyddiaeth amlwg, ddistaw y caiff y penderfynwr ystyried cynnwys rheoliad 64 y Rheoliadau Cynefinoedd yn yr achos hwn yn rhinwedd Mater 1, mae'r Ymgeisydd wedi cynnig 'Cynllun Gwella Cynefin Amlinellol' (Ionawr 2021). Mae'r ddogfen hon yn amlinellu cynigion ar gyfer "gwella" ardal o gynefin clogwyn ger yr ACA yn Abraham's Bosom. Cytunir ar y cynigion yn y ddogfen hon rhwng yr Ymgeisydd a CNC. Fodd bynnag, mae'n bwysig bod yn glir, ar ôl iddo ddod i'r casgliad y byddai effaith andwyol ar gyfanrwydd yr ACA, nad yw CNC o'r farn bod y ddogfen hon yn nodi mesurau "lliniaru" ychwanegol, fel y byddai'n well gan yr Ymgeisydd eu nodweddu (gweler paragraff 1 y ddogfen), ond mesurau digolledu yn unol â rheoliad 68 y Rheoliadau Cynefinoedd. Mae CNC yn cadarnhau ei fod o'r farn bod y mesurau digolledu a amlinellir yn y ddogfen hon yn "angenrheidiol" at ddibenion rheoliad 68.

<u>Mater 2: Mamaliaid môr</u>

499. Mae gan y cynnig y potensial i gael effaith andwyol ar rywogaethau mamaliaid morol a restrir yn Atodiad II ac Atodiad IV y Gyfarwyddeb Cynefinoedd. Byddai'r cynnig o fewn ACA Forol Gogledd Ynys Môn sydd wedi'i dynodi ar gyfer llamhidyddion harbwr a gallai hefyd effeithio ar rywogaethau eraill o famaliaid morol, gan gynnwys y rhai yr arddangoswyd bod ganddynt gysylltedd ag ACA eraill. Roedd dau fater penodol yn peri pryder sylweddol i CNC yn yr ymchwiliad: (i) y risg y bydd mamaliaid morol yn gwrthdaro â'r datblygiad arfaethedig ac yn cael eu hanafu, a hynny o bosibl yn angheuol; a (ii) sŵn tanddwr o'r datblygiad yn achosi aflonyddwch i famaliaid morol.

*Risg gwrthdrawiad*

500. Ar ddechrau'r ymchwiliad, cafodd CNC ei galonogi gan y cynnydd sy'n cael ei wneud gan yr Ymgeisydd o ran gwella'r Cynllun Lliniaru a Monitro Amgylcheddol amlinellol drafft ("OEMMP") i ymgorffori cyngor CNC ar reoli addasol. Er nad rheoli addasol mo hoff ddull CNC o fonitro a rheoli effeithiau amgylcheddol, mae'n derbyn y gall, mewn egwyddor, fod yn briodol wrth ddelio â thechnoleg arbrofol sy'n golygu ansicrwydd na ellir ei osgoi. Mae'n amlwg bod technoleg o'r fath yn cael ei chynnig i'w defnyddio yn yr achos hwn.

501. Mae CNC yn falch o nodi bod cynnydd pellach wedi'i wneud o ran drafftio'r OEMMP[867] yn ystod yr ymchwiliad. Mewn nodyn dyddiedig 1 Chwefror 2021, nododd CNC ei brif bryderon sy'n weddill mewn perthynas â'r OEMMP, y mae'r Ymgeisydd wedi ymateb yn gadarnhaol iddynt. O ran risg gwrthdrawiadau, yn arbennig:

(1) Mae cangen gynghori CNC yn croesawu parodrwydd yr Ymgeisydd i dderbyn amod ar y drwydded forol ddrafft sy'n gofyn am gyflwyno a chymeradwyo Cynllun Lliniaru a Monitro Amgylcheddol Manwl ("DEMMP") sy'n cyd-fynd â gofynion yr OEMMP.

(2) Mae CNC (Cynghori) hefyd yn croesawu cytundeb yr Ymgeisydd i ymgorffori ei eiriad drafft ar gyfer yr amod arfaethedig yn nrafft terfynol yr OEMMP, yn unol â'r testun a gynigiwyd gan yr Ymgeisydd am y cyflwr yn ei lythyr at CNC dyddiedig 2 Rhagfyr 2020: gweler Atodiad 4 i'r drafft diweddaraf o'r OEMMP.

(3) Mae CNC hefyd yn nodi ac yn croesawu cadarnhad yr Ymgeisydd yn y drafft terfynol o'r OEMMP y bydd y EMMP (gan gynnwys ei ddarpariaethau rheoli addasol) yn ei gymhwyso i bob cam o'r cynnig, gan gynnwys y cam cyntaf: gweler para. 7.

(4) Mae CNC yn croesawu ymhellach gadarnhad yr Ymgeisydd yn yr OEMMP y bydd yn cadw meddwl agored wrth ystyried technolegau monitro a lliniaru (para. 149) a bod y testun sy'n awgrymu'r gwrthwyneb mewn drafft blaenorol o'r OEMMP (yn benodol, mewn perthynas â Thabl 4.1) wedi'i ddileu.

502. Mae'n bwysig bod yn glir, er gwaethaf y gwelliannau sylweddol hyn yn yr OEMMP, nad yw CNC wedi “cytuno” i bob datganiad yn nrafft terfynol y ddogfen. Yn benodol, mae'r Ymgeisydd yn mynegi hyder yn y drafft y bydd modelu pellach, ar ôl cydsynio, yn dangos y bydd mamaliaid morol yn osgoi'r dyfeisiau llanw ar gyfraddau "llawer uwch" nag a aseswyd yn y Datganiad Amgylcheddol (gweler para. 77). Ni fyddai CNC yn gwneud y datganiad hwnnw, yn seiliedig ar y dystiolaeth sydd ar gael ar hyn o bryd. Fodd bynnag, nid oes angen i CNC gytuno i ddatganiadau o'r fath ar hyn o bryd. Y cwestiwn perthnasol i CNC mewn perthynas â'r effeithiau posibl ar nodweddion mamaliaid morol ACA Cymru (gan gynnwys ACA Forol Gogledd Ynys Môn) yw ystyried a fyddai'r cynnig yn cael effaith andwyol ar gyfanrwydd yr ACA oherwydd y risg y bydd mamaliaid morol yn gwrthdaro â'r datblygiad. O ystyried bod yr Ymgeisydd wedi derbyn cynigion CNC yn adeiladol ar gyfer cryfhau'r mecanweithiau rheoli addasol yn yr OEMMP, gall CNC gynghori'r sawl sy'n gwneud penderfyniad na fyddai unrhyw effaith andwyol o'r fath.

503. I'r graddau y byddai'n well gan CNC petai'r OEMMP yn cynnwys rhagor o fanylion am rai agweddau, mae'n derbyn y gellir datblygu'r materion hyn ymhellach os a phryd y trafodir yr EMMP manwl maes o law.

504. Dylai CNC hefyd fod yn glir, cyn belled ag y mae monitro effaith bosibl y cynnig ar adar dan sylw (gan gynnwys risg adar sy'n plymio yn gwrthdaro â'r datblygiad), fod CNC o'r farn bod y sefyllfa wedi'i nodi'n ddigonol at ddibenion yr OEMMP ym mharagraff 100 y drafft terfynol: h.y. yr egwyddor y dylai'r gwaith monitro gwrthdrawiadau allu gwahaniaethu rhwng mamaliaid morol ac anifeiliaid eraill, gan

[867] Cyf: Dogfen yr Ymchwiliad – 100 [MMC447(2)]

gynnwys adar). Nid yw CNC yn disgwyl i'r effaith bosibl ar adar gael ei monitro yn yr un modd yn union â'r effaith ar famaliaid morol. Yn hytrach, dylai graddau'r monitro fod yn briodol (ac yn gymesur) i raddau'r amddiffyniad gan y gyfraith a pholisi. Byddai CNC yn disgwyl i'r Grŵp Cynghori a nodwyd yn yr OEMMP gytuno ar faint y monitro gofynnol (ar gyfer pob rhywogaeth).

*Sŵn tanddwr*

505. Gwnaed cynnydd ar y mater hwn yn ystod yr wythnos cyn cau'r cyflwyniadau.

506. Roedd gan CNC bryderon am y modelu sŵn tanddwr cyfyngedig a gyflwynwyd yn Adroddiad Modelu Sŵn Tanddwr yr Ymgeisydd.[868] Roedd yr adroddiad hwn yn cynnwys lleiniau sŵn a oedd fel petaent yn dangos ystodau o aflonyddwch sŵn hyd at 10 i 20km o ffin yr MDZ. Fodd bynnag, gan nad oedd yr adroddiad yn nodi ar ba dystiolaeth y seiliwyd yr ystodau hynni, ni allai CNC ddyfarnu'n wybodus ba mor bell y byddai aflonyddwch sŵn tanddwr o araeau wedi'u modelu yn lledu. Fe wnaeth CNC wyntyllu'r pryderon hyn yn y sesiwn bord gron ar famaliaid morol ar 3 Rhagfyr 2020.

507. Mewn ymgais i ddelio â phryderon CNC, darparodd yr Ymgeisydd ddogfen newydd: nodyn o'r enw 'Potensial i  sŵn tanddwr o dyrbinau gweithredol darfu'n sylweddol ar famaliaid morol' [869], 6 Ionawr 2021. Mae'r nodyn hwn yn defnyddio clustogfa 1.3km o amgylch yr MDZ i asesu'r ardal y mae'n debygol y bydd aflonyddwch sŵn yn effeithio arni, sef dull a gyflwynwyd gyntaf ar lafar am y tro cyntaf gan yr Ymgeisydd yn y sesiwn bord gron honno. Fodd bynnag, mae'r glustogfa 1.3km wedi deillio o sŵn wedi'i fodelu ar gyfer un tyrbin i gefnogi achos yr Ymgeisydd na fyddai unrhyw effaith andwyol ar gyfanrwydd safle Ewropeaidd *o'r holl aráe*. Mae'r dull hwn yn gwrthdaro â modelu sŵn blaenorol yr Ymgeisydd a oedd yn dangos, drwy gyfeirio at y lleiniau sŵn, fod "lefelau sŵn cyffredinol yn uwch yn gyffredinol ar gyfer y tyrbinau bach mewn 620 o leoliadau nag y maent ar gyfer tyrbinau mawr mewn 120 o leoliadau" (para. 4.2.3).[870]

508. Mae nodyn mwy diweddar yr Ymgeisydd, dyddiedig 6 Ionawr 2021, yn nodi (t. 3):

> "Cydnabyddir y bydd y sŵn tanddwr o ddyfeisiau llanw lluosog yn rhyngweithio ac mae'r asesiadau uchod yn or-syml ond yn rhagofalus yn seiliedig ar y modelu ar gyfer un ddyfais mewn gwahanol ardaloedd. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi nad yw sŵn tanddwr o sawl ffynhonnell yn ychwanegyn ar gyfer pob dyfais lanw mewn aráe."

509. Er bod CNC yn derbyn efallai na fydd sŵn o ffynonellau lluosog yn ychwanegyn ar gyfer pob dyfais llanw, nid yw hyn yn golygu nad oes cynnydd mewn lefel sain wrth luosogi o un ddyfais i gannoedd ohonynt. Felly, mae CNC yn honni nad yw'r gwaith modelu a wnaed gan yr Ymgeisydd hyd yma, *heb fwy*, yn galluogi'r casgliad na fyddai sŵn tanddwr yn cael effaith andwyol ar gyfanrwydd ACA Forol Gogledd Môn.

510. *Fodd bynnag*, yn yr wythnos cyn y cyflwyniadau cloi, diweddarodd yr Ymgeisydd yr OEMMP mewn perthynas â sŵn tanddwr. Mae'r Ymgeisydd wedi cynnwys yr ymrwymiadau i fonitro a lliniaru sŵn tanddwr yr oedd CNC wedi'i awgrymu, gan ymgorffori'r testun a awgrymodd CNC mewn diwygiad i baragraff 27 yr OEMMP drafft, sydd bellach yn darllen fel a ganlyn:

[868] Cyf: MDZ/A28.10 [MMC139]
[869] Cyf: Dogfen yr Ymchwiliad - 045 [MMC577]
[870] Cyf: MDZ/A28.10

"27. Cyn ei osod, bydd y cynllun aráe yn ystyried y potensial am unrhyw effeithiau rhwystr o ganlyniad i sŵn tanddwr o dyrbinau llanw gweithredol a defnyddio unrhyw ADD, yn ogystal â photensial unrhyw effeithiau rhwystro ffisegol. Bydd hyn hefyd yn cael ei ddatblygu yn rhan o'r EMMP. Bydd sŵn tanddwr o dyrbinau gweithredol ac ysgogi ADD yn cael ei fodelu, ei fonitro a'i reoli. Bydd hyn yn cynnwys (i) modelu sŵn tanddwr cyn gosod i sicrhau na fyddai lefelau sŵn a ragwelir yn arwain at aflonyddwch sylweddol nac effaith andwyol ar gyfanrwydd y safle mewn perthynas ag amcanion cadwraeth ACA Forol Gogledd Môn a ddynodwyd ar gyfer llamhidyddion harbwr; (ii) monitro a mesur sŵn tanddwr er mwyn sicrhau nad yw lefelau sŵn yn fwy na'r lefelau a ragwelir; a (iii) dulliau lliniaru os oes potensial y gallai sŵn tanddwr arwain at aflonyddwch sylweddol."

511. Mae CNC yn fodlon bod yr ymrwymiadau pellach hyn i reoli addasol yn ymateb priodol i'w bryderon ynghylch digonolrwydd y gwaith asesu a wnaed hyd yma mewn perthynas â sŵn tanddwr. O ganlyniad i'r ymrwymiadau hyn, mae CNC yn cynghori'r sawl sy'n gwneud penderfyniad y gellir diystyru effaith andwyol ar gyfanrwydd o ganlyniad i sŵn tanddwr ar hyn o bryd.

Mater 3: Effeithiau tirwedd, morlun a gweledol ar AHNE Ynys Môn

512. Fel y nodir yng nghyflwyniadau agoriadol CNC, daw Datganiad Amgylcheddol yr Ymgeisydd ("ES") i'r casgliad y byddai effeithiau sylweddol ar olygfeydd o AHNE Ynys Môn, ar hyd rhan o'r morlin rhwng Ynys Lawd a phentir Penrhyn Mawr. Byddai'r cynnig i ddefnyddio dyfeisiau sy'n dod i'r wyneb mewn niferoedd sylweddol dros ardal sylweddol yn peryglu'n sylweddol fwynhad y cyhoedd o rinweddau arbennig yr AHNE.

513. Mae'r rhan hon o'r morlin yn cynnwys ardaloedd a aseswyd gan system genedlaethol LANDMAP yn rhai o werth 'Eithriadol' ac 'Uchel' am eu hagweddau gweledol a synhwyraidd. Mae goleudy Ynys Lawd, Tŵr Elin a chanolfan ymwelwyr yr RSPB yn gyrchfannau poblogaidd i ymwelwyr mewn car. Mae Llwybr Arfordirol Ynys Môn, yr hawliau tramwy cyhoeddus, y tir mynediad agored, y tirnodau a'r profiad arfordirol yn gyffredinol yn y lleoliad hwn yn ei wneud yn ardal boblogaidd i ymwelwyr, cerddwyr a gwylwyr adar yn yr AHNE.

514. Byddai'r cynnig hefyd yn cael effaith andwyol sylweddol ar leoliad morlun AHNE Ynys Môn, yn groes i: Bolisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 10, Rhagfyr 2018); Polisi AMG1 y Cydgynllun Datblygu Lleol (Ynys Môn a Gwynedd); Cynllun Rheoli AHNE Ynys Môn 2015-2020; a chanllawiau rheoli LANDMAP.

515. Mae CNC wedi ceisio ymgysylltu'n adeiladol â'r Ymgeisydd ar welliannau posibl i'r cynllun presennol er mwyn mynd i'r afael yn well â sensitifrwydd yr AHNE a sicrhau cydbwysedd mwy cynaliadwy â gofynion cadwraeth a gwella'r AHNE. Er gwaethaf y ffaith bod rhai gwelliannau wedi'u sicrhau o ganlyniad i'r ymgysylltu hwn, mae CNC yn pryderu o hyd ynghylch maint yr effeithiau a fyddai'n digwydd.

516. Yn ystod y sesiwn bord gron ar effeithiau morlun, tirwedd a gweledol, nododd CNC ei dri phrif bryder sy'n weddill mewn perthynas â'r materion hyn.

517. Yn gyntaf, mae CNC wedi awgrymu ymestyn yr 'Ardal Gyfyngedig – Gogledd', i leihau effeithiau morlun, tirwedd a gweledol ar Ynys Lawd ac AHNE Ynys Môn. Yr estyniad yw'r hyn a nodir yn ffigur 5 o Brawf Tystiolaeth Mr Richard Sumner ar ran CNC (tudalen 71). Byddai'n estyniad trionglog i'r ardal gyfyngedig, gan fynd â'r dyfeisiau amlwg sy'n dod i'r wyneb ymhellach i ffwrdd o'r golygfeydd ysblennydd a

geir o Ynys Lawd a'r cyffiniau. Mater 11 yw hwn yn y Datganiad o Dir Cyffredin – CNC – Effaith Morlun, Tirwedd a Gweledol ("SLVIA SoCG" Cyf: MDZ/L5).

518. Fel yr eglurodd Ms Olwen Maidment (ar gyfer CNC) yn ystod yr ymchwiliad, mae'r ardal drionglog yn arbennig o sensitif, a hithau oddi ar Ynys Lawd, a'r golygfeydd hynod boblogaidd sydd ar gael yn yr ynys a'r cyffiniau a'i goleudy. Mae morluniau'n elfen hanfodol o leoliad gweledol a synhwyraidd yr AHNE. Yn unol â hynny, mae datblygiad ar y môr yn y lleoliad hynod sensitif hwn yn effeithio'n arbennig o bwysig ar brofiad y cyhoedd o gymeriad, rhinweddau arbennig a golygfeydd yr AHNE.

519. Cynigiodd yr Ymgeisydd ddau ymateb cyffredinol i'r mater hwn yn yr ymchwiliad. Y cyntaf o'r rhain oedd dweud y byddai effeithiau andwyol sylweddol i'r AHNE yn cael eu hachosi p'un a wneir yr estyniad trionglog i'r ardal gyfyngedig ai peidio. Nid oedd hwn yn ateb i'r pwynt. Mae angen gwneud dyfarniad o hyd ynghylch graddau'r effeithiau andwyol sylweddol ar yr AHNE. Nid oes un lefel unffurf o effeithiau andwyol sylweddol. Mae graddau unrhyw effeithiau andwyol mewn unrhyw amgylchiadau penodol yn gofyn am asesiad o bwysigrwydd y dirwedd a'r morlun dan sylw, a sut y bydd yr hyn a gynigir yn effeithio ar y materion hynny.

520. Mae'r angen i ymgymryd â'r dull mwy cynnil hwn yn gyson ag achos yr Ymgeisydd ei hun, ac yn benodol ei ddadl y byddai manteision y datblygiad arfaethedig yn drech na'r niwed a achosir. Mae'r ymarfer cydbwyso angenrheidiol hwn yn ei gwneud yn ofynnol i niweidiau a manteision gael eu pwyso a'u mesur yn erbyn ei gilydd. O ystyried y bydd graddau'r niweidiau hyn (yn yr achos hwn, yr effeithiau andwyol sylweddol ar yr AHNE) yn sicr o fod yn waeth heb yr estyniad trionglog arfaethedig i'r ardal gyfyngedig, byddai'n rhaid i fanteision honedig y cynllun fod yn fwy i'w gorbwyso.

521. Ail ymateb cyffredinol yr Ymgeisydd i CNC yn y sesiwn bord gron oedd dweud bod yr ardal drionglog yn ffynhonnell gyfoethog o ynni llanw ar gyfer y cynllun. Yn amlwg ohono'i hun, nid oedd yr ymateb hwnnw'n ceisio gwadu achos CNC fod yr ardal drionglog yn haeddu cael ei gwarchod yn ychwanegol rhag y datblygiad arfaethedig. Yn wir, ni osododd yr Ymgeisydd her ystyrlon i dystiolaeth CNC ar y pwynt hwn. Yn hytrach, aeth yr ymateb i'r cydbwysedd cynllunio cyffredinol, gyda'r Ymgeisydd yn honni bod manteision y cynllun yn gorbwyso'r achos dros ddiogelu'r ardal drionglog. Nid yw'r ffordd o sicrhau'r cydbwysedd cynllunio terfynol rhwng yr holl ystyriaethau sy'n cystadlu â'i gilydd yn ddyfarniad i'w wneud gan CNC fel ymgynghorai cynghorol. Digon yw nodi y byddai CNC, pan fydd y cydbwysedd cynllunio terfynol hwnnw'n cael ei daro, yn cynghori'r sawl sy'n penderfynu i fod yn arbennig o ymwybodol o'r effaith weledol ar AHNE Ynys Môn o ganiatáu i'r ardal drionglog gael ei datblygu a'r angen (ym marn CNC) i roi mwy o bwys negyddol, yn y cydbwysedd cynllunio, i ddatblygu'r ardal benodol honno, yn groes i bolisi AMG1 y Cydgynllun Datblygu Lleol.

522. <u>Yn ail</u>, mae CNC yn dal yn anfodlon â'r diffyg manylder ynghylch yr hyn sy'n gyfystyr â dyfais sy'n dod i'r wyneb sy'n amlwg yn weledol. Cofir bod yr Ymgeisydd yn cynnig na fydd unrhyw ddyfeisiau o'r fath yn yr 'Ardal Gyfyngedig – Gogledd'. Dyma fater 16 yn SLVIA SoCG. Bydd eglurder ychwanegol am y dyfeisiau yn yr ardal ogleddol yn sicrhau mwy o allu i ragweld effeithiau morlun a thirwedd yn y dyfodol. Er symlrwydd a sicrwydd, mae CNC wedi awgrymu y dylid diffinio'r rhain yn syml fel dyfeisiau llanw suddedig: gweler ffigur 4 prawf Mr Sumner.

523. <u>Yn drydydd</u>, mae problemau o hyd o ran mesurau integreiddio a lliniaru ar gyfer y ceblau golwg tir, os na ellir dibynnu ar y cynnig o ddrilio cyfeiriadol llorweddol. Dyma

fater 14 SLVIA SoCG. Mae CNC yn ceisio sicrhau bod gwaith adfer ecolegol ac integreiddio tirwedd yn cael ei gynllunio i ystyried yr ACA ac amwynder gweledol yr AHNE. Nid yw CNC o'r farn y dangoswyd, yn y mesurau lliniaru a gynigiwyd hyd yma, y bydd yr ACA a'r AHNE yn cael eu hystyried wrth lunio'r mesurau hynny. Gall hyn olygu na ellir dibynnu ar y mesurau hynny.

524. Roedd CNC yn disgwyl i'r pryder olaf hwn gael sylw yn y fersiwn ddiweddaraf o amod drafft 7 y caniatâd cynllunio tybiedig,[871] h.y. yr amod sy'n gofyn am gyflwyno a chymeradwyo manylion gwaith tirlunio caled a meddal. Mae'r manylion hyn bellach i gynnwys "(c) Manylion mesurau gwella bioamrywiaeth ar dir uwchlaw wyneb clogwyn Abraham's Bosom", ond nid oes gofyniad clir am fesurau digonol ar gyfer gwarchod a gwella *tirwedd* yn rhan o'r manylion hynny. Cynigia CNC y dylid diwygio amod drafft 7(c) i ddarllen:

> "(c) Manylion mesurau gwella bioamrywiaeth ar dir uwchlaw wyneb clogwyn Abraham's Bosom, gan gynnwys mesurau ar gyfer gwarchod a gwella tirwedd"

525. Mae CNC yn croesawu cytundeb yr Ymgeisydd i ddarparu cyfraniad ariannol drwy'r cytundeb adran 106, i sicrhau iawndal am yr effeithiau andwyol sylweddol a achosir, ni waeth pa amodau a chamau lliniaru a roir ar waith. Fodd bynnag, byddai'n haeru y dylai'r cynigion fod wedi'u haddasu ymhellach gan estyniad trionglog o'r '*Ardal Gyfyngedig – Gogledd*', i gwtogi ar y niwed a achosir i olygfeydd o'r AHNE.

526. Dyma gyflwyniadau cloi cangen gynghori CNC yn yr ymchwiliad hwn.

**Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru**

527. Am fod NWWT wedi dewis, fel Prif Barti, i fwrw ymlaen drwy sylwadau ysgrifenedig, darperir ei achos o fewn Datganiad Achos NWWT (Cyf: MDZ/N11). Ymatebodd yr Ymgeisydd i Ddatganiad Achos NWWT cyn agor yr ymchwiliad.[872]

**RSPB**

*Cyflwyniad*

528. Cyflwynir y Cyflwyniadau Cloi hyn gan Gymdeithas Frenhinol Cymru er Gwarchod Adar ("yr RSPB").

529. Drwy'r cais hwn, mae Menter Môn yn gofyn am Orchymyn sy'n darparu, i bob pwrpas, y "fframwaith caniataol"[873] ar gyfer gorsaf gynhyrchu ynni llanw ar y môr gyda chapasiti allbwn gros hyd at 240 MW, a ddarperir gan hyd at 620 o ddyfeisiau llanw ("y Prosiect").[874]

[871] Cyf: Dogfen yr Ymchwiliad – 067 [MMC289(2)]
[872] Mae ymateb yr Ymgeisydd i'r Datganiad Achos yng Nhyf: MDZ/N15
[873] Paragraff 17 o nodyn yr Ymgeisydd ar y Gorchymyn drafft, y rheolaethau y mae'n eu darparu a'i berthynas â chyfundrefnau cydsynio eraill (Cyf: RPE008)
[874] Y senario gwaethaf a aseswyd yn yr ES (gweler paragraff 60 o Gyf: MDZ/A25.4)

530. Fel y nodwyd yn y Sylwadau Agor, mae'r RSPB yn llwyr gefnogi ac yn cydnabod yr angen am gynhyrchu mwy o ynni adnewyddadwy yn rhan o ystod o fesurau i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd.[875] Fel y cydnabu Dr McCluskie mewn croesholiad,[876] mae newid yn yr hinsawdd yn fygythiad gwirioneddol, difrifol i rywogaethau adar, ac mae gan ynni adnewyddadwy rôl bwysig i'w chwarae wrth fynd i'r afael ag effaith newid yn yr hinsawdd.

531. Fodd bynnag, mae'r RSPB yn gwrthwynebu maint y Prosiect y ceisir caniatâd ar ei gyfer drwy'r cais hwn, o ystyried:

(i) Ei bod yn ddyddiau cynnar o hyd ar dechnoleg ynni.

(ii) Y diffyg data empirig cyfatebol i hysbysu a/neu ddilysu'r asesiad o ryngweithio tebygol ag adar sy'n plymio, ac o'r effeithiau arnynt; gydag asesiad o berygl gwrthdrawiadau â dyfeisiau cynhyrchu llanw ei hun yn 'bwnc' sy'n dal yn ei ddyddiau cynnar.[877]

(iii) Maint effeithiau posibl ar boblogaethau adar osodiad 240MW [878] fel y'u haseswyd ac yr adroddwyd amdanynt yn yr ES, yn seiliedig ar y gwaith modelu a wnaed hyd yma.[879] Er mwyn osgoi amheuaeth, mae'r RSPB yn cydnabod ac yn derbyn nad yw'r effeithiau sylweddol hynny a gofnodwyd yn ystyried y camau lliniaru a gynigir drwy gyflwyno graddol a'r EMMP.

(iv) Y diffyg manylion ynghylch yr hyn y bwriedir ei ddarparu mewn unrhyw gyfnod penodol; ansicrwydd, annigonolrwydd ac effeithiolrwydd amheus yr hyn a gynigir drwy fonitro, rheoli a/neu liniaru naill ai yn ystod y cam cyntaf dangosol neu wedi hynny; a'r graddau y mae materion o'r fath yn cael eu gadael drosodd i'w penderfynu'n ddiweddarach drwy drefn gydsynio ar wahân.

532. O ystyried yr ansicrwydd sy'n gysylltiedig â'r cynllun prawf hwn, cred yr RSPB o hyd fod maint y datblygiad y ceisir awdurdodiad ar ei gyfer yn rhy fawr, a bod yr effeithiau posibl yn rhy sylweddol. Ystyria'r RSPB y byddai'n fwy priodol i gynllun llai gael ei gyflwyno yn y lle cyntaf er mwyn i'r dulliau technoleg, monitro a lliniaru gael eu hasesu'n fwy trylwyr, ac er mwyn i'w heffeithiolrwydd gael ei adolygu, cyn gofyn am ganiatâd i ddefnyddio hyd at 620 o ddyfeisiau.

533. Yng nghyflwyniad yr RSPB, gellir o leiaf cwestiynu i ba raddau – os o gwbl – y gall yr Arolygydd, ac wedyn Gweinidogion Cymru, hyderu y byddai'r prosiect hwn yn mynd y tu hwnt i'w gam cyntaf dangosol (gan dybio y gellir gosod y cam hwnnw ei hun).

534. At hynny, fel yr amlinellwyd yn y Sylwadau Agor, mae'r RSPB yn cwestiynu a all yr Arolygydd, ac wedyn Gweinidogion Cymru, ddod i farn wybodus iawn ynghylch a fyddai'r manteision cyhoeddus sy'n gysylltiedig â'r datblygiad arfaethedig yn drech na'r effeithiau andwyol neu niwed arall sy'n gysylltiedig â'r Prosiect, o ystyried yr

[875] Cyf: Dogfen yr Ymchwiliad – 008, para. 9

[876] 3 Chwefror 2021, a thrwy brawf wedi'i ddiweddaru (Cyf: POE007.1) ym mharagraff 3.3

[877] Nodyn Cyfarwyddyd SNH '*Asesu risg gwrthdrawiadau rhwng tyrbinau tanddwr a bywyd gwyllt morol*' ("y Canllawiau SNH") (Cyf: MDZ / F19)

[878] A gosodiad 40MW

[879] Mae gan yr RSPB bryderon hefyd ynglŷn â sut mae rhywfaint o'r gwaith asesu wedi'i wneud – a drafodir isod ym mharagraffau 34-8.

ansicrwydd cynhenid ynghylch effeithiau ar ecoleg ac a ellir lliniaru'r effeithiau hynny'n foddhaol, ar sail y dystiolaeth sydd gerbron yr ymchwiliad ar hyn o bryd.

*Y datblygiad arfaethedig: lleoliad, a rhywogaethau sy'n peri pryder*

535. Mae'r parth arddangos arfaethedig, a'r ardal gyfagos, o bwysigrwydd Ewropeaidd a chenedlaethol ar gyfer gwarchod adar:[880]

(i) **AGA Glannau Ynys Gybi**: a ddynodwyd yn wreiddiol ar gyfer 22 pâr bridio o frain coesgoch a 48 o frain coesgoch unigol yn gaeafu.

(ii) **ACA Glannau Ynys Gybi**: a ddynodwyd ar gyfer ei chynefinoedd arfordirol a rhostir Atodiad 1.

(iii) **AGA Glannau Aberdaron ac Ynys Enlli**: a ddynodwyd yn wreiddiol ar gyfer ei phoblogaethau bridio adar drycin Manaw.

(iv) **AGA Sgomer, Sgogwm a Moroedd Penfro**: a ddynodwyd yn wreiddiol ar gyfer ei ddiddordeb adaryddiaeth gan gynnwys adar môr bridio. Mae'n arbennig o bwysig am ei phoblogaeth fridio adar drycin Manaw.

(v) **Rhan Ynys Lawd o SoDdGA Glannau Ynys Gybi**: ardal arfordirol a nodwyd ar gyfer ei gwerth biolegol, botanegol ac adaryddiaeth. Mae gan y SoDdGA 11 o nodweddion hysbysu, gan gynnwys brain coesgoch. Mae'r SoDdGA hefyd yn cynnal casgliad o adar bridio sef gweilch y penwaig, gwylogod a phalod, y cyfeirir atynt fel nythfeydd pwysig yn y disgrifiad o'r SoDdGA.

536. Mae'r RSPB, drwy gytundebau perchenogaeth a rheoli, yn rheoli Gwarchodfa Ynys Lawd ("y Warchodfa"). Mae clogwyni'r môr yn y Warchodfa yn darparu safleoedd nythu ar gyfer dros 8,000 o adar môr (gyda niferoedd ychwanegol yn nythu ar Ynys Lawd gerllaw) gan gynnwys palod, gwylogod, gweilch y penwaig, gwylanod coesddu ac adar drycin y graig. Mae'r Warchodfa'n bwysig ar gyfer ei brain coesgoch, gyda 10 pâr bridio wedi'u cofnodi ar y Warchodfa a phedwar pâr bridio arall ar dir cyfagos yn 2019.

537. Erbyn adeg yr ymchwiliad, roedd prif bryderon yr RSPB gyda'r datblygiad arfaethedig yn ymwneud â'i effaith bosibl ar boblogaethau gwylogod a gweilch y penwaig Ynys Lawd a Phenlas.[881]

538. Fel y cydnabu Dr McCluskie yn ei dystiolaeth,[882] nid yw poblogaethau gwylogod a gweilch y penwaig Ynys Lawd a Phenlas yn cael eu hadnabod fel nodweddion o ddiddordeb ar gyfer dynodiad SoDdGA Glannau Ynys Gybi, ac nid yw'r poblogaethau'n rhan o AGA, nac yn gysylltiedig â hi. Felly, nid yw'r effeithiau ar y poblogaethau hynny yn rhai a allai arwain at effaith andwyol ar gyfanrwydd Safle

[880] Wedi'i ddisgrifio'n fanylach yn Natganiad Achos yr RSPB paragraffau 12-21 (Cyf: MDZ/N5) a pharagraffau 3.8-3.12 o brawf wedi'i ddiweddaru Dr McCluskie (Cyf: POE007.1)

[881] Mae safbwynt yr RSPB o ran brain coesgoch wedi'i nodi yn adran 6 o Brawf Tystiolaeth wedi'i ddiweddaru Dr McCluskie, a chadarnhaodd yn XIC (3 Chwefror 2021) fod yr RSPB wedi gofyn am wybodaeth ychwanegol mewn perthynas ag adar drycin Manaw a'i fod yn fodlon nad oedd yr effeithiau'n peri pryder i'r rhywogaeth honno.

[882] Yn ystod XX ar 3 Chwefror 2021, prawf wedi'i ddiweddaru paragraffau 3.8-3.12 (o Gyf: POE007.1)

Ewropeaidd, megis cynnwys rheoliad 63 o *Reoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017*.[883]

539. Fodd bynnag, nid yw hynny'n golygu y gellir diystyru'r effeithiau hynny i bob pwrpas, na'u rhoi o'r neilltu, wrth ystyried a ddylid gwneud y Gorchymyn.

540. Mae Cyfarwyddeb 2009/147/EC ar warchod adar gwyllt[884] – y Gyfarwyddeb Adar - yn darparu ar gyfer gwarchod, trin a rheoli pob rhywogaeth o adar gwyllt sy'n digwydd yn naturiol yn nhiriogaeth Ewropeaidd yr Aelod-wladwriaethau.[885] Fel sy'n amlwg o'r Gyfarwyddeb, a'i datganiadau, un o'r amcanion allweddol oedd atal y dirywiad mewn poblogaethau adar yn Ewrop, a oedd yn cynrychioli "*bygythiad difrifol i gadwraeth yr amgylchedd naturiol*" [886], gyda'r angen i'r mesurau sydd i'w cymryd fod yn berthnasol i'r "*ffactorau amrywiol a allai effeithio ar niferoedd yr adar, sef sgil-effeithiau gweithgareddau dyn*".[887] Nodwyd bod cadwraeth rhywogaethau adar gwyllt yn angenrheidiol i gyflawni amcanion y Gymuned o ran gwella amodau byw a datblygu cynaliadwy,[888] ac wedi'i anelu at ddiogelu a rheoli adnoddau naturiol yn y tymor hir fel "*rhan annatod o dreftadaeth*" pobloedd Ewrop.[889]

541. Yn wahanol i'r rhan fwyaf o ddiogelu rhywogaethau, mae'r Gyfarwyddeb Adar yn diogelu pob aderyn gwyllt (Erthygl 1). Yn ôl Erthygl 2, bydd Aelod-wladwriaethau "*yn cymryd y camau angenrheidiol i gynnal poblogaeth y rhywogaethau y cyfeirir atynt yn Erthygl 1 ar lefel sy'n cyfateb yn benodol i ofynion ecolegol, gwyddonol a diwylliannol gan ystyried gofynion economaidd a hamdden, neu i addasu poblogaeth y rhywogaethau hyn i'r lefel honno*".[890] Mae Erthygl 5 yn ei gwneud yn ofynnol i Aelod-wladwriaethau gymryd "mesurau angenrheidiol" i sefydlu system amddiffyn gyffredinol ar gyfer pob rhywogaeth o adar y cyfeirir atynt yn Erthygl 1 sy'n gwahardd, ymhlith pethau eraill, lladd neu gipio'n fwriadol drwy unrhyw ddull, neu aflonyddwch bwriadol yn enwedig yn ystod y cyfnod bridio a magu i'r graddau y byddai aflonyddwch yn sylweddol o ystyried amcanion y Gyfarwyddeb.

542. Mae Erthygl 4 yn ei gwneud yn ofynnol i Aelod-wladwriaethau amlygu ardaloedd sydd i'w diogelu'n arbennig ar gyfer y rhywogaethau prin a/neu agored i niwed a restrir yn Atodiad 1 (Erthygl 4(1)) a rhywogaethau mudol rheoleiddio (Erthygl 4(2)) – Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (AGA). Mae rhywogaethau Atodiad 1 yn cynnwys gwylogod ond nid gweilch y penwaig. Fodd bynnag, nid yw Erthygl 4 yn disodli'r rhwymedigaethau ehangach, mwy cyffredinol, a gynhwysir yn Erthyglau 1-2 a 5-9, ond yn hytrach mae'n gwneud darpariaeth benodol ar gyfer adar o fewn Atodiad 1 ac adar mudol: gweler paragraff 19 o ddyfarniad y CJEU yn *R v Secretary of State for the Environment* [1997] Env LR 55.

---

883 Cyf: MDZ/B6

884 Trafodir y Gyfarwyddeb Adar yma drwy gyd-destun yn unig ar gyfer [y paragraffau canlynol sy'n ymdrin â deddfwriaeth berthnasol a phoblogaethau gwylogod a gweilch y penwaig yn Ynys Lawd a Phenlas]

885 Cyf: MDZ/B8

886 Datganiad 3

887 Datganiad 6

888 Datganiad 5

889 Datganiad 7

890 Hyd yma, ni chafwyd canllawiau clir ar ddehongli Erthygl 2 (Gweler, er enghraifft, yr hyn a ddywedwyd gan Carnwath L.J. ym mharagraff 38 o *Sustainable Shetland v Scottish Ministers* [2015] UKSC 4, ac ym mharagraff 17 yn nodi rhai anghysondebau ymddangosiadol yng nghyfraith achosion CJEU. Nid oes 'lefelau' penodol yn y DU at ddibenion Erthygl 2.

543. Gweithredir y rhwymedigaethau hynny'n gyffredinol drwy'r amddiffyniadau a geir yn *Neddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981*, ond fe'u gweithredir hefyd drwy'r rhwymedigaethau ar awdurdodau priodol, cyrff cadwraeth natur ac, mewn perthynas ag ardaloedd morol, awdurdodau cymwys yn rheoliadau 9 a 10 o *Reoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017* a rheoliad 6 o *Reoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau Morol Alltraeth 2017*.[891] Byddai'r RSPB yn tynnu sylw, yn benodol, at y rhwymedigaeth yn rheoliad 9(3): "*rhaid i awdurdod cymwys, wrth arfer unrhyw un o'i swyddogaethau, roi sylw i ofynion y Cyfarwyddebau i'r graddau y gall arfer y swyddogaethau hynny effeithio arnynt*".[892] Mae hynny'n cyd-fynd â'r rhwymedigaethau mwy cyffredinol mewn perthynas â bioamrywiaeth yn adran 6 o *Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016* [893] a chanllawiau polisi perthnasol – gan gynnwys paragraff 6.4.5 o Bolisi Cynllunio Cymru (a ddyfynnwyd ym mharagraff 4.7 o Brawf Tystiolaeth Dr Grant) sef "*Rhaid i awdurdodau cynllunio geisio cynnal a gwella bioamrywiaeth wrth arfer eu swyddogaethau. Mae hyn yn golygu na ddylai datblygiad achosi colled sylweddol o gynefinoedd neu boblogaethau o rywogaethau, yn lleol neu'n genedlaethol a rhaid iddynt ddarparu budd net i fioamrywiaeth*".

544. Fel y cydnabuwyd uchod, nid yw poblogaethau gwylogod a gweilch y penwaig yn Ynys Lawd a Phenlas yn cael eu nodi gyda nodweddion diddordeb SoDdGA, nac yn gysylltiedig ag AGA, ac felly nid oes angen ystyried a allai'r effeithiau posibl ar y poblogaethau hynny arwain at effeithiau andwyol posibl ar gyfanrwydd Safleoedd Ewropeaidd. Fodd bynnag, fel yr eglurodd Dr McCluskie yn y dystiolaeth (mewn ymateb i gwestiwn gan yr Arolygydd) er nad yw colledion o'r raddfa a adroddwyd yn yr ES efallai o "*arwyddocâd mawr*" ar lefel genedlaethol, byddent yn "*arwyddocaol iawn yn lleol*".

545. Cynigia'r RSPB fod yr effeithiau posibl ar y poblogaethau hynny – a niwed iddynt – yn faterion y dylid rhoi pwys sylweddol iddynt wrth asesu, a chydbwyso, manteision a niweidiau'r Prosiect, er nad ydynt yn dod o dan reoliad 63.

*<u>Y datblygiad arfaethedig: caniatâd a geisir drwy'r Gorchymyn</u>*

546. Er bod cam cyntaf dangosol y Prosiect wedi'i leihau'n sylweddol o'r gosodiad 40MW a aseswyd yn yr ES,[894] y gwir amdani yw bod Menter Môn, drwy'r cais hwn, yn gofyn am ganiatâd ar gyfer parth arddangos 35km2, gyda hyd at 620 o ddyfeisiau, gan gynhyrchu hyd at 240MW o ynni. Er cwtogi ar faint y cam cyntaf dangosol, mewn amgylchiadau lle ceisir caniatâd ar gyfer y Prosiect yn ei gyfanrwydd, mae'n amlwg yn briodol fod effeithiau posibl y Prosiect ar y raddfa honno yn cael eu hystyried a'u gwerthuso.

547. Fel yr adroddwyd yn yr ES, mae effeithiau posibl y Prosiect o ganlyniad i risg gwrthdrawiadau ar boblogaethau gwylogod a gweilch y penwaig yn Ynys Lawd a

[891] Cyf: MDZ/B7

[892] Nid yw telerau rheoliad 9(3) wedi eu diwygio gan y *Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau (Diwygio) (Ymadael â'r UE)* er bod angen ei ddarllen gyda'r diffiniadau diwygiedig o'r Cyfarwyddebau perthnasol a chyda'r rheoliad 9(4A) newydd (Cyf: MDZ/B10)

[893] Cyf: MDZ/B9

[894] Fel y nodir yn Nodyn Modelu Risg Gwrthdrawiadau Ychwanegol Mamaliaid Morol (Cyf: MDZ/A31.13) a Nodyn Modelu Risg Gwrthdrawiadau Diwygiedig Adareg Forol (Cyf: MDZ/A.31.9)

Phenlas yn sylweddol [895] – os na chânt eu lliniaru. Mae'r mesurau lliniaru a gynigir yn yr ES yn cynnwys dwy broses yn y bôn:

(i) Dull graddol o ddatblygu; a

(ii) Datblygu EMMP, gan gynnwys strategaeth fonitro ymhlith pethau eraill.[896]

548. Ni chynigir unrhyw liniaru 'sylweddol' ar yr effeithiau a adroddir yn yr ES. Nid yw'r camau wedi'u diffinio na'u hasesu yn yr ES - mae'r asesiad wedi'i gyfyngu i'r senarios gosod 40MW a 240MW dangosol, gydag asesiad o osodiad Cam Un dangosol llai wedi'i ddarparu wedyn fel FEI.[897]

549. Mae hwn yn "Orchymyn EIA" at ddibenion Rhan 1 o Ddeddf Trafnidiaeth a Gwaith 1992. Drwy adran 13B, rhaid i Weinidogion Cymru (a) ystyried y wybodaeth EIA a ddarperir (a.13B(1)(a)); (b) yn dilyn yr ystyriaeth honno, dod i gasgliad rhesymegol am effeithiau sylweddol tebygol y gwaith arfaethedig neu brosiectau eraill ar yr amgylchedd (a.13B(1)(b)); ac (c) cymryd y casgliad rhesymegol hwnnw i ystyriaeth wrth wneud penderfyniad o dan a.13(1) (a.13B(3)). Drwy adran 13C(1), rhaid i Weinidogion Cymru:

"... *ystyried a yw monitro effeithiau andwyol sylweddol y gwaith neu brosiectau eraill ar yr amgylchedd sydd i'w awdurdodi gan y gorchymyn yn briodol ac, os felly, rhaid ystyried:*

*a) a yw'n briodol gosod mesur monitro;*[898] *a*

*b) a yw'n briodol gosod gofyniad i gymryd camau adferol*".

550. Drwy adran 13C(4), ceir gosod gofyniad o dan adran 13C(1) yn y Gorchymyn, neu os rhoddir cyfarwyddyd o dan adran 90(2A) o *Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990* ar ffurf amod a bennir yn y cyfarwyddyd hwnnw. Nid yw adran 13C(4) yn berthnasol i'r gwaith llanw dan sylw yn y cais hwn: i'r graddau y mae gofynion monitro (a/neu gamau adferol) i'w sicrhau drwy fodd amod, byddai angen gosod amod o'r fath ar y Drwydded Forol – nad yw gerbron yr ymchwiliad hwn i'w bennu ar hyn o bryd.[899]

551. Er bod cyflwyno EMMP [900] cyn dechrau unrhyw waith llanw cysylltiedig neu ail-bweru unrhyw waith llanw cysylltiedig yn un o ofynion y Gorchymyn drafft,[901] nid yw'r Gorchymyn yn sicrhau camau diffiniedig y Prosiect [902] nac yn nodi mesurau monitro. Mae camau'r datblygiad arfaethedig, a chynnwys yr EMMP (manwl) (gyda'i

[895] ES Arg. 1 Pennod 11, paragraffau 159 - 164, 176 (Cyf: MDZ/A31.11), a grynhowyd ym mhrawf wedi'i ddiweddaru Dr McCluskie ym mharagraffau 5.34 – 5.57 (Cyf: POE007.01)

[896] ES Arg. 1 Pennod 11 paragraffau 178 a 179 (Cyf: MDZ/A31.11)

[897] Nodyn Modelu Risg Gwrthdrawiadau Ychwanegol Mamaliaid Morol (Cyf: MDZ/A31.13); Nodyn Modelu Risg Gwrthdrawiadau Diwygiedig Adareg Forol (Cyf: MDZ/A.31.9).

[898] Yn destun y cymhwyster yn adran 13C(5)

[899] Yn wahanol i'r cais am ganiatâd cynllunio tybiedig (Cyf: MDZ/A19).

[900] Dealla'r RSPB y byddai hyn, yn ymarferol, y golygu bod yr EMMP manwl y cyfeirir ato yn yr EMMP amlinellol ac Amod 36 drafft y Drwydded Forol (sydd wedi'i atodi i'r fersiwn ddiweddaraf yr oEMMP yn Atodiad 4), yn rhoi sylw i Erthygl 3(7) o'r Gorchymyn drafft.

[901] Erthygl 3(4) a ddarllenwyd gydag Atodlen 1 Rhan 4 (Cyf: Dogfen yr Ymchwiliad – 071)

[902] Cymharu cydsyniad Meygen, a drafodwyd ym mharagraff 29 o brawf gwrthbrofi Dr McCluskie (Cyf: RPE012). Copi o'r caniatâd yw Cyf: Dogfen yr Ymchwiliad - 083.

ddarpariaethau monitro, rheoli a lliniaru critigol) yn cael eu gadael drosodd i'w penderfynu, a'u rheoli, drwy'r broses Trwydded Forol.[903]

552. Mae'r RSPB yn cydnabod y gallai penderfynwr sy'n ystyried datblygiad EIA ystyried y ffaith y bydd angen caniatâd pellach drwy drefn ar wahân, a fydd yn gosod rheolaethau penodol ar effeithiau amgylcheddol. Fodd bynnag, nid yw hynny'n golygu bod gan y penderfynwr yr hawl i gymryd y farn, am fod cydsyniad yn ofynnol gan ryw gorff cyfrifol arall, y bydd hynny'n ddigonol. Wrth George Barrett QC yn <u>*Atkinson v Secretary of State for Transport*</u> [2007] Env LR 5 yn 29-30:

> "*29. Dyma, felly, yw'r sefyllfa, hyd y deallaf fi. Rhaid i'r penderfynwr wneud ei benderfyniad yng ngoleuni datganiad amgylcheddol sy'n disgrifio effeithiau sylweddol tebygol y prosiect a'r mesurau sydd i'w cymryd i osgoi, lleihau neu gywiro unrhyw effeithiau andwyol sylweddol. Wrth benderfynu a yw'r datganiad yn darparu'r disgrifiad angenrheidiol, nid oes ganddo hawl, mewn perthynas ag ardal benodol o effaith bosibl, i gymryd y farn, dim ond am y bydd angen caniatâd dilynol gan ryw gorff cyfrifol arall, nad oes angen ystyried a yw'n debygol y bydd effeithiau sylweddol yn yr ardal honno neu beth fyddant neu pa fesurau lliniaru sydd eu hangen. <u>Yr hyn y mae ganddo hawl i'w wneud, fodd bynnag, yw dod i'r casgliad, ar sail y wybodaeth sydd ganddo sy'n berthnasol i'r maes penodol o effaith bosibl, ac yng ngoleuni'r angen am gydsyniad dilynol gan y corff cyfrifol arall, nad yw'r effeithiau yn yr ardal honno'n debygol o fod yn sylweddol neu y bydd camau lliniaru priodol yn cael eu cymryd. Rhaid iddo, hynny yw, gael rhywfaint o wybodaeth o'i flaen sydd, ynghyd â'r angen am gydsyniad dilynol, yn ei alluogi i ddod i'r casgliad na fydd yr effeithiau'n sylweddol neu y bydd camau lliniaru priodol yn cael eu cymryd</u>. Fel y dywedodd Sullivan J. yn <u>Milne</u> (yn [114]) mewn perthynas â materion a gadwyd yn ôl mewn caniatâd cynllunio:*
>
> > *"Mae gan yr awdurdod cynllunio lleol hawl i ddweud, 'Mae gennym ddigon o wybodaeth am ddyluniad y prosiect hwn i'n galluogi i asesu ei effeithiau sylweddol tebygol ar yr amgylchedd. Nid oes angen manylion y materion a gadwyd yn ôl arnom oherwydd ein bod yn fodlon nad yw manylion o'r fath, ar yr amod eu bod yn cael eu rheoli'n ddigonol gan amod, yn debygol o gael unrhyw effaith sylweddol.'"*
>
> *30. <u>Ni fyddai'r ffaith bod yr Ysgrifennydd Gwladol wedi dibynnu fel y gwnaeth ar yr angen i gael cymeradwyaethau dilynol ond wedi bod yn anghyfreithlon, yn fy marn i, pe na bai wedi cael unrhyw wybodaeth o'i flaen a oedd, ynghyd â'r angen am gymeradwyaethau o'r fath, yn gallu ei alluogi i ddod i'r penderfyniad a wnaeth. Y cwestiwn felly yw digonolrwydd y wybodaeth.</u>*"
> (Tanlinellu wedi'i ychwanegu fel pwyslais)

553. Mae'n siŵr y bydd y cwestiwn a oes gwybodaeth ddigonol o'r fath yn yr achos hwn yn gwestiwn y bydd yr Arolygydd, ac wedyn Gweinidogion Cymru, yn dymuno ei ystyried yn feirniadol.[904]

[903] Gweler, yn benodol, Erthygl 3(7) a pharagraffau 17, 23 a 24.9-13 o Nodyn yr Ymgeisydd ar y Gorchymyn drafft, y rheolaethau y mae'n eu darparu a'i berthynas â threfn gydsynio arall (Cyf: RPE008)

[904] Mae'r RSPB wedi nodi, yn ei Ddatganiad Achos (Cyf: MDZ/N5) a Sylwadau ar Ddatganiadau Achos Partïon eraill (Fel y'i diwygiwyd) (Cyf: MDZ/N23) y wybodaeth a lefel y manylion y byddai wedi dymuno eu gweld yn cael eu darparu fel rhan o'r broses gydsynio hon.

554. Fodd bynnag, byddai'r RSPB yn pwysleisio'r canlynol:

(i) Nid yw'r dogfennau a gyflwynir i gefnogi'r cais hwn yn diffinio camau arfaethedig y Prosiect – naill ai o ran nifer y camau, maint y gosodiad yn y camau hynny, neu fanylion y camau hynny. Felly, mae nifer, graddfa, manylion, lleoliad ac ystyriaeth effeithiau posibl neu effeithiau sylweddol pob cam yn cael eu gadael drosodd i'w hystyried drwy'r broses Trwydded Forol.

(ii) Mae'r dogfennau a gyflwynwyd i gefnogi'r cais hwn, gan gynnwys yr EMMP amlinellol drafft diwygiedig (oEMMP), yn darparu ychydig iawn o wybodaeth am yr hyn y mae'r Ymgeisydd yn ei gynnig mewn gwirionedd er mwyn monitro, rheoli a lliniaru effeithiau amgylcheddol posibl y gwahanol gamau, ac felly ychydig iawn o wybodaeth yn sail i asesiad o ddigonolrwydd neu effeithiolrwydd tebygol y mesurau hynny.[905] Mae'r RSPB yn cydnabod bod yr oEMMP drafft, o reidrwydd, yn ddogfen amlinellol; y bydd yr EmMP manwl yn cael ei ddatblygu maes o law; y rhagwelir y caiff ei lywio gan fewnbwn gan Grŵp Cynghori (a allai gynnwys yr RSPB)[906]; ac y bydd angen iddo gael ei gymeradwyo gan CNC. Fodd bynnag, y gwir amdani yw, o ran y wybodaeth gerbron yr ymchwiliad hwn, mae'n brin ar y gorau - ac, ar adegau, braidd yn aneglur[907] - ynghylch yr hyn sy'n cael ei gynnig.

555. At hynny, fel yr amlygodd Dr McCluskie yn ystod croesholiad, nid yw'r broses a ragwelir – gyda'r gwahanol gyfnodau'n cael eu rheoli drwy'r EMMP – yn darparu ar gyfer yr un graddau o gyfranogiad y cyhoedd mewn gwneud penderfyniadau ag a roddir drwy'r broses ymgeisio gyfredol.[908] Mae'r RSPB yn cydnabod bod yn rhaid ystyried y ddwy gyfundrefn fel y maent – ac nid yw'n awgrymu y dylid cael rhyw fath o ymchwiliad bob tro y mae Menter Môn yn dymuno gosod dyfais, neu y dylid cael rhyw fath o newid deddfwriaethol cyffredinol. Fodd bynnag, yng nghyd-destun ystyried a ddylid rhoi caniatâd ar gyfer y Gorchymyn EIA hwn, mae'n siŵr y bydd yr

[905] Er enghraifft, nid yw'n glir a fyddai - na sut byddai - mecanwaith 'stopio' yn y broses fframwaith penderfyniadau gwrthdrawiadau arfaethedig a ddangosir ar blât 2-3 yr oEMMP yn berthnasol mewn perthynas ag adar sy'n plymio, nac a allai fod yn berthnasol.

[906] Nid yw'r RSPB wedi cael gwahoddiad ffurfiol eto i gymryd rhan mewn Grŵp Cynghori – a hynny mae'n siŵr o ystyried statws yr oEMMP drafft - ond byddai'n croesawu cyfranogiad o'r fath: gweler Sylwadau'r RSPB ar Ddatganiadau Achos Partïon eraill ym mharagraff 2.6 (Cyf: MDZ/N23)

[907] Byddai'r RSPB yn tynnu sylw, yn benodol, at yr anghysondeb rhwng tystiolaeth Dr Grant a'r testun yn Fersiwn F7 yr oEMMP drafft, sef y fersiwn ddiweddaraf o'r ddogfen yna cyn yr ymchwiliad (Cyf: Dogfen yr Ymchwiliad – 063) ynghylch a oedd defnyddio camerâu tanddwr yn cael ei ystyried – gydag esboniad gan Mr Fortune yn ei brif dystiolaeth (3 Chwefror 2021) fod y cyfeiriad yn Nhabl 4.1 at beidio ag ystyried technoleg o'r fath ar gyfer yr EMMP yn "destun etifeddol", ac yn anghywir. Fodd bynnag, mae prawf gwrthbrofi Mr Fortune hefyd yn awgrymu, ym mharagraff 89, o ran fersiwn ddiweddaraf (ar y pryd) yr oEMMP, "*nid yw'n hyrwyddo monitro gwrthdrawiadau ond yn hytrach mae'n cynnig cyfres o ddulliau monitro eraill i fireinio'r ystyriaeth o risg gwrthdrawiadau ac iechyd nythfeydd ehangach*" gan gynnwys cadw "*meddwl agored*" i fonitro gwrthdrawiadau posibl gan ddefnyddio sonar a fideo gweithredol. Bydd yr Arolygydd yn cofio i Dr McCluskie fynegi rhai pryderon am strategaeth fonitro nad oedd yn cynnwys monitro gwrthdrawiadau â dyfeisiau yn ystod ei brif dystiolaeth (3 Chwefror 2021).

[908] Cyfranogiad y cyhoedd yw un o'r amddiffyniadau a sicrhawyd drwy ddarpariaethau EIA *Rheolau Deddf Trafnidiaeth a Gwaith (Gweithdrefn Ceisiadau a Gwrthwynebiadau) (Cymru a Lloegr) 2006* (Cyf: MDZ/B3).

Arolygydd, a Gweinidogion Cymru, yn dymuno gwybod am faint y materion dros ben i'w penderfynu yn y cam diweddarach hwnnw drwy'r broses arall honno.

556. Er mwyn osgoi amheuaeth, nid yw'r RSPB yn awgrymu bod yr 'amlen dylunio prosiect' yn ddiffygiol yn gyfreithiol at ddibenion *Rheolau Deddf Trafnidiaeth a Gwaith (Gweithdrefn Ceisiadau a Gwrthwynebiadau) (Cymru a Lloegr) 2006*;[909] nac yn dadlau y gellir defnyddio 'amlen dylunio prosiect' neu 'amlen Rochdale' yng nghyd-destun rhoi caniatâd i gynlluniau datblygu mawr lle nad yw manylion terfynol y datblygiad yn hysbys eto. Fodd bynnag, mae'r RSPB yn pryderu a all yr Arolygydd, ac wedyn Gweinidogion Cymru, fod yn fodlon bod ganddynt ddigon o wybodaeth am y Prosiect yn awr i'w galluogi i ddod i benderfyniad gwybodus ynghylch a ddylid rhoi caniatâd i'r Prosiect ar y raddfa y ceisir amdani.

**Pryderon penodol yr RSPB**

*Graddfa’r Prosiect*

557. Technoleg newydd sy’n dod i’r amlwg yw ynni’r llanw. Nid yw cynhyrchu ynni trwy araeau llanw yn ddigynsail: gweler, er enghraifft para. 82 Proflen Dystiolaeth Mr Fortune. Fodd bynnag, mae’r RSPB o’r farn nad yw caniatâd ar gyfer datblygiad o’r fath ar y raddfa a geisir trwy’r cais hwn wedi’i weld o’r blaen yn y Deyrnas Unedig.[910]

558. Mae’r ddealltwriaeth o effeithiau posibl technoleg o’r fath ar adar sy’n plymio ar gam datblygu cymharol gynnar hefyd.[911] Mae llawer o ansicrwydd ynglŷn â modelu effeithiau o’r fath ac, ar hyn o bryd, heb dystiolaeth o risg gwrthdaro o’r byd go iawn, dyna’r ffordd orau sydd ar gael o asesu risg gwrthdaro i adar.[912] Prin yw’r dystiolaeth empirig sydd ar gael i gadarnhau allbynnau gwaith modelu o’r fath hefyd.[913]

559. Mae’r RSPB yn cydnabod na ellir cael data o’r fath ‘o’r byd go iawn’, na thystiolaeth i gadarnhau tybiaethau modelu, heb leoli dyfeisiau. Nid yw’n ceisio gwrthsefyll lleoli dyfeisiau oherwydd diffyg tystiolaeth o’r fath. Yr hyn y mae’n ei wrthsefyll, fodd bynnag, yw awgrym bod rhoi caniatâd ar gyfer y Prosiect hwn – ar y

---

[909] Cyf: MDZ/B3

[910] Roedd Prosiect Tyrbin Llanw SeaGen ar gyfer un ddyfais 1.4MW; roedd Prosiect Aráe Llanw Ynysoedd y Moelrhoniaid ar gyfer aráe 10MW (proflen Mr Fortune ym mhara. 82); roedd Prosiect Aráe Llanw Meygen ar gyfer 86MW yn amodol ar leoli dyfais 6MW yng ngham un (gwrthbroflen Dr McCluskie ym mhara. 5.27); roedd Canolfan Ynni’r Llanw Perpetuus ar gyfer 30MW (cadarnhawyd gan Mr Orme yn ei dystiolaeth ar 1 Rhagfyr 2020); gosododd prosiect Nova (Swnt Bluemull, Shetland) dyrbin arddangos 30KW yn wreiddiol, yna gosododd ddau dyrbin 100KW, ac yna trydydd, gyda’r bwriad o osod tri thyrbin ychwanegol, gan ddod â chyfanswm y capasiti i 600KW (Adroddiad Cyflwr y Wyddoniaeth 2020 tud.35, Atodiad 34 i broflen Dr McCluskie, PDF tud.1149 yn 1165)

[911] Trafodwyd hyn yn Adran 5 proflen wedi’i diweddaru Dr McCluskie. Gweler hefyd tud.1 Canllawiau SNH ar ‘*Asesu risg gwrthdrawiad rhwng tyrbinau tanddwr a bywyd gwyllt morol*” (Cyf: MDZ.F19) “*Mae pwnc cyfan asesu risg gwrthdrawiad â dyfeisiau cynhyrchu ynni’r llanw ar gam cynnar o hyd*.”

[912] Dr Grant yn ystod croesholi a phroflen wedi’i diweddaru Dr McCluskie ym mhara. 5.1.

[913] Gweler, er enghraifft, adran 3.6.3 Adroddiad Cyflwr y Wyddoniaeth 2020 (Atodiad 34 i broflen Dr McCluskie, PDF tud.1149 ar dud.1182); a Chrynodeb Gweithredol (tud.10) yr ‘*Adolygiad o risg bosibl gwrthdrawiad rhwng dyfeisiau ffrwd lanw a mamaliaid môr*’, ABPMer 2020 (Cyf: MDZ/F15.2)

raddfa y ceisir awdurdodiad ar ei chyfer – yn angenrheidiol neu'n briodol i 'dorri'r cylch'.[914] Fel yr eglurodd Dr McCluskie wrth gael ei ail-holi,[915] mae dyfeisiau eisoes wedi'u lleoli y gellir cael data ohonynt, ac os oes angen lleoli mwy o ddyfeisiau i gael mwy o ddata, gellid gwneud hynny trwy roi caniatâd ar raddfa lai.

560. Yn fyr, nid yw'r RSPB yn gwrthsefyll, nac yn gwrthwynebu, lleoli dyfeisiau llanw, na lleoli dyfeisiau llanw ar sail arbrofol neu arddangos i brofi technolegau sy'n dod i'r amlwg. Safbwynt yr RSPB, yn syml, yw y byddai rhoi caniatâd ar gyfer prosiect ar y raddfa hon yn rhy fawr yn rhy fuan.

*Gwaith asesu a modelu*

561. Mae gan yr RSPB nifer o bryderon ynglŷn â'r gwaith modelu ac asesu a wnaed mewn perthynas â risg gwrthdaro, y manylwyd arnynt yn llawnach ym mhroflen wedi'i diweddaru a gwrthbroflen Dr McCluskie.[916] Nid yw'r pryderon hynny yn 'academaidd' bellach yn sgil y gostyngiad sylweddol yng ngraddfa cam cyntaf dangosol y datblygiad.[917] Fel yr esboniodd Dr McCluskie yn ei brif dystiolaeth:

(i) Mae materion asesu methodolegol o hyd mewn perthynas â'r Cam Un dangosol; a,

(ii) Cheisir caniatâd o hyd ar gyfer lleoli dyfeisiau'n llawn, ac nid ar gyfer y cam cyntaf dangosol.

562. At hynny, o ystyried y ddibyniaeth ar wneud gwaith modelu ychwanegol i amlygu, ac asesu, camau'r Prosiect yn y dyfodol[918] - ac, yn wir, asesu manylion y cam lleoli cyntaf[919] - na chynigir y bydd ei ddull yn sylweddol wahanol i'r gwaith modelu ac asesu a wnaed hyd yma,[920] mae'n bwysig sicrhau bod y gwaith hwnnw'n ddigon cadarn i allu llywio'r penderfyniadau hynny yn y dyfodol yn briodol.

563. Nid yw'r RSPB yn dadlau ynglŷn â'r modelau ERM a CRM a ddewiswyd. Fodd bynnag, mae ganddi bryderon ynglŷn â'r canlynol:

(i) Y penderfyniad i gyfartalu allbynnau'r ddau fodel hynny. Nid yw hyn yn cael ei gefnogi gan Ganllawiau SNH,[921] nac yn wir gan unrhyw ganllawiau eraill yr oedd Dr McCluskie neu Dr Grant yn ymwybodol ohonynt. Nid oes cynsail iddo ychwaith – nid oedd Dr McCluskie na Dr Grant yn ymwybodol o ddull o'r fath yn cael ei ddefnyddio ar gyfer prosiectau eraill. Gyda pharch, ni ellir ei amddiffyn trwy ddweud nad yw'r canllawiau'n cynghori'n benodol yn erbyn dull o'r fath.[922] Heb dystiolaeth bendant o'r byd go iawn, modelu yw'r ffordd orau sydd ar gael o asesu risg gwrthdaro rhwng adar a dyfeisiau llanw. Fel y

914 Cymharwch â'r awgrym a gyflwynwyd i Dr McCluskie yn ystod croesholi ar 3 Chwefror 2021.
915 Ar 4 Chwefror 2021
916 Proflen wedi'i diweddaru para.(au) 5.25-5.46 (Cyf: POE007.1); Gwrthbroflen para.(au) 2-11 (Cyf: RPE012)
917 Cymharwch â'r hyn a awgrymwyd ym mhrif dystiolaeth Dr Grant ar 2 Chwefror 2021.
918 Gweler, er enghraifft, Plât 2-1 yr oEMMP (Cyf.(au): Dogfen Ymchwiliad – 100 a Dogfen Ymchwiliad – 101)
919 Gweler para. 87 yr oEMMP
920 Yn wahanol i fireinio ei fewnbynnau a'i baramedrau. Dr Grant wrth gael ei groesholi (ar 2 Chwefror 2021)
921 Nodyn Canllaw SNH '*Asesu risg gwrthdrawiad rhwng tyrbinau tanddwr a bywyd gwyllt morol*' (Cyf: MDZ/F19)
922 Cymharwch â'r hyn a oedd i'w weld yn cael ei awgrymu wrth ail-holi Dr Grant

derbyniodd Dr Grant wrth gael ei groesholi, nid yw Canllawiau SNH yn awgrymu na fyddech yn cael rhywbeth o werth o'r ddau fodel a, chan ddefnyddio dull cadarn, y gallech edrych ar y ddau fodel a'u hasesu ar wahân.[923] At hynny, fel yr esboniodd Dr McCluskie yn ei brif dystiolaeth, mater allweddol yn y cyd-destun hwn yw'r ansicrwydd mawr yn y modelau hyn a sut y defnyddir eu hallbynnau mewn asesiadau, a "*thrwy gyfartalu, fel y gwneir yn yr achos hwn, heb gyfeirio at ba mor ystyrlon yw'r modelu yn fiolegol, mae hynny'n cynyddu'r ansicrwydd hwnnw*". Mae'r angen am ragofalon yn deillio (yn rhannol o leiaf) o ymateb i ansicrwydd o'r fath.[924] I'r graddau bod cyfiawnhad i'r penderfyniad trwy gyfeirio at yr angen i ddefnyddio dull "pragmatig", neu benderfynu ar ryw adeg i roi'r gorau i ychwanegu mwy o ragofalon, mae'n dilyn o dystiolaeth Dr McCluskie bod hyn, mewn gwirionedd, wedi cael effaith groes. At hynny, fel y derbyniodd Dr Grant wrth gael ei groesholi, er nad oedd defnyddio'r allbynnau wedi'u cyfartalu wedi newid casgliadau'r gwaith asesu a wnaed hyd yma (o gymharu â defnyddio allbynnau achos gwaethaf y modelau CRM), ni ellir tybio y bydd hynny'n wir bob amser.

(ii) Cymhwyso Cyfradd Osgoi gyffredin i'r ddau fodel. Cytunir bod y Gyfradd Osgoi wedi'i bwriadu nid yn unig i ganiatáu ar gyfer tebygolrwydd adar sy'n plymio o osgoi'r dyfeisiau, ond hefyd gwallau o fewn y model a ddefnyddir i asesu gwrthdrawiad tebygol. Er bod y mewnbynnau ar gyfer y modelau'n gorgyffwrdd i raddau, nid ydynt yr un fath ym mhob ffordd – fel y derbyniodd Dr Grant wrth gael ei groesholi.[925] Felly, ni ellir tybio y bydd gwallau'r model yr un fath, ac felly y bydd y ffactor cywiro'r un fath. Nid yw hyn yn cael ei ystyried yn y dull a ddefnyddiwyd gan yr Ymgeisydd.

(iii) O ran asesu'r Cam Un dangosol wedi'i leihau,[926] mae'r RSPB yn pryderu o hyd bod hyn wedi cael ei fodelu gan gyfeirio at ddyfeisiau anghyflawn. Mae'r RSPB yn cydnabod, ac yn sylweddoli, mai dull modelu yw hyn – ac y byddai modelu 5.89 o ddyfeisiau, felly, yn cyflwyno asesiad achos gwaethaf mwy rhagofalus na phetai 5 dyfais yn unig wedi cael eu modelu (gan dybio y gellid lleoli 5 dyfais yn unig wedi hynny).[927] Fodd bynnag, mae'r RSPB yn pryderu o hyd, o

---

[923] Cwestiwn: "Nid oes awgrym na fyddech yn cael rhywbeth o werth o'r ddau fodel wrth ddefnyddio'r ddau?" Ateb: "Na, dim o gwbl". Cwestiwn: "Gan ddefnyddio dull cadarn, edrych ar y ddau fodal a'u hasesu ar wahân" Ateb: "Mae'n bosibl, yn dibynnu ar yr amgylchiadau".

[924] Fel yr esboniodd Dr McCluskie yn XIC, "Defnyddir rhagofalon mewn asesiad yn uniongyrchol o ganlyniad i'r ansicrwydd sy'n rhan gynhenid o ddyluniadau ac agweddau eraill ar yr asesiad, ac felly maen nhw'n uniongyrchol gymesur â'r ansicrwydd hwnnw. Mae unrhyw beth sy'n cynyddu ansicrwydd, fel defnyddio technegau heb eu cadarnhau, fel [cymryd] y cymedr, yn cynyddu'r angen am ragofalon. Dylid anelu at leihau ansicrwydd yn yr asesiad hwn, ac yn y modd hwnnw leihau'r angen am ragofalon".

[925] Gweler, yn hyn o beth, Tabl 2 Canllawiau SNH (Paramedrau mewnbynnu sy'n ofynnol ar gyfer pob model (Cyf: MDZ/F19).

[926] Cyf: MDZ/A31.10

[927] Er bod yr RSPB hefyd wedi nodi'r awgrym gan Dr Grant, wrth gael ei groesholi, y gallai hyn (yn yr enghraifft a drafodir ym mhara. 5.45 proflen wedi'i diweddaru Dr McCluskie) arwain at leoli 5+ o ddyfeisiau – yn cynnwys 5 o'r dyfeisiau '6S' ynghyd â dyfais ychwanegol a fyddai, gyda'i gilydd, yn aros o fewn y 'ffenestr risg' a aseswyd. Mae'r RSPB yn nodi ymhellach, yn hyn o beth, bod gwaith asesu Cam Un wedi tybio bod un math o ddyfais yn cael ei leoli yn unig – ni fodelwyd effeithiau posibl cymysgedd o wahanol ddyfeisiau, fel y cadarnhaodd Dr Grant wrth gael ei groesholi.

ystyried yr ansicrwydd sy'n gysylltiedig â'r gwaith asesu y mae angen ei wneud, bod y penderfyniad i fodelu sefyllfa na fyddai'n digwydd yn y byd go iawn (h.y. lleoli 5.89 o ddyfeisiau) yn ychwanegu mwy o ansicrwydd diangen i'r asesiad; ac

(iv) Y ffaith nad yw'r dadansoddiad PVA wedi cael ei gynnal ar gyfer yr amrediad llawn o Gyfraddau Osgoi y cyfeirir atynt yn adran 2.4 Canllawiau SNH.[928] Mae'r RSPB yn cydnabod nad yw'r canllawiau'n mynnu'n benodol bod dadansoddiad PVA yn cael ei gynnal ar gyfer yr amrediad llawn hwnnw (yn lle hynny, mae'r canllawiau'n cynghori "*y dylai [amrediad o gyfraddau osgoi] gael eu cymhwyso i ganlyniadau'r ERM a'r CRM, er mwyn cynhyrchu ystod o amcangyfrifon o'r gyfradd wrthdaro bosibl*"). Fodd bynnag, o ystyried yr ansicrwydd ynglŷn â lefel briodol y gyfradd osgoi (a drafodir ymhellach isod o dan "*Dull fesul cam*…"), mae'r RSPB o'r farn y byddai wedi bod yn ddefnyddiol pe gellid bod wedi darparu hyn.

564. Mae tystiolaeth yr Ymgeisydd yn gwneud llawer o natur ragofalus yr asesiad a gynhaliwyd, a bod yr effeithiau go iawn yn debygol o fod dipyn yn llai nag a adroddwyd. Mae'r RSPB yn cytuno bod yr asesiad wedi defnyddio dull rhagofalus, i ryw raddau. Er enghraifft, cydnabu Dr McCluskie y byddai defnyddio'r data poblogaeth mwy diweddar mewn perthynas â'r poblogaethau gwylogod a llursod yn y PVA yn arwain at ragfynegi effeithiau is ar raddfa'r boblogaeth nag a adroddwyd yn yr ES;[929] bod y dybiaeth y byddai pob gwrthdrawiad yn arwain at farwolaeth yn rhagofalus;[930] a bod y dybiaeth ynglŷn â dyfnderoedd plymio yn y nos yn "*briodol o ragofalus*".[931] Fodd bynnag, mae Dr McCluskie wedi amlinellu yn ei dystiolaeth y meysydd hynny lle y mae'n ystyried nad yw'r gwaith asesu wedi bod mor rhagofalus ag yr honnir: gweler yn arbennig ei wrthbroflen, para.(au) 3-10.

565. Am y rhesymau a amlinellwyd yn ei thystiolaeth, mae'r RSPB yn parhau i bryderu am raddfa bosibl yr effeithiau ar y poblogaethau hyn o adar sy'n plymio os caiff y Prosiect ei gyflawni y tu hwnt i'r Cam Un dangosol ac os na chaiff ei fonitro a'i liniaru'n effeithiol. Mae'r RSPB yn pwysleisio nad yw'n amau cymhwysedd CNC o gwbl fel rheoleiddiwr o dan y gyfundrefn Trwydded Forol, a'i bod yn ddiolchgar am ddatganiad CNC ynglŷn â'i safbwynt mewn perthynas ag adar a'r newidiadau a awgrymodd i'r oEMMP drafft yn ystod y sesiwn bord gron ar yr EMMP,[932] sy'n egluro na ddylai'r ystyriaeth o effeithiau posibl ar adar sy'n plymio fod yn "wiriad synnwyr"[933] yn unig ar yr asesiad mamaliaid môr. Fodd bynnag, gall unrhyw benderfyniad ynglŷn â lleoli yn y dyfodol, o reidrwydd, gael ei seilio'n unig ar y ddealltwriaeth wyddonol orau sydd ar gael ar y pryd,[934] a bydd yn hollbwysig sicrhau bod y dull

---

[928] Cyf: MDZ/F19, tud.14

[929] Gwrthbrawf para. 8, er, fel yr esboniodd yn ei dystiolaeth lafar, ni allai'r dadansoddiad PVA gael ei gynnal dim ond trwy amnewid y boblogaeth ddechreuol uwch: byddai angen i hynny gael ei ystyried yn y modelu CRM ac ERM hefyd.

[930] Yn ystod croesholi ar 3 Chwefror 2021

[931] Yn ystod croesholi ar 3 Chwefror 2021

[932] 4 Chwefror 2021. Dylai hefyd fod yn amlwg o'r sesiwn honno nad yw safbwynt yr RSPB "yn groes" i safbwynt CNC, fel yr awgrymwyd wrth groesholi Dr McCluskie (3 Chwefror 2021). Yn hytrach, fel yr esboniodd gwnsler CNC, er na fyddai rheolaeth addasol yn ddull a ffefrir gan CNC, nac yn ddewis cyntaf, gallai'r dull hwnnw gael ei dderbyn gan Wasanaeth Cynghori CNC yn yr achos hwn.

[933] Ymadrodd Mr Fortune yn ystod croesholi

[934] Gweler, er enghraifft para. 7 yr oEMMP

monitro a ddefnyddir yn effeithiol o ran llywio unrhyw asesiad o'r fath yn y dyfodol, a galluogi unrhyw effeithiau sy'n codi yn ystod lleoli i gael eu lliniaru, os nad yw'r realiti'n adlewyrchu'r modelu damcaniaethol.

*Ymagwedd fesul cam at y Prosiect: lleoli*

566. Fel yr amlygwyd ym Mhennod 11 yr ES, ac yn yr oEMMP drafft, mae'r Ymgeisydd yn disgwyl y bydd monitro'r datblygiad a'i gyflwyno fesul cam yn golygu y gellir mireinio'r modelau "*i allu dangos bod gwrthdrawiadau a ragfynegir ar lefel na fyddai'n arwain at effaith niweidiol arwyddocaol yn ecolegol ar lursod a gwylogod*",[935] neu, fel y disgrifiwyd yn yr oEMMP drafft, "*eu diweddaru, gyda'r canlyniad disgwyliedig o leihau arwyddocâd rhagfynedig effeithiau gwrthdaro yn ystod gweithredu*".[936]

567. Fel yr aeth yr Ymgeisydd i drafferth fawr i'w bwysleisio, byddai cam cyntaf y datblygiad, hyd yn oed, yn dibynnu ar fodloni CNC y byddai'r dulliau monitro effeithiol hynny ar waith.[937]

568. Am y rhesymau a esboniwyd gan Dr McCluskie yn ei dystiolaeth, mae gan yr RSPB wir amheuon ynglŷn â ph'un a fydd y naill neu'r llall o'r disgwyliadau hynny'n cael eu gwireddu. Mae'n amlwg bod gan hyn oblygiadau nid yn unig i'r lleoli Cam Un dangosol,[938] ond hefyd – ac efallai'n fwy perthnasol i'r caniatâd a geisir trwy'r cais hwn – i asesu p'un a yw'r Prosiect yn debygol o gael ei leoli ar raddfa fasnachol fwy, a pha mor fawr. Bydd yr Arolygydd yn cofio, yn hynny o beth, prif dystiolaeth Dr McCluskie, sef:

> "*Nid wyf yn credu, o ystyried fy ngwybodaeth am y diffyg gallu tech[…] i gyflawni'r mesurau monitro hynny, y gellir ei gyflwyno. Ni allaf weld sut gall y manylion sy'n ofynnol i fireinio'r effeithiau rhagfynedig gael eu cyflawni yn y tymor byr o ystyried cyflwr presennol y dechnoleg*"
>
> a bod hyn
>
> "*yn broblem hyd yn oed cyn i Gam 1 fod ar waith. Bydd yn cymryd nifer o flynyddoedd cyn i ni fod mewn sefyllfa lle mae'r technolegau'n addas i gasglu'r wybodaeth naill ai i fireinio'r model neu ddarparu tystiolaeth o wrthdrawiadau neu ddiffyg gwrthdrawiadau*".

569. Bydd yr Arolygydd hefyd yn sicr o gofio tystiolaeth Dr McCluskie ynglŷn â'r gwaith sydd wedi bod yn mynd rhagddo ers 2021 i geisio diffinio cyfraddau osgoi yng nghyd-destun datblygiadau fferm wynt ar y môr, a drafodwyd yn ei dystiolaeth lafar, ac ym mhara. 8.17 ei broflen wedi'i diweddaru.

570. O ran y Cyfraddau Osgoi sydd i'w cymhwyso i'r modelu risg gwrthdrawiad ar gyfer dyfeisiau llanw ac adar sy'n plymio, archwiliwyd hyn yn hirfaith yn ystod tystiolaeth

[935] ES Pennod 11 para. 178
[936] oEMMP drafft para. 21
[937] oEMMP drafft para. 8, a'i fod ar raddfa nad oedd yn rhagfynegi effeithiau niweidiol ar famaliaid môr nac ar boblogaethau adar môr sy'n plymio nad ydynt yn gysylltiedig ag AGA o gytrefi lleol (oEMMP para. 7).
[938] Mae'r RSPB yn nodi, yn y cyd-destun hwn, y safbwynt a fynegwyd yn Nodyn CNC dyddiedig 1 Chwefror 2021 (Cyf: Dogfen Ymchwiliad – 085) y byddai angen i raddfa debygol unrhyw leoli o'r fath fod yn sylweddol lai er mwyn cyflawni'r ymrwymiad i leoli ar raddfa islaw'r effaith niweidiol a ragfynegir ar gyfanrwydd y safle (AEOSI).

lafar Dr Grant a Dr McCluskie. Nid yw'r RSPB yn ceisio ailedrych ar y ddadl honno'n fanwl yn y sylwadau hyn i gloi. Fodd bynnag, mae'n pwysleisio'r 5 pwynt canlynol:

(i) Hyd yma, nid oes cyfradd osgoi ddiofyn argymelledig i'w defnyddio wrth fodelu risg gwrthdrawiad ar gyfer dyfeisiau llanw fel a geir ar gyfer ffermydd gwynt;[939]

(ii) Er bod nifer o ffactorau y gellid ystyried eu bod yn dangos cyfradd osgoi uwch nag ar gyfer ffermydd gwynt, mae nifer o ffactorau a allai dynnu i'r cyfeiriad arall hefyd;[940]

(iii) Hyd yn oed yng nghyd-destun ffermydd gwynt, mae dyfarniadau ynglŷn â'r gyfradd osgoi briodol wedi amrywio,[941] ac mae cyfraddau diofyn a argymhellir wedi mynd i fyny ac i lawr;[942]

(iv) Yn y pen draw, mae penderfynu ar gyfradd osgoi 'briodol' yn fater o farn broffesiynol, wedi'i seilio ar arbenigedd a chan ystyried yr holl ffactorau perthnasol, gan gynnwys nodweddion biolegol yr adar dan sylw. Mae'n fater y gallai arbenigwyr rhesymol anghytuno arno'n rhesymol.

(v) Ni all cyfradd osgoi uwch na 95% wedi'i seilio ar arsylwadau mewn datblygiad penodol[943] gael ei hallosod yn syml i ddatblygiadau aráe llanw eraill fel mater o gyffredinolrwydd. Fel yr amlygwyd yn Adroddiad Cyflwr y Wyddoniaeth 2020 yn 3.6.2, mae ymchwil gan Waggitt et al (2017) yn awgrymu y gallai'r defnydd a wneir gan rywogaethau o amgylcheddau ffrwd lanw fel cynefin amrywio'n fawr rhwng safleoedd datblygu.[944] Mae'n nodedig, yn hynny o beth, bod Adroddiad Monitro Amgylcheddol Bl3 ar gyfer Aráe Llanw Shetland[945] - y dibynnodd Dr Grant arno yn ei wrthbroflen fel sefyllfa lle y defnyddiwyd cyfradd osgoi 98% yn yr HRA ar gyfer cam yn y dyfodol – yn amlygu bod yr arolygon golygfan wedi dangos presenoldeb isel o adar plymio yn Swnt Bluemull, gyda phresenoldeb is fyth yn yr ardal yn union o amgylch y tyrbinau, a bod y canlyniadau'n dangos tebygolrwydd o gysylltiad agos rhwng adar sy'n plymio, a bod risg effeithiau amgylcheddol negyddol yn isel iawn.

---

939 Ceir yr arweiniad mwyaf eglur yn adran 2.4 Canllawiau SNH (Cyf: MDZ/F19) sy'n argymell y dylai amrediad diofyn o gyfraddau osgoi gael ei gymhwyso i ganlyniadau modelu ERM a CRM i gynhyrchu ystod o amcangyfrifon o gyfraddau gwrthdrawiad, ac mae'n datgan, "*Nid yw'r argymhelliad hwnnw'n awgrymu unrhyw farn am briodoldeb unrhyw un o'r cyfraddau osgoi hyn i unrhyw rywogaethau: dylid eu defnyddio fel sail i drafod y lefel osgoi y mae'n fwyaf priodol ei disgwyl yng ngoleuni'r wybodaeth fwyaf cyfredol.*"

940 Gweler, er enghraifft, §5.11-15 Proflen Dystiolaeth wedi'i Diweddaru Dr McCluskie; ES Pennod 11 §147 (MDZ A31.11); 'Adolygiad o risg bosibl gwrthdrawiad rhwng dyfeisiau ffrwd lanw a mamaliaid môr', ABPMer 2020 §5.2 (MDZ F1.52);

941 Mae'r RSPB yn amlygu'n benodol, yn y cyd-destun hwn, yr adroddiadau yn Cook *et al* (2014) ar yr amrediad o gyfraddau osgoi a ddefnyddiwyd (er nad oeddent bob amser wedi'u derbyn gan benderfynwyr) wrth fodelu risg gwrthdrawiad ar gyfer 35 o ffermydd gwynt ar y môr a ganiatawyd neu a gynigiwyd. Atodiad 9 proflen Dr McCluskie, tudalen fewnol 26 (PDF tud.242 yn 282).

942 Dr McCluskie yn ystod croesholi ar 3 Chwefror 2021

943 Yn benodol, Aráe Llanw Shetland – a drafodir ym mhara. 4.3 gwrthbroflen Dr Grant

944 Atodiad 34 i broflen Dr McCluskie, tudalen fewnol 50 (PDF tud.1149 ar 1180)

945 Atodiad 25 i broflen Dr McCluskie, tudalen fewnol 12 (PDF tud.915 ar 927).

571. Derbyniodd Dr Grant yn deg iawn yn ystod croesholi nad oedd yn bosibl bod yn "*sicr*" y byddai cyfradd osgoi uwch yn cael ei sefydlu fel y bo'n briodol (er, i fod yn deg â Dr Grant, gwahaniaethodd hefyd rhwng "sicrwydd" a "hyder"). Fodd bynnag, mae'r RSPB yn honni, am y rhesymau a esboniwyd gan Dr McCluskie yn ei dystiolaeth, na ellir tybio'n hyderus y bydd modd defnyddio cyfradd osgoi uwch,[946] yn enwedig yn ystod camau cynharach y Prosiect.[947]

572. O ran monitro, fel y mae Dr McCluskie yn amlinellu ym mhara. 8.4 ei broflen wedi'i diweddaru, mae ef a'r RSPB "*yn llwyr gefnogi'r gwaith monitro ac ymchwilio hollbwysig a gynigir, os yw'n gyflawnadwy, gan y byddai'n cynyddu ein dealltwriaeth o sut mae adar môr yn rhyngweithio â dyfeisiau llanw a sut mae'r dyfeisiau hynny'n effeithio arnynt. Byddai'r dystiolaeth y gellid ei chasglu, pe byddai'r cynnig hwn yn symud ymlaen, yn rhoi eglurder y mae mawr angen amdano ynglŷn â sut, ac os, gellir lleoli'r dechnoleg hon, gan gynyddu sicrwydd i ddatblygwyr a buddsoddwyr ar yr un pryd â sicrhau bod natur a'r amgylchedd yn cael eu diogelu*".

573. Y mater allweddol, fodd bynnag, yw p'un a yw'r dulliau monitro a gynigir yn "gyflawnadwy". Ymdrinnir â monitro ym mhara.(au) 5.20-5.24 a phara.(au) 8.16-32 proflen wedi'i diweddaru Dr McCluskie a phara.(au) 12-18 gwrthbroflen Dr McCluskie. Trafodwyd hyn yn fanwl iawn yn ystod tystiolaeth lafar:[948] er enghraifft, rhoddodd Dr McCluskie esboniad manwl o'r prosesau sy'n gysylltiedig â thagio adar i gael data o dagiau GPD / TDR, a chyfyngiadau posibl[949] y data y gellir ei gael o sampl wedi'i chyfyngu i gyfnod byr yn ystod y tymor bridio.[950] Fodd bynnag, roedd y ddadl allweddol yn ymwneud â monitro rhyngweithiadau agos / gwrthdrawiadau uniongyrchol. I grynhoi safbwynt yr RSPB yn hynny o beth:

(i) Bydd monitro rhyngweithiadau agos yn hollbwysig i ddeall, a gallu asesu, sut mae adar sy'n plymio a'r dyfeisiau llanw yn rhyngweithio.[951] Felly, mae unrhyw awgrym efallai na fydd hyn yn rhan o'r strategaeth fonitro yn ystod y cam lleoli cyntaf yn achos pryder.[952]

(ii) Mae cryn ansicrwydd ynglŷn ag argaeledd a/neu effeithiolrwydd y technolegau yr amlygwyd eu bod yn cael eu hystyried yn yr oEMMP drafft – p'un a'u hystyrir yn unigol neu ar y cyd.[953] Cydnabu Dr Grant yn deg yn ei brif

[946] Mae'r RSPB yn amlygu, yn hyn o beth, y cyfraddau osgoi dangosol a drafodir ym mhara.(au) 178 a 184 Pennod 11 yr ES wrth drafod gwelliannau posibl i'r modelau CRM / ERM a fyddai'n caniatáu dangos y byddai gwrthdrawiadau a ragfynegir ar lefel na fyddai'n achosi effeithiau niweidiol arwyddocaol yn ecolegol ar lursod a gwylogod ar gyfer y senarios 240MW a 40MW, yn y drefn honno.

[947] Gweler tystiolaeth Dr McCluskie, mewn dau ddyfyniad uchod.

[948] Er enghraifft, yn ystod ei brif dystiolaeth ar 3 Chwefror, esboniodd Dr McCluskie yn fanwl yr heriau sy'n gysylltiedig â chael gwybodaeth trwy dagio, a chyfyngiadau tebygol y data y gellid ei gael, ac archwiliwyd defnyddio fideo tanddwr / sonar yn fanwl yn ystod croesholi ar 4 Chwefror. Archwiliwyd hyn hefyd yn ystod prif dystiolaeth a chroesholi gyda Dr Grant ar 2 Chwefror 2021, ac, yn fyr, gyda Mr Fortune ar 3 Chwefror.

[949] A goblygiadau ar gyfer gwelliannau posibl i'r mewnbynnau i'r modelau CRM ac ERM a ddisgwylir yn yr oEMMP.

[950] Yn seiliedig ar y samplu a drafodir ym mhara. 6.11 proflen Dr Grant.

[951] Cydnabyddir hyn hefyd yn adroddiad Cyflwr y Wyddoniaeth 2020 ar dud. 52 (Atodiad 34 proflen Dr McCluskie, PDF tud.1149 ar 1182)

[952] Prif dystiolaeth Dr McCluskie

[953] Gweler, er enghraifft, tudalennau 29-30 Adolygiad o risg bosibl gwrthdrawiad rhwng dyfeisiau ffrwd lanw a mamaliaid môr ABPMer 2020 (MDZ/F15.2) ac Adran 3 Hutchings et al (2020)

dystiolaeth y byddai'r elfen hon o'r gwaith monitro arfaethedig "*yn camu mwy i fyd technoleg newydd, methodoleg ac ati*"; "*bod heriau technegol yn gysylltiedig â hyn, yn ddi-au*"; "*bod y dechnoleg heb ei phrofi i ryw raddau, ar hyn o bryd*"; ac "*fe allai fod cyfyngiadau ar yr hyn y mae'n bosibl ei gyflawni gyda hi*". Er tegwch i Dr Grant, tynnodd sylw hefyd at ddefnydd ohoni mewn safleoedd eraill, yr oedd o'r farn ei fod yn dangos allbwn o rywfaint o ddefnydd / rhywfaint o dystiolaeth o lwyddiant "*er bod hynny'n gyfyngedig*". Fodd bynnag, mae'r RSPB yn honni, ar sail y dystiolaeth sydd gerbron yr ymchwiliad, na ellir bod yn hyderus iawn, yn seiliedig ar gyflwr presennol datblygiad y technolegau hyn, y wybodaeth amdanynt a thystiolaeth o'u heffeithiolrwydd (neu fel arall), y byddent yn darparu dull effeithiol o fonitro effeithiau'r Prosiect, a allai fod yn arwyddocaol, ar adar sy'n plymio;

(iii) Efallai na fydd yn bosibl monitro trwy gamerâu tanddwr o ganlyniad i weledедd gwael o dan y dŵr a/neu afloywder.[954] Y gorau y gellir ei ddweud o ran safle'r cais yw nad yw wedi'i gadarnhau eto nad yw'r cyfyngiadau hynny'n berthnasol yma – yn wir, awgrymwyd eu bod yn berthnasol mewn drafftiau cynharach o'r oEMMP.[955]

574. Mae'r RSPB yn honni, felly, bod cryn ansicrwydd ynglŷn â ph'un a fydd y monitro agos sydd mor allweddol i ddeall, ac asesu, risg gwrthdrawiad yn gallu cael ei ddefnyddio yn y lleoliad hwn – yn y tymor byr, o leiaf. Er bod yr RSPB yn llwyr gefnogi'r cynnig ar gyfer monitro, os yw'n gyflawnadwy, cred fod angen gwneud mwy o waith, o leiaf, ar y dulliau monitro posibl arfaethedig gan nad oes digon o wybodaeth a thystiolaeth ynglŷn â sut bydd y dulliau hyn yn cael eu datblygu a'u cymhwyso. Felly, ar sail y dystiolaeth sydd gerbron yr ymchwiliad hwn ar hyn o bryd, mae'r RSPB yn honni bod cryn ansicrwydd, o leiaf, ynglŷn â ph'un a ellir disgwyl yn realistig i gamau disgwyliedig y Prosiect gael eu lleoli, ac i ba raddau.

<u>*Casgliad*</u>

575. Mae'r RSPB yn ailadrodd ei bod yn llwyr gefnogi a chydnabod yr angen i gynhyrchu mwy o ynni adnewyddadwy fel rhan o ystod o fesurau i fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd. Nid yw'n gwrthwynebu lleoli dyfeisiau llanw ynddo'i hun. Nid yw ychwaith yn gwrthwynebu ymagwedd fesul cam at brosiect, mewn egwyddor – fel yn achos caniatâd *Meygen*, er enghraifft.[956] Mae'n cydnabod, ac yn sylweddoli, mai'r unig ffordd o gael tystiolaeth empirig i lywio asesiad risg yw trwy leoli dyfeisiau, ac mae'n croesawu'r dystiolaeth a fyddai'n cael ei chasglu o'r gwaith monitro a'r gwaith ymchwil a gynigir mewn perthynas â'r Prosiect, pe byddai'n gyflawnadwy.

576. Fodd bynnag, gellir datgan ei gwrthwynebiad i'r Prosiect presennol yn fyr. Mae'r Prosiect hwn yn rhy fawr, yn rhy fuan, ar adeg pan fo'r dechnoleg a'r ddealltwriaeth o effeithiau ar adar sy'n plymio (a'r offer i'w hasesu) ar gam cynnar, ac mae'r

---

"Adolygiad o ddata fideo tanddwr a gasglwyd o amgylch tyrbinau ffrwd lanw gweithredol" (Atodiad 19 proflen dystiolaeth Dr McCluskie, PDF 633 ar dud. 657) (y cyfeiriodd Dr McCluskie ati yn ystod XIC) ac esboniad Dr McCluskie yn ei dystiolaeth lafar o anawsterau ceisio cadarnhau cysylltiad sonar / hydroacwstig trwy (er enghraifft) arolwg golygfan, yn enwedig o ystyried y pellteroedd sy'n debygol o fod yn berthnasol yn y lleoliad hwn.

[954] Gweler hefyd yn y cyd-destun hwn tud.52 Adolygiad ABPMer (2020) (Cyf: MDZ/F15.2)

[955] Gweler tud.38 fersiwn 7 yr oEMMP drafft (Cyf: Dogfen Ymchwiliad – 063)

[956] Cyf: Dogfen Ymchwiliad – 083

ansicrwydd ynglŷn ag argaeledd ac effeithiolrwydd mesurau monitro a lliniaru yn rhy fawr.

577. At hynny, o ystyried yr ansicrwydd ynglŷn ag asesu risg gwrthdrawiad, ac effeithiolrwydd (neu fel arall) y dulliau monitro posibl a gynigir, mae'r RSPB yn honni ei bod yn amheus, o leiaf, p'un a ellir – ac i ba raddau y gellir – disgwyl yn realistig i'r Prosiect gael ei leoli y tu hwnt i'r cam cyntaf dangosol, a hyd at y capasiti llawn y ceisir caniatâd ar ei gyfer.

578. Felly, mae'r RSPB yn honni y byddai wedi bod yn fwy priodol petai cynllun llai wedi cael ei gyflwyno yn y lle cyntaf i ganiatáu i'r dechnoleg a'r dulliau monitro a lliniaru gael eu hasesu'n fwy trwyadl, ac i adolygu eu heffeithiolrwydd cyn ceisio caniatâd i leoli hyd at 620 o ddyfeisiau. O ganlyniad, mae'n parhau i wrthwynebu'r Gorchymyn arfaethedig.

**Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau ("MCA")** [957]

579. Cylch gwaith yr MCA o ran datblygu ynni adnewyddadwy ar y môr yw sicrhau bod diogelwch mordwyo a gwasanaeth Chwilio ac Achub yn cael eu gwarchod, wrth i gynnydd gael ei wneud tuag at dargedau'r llywodraeth ar gyfer ynni adnewyddadwy. Mae'r MCA yn fodlon ar yr achlysur hwn bod yr Asesiad Risg Mordwyo ("NRA") wedi cael ei gynnal yn unol â chanllawiau cyhoeddedig yr MCA. Mae'n bwysig nodi bod hyn yn cyfeirio at y broses a gynhaliwyd ac nid yw, o reidrwydd, yn gwarantu y derbynnir canlyniadau'r NRA. Y sgorau risg a'r casgliad y bydd y risg yn oddefadwy yw'r hyn a heriwyd gan randdeiliaid eraill ynglŷn â diogelwch mordwyo a diogelwch defnyddwyr hamdden.

580. Mae natur yr archwiliad hwn yn golygu nad oedd y Gorchymyn caniatâd a wnaed o dan y Ddeddf Trafnidiaeth a Gweithfeydd (TWA) a'r drwydded forol o dan Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009 wedi cael eu harchwilio ar yr un pryd. Fel y cyfryw, nid yw ein gofynion ar gyfer amodau ar ôl rhoi caniatâd wedi cael eu trafod gyda'r Ymgeisydd na CNC. Mae hyn yn rhoi'r MCA dan anfantais, a'r goblygiad yw nad ydym yn llwyr fodlon ar y cam hwn y bydd gan y safle'r rheolaethau risg a'r systemau rheoli angenrheidiol i sicrhau gweithrediad diogel drwy gydol oes yr MDZ.

581. Gan dybio y bydd caniatâd datblygu'n cael ei roi, bydd mwy o gyfrifoldeb yn cael ei osod ar CNC i sicrhau bod y risgiau'n dderbyniol yn ystod y cais am drwydded forol ar gyfer y safle cyfan a cheisiadau am drwydded forol ar gyfer araeau penodol. Mae gan yr MCA bryderon o hyd ynglŷn â diogelwch defnyddwyr hamdden, ac mae'n disgwyl i'r un pryderon gan randdeiliaid gael eu codi yn ystod yr ymgynghoriadau i ddod ynglŷn â'r drwydded forol. Fodd bynnag, mae'r MCA yn awyddus i drafod rheolaethau risg priodol gyda'r Ymgeisydd a rhanddeiliaid perthnasol mewn perthynas â'r drwydded forol ar gyfer y safle cyfan a chynigion dilynol ar gyfer araeau llanw, ar yr amod bod yr Ymgeisydd yn fodlon parhau â'r trafodaethau hyn. Mae'n rhaid cydnabod efallai na fydd unrhyw fesur rheoli risg a gynigir gan yr MCA yn cyd-fynd â'r rhai hynny a gytunwyd yn y Gorchymyn neu efallai na fydd yn ymddangos yn gyson â nhw. Bydd nodweddion yr araeau prawf arfaethedig a chynnwys yr NRAs penodol i aráe yn pennu'r rheolaethau risg mwyaf priodol ar gyfer diogelwch mordwyo a defnyddwyr hamdden.

[957] Mae'r sylwadau hyn i gloi wedi'u cynnwys yng Nghyf: Dogfen Ymchwiliad – 149

582. Yn ddarostyngedig i'r uchod, mae'r MCA yn credu y gallai fod yn bosibl bodloni pryderon rhanddeiliaid mordwyo ac y gall y risgiau fod yn dderbyniol neu'n oddefadwy (os ydynt mor isel ag sy'n rhesymol ymarferol ("ALARP")).

**Tŷ'r Drindod**

583. Tŷ'r Drindod yw'r Awdurdod Goleudai Cyffredinol ("GLA") sy'n gyfrifol am oleudai a chymhorthion mordwyo morol o amgylch y morlin a fyddai'n cynnwys yr MDZ. I ddechrau, mynegodd Tŷ'r Drindod bryderon ynglŷn ag effaith y gwaith arfaethedig ar y gallu i fordwyo o amgylch goleudy Ynys Lawd (Cyf: OBJ026).

584. Mynegodd sylwadau dilynol bryderon ynglŷn â: chyfyngiadau posibl ar fordwyo o fewn yr MDZ o ganlyniad i fesurau lliniaru risg ychwanegol ac ansicrwydd ynglŷn â pha rai fyddai'n cael eu datblygu yn rhan o'r gwaith; yr angen am NRA arall cyn lleoli pob 'safle' yn yr MDZ; a, chwmpas a geiriad amodau (Cyf:OBJ076). Mae amodau mordwyo safonol y cytunwyd arnynt rhwng Tŷ'r Drindod, y Sefydliad Rheoli Morol a'r MCA wedi'u hatodi i Gyf: OBJ076. Mae Tŷ'r Drindod hefyd wedi rhoi ei farn am led y bandiau melyn a fyddai'n briodol ar arwyneb dyfeisiau sy'n codi o'r dŵr (Cyf: Dogfen Ymchwiliad – 015).[958]

585. Ac yntau'n brif barti yn yr ymchwiliad, lluniodd Tŷ'r Drindod Ddatganiad Achos, dyddiedig 17/09/2020 (Cyf: MDZ/N13). Mae'n cynnwys y crynodeb canlynol o'r achos, sef bod Tŷ'r Drindod:

(i) O'r farn bod diffyg eglurder ar hyn o bryd ynglŷn â'r rhyng-gysylltiad rhwng y Gorchymyn drafft a chais cysylltiedig yr Ymgeisydd am Drwydded Forol. Yn arbennig, p'un a fyddai amodau sy'n ymwneud â mordwyo'n cael eu cynnwys yn y Drwydded Forol ac, os felly, telerau'r amodau hynny a sut byddent yn rhyngweithio â Rhan 2 y Gorchymyn;

(ii) Yn dymuno bod gofyniad am asesiadau risg mordwyo ychwanegol ar gyfer y safle a dyfeisiau penodol yn cael ei gynnwys yn Erth. 21 y Gorchymyn drafft.

(iii) Hefyd yn dymuno bod y cynllun ar gyfer diogelwch mordwyo yn cynnwys holl ofynion cynllun cymhorthion mordwyo, sy'n nodwedd safonol o drwyddedau morol tybiedig diweddar yn y gyfundrefn DCO ac, ym mhrofiad Tŷ'r Drindod, yn gweithredu'n dda yn ymarferol;

(iv) Yn pryderu am y parthau diogelwch arfaethedig yn Erth. 43 y Gorchymyn drafft ac absenoldeb unrhyw eithriad i'r troseddau ym mharagraff (1) i Dŷ'r Drindod arfer ei swyddogaethau fel GLA;

(v) Yn pryderu hefyd am drefniadau mynediad i Oleudy Ynys Lawd yn y dyfodol. Yn arbennig, nid yw'n ymddangos bod y trefniadau mynediad amgen a drafodwyd gyda'r Ymgeisydd wedi'u sicrhau gan y Gorchymyn drafft ar hyn o bryd; a

958 [Nodyn gan yr Arolygydd: Mae CNC yn gweinyddu Trwyddedu Morol ar ran Llywodraeth Cymru, ac mae hyn yn cynnwys gosod amodau cysylltiedig. Roedd cyfrifoldebau rheoleiddiol ar gyfer y gwaith arfaethedig yn destun sesiwn bord gron yn yr ymchwiliad ac ymdrinnir â nhw yn fy nghasgliadau].

(vi) Bod ganddo nifer o sylwadau ac awgrymiadau ychwanegol ynglŷn â geiriad presennol y Gorchymyn drafft. Tynnir sylw'n benodol at sylwadau Tŷ'r Drindod mewn perthynas ag Erth. 49 (Cyflafareddu).

586. Mae Datganiad Tir Cyffredin rhwng yr Ymgeisydd a Thŷ'r Drindod wedi cael ei ddarparu, dyddiedig 02/11/2020 (Cyf: MDZ/L9). Mae'n cadarnhau bod y materion sydd i'w cytuno o hyd rhwng y ddau barti yn dibynnu ar amodau y byddai CNC yn eu hystyried wrth baratoi unrhyw Drwydded Forol ar gyfer y gwaith arfaethedig. Er y cyfrannodd Tŷ'r Drindod at sesiynau'r ymchwiliad, o ystyried y materion yr ymdriniwyd â nhw yn y Datganiad Tir Cyffredin a'r safbwyntiau a gofnodwyd mewn perthynas â nhw, ni wnaeth Tŷ'r Drindod unrhyw sylwadau i gloi.

587. Tynnodd Tŷ'r Drindod ei wrthwynebiad i'r cais yn ôl cyn y vPIM ym mis Tachwedd 2020 (Cyf: Tynnu'n Ôl – 012), ond mynychodd a chyfrannodd at sesiynau'r ymchwiliad ar faterion a oedd yn berthnasol i'w fuddiannau.

**Y Gymdeithas Hwylio Frenhinol (RYA)**

588. Fel yr amlinellir ym mharagraffau agoriadol ein Datganiad Achos:

> "*Mae'r Gymdeithas Hwylio Frenhinol yn cefnogi prosiectau ynni adnewyddadwy yn frwd oherwydd cydnabyddwn eu bod yn rhan hanfodol o'n llwybr tuag at statws di-garbon. Nid ar chwarae bach y gwrthwynebwn brosiectau, a dim ond pan fydd pryderon diogelwch mordwyo sylweddol yn deillio o'r cynigion, a bod y pryderon hynny'n cael eu mynegi gan ein haelodau a'n clybiau lleol.*"

589. Roedd ein gwrthwynebiad i'r prosiect hwn wedi'i seilio ar bedwar mater allweddol:

(i) Nid oedd yr opsiynau dylunio wedi cael eu cwblhau'n derfynol, a oedd yn golygu ei bod yn amhosibl asesu effaith lawn y prosiect ar weithgarwch rhwyfo hamdden;

(ii) Nid oedd yr Asesiad Risg Mordwyo (a'i Atodiad) a'r Asesiad Ffiniau Rhyngweithiol yn cydymffurfio ag MGN543;

(iii) Roedd yn ymddangos bod yr Asesiad Risg Mordwyo (a'i Atodiad) a'r Asesiad Ffiniau Rhyngweithiol yn dibynnu'n gyfan gwbl ar ddata system adnabod awtomatig (AIS) a radar i ddarparu gwybodaeth am weithgarwch rhwyfo yn y cyffiniau, sy'n golygu bod perygl anwybyddu'r gyfran sylweddol o gychod hamdden nad oes ganddynt AIS ac sydd â silwét radar bach; ac

(iv) Nid oedd y Datganiad Amgylcheddol yn ystyried holl effeithiau posibl y prosiect ar weithgarwch rhwyfo hamdden.

590. Yn ystod yr ymchwiliad, eglurwyd na fyddai gwneud y gorchymyn yn disodli'r broses trwyddedu morol statudol, a fyddai'n ystyried manylion yr opsiynau dylunio ar gyfer y prosiect, felly mae ein gwrthwynebiad yn hyn o beth wedi diflannu.

591. Yn yr un modd, mae'r MCA wedi cadarnhau ers hynny ei bod o'r farn bod yr Ymgeisydd wedi gwneud popeth a oedd yn ofynnol ganddo o dan MGN543, felly mae ein gwrthwynebiad yn hyn o beth wedi diflannu hefyd.

592. Ym mis Ionawr 2021, yn ystod y bwlch yn yr ymchwiliad, rhoddodd yr Ymgeisydd dystiolaeth i ni fod arolwg gweledol o draffig llongau wedi cael ei gynnal gan

gontractwr yr Ymgeisydd yn ystod mis Awst a mis Medi 2017. Amlygwyd pwysigrwydd yr arolwg gweledol gan gontractwr yr Ymgeisydd ei hun, a wnaeth y sylw canlynol am y llongau a welwyd yn ei arolwg:

"*Nid oedd y targedau hyn yn darlledu ar AIS ac ni ellid eu holrhain yn ddibynadwy ar radar am ran o'u taith o leiaf, a hynny'n bennaf oherwydd eu bod yn fach*".

593. Nid yw'n glir i ni sut y cynhwyswyd data'r arolwg gweledol yn asesiadau amrywiol yr Ymgeisydd o draffig llongau yn y pen draw, gan na chyfeirir ato yn unman. Nid yw'n glir ychwaith sut mae'r Ymgeisydd wedi gwahaniaethu rhwng llongau hamdden lleol a chenedlaethol i ystyried defnydd amwynder lleol gan longau na ellir eu hadnabod yn rhwydd gan AIS a radar.

594. Yn ogystal, nid yw'n glir i ni sut oedd yr Ymgeisydd wedi asesu wedi hynny bod y risgiau i draffig llongau hamdden "mor isel ag sy'n rhesymol ymarferol" oherwydd, hyd y gwyddom ni, nid yw'r fethodoleg a'r algorithm a ddefnyddiwyd gan yr Ymgeisydd ar gyfer yr asesiad hwn wedi cael eu hadolygu ar gyfer llongau hamdden gan yr MCA nac wedi bod yn destun adolygiad cymheiriaid gan unrhyw un arall yng nghyd-destun y cais hwn am orchymyn. Er hynny, cydnabyddwn bellach fod arolwg gweledol wedi cael ei gynnal.

595. Fodd bynnag, mae ein pedwerydd mater allweddol yn achos pryder o hyd, am ddau reswm.

596. Yn gyntaf, fel yr amlinellwyd yn Natganiad Achos yr MCA a'r Datganiad Tir Cyffredin rhwng yr MCA a'r Ymgeisydd (Cyf: MDZ/L8), mae'r MCA yn argymell y dylai safbwyntiau defnyddwyr hamdden gael eu hystyried ac y dylai'r Ymgeisydd ddod i gytundeb â'r RYA a defnyddwyr lleol, yn enwedig o ran mordwyo llwybr y glannau gan longau hwylio.

597. Mynegwyd yn ein Datganiad Achos y dylai lled llwybr y glannau gael ei gynyddu i rhwng 1 a 2 fôr-filltir yn glir o eirwyau môr a phentiroedd. Credwn o hyd fod addasiad o'r fath i'r MDZ yn angenrheidiol er mwyn i longau hwylio allu teithio'n ddiogel trwy lwybr y glannau. Mae'r RYA o'r farn y gallai hyn gael ei gyflawni trwy ddefnyddio araeau tanddwr o fewn ffin bresennol yr MDZ.

598. Yn ail, nodwyd yn y Datganiad Amgylcheddol a gyflwynwyd gan yr Ymgeisydd y byddai materion amwynder yn derbyn sylw yn yr Atodiad i'r Asesiad Risg Mordwyo (Cyf: MDZ/11), ond, yn wrthgyferbyniol, mae'r NRAA yn datgan na ymchwilir i faterion amwynder yn ei asesiad. Mae'r gwrthddywediad hwn yn awgrymu nad yw effaith y prosiect ar amwynder rhwyfo hamdden wedi cael ei hasesu'n ffurfiol o gwbl.

599. Goblygiad hyn yw na roddwyd ystyriaeth i golli dŵr agored a ddefnyddir ar gyfer hamdden (y llwybr), ynghyd â cholli cyfleoedd hamdden sy'n gysylltiedig â hyfforddiant, rhwyfo cyffredinol, rasio a hwylio, a'r clybiau hwylio cysylltiedig. Yr effaith na ystyriwyd yw y bydd colli man agored hamdden a oedd ar gael yn flaenorol yn lleihau cyfranogiad gan ddefnyddwyr a chyfleoedd hamdden ar gyfer Ynys Môn. Yna, byddai'r effaith hon yn arwain at oblygiadau economaidd i'r diwydiant hamdden morol yn yr ardal yn sgil colli refeniw (ffïoedd aelodaeth, prynu offer, ffïoedd lansio neu angori, ac ati) neu oherwydd bod y gymuned rwyfo'n credu bod yr MDZ a'i amgylchoedd yn anniogel i'w defnyddio ac yn osgoi'r ardal.

600. Yn y sesiwn Bord Gron ar Faterion Morol (Diwrnod 11, 01/02/2021) honnodd yr Ymgeisydd fod yr Asesiad Risg Mordwyo ("NRA") blaenorol wedi cael ei ddisodli, i

bob pwrpas, gan yr Atodiad i'r NRA (Cyf: MDZ/11) oherwydd bod Parth Arddangos Morlais yn "gynllun diwygiedig". Er hynny, mae'r Ymgeisydd wedi ceisio dibynnu ar ddatganiadau a wnaed gan swyddogion a gwirfoddolwyr yr RYA ynglŷn ag effaith y cynllun ar amwynder rhwyfo hamdden, er gwaethaf y ffaith y gwnaed y datganiadau hyn cyn i'r ES gael ei gyflwyno (Cyf: MDZ/A25) yn 2019 a'r NRA a'r NRAA yn 2020. O ystyried yr ymgynghori cyfyngedig i amlygu peryglon yn yr NRAA ar gyfer y cynllun diwygiedig hwn, mae'r RYA o'r farn bod ein gwrthwynebiad (Cyf: FEI-OBJ013), Datganiad Achos (Cyf: MDZ/N2), Proflen Dystiolaeth (Cyf: POE008) a Gwrthbroflen (Cyf: RPE001) yn disodli unrhyw ddatganiadau anghyson a wnaed gan swyddogion a gwirfoddolwyr yr RYA cyn i'r cynllun gael ei ddiwygio (yn 2020).

601. Felly, mae'r RYA yn parhau i gredu y bydd gosodiad presennol yr MDZ, ynghyd â chulni sianel arfaethedig y glannau ac agosrwydd peryglon naturiol (y geirwyau môr) a mannau tagfeydd o amgylch Ynys Lawd a Phenrhyn Mawr, yn gwneud ardal sydd eisoes yn beryglus i gychod hamdden yn fwy peryglus.

602. Fodd bynnag, mae'r RYA hefyd yn parhau i gredu y byddai ei gwrthwynebiad yn hyn o beth yn diflannu petai lled llwybr y glannau'n cael ei gynyddu i rhwng 1 a 2 fôr-filltir yn glir o eirwyau môr a phentiroedd.

**Clwb Canŵio Eryri ("SCC")** a **Chanŵ Cymru**

603. Grŵp o wirfoddolwyr ydym ni sy'n cynrychioli Clwb Canŵio Eryri, sef y mwyaf o'r clybiau canŵio sy'n lleol i Gaergybi, a Chanŵ Cymru, sef y Corff Llywodraethu Cenedlaethol ar gyfer chwaraeon padlo yng Nghymru. Rydym ni i gyd yn gaiacwyr môr, ond nid oes gennym gyllid, profiad o Ymchwiliadau Cyhoeddus na mynediad at gynrychiolaeth neu gyngor cyfreithiol. Hoffem ddiolch i'r Arolygydd a PINS am eu hamynedd a'u goddefgarwch wrth i ni gyflwyno ein hachos, a fu'n anfedrus ar adegau.

604. O fewn y casgliad o ddogfennau a gyflwynwyd gennym i'r ymchwiliad, amlinellir ein hachos yn ein Datganiad Achos (Cyf: MDZ/N12) a rhoddir rhywfaint o fanylion ychwanegol yn ein hymateb i'r Datganiadau Achos a wnaed gan yr Ymgeisydd a phrif bartïon eraill (Cyf: MDZ/N21). Yn ystod sesiynau'r Ymchwiliad, gwnaethom ddatganiad agoriadol (Cyf: Dogfen Ymchwiliad – 010) a chyflwyno prif bwyntiau ein hachos mewn tair sesiwn:

- Diwrnod 5, 10 Rhagfyr 2020 – Materion economaidd-gymdeithasol – Cyf: Dogfen Ymchwiliad – 020
- Diwrnod 6, 11 Rhagfyr 2020 – Morlun
- Diwrnod 10, 18 Rhagfyr 2020 – Materion morol (mordwyo) – Cyf: Dogfen Ymchwiliad 026 a Chyf: Dogfen Ymchwiliad – 027
- Diwrnod 11 – 1 Chwefror – Materion morol (parhad) – Cyf: Dogfen Ymchwiliad – 094[959]

605. Mae amryw wrthbroflenni a gwrth-wrthbroflenni hefyd sy'n manylu ar drafodaethau rhyngom ni a'r Ymgeisydd yn nogfennau'r Ymchwiliad.

[959] Cadarnhawyd rhif y ddogfen ar ôl y sylwadau i gloi

606. Mae’r Ymgeisydd yn cyflwyno, am y tro cyntaf, cynnig a fyddai’n lleoli gosodiad ynni adnewyddadwy alltraeth (“OREI”) mawr yn agos i’r arfordir ac o fewn ardal a ddefnyddir yn helaeth ar gyfer hamdden. Mae Caergybi yn ganolfan ragoriaeth a gydnabyddir yn rhyngwladol ar gyfer caiacio môr sy’n canolbwyntio ar y tri ffrydlif llanw gerllaw ffin glannau’r MDZ. Mae’r gweithgaredd hwn yn cynnal nifer o fusnesau tywys a hyfforddi caiacio lleol sy’n arbenigo mewn sgiliau lefel uwch, yn ogystal â busnesau lletygarwch lleol.

607. Crynhown ein hachos yn ôl difrifoldeb y canlyniadau i weithgareddau caiacio ac i ddangos sut mae’r rhain yn rhaeadru i effeithio ar y sector cyfan. Fodd bynnag, er hwylustod cyfeirio, mae’r penawdau’n adlewyrchu teitlau’r sesiynau Bord Gron y’u trafodwyd ynddynt.

<u>Materion morol – mordwyo (Diwrnod 10 ac 11)</u>

608. Dyma’r mater sy’n achosi’r pryder mwyaf i gaiacwyr gan ei fod yn effeithio’n uniongyrchol ar ddiogelwch bywyd yn ogystal ag amharu, o bosibl, ar y gallu i fordwyo a defnyddio nodweddion fel llifoedd, geirwyau môr a throlifau.

*Perygl i fywyd*

609. Roedd ein Datganiad Achos wedi’i seilio ar y dybiaeth anghywir y byddai’n amlwg i unrhyw un sy’n gyfarwydd â mordwyo a diogelwch morol y byddai araeau o ddyfeisiau sy’n codi o’r dŵr yn berygl angheuol o bosibl i longau sy’n mynd gyda’r llif, ac yn enwedig i gychod bach fel caiacau. Fodd bynnag, nododd yr Ymgeisydd na fyddai caiacau sydd mewn trafferthion yn yr ardal lle mae’r ffrydlifoedd llanw’n dod i ben, lle maen nhw’n fwyaf tebygol o droi drosodd, yn mynd i mewn i’r aráe ac nad oedd perygl i fywyd. Yn y sesiwn Bord Gron ar Ddiwrnod 11, gwnaethom gyflwyno ein hachos yn fanwl, gam wrth gam (Cyf: Dogfen Ymchwiliad – 094), i ddangos natur a difrifoldeb y risgiau i gaiacwyr o ganlyniad i ddyfeisiau sy’n codi o’r dŵr ar draws ardal gyfan yr MDZ. Mae’r Ymgeisydd bellach yn derbyn y bydd caiacau’n mynd i mewn i’r MDZ, ond mae’n honni bod caiacio eisoes yn beryglus ac na fyddai’r MDZ yn cynyddu’r perygl o droi drosodd a gwrthdaro sydd eisoes yn bresennol. Gwrthbrofwn y sylwadau hyn:

(i) Nid yw caiacio môr yn gamp ‘risg uchel’. Mae caiacwyr môr cymwys wedi’u hyfforddi’n dda ac yn meddu ar y cyfarpar priodol ac, yn gyffredinol, maen nhw’n cymryd risgiau a ystyriwyd yn ofalus, sy’n cael eu rheoli ac y gellir ymdopi â nhw. Gwelir tystiolaeth o hyn yn y nifer isel o alwadau i’r RNLI yn ymwneud â grwpiau o gaiacwyr o gymharu â nifer y caiacwyr yn yr ardal. Daw tystiolaeth ychwanegol o adroddiadau o ddigwyddiadau go iawn a reolwyd yn llwyddiannus, gyda’r sawl a oedd mewn trafferth yn cael ei ddiogelu a’i dynnu o’r dŵr gan y grŵp cymheiriaid gyda chymorth yr RNLI.

(ii) Mae gosod dyfeisiau sy’n codi o’r dŵr yn cyflwyno peryglon newydd sylweddol mewn ardal o’r môr lle na cheir risgiau gwrthdaro a lle y gall grwpiau cymwys reoli senarios achub ynddi’n ddiogel yn yr amodau presennol.

(iii) Rydym wedi dangos trwy esbonio cadwyn achosol fanwl, fel a ddefnyddir mewn asesiad risg mordwyo, sut y byddai digwyddiad yn ymwneud â’r anaf mwyaf cyffredin i badlwr yn datblygu pe byddai’r rhai sy’n achub yn gwrthdaro ag un o’r dyfeisiau arwyneb arfaethedig. Gellid rhagweld marwolaeth yn rhesymol o ganlyniad i ddigwyddiad o’r fath.

(iv) Yr unig fesur lliniaru a gynigiwyd gan yr Ymgeisydd ar gyfer y rhai hynny sydd mewn trafferthion ar y môr oedd awgrymu y gellid darparu modd i nofwyr fynd ar y dyfeisiau eu hunain fel y gallant weithredu fel lloches. Rydym wedi esbonio nad yw hyn yn ymarferol nac yn ddefnyddiol ac y gallai hyd yn oed ddenu pobl i berygl.

*Asesu risg yn yr NRA*

610. Rydym yn pryderu bod y gweithdrefnau a ddefnyddiwyd gan ymgynghorwyr yr Ymgeisydd wedi cuddio'r perygl i fywyd, y maen nhw eu hunain yn ei gofnodi fel 1 farwolaeth mewn 10 i 100 o flynyddoedd, o fewn sgôr risg gyffredinol isel. Mae'r Ymgeisydd wedi defnyddio'r canlyniad cyffredinol hwn i ddatgan ar gam nad yw'r prosiect yn cyflwyno unrhyw risg i fywyd. Derbyniwn nad yw ymchwilio i ddulliau'r asesiad risg yn fater i'r Gorchymyn na'r Ymchwiliad hwn. Felly, cyfeiriwn y materion hyn at yr MCA a nodwn, tan iddynt gael eu datrys er ein boddhad, nad ydym yn derbyn casgliadau'r asesiad risg mordwyo i'r graddau eu bod yn berthnasol i gaiacau môr.

*Ansawdd y data arolwg*[960]

611. Mae MGN543 yn rhoi rhywfaint o arweiniad ar gasglu data i lywio'r broses o asesu effeithiau ar fordwyo. Nid yw'r un o'r dulliau a ragnodwyd yn addas i gofnodi niferoedd a llwybrau caiacau. I lenwi'r bwlch hwn, mae'r Ymgeisydd wedi paratoi map yr honnir ei fod yn dangos llwybrau caiacau a lawrlwythwyd o 'Strava' (cofnod ar-lein cyhoeddus o lwybrau GPS) i'w ystyried. Mae'r map hwn yn gynrychioliad rhesymol o lwybrau caiacau cyffredin yn yr ardal, ond mae nifer o gafeatau sy'n golygu ei fod yn ffynhonnell annibynadwy o wybodaeth am gaiacio. Deuwn i'r casgliad bod angen gwneud mwy o waith i bennu nifer y caiacau a'r ardal o'r môr a ddefnyddir ar gyfer gwahanol weithgareddau. Yna, dylid defnyddio'r data hwn mewn asesiad risg mordwyol cynhwysfawr ar gyfer llongau hamdden ar draws yr MDZ.

*Lle ar y môr*

612. Gwnaethom ymgynghori â thywyswyr caiacau lleol ynglŷn â faint o le y mae arnynt ei angen ar y môr i weithio'n ddiogel. Ymatebodd un drwy ddweud bod y llwybrau a ddarparwyd gan yr Ymgeisydd yn cyd-fynd yn dda â'i 'ardal weithio' sydd wedi bod yn destun asesiad risg ar gyfer yr hyfforddiant y mae'n ei ddarparu i'w gleientiaid. Mae pob tywysydd yn cynnal ei asesiad ei hun ar sail natur y gweithgaredd y mae'n ei ddarparu a chymhwysedd ei gleientiaid. Er gwaethaf ein barn am ddefnyddio data 'Strava', gwnaethom gymryd cynrychioliad yr Ymgeisydd o 'lwybrau caiacau' a'i droshaenu ar ben y senario achos gwaethaf ar gyfer dyfeisiau ar yr wyneb. Dangosodd hyn y byddai caiacau'n mynd heibio 200m o'r dyfeisiau arfaethedig sy'n codi o'r dŵr yn y man agosaf. Yn ein barn ni fel caiacwyr profiadol, o ystyried effeithiau'r gwynt, ein pellter gweld cyfyngedig a'r diffyg hyder yn rhagfynegiadau'r model hydrodynamig, nid yw hyn yn ddigon o bell ffordd. Fodd bynnag, cyfeiriwn y mater at MCA ac arhoswn iddynt benderfynu ar bellter clirio diogel rhwng OREIau a llwybrau caiacau ac ardaloedd gweithio.

*Modelu hydrodynamig*[961]

[960] Gan gyfeirio at sleid 2 Cyf: Dogfen Ymchwiliad – 094
[961] Gan gyfeirio at sleidiau 14 ac 8 Dogfen Ymchwiliad – 094

613. Mae caiacwyr yn pryderu'n arbennig am ardal lannau'r MDZ lle y defnyddiwn nodweddion hydrodynamig ar raddfa fach. Awgrymodd archwiliad o'r wybodaeth o'r model hydrodynamig a ddarparwyd gan yr Ymgeisydd fod y model 2-D a ddefnyddiwyd yn amhriodol i asesu ymddygiad ar yr wyneb, neu effeithiau y tu allan i'r MDZ. Roedd hefyd yn camgyfleu nodweddion hysbys, yn enwedig yn ardal ffrydlif Penrhyn Mawr. Heb fynediad at fodelu priodol, mae gennym bryderon difrifol o hyd ynglŷn â cholli amwynder (parhau i fwynhau'r defnydd presennol) a diogelwch yn yr ardal rhwng yr MDZ a'r arfordir. Bydd unrhyw amwynder a gollir yn debygol o gael effaith negyddol ar fusnesau sy'n defnyddio'r ardal.

*Mordwyo caiacau yn y parth UKC 8m*[962]

614. Mae'r Ymgeisydd wedi honni y gall llongau bach, gan gynnwys caiacau, fynd trwy'r parth UKC 8m yn ddirwystr. Fodd bynnag, ni allai roi tystiolaeth ategol i ni pan ofynnwyd amdani. Nid yw ein chwiliadau ein hunain wedi gallu datgelu unrhyw astudiaethau yr adroddwyd arnynt ar y mater hwn ar gyfer tyrbinau unigol neu araeau. O ystyried ffiseg dŵr sy'n symud, awgrymir y dylid gwneud rhai newidiadau ac y gellid disgwyl i araeau weithredu fel riff mandyllog a allai ffurfio nodweddion newydd, er enghraifft geirwyau môr, a allai arwain at oblygiadau i gaiacau a chychod bach eraill sy'n teithio o fewn y parth UKC 8m. Mae angen astudiaethau ychwanegol, sy'n cynnwys modelu 3-D fwy na thebyg, i ddangos bod llongau bach yn gallu teithio'n ddiogel ac yn ddirwystr dros araeau o dyrbinau llanw o dan yr wyneb.

<u>Effeithiau economaidd-gymdeithasol (Diwrnod 5)</u>

615. Prif bryderon y gymuned caiacio môr yw diogelwch fel y'i mynegir mewn asesiadau risg teithiau, mynediad dirwystr i'r ardal a newidiadau posibl i nodweddion hydrodynamig ar wyneb y môr yn agos i'r arfordir. Os effeithir ar unrhyw un o'r rhain mewn ffordd negyddol, mae'r tywyswyr a'u cleientiaid yn asesu ei bod yn debygol y bydd gostyngiad mewn amwynder a defnydd o'r ardal, gan arwain at golli incwm i fusnesau tywys a'r sector lletygarwch sy'n gwasanaethu caiacwyr sy'n ymweld. Dylid nodi ein bod yn cydnabod egwyddor cydfodoli ac yn derbyn y byddai effeithiau negyddol yn anochel petai'r cynnig yn mynd yn ei flaen. Ein cais oedd y dylai effeithiau negyddol rhagweladwy gael eu lliniaru i'r graddau mwyaf posibl trwy ymgynghori a chynllunio'n ofalus, gan roi rhybudd o flaen llaw am unrhyw waith mawr a dull ar gyfer iawndal teg lle mae effeithiau negyddol yn anochel.

616. Ymdriniwyd â'r materion hyn yn adroddiadau ategol yr Ymgeisydd ar faterion economaidd-gymdeithasol a thwristiaeth (Cyf.(au): MDZ/H1 ac MDZ/H4). Yn ôl ein hasesiad ni, nid yw'r argymhellion a wnaed yn yr adroddiadau hyn yn bodloni'r safonau derbyniol ar gyfer asesiad economaidd-gymdeithasol, nid ydynt yn cynnwys darpariaeth ar gyfer ymgynghori â rhanddeiliaid lleol ac maen nhw'n cynnig gweithdrefnau anhryloyw ar gyfer penderfynu ar golli incwm ac iawndal. Mae Cyngor Sir Ynys Môn wedi gofyn am ddiwygiad i amod cynllunio arfaethedig 17 (Cyf: Dogfen Ymchwiliad – 098) i sicrhau yr ymgynghorir â rhestr o randdeiliaid lleol a enwyd. Os bydd cynnig IoACC yn cael ei dderbyn gan yr Ymgeisydd a bod busnesau caiacio môr yn cael eu cynnwys, byddem yn fodlon y gallai ein pryderon gael eu cynrychioli'n iawn a derbyn sylw wrth iddynt godi. Hebddo, mae ein gwrthwynebiad ar y sail y bydd y cynnig yn arwain at effeithiau ar incwm sy'n bygwth busnes yn parhau.

<u>Morlun (Diwrnod 6)</u>

[962] Gan gyfeirio at sleidiau 4, 5 a 6 Dogfen Ymchwiliad – 094

617. Roedd ein sylwadau ar y morlun yn canolbwyntio ar dri mater, fel yr amlinellir isod.

1) Pwyntiau asesu morlun annigonol yn y SILVA

618. Mae’n ymddangos bod yr asesiad morlun yn tueddu tuag at dderbynyddion ar y tir gan nad yw’r SILVA yn cynnwys unrhyw bwyntiau asesu morlun o fewn 2.4 km o’r MDZ.

619. Ymatebodd yr Ymgeisydd drwy ddweud bod ei ymgynghorwyr wedi cytuno ar leoliad y pwyntiau asesu morlun gyda Gwasanaeth Cynghori CNC. Er hynny, cydnabu’r Ymgeisydd fod yr effeithiau gweledol mwyaf ar y rhai hynny ar fwrdd llongau hamdden o fewn 2 km o elfennau’r MDZ sy’n codi o’r wyneb. Fodd bynnag, nid yw’r golled sylweddol hon o amwynder wedi’i hadlewyrchu mewn unrhyw fesurau lliniaru. Rydym wedi awgrymu y gallai hyn gael ei gywiro trwy ymestyn y diffiniad o dderbynyddion i gynnwys pobl ar longau hamdden yn Atodlen 2 y Cytundeb a.106 (Cyf: Dogfen Ymchwiliad – 079) a hwyluso rhyw fath o fesurau lliniaru addas trwy fewnosod y geiriau “a’r môr” yng nghymal 3.1.4 fel ei fod yn dweud “gwella mynediad cyhoeddus i’r tir a’r môr”.

620. Yn y sesiwn Bord Gron, nodwyd gennym hefyd y byddai dyfeisiau ar yr wyneb nid yn unig yn diraddio amwynder gweledol; gallai caiacau sy’n teithio ar hyd llwybr arferol fynd heibio mor agos â 200 m o ddyfeisiau ar yr wyneb, ac o’r pellter hwn byddai llawer o gaiacwyr yn eu gweld fel perygl bygythiol a gormesol.

2) Priodoldeb y marciau gweledol ar gyfer gosodiadau ar yr wyneb

621. Cytunwyd ar y rhain rhwng yr Ymgeisydd a Thŷ’r Drindod, ond mae gennym bryderon ynglŷn â’u priodoldeb i gaiacwyr sy’n mynd heibio.

622. Amlygodd Tŷ’r Drindod fod canllawiau IALA yn cynnwys pob llong sy’n mynd heibio ni waeth beth fo’i maint; a gwahoddodd ymgynghori â chynrychiolwyr caiacio ymhellach ynglŷn â marciau perygl priodol ar elfennau o’r MDZ sy’n codi o’r dŵr. O ganlyniad, nid oes penderfyniad eto ar farciau dyfais priodol ar gyfer caiacau sy’n mynd heibio.

3) Cynffonau ceblau ar y tir ar draeth Henborth

623. Byddai’r cynffonau ceblau hyn yn achosi ymwthiad gweledol o’u gosod ar wyneb traeth sy’n boblogaidd ymhlith caiacwyr fel man i aros i gael cinio.

624. Rydym hefyd yn pryderu y gallai strwythurau sy’n croesi’r blaendraeth rwystro glanio’n ddiogel ar y traeth. Mae caiacwyr yn defnyddio’r traeth i adael mewn argyfwng.

625. Mae’n ymddangos nad oedd Gwasanaeth Cynghori CNC yn gwybod bod y traeth yn cael ei ddefnyddio’n rheolaidd o’r môr. Ers y sesiwn Bord Gron, nodwn fod Cymal 5 newydd wedi cael ei ychwanegu at yr Amodau Arfaethedig ar gyfer Caniatâd Cynllunio Tybiedig (Cyf: Dogfen Ymchwiliad - 067) i fynnu bod IaACC yn cymeradwyo unrhyw wyriad oddi wrth yr opsiwn a ffefrir, sef Drilio Cyfeiriadol Llorweddol (HDD). Rydym yn fodlon y dylai’r darpariaethau hyn ddiogelu amwynder y traeth a gofynnwn i IoACC ymgynghori â chynrychiolwyr caiacio os na fydd HDD yn ymarferol.

<u>Safbwynt terfynol SCC a Chanŵ Cymru</u>

626. Ailadroddwn ein datganiad agoriadol, sef nad ydym yn gwrthwynebu datblygu ynni'r llanw yn y môr o amgylch Ynys Môn. Fodd bynnag, yn gyntaf, mae'n rhaid iddo fod yn ddiogel, a'r hyn a olygwn wrth hynny yw na ddylai gynyddu'r perygl i fywyd wrth fordwyo yn yr ardal. Yn ail, ac yn ysbryd cydfodoli, dylid ymdrechu i sicrhau bod defnyddiau (a defnyddwyr) sefydledig yn gallu parhau i fwynhau'r ardal, a bod mesurau lliniaru neu iawndal yn cael eu darparu pan fydd rhaid cwtogi ar hyn. Rydym yn parhau i wrthwynebu gwneud y Gorchymyn ar ei ffurf bresennol (dyddiedig 25 Ionawr 2021) ar gyfer Parth Arddangos Morlais ar y sail nad yw'n sicrhau'r amodau sylfaenol hyn.

**Mr a Mrs Roberts**

627. Mae'r pryderon a fynegwyd yn ein llythyr gwrthwynebu gwreiddiol yn parhau gan nad ydym yn credu bod y datblygwr (Menter Môn) wedi mynd i'r afael â'r materion sylfaenol a godwyd.

628. O ran ein pryder ynglŷn â'r broses ymgynghori, ac yn benodol y diffyg tryloywder wrth rannu cynrychioliadau gwir a chywir â'r cyhoedd o'r effaith weledol ar y morlun o amgylch Ynys Lawd, ystyriwn fod y ddogfen a gyflwynodd Menter Môn yn dilyn y Sesiwn Siarad Cyhoeddus (Cyf: Dogfen Ymchwiliad – 013) ond yn atgyfnerthu'r pwynt a wnaed. Nid yw'r un o'r delweddau y mae Menter Môn wedi'u rhannu yn yr ymchwiliad yn galluogi'r cyhoedd i weld cynrychioliad gweledol cywir o'r datblygiad arfaethedig ar y môr (yn wahanol i'r delweddau 3d geogyfeiriedig yr ydym ni wedi'u darparu i'r ymchwiliad a Menter Môn).[963]

629. Credwn fod hyn yn fwriadol iawn gan nad oedd Menter Môn eisiau achosi pryder ymhlith y cyhoedd.

630. Yn ystod yr ymchwiliad, clywsom CNC yn esbonio eu sail resymegol ynglŷn â pham y gwthiwyd y dyfeisiau arnofiol i'r de ac na fyddent yn cael eu caniatáu yn y parth gogleddol. Nid ydym yn credu bod hyn yn gwneud synnwyr o hyd a heriwn y dull sgorio a'r pwysoliad a ddefnyddiwyd gan CNC wrth asesu'r effaith ar fusnesau a defnyddwyr yr ardal.

631. Mae hefyd yn siomedig iawn clywed Menter Môn yn gwrthod cynigion i warchod y golygfeydd o amgylch y goleudy ei hun trwy dderbyn parth allgáu trionglog arfaethedig. Ni fyddai'r parth allgáu ychwanegol hwn yn negyddu'r effaith weledol ar ein busnes, ond byddai'n helpu, a phe roddid caniatâd byddem yn annog yr Arolygydd i wneud y parth allgáu ychwanegol hwn yn rhan o'r amodau.

632. Mae'r ffaith bod Menter Môn yn dadlau eu bod eisoes wedi cyfaddawdu yn wirion oherwydd yr unig gyfaddawdau maen nhw wedi'u gwneud yw'r rhai a orfodwyd gan CNC neu gyrff rheoleiddol eraill. Nid yw Menter Môn erioed wedi bod yn fodlon gwrando ar ein pryderon ynglŷn â'r effaith weledol ac addasu eu prosiect i'w lliniaru. Mae dull Menter Môn o fynd i'r afael â'r effaith weledol ar yr ardal a'u hagwedd ati yn gwrthdaro'n glir iawn ag asesiad Minesto o'r effaith weledol sy'n canolbwyntio ar yr un morlun yn union. Gweler y darn o asesiad Minesto o'r effaith weledol, sut gallwn ni gael dau asesiad sy'n dod i gasgliadau gwahanol …?

[963] Gweler Cyf: MDZ/N10

"*Mae'r môr yn gefndir pwysig yn y golygfeydd o'r goleudy sy'n cyfrannu at ei werth esthetig*"

"*Mae golygfeydd o'r môr a'r tŵr fel nodwedd ddarluniadwy gyda'r môr fel cefndir yn cyfrannu at werth esthetig a hanesyddol y tŵr*"

633. Nid yw pryderon ynglŷn â cheblau'r lanfa yn mynd i fyny ochr y clogwyn wedi derbyn sylw ychwaith gan ei bod yn glir iawn nad oes gan Fenter Môn hyd yn oed ddyluniad penodol wedi'i gymeradwyo gan beirianwyr ar gyfer yr opsiwn hwn, ac felly dyfaliad yn unig yw'r delweddau y mae Menter Môn wedi'u rhannu o sut maen nhw'n credu y bydd yn edrych. Mae'r clogwyn i'w weld yn glir o'n busnes a'r llwybr arfordirol ac ni ddylai datblygiad fel hwn gael ei ganiatáu. HDD ddylai fod yr unig opsiwn.

634. Fel yr RSPB a chymdeithasau mamaliaid môr, rydym yn pryderu o hyd ynglŷn â'r effaith ar yr ecoleg unigryw a bywyd gwyllt. Mae prosiectau ynni gwyrdd â risg is o lawer y gellid eu hystyried. Mae ynni'r gwynt yn fwy effeithlon o lawer ac yn achosi llai o risg i fywyd gwyllt. Gallai 32 o dyrbinau gwynt yn unig gynhyrchu'r un faint o bŵer â'r 620 o ddyfeisiau llanw a gynigir.

635. Rydym yn siomedig iawn yn ein cyngor lleol a fynegodd ambell frawddeg yn unig drwy'r dydd yn ystod y sesiwn bord gron ar yr effaith weledol, a hynny dim ond i ddweud eu bod yn rhannu pryder sylweddol ynglŷn â'r effaith weledol ond yn fodlon anwybyddu'r pryder hwn petai'r datblygwr yn cyfrannu arian at brosiectau cymunedol eraill. Mae hyn yn gywilyddus ac yn llwyr yn erbyn eu hadroddiadau eu hunain ar bwysigrwydd gwarchod ein mannau gwyllt.

636. Mae gwybodaeth a dolenni a rannwyd eisoes yn ein llythyr gwrthwynebu gwreiddiol yn cefnogi'r ddadl hon.[964]

637. Rydym yn pryderu o hyd ynglŷn â'r gwaith ffordd a'r effaith y bydd hyn yn ei chael ar archebion ailadroddus pan fydd gwesteion rheolaidd yn dechrau gweld a theimlo effaith y datblygiad ar yr hyn oedd yn encilfa dawel, wyllt iddynt.

638. Mae effaith tymor hir y datblygiad ar ein busnes a gwerth ein busnes ac eiddo yn bryder mawr hefyd, ac oherwydd nad oes unrhyw atebolrwydd nac iawndal wedi'i gynnig ar hyn o bryd, mae'r risg hon i gyd yn syrthio ar berchenogion eiddo a busnes unigol fel ni sydd wedi gwario cannoedd ar filoedd o bunnoedd yn datblygu busnesau llwyddiannus sy'n denu nifer sylweddol o dwristiaid i'r ardal bob blwyddyn. Os bydd y prosiect yn cael ei ganiatáu, dylai fod iawndal i'r busnesau yr effeithir arnynt a dylai'r datblygwr fod yn meddwl am sut gallai gefnogi busnesau lleol yr effeithir arnynt gyda syniadau arloesol fel ynni gwyrdd rhad neu am ddim o'r datblygiad y gallai busnesau geisio ei ddefnyddio wrth farchnata.

639. I gloi, rydym yn llwyr yn erbyn y prosiect o hyd oherwydd credwn fod y risg yn rhy uchel. Credwn fod prosiectau ynni gwyrdd mwy effeithlon â risg is y gellid eu

964 https://infrastructure.planninginspectorate.gov.uk/wp-content/ipc/uploads/projects/EN010007/EN010007-002423-Isle%20of%20Anglesey%20County%20Council%20-%20Local%20Impact%20Report%20Annex%205C%20-%20Anglesey%20Tourism%20Topic%20Report%20%20by%20Swansea%20University%20(November%202018).pdf

https://www.gwynedd.llyw.cymru/en/Council/Documents---Council/Strategies-and-policies/Environment-and-planning/Planning-policy/Inspectors-Report-2017/1.-Anglesey-and-Gwynedd-JLDP-Inspectors-Report.pdf

hystyried gan Weinidogion Cynulliad Cymru a fyddai'n gwneud cyfraniad cyflymach o lawer at ein hargyfwng hinsawdd.

**Mr a Mrs Llewellyn**

640. Rydym wedi bod yn ymwneud yn weithredol â'r ymchwiliad cyhoeddus rhithwir ac wedi bod yn rhan o'r sesiynau bord gron a'r cyflwyniadau siarad cyhoeddus. Mae ein datganiad i gloi yn ymateb gwybodus i fesurau lliniaru'r Ymgeisydd mewn perthynas â 'Pholisïau'r NDF ar brosiectau ynni adnewyddadwy' h.y. polisïau yn y ddogfen *Cymru'r Dyfodol* – Y Cynllun Cenedlaethol 2040 ("NDF").

641. Rydym wedi cyflwyno gwybodaeth i'r ymchwiliad ynglŷn ag agosrwydd Prosiect Morlais i gartref ein teulu ac wedi cyflwyno gwrthwynebiadau ysgrifenedig (dyddiedig mis Hydref 2019 a mis Medi 2020) ynglŷn ag effeithiau niweidiol posibl annerbyniol y Prosiect ar fioamrywiaeth, y ffaith ei fod yn tresmasu i ardaloedd dynodedig o gadwraeth arbennig a diddordeb gwyddonol a'i ymwthiad sylweddol i Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (o ran effeithiau gweledol posibl ar y dirwedd a'r morlun).

642. Mae'n amlwg bod gan Brosiect Morlais fwriadau da a bod y thema 'datblygu ffynonellau ynni adnewyddadwy' yn cyd-fynd â strategaeth yr NDF. Fodd bynnag, o ystyried yr NDF fel dogfen fynegai, daw'n amlwg yn gyflym mai 'prosiect ynni adnewyddadwy ar raddfa fawr' yw Prosiect Morlais sy'n cynnwys offer diwydiannol mawr iawn sy'n amlwg yn weledol ar y tir ac ar y môr (1000m), ac, ymhellach, ei fod wedi'i leoli y tu allan i Ardal Flaenoriaeth (fel y'i diffinnir yn yr NDF) a'r tu mewn i AHNE sydd wedi'i hen sefydlu. Felly, mae'r prosiect yn groes i Bolisïau 11, 12 a 13 yr NDF ac, o'i ystyried yng nghyd-destun dull goleuadau traffig Llywodraeth Cymru, mae hyn yn rhoi Prosiect Morlais (fel y mae wedi'i gynllunio ar hyn o bryd) yn yr adran GOCH sy'n datgan nad yw'n briodol lleoli prosiect o'r fath mewn Ardal o Harddwch Naturiol neu Barc Cenedlaethol. Yn wir, dylai perthnasedd parhaus y cais hwn gael ei herio yng ngoleuni'r cynnydd sylweddol sydd wedi cael ei wneud o ran 'ynni adnewyddadwy gwynt-solar' yn erbyn targedau Llywodraeth Cymru wedi'i bwysoli yn erbyn y lefel uchel o wrthwynebiadau a barn gyhoeddus negyddol yn erbyn y cais.

643. Wrth gwrs, mae'r Ymgeisydd yn ymwybodol o'r diffiniadau polisi/amodau ac wedi mynd ati i lunio mesurau lliniaru i fynd i'r afael â nhw. Yn wir, petai'r Prosiect o dan yr wyneb yn llwyr (ar y tir ac ar y môr), fel y cyflwynwyd yn wreiddiol i lawer o breswylwyr yn yr ardal ddaearyddol hon, byddai'r gwaith lliniaru y mae'r Ymgeisydd wedi'i gynnal yn briodol ac ni fyddai llawer o'r gwrthwynebiadau arwyddocaol a deisebau cyhoeddus erioed wedi cael eu gwneud neu byddent wedi diflannu.

644. Mae ein gwrthwynebiadau (dyddiedig mis Hydref 2019 a mis Medi 2020) yn parhau ac maen nhw hefyd wedi cael eu rhoi yng nghyd-destun Polisi 11 (gan gyfeirio at Bolisi 13) ac mewn perthynas â'r Cais a mesurau lliniaru'r Ymgeisydd:

1. Effeithiau ar y Dirwedd a'r Morlun ac Effeithiau Gweledol, Lleoliad yr AHNE a Goruchafiaeth Weledol:

   a. Roedd yr Ymgeisydd wedi contractio cwmni pensaernïaeth dirwedd annibynnol (SLR Consulting Ltd) i greu ffotogyfosodiadau (dogfennau'r Asesiad o'r Effaith Weledol a'r Effaith ar y Dirwedd a'r Morlun) i geisio

lliniaru yn erbyn '*effeithiau gweledol niweidiol annerbyniol ar*' yr AHNE. Bydd y rhain yn sicr o gael eu cyflwyno i Weinidogion Cymru. Fodd bynnag, a ninnau'n byw ar draethlin arfordirol Ynys Lawd, credwn o hyd nad yw'r delweddau hyn yn gredadwy a/neu'n gynrychioliadol o'r *effeithiau annerbyniol a niweidiol* y bydd yr offer diwydiannol a amlinellir isod sy'n eithriadol o *drechaf yn weledol* yn ei chael yn yr AHNE ac arni:

i. Dyfeisiau Llanw sy'n Codi o'r Dŵr: Posibilrwydd o 120 o ddyfeisiau ynni'r llanw (75m o hyd x 3.5m o uchder) wedi'u gosod ar yr wyneb sy'n arnofio ar y môr yn dechrau 1000m o'r arfordir. Byddai'r dyfeisiau sy'n agos i'r lan yn elfen o'r morlun sy'n eithriadol o drech yn weledol (yn ddiamheuaeth) o'u gweld o Lwybr Arfordirol Ynys Môn a Gwarchodfa'r RSPB ar Ynys Lawd (mae 180,000 o dwristiaid yn ymweld â'r warchodfa bob blwyddyn) a/neu gellid eu gweld o longau mordaith/fferïau sy'n cyrraedd a gadael porthladd Caergybi. Cyflwynodd SLR a'r Ymgeisydd y delweddau hyn i breswylwyr mewn cyfarfod wyneb yn wyneb (ym mhresenoldeb Albert Owens – AS Llafur) a dywedwyd wrthynt ar y pryd nad oedd y delweddau'n gredadwy nac yn gynrychioliadol.

ii. Llwybr Ceblau Opsiwn B: Ceblau trydanol 9 x 350mm o ddiamedr wedi'u gosod ynghlwm wrth ac wedi'u llwybro i lawr ymyl clogwyn sy'n amlwg yn weledol sy'n SoDdGA a warchodir, ac yna wedi'u llwybro ar draws ardal rynglanw sy'n amlwg yn weledol gan ddefnyddio bagiau cerrig a/neu strwythurau matres goncrit. Yn ddiamheuaeth, byddai'r ceblau ar ymyl y clogwyn a'r bagiau cerrig a'r matresi concrit rhynglanw yn elfen o forlun a thirwedd yr AHNE a fyddai'n eithriadol o drech yn weledol o'u gweld o Lwybr Arfordirol Ynys Môn a hefyd yn amlwg iawn yn weledol o lwybr ac ardal wylio a gynhelir gan y cyngor a fwynheir gan filoedd o ymwelwyr/twristiaid bob blwyddyn. (Byddai'r ceblau oddeutu 50m o'r ardal wylio).

iii. Gyda'i gilydd, byddai'r dyfeisiau sy'n codi o'r dŵr yn agos i'r lan a'r naw o geblau/bagiau cerrig a matresi concrit yn elfen barhaus o dirwedd a morlun yr AHNE sy'n drech yn weledol o'r Maes Saethu, ar hyd Llwybr Arfordirol Ynys Môn a llwybrau cysylltiol a golygfannau'r cyngor, i Warchodfa Ynys Lawd. Yn ddiamheuaeth, bydd hyn yn cael *effeithiau annerbyniol a niweidiol* arwyddocaol *ar ac o fewn yr AHNE a'i morluniau a thirweddau*.

2. Aflonyddu Electromagnetig:

a. Gall naw cebl sy'n glanio ar y tir (Opsiwn A neu B) sy'n cludo 240MW o drydan greu aflonyddu EMF sylweddol [Nodyn gan yr Arolygydd: deëllir mai "grym electromotif" yw hyn] gan arwain at effeithiau personol/preswyl cymdeithasol, economaidd (band eang lloeren ar gyfer parhad busnes a Wi-fi ar gyfer systemau diogelwch) ac effeithiau negyddol ar iechyd (lewcemia mewn plentyndod):

i. Bydd ceblau Opsiwn A ac Opsiwn B yn dod o fewn 35m o'n heiddo ni (y traeth a'r tŷ) ac yn cynhyrchu aflonyddwch electromagnetig sylweddol. Rhoddodd yr Arolygydd gyfarwyddyd i'r Ymgeisydd mewn perthynas â'r mater hwn a chrëwyd adroddiad byr, ar ffurf

memo, gan Black and Veatch (Cyf: Dogfen Ymchwiliad - 053). Roedd hyn yn galonogol a gwnaethom ofyn am fod yn ymgyngoreion statudol mewn perthynas ag Opsiwn A (HDD) adran 5 [Nodyn gan yr Arolygydd: tybir mai 'amod' 5 arfaethedig yw hyn] o ddogfen amodau cynllunio arfaethedig Morlais (Cyf: Dogfen Ymchwiliad – 067). Os na fydd HDD yn bosibl, byddai hyn yn ysgogi opsiwn B a'r posibilrwydd o arolygon EMF. Mae'r Ymgeisydd wedi ymrwymo i 'gysylltu â ni ynglŷn â'r mater hwn' yn unig, er i ni ofyn am fod yn 'ymgyngoreion statudol' oherwydd agosrwydd y gwaith/ceblau. Gan fod effeithiau niweidiol annerbyniol arwyddocaol yn gysylltiedig ag aflonyddu electromagnetig (pryder arwyddocaol ym Mholisi 11), byddem wedi disgwyl i'r Ymgeisydd fod yn fwy ymatebol/ymrwymedig. Byddai hyn wedi caniatáu i ni dynnu ein gwrthwynebiad yn ôl gan wybod y byddai'n rhaid iddo ymgynghori â ni. Sylweddolwn y byddai asesiadau/hysbysiadau diogelwch ychwanegol pe byddai'r cais yn cael ei ganiatáu, ond rydym yn pryderu'n fawr na fyddai'r broses honno'n rhoi i ni'r amlygrwydd angenrheidiol a'r hysbysiadau sy'n ofynnol am y broses hon. Yn yr achos dan sylw, ystyrir y drefn briodol o gyhoeddi Cyf: Dogfen Ymchwiliad – 078. Mae Adran 11 [Cyf: Dogfen Ymchwiliad – 078] yn datgan y dulliau hysbysu er mwyn i aelodau'r cyhoedd wrthwynebu. Rydym yn byw o fewn 35m o'r gwaith arfaethedig ac eto ni chawsom ein hysbysu fel 'trydydd parti' ac nid ydym wedi gweld na chael gwybod am unrhyw un o'r hysbysiadau cyn-gymeradwyo. Byddai cael statws ymgynghorai statudol ar gyfer opsiwn A a B yn bodloni'r gofyniad hwn.

645. I grynhoi, gofynnwn i'r Arolygydd wrthod y cais hwn fel y mae wedi'i gyflwyno. Mae'n gais a wnaed am y 'rhesymau iawn ond yn y lleoliad anghywir'. Mae barn y cyhoedd yn gryf yn erbyn y prosiect hwn, fel y gwelir gan y ddeiseb 'STOPIWCH' a ddechreuwyd yng nghanol mis Hydref 2020 ac a lofnodwyd gan fwy na 11,500 o aelodau o'r cyhoedd sy'n pryderu (gweler Ffigur 1 Cyf: Dogfen Ymchwiliad – 145).

646. O dystiolaeth arbenigol yr Ymgeisydd, rydym yn ymwybodol y gallai'r 240MW llawn o drydan adnewyddadwy gael ei ddarparu o 'ddyfeisiau o dan yr wyneb yn unig' a bod yr opsiwn HDD wrth y lanfa yn ymarferol yn dechnegol, gan ganiatáu ar gyfer glanio o dan yr wyneb. Pe byddai'r ddau bwynt yn cael eu gwneud yn amodau cymeradwyo, credwn y byddai'r cais hwn a'i strategaethau lliniaru'n bodloni 'polisïau ynni adnewyddadwy eraill yr NDF' a byddem yn tynnu ein gwrthwynebiadau yn ôl.

**Orthios Eco Parks (Anglesey) Limited ac Orthios Power (Anglesey) Limited ("Orthios")**

647. Pan fo'r sylwadau hyn yn cyfeirio at rifau lleiniau, gwnânt hynny drwy gyfeirio at y rhifau lleiniau a'r ardaloedd fel y mae Menter Môn yn cynnig y dylid eu haddasu, fel y dangosir ar Gyf: Dogfen Ymchwiliad – 066, oni nodir fel arall.

648. Gwneir y sylwadau hyn i gloi ar ran Orthios Eco Parks (Anglesey) Limited ac Orthios Power (Anglesey) Limited. At ddibenion y sylwadau hyn, ni fydd angen gwahaniaethu rhwng y ddau gwmni a chyfeirir at y gwrthwynebwyr yn syml fel "Orthios".

649. Nid yw Orthios yn gwrthwynebu’r Parth Arddangos mewn egwyddor. Yn wir, cefnogir y prosiect. Fodd bynnag, mae gan Orthios bryderon ynglŷn â’r ffordd y mae Menter Môn wedi mynd ati i geisio cyfiawnhau’r ymyrraeth â pherchenogaeth dir Orthios i hwyluso cysylltu’r cynllun â’r Grid Cenedlaethol.

650. Mae rhan fawr o achos Menter Môn, fel y’i cyflwynwyd gan Mr Billcliff a Mr Maurici QC, wedi ceisio beio Orthios am ddiffyg cytundeb ar delerau a fyddai wedi caniatáu i’r gwrthwynebiadau gael eu datrys. Mae Menter Môn yn cyfeirio’n anuniongyrchol at y trafodaethau heb ymrwymiad a gafwyd, gan awgrymu’n ymhlyg, ond yn glir, petai’r Arolygydd a Gweinidogion Cymru ond yn gallu gweld cynnwys y dogfennau sy’n ymwneud â’r trafodaethau hynny, y byddai’n amlwg nad Menter Môn sydd ar fai am y cyfwng presennol. Dylid anwybyddu’r pwynt hwnnw, am 3 rheswm cysylltiedig:

a. Nid yw Orthios yn ei dderbyn (yn wir, mae’n dadlau i’r gwrthwyneb); ond

b. Yn yr un modd, ni all Orthios gyflwyno eu hochr nhw o’r stori a chadw’r trafodaethau heb ymrwymiad yn gyfrinachol ar yr un pryd; a

c. Sut bynnag y digwyddodd, mae’r gwrthwynebiadau’n parhau ar hyn o bryd ac mae angen eu hystyried yn ôl eu rhinweddau yn seiliedig ar y dystiolaeth sydd gerbron yr ymchwiliad.

651. Mae Menter Môn hefyd wedi dangos tuedd anffodus i awgrymu nad yw Orthios wedi darparu unrhyw beth ar ei safle ei hun, sydd fel petai’n awgrymu bod y ffaith y gallai Orthios gael ei amddifadu o’i eiddo’n orfodol yn llai pwysig. Unwaith eto, dadleuir ynglŷn â’r pwynt hwnnw, ond gellir datrys y ddadl honno oherwydd ei bod yn glir, fel y dangosir isod, bod Menter Môn wedi herio cynnydd Orthios mewn ffordd sydd ymhell o fod yn foddhaol ac yn deg. Aeth Mr Billcliff mor isel hyd yn oed â chwarae’r chwaraewr yn hytrach na’r bêl trwy wneud awgrymiadau anghywir ac amherthnasol bod Orthios yn dymuno lletya ffoaduriaid ar y safle. Nid oes unrhyw ddiben dilys na defnyddiol i honiad o’r fath. Mae Menter Môn hefyd yn ceisio rhoi Orthios “ar brawf” o ran rhai materion fel petasai hwn yn achos ymgyfreitha ffurfiol mewn llys. Nid dyna ydyw.

652. Hyd yn oed petai’r honiadau ynglŷn â darpariaeth a chynnydd Orthios hyd yma wedi bod yn gywir, ni fyddent wedi helpu Menter Môn, oherwydd gellir gwneud pwynt tebyg am Fenter Môn ei hun. Nid oes ganddo hanes o ddarparu unrhyw beth hyd yn oed yn debyg i’r cynllun yma. Os yw Menter Môn yn parhau â’i bwynt ynglŷn ag Orthios, y canlyniad rhesymegol yw bod rhaid i’w allu i gyflawni ei gynllun ei hun fod dan amheuaeth. Nid yw’r pwynt yn mynd â Menter Môn i unman.

<u>*Y dull cyffredinol o asesu achos Menter Môn a gwrthwynebiadau Orthios*</u>

653. Mae Menter Môn wedi bwrw ymlaen â’i achos yn erbyn Orthios mewn ffordd sy’n gwrthdaro â’r dull priodol o asesu cynigion ar gyfer caffael gorfodol. Mae Orthios yn dweud hynny am dri rheswm.

654. Yn gyntaf, mae’r ffordd y mae Menter Môn wedi bwrw ymlaen â’i achos yn awgrymu bod rhaid i Orthios ddangos rheswm da dros gadw ei dir ei hun. Nid yw hynny’n wir, fel yr oedd Mr Billcliff yn barod i’w gyfaddef wrth gael ei groesholi. Derbyniodd yr holl osodiadau canlynol, a hynny’n gywir:

a. Mae’r baich ar Fenter Môn i ddangos bod ganddo achos cymhellol er budd y cyhoedd dros gaffael yn orfodol;

b. Mae hynny'n wir o ran unrhyw bryniant gorfodol arfaethedig yn ogystal â'r lleiniau a'r ardaloedd penodol y bwriedir eu caffael;

c. Mae'r baich ar Fenter Môn yn bodoli p'un a oes gan y tirfeddiannwr gynigion penodol ar gyfer ei dir ei hun ai peidio;

ch. Nid oes baich ar Orthios i gyfiawnhau cadw ei dir ei hun;

d. Nid oes baich ar Orthios i wrthbrofi achos Menter Môn o ran y modd o gysylltu â'r grid;

dd. Nid oes baich ar Orthios i ddangos bod modd amgen o gysylltu'n bodoli, ond yn hytrach ar Fenter Môn i gyfiawnhau ei achos dros gaffael;

e. Mae'r baich ar Fenter Môn i gyfiawnhau ei achos dros gaffael hawliau i dir Orthios yn barhaol a dros dro; a

f. Dylai cynigion Menter Môn ymyrryd neu wrthdaro â hawliau Orthios i'w dir a'i gynigion ei hun i'r graddau lleiaf posibl i sicrhau cynllun Menter Môn.

655. Mae hefyd yn amherthnasol pa gyfran o ddaliad tir Orthios sydd wedi'i chynnwys yn Nhir y Gorchymyn. Mae'r profion caffael yr un fath beth bynnag fo'r gyfran.

656. Yn ail, mae Menter Môn yn dibynnu ar yr angen am hyblygrwydd wrth geisio cyfiawnhau faint o dir a gaffaelir. Nid yw Orthios yn anghytuno y gellir gofyn am *rywfaint* o hyblygrwydd wrth geisio cyfiawnhau faint o dir y cynigir ei gaffael. Fodd bynnag, ni ellir defnyddio'r angen am hyblygrwydd i esgusodi methiant i ddangos cyfiawnhad clir dros faint o dir y bwriedir ei gaffael. Mae hynny wedi digwydd yn yr achos hwn, fel yr amlinellir isod. Ni all parodrwydd Menter Môn i gynnig yn ôl tir nad oes ei angen gyfiawnhau methiant i gyflwyno ei achos dros gaffael yn iawn yn y lle cyntaf ychwaith. Mae Menter Môn wedi sôn am hyblygrwydd wrth gael ei herio ynglŷn â'r cynigion eu hunain hefyd, megis y ddadl ynglŷn â rhagnodi paramedrau ar gyfer storio batris. Efallai y gellid caniatáu hyblygrwydd wrth benderfynu sut i weithredu cynllun a amlygwyd yn glir. Ni ellir caniatáu defnyddio angen honedig am hyblygrwydd i osgoi gorfod amlygu'r prosiect penodol yn y lle cyntaf. Mae hawl rhywun[965] i fwynhad rhesymol o'i dir yn hawl ddynol sylfaenol bwysig y rhoddir amddiffyniad amodol iddi, fel bod rhaid i hyblygrwydd gael ei gyfiawnhau'n glir. Mae'n gwbl amhriodol i Fenter Môn nodi ei chynlluniau mewn ffordd mor gyffredinol, o ystyried y profion i gyfiawnhau ymyrryd â thir, na ddylid eu drysu â'r paramedrau sy'n gyfiawnadwy wrth benderfynu ar gais cynllunio.

657. Yn drydydd, nid yw'n briodol i Fenter Môn geisio cyfiawnhau gorgaffael tir o ganlyniad i'w dewisiadau ei hun i gyfyngu ar wario cyfalaf ar ymchwiliadau safle. Dychwelir i'r pwynt hwn isod.

<u>*Safle Orthios*</u>

658. Busnes mwyndoddi alwminiwm oedd safle Orthios gynt, ac un o'r defnyddwyr mwyaf o drydan yn y wlad. Er mwyn iddo gael y symiau enfawr o ynni yr oedd eu hangen arno, fe'i gwasanaethwyd gan ddwy set o geblau 132kV yn uniongyrchol o orsaf bŵer Wylfa. Roeddent yn terfynu mewn iard switshis sy'n unigryw, hyd y gŵyr Orthios, gan ei bod yn iard switshis 132kV yn nwylo preifat sydd wedi'i chysylltu â'r

[965] Sy'n golygu unrhyw un cyfreithiol, nid dim ond unigolyn, ac felly'n cynnwys cwmnïau.

Grid Cenedlaethol. Mae hyn mor anarferol, a dweud y gwir, fel bod y Grid Cenedlaethol fel petai'n credu ei fod wedi perchen arni yn y gorffennol,[966] er nad oedd yn berchen arni erioed.

659. Caffaelodd Orthios y safle yn 2015 ar ôl iddo gael ei ddefnyddio ar gyfer gweithrediadau mwyndoddi alwminiwm ers dros 30 mlynedd. Mae Orthios wedi cynnal rhaglen helaeth o brofi am halogiad ac adfer halogiad a ganfuwyd, sydd wedi cael ei monitro'n barhaus, ac mae'n aros am gymeradwyaeth reoleiddiol derfynol – ffaith a anwybyddwyd gan Fenter Môn, sy'n ceisio awgrymu yn ei thystiolaeth bod halogiad ar Diroedd y Gorchymyn yn fater anhysbys, a honni bod hynny felly'n cyfiawnhau'r hyblygrwydd sy'n gynhenid yn y Gorchymyn. Mewn gwirionedd, mae safle Orthios wedi cael ei archwilio'n gynhwysfawr am halogiad: gweler proflen atodol Mr LeVasseur yn 3.7.3.

660. Mae Orthios hefyd wedi dymchwel adeiladau segur a chlirio rhai eraill yn barod i'w hailddefnyddio.

661. Gall cynigion Orthios ar gyfer y safle gael eu cysylltu orau â'r cynllun yn Atodiad P1.2.1 i brif dystiolaeth Mr LeVasseur ("y cynllun cynigion").[967]

662. Mae'r ardaloedd sydd wedi'u marcio'n 1 a 2 ar y cynllun cynigion yn adeiladau sydd eisoes yn bodoli y byddai eu defnydd blaenorol wedi dod o fewn Dosbarth Defnydd B2. Maen nhw wedi'u clustnodi i'w defnyddio i ddatblygu busnes sy'n cynhyrchu cemegion ac olew o blastigion gwastraff, o fewn Dosbarth Defnydd B2 unwaith eto, felly nid oes angen caniatâd cynllunio ar gyfer y defnydd. Mae Orthios wedi sicrhau buddsoddiad o £26m ar gyfer y gweithrediadau hynny. Byddai'r broses hefyd yn creu nwy, a fyddai'n cael ei ddefnyddio i greu trydan i'w allforio i'r Grid Cenedlaethol.

663. Byddai adeiladau 1 a 2 ar y cynllun cynigion yn cynnwys 4 uned ar gyfer prosesu plastigion. Byddai'r adeiladau mwyndoddi blaenorol, sy'n fawr iawn, yn ardal 3 ar y cynllun cynigion yn cynnwys 5 uned arall o leiaf. Mae gwaith yn mynd rhagddo ar yr uned gyntaf a gellir ei weld ar y safle.

664. Byddai ardal 4 ar y cynllun cynigion yn cael ei defnyddio i storio a dosbarthu cynhyrchion. Mae'n safle sydd wedi'i glirio ar hyn o bryd: gweler y llun o'r awyr yn Atodiad P1.2.4 i brif dystiolaeth Mr LeVasseur (Cyf: POE005).

665. Yr ardal sydd wedi'i marcio'n "5" ar y cynllun cynigion yw ffin llinell goch y Gwaith Ynni Adnewyddadwy y rhoddwyd caniatâd iddo o dan adran 36 Deddf Trydan 1990 a chaniatâd cynllunio tybiedig ar 4 Ebrill 2014: gweler Atodiad P1.2.5 i brif dystiolaeth Mr LeVasseur. Amrywiwyd y cydsyniad a'r caniatâd yn ddiweddarach: gweler Atodiad P1.2.6 i brif dystiolaeth Mr LeVasseur (Cyf: POE005).

666. Roedd amod 10 y caniatâd cynllunio tybiedig yn amod Grampian a oedd yn atal y datblygiad rhag dechrau oni bai a hyd nes bod cynllun sy'n ymdrin ag amryw faterion wedi cael ei gyflwyno i Gyngor Ynys Môn a'i gymeradwyo ganddo. Ymhlith pynciau eraill, roedd yr amod hwnnw'n mynnu manylion am leoliad, dyluniad, golwg

[966] Neges e-bost gan y Grid Cenedlaethol dyddiedig 19 Hydref 2020 yn Atodiad 3.2.2 i dystiolaeth bellach Tim Jesson, Cyf: RPE014 (y mae ei chlawr / tudalen flaen yn cynnwys y cyfeirnod "OBJ040-P3.1").
[967] Atodiad P1.2.1 Cyf: POE005

allanol, dimensiynau a lefelau llawr pob adeilad neu strwythur newydd neu addasedig a oedd yn rhan o'r datblygiad.

667. Cyflwynwyd cais i ryddhau'r gofyniad hwnnw, a gweddill gofynion amod 10 a dau amod arall, i'r Cyngor mewn cais dyddiedig 29 Ebrill 2016.[968] Roedd y cyflwyniad yn cynnwys y lluniadau canlynol:

a. Cynllun sy'n dangos y gosodiad arfaethedig cyffredinol ar gyfer y safle: Dwg 4140/1A(200) 01 Rev E;[969]

b. Cyfres o gynlluniau sy'n dangos y gosodiad manwl a gynigir ar gyfer y safle[970] ac allwedd i ddangos sut mae'r cynlluniau hynny'n gysylltiedig â'i gilydd;[971] a

c. Datganiad dylunio sy'n esbonio'r sail resymegol i osodiad y safle.[972]

668. Roedd lluniadau 4140/1 A(200)08 Rev D [973] a 4140/1 A(200)09 Rev C [974] yn dangos rhan ddeheuol y safle gyda ffin ogledd-ddwyreiniol Lleiniau 49 a 50 y Gorchymyn nesaf at ochr dde-orllewinol y ffordd gylchredol o amgylch y cyfleusterau casglu lludw, yr adeilad pwmp hydrolig a'r adeilad cywasgydd a oedd i'w gweld ar y cynlluniau hynny. Dangosir Llain 50 fel iard gontractwr ac mae'r rhan fwyaf o Lain 49 o fewn yr iard gontractwr arfaethedig honno, gyda rhan fach o Lain 49 o fewn yr iard switshis sydd eisoes yn bodoli, sydd y tu allan i ymyl coch y cydsyniad ar gyfer y Gwaith Ynni Adnewyddadwy ("REP").

669. Cymeradwywyd y manylion hynny: gweler hysbysiad rhyddhau'r Cyngor yn ID041. Felly, roedd gosodiad y REP yn sefydlog.

670. Rhyddhawyd yr holl rag-amodau eraill ac mae'r cydsyniad REP wedi cael ei weithredu'n gyfreithlon ac yn bodoli'n gyfreithiol: gweler y Dystysgrif Datblygiad Cyfreithlon 19C1160M/LUC a roddwyd gan y Cyngor.[975]

671. Derbynnir na fydd y cydsyniad yn cael ei weithredu ar ei ffurf gymeradwy o ystyried newidiadau i'r farchnad a pholisïau sydd wedi digwydd ers iddo gael ei roi. Fodd bynnag, mae Orthios yn bwriadu ceisio cydsyniadau newydd ar gyfer cynllun wedi'i amrywio, gan ddilyn yr un gosodiad cyffredinol. Derbynnir eu bod ar gam cynnar, o ran sicrhau caniatadau a chydsyniadau, ond mae Orthios yn bwriadu cadw at yr un gosodiad cyffredinol, o ystyried y canfuwyd bod hynny'n dderbyniol yn y gorffennol. Mae Penawdau'r Telerau wedi cael eu llunio gyda Chyllidwr/Datblygwr o dramor. Mae'r llythyr gan Oak yn Atodiad P4.2.5 i dystiolaeth Mr LeVasseur yn rhoi mwy o fanylion am statws y prosiect. Byddai'r cynigion newydd yn cynnwys ffurf adeiledig a fyddai'n is o ran uchder na'r rhai a gydsyniwyd. Nid yw Menter Môn yn gallu cynnig unrhyw dystiolaeth sy'n dechrau dangos y byddai unrhyw wrthwynebiadau cynllunio difrifol i gynnig o'r fath.

[968] Cyf: Dogfen Ymchwiliad – 028
[969] Cyf: Dogfen Ymchwiliad – 031
[970] Cyf.(au): Dogfen Ymchwiliad – 032 i Ddogfen Ymchwiliad – 038
[971] Cyf: Dogfen Ymchwiliad – 039
[972] Cyf: Dogfen Ymchwiliad – 040
[973] Cyf: Dogfen Ymchwiliad – 036
[974] Cyf: Dogfen Ymchwiliad – 037
[975] Atodiad P1.2.7 Cyf: POE005

672. Pe byddai addasiadau'n cael eu gwneud i'r gosodiad, mae'n bosibl y byddent er mwyn darparu lle storio batris masnachol o hyd at 100MW ar lain 49/50 ar y cyd â'r Ganolfan Ynni arfaethedig, o ystyried ei lleoliad yn agos at yr iard switshis 132kV. Byddai lle storio batris o'r fath hefyd yn bwysig i'r Ganolfan Ddata arfaethedig y mae Orthios yn ei thrafod ar hyn o bryd gyda thrydydd partïon.

673. Ardal "6" ar y cynllun cynigion yw'r ardal a neilltuwyd yn flaenorol ar gyfer dyframaethu a hydroponeg.

674. Mae'r ardal sydd wedi'i marcio'n "7" ar y Cynllun Cynigion wedi bod yn destun Tystysgrif Datblygiad Cyfreithlon gan Gyngor Ynys Môn ar gyfer prosesu tanwydd sy'n deillio o sbwriel. Byddai rhywfaint o'r deunydd a echdynnir yn cael ei ddefnyddio fel biomas, gallai polymerau gael eu defnyddio yn y gweithrediad plastigion i olew a byddai deunyddiau adnewyddadwy eraill yn cael eu prosesu'n ôl i'r diwydiant. Mae Orthios yn gobeithio dechrau gweithio ar y cynnig hwnnw erbyn mis Gorffennaf 2021. Bydd yr elfen honno o'r busnes yn creu 21 o swyddi. Mae cyllid ar gyfer y cynnig wedi cael ei gytuno mewn egwyddor: gweler Atodiad P4.2.8 i broflen atodol Mr LeVasseur.

675. Mae ardal "8" ar y cynllun cynigion wedi cael ei defnyddio i gydosod nifer o unedau cerbydau rheilffyrdd, a bwriedir ei defnyddio ymhellach fel cysylltiad rheilffordd ar gyfer y gweithgareddau ar y safle. Byddai hefyd yn cael ei defnyddio i gadw symiau mawr o borthiant i gyflenwi'r deunyddiau crai ar gyfer amryw o'r gweithgareddau ar y safle.

676. Byddai ardal 9 yn cael ei defnyddio i drin a phrosesu gwastraff.

677. At ei gilydd, mae Orthios wedi gwneud cynnydd go iawn o ran cyflawni ei ddyheadau ar y safle. Mae wedi sicrhau buddsoddiad ar gyfer nifer o agweddau ar ei gynigion ac mae ei dystiolaeth yn dangos ei fod wedi sicrhau hyder a chefnogaeth buddsoddwyr. Mae gwaith ffisegol wedi cael ei wneud. Mae Orthios wedi gwario neu sicrhau cyllid ar gyfer cyfanswm o £74.6m o ddatblygiad hyd yma.[976] Mae Orthios wedi cyfrannu dros £12m at yr economi leol trwy ei weithgareddau hyd yma.[977] Heriodd Menter Môn gynigion Orthios yn fanwl iawn, ac er yr amlygodd yr amryw gydsyniadau sydd i'w sicrhau o hyd ar gyfer rhai o'i weithgareddau, roedd yn fyr iawn o ddangos "*nid oes hanes o gwbl bod Orthios wedi cyflawni ei gynlluniau hyd yma*", fel y mae Mr Billcliff yn honni.[978] Ond, fel y cyfaddefodd, nid yw wedi bod ar ran Orthios o Diroedd y Gorchymyn am 2 flynedd, dim ond unwaith y'i gyrrwyd o amgylch y safle ehangach ar yr un pryd â'i ymweliad diwethaf ac ni ofynnodd i Orthios am ei gynlluniau wrth baratoi ei dystiolaeth. Mae'n ymddangos bod ei honiadau wedi'u seilio ar ymchwilio i ddogfennau cynllunio, siarad â Chyngor Ynys Môn a'r hyn y gallai ei weld o bont i'r de o'r safle. Nid yw hynny'n sail ddigonol i wneud honiadau mor ddifenwol sy'n amlwg yn amryfus.

*Angen Orthios am yr iard switshis*

678. Bydd gweithrediadau presennol Orthios a'i gynigion ar gyfer y dyfodol yn golygu bod angen rheolaeth barhaus dros yr iard switshis bresennol. Bydd angen i Orthios gael cysylltiadau newydd â'r grid i fewnforio ac allforio trydan. Pan ofynnwyd i Mr

[976] Wrth groesholi Mr LeVasseur.
[977] Para. 6.3.5 o broflen Mr LeVasseur (Cyf: POE005)
[978] Gwrthbroflen Mr Billcliff ym mhara. 4.8

Billcliff yn ystod croesholi a oedd yn derbyn hynny, atebodd “yn sicr”. Er bod y cysylltiad â’r Grid Cenedlaethol yn cael ei ddefnyddio i fewnforio ynni yn unig yn flaenorol, mae Orthios yn cynnig gweithgareddau a fydd yn golygu bod angen mewnforio ac allforio ynni o’r Grid Cenedlaethol ac iddo. Mae Orthios wedi sicrhau cyllid ar gyfer gwaith angenrheidiol i ailddylunio’r iard switshis[979] ac mae’r Grid Cenedlaethol wedi ffurfio tîm i helpu Orthios gyda’r newidiadau sy’n ofynnol.[980] Mae Orthios wedi llunio cytundebau â’r Grid Cenedlaethol i sicrhau cysylltiadau â’r grid fel cynhyrchydd a defnyddiwr trydan. Mae’r ddau ohonynt yn cynnwys ymrwymiadau gan y Grid Cenedlaethol i ddarparu’r cysylltiadau hynny erbyn dyddiadau sy’n gynharach na’r cytundeb cysylltu y mae Menter Môn wedi’i sicrhau gyda’r Grid Cenedlaethol.

679. Fel yr esbonnir isod, mae cyfaddefiad Mr Billcliff y bydd angen i Orthios gael cysylltiad â’r grid yn un allweddol.

*Y Cysylltiad â’r Grid a gynigir gan Fenter Môn*

680. Er na fydd manylion llawn y trafodion rhwng y partïon yn bosibl nac o gymorth am y rhesymau a roddwyd ym mhedwerydd paragraff y sylwadau hyn i gloi, bydd ailadrodd rhai o fanylion hanes y mater yn taflu goleuni ar honiad Orthios nad oes gan Fenter Môn unrhyw gynigion clir ar gyfer sut i sicrhau’r cysylltiad â’r grid.

681. Ym mis Ionawr 2019, trafododd Menter Môn gynnig ar gyfer ardal o dir o faint ‘cwrt tennis’ o fewn yr iard switshis bresennol, fel y dangosir ar y cynllun sydd wedi’i farcio’n “Gam 1” ym mhrif atodiadau Mr LeVasseur.[981] Nid oedd cynnig ar gyfer offer cysylltiedig ar y cam hwnnw ac ni roddodd Menter Môn gyfiawnhad technegol dros yr hyn yr oedd yn ei gynnig.

682. Yna, symudodd Menter Môn ymlaen i awgrymu lleoli’r is-orsaf y tu allan i’r iard switshis bresennol yn y lleoliad sydd bellach yn llain 49 a ddangosir fel ‘Cam 2’ yn yr un Atodiad. Unwaith eto, nid oedd unrhyw gyfiawnhad technegol i esbonio’r cynnig ar y cam hwnnw, heblaw am gyfeiriad at angen i ddarparu rheolaeth ffactor pŵer, a oedd yn golygu bod angen mwy o le ar y safle: gweler yr ail baragraff o sylwedd yn neges e-bost Ed Bailey, dyddiedig 16 Mai 2019, yn yr Atodiad hwnnw.

683. Yna, cynhwyswyd y cynnig hwnnw yn y cynllun gorchymyn drafft wedi’i farcio’n ‘Gam 3’ yn yr Atodiad hwnnw, a gyflwynwyd heb unrhyw esboniad manwl o’r hyn a gynigiwyd.

684. Yng ‘Ngham 4’, lluniodd Orthios gynllun i ddangos ei ddealltwriaeth o ofynion Menter Môn ym mis Tachwedd 2019, gan gyflwyno’r ardal siâp ‘losen’, a estynnwyd wedi hynny i ‘Gam 5’ oherwydd bod Menter Môr wedi dweud bod arni angen 0.25 arall o erwau o arwynebedd. Ond, unwaith eto, ni esboniodd Menter Môn y newid hwnnw o ran y rhesymau peirianegol technegol, os o gwbl, a ysgogodd y newid hwnnw. Unwaith eto, dangosodd Orthios y gofyniad hwnnw ar gynllun a baratôdd, sef yr hyn y mae Mr LeVasseur yn ei ddisgrifio fel ‘Cam 6’.

685. Nid yw Menter Môn wedi cynnig esboniad llawn ar unrhyw adeg, hyd yn oed yn ystod yr ymchwiliad, o’i ddefnydd o holl dir Orthios sydd wedi’i gynnwys yn y Gorchymyn. Ymdrinnir â hyn ymhellach isod.

[979] Proflen atodol Mr LeVasseur (Cyf: RPE013) ym mhara. 4.2.1
[980] Proflen atodol Mr Jesson (Cyf: RPE014) para. 2.3
[981] Atodiad P1.2.2 ym mhroflen Mr LeVasseur (Cyf: POE005)

686. Mae tystiolaeth Mr Jesson yn dangos bod dau opsiwn yn bodoli ar gyfer cysylltiad â'r grid gan ddefnyddio'r iard switshis sy'n amgenach na chynigion Menter Môn. Fodd bynnag, fe'u cyflwynwyd mewn ymgais i sicrhau cytundeb gan Fenter Môn nad yw wedi digwydd, hyd yma, a byddai angen i'r ddau ohonynt, fel y mae Mr Billcliff wedi'i gadarnhau ac y mae Orthios yn ei dderbyn, gael cytundeb ynglŷn â thir y tu allan i gwmpas y Gorchymyn. Cyflwynwyd yr opsiynau hyn i ddangos bod opsiynau sy'n llai dwys o lawer o ran tir yn bodoli i ddarparu cysylltiad trydanol, gan osgoi neu leiafu'r effeithiau ar gynnig Orthios ar gyfer tir arall yn y Gorchymyn, sef Lleiniau 49 a 50. Nid yw'n foddhaol i Fenter Môn ensynio, fel y ceisiwyd ei wneud yn yr ymchwiliad, bod Orthios wedi dweud wrth Fenter Môn am osgoi neu gadw draw o unrhyw ran o'r iard switshis bresennol. Ni dderbynnir hynny a, sut bynnag, Menter Môn sydd â'r baich o gyfiawnhau'r tir y mae'n bwriadu ei gymryd.

687. Mae'r sylwadau hyn yn ymdrin â rhinweddau cynigion Menter Môn yn y Gorchymyn.

688. Mae Menter Môn yn bwriadu dod â cheblau o dan yr A55 a'r rheilffordd trwy ddrilio cyfeiriadol llorweddol islaw lleiniau 43, 45, 46 a 47 o Diroedd y Gorchymyn. Yna, byddent yn adeiladu is-orsaf newydd ar ran o lain 49 a fyddai'n cael ei chysylltu â'r Grid Cenedlaethol mewn rhyw ffordd. Mae tystiolaeth Menter Môn yn anhryloyw iawn o ran y dulliau, ymarferol a chyfreithiol, a fyddai'n cael eu defnyddio i sicrhau'r cysylltiad.

689. Ni wnaeth Menter Môn unrhyw waith i geisio cadarnhau amodau'r tir ar leiniau 48, 49 a 50 cyn gwneud y gorchymyn. Ceisiodd Menter Môn arolygon ymwthiol o gyflwr y tir o fis Tachwedd 2019 yn unig, ar ôl i'r cais am y Gorchymyn gael ei wneud ar 16 Medi 2019. Yr unig arolygon y ceisiodd Menter Môn eu cynnal ar dir Orthios cyn gwneud y cais am y Gorchymyn oedd:

a. Arolygon ecolegol ar droed;

b. Arolwg ar droed o'r pwyntiau weldio yn y llinellau rheilffordd; ac

c. Archwiliadau gweledol o'r cwlfertau o dan yr A55 a'r rheilffordd.

690. Mae gosodiad dangosol yr is-orsaf a gynigir gan Fenter Môn i'w weld yn y lluniad yng Nghyf: MDZ/A21.10. Mae'n dangos, fel y derbyniodd Mr Billcliff, cysylltiad un defnyddiwr â'r grid. Mae gwrthbroflen Mr Billcliff, ym mharagraff 4.11, yn dweud bod y gosodiad a'r maint a ddangosir wedi'u seilio ar gyngor gan Black & Veatch, Safonau perthnasol, tybiaeth o "ddim cydweithrediad" gan Orthios a "senario achos gwaethaf rhesymol". Mae hynny'n ddarlun anghyflawn. Mae Atodiad 5 yr atodiadau i wrthbroflen Mr Billcliff yn dangos crynodeb Black and Veatch o'r digwyddiadau. Mae'n dangos yn glir bod gwaith wedi cael ei atal ar leihau maint yr is-orsaf oherwydd bod angen cwblhau'r Datganiad Amgylcheddol yn derfynol yn unol â'r terfyn amser a ddewiswyd ar gyfer ei gyflwyno. Mae hynny'n hepgoriad pwysig o dystiolaeth Mr Billcliff.

691. At hynny, awgrymwyd yn ystod y dystiolaeth bod y ffactorau hyn yn cyfiawnhau'r gofyniad am faint o dir y cynigir ei gaffael yn Lleiniau 48, 49 a 50. Nid yw hynny'n gywir. Mae'r pwyntiau y mae gwrthbrawf Mr Billcliff yn tynnu sylw atynt yn cyfiawnhau maint ôl troed yr is-orsaf, nid maint y llain sydd i'w chaffael. Nid yw lleoliad yr is-orsaf yn debygol iawn o symud, o ystyried y dewiswyd ei leoliad

arfaethedig yn amlwg i osgoi'r gwasanaethau claddedig a ddangosir ar y cynllun yn Atodiad 10 i wrthbrawf Mr Billcliff.[982]

692. Nid oes tystiolaeth gerbron yr ymchwiliad i gyfiawnhau caffael unrhyw ran o Lain 49 na 50 i'r gogledd-ddwyrain o leoliad arfaethedig yr is-orsaf. Nid oes rheswm i awgrymu y gallai fod angen i'r is-orsaf gael ei lleoli ymhellach i'r gogledd-ddwyrain ac nid oes tystiolaeth (o gymharu â honiad) y gallai fod angen defnyddio'r ardal i storio deunyddiau neu ddarparu lle parcio i gontractwyr neu rywbeth tebyg. Yn wir, o ystyried achos Menter Môn bod tebygrwydd Orthios o gyflawni ei holl gynigion yn gyfyngedig, fe ddylai fod wedi ymchwilio i b'un a allai rhannau eraill o safle Orthios fod wedi bod ar gael iddo at ddibenion o'r fath.

693. Nid oes unrhyw reswm ychwaith i Fenter Môn gaffael gweddill Llain 49 i'r de-orllewin o'r is-orsaf arfaethedig. Y cyfan sydd ei angen yn y lleoliad cyffredinol hwnnw yw'r hawl i osod a chynnal a chadw ceblau, ynghyd ag unrhyw hawddfreintiau a chyfamodau angenrheidiol i'w diogelu yn y dyfodol.

694. Nid yw Menter Môn wedi rhoi ystyriaeth briodol i fanylion y cysylltiad arfaethedig â'r grid. Mae Atodiad 9 i wrthbroflen Mr Billcliff yn nodyn o gyfarfod rhwng Menter Môn a'r Grid Cenedlaethol. Y prosiect, fel yr esboniwyd yn y nodyn a chan Mr Billcliff wrth gael ei groesholi, oedd i'r Grid Cenedlaethol adeiladu'r is-orsaf ac i gael cysylltiad hyd at ffens yr is-orsaf.

695. Mae dau bwynt allweddol a chysylltiedig i'w nodi o ran cynnig Menter Môn ar gyfer cysylltu â'r grid:

a. Mae Menter Môn yn derbyn y bydd angen i Orthios gael cysylltiad newydd â'r grid ar gyfer ei weithrediadau ei hun. Byddai'r cysylltiad hwnnw'n gofyn am adeiladau is-orsaf a chyflyru pŵer yn debyg i'r hyn a gynigir gan Fenter Môn ar gyfer eu cysylltiad nhw; ac

b. Mae cynnig Menter Môn ar gyfer cysylltiad defnyddiwr unigol.

696. Mae'r pwyntiau hynny'n allweddol oherwydd, o'u hystyried gyda'i gilydd, maen nhw'n dangos anaddasrwydd cynhenid yr hyn y mae Menter Môn yn ei gynnig. Nid yw Menter Môn wedi mynd i'r afael yn briodol â chanlyniadau hyrwyddo cysylltiad defnyddiwr sengl yn unman yn ei hachos na'i thystiolaeth, er ei bod yn derbyn y bydd angen dau gysylltiad. Nid yw Menter Môn wedi cyflwyno tystiolaeth yn unman ynglŷn â beth fyddai blaenoriaeth y Grid Cenedlaethol mewn senario dau ddefnyddiwr. Mae'n sicr yn anfoddhaol i Fenter Môn, fel yr ymddangosai fod Mr Billcliff yn ei wneud wrth roi tystiolaeth, awgrymu bod hyn yn fater i'r Grid Cenedlaethol fynd i'r afael ag ef yn rhan o ddarparu cysylltiad ar gyfer Menter Môn ac unrhyw bartïon eraill. Mae'n rhaid i Orchymyn Menter Môn adlewyrchu realiti'r sefyllfa. Nid yw'n ddigonol dangos senario damcaniaethol sy'n tybio mai dim ond ei brosiect ei hun y bydd angen darparu ar ei gyfer, pan nad yw hynny'n wir. Fel arall, nid yw Gorchymyn Menter Môn unrhyw beth yn debyg i'r hyn a fydd yn digwydd ac, yn ei hanfod, mae'n arwain at y posibilrwydd o ddifetha tir a ddelir gan Orthios heb gyfiawnhad (mater y dychwelwn iddo yn y sylwadau hyn).

[982] Gwrthbroflen Mr Billcliff (Cyf: RPE011)

697. Mae'r unig dystiolaeth o safbwynt y Grid Cenedlaethol ar y ffordd i gysylltu dau ddefnyddiwr neu ddefnyddwyr lluosog yn cael ei rhoi gan Mr Jesson, sy'n dangos yr hyn y mae'r Grid Cenedlaethol wedi'i ddweud.

698. Byddai is-orsaf amlddefnyddiwr, a fyddai'n golygu cymryd llai o dir ac yn cynnig cyfle i rannu adeiladau ac offer ac ati, yn arbed costau i'r Grid Cenedlaethol, Menter Môn ac Orthios. Mae hynny'n fater allweddol i'r Grid Cenedlaethol oherwydd bod dulliau cyllido'r Grid Cenedlaethol yn eu cymell i gadw costau'n isel, gan eu bod yn cael cyllid yn unol â'r capasiti MW maen nhw'n ei gysylltu, yn hytrach na nifer yr is-orsafoedd maen nhw'n eu darparu. Mae dyletswydd statudol ar y Grid Cenedlaethol hefyd o dan adran 9(2)(a) Deddf Trydan 1989 i ddatblygu a chynnal system effeithlon, gydlynol a darbodus o drawsyrru trydan.

699. Mae'r dystiolaeth yn dangos yn glir na fyddai'r Grid Cenedlaethol yn ffafrio adeiladu cynnig Menter Môn yng ngoleuni gofyniad Orthios am gysylltiad â'r grid. Dyna'r gwir sefyllfa. Mae hynny'n amlwg o'r negeseuon e-bost rhwng Mr Jesson a'r Grid Cenedlaethol yn Atodiad 3.2.1 i dystiolaeth atodol Mr Jesson.[983] Cytunodd y Grid Cenedlaethol y byddant yn ceisio adeiladu'r datrysiad mwyaf darbodus ac effeithlon i'r holl bartïon perthnasol. Maen nhw wedi cysylltu ag Orthios i brynu iard switshis Orthios at ddiben o'r fath. Yn olaf, maen nhw'n cytuno y byddai tarfu ar yr hen geblau 132kV yn bosibl yn dechnegol ond nid dyna fyddai blaenoriaeth y Grid Cenedlaethol pe gellid datblygu dyluniad amgen darbodus ac effeithlon.

700. Ar sail y dystiolaeth, mae'n annhebygol iawn y byddai'r Grid Cenedlaethol yn creu cysylltiad â'r grid ar gyfer Menter Môn ac Orthios a fyddai'n golygu adeiladu is-orsaf defnyddiwr unigol ar Lain 49. Honnir nad yw hyn yn adlewyrchu'r sefyllfa go iawn ac y dylai'r achos dros gaffael gael ei ystyried yn erbyn realiti'r sefyllfa, yn enwedig o ystyried y cynnig cysylltu sydd gan Orthios gyda'r Grid Cenedlaethol ar gyfer ei ofynion ei hun.

701. Mae Mr Billcliff wedi rhoi manylion ym mharagraff 5.6 ei wrthbroflen ynglŷn â sut mae Menter Môn yn ystyried y byddai'r Grid Cenedlaethol yn disgwyl cysylltu Menter Môn fel un defnyddiwr, sy'n dibynnu ar gysylltu â'r cylchedau ceblau 132kV presennol sydd o dan y ddaear yn y rhan dde-orllewinol o Lain 49, rhwng safle is-orsaf arfaethedig Menter Môn a'r rheilffordd. Mae tystiolaeth Mr Billcliff ynglŷn â sut byddai'r is-orsaf yn cael ei chysylltu â'r grid yn benodol ac *nid* dyna'r ffordd yr awgrymwyd y pwynt i Mr Jesson yn ddiweddarach wrth ei groesholi. Mae gwrthbrawf Mr Billcliff yn darparu un senario yn unig ar gyfer y cysylltiad yn seiliedig ar bwynt cysylltu 276m i'r dwyrain o'r is-orsaf, y tu allan i Diroedd y Gorchymyn. Nid yw'n ei gyflwyno fel un opsiwn o blith nifer. Mae'n rhoi'r dystiolaeth honno i wrthbrofi'r ddadl nad yw cysylltiad Menter Môn yn warantedig, ac felly mae'n cyflwyno'r datrysiad unigol hwnnw fel dull cysylltu yr honnir ei fod yn warantedig. Mae'r cynnig yn golygu rholio'n ôl (h.y. dileu) y cebl 132kV presennol ar hyd hawddfraint honedig a chreu uniad atal newydd lle y cysylltir yr hen gebl sydd wedi'i lenwi ag olew â chebl sy'n cynnwys deunyddiau mwy modern. Byddai'r uniad atal hwn wedi'i leoli, yn ôl ei dystiolaeth ysgrifenedig, 276m "i'r gorllewin" o'r is-orsaf bresennol.

702. Mae nifer o wallau yn y datganiad hwn, sy'n allweddol i ddeall y diffygion yn ymagwedd Menter Môn:

[983] Cyf: RPE014

a. Yn fwyaf sylfaenol, byddai'r pwynt cysylltu 276m i'r dwyrain, nid i'r gorllewin, o'r is-orsaf bresennol;

b. Mae Mr Billcliff yn honni mai dyma'r ymagwedd y cyfeirir ati yn Atodiad 9 i'w wrthbroflen, y cyfeirir ati uchod. Nid yw hynny'n wir, yn amlwg. Nid yw'r Atodiad hwnnw'n sôn am fanylion cysylltu'r is-orsaf newydd â seilwaith presennol y Grid Cenedlaethol. Nid oes tystiolaeth gan y Grid Cenedlaethol sy'n cefnogi'r syniad hwn o gwbl ac mae'n gwrthdaro â'r dystiolaeth y mae Mr Jesson wedi'i sicrhau o safbwynt y Grid Cenedlaethol;

c. Mae'r pwynt cysylltu 276m i'r dwyrain o'r is-orsaf, a llawer o linell y gwaith o ddileu'r cebl presennol, y tu allan i Diroedd y Gorchymyn;

ch. Nid oes unrhyw dystiolaeth o gwbl i gefnogi'r cyfeiriad at hawddfraint bresennol. Ni chyfeirir at hawddfraint yn unrhyw un o'r Teitlau Cofrestredig i'r rhannau perthnasol o dir Orthios (gweler y Teitlau yng Nghyf: Dogfen Ymchwiliad – 017);

d. Hyd yn oed pe fwriadwyd i'r cyfeiriad fod yn fforddfraint, y derbynnir nad yw'n ymddangos ar Gofrestriadau Teitl i dir, nid oes y mymryn lleiaf o dystiolaeth bod unrhyw fforddfraint o'r fath yn bodoli yn yr achos hwn;

dd. Byddai'r tebygrwydd bod y ceblau presennol wedi cael eu gosod trwy wahoddiad cyn-berchennog y tir yn hytrach na'u sicrhau trwy ryw ddull cyfreithiol gan ragflaenwyr y Grid Cenedlaethol yn gwneud synnwyr o ystyried bod y ceblau'n gwasanaethu'r busnes mwyndoddi yn unig ac yn allweddol i'w weithrediad – mewn geiriau eraill, efallai na fu hawddfraint neu fforddfraint o gwbl erioed; ac

e. O ganlyniad, nid oes tystiolaeth bod gan y Grid Cenedlaethol unrhyw allu cyfreithlon i weithio ar y ceblau heb gydsyniad Orthios i wneud hynny.

703. Gwaethygir yr anawsterau hynny gan y ffordd y mae'r Gorchymyn wedi cael ei lunio yn yr achos hwn ac yng ngoleuni'r pwerau a geisir gan Fenter Môn. Mae Menter Môn yn datgan yn glir y byddai'r Grid Cenedlaethol yn gwneud y gwaith. Mae hynny'n gyfaddefiad pwysig. Fodd bynnag:

a. Ni fyddai'r Gorchymyn, pe byddai'n cael ei wneud, yn sicrhau unrhyw bwerau o gwbl i'r Grid Cenedlaethol;

b. Ni fyddai'r Gorchymyn, yn amlwg, yn rhoi pwerau i unrhyw un y tu allan i'w derfynau daearyddol;

c. Fel y ceisiwyd yn wreiddiol, nid yw'r Gorchymyn yn rhoi unrhyw bŵer neilltuo ar gyfer gwaith ar y tir: gweler Erthygl 6 y Gorchymyn;

ch. Fel y ceisir ei diwygio bellach, byddai Erthygl 6 yn darparu ar gyfer trosglwyddo budd unrhyw ran o'r Gorchymyn i unrhyw un, gyda chydsyniad Llywodraeth Cymru. Nid yw'r broses o roi cydsyniad o'r fath yn digwydd yn awtomatig a byddai'n destun penderfyniad arall. Nid yw'r Memorandwm Esboniadol ar gyfer y diwygiadau'n esbonio'r sail resymegol i'r newid hwn o gwbl,[984] heb sôn am ddweud ei fod wedi'i fwriadu er budd y Grid Cenedlaethol,

[984] Cyf: ROD003: Mae hyn yn ymwneud â chyfres gynharach o ddiwygiadau, ond dyma'r memorandwm sy'n ymwneud â'r newidiadau a gynigir i Erth. 6.

ac nid oedd Mr Billcliff yn gallu esbonio'r safbwynt wrth gael ei groesholi. At hynny, byddai trosglwyddo budd y Gorchymyn yn golygu trosglwyddo'r rhwymedigaethau cyfatebol, megis talu iawndal. Nid oes unrhyw dystiolaeth y byddai'r Grid Cenedlaethol yn dymuno derbyn y pwerau a drosglwyddir o gwbl, heb sôn am eu derbyn ar y telerau a amlinellir yn y Gorchymyn;

d. Gan ei fod yn gynnig o dan Ddeddf Trafnidiaeth a Gweithfeydd 1992, mae'r Gorchymyn wedi'i ddylunio i roi pwerau, nid dim ond caffael tir, gan nad yw'n CPO. Dylai'r Gorchymyn fod wedi sicrhau pwerau i'r Grid Cenedlaethol ond nid yw wedi gwneud hynny.

704. O ganlyniad i'r ffordd y mae Menter Môn wedi dewis hyrwyddo'r cais, byddai ymwneud y Grid Cenedlaethol â gosod y ceblau i ddarparu cysylltiad â'r grid yn dibynnu i raddau helaeth ar bwerau y tu allan i gwmpas y Gorchymyn arfaethedig. Fodd bynnag:

a. Er bod gan y Grid Cenedlaethol bwerau i gaffael tir yn orfodol neu gaffael fforddfreintiau'n orfodol o fewn, dros neu o dan dir, mae arfer y pwerau hynny'n agored i wrthwynebiadau ac ni ellir disgrifio'r canlyniad yn synhwyrol fel un "gwarantedig";

b. Fe allai menter Môn honni y byddai'r pwerau caffael gorfodol a roddir gan y Gorchymyn yn caniatáu iddi gymryd y tir ac yna, fel tirfeddiannwr, ganiatáu i'r Grid Cenedlaethol osod ceblau yn yr hyn a fyddai'n dir Menter Môn bellach. Ond nid yw'r datrysiad hwnnw'n gweithio ychwaith. Y rheswm am hynny yw oherwydd byddai cwestiwn yn parhau ynglŷn â sut gallai'r Grid Cenedlaethol osod ceblau y tu allan i[985] Diroedd y Gorchymyn heb dorri rheolaeth gynllunio. Er bod gan y Grid Cenedlaethol hawliau datblygu a ganiateir i osod ceblau,[986] nid yw'r hawliau hynny'n bodoli pan fyddai'r datblygiad yn ddatblygiad EIA.[987] O ystyried bod y cysylltiad â'r grid yn rhan annatod o'r prosiect MDZ arfaethedig (fel y cadarnhaodd Mr Billcliff wrth gael ei groesholi) a bod y prosiect hwnnw'n ddatblygiad EIA, ni fyddai'r hawl datblygu a ganiateir yn bodoli yn yr achos hwn, oherwydd byddai'n ffurfio rhan annatod o brosiect ehangach y mae Menter Môn yn derbyn ei fod yn ddatblygiad EIA.

705. Yn fyr, yr unig ddull cysylltu y mae Mr Billcliff yn rhoi unrhyw fanylion amdano yw dull cysylltu nad yw'r Gorchymyn yn ei ganiatáu ac a fyddai'n gofyn am ganiatadau eraill, nad ydynt yn bodoli ar ei gyfer. Sut bynnag, mae'n darparu ar gyfer cysylltiad defnyddiwr unigol o hyd. Ni ddisgrifiodd Mr Billcliff unrhyw fodd arall o sicrhau'r cysylltiad – nid tystiolaeth Menter Môn yw'r senario a awgrymwyd wrth Mr Jesson wrth ei groesholi (cysylltiad ar draws Llain 49 i derfyniadau cynffon presennol Wylfa).

706. Y canlyniad, ar sail y dystiolaeth, yw bod cadarnhau'r Gorchymyn fel y'i ceisir yn annhebygol o roi'r holl bwerau angenrheidiol i wneud cysylltiad â'r grid o'r fath y mae tystiolaeth Mr Billcliff yn ei drafod ac sydd yr unig fodd o gysylltu a drafodwyd

[985] Byddai gosod ceblau o fewn Lleiniau 48 i 50 o fewn y pŵer a roddir gan Erth. 3 ac Atodlen 1, Rhan 2, Pennod 2 y Gorchymyn.
[986] Dosbarth G o Ran 17 Atodlen 2 Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995
[987] Fel yr uchod, Erthygl 3(10)

yn fanwl yn nhystiolaeth Menter Môn. Mae ymhell o fod yn "warantedig", fel y mae Mr Billcliff yn honni. Mae'n ansicr.

707. Mae'r anawsterau sy'n gynhenid wrth geisio cyflawni cynnig Menter Môn ar gyfer cysylltu â'r grid, mewn cyd-destun lle mae angen cysylltiad ar Orthios hefyd, i'w gweld trwy'r ffaith bod y Grid Cenedlaethol wedi gofyn am brynu'r iard switshis.

708. Fel y cyfryw, ni fydd y pwerau a geisir gan Fenter Môn ar dir Orthios er mwyn sicrhau cysylltiad â'r Grid Cenedlaethol yn arwain at gysylltiad mewn gwirionedd heb ymyriadau pellach gan y Grid Cenedlaethol, sy'n ddarostyngedig i brosesau ar wahân. Honnir nad yw Menter Môn wedi cynhyrchu tystiolaeth sy'n dod yn agos at ddangos bod tebygrwydd rhesymol y gall y Grid Cenedlaethol wneud cysylltiad y byddai'n disgwyl ei wneud i gyflawni ei gynnig cysylltu i Fenter Môn, ac yn sicr nad yw'n ddigonol i gyfiawnhau ymyrryd â thir Orthios (ac yn sicr nid ei holl dir) ar yr adeg hon, tra'n disgwyl penderfyniad ar gynigion y Grid Cenedlaethol a mwy o sicrwydd ynglŷn â sut byddai'r Grid Cenedlaethol yn gweithredu'r cysylltiad hwnnw, p'un a fyddai'n gysylltiad unigol neu amlddefnyddiwr. Honnir ymhellach y byddai angen i gysylltiad o'r fath fod yn gysylltiad amlddefnyddiwr mewn gwirionedd.

*<u>Achos Orthios mewn perthynas â Llain 46 a Llain 47</u>*

709. Nid oes angen i'r drilio o dan y lleiniau hyn gael ei gyfyngu i ddigwydd dim llai na 9m islaw'r wyneb. Yn ôl tystiolaeth Mr Jesson, byddai HDD yn bosibl ar ddyfnder o 5m yn unig. P'un ai ar ddyfnder lleiaf o 5m neu 9m, gall y ceblau ddod allan o wyneb y tir yn agosach o lawer i'r rheilffordd nag y mae cynigion Menter Môn yn rhagdybio. Yn wir, mae'n amlwg bod pwynt ymddangos y ceblau a gynigir gan Fenter Môn yn deillio o dybio ei bod yn cael defnyddio Llain 49 i gyd: gweler paragraff 4.14 gwrthbroflen Mr Billcliff (Cyf: RPE011), sy'n dangos ei hagwedd ddidaro braidd at yr angen i gyfiawnhau faint o dir y bwriedir ei gaffael.

710. Mae Menter Môn yn awgrymu ei bod wedi'i chyfyngu gan gyfyngiadau a osodwyd gan Network Rail ar dir cyffiniol. Nid yw Orthios yn ymwybodol o fanylion yr holl faterion rhwng Network Rail a Menter Môn, ond honnir bod safbwynt Menter Môn yn anghywir am y rhesymau canlynol:

a. Nid yw cyfyngiadau o'r fath yn effeithio ar y dyfnderoedd a all fod yn berthnasol o ran tir Orthios; ac

b. Mae Menter Môn wedi bod yn rhydd i herio safbwynt Network Rail (ac i Weinidogion Cymru benderfynu arno). Mae Orthios yn deall bod safbwynt Network Rail yn adlewyrchu'r ffaith eu bod yn glynu at ddyfnder rhagofalus yn amodol ar ymchwiliad a chymeradwyaeth ganddynt.

*<u>Achos Orthios mewn perthynas â Llain 48</u>*

711. Dylai Llain 48 gael ei haddasu fel y dangosir yng nghynigion Orthios ar y cynllun yng Nghyf: Dogfen Ymchwiliad – 056 at y dibenion a amlinellir yn yr atodlen yng Nghyf: Dogfen Ymchwiliad – 057:

a. Dylai Llain 48A a 48C gael ei chyfyngu i hawl i osod a chynnal a chadw ceblau tanddaearol sydd i'w gosod o leiaf 5m o dan yr wyneb; a

b. Dylai Llain 48B gael ei chyfyngu i hawl i fynd heibio ac i fynd heibio eto rhwng Lleiniau 49A, 48B, 49C a 51, yn amodol ar roi mesurau digonol ar waith mewn perthynas â defnyddio'r ffordd fynediad y cynigiwyd darpariaethau

amddiffynnol ar ei gyfer, os na fydd y partïon yn dod i gytundeb ar fesurau priodol i ddiogelu defnydd parhaus o'r ffordd fynediad gyda thenant Menter Môn ac Orthios, sef Alpoco (y cyfeiriwn ato ymhellach isod).

*Achos Orthios mewn perthynas â Lleiniau 49 a 50*

712. Yng ngoleuni'r hyn a amlinellwyd uchod, nid yw Orthios yn derbyn bod Menter Môn yn gallu cyflwyno achos cymhellol dros wneud cysylltiad â'r Grid Cenedlaethol tra'n disgwyl penderfyniad ar fanylion sut byddai'r cysylltiad hwnnw'n cael ei wneud gan y Grid Cenedlaethol. Mae Orthios yn honni bod unrhyw gysylltiad gan y Grid Cenedlaethol, hyd yn oed y datrysiad cysylltiad defnyddiwr unigol a gynigiwyd gan Mr Billcliff, yn golygu bod angen pwerau eraill a thir arall nad ydynt o fewn Tir y Gorchymyn y bydd angen i'r Grid Cenedlaethol eu sicrhau. Nid yw hyn yn helpu Menter Môn wrth geisio mwy o hyblygrwydd, i'r gwrthwyneb, mewn gwirionedd. Prif honiad Orthios yw nad oes achos dros gaffael Lleiniau 49 a 50 yn orfodol hyd nes neu oni bai bod y manylion hyn yn hysbys ac yn dangos sut mae angen y tir.

713. Sut bynnag, dylai Llain 49, o leiaf, gael ei lleihau a dylai pwerau gael eu nodi'n benodol fel y dangosir ar gynllun Orthios yng Nghyf: Dogfen Ymchwiliad – 056 a'i atodlen yng Nghyf: Dogfen Ymchwiliad – 057 i atal cymryd tir yn ddiangen, ond hwyluso'r cysylltiad â'r Grid fel yr esbonnir ym mharagraff 5.6 gwrthbroflen Mr Billcliff (Cyf: RPE011). Ni ddylai Orthios orfod dibynnu ar y sicrwydd amhendant ym mharagraff 10.5.4 prif broflen Mr Billcliff (Cyf: MDZ/P8) y byddai tir dros ben yn cael ei ddychwelyd i Orthios. Y rheswm am hynny yw na fyddai Orthios yn gallu ceisio unrhyw fath o ddigollediad nac iawndal am yr effaith sterileiddio y byddai'r Gorchymyn yn ei chael ar unrhyw gynlluniau a fyddai gan Orthios ar gyfer Llain 49 gan na fyddai'r amodau statudol ar gyfer gwneud hawliad difetha'n cael eu bodloni. Gallai'r sefyllfa honno barhau am hyd at bum mlynedd, o ystyried y terfynau amser arfaethedig yn y Gorchymyn i arfer y pwerau y mae'n eu rhoi. Yn yr amgylchiadau hynny, nid yw'n briodol i Fenter Môn gael rhyddid llwyr dros Lain 49. Mae Orthios wedi dechrau adeiladu'r gwaith pŵer biomas crai 299 MW. Mae rhan o'r caniatâd cynllunio hwn yn cynnwys dynodi llawer o Lain 49 i'w defnyddio fel iard cynnal a chadw a chontractwr, storio cynhyrchion gan gynnwys tanciau ar gyfer toddiannau dyfrllyd, a chyfleuster cludo, storio a chasglu golosg. Byddai gweithredu'r Gorchymyn fel y'i cyflwynir yn peryglu gallu Orthios yn sylweddol i ddatblygu unrhyw brosiect sy'n mabwysiadu'r un gosodiad cyffredinol. Mae'n hollbwysig bod y gallu i ddatblygu prosiectau yn unol â'r caniatâd presennol yn cael ei gynnal.

714. Yn amlwg, dylai Menter Môn fod wedi gwneud mwy o ymdrech i lunio cynlluniau mwy diffiniol ar gyfer ei chysylltiad â'r grid.

715. Mae pwynt arall i'w wneud. Ni fyddai cynigion Orthios er ei fwyn ei hun yn unig. Byddent yn arwain at fuddion economaidd a chymdeithasol yn sgil ailddefnyddio'r safle, gan greu swyddi, cyfoeth a buddion eraill a fyddai'n uniongyrchol berthnasol i'r boblogaeth leol ac ehangach. Byddai caniatáu i Fenter Môn rwystro cynigion Orthios yn ddiangen trwy ganiatáu i Fenter Môn gaffael tir na ddangoswyd eto bod ei angen i wneud cysylltiad sy'n adlewyrchu'r gwir sefyllfa neu gaffael gormod o dir a/neu hawliau rhy helaeth trwy roi pwerau efallai na fyddant yn cael eu harfer am hyd at bum mlynedd, yn golygu bod y buddion hynny mewn perygl o beidio â chael eu gwireddu'n llawn. Fodd bynnag, trwy gyfyngu Menter Môn i gaffaeliad y gall ei gyfiawnhau, mae gan Weinidogion Cymru gyfle i sicrhau nid yn unig fuddion cynllun Menter Môn ond hefyd potensial llawn safle Orthios.

716. Mae awgrym Orthios ynglŷn â lleihau faint o dir a gymerir yn adlewyrchu ei ddealltwriaeth o'r tir sy'n ofynnol i weithredu cysylltiad defnyddiwr unigol Menter Môn, fel y cynigiwyd yn ei thystiolaeth, ac a ddisgrifiwyd gan Mr Billcliff, ac fe'i cynigir rhag ofn na dderbynnir ei brif honiad.

717. Mae'r Llain 49A ganlyniadol yn cyfateb i'r ardal y dywedodd Menter Môn fod arni ei hangen ar gyfer yr is-orsaf ac mae ei lleoliad yn cyfateb i hwnnw ar y cynllun yng Nghyf: MDZ/A21.10.

718. Dylai Llain 49B gael ei chyfyngu i hawl i osod a chynnal a chadw ceblau i gysylltu â'r ceblau 132kV presennol.

719. Dylai Llain 49C gael ei chyfyngu i ddarparu hawl i fynd heibio ac i fynd heibio eto rhwng y llain honno a Lleiniau 49A, 48B a 51.

720. Dylai Llain 49D gael ei chyfyngu i hawl i osod a chynnal a chadw ceblau tanddaearol o leiaf 5m o dan yr wyneb.

721. Dylai Llain 50 gael ei dileu o'r Gorchymyn.

*Achos Orthios mewn perthynas â Llain 51*

722. Llain 51 yw'r ffordd fynediad. Mae'n fynedfa bwysig i safle Orthios gan ei bod yn fynedfa argyfwng a'r unig fynedfa sy'n addas i lwythi mawr neu lydan. Mae Orthios a Menter Môn wedi cytuno ar Benawdau'r Telerau ynglŷn â'r amddiffyniad i'w roi i Orthios o ran defnyddio'r ffordd honno a sicrhau ei bod ar gael yn ystod cyfnod adeiladu a gweithredu'r gwaith. Mae Menter Môn wedi ymrwymo i'r telerau hyn ar ffurf ymgymeriad unochrog (sy'n dderbyniol i Orthios) ac felly fe allant ddisodli'r darpariaethau amddiffynnol a gynigiwyd gan Orthios yng Nghyf: Dogfen Ymchwiliad – 057, os ydynt yn dderbyniol i Weinidogion Cymru. Nid oes angen dweud mwy am y mater hwnnw wrth gloi.

*Y paramedrau ar gyfer elfen storio batris y cynllun*

723. Ymatebodd Eversheds i bryderon Orthios ynglŷn ag amwysedd elfen storio batris y cynnig mewn llythyr dyddiedig 9 Chwefror 2021. Nid yw'r ymateb yn adeiladol nac yn ddefnyddiol. Mae'n ceisio tynnu sylw oddi wrth y materion trwy wneud pwyntiau amherthnasol ynglŷn â'r ffordd y dylid mynd i'r afael ag elfen storio batris y cynllun. Mae'r rheswm pam mae Orthios yn ceisio paramedrau ar gyfer storio batris yn amherthnasol. Felly hefyd telerau polisi cynllunio ar berthnasedd cystadleuaeth. Mater yn ymwneud â chyfiawnhad dros brynu'n orfodol yw hwn, a dim byd arall. Mae'n rhaid bod cyfiawnhad cymhellol dros amddifadu Orthios o dir er mwyn i Fenter Môn ddarparu lle i storio batris. Mae rhoi rhwydd hynt i Fenter Môn gaffael tir heb fod ag unrhyw syniad o'r paramedrau ar gyfer y lle storio hwnnw (naill ai o ran (i) faint o ardal yr is-orsaf sy'n angenrheidiol ar gyfer y defnydd hwnnw neu (ii) ei gapasiti trydanol) yn gwbl ddigyfiawnhad.

724. Mae'r llythyr yn atgoffa'r darllenydd o bwysigrwydd tystiolaeth. Gofynnodd Orthios, yn ystod y sesiwn ar 5 Chwefror, a oedd unrhyw dystiolaeth o'r capasiti sy'n angenrheidiol ar gyfer storio batris heblaw am dudalen 60 o 82 yn Atodiad 5 i dystiolaeth wrthbrawf Mr Billcliff, sy'n cyfeirio at gapasiti o 13.5 MVA. Mae'n nodedig bod y pwynt hwnnw wedi'i anwybyddu'n llwyr yn llythyr Eversheds. Gellir casglu nad yw Menter Môn yn herio'r pwynt mai'r unig dystiolaeth o'r angen am gapasiti storio batris yw bod angen capasiti o 13.5 MVA. Os felly, er mwyn sicrhau nad yw tir yn cael ei gaffael yn ddiangen, dylai'r Gorchymyn neu'r caniatâd cynllunio tybiedig

gynnwys hynny fel un o baramedrau'r cynllun. Diben elfen storio batris y cynllun yw darparu ar gyfer cynhyrchu ynni'r llanw brig a storio ynni a fyddai'n fwy na chapasiti'r Grid ar yr adeg y'i cynhyrchir. Dylai'r Gorchymyn a'r caniatâd cynllunio tybiedig sicrhau bod storio batris wedi'i gyfyngu i'r diben hwnnw. Ni fyddai cyfiawnhad o gwbl dros storio batris yn fwy na'r hyn sy'n ofynnol gan gynllun y Gorchymyn.

*Casgliad*

725. Nid oes achos cymhellol dros gaffael tir Orthios yn orfodol, fel yr hyrwyddwyd gan Fenter Môn; ac fel arall, nid oes achos cymhellol dros gaffael yr holl dir a hawliau a geisir gan y Gorchymyn mewn perthynas â thir Orthios; a, dylai'r Gorchymyn gael ei ddiwygio yn unol â'r telerau a geisir gan Orthios.

## Sylwadau Ysgrifenedig

### CADW

726. Mae CADW wedi cadarnhau ei fod yn cytuno â chasgliadau'r ES ynglŷn ag asedau treftadaeth y byddai'r cynnig yn effeithio arnynt. Yn benodol "…*Bydd rhai effeithiau bach a dibwys ar leoliadau nifer o asedau treftadaeth dynodedig yn ystod cam adeiladu'r datblygiad, ond bydd y rhain yn fyrhoedlog. Fodd bynnag, bydd y datblygiad arfaethedig yn cael effaith niweidiol barhaol fach i gymedrol ar leoliadau Adeiladau Rhestredig 5713 Tŵr Ellins a 5284 Goleudy Ynys Lawd, ac effaith niweidiol fach ar Adeilad Rhestredig 20081 Tan-y-Cytiau. Bydd hefyd yn cael effaith niweidiol barhaol fach ar leoliadau henebion cofrestredig AN011 Siambr Gladdu Trefignath, AN012 Maen Hir Tŷ Mawr, AN016 Cylchoedd Cytiau Mynydd Caergybi ac AN017 Meini Hir Penrhosfeilw. Ni fydd yr un o'r effeithiau niweidiol hyn yn arwyddocaol*…".[988]

727. Er bod y FEI yn cynnwys asesiad o effaith bosibl elfennau alltraeth y cynllun, nid yw'r asesiad FEI yn newid cyngor CADW ar effaith debygol y cynnig ar asedau treftadaeth, fel yr amlinellir uchod. Nododd CADW hefyd [FEI-REP001] hyd nes y gwyddys canlyniadau'r ymchwiliad geoffisegol a'r gwerthusiad archaeolegol, ni fyddai'n bosibl pennu a fyddai unrhyw effaith uniongyrchol ar safleoedd archaeolegol o bwysigrwydd cenedlaethol. Mae CADW wedi tynnu ei wrthwynebiad cychwynnol yn ôl bellach (Cyf.(au): OBJ079 a Thynnu'n Ôl - 004)

### Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Gogledd Cymru (NWWT)

728. Fel y nodwyd uchod, mae NWWT yn Brif Barti a benderfynodd gyflwyno sylwadau ysgrifenedig yn hytrach na rhoi tystiolaeth lafar i'r ymchwiliad, a thrwy wneud hynny mae'n dibynnu ar ei Datganiad Achos (Cyf: MDZ/N11) a sylwadau blaenorol (Cyf.(au): OBJ073 ac FEI– OBJ015). Ymatebodd yr Ymgeisydd trwy ddogfen Cyf: MDZ/N15.

729. NWWT yw'r unig sefydliad lleol sydd wedi ymrwymo i warchod pob cynefin a rhywogaeth ledled gogledd Cymru er mwynhad pobl a budd bywyd gwyllt. Mae'r Datganiad Achos hwn wedi'i gasglu ynghyd a'i gyflwyno ar ran Grŵp Cynghori Morol NWWT (MAG).

730. Dylid nodi bod NWWT yn llwyr gefnogi datblygiad cynaliadwy cynhyrchu ynni adnewyddadwy'r môr yn rhan o bolisi ynni Cymru a'r Deyrnas Unedig, o'i ystyried ochr yn ochr â mesurau i leihau'r galw, gwarchod ynni a hyrwyddo microgynhyrchu. Mae NWWT yn credu bod cynhyrchu ynni adnewyddadwy'r môr yn gallu bod yn gydnaws ag amgylchedd naturiol iach, ond na ddylai hyn fod ar draul ein safleoedd a'n rhywogaethau bywyd gwyllt pwysicaf.

731. Mae gwybodaeth ychwanegol wedi cael ei darparu a diwygiadau wedi cael eu gwneud i'r cynigion. Er hynny, mae NWWT yn parhau i bryderu ynglŷn ag effeithiau amgylcheddol cais Morlais, yn enwedig gan y byddai wedi'i leoli mewn ardal o gerhyntau cryfion a chynnwrf sy'n cynnal bywyd gwyllt morol cyfoethog iawn.

[988] Ymateb gan CADW i'r ymgynghoriad ynglŷn â'r cais, dyddiedig 31 Hydref 2019.

732. Mae gwybodaeth fanwl sy'n cefnogi achos NWWT wedi'i chynnwys yn yr Atodiadau i'w Datganiad Achos (Cyf: MDZ/N11). I grynhoi, mae NWWT yn dod i'r casgliadau canlynol:

1) <u>Mamaliaid Môr</u>

(i) Nid yw ein pryderon penodol ynglŷn â'r effeithiau tymor hir ar y boblogaeth warchodedig o ddolffiniaid trwyn potel ym Mae Ceredigion wedi derbyn sylw. Credwn y dangoswyd yn glir y gallai'r datblygiad gael effaith niweidiol ar gyfanrwydd Ardal Cadwraeth Arbennig ("ACA") Bae Ceredigion ac, yn ein barn ni, nid yw'r Cynllun Lliniaru a Monitro Amgylcheddol Amlinellol ("OEMMP") diwygiedig wedi darparu'r manylion sy'n ofynnol gan y Tîm Trwyddedu Morol yn eu llythyr at Fenter Môn dyddiedig 05/06/2020 na mynd i'r afael â'n pryderon ni (fel y cyfeirir atynt yn Atodiad 1). Heriwn rywfaint o'r fethodoleg sydd wedi'i chynnwys ynddo. Rydym hefyd yn pryderu bod manylion ynglŷn â lleoli a'r raddfa amser yn parhau i gael eu disgrifio'n ddangosol ac felly y gallent newid.

(ii) Yr unig gamau lliniaru a fyddai'n hwyluso gweithrediad parhaus y safle (gweler yr OEMMP) pe byddai effeithiau ar ddolffiniaid trwyn potel yw gosod mwy o systemau rhybuddio acwstig. Mae pryder yn parhau y byddai'r dull hwn yn ychwanegu mwy o sŵn forol, gan achosi effaith bellach ar ddolffiniaid trwyn potel a morfilod eraill, ac efallai na fydd yn atal gwrthdrawiadau pellach. Mae ail opsiwn o arafu'r dyfeisiau yn dilyn gwrthdrawiad gan forfilod eraill heb ei brofi ac rydym yn ansicr i ba raddau y byddai hyn yn llwyddiannus.

(iii) Heriwn p'un a fyddai'r dulliau monitro a ddisgrifiwyd yn gallu canfod y pwyntiau sbardun arfaethedig, ac rydym yn pryderu ynghylch y datganiad '*Disgwylir i absenoldeb tystiolaeth o wrthdrawiad a / neu dystiolaeth o osgoi'r arâe neu ddyfeisiau o fewn yr arâe arwain at gytuno i leoli cam pellach*'. Gan fod y sbardun ar gyfer dolffiniaid trwyn potel mor sensitif, mae'n achos pryder na fydd yn bosibl darparu data monitro digon cywir mewn gwirionedd, ac felly ni ellir defnyddio absenoldeb data i sicrhau bod y cam nesaf yn mynd yn ei flaen.

(iv) Nid yw NWWT wedi'i rhestru fel sefydliad sy'n debygol o gael gwahoddiad i ymuno â'r Grŵp Cynghori a ddisgrifir yn yr OEMMP – hoffem ailgynnig ein harbenigedd i'r grŵp hwn pe byddai caniatâd yn cael ei roi.

2) <u>Cludo Gwaddodion</u>

(i) Nid ydym yn sicr o hyd p'un a ystyriwyd effeithiau ymchwyddiadau yn y llanw a achosir gan systemau tywydd pwysedd isel iawn sy'n cyd-fynd â gorllanw.

3) <u>Ecoleg Fenthig</u>

(i) Rydym yn pryderu o hyd ynglŷn ag effeithiau niweidiol posibl cyflwyno rhywogaethau estron goresgynnol i'r amgylchedd arfordirol a morol hollbwysig hwn yn anfwriadol yn ystod lleoli a gwasanaethu dyfeisiau llanw.

4) <u>Ecoleg Ddaearol</u>

(i) Mae'r unig boblogaeth wyllt o gennin gwyllt (Allium ampeloprasum var ampeloprasum) ar dir mawr Cymru yn tyfu gerllaw safle'r adeilad newidydd arfaethedig. Yn ogystal â bod yn brin, credir bod gan y boblogaeth hon bwysigrwydd hanesyddol a diwylliannol allweddol, a byddai NWWT yn annog bod rhan o'r mesurau lliniaru safle yn cynnwys defnyddio arbenigwyr priodol ar y tymor iawn i ddiogelu'r planhigion hyn sy'n arwyddocaol yn ddiwylliannol ac wedi'u hynysu'n enetig.

(ii) Cefnogwn y casgliad os nad yw Drilio Uniongyrchol Llorweddol (HDD) yn ymarferol a bod angen i geblau gael eu gosod ynghlwm wrth y clogwyn, efallai bydd yn bosibl microleoli ceblau ar yr wyneb i leihau'r effeithiau ar lystyfiant i'r eithaf.

5) <u>Yr Effaith Weledol a'r Effaith ar y Dirwedd a'r Morlun</u>

(i) Argymhellom fod angen i'r Asesiad o'r Effaith Weledol a'r Effaith ar y Dirwedd a'r Morlun (SLVIA) ystyried gwelededd yn ystod gwahanol gyflyrau llanw ac ymchwydd, lle y byddai ôl llongau o amgylch y strwythurau'n eu gwneud nhw'n fwy amlwg. Argymhellom hefyd fod angen cyfrif am effaith weledol llongau gwasanaeth cysylltiedig. Gan na chyfeiriwyd at y pwyntiau hyn yn y wybodaeth ychwanegol a ddarparwyd, nid yw ein pryderon ynglŷn â'r effaith weledol wedi derbyn sylw.

6) <u>Gwybodaeth Ychwanegol – Hyfywedd Ariannol</u>

(i) Mae ein pwynt ynglŷn â chost gymharol ynni gwynt a dilysrwydd ariannol a pherthnasedd ynni parhaus y prosiect yn parhau ac nid yw ein safbwynt wedi newid. Argymhellwn yn gryf, os rhoddir caniatâd cynllunio, bod dadansoddiad llawn o gost a budd yn cael ei gynnal sy'n cynnwys ffactorau amgylcheddol yn ogystal ag economaidd cyn dechrau datblygiadau Cam 3 a 4.

733. Mae pryderon eraill yn cynnwys y rhai hynny sy'n ymwneud â:

a. thorri ffosydd lle mae'r ceblau allforio'n dod i'r lan;

b. methodolegau asesu'r ES a disgrifiadau o gynefinoedd gwely'r môr/ benthig;

ac a rennir gyda'r RSPB,

c. y rhai hynny sy'n ymwneud â marwoldeb adar môr, y fethodoleg asesu a ddefnyddiwyd, a'r diffyg cynsail ar gyfer lliniaru a monitro.

**Sylwadau ysgrifenedig eraill**

734. Derbyniwyd amrywiaeth o sylwadau ysgrifenedig eraill a oedd yn ymateb i'r cais, gan gynnwys gan bartïon sy'n gwrthwynebu'r gwaith a/neu'r wybodaeth a gyflenwyd i gefnogi'r cais. Cododd y sylwadau ysgrifenedig hyn faterion: a ystyriwyd wrth baratoi ar gyfer y PIM a'r vPIM; a lywiodd y Datganiad o Faterion (Cyf: Dogfen Ymchwiliad – 160); a gynorthwyodd i amlygu'r prif faterion yn yr ymchwiliad; ac, wedi hynny, y rhoddwyd sylw iddynt yn ystod sesiynau'r ymchwiliad trwy'r dystiolaeth gynhwysfawr a gynhyrchwyd, dogfennau cysylltiedig, y cyfraniadau a wnaed gan bartïon â buddiant, a'r cwestiynau a ofynnwyd i'r partïon a rhyngddynt.

735. Cyn yr ymchwiliad, derbyniwyd nifer o sylwadau ysgrifenedig sy’n cefnogi’r cynnig hefyd.

736. O ganlyniad, mae gweithdrefnau’r ymchwiliad wedi galluogi’r holl faterion a godwyd mewn sylwadau ysgrifenedig i gael eu mynegi, eu profi, ac yna eu cynnwys ym manylion yr achosion a gyflwynwyd yn y sylwadau uchod i gloi. Fel y cyfryw, cânt eu hystyried yn fy sylwadau i gloi.

## Tynnu'n Ôl

**Mrs Kathleen Davies**

737. Tynnodd Mrs Kathleen Davies (Cyf: OBJ020) ei gwrthwynebiad i'r Gorchymyn yn ôl trwy ohebiaeth e-bost ei hasiant, y deëllir bod ei dyddiad ar neu o gwmpas 29/10/2020 (Cyf: Tynnu'n Ôl – 006).

**Dr R Davies a Ms C Lynes**

738. Ar ôl negodi â'r Ymgeisydd, cytunodd y partïon ar delerau a alluogodd Dr Davies a Ms Lynes i dynnu eu gwrthwynebiad yn ôl (Cyf.(au): OBJ036 a Thynnu'n Ôl – 005).

**Mrs Nelson**

739. Tynnodd Mrs Nelson (Cyf: REP001 a REP001(1)) ei gwrthwynebiad yn ôl trwy ohebiaeth heb ddyddiad arni y deëllir ei bod wedi'i derbyn ym mis Hydref 2020 (Cyf: Tynnu'n Ôl - 002).

**Mr Tuke**

740. Roedd Mr Tuke wedi mynegi pryderon ynglŷn â'r effaith bosibl ar ei fusnes(au) cysylltiedig â thwristiaeth. Fodd bynnag, tynnodd ei wrthwynebiad yn ôl ar ôl gwaredu ei fuddiannau yn yr eiddo dan sylw (Cyf: (Cyf.(au): FEI – OBJ009 a Thynnu'n Ôl – 007).

**Network Rail**

741. Darparodd Network Rail Infrastructure Limited Ddatganiad Achos (Cyf: MDZ/N7) a oedd yn nodi ei fwriad i ddibynnu arno yn ystod yr ymchwiliad. Mae'r Datganiad Achos yn ceisio annog yr Ymgeisydd i lunio'r cytundebau y mae Network Rail yn ystyried eu bod yn angenrheidiol i ddiogelu ei asedau.[989]

742. Ar 02/11/2020, cadarnhaodd Network Rail (Cyf: POE001) y byddai'n dibynnu ar ei Ddatganiad Achos a sylwadau eraill wrth geisio cytundeb ar fesurau i ddiogelu asedau Network Rail.

743. Cadarnhaodd gohebiaeth ddyddiedig 11 Ionawr 2021 (Cyf: Tynnu'n Ôl – 009) fod Network Rail wedi dod i gytundeb â'r Ymgeisydd ynglŷn â diogelu ei asedau a'i fod yn tynnu ei wrthwynebiad i'r Gorchymyn yn ôl (Cyf.(au): OBJ003, MDZ/N7 a POE001). Mae'r Darpariaethau Amddiffynnol ar gyfer asedau Network Rail yn cael eu darparu gan Ran 2 Atodlen 11 y Gorchymyn (Cyf.(au): Dogfen Ymchwiliad – 071 a Dogfen Ymchwiliad – 072).

**Land & Lakes**

744. Tynnodd Land Lakes ei wrthwynebiad i'r Gorchymyn yn ôl ar 11/12/2020 (Cyf: Tynnu'n Ôl - 003).

[989] Gweler adran 2 Cyf: MDZ/N7.

**Dŵr Cymru**

745. Darparodd Dŵr Cymru Ddatganiad Achos (Cyf: MDZ/N4), ond tynnodd ei wrthwynebiad i'r Gorchymyn yn ôl wedi hynny (Cyf: Tynnu'n Ôl – 013).

**Wales and West Utilities Limited**

746. Daeth Wales and West Utilities Limited a'r Ymgeisydd i gytundeb a oedd yn galluogi'r cwmni i dynnu ei wrthwynebiad yn ôl (Cyf.(au): REP003 a Thynnu'n Ôl – 008)

**National Grid Electricity Transmission plc**

747. Cwblhawyd cytundeb rhwng y Grid Cenedlaethol a'r Ymgeisydd a'i galluogodd i dynnu ei wrthwynebiad yn ôl ym mis Awst 2020 (Cyf: Tynnu'n Ôl – 014)

**SP Energy Networks**

748. Daeth y partïon i gytundeb ynglŷn ag amddiffyn asedau SP Manweb a arweiniodd at dynnu gwrthwynebiad SP Energy Networks yn ôl (Cyf.(au): REP004 a Thynnu'n Ôl - 011).

**AMG Alpoco UK Limited**

749. Ar ôl dod i gytundeb â'r Ymgeisydd, tynnodd AMG Alpoco UK Limited ei wrthwynebiad i'r gwaith arfaethedig yn ôl (Cyf.(au): OBJ038 a Thynnu'n Ôl – 010).

**Fibrespeed**

750. Tynnwyd yn ôl gwrthwynebiad cychwynnol (Cyf: OBJ002) i'r gwaith arfaethedig o ganlyniad i'r posibilrwydd o effeithio ar seilwaith presennol ym mis Rhagfyr 2019.

## Siarad Cyhoeddus

751. Roedd y partïon a gyfrannodd at y sesiwn siarad cyhoeddus, ar noson 02/12/2020, yn cynnwys gwrthwynebwyr a chefnogwyr y cais. Rhoddodd yr Ymgeisydd ei ymateb, trwy Gyf: Dogfen Ymchwiliad – 013, i bryderon a fynegwyd yn y sesiwn siarad cyhoeddus ynglŷn ag: i ba raddau yr ymgynghorwyd â'r cyhoedd ynglŷn â'r cynnig a'r gwaith sy'n rhan ohono, a'u hymwybyddiaeth ohono; a, phresenoldeb golygfan gyhoeddus uwchben y bae lle y byddai'r ceblau allforio'n cyrraedd y tir.

752. Roedd pwyntiau yn erbyn y cynnig yn cynnwys:

(i) effeithiau posibl ar fywyd gwyllt a bioamrywiaeth;

(ii) effeithiau posibl ar gymeriad a golwg yr ardal, gan gynnwys defnyddio dyfeisiau sy'n codi o'r dŵr;

(iii) posibilrwydd o golli man agored 'gwyllt';

(iv) effeithiau economaidd-gymdeithasol posibl, gan gynnwys y rhai hynny ar dwristiaeth;

(v) effeithiau posibl grymoedd electromagnetig ar iechyd pobl;

(vi) bod yr egwyddor y llygrwr sy'n talu a dulliau eraill yn cael eu defnyddio i ddiogelu'r amgylchedd, a bod digon o arian ar gyfer 'glanhau';

(vii) effeithiau posibl ar ddefnyddiau hamdden o'r tir a'r môr;

(viii) risgiau posibl i fordwyo a badau; a,

(ix) ffyrdd amgen posibl o ddarparu ynni adnewyddadwy a buddion eraill y cynllun.

753. Roedd y rhai a siaradodd o blaid y cynnig wedi nodi:

(i) eu cefnogaeth i ddatblygiad ynni'r llanw;

(ii) eu parodrwydd i leoli dyluniadau tyrbin amrywiol;

(iii) eu parodrwydd i ddarparu'r seilwaith ar y tir;

(iv) eu parodrwydd i fynd i'r afael â gofynion rheoleiddiol, gan gynnwys 'glanhau';

(v) rôl Morlais wrth helpu i arddangos technolegau, darbodion maint a mesurau lliniaru sy'n berthnasol yn genedlaethol ac yn rhyngwladol;

(vi) parodrwydd yr amgylcheddau academaidd a busnes lleol i gefnogi Morlais trwy ddarparu gweithlu hyfforddedig â chymwysterau addas;

(vii) y byddai'r cynnig yn cefnogi nodau llesiant Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015; a

(viii) byddai'r cynnig yn darparu swyddi da i bobl leol ac yn eu galluogi i barhau i fyw a gweithio yn eu hardal leol neu ddychwelyd i wneud hynny.

# Casgliadau'r Arolygydd

*Mae cromfachau sgwâr yn y casgliadau hyn yn cynnwys rhifau sy'n cyfeirio at baragraffau cynharach yn yr adroddiad hwn sy'n cynnwys deunydd sy'n berthnasol i'm casgliadau. Cyfeirir at nifer o ddogfennau'r ymchwiliad hefyd.*

## <u>Y Prif Ystyriaethau</u>

754. Byddai'r Gorchymyn, pe byddai'n cael ei wneud, yn galluogi gwaith ar y môr ac ar y tir. Byddai'n mynd i'r afael â rheoli datblygiad ar y tir, ac ymyriadau â hawliau sy'n deillio o'r gwaith arfaethedig.

755. Ar ôl i'r cais a'r sylwadau mewn perthynas ag ef gael eu hystyried, rhoddwyd y prif faterion disgwyliedig i'r partïon yn y PIM ym mis Tachwedd 2019. Rhestrodd Nodyn Gweithdrefnol Rhif 2 y prif faterion disgwyliedig hyn ac ychwanegodd fater cychwynnol i fynd i'r afael â materion polisi a deddfwriaethol yn benodol. Ym mis Tachwedd 2020, roedd y Datganiad o Faterion (Cyf: Dogfen Ymchwiliad – 160) yn adlewyrchu'r prif faterion disgwyliedig yr hysbyswyd y partïon amdanynt yn flaenorol a rhoddodd fwy o fanylion ynglŷn â nhw.

756. O ganlyniad, y prif faterion a amlinellwyd ar ddechrau'r ymchwiliad oedd:

a) Y cefndir polisi a deddfwriaethol i'r cynnig;

ac effeithiau posibl y Gorchymyn ar,

b) Fioamrywiaeth – gan gynnwys, er enghraifft, materion yn ymwneud ag adar, mamaliaid môr, pysgod a'u cynefinoedd;

c) Cymeriad a/neu olwg yr ardal – gan gynnwys materion yn ymwneud â'r dirwedd a'r morlun;

ch) Materion economaidd-gymdeithasol – gan gynnwys, er enghraifft, twristiaeth a'r economi leol; a,

d) Materion morol – y rhai hynny nad ymdriniwyd â nhw yn rhan o'r mater 'bioamrywiaeth', megis mordwyo.

Hefyd, materion yn ymwneud â:

dd) Chaffael Gorfodol;

e) y Gorchymyn a'r rheolaethau y byddai'n eu darparu; ynghyd ag,

f) unrhyw faterion eraill sy'n berthnasol i'r caniatâd cynllunio tybiedig a geisir gan y cais.

757. Rhoddodd y prif faterion hyn strwythur fesul thema i'r ymchwiliad. Roedd y materion heb eu datrys ym mhob pwnc wedi llywio'r fformat a ddewiswyd ar gyfer sesiynau unigol yr ymchwiliad.

# Deddfwriaeth a Pholisi

## Polisi'r Deyrnas Unedig

758. Mae'r Ymgeisydd wedi tynnu sylw at berthnasedd ac arwyddocâd posibl Datganiadau Polisi Cenedlaethol ("NPS") y Deyrnas Unedig; a chanllawiau cysylltiedig yr Arolygiaeth Gynllunio ar ddefnyddio dull "*Amlen Rochdale*" ar gyfer datblygiadau mawr, y cyfeirir ato yn yr achos hwn at yr Amlen Dylunio Prosiect ("PDE"). Mae'r cyflwyniadau hyn yn cynnwys y gyfraith achosion sy'n berthnasol i'r dull PDE. Mae nifer o bartïon, gan gynnwys yr RSPB [546-555], wedi herio lefel y manylion sy'n cefnogi'r cais ac ymdrinnir â hyn isod. Fodd bynnag, mae priodoldeb defnyddio dull PDE ar gyfer y cais hwn yn amlwg o'r gyfraith achosion. [88-93, 556]

759. Ni cheisiodd yr un o'r partïon i'r ymchwiliad groesholi'r Ymgeisydd ynglŷn â'i dystiolaeth bolisi, ac ar ôl i'r dystiolaeth honno gael ei chlywed, rhoddodd yr Ymgeisydd ddiweddariad ar ei achos polisi cyn wythnos eistedd olaf yr ymchwiliad. [102]

760. Wrth wneud hynny, tynnodd yr Ymgeisydd sylw at Bapur Gwyn diweddar y Deyrnas Unedig ar Ynni, dyddiedig 14 Rhagfyr 2020, sef "*Pweru ein Dyfodol Sero-net*", a materion yn llythyr penderfyniad yr Ysgrifennydd Gwladol ar Orchymyn Caniatâd Datblygu Fferm Wynt Hornsea yn ymwneud â'r NPSau presennol, y pwys a briodolir iddynt a'r adolygiad o'r NPSau. [102] Wrth gwrs, mae ystyriaethau yn ymwneud â phwys yn fater i Weinidogion Cymru wrth benderfynu ar y cais hwn.

761. Mae Adran 29 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn cynnwys targed ar gyfer gostyngiad 80% mewn allyriadau nwyon tŷ gwydr erbyn 2050 o gymharu â lefel sylfaenol 1990. Ym mis Mai 2019, argymhellodd y Pwyllgor ar Newid Hinsawdd ("CCC") y dylai'r Deyrnas Unedig gyrraedd y targed "sero-net" erbyn 2050, ac y dylai Cymru leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr 95% erbyn y dyddiad hwnnw, i gyflawni rhwymedigaethau 'Cytundeb Paris'. Aethpwyd i'r afael â'r materion hyn mewn Datganiad Cabinet cysylltiedig gan Lywodraeth Cymru, dyddiedig 11 Mehefin 2019. [103-105, 108, 440]

762. Yn ystod yr ymchwiliad, rhoddodd CCC gyngor i Weinidogion Cymru, dyddiedig 17 Rhagfyr 2020, o'r teitl "*Y llwybr tuag at sero-net a lleihau allyriadau yng Nghymru*", y rhoddir manylion amdano yng Nghyf: Dogfen Ymchwiliad – 046. [105 (v)]. Mae'n amlwg y byddai Morlais yn cyfrannu at gyrraedd allyriadau nwyon tŷ gwydr sero-net trwy helpu i ehangu cyflenwadau ynni carbon isel, pan ddisgwylir i'r galw am drydan yng Nghymru ddyblu erbyn 2050.[990]

Datganiadau Polisi Cenedlaethol

763. Ym mis Gorffennaf 2011, cyhoeddodd Llywodraeth y Deyrnas Unedig y *Datganiad Polisi Cenedlaethol Cyffredinol ar Ynni (EN-1)* ("NPS EN-1") a'r *Datganiad Polisi Cenedlaethol ar Seilwaith Ynni Adnewyddadwy (EN-3)*. Mae'r dogfennau hyn yn canolbwyntio ar geisiadau (i Lywodraeth y Deyrnas Unedig) am Orchmynion Caniatâd Datblygu o dan Ddeddf Cynllunio 2008 ar gyfer seilwaith ynni a gorsafoedd cynhyrchu ar y raddfa a gynigir gan Forlais. Mae paragraff 1.2.1 EN-1 yn nodi ei fod

[990] Dogfen CCC *Y llwybr tuag at sero-net a lleihau allyriadau yng Nghymru*, fel y'i dyfynnwyd yn Nogfen Ymchwiliad – 046, gweler tudalennau rhif "5" a "6" (h.y. tudalennau 7 ac 8 yn y ddogfen PDF)

yn debygol o fod yn ystyriaeth berthnasol mewn penderfyniadau ar geisiadau sy’n dod o fewn Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990. [110, 113] Byddai cais Morlais yn rhoi caniatâd cynllunio tybiedig o ran Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990. Fodd bynnag, mae’r cais yn cael ei wneud o dan Ddeddf TWA 1992.

764. Achos yr Ymgeisydd yw bod polisi perthnasol ar bob lefel yn cydnabod yr angen dybryd am fwy o gapasiti cynhyrchu ynni adnewyddadwy. [111] Cefnogir y farn honno gan y dogfennau polisi a’r cyd-destunau y cyfeirir atynt mewn perthynas â pholisi rhyngwladol a pholisi’r Deyrnas Unedig; y mae eu themâu allweddol bellach wedi’u hadlewyrchu a’u mynegi ym mholisi perthnasol a llawer mwy diweddar Cymru. Felly, mater i Weinidogion Cymru yw ffurfio barn ynglŷn ag i ba raddau y mae eu penderfyniad yn dibynnu ar y polisïau perthnasol, ond hŷn, yn yr NPSau.

765. Gan droi yn awr, felly, at gyd-destun deddfwriaethol a pholisi Cymru.

**Deddfwriaeth a Pholisi Cymru**

<u>Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015</u>

766. Mae’r diffiniad o ddatblygu cynaliadwy yng Nghymru, a’r gofyniad i gyrff cyhoeddus ei gyflawni, wedi’u cynnwys yn Neddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015. [106, 107]

767. O’r saith nod llesiant yn y Ddeddf, mae’r Ymgeisydd yn cyflwyno chwech fel y rhai sy’n fwyaf perthnasol i’r cynnig. [107] Bydd y casgliadau isod ar effeithiau posibl y cynnig yn mynd i’r afael â’u perthnasedd. Fodd bynnag, mae’r seithfed nod llesiant, sef *Cymru â diwylliant bywiog lle mae’r Gymraeg yn ffynnu*, yn berthnasol hefyd. Mae gan boblogaeth Ynys Môn gyfran sylweddol o siaradwyr Cymraeg. Amlygodd y partïon a siaradodd y blaid y cynnig y byddai Morlais yn darparu cyfleoedd ychwanegol i bobl leol gael cyflogaeth fedrus sy’n talu’n dda ar yr ynys. Amlygodd tystiolaeth i’r ymchwiliad hefyd grwpiau chwaraeon a hamdden sy’n cyfrannu at gymunedau’r ynys ac, yn hynny o beth, at ei diwylliant mordwyol a chyfoes.

<u>Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016</u>

768. Fel y nodwyd uchod, mae’r angen i ostwng allyriadau nwyon tŷ gwydr wedi’i gydnabod yn y Ddeddf. [108 a 103-105]

769. Bydd cyrraedd targedau o’r fath ar gyfer 2050, ynghyd â’r galw cynyddol am drydan, yn gofyn am ddatblygu capasiti cynhyrchu i ddarparu ynni carbon isel adnewyddadwy. Gallai Morlais wneud cyfraniad rhagweladwy a sylweddol at y capasiti cynhyrchu carbon isel hwnnw, ar yr un pryd â helpu i ddatblygu, a phrofi, technolegau sy’n galluogi dal mwy o ynni o ffrydiau llanw addas ledled Cymru, y Deyrnas Unedig a thu hwnt.

770. Mae datganiad Llywodraeth Cymru ynghylch ‘argyfwng hinsawdd’ ym mis Ebrill 2019 wedi rhoi pwyslais ychwanegol ar y mater hwn. [109-111] Mae’r angen i ddatblygu cyflenwadau ynni carbon isel, cynaliadwy yng Nghymru, yng nghyd-destun y nodau llesiant, yn amlwg yn rhoi pwys sylweddol iawn o blaid Morlais.

<u>Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru</u>

771. Mae polisi cynllunio perthnasol ar gyfer yr amgylchedd morol yn cynnwys hwnnw a geir yn Natganiad Polisi Morol y Deyrnas Unedig (2011) (“MPS”) (Cyf: MDZ/D4).

Fe'i mabwysiadwyd gan Weinidogion Cymru (ynghyd â gwledydd datganoledig eraill a'r Ysgrifennydd Gwladol) fel fframwaith ar gyfer paratoi Cynlluniau Morol ac ar gyfer penderfyniadau sy'n effeithio ar yr amgylchedd morol. Mae'r MPS yn amlinellu rôl ei bolisïau o fewn y system cynllunio morol ehangach a sut maen nhw'n rhyngweithio â chyfundrefnau cynllunio presennol.

772. Mae'r adran o'r MPS o'r teitl "*Cwmpas yr MPS*" yn datgan "…*Mae Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009 yn mynnu bod pob awdurdod cyhoeddus…sy'n gwneud penderfyniadau awdurdodi neu orfodi…sy'n effeithio ar ardal forol y Deyrnas Unedig, neu a allai effeithio arni, yn gwneud hynny yn unol â'r MPS oni bai bod ystyriaethau perthnasol yn awgrymu fel arall*…".

773. Mae'r gwaith arfaethedig yn ceisio manteisio ar ynni'r llanw. Mae polisi diweddar ynglŷn â datblygu'r moroedd o amgylch Cymru yn gynaliadwy wedi'i gynnwys yng Nghynllun Morol Cenedlaethol Cymru ("WNMP") (Cyf: MDZ/D5), a fabwysiadwyd ym mis Tachwedd 2019. Mae'r Cyflwyniad i WNMP yn nodi: ei fod wedi cael ei baratoi a'i fabwysiadu o dan Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009; a'i fod yn cydymffurfio ag MPS y Deyrnas Unedig.

774. Mae'r MDZ o fewn Rhanbarth y Glannau WNMP h.y. o fewn 12 môr-filltir o benllanw cymedrig y gorllanw ("MHWST").

775. Mae Tabl 1 WNMP yn rhestru 13 o "Amcanion y Cynllun" sy'n themâu Amcan Morol Lefel Uchel ("HLMO") trosfwaol y Deyrnas Unedig, fel y'u cymhwysir yng Nghymru. Y cyntaf o'r amcanion WNMP hyn yw "…*Cefnogi datblygiad cynaliadwy ardal forol Cymru trwy gyfrannu ar draws nodau llesiant Cymru, cefnogi Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy (SMNR) trwy wneud penderfyniadau ac ystyried effeithiau cronnol pob defnydd o'r amgylchedd morol*…". Mae'r amcan hwn, a 12 amcan arall WNMP, yn berthnasol i'r gwaith arfaethedig gan eu bod yn cefnogi'r nodau llesiant a materion sy'n ymwneud â nhw.

776. Gweledigaeth WNMP yw bod moroedd Cymru yn lân, yn iach, yn ddiogel, yn gynhyrchiol ac yn fiolegol amrywiol. Er bod yr holl ffactorau hyn yn berthnasol i ystyried y cais hwn, mae'r tri olaf (h.y. sicrhau bod moroedd Cymru yn ddiogel, yn gynhyrchiol ac yn fiolegol amrywiol) yn arbennig o berthnasol i'r prif faterion a amlygwyd uchod.

777. Mae Ffigur 2 WNMP, sef "*Trosolwg o Ardaloedd Adnoddau*", yn amlygu "*Ardaloedd Adnoddau Sector Posibl*" o amgylch arfordir Cymru. Dangosir y gallai "*ynni ffrwd lanw*" fod ar gael, o bosibl, mewn nifer o leoliadau o amgylch Cymru, gan gynnwys i'r gogledd a'r gorllewin o Ynys Môn ac yn ardal yr MDZ. Mae Ffigur 2 WNMP hefyd yn cadarnhau bod y lleoliadau hyn, gyda cherrynt gorllanw brig o $\geq$1.5 m/s, yn gyfyngedig o ran nifer ac ardal ddaearyddol. [114]

778. Mae'n amlwg bod ynni ffrwd lanw yn adnodd ac iddo ffocws ac sy'n ddaearyddol benodol. Clywodd yr ymchwiliad fod yr MDZ yn lleoliad delfrydol i ddal ynni ffrwd lanw o fewn un o'r ardaloedd adnoddau a amlygwyd a ddangosir ar WNMP Ffigur 2. [31, 34, 35]

779. Mae WNMP yn cynnwys "Polisïau Trawsbynciol Cyffredinol" a "Pholisïau Penodol i Sector".

780. Mae polisi GEN_01 yn cadarnhau bod rhagdybiaeth o blaid datblygu ardal y cynllun yn gynaliadwy er mwyn cyfrannu at nodau llesiant Cymru. Mae polisi SCI_01 yn datgan y dylai awdurdodau cyhoeddus perthnasol wneud penderfyniadau

gan ddefnyddio tystiolaeth gadarn a dull cymesur wedi'i seilio ar risg; a, lle y bo'n briodol, dylent ddefnyddio'r egwyddor ragofalus ac ystyried cyfleoedd i gymhwyso rheoli addasol.

781. Mae polisi ENV_01 WNMP, sef *Ecosystemau morol cydnerth*, yn cefnogi cynigion a fyddai'n cyfrannu at warchod, adfer a/neu wella ecosystemau morol. Mae'n datgan os na ellir osgoi, lleiafu neu liniaru effeithiau niweidiol arwyddocaol, bod rhaid i gynnig gyflwyno achos clir ac argyhoeddiadol dros symud ymlaen.

782. Effeithiau posibl ar "Forweddau" yw pwnc, a theitl, polisi SOC_07 WNMP. Mae'n datgan y dylai cynigion ddangos sut mae effeithiau posibl ar forluniau wedi cael eu hystyried a dylent osgoi effeithiau niweidiol, ac yna lleiafu effeithiau niweidiol os na ellir eu hosgoi ac, yn olaf, lliniaru effeithiau na ellir eu hosgoi. Os na ellir osgoi, lleiafu neu liniaru effeithiau niweidiol arwyddocaol ar y morlun, mae'n rhaid i gynnig gyflwyno achos clir ac argyhoeddiadol dros symud ymlaen. Er bod y polisi hwn wedi cael ei gynnwys yn nodyn cymharu'r Ymgeisydd o fersiynau terfynol WNMP, nid yw'n amlwg bod y polisi hwn wedi cael ei ystyried yn y rhan berthnasol o bennod yr ES, nac ym Mhroflenni Tystiolaeth yr Ymgeisydd na'r cyflwyniadau i gloi. O ystyried natur y cynnig a'i effeithiau posibl, mae polisi SOC_07 WNMP yn berthnasol i ystyried y gwaith alltraeth a gynigir.

783. Mae nifer o bolisïau "Sector" WNMP yn mynd i'r afael ag ynni carbon isel, gan gynnwys polisi ELC_03, sef *Ynni ffrwd lanw (cefnogi) carbon isel*. Fel mae'r teitl yn awgrymu, mae polisi ELC_03 WNMP yn uniongyrchol berthnasol i'r gwaith arfaethedig, ac mae iddo ddwy ran. Mae'r rhan gyntaf, sef polisi ELC_03 a WNMP, yn cefnogi cynigion ar gyfer cynhyrchu ynni ffrwd lanw pan fyddant yn cyfrannu at amcanion WNMP. Mae'r ail ran, sef polisi ELC_03 b WNMP, yn annog awdurdodau cyhoeddus perthnasol a'r sector, mewn cysylltiad â phartïon eraill â buddiant, i gydweithredu ar faterion er mwyn cefnogi datblygiad cynaliadwy'r sector trwy gynllunio morol. [114]

784. Bydd casgliad ynglŷn â chydymffurfio â pholisi ELC_03 WNMP yn cael ei lywio gan y prif faterion canlynol sy'n ymdrin ag effeithiau posibl Morlais. Os bydd y cynnig yn cydymffurfio â rhan gyntaf polisi ELC_03, i fod yn ddatblygiad o fath cynaliadwy, byddai'r gwaith yn cydymffurfio ag ail ran y polisi gan y byddai diben, gweithrediad a chanlyniadau cysylltiedig yr MDZ yn cyd-fynd ag amcanion polisi ELC_03 b WNMP.

<u>Cymru'r Dyfodol – Y Cynllun Cenedlaethol 2040</u>

785. Roedd achosion y partïon yn gallu mynd i'r afael â'r drafft gweithio o'r cynllun *Cymru'r Dyfodol* yn ystod yr ymchwiliad. Cyhoeddwyd fersiwn derfynol *Cymru'r Dyfodol* ar ôl wythnosau eistedd yr ymchwiliad. Mae bellach yn rhan o'r cynllun datblygu ar gyfer yr ardal sy'n cynnwys y gwaith arfaethedig, a rhoddwyd cyfle i'r partïon wneud sylwadau terfynol ar unrhyw newidiadau o'r drafft gweithio a allai effeithio ar eu hachos.

786. Mae'r cyflwyniad i'r cynllun *Cymru'r Dyfodol* yn cadarnhau bod ei strategaeth yn cynnwys cynnal a datblygu economi sy'n ffynnu, cyflawni datgarboneiddio a hinsawdd gadarn, datblygu ecosystemau cryf a gwella iechyd a lles cymunedau. Cydnabu cyflwyniadau i'r ymchwiliad y materion hyn a sut yr ymdriniwyd â nhw yn y drafft gweithio o'r cynllun Cymru'r Dyfodol, [116, 117] ac mae'r fersiwn derfynol o'r cynllun yn eu cadw.

787. Mae fersiwn gyhoeddedig derfynol *Cymru'r Dyfodol* yn cadarnhau: bod WNMP wedi llywio'r broses o'i lunio; ei bod yn hanfodol bod allyriadau'n cael eu lleihau, a

bod cyfrifoldeb byd-eang yn cael ei ddangos; a, bod Polisi 18 wedi'i gynnwys i ymdrin yn benodol â *Datblygiadau Ynni Adnewyddadwy a Charbon Isel o Arwyddocâd Cenedlaethol*. Mae Morlais yn gais o dan y TWA, yn hytrach na'r weithdrefn ar gyfer Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol. Yng nghyd-destun y TWA, deuthum i'r casgliad bod cynnig Morlais o ddiddordeb cenedlaethol ac o 'arwyddocâd' rhanbarthol, yn hytrach na chenedlaethol, o ganlyniad i'w gapasiti cynhyrchu.[991]

788. Er hynny, mae Polisi 18 *Cymru'r Dyfodol* yn amlwg yn berthnasol i'r math o ddatblygiad a gynigir gan Forlais, hyd yn oed os na fwriadwyd i'r polisi drafod ei raddfa a'i gyd-destun deddfwriaethol. Mae Polisi 18 yn caniatáu cynigion ar gyfer datblygiad ynni adnewyddadwy a charbon isel pan fydd effeithiau annerbyniol penodol yn cael eu hosgoi, a meini prawf eraill yn cael eu bodloni.

789. Mae Polisi 24 *Cymru'r Dyfodol*, sef *Gogledd-orllewin Cymru ac* Ynni, yn uniongyrchol berthnasol i Forlais. Mae'n cefnogi gogledd-orllewin Cymru fel lleoliad ar gyfer datblygiad a buddsoddiad newydd mewn ynni. [116] Mae Polisi 24 hefyd yn datgan y dylai datblygiad newydd sy'n gysylltiedig ag ynni yn y rhanbarth gefnogi cymunedau lleol a rhanbarthol, darparu swyddi a buddsoddi mewn hyfforddiant a sgiliau, a gweithio gyda phrifysgolion a busnesau i gydlynu a mwyafu buddsoddiad newydd i gefnogi'r rhanbarth ehangach.

790. Mae'r Ymgeisydd wedi amlinellu buddion y cynllun, sy'n cynnwys:

(i) darparu ynni adnewyddadwy â chylch cynhyrchu dyddiol rhagweladwy a chyson sydd â digon o bŵer ar gyfer 188,000 o gartrefi h.y. mwy nag a fyddai'n angenrheidiol ar gyfer yr anheddau ar Ynys Môn ac yng Ngwynedd a Chonwy; [59]

(ii) byddai'r MDZ, fel y mae'r enw'n awgrymu, yn galluogi'r sector ynni'r llanw i brofi a datblygu ei dechnolegau yn y dyfroedd hyn; [60, 114] a,

(iii) byddai disgwyl i'r MDZ gynorthwyo twf economaidd ac arwain at fuddion economaidd-gymdeithasol cysylltiedig, [62, 63] er bod rhai pryderon wedi'u mynegi ynglŷn ag anfanteision posibl i rai sectorau busnes.

<u>Polisi Cynllunio Cymru ("PPW") (11eg argraffiad)</u>

791. Roedd achosion y partïon yn gallu mynd i'r afael â Pholisi Cynllunio Cymru (10fed argraffiad). [114, 134] Cyhoeddwyd PPW (11eg argraffiad) ochr yn ochr â'r cynllun *Cymru'r Dyfodol* ar ôl i'r ymchwiliad eistedd, a rhoddwyd cyfle i'r partïon wneud sylwadau ar unrhyw newidiadau i PPW a allai effeithio ar eu hachos.

792. Mae 11eg argraffiad PPW yn adlewyrchu themâu allweddol perthnasol yn y cynllun *Cymru'r Dyfodol* trwy gynnwys, er enghraifft, adran benodol ar *Newid yn yr Hinsawdd, Datgarboneiddio a Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy*. Mae PPW hefyd: yn cefnogi sicrhau "…*cymysgedd priodol o ddarpariaeth ynni sy'n cynyddu'r manteision i'n heconomi a'n cymunedau ac yn lleihau effeithiau amgylcheddol a chymdeithasol yr un pryd*…"; ac, yn cadarnhau "…*mae manteision ynni adnewyddadwy a charbon isel fel rhan o'r ymrwymiad cyffredinol i fynd i'r afael â'r*

---

[991] Trwy a.9 y TWA, byddai gan gynnig TWA o arwyddocâd cenedlaethol gyd-destun penodol a gwahanol i hwnnw ar gyfer Datblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol o dan *Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2015* a *Rheoliadau Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Cymru) 2016* (fel y'u diwygiwyd) a rheoliadau dilynol.

*argyfwng hinsawdd a diogelu'r cyflenwad ynni o bwys aruthrol…*". Mae PPW hefyd yn nodi "…*Mae gan storio ynni gyfraniad pwysig i'w wneud at reoli'r newid i economi carbon isel…*". [992] Byddai Morlais yn cyfrannu at ddarparu ynni adnewyddadwy a charbon isel yng ngogledd-orllewin Cymru ar gyfer ei chymunedau ac yn ceisio darparu batris storio yn rhan o'i waith.

<u>Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd (CDLlC)</u>

793. Tynnodd y Cyngor ei wrthwynebiad yn ôl cyn yr ymchwiliad. [439] Pe byddai'r amodau cynllunio y gofynnwyd amdanynt yn cael eu gosod, ni amlygwyd gwrthdaro â pholisïau'r CDLlC. Mae hyn yn cynnwys Polisïau PS 19, AMG1, AMG 3 ac AMG 4 y CDLlC a fyddai'n derbyn sylw gan amodau cynllunio posibl (o fewn Atodiad 1 isod). [303, 440]

**Casgliad cychwynnol ynglŷn â pholisïau**

794. Mae'r polisïau strategol presennol y cyfeirir atynt uchod yn rhoi cefnogaeth gref i Forlais, fel prosiect a fyddai'n darparu capasiti cynhyrchu ynni carbon isel ychwanegol sy'n arwyddocaol yn rhanbarthol. Byddai'n gwneud cyfraniad dyddiol, rhagweladwy ac arwyddocaol iawn, o bosibl, at ddarparu ynni a datgarboneiddio ein cyflenwadau ynni, ar yr un pryd â galluogi dangos addasrwydd y dyfeisiau ar gyfer, ac o fewn, dyfroedd arfordirol Cymru a'r Deyrnas Unedig.

[992] Paragraffau 5.76 a 5.77

## Rheoleiddio a Lliniaru

795. Cynhyrchodd yr Ymgeisydd Cyf: RPE008 i hysbysu'r ymchwiliad am faterion sy'n berthnasol i'r rheolaethau y byddai'r Gorchymyn yn eu darparu, a'i berthynas â chyfundrefnau cydsynio eraill. Wrth wneud hynny, ceisiodd yr Ymgeisydd fynd i'r afael ag Eitemau 1(ii), 5(iv), 5(v) a 7 o'r Datganiad Materion (Cyf: Dogfen Ymchwiliad – 160), sef:

Eitem 1 ii. Y berthynas rhwng y Gorchymyn, trwyddedu morol a'r caniatâd cynllunio tybiedig, a'u rheolaethau ar gyfer y gwaith a gynigir (gweler hefyd eitemau 5) iv., 5) v. a 7) isod);

Eitem 5 iv. P'un a fyddai'r Gorchymyn, a phrosesau cysylltiedig e.e. trwyddedu morol, yn darparu rheolaethau, amodau a phroses(au) cydsynio digonol i fynd i'r afael yn llawn â'r ystod bosibl o ddyluniadau a dulliau lleoli dyfeisiau (gweler hefyd eitemau 1) ii., 5) v. a 7));

Eitem 5 v. O ran y materion hyn, a'r pwnc bioamrywiaeth uchod, mae angen i'r ymchwiliad ddeall: y gwahanol reolaethau rheoleiddiol a fyddai'n berthnasol ac i ba raddau y byddent yn gymwys i waith o fewn y Gorchymyn; a, materion yn ymwneud â'r posibilrwydd o ddefnyddio dull rheoli addasol ar gyfer lliniaru amgylcheddol a monitro'r gwaith o dan y Gorchymyn (gweler hefyd eitemau 1) ii., 5) iv. a 7)); ac,

Eitem 7 Y Gorchymyn a'r rheolaethau y byddai'n eu darparu (gweler hefyd eitemau 1) ii., 5) iv. a 5) v. uchod).

[68-70, 139]

796. Wedi hynny, roedd y swyddogaethau rheoleiddiol gwahanol a fyddai'n berthnasol i'r gwaith, cyfrifoldebau'r rheoleiddwyr a sut y disgwylid i'w swyddogaeth gael ei chymhwyso i'r gwaith, yn destun sesiwn RT yn yr ymchwiliad. Cadarnhaodd yr RT y gellir disgwyl i reoleiddiwr cymwys weithredu'n gymwys. [95, 96, 97, 140]

797. Mae'r Ymgeisydd wedi rhoi ei farn ynglŷn â'r angen i'r penderfyniad hwn gan Weinidogion Cymru fynd i'r afael â materion a fyddai'n derbyn sylw o dan Drwydded Forol gysylltiedig. O ystyried y rolau penderfynu a rheoleiddiol yn yr achos hwn, dylid tybio y byddai CNC yn rheoleiddio'n gymwys trwy ML a fyddai'n darparu diogelwch digonol ar gyfer defnyddwyr dŵr. [141, 143]

798. Roedd trafodaethau yn ystod yr ymchwiliad wedi egluro'r gwahaniaethau rhwng y partïon, natur effeithiau posibl a'r dulliau posibl o liniaru'r effeithiau hynny. Mae dogfen graidd Cyf: MDZ/A16.7 yn darparu *Map Llwybr Lliniaru Morlais*, sy'n crynhoi'r dulliau rheoleiddio a lliniaru arfaethedig a phosibl. [139][993] Mae'n cynnwys cyfeiriad at amodau awgrymedig ar gyfer y Drwydded Forol y byddai Tîm Trwyddedu Morol CNC yn awdurdod penderfynu ar eu cyfer. Nid yw fy adroddiad yn cynnig barn ynglŷn â phriodoldeb posibl yr amodau awgrymedig ar gyfer y Drwydded Forol. Fodd bynnag, amlinellir cwmpas, natur ac effeithiolrwydd posibl y mesurau lliniaru naill ai

[993] Mae rhannau o *Fap Llwybr Lliniaru Morlais* (Cyf: MDZ/A16.7) yn cyfeirio at y *Cynllun Rheoli a Monitro Amgylcheddol* yn hytrach na'r *Cynllun Lliniaru a Monitro Amgylcheddol*. Deëllir mai'r un ddogfen yw'r rhain h.y. yr EMMP.

o fewn yr amodau awgrymedig, neu’r hyn a fyddai’n cael ei ddarparu gan amodau eraill y Drwydded Forol, i lywio ystyriaeth Gweinidogion Cymru o’r cais TWA hwn.

799. Mae’r Ymgeisydd wedi ceisio egluro’r hyn y mae’n ei ystyried yn ddehongliadau gwrthgyferbyniol o’i achos o ran effeithiau posibl y cynnig ar fioamrywiaeth. Mae’r Ymgeisydd o’r farn bod digon o wybodaeth gerbron Gweinidogion Cymru i benderfynu ar yr achos heb ddibynnu ar ganiatadau ychwanegol. Ymdrinnir isod â’r effeithiau posibl ar fioamrywiaeth, ynghyd â digonolrwydd y wybodaeth a ddarparwyd. [142]

## Effeithiau Posibl ar Gymeriad a Golwg

800. Mae *Adolygiad Cynllun Rheoli 2015 – 2020* Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol ("AHNE") Ynys Môn (Cyf: MDZ/D7) yn cadarnhau bod llawer o Ynys Gybi a'r gwaith arfaethedig ar y tir o fewn yr AHNE. Mae'r ardaloedd o Ynys Gybi sydd wedi'u hepgor o'r AHNE yn cynnwys Caergybi a Bae Trearddur. Byddai'r gwaith arfaethedig ar diroedd yr AHNE rhwng glanfa'r ceblau allforio ger Ynys Lawd a'r man lle y byddai'r ceblau pŵer yn croesi coridor yr A55 / y rheilffordd yn y diwedd i gyrraedd safle'r is-orsaf ym Mhenrhos ar ochr ddwyreiniol Ynys Gybi. [11, 13]

801. Mae Nodweddion Arbennig yr AHNE sy'n berthnasol i'r gwaith arfaethedig yn cynnwys: clogwyni môr arfordirol a glannau creigiog; tirweddau amaethyddol â waliau cerrig a chloddiau; golygfeydd eang; heddwch a llonyddwch; bioamrywiaeth; archaeoleg a henebion; cymunedau arfordirol ac amaethyddol gwledig; a'r Gymraeg.

### Morlun

802. Byddai'n ymddangos bod yr MDZ [15] o fewn Ardaloedd Cymeriad Morol 8 a 9 WNMP yn bennaf h.y. "*Dyfroedd Agored Gorllewin Ynys Môn*" a "*Gorllewin Ynys Gybi a Bae Penrhos*", fel y dangosir ar Ffigur 5 WNMP. (Cyf: MDZ/D5) Mabwysiadodd SLVIA yr ES Asesiad o Gymeriad Morlun Ynys Môn 2013 fel ei linell sylfaen, ac mae'n cadarnhau y byddai'r MDZ yn bennaf o fewn ardal cymeriad morlun SCA 31 – *Gorllewin Ynys Môn* a nesaf at ardaloedd traethlin SCA 13 – *Mynydd Caergybi* ac SCA 14 - *Rhoscolyn*. [281, 294] [994]

803. Ar hyn o bryd, mae'r morlun alltraeth yn ardal yr MDZ yn un o ddyfroedd agored, ynghyd â'r clogwyni a'r baeau arfordirol sy'n ymestyn o amgylch Mynydd Caergybi tua'r lan greigiog a'r traethau ym Mae Trearddur. Mae heddwch a llonyddwch yn un o Nodweddion Arbennig yr AHNE sy'n amlwg ar yr arfordir nesaf at yr MDZ. Fodd bynnag, nid yw'r dyfroedd agored oddi ar Ynys Lawd yn holl dawel.

804. Cynhaliais ymweliadau safle digwmni yn ystod y dydd ac ar ôl machlud haul. Cadarnhaodd fy ymweliad safle gyda'r nos fod gweithgarwch wedi iddi nosi hefyd, gyda dwy long oleuedig sylweddol wedi'u hangori, neu'n pysgota, i'r gogledd-orllewin o'r MDZ a bad llai o faint yn teithio trwy'r MDZ tuag at Ynys Lawd.

805. Mynegwyd pryderon ynglŷn â nifer a lleoliad y golygfannau a ddefnyddiwyd i ystyried y morlun yn yr ES. Rhoddodd yr ymchwiliad gyfle i'r materion hyn gael eu clywed ac i dystiolaeth ychwanegol gael ei darparu gan y partïon os oeddent yn dymuno. Yn ogystal, mae natur agored a digyfyngiad y morlun hwn yn caniatáu iddo gael ei weld o nifer o leoliadau, gan gynnwys o'r lan. Nododd tystiolaeth i'r ymchwiliad y mathau o ddefnydd hamdden a masnachol a wneir o'r MDZ a'r dyfroedd o'i amgylch. Roedd yn cynnwys cyflwyniadau SCC o deithiau o amgylch y morlin hwn a oedd yn cynnwys ffotograffau a dynnwyd o safbwynt caiaciwr môr a oedd yn cyfleu nodweddion yr AHNE a'r morlun y soniodd SCC amdanynt (er enghraifft sleid 7 Cyf: Dogfen Ymchwiliad – 026). [618, 619]

806. Ni wyddys eto sut olwg fydd ar ddyfeisiau sy'n codi o'r dŵr a leolir yn yr MDZ, a'u seilwaith ategol sy'n weladwy ar y môr. Byddai'r materion hyn yn cael eu penderfynu trwy'r broses Trwyddedu Morol, ynghyd â'r DDP ar gyfer pob dyfais. Dangosodd cyfraniadau at sesiynau RT yr ymchwiliad ei bod yn ddigon posibl y gallai mesurau i

[994] Paragraffau 123-128 Cyf: MDZ.A25.24, a PDF tud.6 o 75 Cyf: MDZ/A26.9

sicrhau mordwyo'n ddiogel o amgylch a thrwy'r MDZ gynnwys bandiau melyn a goleuadau o wahanol gryfder ar ddyfeisiau ynni'r llanw a seilwaith cysylltiedig sy'n codi o'r dŵr. [33, 55, 275, 284, 621, 622]

807. Byddai union bellteroedd gweledadd goleuadau a osodir ar ddyfeisiau sy'n codi o'r dŵr a seilwaith yr MDZ yn cael eu pennu trwy'r prosesau Trwyddedu Morol a chymeradwyo DDP. Fodd bynnag, o ystyried yr angen disgwyliedig i oleuo dyfeisiau a seilwaith sy'n codi o'r dŵr, byddai'n ymddangos y gellid disgwyl yn rhesymol i unrhyw ddyfais / seilwaith sy'n codi o'r dŵr fod yn "amlwg yn weledol", o leiaf yn ystod oriau tywyllwch, oherwydd ei (d)dyluniad a'r gofynion rheoleiddiol cysylltiedig y byddai'n ceisio eu bodloni.

808. Felly, er y byddai'r gwaith arfaethedig yn destun prosesau cydsynio ychwanegol, ar y cam hwn mae'n amlwg y byddai'r gwaith arfaethedig, oherwydd ei bresenoldeb a'i ddyluniadau ffisegol, yn weladwy ac yn ganfyddedig mewn golygfeydd o'r morlun. A byddai pobl sy'n edrych ar draws yr MDZ o leoliadau ar y tir ac ar y môr yn ymwybodol o ddatblygiad morol. Graddau'r ymwybyddiaeth honno o'r gwaith yw'r unig beth sydd i'w benderfynu o hyd.

809. Derbynnir y byddai'r gwaith arfaethedig yn cyflwyno dyfeisiau a seilwaith newydd mewn moroedd agored ac y gellid disgwyl i hyn gael effeithiau arwyddocaol ar yr AHNE. [294] Byddai'r effeithiau hyn yn lleihau ehangder golygfeydd / y morlun i'r de a'r gorllewin o Ynys Lawd o ganlyniad i bresenoldeb dyfeisiau ynni'r llanw sy'n codi o'r dŵr a seilwaith cysylltiedig sy'n codi o'r dŵr. Ni fyddai hyn yn bodloni'r weledigaeth ar gyfer dyfodol yr AHNE o fewn *Adolygiad Cynllun Rheoli 2015 – 2020* yr AHNE (Cyf: MDZ/D7), sy'n ceisio gwarchod a gwella tirwedd/morlun unigryw, harddwch naturiol a nodweddion arbennig AHNE Ynys Môn.

<u>Lliniaru effeithiau ar y morlun</u>

810. Gan droi yn awr at y mesurau lliniaru arfaethedig ar gyfer yr effeithiau hyn. O ran y morlun, roedd trafodaethau yn ystod yr ymchwiliad, a sylwadau a gyflwynwyd iddo, wedi'u seilio ar yr asesiad yn SLVIA'r cais ym Mhennod 24 Cyfrol 1 yr ES (Cyf: MDZ/A25.24). [53] Mae'r asesiad hwn yn cynnwys y "Mesurau Lliniaru Ymgorfforedig", ac mae'r adran berthnasol yn dechrau ym mhara. 147 yn adran 24.6.2.1 Pennod 24 Cyfrol yr ES (Cyf: MDZ/A25.24). Nodir bod y mesurau lliniaru ymgorfforedig (sy'n rhan o'r dyluniad) ar y môr (a restrir ym mhara. 147) yn cynnwys: ni fyddai unrhyw ddyfeisiau sy'n amlwg yn weledol yn cael eu gosod yn rhan ogleddol yr MDZ; byddai dyfeisiau sy'n amlwg yn weledol yn cael eu gosod o leiaf 1km ar y môr; a, lleiafu elfennau arnofiol mewn mannau eraill o fewn is-barthau i gadw cyfansoddiad elfennau ar y môr mor syml â phosibl.

811. Y cynllun sy'n cyfleu'r mesurau lliniaru ymgorfforedig, a chyfesurynnau'r ardaloedd cyfyngedig, yw Ffigur 4-5 o fewn Cyf: MDZ/A28.1. Mae'n ymddangos mai'r Ffigur hwnnw oedd ffynhonnell y cynllun ardal gyfyngedig a gynigir bellach ar gyfer y Gorchymyn. Fodd bynnag, nid yw'r testun yn Allwedd Ffigur 4-5 sy'n disgrifio'r dyfeisiau ym mhob ardal gyfyngedig wedi cael ei gynnwys yn y "cynllun ardal gyfyngedig" a gynigir bellach ar gyfer y Gorchymyn (Cyf: MDZ/G13). Er y rhoddir esboniadau yng Nghyf: dogfen Ymchwiliad – 103 am lawer o'r newidiadau i'r Gorchymyn, nid felly ar gyfer dileu'r cyfeiriad at Ffigur 4-5.[995]

[995] Gweler tudalen 8 Cyf: Dogfen Ymchwiliad – 103 ynglŷn â "…*Diffiniad o "ardal gyfyngedig – UKC 20m"*…"

812. Mae paragraff 8.1.5.6 tystiolaeth Dr Orme (Cyf: MDZ/P10), sef Tyst Prosiect yr Ymgeisydd, yn dangos y dyddiad 02/11/2020, ac mae'n nodi "…*Mae'r gwaharddiadau ar ddyfeisiau sy'n amlwg yn weledol o ran Aur yr Ardal Gyfyngedig wedi'u diffinio hefyd yn y TWAO*…". Nodaf fod y fersiwn o'r Gorchymyn a gyflwynwyd gyda'r cais (Cyf: MDZ/A2) yn datgan "…*mae "parth gogleddol" yn golygu'r rhan honno o ardal yr aráe a sefydlwyd fel y parth gogleddol yn Rhan 3 Atodlen 1 ac a ddangosir wedi'i lliwio'n borffor ac aur ar Ffigur 4.2 y datganiad amgylcheddol;*…". Mae'r Ffigurau ym Mhennod 4 Cyfrol II yr ES (Cyf: MDZ/A28.1) yn cynnwys y testun canlynol yn eu Hallweddi "…*Ardal Gyfyngedig (Aur) – Dim dyfeisiau llanw sy'n codi o'r dŵr sy'n amlwg yn weledol*…".

813. Mewn cyferbyniad, mae'r "cynllun ardal gyfyngedig" a gynigir bellach ar gyfer y Gorchymyn (Cyf: MDZ/G13) yn cynnwys y testun "*Ardal Gyfyngedig – Ogleddol*" yn unig yn ei allwedd, ac nid yw'r fersiwn o'r Gorchymyn a gyflwynwyd ar 02/11/2020 (Cyf: MDZ/A16.2) yn cyfeirio at "barth gogleddol", gan gynnwys yn lle hynny:

> "…*mae "cynllun ardal gyfyngedig" yn golygu'r cynllun wedi'i farcio 'Cynllun Ardal Gyfyngedig' ac sydd â'r cyfeirnod MORMSDRW0001 ac a ardystiwyd gan Weinidogion Cymru fel y cynllun ardal gyfyngedig at ddibenion y gorchymyn hwn;*
>
> *Mae "ardal gyfyngedig – ogleddol" yn golygu'r rhan honno o ardal yr aráe a sefydlwyd fel yr ardal gyfyngedig – ogleddol, yn Rhan 3 Atodlen 1 ac a ddangosir wedi'i lliwio'n aur ar y Cynllun Ardal Gyfyngedig;*…".

814. Er bod "paramedrau'r prosiect" yn darparu "*Senario achos gwaethaf*…" o ddyfeisiau sy'n codi o'r dŵr yn nhermau rhifiadol o "*Hyd at 130*" o ddyfeisiau, nid yw paramedrau'r prosiect yn diffinio ardal, neu baramedrau mwyaf, a fyddai'n cael eu defnyddio ar gyfer dyfeisiau sy'n codi o'r dŵr. [Troednodyn 632] Mae rheolaethau eraill perthnasol yn cynnwys y Protocol Lleoli Dyfeisiau ("DDP"). [284, 290, 334]

815. Felly, byddai ffurf y Gorchymyn arfaethedig ar ddiwedd yr ymchwiliad (Cyf: Dogfen Ymchwiliad – 102) yn achosi i leoliad(au) dyfeisiau llanw a hybiau gweithredol sy'n codi o'r dŵr gael ei reoli trwy'r canlynol: y *cynllun ardal gyfyngedig* (Cyf: MDZ/G13), fel y'i diffinnir gan Erthygl 2 y Gorchymyn; a, chymeradwyaeth Gweinidogion Cymru o bob DDP, y byddai ei chyd-destun trwy Erthyglau 3(4) a 3(5) a Rhan 4 Atodlen 1 y Gorchymyn. Mae amseru cymeradwyaeth gan Weinidogion Cymru cyn lleoli pob dyfais yn destun Erthygl 3(4) y Gorchymyn. [290, 334, Troednodyn 523, Troednodyn 632, 460, 732] [996]

816. Fel y'i cynigir ar hyn o bryd, byddai angen i bob DDP fynd i'r afael yn glir â ble y byddai'r ddyfais yn cael ei lleoli a, lle y bo'n berthnasol, ei hamlygrwydd gweledol tebygol, ymhlith pethau eraill, er mwyn llywio penderfyniad DDP Gweinidogion Cymru yng nghyd-destun y cais a'r ES sydd gerbron yr ymchwiliad hwn. Dylai'r gofyniad Erth.3(5) arfaethedig i ymgynghori ag IoACC cyn cyflwyno unrhyw DDP (a'i SLVIA) i Weinidogion Cymru, sicrhau bod sylwadau'n cael eu gwneud ar faterion sy'n berthnasol i gyd-destun cynllunio lleol y cais (a'i ES). Er hynny, ar yr olwg gyntaf, byddai'r Gorchymyn, y gwaith y byddai'n ei alluogi, cyd-destun y cais a disgwyliadau'r broses DDP, yn cael eu cyfleu'n fwy eglur petai'r testun o "Allwedd" y Ffigurau yng Nghyf: MDZ/A28.1 yn cael ei gynnwys ar y "*cynllun ardal gyfyngedig*".

[996] O ran [290 a Throednodyn 534], roedd "Tystiolaeth Mr Maile…" i'r RT ar Gymeriad a Golwg yn gyfraniad llafar gan aelod o dîm cyfreithiol yr Ymgeisydd (nid oes Proflen Dystiolaeth gan Mr Maile).

817. Mae'r testun "Allwedd" ar y Ffigurau yng Nghyf: MDZ/A28.1 yn cynnwys cyfeiriad at ddyfeisiau sy'n "amlwg yn weledol". Nid yw'n ymddangos bod unrhyw gyfeiriad at amlygrwydd gweledol yn y copi o'r Gorchymyn (Cyf: MDZ/A16.2) a gyflwynwyd ar yr un dyddiad a briodolir i Broflen Dystiolaeth Dr Orme, ac ar ei ffurf derfynol (Cyf: Dogfen Ymchwiliad – 102).

818. Yn ystod yr ymchwiliad, trafodwyd p'un a fyddai'r gwaith ar y môr yn "amlwg yn weledol" ai peidio, ac mae Proflen Dystiolaeth IoACC yn nodi methiant i gytuno ar eiriad i fynd i'r afael â chyfyngiadau y mae'r SLVIA'n dibynnu arnynt.[997] Petai diffiniad o "amlwg yn weledol" yn cael ei gynnwys yn y Gorchymyn, a chanfyddir yn ddiweddarach bod y diffiniad hwnnw'n annefnyddiol, ni allai'r Gorchymyn gael ei newid i unioni'r mater. [284, 522]

819. Diffinnir "amlwg yn weledol yn y *Rhestr Terminoleg* ym Mhennod 4 yr ES: Disgrifiad o'r Prosiect (Cyf: MDZ/A25.4),[998] ac roedd CNC wedi mynegi pryderon ynglŷn â'r defnydd a'r dehongliad ohono o fewn DDPs (paragraff A.75 Cyf: FEI REP004). Gan nad yw "amlwg yn weledol" wedi'i ddiffinio yn y Gorchymyn arfaethedig, byddai priodoldeb yr ystyr a roddir i "amlwg yn weledol" mewn DDP yn cael ei ystyried yn rhan o broses Gweinidogion Cymru o gymeradwyo DDP. [284, Troednodyn 527, 290]

820. Byddai'r dull hwnnw'n golygu y byddai dylunwyr dyfeisiau'n gweithio gyda llai o eglurder ynglŷn â pha ddyfeisiau sy'n debygol o fod yn dderbyniol mewn unrhyw ardal lle y dylid osgoi amlygrwydd gweledol. Fodd bynnag, byddai'n ymddangos mai diffiniad syml o eiriadur yw'r dull mwyaf addas. Mae hyn yn arbennig o wir o ystyried bod y diffiniad ym Mhennod 4 yr ES *Rhestr Terminoleg* wedi'i seilio ar y gyfran o'r strwythur ategol sy'n weladwy, tra dylai ganolbwyntio'n unig ar effaith debygol yr hyn a fyddai i'w weld uwchben y dŵr.[999]

821. Petai Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn (ac wrth wneud hynny, yn dod i farn ynglŷn ag addasrwydd, neu fel arall, y diffiniad o "amlwg yn weledol" ym Mhennod 4 yr ES), byddwn yn argymell bod y testun yn yr Allwedd o'r Ffigurau yng Nghyf: MDZ/A28.1 yn cael ei gynnwys ar y "*cynllun ardal gyfyngedig*". Byddai hyn yn gwneud cysylltiad clir rhwng y Gorchymyn, a chyd-destun y cais a'i ES. Byddai hefyd yn sicrhau bod y Gorchymyn yn glir ynglŷn â pherthnasedd amlygrwydd gweledol i benderfyniadau am leoli dyfeisiau a seilwaith sy'n codi o'r dŵr yn yr MDZ.

822. Fodd bynnag, mae un eithriad i gynnwys y testun hwnnw, o bosibl. Mae CNC yn awgrymu defnyddio "*dyfeisiau llanw tanddwr*" i ddisgrifio'r gwaith yn yr "*Ardal Gyfyngedig – Ogleddol*". Byddai cynnwys y testun hwn yn rhoi eglurder ychwanegol i natur y gwaith a ddisgwylir trwy'r Gorchymyn. O ystyried y materion a amlinellir uchod ynglŷn â'r defnydd posibl o "amlwg yn weledol" a'r dyfarniadau y byddai angen eu gwneud o ganlyniad, cytunaf ag awgrym CNC. Byddai peidio â defnyddio "amlwg yn weledol" a bod yn glir ynglŷn â'r cyfyngiad a fyddai'n berthnasol i'r ardal

---

997 Para. 8.7 Proflen Dystiolaeth IoACC (Cyf: POE003)

998 Mae'r *Rhestr Terminoleg* ym Mhennod 4 yr ES: Disgrifiad o'r Prosiect (Cyf: MDZ/A25.4) yn diffinio "amlwg yn weledol" fel: "…*Dyfais lanw sy'n amlwg yn weledol yw dyfais lanw y mae cyfran fawr o'r strwythur ategol yn weladwy uwchben y dŵr, i'r graddau ei bod yn amlwg yn weledol, ynghyd ag elfennau atodol fel goleuadau mordwyo, rheiliau a mast*…."

999 Er gwaethaf y gyfran o'r ddyfais ynni'r llanw, neu'r seilwaith cysylltiedig, sy'n codi o'r dŵr sydd islaw wyneb y dŵr, disgwylir fel arfer i unrhyw amlygrwydd gweledol ddeillio o'r rhan y gellir ei gweld uwchben y dŵr.

ogleddol yn rhoi mwy o sicrwydd i'r holl bartïon ynglŷn â chwmpas y gwaith hwnnw a'i effeithiau gweledol tebygol. [522]

Casgliad ar gymeriad a golwg mewn perthynas â'r morlun

823. Ni ddadleuir y byddai effeithiau arwyddocaol ar y morlun, gan gynnwys hwnnw o fewn ardaloedd cymeriad morlun SCA 31 – *Gorllewin Ynys Môn* ac SCA 14 - *Rhoscolyn* [276, 451, 452] ac ni fyddai unrhyw dystiolaeth yn yr achos hwn yn achosi i mi feddwl yn wahanol.

824. Gallai arwyddocâd posibl yr effeithiau hyn cael ei leihau trwy wneud y newidiadau a awgrymwyd gan CNC.

**Tirwedd**

825. Yn yr un modd, ni ddadleuir y byddai'r gwaith yn cael effaith arwyddocaol ar rai golygfeydd yn yr AHNE, gan gynnwys y rhai hynny o'r morlun, a nodweddion arbennig yr AHNE. [123, 124, 135, 276, 294, 449, 451, 452, 512-514] Yr hyn y mae rhai partïon yn dadlau yn ei gylch yw graddfa'r effeithiau ar y morlun a'r dirwedd, a'r pwys y dylid ei briodoli iddynt, a'r cydbwysedd â materion eraill. [515, 630-633, 636]

826. Yn ogystal â delweddau a gyflwynwyd i gefnogi'r cynnig, mae nifer o ffotogyfosodiadau / delweddau wedi cael eu darparu gan wrthwynebydd.[1000] [628] Nid yw'n ymddangos bod y rhain wedi cael eu paratoi â'r un cyfeirbwyntiau proffesiynol â'r rhai a gyflwynwyd gan yr Ymgeisydd. [282]

827. Mae delweddau (ffotogyfosodiadau a marcio safleoedd) yn aml yn ffynonellau dadlau ac anghytuno rhwng partïon mewn achosion fel yr un hwn. [628, 644] Yn yr achos hwn, nid yw golwg a lleoliadau dyfeisiau a seilwaith sy'n codi o'r dŵr wedi'u cadarnhau eto. Mae hyn yn dangos pwysigrwydd y broses DDP a materion yr ymdriniwyd â nhw uchod yn ymwneud â rôl amlygrwydd gweledol wrth ystyried DDPs.

828. Dylai'r ddelwedd wedi'i hanodi yng Nghyf: OBJ058 (ar PDF tud.10 o 16) gael ei hystyried gyda'r ffactorau hyn mewn cof, a sut y gellid disgwyl i reoli dyfeisiau a fyddai'n amlwg yn weledol newid y ddelwedd. [282] Byddai effaith yr ardal gyfyngu drionglog ychwanegol a awgrymwyd gan CNC (yr ymdrinnir â hi isod), yn egluro'r rheolaeth a geisir yn yr ardal hon o'r môr yn agos at oleudy Ynys Lawd.

829. Mae dogfennau'r cais, a'r asesiadau ynddo, wedi crynhoi dyfeisiau a seilwaith sy'n codi o'r dŵr sy'n amlwg yn weledol yn rhan ddeheuol yr MDZ. Mae hyn yn cael ei herio gan bartïon sy'n dymuno gwarchod y golygfeydd agored ar draws rhan ddeheuol yr MDZ. [630] Fodd bynnag, mae'r rhannau mwyaf agored a heb eu datblygu o'r Arfordir Treftadaeth hwn o amgylch Mynydd Caergybi i'r gogledd o Ynys Lawd. Felly, ystyriaf fod dynodiad Arfordir Treftadaeth yr AHNE yn pwyso'n gryf o blaid gwarchod ardal ogleddol yr MDZ rhag dyfeisiau a seilwaith ynni'r llanw sy'n amlwg yn weledol.

830. O ran y gwaith ar y tir, byddai'r elfennau gweladwy wedi'u crynhoi: os nad yw HDD yn bosibl, o fewn y bae lle y byddai'r ceblau allforio'n dod i'r lan, ar y clogwyn sy'n codi i fyny o'r lan, a lle y byddai'r dwythellau ceblau'n codi dros ben y clogwyn

[1000] Gweler Cyf.(au): OBJ058 ac MDZ/N10

mewn tiwbiau-J; wrth is-orsaf Ynys Lawd; wrth adeilad offer switshis Parc Cybi; ac, wrth yr is-orsaf cysylltu â'r grid ym Mhenrhos ar safle Orthios. [14, 294]

831. Os dangosir na fyddai HDD yn ymarferol (trwy amod cynllunio arfaethedig 5)),[1001] ar gyfer rhai neu bob un o'r naw cebl allforio rhwng Abraham's Bosom ac is-orsaf Ynys Lawd, disgwylir i'r ceblau allforio nad ydynt mewn tyllau turio HDD ddod i'r lan o dan goncrit. Yna, byddent yn cael eu cludo i fyny wyneb y clogwyn mewn dwythellau ceblau a dros ymyl y clogwyn mewn 'tiwbiau-J'. O ymyl y clogwyn uwchben Abraham's Bosom, byddai'r ceblau'n cael eu cludo i is-orsaf Ynys Lawd mewn coridor i'r gogledd o'r annedd yn Henborth.[1002] [46, 47, 147-149]

832. Byddai'r effaith weledol sy'n gysylltiedig â'r tyllau turio HDD yn cael ei lleihau i'r eithaf trwy leoliad agoriadau'r tyllau turio o fewn Abraham's Bosom. Byddai gwaith adfer ecolegol ac integreiddio â'r dirwedd yn lliniaru i ryw raddau unrhyw ddwythellau ceblau sy'n mynd i fyny wyneb y clogwyn a dros yr ymyl mewn tiwb-J. Hefyd, disgwylir yn rhesymol i arwyddocâd yr effaith weledol leihau gyda phellter. Er hynny, byddai dwythellau ceblau ar wyneb y clogwyn a thiwbiau-J ar ymyl y clogwyn yn achosi effaith weledol arwyddocaol i wylwyr sy'n agos atynt oherwydd eu ffurf, eu maint a nifer bosibl y dwythellau ceblau. [149, 150, 279, 623-625]

833. Byddai is-orsaf y lanfa'n cyflwyno strwythurau newydd i ran o'r AHNE lle y ceir llawer o weithgarwch twristiaeth, gyda defnyddiau tir busnes, hamdden ac amaethyddol cysylltiedig. Mae'r rhan hon o'r AHNE yn arfordirol iawn gyda meysydd glaswelltir amaethyddol, sy'n aml wedi'u hamgáu gan waliau cerrig, yn ymestyn o ben y clogwyni i lethrau uwch agored, garw mynydd Caergybi. Mae'n dirwedd sy'n cynnwys rhywfaint o seilwaith cyfathrebu, ynni a thrafnidiaeth, ynghyd â nifer o anheddau, busnesau cysylltiedig â thwristiaeth a ffermydd sy'n cynnwys adeiladau amaethyddol sylweddol.

834. Mae lleoliad is-orsaf arfaethedig Ynys Lawd yn sefyll ychydig yn ôl o ben y clogwyni ac i ffwrdd oddi wrth y prif ganolbwynt gweithgarwch twristiaeth o amgylch Ynys Lawd, ac asedau treftadaeth. Byddai wedi'i lleoli mewn pant yn y dirwedd a fyddai'n sicrhau gwahaniad gweledol oddi wrth yr ardal yn union o amgylch Ynys Lawd, a pharhad gweledol â'r adeiladau (math) fferm cyfagos o raddfa debyg. Yn y dirwedd hon, mae'n ymddangos mai'r safle arfaethedig yw'r lle mwyaf priodol ar gyfer y defnydd bwriadedig ac adeiladau o'r raddfa a'r math a gynigir. Trwy ddylunio'r adeilad yn briodol, dylai cyd-destun y dirwedd olygu y gellir cymhathu'r strwythurau arfaethedig yn llwyddiannus i'r amgylchedd hwn. [285]

835. Fodd bynnag, byddai'r cais yn gosod strwythurau newydd sylweddol ar dir amaeth agored, a gallai'r gwaith gynnwys dwythellau ceblau a thiwbiau-J ar a dros y clogwyn yn Abraham's Bosom. Byddai hyn yn cynyddu'r canfyddiad o ddatblygiad yn y rhan hon o'r AHNE. Yn hynny o beth, ni allai'r gwaith warchod a gwella harddwch naturiol yr AHNE, ac ni fyddai defnyddio dyluniad ystyriol ac arweddion nodweddiadol ar gyfer safle is-orsaf Ynys Lawd yn lliniaru'r gostyngiad yn harddwch naturiol yr AHNE. [291, 292]

836. Byddai elfennau eraill y gwaith ar y tir naill ai o dan y ddaear neu mewn lleoliadau llai sensitif. Byddai adeilad offer switshis Parc Cybi wedi'i leoli mewn ardal a fwriadwyd ar gyfer datblygu cyflogaeth, a byddai'r is-orsaf cysylltu â'r grid yn

[1001] Gweler Cyf: Dogfen Ymchwiliad – 098

[1002] Rhifau Gwaith 3, 4, 5 a 6 o Atodlen 1 i'r Gorchymyn (Cyf: Dogfen Ymchwiliad – 102), ac fel y dangosir ar Gynllun Lleoliad Map 1 TWAO (Cyf: MDZ/A17.1).

defnyddio tir o fewn safle diwydiannol presennol. Byddai datblygiadau o'r math hwn i'w disgwyl mewn ardaloedd o'r fath a byddai cadarnhau'r dyluniadau terfynol, a bennir trwy amod cynllunio arfaethedig 6),[1003] yn sicrhau bod y strwythurau'n briodol i'w cyd-destunau. [288, 286, 287]

Lliniaru effeithiau ar y dirwedd a gwneud iawn amdanynt

837. Byddai amodau cynllunio arfaethedig, a'r rhwymedigaeth gynllunio gysylltiedig, yn mynd i'r afael â lliniaru effeithiau'r cynnig ar y dirwedd. Byddai disgwyliad CNC o ran y rheolaethau, a'r mesurau lliniaru a fyddai'n bosibl yn yr achos hwn, yn cael ei fodloni trwy'r diwygiad awgrymedig i amod cynllunio arfaethedig 7). [523, 524]

838. Mae'r Ymgeisydd ac IoACC wedi cytuno ar fesurau digolledu a fyddai'n mynd i'r afael â phryderon y Cyngor y gallai'r gwaith a gynigir fod yn groes i bolisïau PS19, AMG3 ac AMG4 y CDLlC. Bwriedir cyflawni'r mesurau digolledu hyn trwy rwymedigaeth gynllunio sy'n destun amod arfaethedig 23).[1004] Mae copi o'r rhwymedigaeth gynllunio gytunedig wedi'i gynnwys yn Atodiad C y Datganiad Tir Cyffredin rhwng y partïon.[1005] Byddai'r rhwymedigaeth gynllunio: yn darparu rhaglenni adfer a gwella'r dirwedd; yn gwella mynediad i dir cyhoeddus; ac yn darparu hawliau tramwy cyhoeddus newydd a gwella rhai sydd eisoes yn bodoli. Er efallai nad yw partïon eraill yn cytuno â'r cydbwysedd a darwyd o ran y materion hyn, mae penderfyniadau cynllunio yn golygu bod angen i gydbwysedd o'r fath gael ei wneud mewn penderfyniadau ac yn yr achosion a gyflwynir i Weinidogion Cymru. Fodd bynnag, mae priodoldeb yr amod arfaethedig sy'n mynnu'r rhwymedigaeth gynllunio a'r pwys y gellir ei briodoli i'r weithred heb ei chyflawni yn derbyn sylw yn yr adrannau perthnasol isod. [303, 451-458, 636]

839. Er hynny, byddai effeithiau niweidiol arwyddocaol yn cael eu hachosi i'r AHNE a'r morluniau a welir ohoni yng nghyffiniau'r MDZ.

Casgliad ar gymeriad a golwg o ran effeithiau ar y dirwedd

840. Er gwaethaf y mesurau lliniaru a fyddai'n cael eu darparu trwy fesurau sydd wedi'u hymgorffori yn y cynnig, yr amodau a fyddai'n berthnasol iddo a'r rhwymedigaeth gynllunio ddisgwyliedig, byddai effeithiau niweidiol arwyddocaol yn digwydd i'r AHNE, ei nodweddion arbennig a'r rhan hon o'i Harfordir Treftadaeth. [123, 124, 135, 276, 294, 449, 451, 452, 512-514]

841. Ni fyddai'r cynnig yn gwarchod a gwella harddwch naturiol yr AHNE, y rhan hon o'i Harfordir Treftadaeth, a'i nodweddion arbennig trwy leihau golygfeydd eang. Fodd bynnag, mae'r cais a'r dystiolaeth yn yr achos hwn yn mynd i'r afael yn glir â'r Cynllun Rheoli AHNE, gan sicrhau nad oes gwrthdaro â Pholisi AMG1 y CDLlC: *Cynlluniau Rheoli Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol*. Byddai gwaith yr MDZ yn achosi niwed i gymeriad a golwg ardal Ynys Lawd, ond gyda'r mesurau lliniaru a gynigir, ni fyddai'r niwed hwnnw'n ddigon iddo fod yn annerbyniol ac, yn hynny o beth, i'r cynnig wrthdaro â Pholisi AMG 4 y CDLlC: *Diogelu'r Arfordir*. Ni fyddai effaith y gwaith ar gymeriad y dirwedd leol yn ddigonol ychwaith i wrthdaro â Pholisi AMG 3 y CDLl: *Diogelu a Gwella Nodweddion a Rhinweddau sy'n Unigryw i Gymeriad y Dirwedd Leol*.

[1003] Gweler Cyf: Dogfen Ymchwiliad - 098
[1004] Gweler Cyf: Dogfen Ymchwiliad - 098
[1005] Cyf: MDZ/L7

### Yr ychwanegiad a awgrymwyd gan CNC i'r "*Ardal Gyfyngedig – Ogleddol*" / "Y Triongl"

842. Yn ogystal â'r rheolaethau a gynigiwyd eisoes yn y Gorchymyn, mae CNC wedi awgrymu diwygiad i Ffigur 4-5 Cyfrol II Pennod 4 yr ES (Cyf: MDZ/A28.1). Mae'r diwygiad awgrymedig o fewn Ffigur 5 Proflen Dystiolaeth CNC, sef "*Effeithiau gweledol ar Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Ynys Môn*" yn Atodiad D i Gyf: POE021.[1006]

843. Ni fyddai'r gwaith arfaethedig yn gwarchod nac yn gwella harddwch naturiol yr AHNE, ei Harfordir Treftadaeth a'i nodweddion arbennig; ac uchod, rwyf wedi rhoi fy marn am yr angen i'r Gorchymyn, trwy ei "*gynllun ardal gyfyngedig*", egluro perthnasedd amlygrwydd gweledol i benderfyniadau DDP. Mae hynny'n cydnabod yr AHNE fel dynodiad wedi'i seilio ar harddwch naturiol, lle mae'r golygfeydd ar ei thraws yn arbennig o bwysig. Mae'r dystiolaeth yn cadarnhau bod ardal "Y Triongl" yn cynnwys rhai o'r adnoddau ynni'r llanw gorau. Fodd bynnag, nid dyna'r unig ardal o'r MDZ y gallai dyfeisiau sy'n codi o'r dŵr gael eu lleoli ynddi, ac ni ddangoswyd ychwaith y byddai'r Triongl yn anaddas i ddyfeisiau tanddwr. [279, 295] Felly, pe byddai ardal y Triongl yn cael ei hychwanegu at yr "*Ardal Gyfyngedig – Ogleddol*", gallai'r adnodd ynni'r llanw sy'n llifo trwy'r ardal honno gael ei ddal o hyd gan ddyfeisiau nad ydynt yn amlwg yn weledol.

844. Byddai'r ychwanegiad a awgrymwyd gan CNC i'r "*Ardal Gyfyngedig – Ogleddol*" yn rhoi mwy o amddiffyniad i'r môr agored i'r de-orllewin o oleudy Ynys Lawd. Byddai'n bwysig i fwynhad o'r AHNE, a nodwedd adnabyddus iawn ynddi a werthfawrogir, trwy olygfeydd tua'r gogledd-orllewin heibio i Ynys Lawd ac o'r môr agored o amgylch a thu hwnt i'r goleudy. O ganlyniad, credaf fod achos CNC dros gynnwys yr ychwanegiad trionglog awgrymedig i'r "*Ardal Gyfyngedig – Ogleddol*" yn argyhoeddiadol. [512-521, 525]

### Casgliad cyffredinol ar effeithiau posibl ar gymeriad a golwg

845. Byddai'r gwaith arfaethedig yn cyflwyno dyfeisiau a seilwaith newydd mewn moroedd agored y gellid disgwyl iddynt achosi effeithiau arwyddocaol ar yr AHNE trwy leihau ehangder golygfeydd / y morlun i'r de a'r gorllewin o Ynys Lawd. Ni fyddai hyn yn bodloni'r weledigaeth ar gyfer dyfodol yr AHNE yn *Adolygiad Cynllun Rheoli 2015 – 2020* yr AHNE, sy'n ceisio gwarchod a gwella tirwedd/morlun unigryw, harddwch naturiol a nodweddion arbennig AHNE Ynys Môn.

846. Yn ogystal, ni fyddai'r cynnig yn gwarchod a gwella harddwch naturiol yr AHNE a'i nodweddion arbennig trwy gyflwyno datblygiad adeiledig a lleihau golygfeydd eang. Fodd bynnag, gyda'r mesurau lliniaru arfaethedig, byddai'r gwaith yn cydymffurfio â pholisïau perthnasol y CDLlC, a byddai'r methiant i warchod a gwella'r AHNE a'i nodweddion arbennig yn gyfyngedig i'r rhan hon o Arfordir Treftadaeth yr AHNE.

847. Yn unol â hynny, dylai'r "*cynllun ardal gyfyngedig*" gael ei addasu i gynnwys: yn "*Ardal Gyfyngedig – Ogleddol*" yr ardal ychwanegol a awgrymwyd gan CNC (ac y cyfeirir ati hefyd fel "Y Triongl"); a'r testun yn yr Allwedd o'r Ffigurau yng Nghyf: MDZ/A28.1, heblaw am y testun yn yr Allweddol ynglŷn â'r "*Ardal Gyfyngedig – Ogleddol*" y dylid ei newid i "*Ddyfeisiau llanw tanddwr*" er mwyn bod yn glir ynglŷn â'r cyfyngiad a fyddai'n berthnasol i'r ardal honno.

[1006] Ac fel Mater 11 yn y SoCG rhwng CNC a'r Ymgeisydd (Cyf: MDZ/L5), nodir ei fod yn fater na chytunir arno.

273

## Effeithiau Posibl ar yr Amgylchedd Hanesyddol

848. Wrth ymateb i'r cais, daeth CADW i'r casgliad y byddai'r gwaith arfaethedig yn cael:

(i) effaith niweidiol barhaol fach i gymedrol ar leoliadau'r Adeiladau Rhestredig Gradd II a adwaenir fel 5284 Goleudy Ynys Lawd, 5713 Tŵr Ellin a 20081 Tan-y-Cytiau;

(ii) effaith niweidiol barhaol fach ar leoliadau henebion cofrestredig yn AN011 Siambr Gladdu Trefignath, AN012 Maen Hir Tŷ Mawr, AN016 Cylchoedd Cytiau Mynydd Caergybi ac AN017 Meini Hir Penrhosfeilw.

Nododd CADW na fyddai'r un o'r effeithiau hyn yn arwyddocaol. [726, 727]

849. Rhoddodd yr FEI asesiad ychwanegol o'r rhain ac asedau treftadaeth eraill ar y tir a fyddai yng nghyffiniau'r gwaith arfaethedig (Cyf: MDZ/A28.61 – *Asesiad Lleoliadau ar gyfer Seilwaith Alltraeth*). Ymatebodd yr Ymgeisydd i sylwadau a gafwyd ynglŷn â'r FEI yn adran 3.12 – *Archaeoleg a Threftadaeth Ddiwylliannol* yng Nghyf: MDZ/A28.60, sef "*Gwybodaeth Amgylcheddol Ychwanegol Prosiect Morlais*".

850. Ar ôl derbyn yr FEI, cadarnhaodd CADW na fyddai unrhyw effeithiau arwyddocaol ar asedau treftadaeth hysbys, ac na fyddai modd pennu unrhyw effaith uniongyrchol ar safleoedd archaeolegol hyd nes i waith arolygu a gwerthuso ychwanegol gael ei wneud. Byddai amod arfaethedig 14) yn mynd i'r afael â chynllun ymchwilio ysgrifenedig a fyddai'n dilyn yr ymchwiliad geoffisegol a'r gwaith torri ffosydd treialu a gynhaliwyd yn 2020. [632, 726, 727]

851. Mae nifer sylweddol o asedau treftadaeth yn yr ardal o amgylch Ynys Lawd ac ar y llwybr rhwng glanfa'r ceblau allforio a'r is-orsaf cysylltu â'r grid. Y gwaith ar y môr a gynigir ar gyfer yr MDZ sydd â'r potensial mwyaf o effeithio ar arwyddocâd treftadaeth o ganlyniad i newid i'r lleoliad. Cyn i'r ymchwiliad agor, cynigiodd yr Ymgeisydd fesurau lliniaru ychwanegol i leihau effeithiau gweledol a allai effeithio ar leoliadau asedau treftadaeth.

852. Mae'n amlwg y byddai'r gwaith arfaethedig yn achosi effeithiau niweidiol bach i gymedrol ar leoliadau nifer o asedau treftadaeth ac, fel y cyfryw, ni fyddai'r lleoliadau hyn yn cael eu gwarchod. O ystyried 'oes' 37 mlynedd y prosiect,[1007] gellid ystyried bod yr effeithiau hyn yn 'barhaol' (oni bai nad yw dyfeisiau a seilwaith sy'n codi o'r dŵr sy'n amlwg yn weledol yn cael eu lleoli, neu'n peidio â chael eu lleoli). Rhoddwyd cyngor CADW ar sail parhad effaith, ac mae casgliadau'r ES ar sail parhad ar hyd oes y prosiect.[1008] Er y gellid disgwyl yn rhesymol i'r effeithiau hyn ar leoliadau asedau treftadaeth barhau am 'oes' 37 mlynedd y prosiect, nid oes unrhyw dystiolaeth sy'n dangos y byddai effeithiau niweidiol arwyddocaol ar asedau treftadaeth yn debygol o ddeillio o'r gwaith a gynigir.

[1007] Y "Gwerth mwyaf" a roddwyd ar gyfer "Oes y prosiect" yn Nhabl 4-21 – *Paramedrau Generig y Prosiect* (Cyf: MDZ/A25.4). Diffinnir "paramedrau'r prosiect" yn Erth. 2 y Gorchymyn drafft (Cyf: Dogfen Ymchwiliad – 102).

[1008] Er enghraifft, ym mhara. 156 Cyf: MDZ/A25.20

## Effaith Bosibl ar Faterion Economaidd-gymdeithasol

### Twristiaeth, busnesau cysylltiedig â'r môr a hamdden

853. Mae twristiaeth yn amlwg yn bwysig iawn i economi Ynys Môn a'r rhai sy'n ymweld. Mynegodd sylwadau i'r ymchwiliad bryderon ynglŷn ag effaith bosibl yr MDZ ar fusnesau cysylltiedig â thwristiaeth a'r sector yn ei gyfanrwydd. [606, 637, 638, 644]

854. Awgrymodd gwrthwynebiadau hefyd nad oedd yr ES wedi mynd i'r afael yn ddigonol ag effeithiau posibl y gwaith ar ddefnyddwyr hamdden y môr a'r sector busnes cysylltiedig. Fodd bynnag, esboniwyd o ran busnesau morol nad yw'r data "NOMIS", a ddefnyddir fel arfer mewn astudiaethau o'r fath ac fel y'i defnyddiwyd yn y cais hwn, yn gwahaniaethu rhwng sectorau mor fanwl â hynny. Ac o ran amwynder hamdden, pan oedd y pryderon hyn yn ymwneud â chwmpas y materion yr ymdrinnir â nhw gan y cais a'i ES, roedd yr ymchwiliad hwn wedi galluogi'r holl faterion hynny i gael eu clywed ac i dystiolaeth ychwanegol gael ei darparu pan oedd yr Ymgeisydd yn dymuno gwneud hynny. [312-315, 589, 595-598]

855. Mae'r Ymgeisydd o'r farn bod gormod o amser wedi cael ei dreulio ar amwynder hamdden defnyddwyr y môr. [309] Treuliwyd cryn amser yn mynd i'r afael â'r buddiannau hyn. Fodd bynnag, mae defnyddwyr hamdden presennol yr MDZ a'r morlin nesaf ato, ynghyd â'r busnesau tywys / hyfforddi ac offer cysylltiedig sy'n eu cefnogi, yn cyfrannu at yr economi leol a lles eu haelodau / cleientiaid. Er eu bod yn rhan gymharol fach o'r economi leol, maen nhw'n rhannau unigryw ohoni a'r cyfleoedd twristiaeth a hamdden ar yr ynys serch hynny. Yn hynny o beth, mae'r materion hyn yn cyfrannu at les ar Ynys Môn a thu hwnt, ac felly'n ystyriaethau y dylai Gweinidogion Cymru fod yn ymwybodol ohonynt. [16]

856. Mae'n amlwg bod pryderon dilys ynglŷn ag effeithiau posibl yr MDZ ar rai grwpiau a busnesau hamdden morol. Fodd bynnag, nid yw'r rhai sy'n gwrthwynebu wedi cyflwyno tystiolaeth sy'n dangos y byddai'r MDZ yn debygol o achosi effeithiau arwyddocaol ar y grwpiau a'r busnesau hyn. Byddai'r MDZ yn un ardal o ddŵr agored (gynt) ar forlin sy'n cynnig llawer o gyfleoedd rhwyfo eraill i'r rhai a fyddai'n ystyried bod yr MDZ gweithredol yn anniogel. Yn ogystal, byddai dyfroedd agored a'r rhai nesaf at yr arfordir yn aros yn union o amgylch yr MDZ. [344-346]

857. Fel y nodwyd uchod, os na ellir defnyddio HDD i lwybro ceblau o dan y traeth yn Abraham's Bosom, byddai'n rhaid i geblau allforio gael eu cludo i fyny a dros y clogwyn yn y lleoliad hwnnw. Ni fyddai hyn, na gosod seilwaith alltraeth yr MDZ, yn debygol o darfu'n sylweddol ar ddefnyddwyr eraill y môr, gan gynnwys y rhai hynny sy'n dymuno dod i'r lan yn Abraham's Bosom. [363, 364, 615]

858. Byddai lleoli dyfeisiau a seilwaith sy'n codi o'r dŵr yn yr MDZ yn achosi i brofiad y defnyddwyr o'r morlin hwn newid, ond byddai'r gweithgareddau hamdden yn parhau. Hefyd, clywodd yr ymchwiliad dystiolaeth bod rhai defnyddwyr dŵr wedi cael eu denu i lifoedd llanw penodol a achosir gan nodweddion o wneuthuriad dyn. Byddai'r newidiadau i lif llanw a fyddai'n deillio o Forlais, a'u hachosion, wedi'u canolbwyntio o fewn yr MDZ. Er bod yr holl faterion perthnasol a godwyd yn ystod yr ymchwiliad wedi cael eu hystyried, ni ddangoswyd y byddai'r gwaith arfaethedig yn debygol o leihau amwynder hamdden yn sylweddol. [309, 310, 311, 318, 320, 599, 600, 615, 616]

859. Mae Pennod 25 yr ES: *Materion Economaidd-gymdeithasol, Twristiaeth a Hamdden* yn mynd i'r afael â'r economi yn ei chyfanrwydd ar Ynys Môn ac yng Nghymru a'r Deyrnas Unedig. Mae'n gwneud sylwadau ar yr ystod o weithgareddau hamdden morol sy'n cyfrannu at economi'r ynys, gan grybwyll yn benodol y chwe chlwb hwylio, caiacio, plymio a gweithgareddau arfordirol / morol eraill. [312, 315]

860. Mae'r *Asesiad Twristiaeth a Hamdden Atodol* (Cyf: MDZ/H1) yn ychwanegu at y dystiolaeth sydd eisoes yn yr ES trwy roi mwy o fanylion am y sector twristiaeth a hamdden, gan gynnwys trwy gyfweliadau â busnesau a chyrff perthnasol. Mae'r asesiad atodol yn cynnwys dadansoddiad o'r segmentau sy'n cyfuno i ffurfio'r sector hamdden morol. Mae hefyd yn awgrymu mesurau lliniaru i fynd i'r afael ag unrhyw effaith niweidiol ar sector twristiaeth a hamdden Ynys Gybi o ganlyniad i wyriadau o'r duedd a ddisgwylir yn sgil gwaith Morlais. Fel y cyfryw, byddai'n galluogi camau i gael eu cymryd i fynd i'r afael â'r effeithiau niweidiol a amlygwyd. [313, 589, 596-599, 616, 626]

861. Petai'r Gorchymyn yn cael ei wneud, byddai amod cynllunio arfaethedig 17) yn mynnu bod *Strategaeth Monitro Twristiaeth a Hamdden* yn cael ei darparu sy'n cyd-fynd i raddau helaeth â Phennod 10 yr *Asesiad Twristiaeth a Hamdden Atodol* (Cyf: MDZ/H1). Mae'r diwygiad y gofynnodd IoACC amdano i amod 17) yn mynd i'r afael â chwmpas ymgynghori ac ymgysylltu trwy restr gytunedig o bartïon. Mae Pennod 10 yn ymdrin â monitro, ond yn ei pharagraff olaf mae'n nodi y byddai'r *Strategaeth Monitro Twristiaeth a Hamdden* yn rhoi mwy o fanylion am fesurau lliniaru hefyd. Felly, byddai'r Strategaeth o dan amod 17), pe byddai'n cael ei diwygio fel y gofynnwyd, yn golygu y gellid ymgynghori â rhestr gytunedig o bartïon trwy'r Strategaeth, ar yr un pryd â darparu modd o gyflawni unrhyw fesurau lliniaru y canfyddir bod eu hangen. [317, 318, 442-447, 589, 596-599, 616, 626]

862. Byddai'r *Strategaeth Monitro Twristiaeth a Hamdden* yn cael ei llywio gan y dystiolaeth yn yr achos hwn, sy'n cynnwys yr *Asesiad atodol o weithgareddau caiacio a hwylio* (Cyf: MDZ/A28.58). Mae'r asesiad hwnnw'n mynd i'r afael yn benodol â'r economi rhwyfo hamdden, monitro ac unrhyw fesurau lliniaru a allai fod yn angenrheidiol. Byddai'r manylion hyn yn cael eu cynnwys yn y Strategaeth hefyd, a byddai'r mesurau lliniaru'n cael eu penderfynu trwy ac yng nghyd-destun cyflawni amod cynllunio arfaethedig 17). [317-321, 442-447, 589, 596-599, 616, 626] [1009]

863. Mae cyflwyniadau olaf yr Ymgeisydd mewn perthynas â'r cytundeb a.106 a cheisiadau gwrthwynebwyr am iawndal wedi ymateb i bryderon ynglŷn ag effaith bosibl y gwaith ar fusnesau lleol. Os gwneir y Gorchymyn, byddai'r gwaith yn darparu buddion cyhoeddus yn sgil defnydd dilys o'r môr a'r tir yn y lleoliad hwn. [364, 616]

864. Nid oes tystiolaeth bod datblygiadau ynni ar y môr wedi cael effaith niweidiol arwyddocaol ar dwristiaeth. Er bod ffermydd gwynt sydd eisoes yn bodoli ar hyd arfordir gogledd Cymru yn amlwg yn cael effaith weledol ar wylwyr ac yn newid y morlun, mae'r pethau sy'n denu twristiaid yn parhau a gallai Morlais ddod yn un ohonynt. Deallaf fod hynny'n wir am Ynysoedd Orkney a lleoliadau eraill lle mae ynni'r llanw wedi cael ei weithredu neu ei dreialu. [313, 314, 316]

[1009] Mae'r dystiolaeth hefyd yn cynnwys Cyf: MDZ/H2 – *Gwerthusiad economaidd o werth hamdden yr amgylchedd arfordirol mewn ardal lleoli ynni adnewyddadwy morol* a Chyf: MDZ/H4 – *Asesiad Economaidd-gymdeithasol Atodol*

865. Byddai Morlais yn dibrisio ardal gyfyngedig o fôr agored a’r golygfeydd ohono. Fodd bynnag, byddai’r rheolaethau a drafodwyd yn yr adran Cymeriad a Golwg uchod yn sicrhau bod cyfleoedd yn parhau i brofi’r morlun, y dirwedd a’r asedau treftadaeth ar yr arfordir hwn heb ddyfeisiau a seilwaith ynni’r llanw sy’n amlwg yn weledol. [316, 320]

866. Mae’r cais ar ôl yr ymchwiliad bellach yn cynnwys amrywiaeth o astudiaethau ac asesiadau i fynd i’r afael ag effeithiau economaidd-gymdeithasol posibl y cynnig, gan gynnwys ar amwynder hamdden ar y môr, twristiaeth a gweddill yr economi. Mae’r Ymgeisydd wedi ymateb i’r pryderon a godwyd ac wedi cyflwyno tystiolaeth i ddangos effeithiau tebygol y gwaith arfaethedig a’r modd o fonitro a lliniaru unrhyw effeithiau sy’n digwydd. Ni ddangoswyd bod unrhyw rai o effeithiau tebygol y gwaith ar dwristiaeth, busnesau cysylltiedig â’r môr ac amwynder hamdden yn annerbyniol, mae gwaith monitro a mesurau lliniaru wedi cael eu cynllunio, a gallai’r gwaith ychwanegu at y cynnig twristiaeth ar yr ynys. [441, 442, 626, 637, 638]

**Sgiliau, cyflogaeth a diwydiannau newydd**

867. Un o fuddion economaidd-gymdeithasol y gwaith arfaethedig fyddai creu swyddi. Disgwylir i Forlais greu hyd at 467 o swyddi y flwyddyn yn ystod y cyfnod adeiladu a hyd at 456 o swyddi y flwyddyn yn ystod gweithredu a chynnal a chadw’r gwaith. O’r rheiny, gallai 137-228 o swyddi fod ar Ynys Môn. Yn ogystal, byddai’r cynnig yn darparu cynlluniau gweithredu ar gyfer sgiliau a hyfforddiant a chadwyn gyflenwi. [62, 63, 126, 322, 442] [1010]

868. Mynegwyd y farn yn ystod yr ymchwiliad hefyd y dylid taro cydbwysedd gwell, trwy gynlluniau fel Morlais, i amrywiaethu economi’r ynys. I gefnogi hyn, byddai M-SParc yn ceisio cysylltu prifysgolion â’r diwydiant a’r cynnig hwn. Dywedodd rhai o’r bobl a siaradodd o blaid y cynnig fod angen iddynt adael yr ynys i ddod o hyd i gyflogaeth yn y sector ynni adnewyddadwy / ynni’r llanw. Byddai Morlais yn darparu cyfleoedd i bobl sy’n byw yng ngogledd-orllewin Cymru ddod o hyd i gyflogaeth yn agos i’w cartrefi yn y sector ynni adnewyddadwy ac mewn diwydiannau cysylltiedig. Byddai gan y prosiect ôl troed rhyngwladol hefyd trwy ei gyflenwyr a datblygwyr dyfeisiau ynni’r llanw, y cyfrannodd rai ohonynt at yr ymchwiliad. [58, 60, 62-65, 322, 438, 753]

**Datgarboneiddio i ddarparu cymysgedd ynni**

869. Byddai Morlais yn darparu cydnerthedd economaidd trwy amrywiaethu economi Ynys Môn. Hefyd, byddai buddion economaidd-gymdeithasol sylweddol yn dod yn sgil amrywiaethu a datgarboneiddio’r cyflenwad ynni yng ngogledd-ollewin Cymru. Mae creu cymdeithas arloesol, gynhyrchiol a charbon isel yn rhan annatod o nod llesiant *Cymru Lewyrchus*. Mae Morlais yn ceisio cyfrannu at yr elfennau hyn o’r nod llesiant, a byddai’n gwneud hynny, ynghyd â datblygu’r sgiliau a’r cyfleoedd swyddi y cyfeirir atynt uchod. [26, 101-111, 114, 116, 125]

870. Fel y cyfryw, mae’r cynnig yn denu cefnogaeth bolisi sylweddol, gan gynnwys gan WNMP, *Cymru’r Dyfodol* a PPW (11$^{eg}$ argraffiad), ac fel y nodwyd yn y casgliadau polisi cychwynnol uchod.

[1010] Byddai’r cynlluniau gweithredu’n cael eu darparu trwy amodau cynllunio arfaethedig 19) a 21).

871. Byddai hefyd yn cyfrannu at Raglen Ynys Ynni'r Cyngor a pholisïau strategol yn y CDLlC sy'n cefnogi technolegau ynni adnewyddadwy a charbon isel. [440]

## Effeithiau Posibl ar Faterion Morol / Mordwyo

872. Mae cais am Drwydded Forol wedi cael ei wneud i CNC mewn perthynas â'r gwaith ar y môr sy'n destun y cais hwn. Mae'r broses honno wedi bod yn mynd rhagddi ar yr un pryd â'r cais TWAO hwn. Mae materion a allai fod yn berthnasol i'r Drwydded Forol wedi bod yn destun sylwadau ynglŷn â'r cais TWAO hefyd. O ganlyniad, yn ystod yr ymchwiliad hwn, rwyf wedi ceisio sicrhau bod unrhyw ddogfennau yn y cais TWAO sydd wedi cael eu diweddaru ar gyfer y Drwydded Forol hefyd wedi cael eu cyflwyno ar gyfer yr ymchwiliad TWAO neu iddo.

### Cefnforeg

873. Mynegodd gwrthwynebiadau cychwynnol i'r cais bryderon ynglŷn ag effaith bosibl y gwaith ar gryfder a natur y llifoedd llanw presennol wrth i ynni gael ei dynnu ohonynt.[1011] Er yr awgrymwyd y gallai'r modelu ym Mhennod 7 yr ES fod yn ddiffygiol, ni roddwyd unrhyw dystiolaeth i ddangos bod hynny'n wir. Mae'r Ymgeisydd wedi ymateb i'r pryderon hyn (trwy Gyf: MDZ/N16), gan esbonio cadernid y modelu a chyfyngiadau'r casgliadau sy'n deillio ohono o ganlyniad i gymhlethdod yr amgylchedd morol ynni uchel hwn a'r ffactorau sy'n cyfrannu at amodau yn y môr a'i ffrydlif. [16, 31, 345, 613]

874. Hefyd, mae'r Ymgeisydd wedi ymateb yn llawn i bryderon NWWT ynglŷn â chludo gwaddodion trwy Gyf: MDZ/N15. Mae'n cadarnhau cyfyngiadau'r modelu a natur cludo gwaddodion yn ystod ac ar ôl digwyddiadau tywydd eithafol / stormydd. Nid oes tystiolaeth sy'n dangos y disgwylir i'r ffordd y mae gwaddodion yn cael eu cludo newid yn sylweddol yn y ffrydlif llanw hwn o ganlyniad i'r gwaith arfaethedig. [732]

### Mordwyo

875. Mae amodau Mordwyo Safonol Tŷ'r Drindod sydd i'w cynnwys mewn Trwyddedau Morol Tybiedig ar gyfer gosodiadau ynni adnewyddadwy ar y môr wedi'u hatodi i sylw Cyf: OBJ076. Ymatebodd yr Ymgeisydd i Ddatganiad Achos Tŷ'r Drindod (trwy Gyf: MDZ/N20). Mae'r Datganiad Tir Cyffredin dilynol rhwng y ddau barti (Cyf: MDZ/L9) yn cadarnhau, ar ôl i faterion allweddol sy'n bwysig i Dŷ'r Drindod gael eu datrys, ei fod bellach edrych tuag at ac yn dibynnu ar y prosesau penderfynu cyfochrog ar gyfer y Drwydded Forol a'r DDPs. [141, 324-326, 328, 583, 584-586]

876. O ganlyniad, ac fel y nodwyd yng nghyflwyniad olaf Tŷ'r Drindod, tynnodd Tŷ'r Drindod ei wrthwynebiad i'r cynnig yn ôl cyn i'r ymchwiliad agor, ond arhosodd yn Brif Barti i gynghori ar faterion sy'n berthnasol i'w swyddogaethau. [583, 587]

877. Fel y nodwyd uchod mewn perthynas ag effeithiau economaidd-gymdeithasol posibl a'r asesiadau o rwyfo hamdden yn yr ES, roedd yr ymchwiliad hwn wedi galluogi'r holl bryderon hynny i gael eu clywed ac i dystiolaeth ychwanegol gael ei darparu pan oedd yr Ymgeisydd yn dymuno gwneud hynny. [589]

878. Cyflëwyd natur heriol amodau'r môr o fewn ac o amgylch yr MDZ, ac yn enwedig yn ystod stormydd, yn glir yn ystod yr ymchwiliad. Rhoddir manylion yn y

[1011] Cyf: OBJ083

dystiolaeth, gyda chrynodeb disgrifiadol defnyddiol yn ail bwynt bwled "Casgliadau ac Argymhellion" yr Atodiad i'r Asesiad Risg Mordwyo ("NRAA") (yn PDF tud.114/255 yng Nghyf: MDZ/I1). [345]

879. Gan droi at ystyried a yw'n bosibl asesu'r effeithiau ar rwyfo hamdden heb fod yr opsiynau dylunio ar gyfer y gwaith wedi'u cwblhau'n derfynol. Mae paramedrau'r prosiect yn y PDE yn nodi graddau mwyaf y gwaith a gynigir. Petai Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn, byddai pob DDP dilynol a'r Asesiad Risg Mordwyo ("NRA") cysylltiedig yn mynd i'r afael ag effaith bosibl y gwaith hwnnw ar rwyfo hamdden. Pe byddai'r gwaith o dan DDP (ar ei ben ei hun neu ar y cyd â lleoli dyfeisiau eraill) yn cael effaith annerbyniol ar rwyfo hamdden, byddai'r broses benderfynu DDP yn rhoi modd i Weinidogion Cymru ystyried yr effeithiau hynny a mynd i'r afael â nhw. [9, 41, 334, Troednodyn 632, 589]

<u>Yr Asesiad Risg Mordwyo ("NRA") a'i Atodiad ("NRAA")</u>

880. Mae'r MCA wedi mynegi'n glir bod yr NRA a'i Atodiad yn cydymffurfio â gofynion Nodyn Canllaw Morol 543 ("MGN 543"), sef "*Diogelwch Mordwyo: Gosodiadau Ynni Adnewyddadwy Alltraeth (OREIs) – Canllawiau ar Arferion Mordwyol, Diogelwch ac Ymateb Brys yn y Deyrnas Unedig*". Mae MGN 543 yn un o nodiadau canllaw'r MCA. [324, 341-343, 589]

881. Er bod yr Ymgeisydd wedi dangos bod prosesau'r NRA a'r NRAA yn cyd-fynd â gofynion MGN 543, gall partïon anghytuno â'r sgorau risg a'r casgliad y byddai'r risg yn 'oddefadwy' / mor isel ag sy'n rhesymol ymarferol ("ALARP"), ac maen nhw yn anghytuno â nhw.[1012] Clywodd yr ymchwiliad, o ganlyniad i natur amrywiol yr amgylchedd morol, gellir disgwyl i forwyr fod â barn wahanol am y canfyddiad o risg a'r hyn sy'n oddefadwy, felly mae proses NRA ar gael i lywio penderfyniadau. Arweiniodd y broses ar gyfer y cais hwn at yr Atodiad i'r NRA. A phetai'r Gorchymyn yn cael ei wneud, byddai NRAs DDP dilynol yn llywio penderfyniadau am elfennau alltraeth y cynllun wrth symud ymlaen. [54, 55, 143, 330-335, 340-342, 348, 579, 591, 610, 614]

882. Fel y gellid disgwyl, trwy ymrwymo i ddarpariaethau yn yr NRA, mae'r Ymgeisydd o'r farn y byddai'r gwaith arfaethedig yn ddiogel yn fordwyol. [132]

883. Mae'r RYA yn pryderu: bod Asesiad Ffiniau Rhyngweithiol yr NRAA yn dibynnu'n gyfan gwbl ar ddata AIS a radar i ddarparu gwybodaeth am weithgarwch rhwyfo yn y cyffiniau; a, bod hyn yn golygu bod perygl anwybyddu'r gyfran sylweddol o gychod hamdden nad oes ganddynt AIS ac sydd â silwét radar bach. Fodd bynnag, yn ystod yr ymchwiliad, cadarnhaodd yr Ymgeisydd sut y cynhaliodd ei gontractwr yr arolwg, gan gynnwys cofnodi llongau oddi ar yr arfordir. Fe'i gwnaed dros 28 niwrnod gyda data AIS a RADAR, gwybodaeth yr RYA ac arsylwadau gweledol. Ni ddangoswyd bod cymhwysedd y cwmni arolygu na'r gwaith a wnaed mewn cysylltiad ag ef yn ddiffygiol. [338, 579, 589]

884. Mae'r Ymgeisydd o'r farn bod ei arolwg yn darparu mwy o wybodaeth na'r hyn y mae MGN 543 yn gofyn amdani. Er bod y partïon wedi herio data, cwmpas a chanlyniadau'r arolwg, ni ddarparwyd unrhyw dystiolaeth i ddangos bod yr arolwg hwnnw'n fyr o'r hyn y mae MGN 543 yn ei ddisgwyl. Nid oedd yr ymchwiliad hwn ychwaith yn ymwneud ag MGN 543 a sut a beth mae'n ceisio ei wneud. [339, 343, 579, 592-594, 611]

[1012] Gweler adran 12 a Thablau 12-2 a 12-3 yr NRAA (Cyf: MDZ/I1)

Lle ar y môr

885. Soniodd yr Ymgeisydd am bwnc "lle ar y môr" yn ei gyflwyniadau olaf. Mae'n rhoi crynodeb defnyddiol o'r materion ac yn llywio ystyriaeth o bryderon cysylltiedig a godwyd gan bartïon eraill i'r ymchwiliad. Mae'n cyfeirio at Gyf: Dogfen Ymchwiliad – 043, sy'n rhoi gosodiad dangosol ar gyfer lleoli dyfeisiau 240MW llawn a'r dŵr agored / lle ar y môr a fyddai'n weddill. [347-351]

886. Mae MGN 543 a'i Atodiadau wedi cael eu hysgrifennu yng nghyd-destun tyrbinau fferm wynt ar y môr, ac yn cyfeirio atynt. Er hynny, mae egwyddor cymhwyso 'ffin' ddyfeisiau i led llwybr morgludiant a'r traffig ynddo yn berthnasol i'r MDZ a'r canfyddiad o risg a fynegwyd gan ddefnyddwyr y môr yn ystod yr ymchwiliad.

887. Mae'r dystiolaeth yn dangos y byddai sianel 1000m a fyddai'n cael ei chadw'n glir o waith sy'n codi o'r dŵr (/bas) rhwng yr arfordir a'r MDZ yn darparu sianel fordwyol addas i fadau modur. Canfu'r NRAA y byddai'r risgiau ar y llwybr glannau dwyreiniol hwn yn ALARP. [349]

888. Mae gan glwb hwylio Bae Trearddur nifer sylweddol o fadau hwylio nad oes ganddynt fath arall o yriad modur. Felly, mae'r clwb eisoes yn mynd â chychod RIB modur i'w hebrwng pan fyddant yn hwylio fel grŵp i Gaergybi. Mewn argyfwng, y badau hwylio hyn heb foduron yw'r rhai a fyddai'n fwyaf tebygol o fod angen defnyddio llwybrau trwy'r dyfeisiau sy'n codi o'r dŵr i symud i ffwrdd o'r arfordir. [342, 349, 350]

889. Mae caiacwyr yn pryderu hefyd am yr angen posibl i ddianc trwy'r dyfeisiau petaent yn mynd i drafferth yn sianel ddwyreiniol arfaethedig y glannau, lle y byddent yn padlo fel arfer. Er y byddai sianel glannau'n cael ei darparu, byddai'r MDZ yn cyflwyno dyfeisiau a seilwaith a fyddai'n beryglon ychwanegol yn y dyfroedd hyn. Ar yr wyneb, gallai'r dyfeisiau hyn edrych fel strwythurau mawr tebyg i gwch camlas, ac er y byddent yn sefydlog / wedi'u clymu mewn un lleoliad, byddent mewn amgylchedd morol ynni uchel dynamig. O ganlyniad, mae'n ddealladwy bod y risg ganfyddedig i gaiacwyr môr yn uwch oherwydd y gwahaniaeth mewn graddfa rhwng eu badau nhw a'r enghreifftiau o ddyfeisiau sy'n codi o'r dŵr a roddwyd. [349, 353-359, 608, 609, 612, 620]

890. O ran Asesiad Ffiniau Rhyngweithiol yr NRAA, mae'r RYA wedi gofyn i sianel y glannau gael ei hymestyn o'r 1km a gynigiwyd i rhwng 1 a 2 fôr-filltir yn glir o eirwyau môr a phentiroedd. Byddai bodloni'r cais hwn yn cyfyngu'n sylweddol ar yr ardal sydd ar gael ar gyfer dyfeisiau sy'n codi o'r dŵr. Ac, yn hyn o beth, mae'r RYA yn nodi y gallai ei phryderon gael eu bodloni trwy gael gwared ar ddyfeisiau sy'n codi o'r dŵr o'r MDZ. [350, 351, 354, 597, 602] [1013] [1014]

891. Byddai dargyfeirio o amgylch yr MDZ yn ychwanegu 2.5 môr-filltir at daith unrhyw long, a fyddai'n cymryd tua 30 munud ar gyflymder o 5 not. [352]

892. Ni ddaethpwyd i gytundeb ynglŷn â pha mor oddefadwy yw sianel ddwyreiniol arfaethedig y glannau. Fodd bynnag, pe byddai'r Gorchymyn yn cael ei wneud ar ei ffurf bresennol, byddai'r penderfyniad terfynol ynglŷn â hyn yn cael ei wneud pan fyddai Gweinidogion Cymru yn ystyried cynigion DDP ar gyfer dyfeisiau sy'n codi o'r

[1013] Gallai Ffigur 4 Cyf: Dogfen Ymchwiliad – 043 helpu i ystyried y cais hwn gan ei fod yn cynnwys graddfa (mewn kms yn hytrach na môr-filltiroedd), yr MDZ, sianel y glannau a'r arfordir (ynghyd â gosodiad dangosol araeau o fewn yr MDZ).

[1014] Gweler pwyntiau 8 a. a b. ar dudalen 5 Cyf: MDZ/N2

dŵr nesaf at sianel y glannau. Byddai penderfyniadau o'r fath yn rheoli nifer y dyfeisiau sy'n codi o'r dŵr, eu lleoliadau a lled y sianel / y lle ar y môr o'u hamgylch. [341, 350, 351, 595, 596, 611, 612, 614]

Trwyddedu Morol

893. Mae'r Ymgeisydd wedi darparu amodau Trwydded Forol awgrymedig,[1015] ond mater i Wasanaeth Rheoleiddiol CNC ei ystyried a dod i gasgliad arno yw hyn wrth gynnal ei swyddogaeth trwyddedu morol.

894. Fel y nodwyd uchod, byddai'r gwaith ar y môr yn ddarostyngedig i reolaethau Trwydded Forol, a fyddai'n cyd-fynd â'r broses DDP o fewn y Gorchymyn. Nid yw'r MCA wedi trafod ei gofynion o ran amodau Trwydded Forol gyda'r Ymgeisydd a CNC eto, ond mae'n pryderu efallai na fydd y rheolaethau angenrheidiol ar waith i sicrhau gweithredu diogel ar hyd oes yr MDZ. Mae tystiolaeth a gyflwynwyd i'r ymchwiliad hwn wedi mynd i'r afael â natur effeithiau arwyddocaol posibl a'r mesurau lliniaru sy'n debygol o fod yn ofynnol. Felly, nid yw'n ymddangos bod safbwynt yr MCA yn cyd-fynd â'r egwyddor y bydd rheoleiddiwr yn rheoleiddio'n gymwys. [95-97, 141, 579]

895. Yn ogystal, mae a.69(1) Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009 yn amlinellu pa faterion y mae'n ofynnol i Wasanaeth Rheoleiddiol CNC eu hystyried wrth benderfynu rhoi Trwydded Forol. Mae'r materion hyn yn cynnwys y meysydd pryder a fynegwyd mewn sylwadau a chyfraniadau i'r ymchwiliad. [98, 590]

**Casgliad ar faterion morol / mordwyo**

896. Byddai'r MDZ o fewn dyfroedd sy'n adnabyddus am eu ffrydlifoedd llanw, nodweddion arfordirol fel eirwyau môr, a'r mordwyo anodd sy'n deillio o hynny. Mae'r amodau hyn yn arwain at y math o ynni'r llanw y mae'r MDZ yn ceisio ei ddal. Maen nhw hefyd yn denu rhai defnyddwyr y môr i'r ardal, tra bod rhaid i eraill fordwyo trwy'r amodau o ganlyniad i'w hamgylchiadau a'u lleoliad daearyddol. Mae pob un yn ceisio mynd trwy'r ardal yn ddiogel a bydd ganddynt ganfyddiadau gwahanol o risg. [601]

897. Byddai'r MDZ yn cyflwyno gwaith yn y môr oddi ar Ynys Lawd a fyddai'n cynyddu'r risg trwy bresenoldeb dyfeisiau a seilwaith mewn dyfroedd sy'n agored ar hyn o bryd. Fodd bynnag, ni ddangoswyd, o ystyried natur effeithiau arwyddocaol posibl y gwaith a'r mesurau lliniaru y gellid disgwyl yn rhesymol iddynt ddeillio o gymeradwyaeth o dan ofynion y Gorchymyn neu drwyddedu morol, y byddai'r risgiau i ddiogelwch mordwyol yn annerbyniol o niweidiol i ddefnyddwyr y môr o amgylch y rhan hon o Ynys Môn.

898. Byddai cais yr RYA am ddyfeisiau tanddwr yn unig yn yr MDZ yn dileu llawer o'r risgiau canfyddedig a fynegwyd gan ddefnyddwyr presennol y dyfroedd hyn. Fodd bynnag, canfuwyd bod y risgiau posibl yn sgil presenoldeb dyfeisiau sy'n codi o'r dŵr yn dderbyniol. A phe byddent fyth yn cael eu hystyried yn annerbyniol o bosibl ar ôl i'r Gorchymyn gael ei wneud, byddai'r broses DDP yn golygu y gellid mynd i'r afael â phriodoldeb dyfeisiau o'r fath.

[1015] Cyf: MDZ/I4 ac Atodiad 4 i'r oEMMP (Cyf: Dogfen Ymchwiliad – 101)

## Bioamrywiaeth

### Cynefinoedd benthig a rhynglanw

899. Ymdrinnir â materion bioamrywiaeth, gan gynnwys nodweddion sydd o bwysigrwydd cadwraeth yn yr ardal rynglanw ac islanw, yn y *Strategaeth Gwella Bioamrywiaeth Forol Amlinellol* ("OMBES") (Cyf: Dogfen Ymchwiliad – 069). Trafodwyd ei chwmpas a'i gofynion posibl yn ystod sesiwn bord gron yr ymchwiliad ar ecoleg fenthig a rhynglanw, ynghyd â rhannau perthnasol y SoCG rhwng yr Ymgeisydd a CNC ar *Bynciau Eraill ac eithrio adareg, mamaliaid môr ac effeithiau ar y morlun a'r dirwedd ac effeithiau gweledol* (Cyf: MDZ/L6).

900. Mae paragraff 5 OMBES yn nodi "…*Asesodd ES Morlais, heb fesurau lliniaru, y byddai colli cynefin benthig yn y tymor hir (yn fwy penodol, nodweddion riff Atodiad I) trwy leoli seilwaith y prosiect yn gychwynnol (ac unrhyw adbweru dilynol) yn arwain at effaith niweidiol gymedrol. I liniaru'r effaith hon, cynigiwyd microleoli dyfeisiau i ffwrdd oddi wrth y cynefin o'r ansawdd uchaf*…".

901. Mae adran 1.1 yr OMBES yn disgrifio'r cyd-destun ar gyfer y gwaith a'r dystiolaeth arolwg ychwanegol a fyddai'n cael ei chasglu i lywio penderfyniadau am ficroleoli. Byddai'n rhaid i bob microleoliad gael ei gytuno rhwng y partïon ar ôl i'r Gorchymyn gael ei wneud ac o fewn cyd-destun Trwydded Forol. Nid yw'r Ymgeisydd na CNC yn rhagweld unrhyw anhawster penderfynu ar ficroleoli addas i warchod cynefinoedd benthig (a rhynglanw).

902. Mae hefyd yn nodi pan na fyddai'n ymarferol microleoli i ffwrdd oddi wrth nodweddion riff Atodiad 1, byddai angen mesurau lliniaru ychwanegol, a allai fod ar ffurf gwella bioamrywiaeth forol. Yn hynny o beth, mae teitl llawn yr OMBES (gweler uchod) yn cadarnhau ei bod yn bwriadu darparu strategaeth wella o'r fath.

903. Mynegwyd pryderon ynglŷn â'r potensial i rywogaethau estron goresgynnol gael eu cyflwyno i'r MDZ pan fydd dyfeisiau llanw'n cael eu lleoli a'u gwasanaethu. Ar y tir, byddai rhywogaethau estron goresgynnol yn derbyn sylw trwy amod cynllunio arfaethedig, ond ar y môr byddai'n fater i'r broses trwyddedu morol. [732]

904. Mae'r Ymgeisydd a CNC (Gwasanaeth Cynghori) wedi cytuno ar yr OMBES ac na fyddai ecoleg fenthig yn rheswm dros wrthod y cais. Ni fyddai'r un o'r materion a godwyd yn yr achos hwn yn peri i mi feddwl yn wahanol. [169-173, 466, 467, 733]

### Mamaliaid môr

905. Byddai'r MDZ o fewn Ardal Cadwraeth Arbennig ("ACA") Gogledd Môn Forol, sydd wedi'i dynodi ar gyfer gwarchod llamhidyddion (*phocoena phocoena*). O ganlyniad, gallai'r gwaith arfaethedig effeithio ar y rhywogaeth hon, sydd wedi'i rhestru yn Atodiad II ac Atodiad IV y Gyfarwyddeb Cynefinoedd, a mamaliaid môr eraill. Mae'r Amcanion Cadwraeth ar gyfer y dynodiad ACA hwn yn canolbwyntio ar faterion a allai effeithio ar gyfanrwydd y safle trwy: niweidio cynefinoedd perthnasol yn sylweddol; lleihau'r ysglyfaeth sydd ar gael yn sylweddol; atal y llamhidyddion rhag defnyddio ardaloedd sylweddol o'r ACA; a, lladd neu anafu llamhidyddion (yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol).[1016] [174-176, 499]

[1016] Cyf: POE038 *Ardal Cadwraeth Arbennig Llamhidyddion (Phocoena phocoena): Amcanion Cadwraeth a Chyngor ar Weithrediadau Gogledd Môn Forol*

906. O ran yr Amcanion Cadwraeth hyn, roedd gan CNC (Gwasanaeth Cynghori) bryderon ynglŷn â pherygl mamaliaid môr yn gwrthdaro â'r gwaith a sŵn tanddwr yn tarfu arnynt. Ymdrinnir â'r ddau fater hyn gan yr Amcanion Cadwraeth lefel safle ar gyfer yr ACA gydag Amcan Cadwraeth 2, er enghraifft, yn diffinio tarfu sylweddol o ganlyniad i sŵn yn nhermau canran ardal yr ACA yr effeithir arni ar ddiwrnod unigol neu ar hyd tymor.

Sŵn

907. Roedd yr Ymgeisydd a CNC (Gwasanaeth Cynghori) wedi mynd i'r afael ag effeithiau posibl sŵn tanddwr ar yr ACA a'r cynnydd a wnaed ar hynny cyn y cyflwyniadau i gloi. [176, 184, 193-222, 505-509]

908. Rhwng clywed y dystiolaeth yn yr achos hwn a'r cyflwyniadau i gloi, diweddarodd yr Ymgeisydd yr OEMMP (Cyf.(au): Dogfen Ymchwiliad – 100 a Dogfen Ymchwiliad – 101) i adlewyrchu safbwynt CNC (Gwasanaeth Cynghori) ar fonitro a lliniaru sŵn tanddwr. Mae CNC yn cynghori bod y diwygiadau hyn yn golygu y gellir diystyru effaith niweidiol ar gyfanrwydd y safle o ganlyniad i sŵn tanddwr ar y cam hwn. Ni fyddai unrhyw dystiolaeth yn yr achos hwn yn peri i mi anghytuno â'r cyngor hwn. [187, 189, 190-222, 466, 467, 510-511, 732]

Risg gwrthdrawiad

909. Mae CNC (Gwasanaeth Cynghori) yn nodi: nid rheoli addasol fyddai'r dull a ffefrir ganddo i fonitro a rheoli effeithiau amgylcheddol, ond gall rheoli addasol fod yn briodol ar gyfer gwaith sy'n cynnwys technoleg arbrofol lle y ceir ansicrwydd na ellir ei osgoi; ac, mae'n amlwg y byddai technoleg o'r fath yn cael ei lleoli yn yr MDZ. [500]

910. Hefyd, mae trafodaethau rhwng CNC (Gwasanaeth Cynghori) a'r Ymgeisydd ynglŷn â'r OEMMP wedi arwain at gynnwys amod Trwydded Forol arfaethedig yn Atodiad 4 i'r OEMMP (Cyf: Dogfen Ymchwiliad – 101). Byddai'r amod awgrymedig yn mynnu Cynllun Rheoli a Monitro Amgylcheddol Manwl ("DEMMP")[1017] i fynd i'r afael ag effeithiau posibl y gwaith ar famaliaid môr ac adar sy'n plymio. Byddai darpariaethau rheoli addasol a'r EMMP yn berthnasol i bob cam o'r gwaith, a bydd yr EMMP yn ystyried yr holl dechnolegau lliniaru a monitro, gan gynnwys y rhai hynny sy'n cael eu datblygu o hyd. [501]

911. Nid yw allbynnau'r modelu risg gwrthdrawiad yn ystyried y mesurau lliniaru a gynigir a'r DEMMP a fyddai'n dilyn. [183]

912. Nid oedd CNC (Gwasanaeth Cynghori) yn cytuno â rhai o'r datganiadau yn yr OEMMP a bydd yr angen am fanylion ychwanegol yn cael ei drafod ar y cam DEEMP. Fodd bynnag, mae CNC (Gwasanaeth Cynghori) wedi cadarnhau bod cryfhau'r cynigion rheoli addasol yn yr OEMMP yn sicrhau na fyddai effaith niweidiol ar gyfanrwydd yr ACA o ganlyniad i famaliaid môr yn gwrthdaro â'r gwaith arfaethedig. O ystyried y dystiolaeth a gyflwynwyd i'r ymchwiliad hwn ac a glywyd ynddo, nid wyf wedi canfod unrhyw beth a fyddai'n peri i mi feddwl yn wahanol. [177, 179, 185-187, 466, 467, 502, 503, 732]

---

[1017] Mae testun yr amod drafft yn cyfeirio at "*Gynllun **Rheoli** a Monitro Amgylcheddol Manwl (DEMMP)*" a "*Chynllun **Rheoli** a Monitro Amgylcheddol Amlinellol (OEMMP)*", ond dylai'r teitl cywir fod yr un fath â theitl yr OEMMP yng Nghyf: Dogfen Ymchwiliad – 101 h.y. "...*Cynllun **Lliniaru** a Monitro Amgylcheddol…*".

**Pysgod**

913. Mae pryderon cychwynnol ynglŷn ag effeithiau posibl sŵn tanddaear ar bysgod a'u symudiadau wedi cael eu datrys. Mae mesurau monitro ar gyfer pysgod mudol wedi'u cynnwys bellach yn yr OEMMP. [144, 429]

**Adareg**

914. Mae CNC (Gwasanaeth Cynghori) wedi cadarnhau: bod paragraff 100 yr OEMMP (Cyf: Dogfen Ymchwiliad – 101) yn amlinellu'r trefniadau monitro ar gyfer effeithiau posibl ar adar sy'n plymio yn ddigonol; y dylai'r trefniadau monitro fod yn briodol ac yn gymesur â faint o amddiffyniad a roddir i'r rhywogaethau gan y gyfraith a pholisïau; a, bod paragraff 100 yr OEMMP yn cynnwys yr egwyddor y dylai'r gyfundrefn fonitro arfaethedig allu gwahaniaethu rhwng mamaliaid môr a rhywogaethau eraill, gan gynnwys adar sy'n plymio. [224, 225, 504]

915. Nid yw'r partïon yn dadlau ynghylch unrhyw fater yn ymwneud â'r effaith bosibl ar frain coesgoch yn yr AGA. Nid oes gan yr RSPB unrhyw bryderon ychwaith ynglŷn ag effeithiau'r gwaith ar adar drycin Manaw. Er hynny, ymdrinnir yn llawn â'r rhywogaethau AGA hyn yn nhystiolaeth yr Ymgeisydd (Cyf: MDZ/P1). [86, 226, 535-537]

916. Mae'r RSPB yn nodi bod eu prif bryderon yn ymwneud ag effaith bosibl y gwaith ar boblogaethau gwylogod a llursod Ynys Lawd a Phenlas. Nid yw'r naill na'r llall o'r rhywogaethau yn cael eu hamddiffyn gan yr AGA ac nid yw effeithiau arnynt yn sbarduno rheoliad 63 *Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau* – Offeryn Statudol 2017 Rhif 1012 ("y Rheoliadau Cynefinoedd"). Mae gwylogod a llursod yn rhan o'r gytref adar môr sy'n bridio sy'n cyfrannu at y SoDdGA ac felly dylent gael eu cynnal, ond nid ydynt wedi'u henwi'n nodweddion o ddiddordeb yn y dynodiad SoDdGA. [226, 537, 538, 544, 546]

917. A hwythau'n adar gwyllt, mae'r poblogaethau gwylogod a llursod yn cael eu hamddiffyn o dan *Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981*. Mae'n gweithredu Cyfarwyddeb Adar 2009/147/EC, sy'n ceisio atal y dirywiad mewn poblogaethau adar ledled Ewrop. Mae'r partïon yn cytuno na fyddai Cam Un y gwaith yn cael effaith arwyddocaol ar wylogod a llursod. [226, 227, 540, 541-543]

918. Mae gwrthwynebiad cyntaf yr RSPB yn ymwneud â'r ffaith bod technoleg ynni'r llanw ar gam cynnar yn ei datblygiad. Ni fyddai hynny ynddo'i hun yn rheswm dros wrthod y cais nac yn achos niwed annerbyniol. Fodd bynnag, mae'r RSPB yn ei gysylltu â'r hyn y mae'n ystyried ei fod yn: ddiffyg cyfatebol o dystiolaeth empirig i lywio a/neu ddilysu'r asesiad o ryngweithiadau tebygol ag adar sy'n plymio a'r effeithiau arnynt; a'r ffaith bod asesu risg gwrthdrawiad ar gam cynnar o hyd. Ymdrinnir â'r pwyntiau hyn isod. [531]

919. Yn ogystal â'r materion hyn, mae'r RSPB yn gwrthwynebu ar sail: maint effaith bosibl lleoli dyfeisiau 240MW, gan gydnabod nad yw ei safbwynt ar yr ES yn ystyried mesurau lliniaru trwy gyflwyno fesul cam a'r EMMP; a, diffyg manylion am unrhyw gam penodol a'r ddibyniaeth ar fonitro, rheoli a/neu liniaru. [531, 546]

<u>Graddfa'r prosiect</u>

920. Mae'r RSPB o'r farn bod y gwaith arfaethedig yn rhy fawr a bod yr effeithiau'n rhy arwyddocaol. Fodd bynnag, byddai'r gwaith yn cael caniatâd i leoli ar raddfeydd y mae CNC yn ystyried eu bod yn briodol yn unig. [226, 231, 244, 532]

921. Byddai'r prosiect ynni'r llanw mawr cyntaf wastad yn torri tir newydd. Byddai'r cynnig presennol yn galluogi cynyddu'r capasiti cynhyrchu fesul cam wrth i'r dechnoleg, a'r mesurau lliniaru a monitro ar ei chyfer, gael eu profi i fod yn addas ac yn effeithiol. [557, 559, 560]

Gwaith asesu a modelu

922. Ymdriniwyd â'r materion hyn yn ystod sesiynau'r ymchwiliad ac fe'u gwrthbrofwyd yn effeithiol gan yr Ymgeisydd, er nad yw llinoledd disgwyliedig unrhyw berthynas rhwng graddfa'r datblygiad a'r effaith ganlyniadol wedi'i ddangos o hyd. Mae'r angen i hynny gael ei ddangos yn cael ei gydnabod yn achos yr RSPB, a dyna beth fyddai'r gwaith arfaethedig yn ei ddarparu. [236, 558]

923. Archwiliodd sesiynau'r ymchwiliad gymhlethdod a manylion modelu ar gyfer effeithiau posibl adaregol ac effeithiau posibl eraill. Mae modelu o'r fath yn ceisio deall a rhagfynegi effeithiau posibl, ac nid yw'r modelu yn yr achos hwn wedi dangos y byddai effeithiau'r cynnig yn annerbyniol. [236]

924. Byddai'r cam lleoli dyfeisiau cychwynnol yn llai na'r senarios 40MW a 240MW a fodelwyd yn yr ES, ond byddai'r gwaith yn anelu at leoli'r nifer fwy o ddyfeisiau o hyd i wireddu'r buddion y byddent yn ceisio eu darparu. Dylai unrhyw gasgliadau ar effeithiau wedi'u modelu ystyried y mesurau lliniaru sydd wedi'u cynnwys yn y cynnig ac a fyddai'n cael eu darparu trwy'r EMMP. [58-65, 237, 238, 561, 562]

925. Ni ddadleuir ynglŷn â phriodoldeb y modelau ERM a CRM a ddefnyddiwyd. Defnyddiodd yr Ymgeisydd gyfartaledd o allbynnau'r modelu ERM a CRM. Mae hynny'n cyfartalu unrhyw wahaniaeth rhwng allbynnau'r modelau, ond ni newidiodd gasgliadau'r modelu. [241, 247, 563]

926. Mae'r RSPB wedi nodi lle y mae'n credu na fu'r asesiadau mor "rhagofalus" ag yr honnwyd. Archwiliwyd y materion hyn trwy drafodaethau yn ystod yr ymchwiliad, ac mae'r ffactorau y mae'r RSPB yn cytuno y buont yn rhagofalus wedi'u crynhoi gan yr Ymgeisydd yn [239]. [564]

927. Anghytunwyd hefyd ar faterion gan gynnwys: dadansoddiad PVA, y mae'r Ymgeisydd o'r farn ei fod yn rhagofalus iawn o ganlyniad i boblogaethau uwch; a, chyfraddau osgoi, y mae'r dystiolaeth yn dangos eu bod yn fater o farn yn y pen draw. [235-242, 246, 248, 563-565]

928. Yn ystod yr ymchwiliad, cadarnhaodd yr RSPB nad yw'r golled a ragfynegir o ran gwylogod a llursod o arwyddocâd mawr yn genedlaethol, ond yn arwyddocaol iawn yn lleol, a ddylai ddenu pwys sylweddol yn yr achos hwn ym marn yr RSPB. [544, 545, 547]

929. Mae'r ES yn asesu bod effaith y gwaith ar wylogod a llursod yn "*niweidiol fawr*". Er bod yr RSPB yn codi nifer o bryderon ynglŷn â gwaith modelu'r Ymgeisydd, pwyntiau manwl yw'r rhain na fyddent, petaent yn cael eu profi, yn newid arwyddocâd yr effaith a amlygwyd yn yr ES, heblaw am ei hamseriad efallai. Yn ogystal, mae'r RSPB wedi derbyn na fyddai lleoli'r dyfeisiau Cam Un arfaethedig yn cael effaith arwyddocaol ar y rhywogaethau hyn. Byddai addasrwydd lleoli unrhyw ddyfeisiau eraill yn cael ei ystyried ar sail eu rhinweddau ac yng nghyd-destun y wybodaeth a gafwyd am effeithiolrwydd yr EMMP. [236, 242, 245]

PDE a lleoli'r prosiect fesul cam

930. Ni fyddai'r Gorchymyn yn sicrhau camau diffiniedig o'r prosiect. Byddai hynny'n cael ei wneud gan y Grŵp Cynghori a CNC wrth adolygu arwyddocâd allbynnau'r EMMP. Roedd yn amlwg bod yr RSPB yn dymuno bod yn rhan o'r Grŵp Cynghori hwnnw a byddai'r OEMMP yn hwyluso hynny. [49, 142, 244, 551]

931. Mae'r materion sy'n berthnasol i'r cais wedi cael eu mynegi'n drylwyr yn ystod yr ymchwiliad hwn. Nid oes tystiolaeth na fyddai CNC yn rheoleiddio'n gymwys, a byddai unrhyw benderfyniadau ynglŷn â'r gwaith yn y dyfodol yn cael eu gwneud yng nghyd-destun yr adroddiad hwn, y cyflwyniadau ynddo, y dystiolaeth sy'n ei ategu, penderfyniad Gweinidogion Cymru, unrhyw gynigion yn y dyfodol, mesurau lliniaru a monitro cysylltiedig, y sylwadau a dderbynnir gan y Grŵp Cynghori ac unrhyw rai eraill a geisir. Nid oes tystiolaeth gymhellol sy'n dangos na fyddai'r broses trwyddedu morol a/neu brosesau penderfynu eraill a fyddai'n dilyn gwneud y Gorchymyn, yn briodol o wybodus neu deg. [142, 243, 554, 555, 566]

932. Mae CNC yn ddigon bodlon â'r broses EMMP a DEMMP i beidio â chyflwyno achos ynglŷn ag AEOSI ar gyfer mamaliaid môr, nac ar gyfer yr effaith ar boblogaethau gwylogod a llursod. Mae'n ymddangos bod safbwynt yr RSPB ar allu'r cynnig i symud ymlaen heibio i'r cam cyntaf dangosol ychydig yn rhy gynnar o ystyried mai diben y gwaith, yn rhannol, yw profi a datblygu dulliau ar gyfer monitro a datblygu dyfeisiau dal ynni'r llanw yn nyfroedd Cymru a'r Deyrnas Unedig. [228, 233, 533, 575-578]

<u>Monitro</u>

933. Mae'r Ymgeisydd wedi darparu crynodeb o'i achos o ran monitro. Mae'n glir ac yn deilwng am y rhesymau sydd ynddo. [234]

934. Ni fyddai'r Gorchymyn yn nodi mesurau monitro gan y byddai'r rhain yn cael eu hamlinellu o fewn y rheolaethau eraill ar y gwaith, gan gynnwys yr EMMP. Mae'r Ymgeisydd yn glir ynglŷn â'r mater hwn (h.y. "…*ni ellir diwygio TWAO*…"). Er bod monitro wedi bod yn achos pryder i'r RSPB, os bydd CNC yn rheoleiddio'n gymwys, byddai'r EMMP yn atal lleoli unrhyw ddyfeisiau hyd nes bod monitro effeithiol ar waith. [284, 551]

935. Nid yw'r RSPB yn gwrthwynebu PDE ar gyfer gwaith ynni'r llanw "mewn egwyddor", ond mae'n ymddangos bod ei phryderon ynglŷn â monitro yn berthnasol i'r egwyddor monitro / rheoli addasol y mae'r PDE hon yn dibynnu arni. Cefnogir rheoli addasol ar gyfer asesu prosiectau o'r math hwn yng Nghymru ac mae'n bolisi mabwysiedig. [37, 38, 39, 51, 52, 114, 243, 556]

936. Mae'r RSPB yn amau y byddai Cam Un y gwaith yn cael ei leoli hyd yn oed. Cyfeiriwyd at, ymhlith pethau eraill, waith sy'n parhau ers 2012 ar ddiffinio cyfraddau osgoi mewn perthynas â ffermydd gwynt ar y môr, a'r diffyg cyfradd osgoi ddiofyn argymelledig i'w defnyddio ar gyfer cynigion ynni'r llanw. Fodd bynnag, mae'r gwaith arfaethedig yn mynd ati'n benodol i helpu i ddatrys y problemau hyn, ac mae polisi Llywodraeth Cymru yn ceisio dal ynni ffrwd lanw yn y lleoliad hwn. [249, 567-571]

937. Byddai Tabl 4-1 yr OEMMP (Cyf: Dogfen Ymchwiliad – 101) yn caniatáu i bob math o fonitro gael ei ystyried. Byddai'n ceisio monitro gwrthdrawiadau posibl, niferoedd blynyddol / cyfraddau llwyddiant bridio yn y gytref, ar yr un pryd ag olrhain symudiadau ac ymddygiad plymio. O'r dulliau lliniaru a monitro a restrir yn Nhabl 4-1, mae achos yr Ymgeisydd yn canolbwyntio ar: gyfrifiadau cytref blynyddol; tagio ac olrhain; a, fideo a sonar. [250-258]

938. Mae'r RSPB yn cefnogi cyfrifiadau cytref, er ei bod yn nodi cyfyngiadau mynediad at yr adar a'r niferoedd y gellid disgwyl eu dal yn rhesymol, a'r angen i ddefnyddio dulliau eraill o fonitro ochr yn ochr â hynny. Tra bod cyfrifiadau cytref yn cofnodi nifer yr adar, byddai tagio ac olrhain yn mynd i'r afael â'u symudiadau a'u tebygolrwydd o ddod i gysylltiad â dyfeisiau. Gobeithir y byddai fideo a sonar yn galluogi adnabod a recordio rhyngweithiadau â dyfeisiau. Mae'r Ymgeisydd wedi disgrifio sut byddai'n mynd ati i gynnal y dulliau hyn a'r heriau a ddisgwylir wrth eu rhoi ar waith. [253-257]

939. Mae'r RSPB yn herio beth fyddai'n gyflawnadwy wrth geisio darparu dulliau monitro effeithiol ar gyfer yr MDZ ac mae'n rhoi manylion i gefnogi ei barn. Fodd bynnag, mae'r Ymgeisydd yn credu bod yr RSPB yn rhy ddiystyriol o'r potensial i'r technegau hyn fonitro'r gytref adar a'i gweithgarwch yn addas yng nghyffiniau'r dyfeisiau a'r seilwaith a leolir. Fel y nodwyd uchod, un o ddibenion yr MDZ fyddai archwilio'r heriau hyn ac amlygu dulliau monitro priodol. Nid yw'n amlwg y byddai'r heriau'n debygol o fod yn anorchfygol. [258, 572-574]

Yr EMMP

940. Byddai'r EMMP, gyda'i fesurau monitro, rheoli a lliniaru, yn cael ei ddarparu trwy'r Drwydded Forol. Er mwyn penderfynu ar y cais, darperir yr OEMMP fel Cyf: Dogfen Ymchwiliad – 101.

941. Nid yw'n ymddangos bod beirniadaethau o'r EMMP yn cydnabod yr amddiffyniadau ar gyfer adar yn y ddogfen amlinellol sydd wedi galluogi CNC i ffurfio ei farn ynglŷn ag ef. Mae'r Ymgeisydd wedi darparu crynodeb o'r amddiffyniadau hyn. [244]

942. Yn ogystal, mae'n ymddangos bod y manylion a geisir gan yr RSPB ar y cam hwn yn groes i'r bwriadau ar gyfer rheoli addasol mewn achosion fel yr un hwn a'i rôl wrth ddatblygu mathau newydd o ddal ynni carbon isel. Cefnogir y cais hwn gan wybodaeth helaeth am effeithiau amgylcheddol posibl y gwaith. Y manylion sydd i'w darparu o hyd, a'u sefydlu mewn rhai achosion, yw'r rhai hynny y gellid eu disgwyl yn rhesymol mewn cynnig o'r math hwn. Mae CNC wedi cydnabod hynny a dod i'r casgliad bod y cynnig yn briodol yng nghyd-destun rheoli addasol. [259-271] [551, 554]

Digonolrwydd gwybodaeth i lywio'r penderfyniad

943. Mae'r RSPB o'r farn na fydd gan Weinidogion Cymru ddigon o wybodaeth am y gwaith i wneud penderfyniad priodol o wybodus ar gyfer prosiect ar raddfa o hyd at 240MW. Fodd bynnag, defnyddiwyd senarios achos gwaethaf wrth asesu effeithiau posibl. [235, 236, 534, 556]

944. Yn hytrach nag amlinellu mesurau lliniaru manwl yn yr ES, byddent yn cael eu darparu'n bennaf trwy'r dull fesul cam o weithredu'r gwaith a'r EMMP cysylltiedig. Mae safbwynt yr Ymgeisydd yn glir o ran *Atkinson v Yr Ysgrifennydd Gwladol dros Drafnidiaeth [2007]* Env LR 5 a disgwyliadau'r RSPB ar gyfer y wybodaeth yn yr ES. Yn hytrach na dibynnu ar gydsyniadau ychwanegol, mae'r Ymgeisydd o'r farn bod mwy na digon o wybodaeth amgylcheddol wedi cael ei darparu i lywio penderfyniad Gweinidogion Cymru. [142, 547, 548, 552, 553]

945. Mae Adran 31B y TWA yn mynnu bod Gweinidogion Cymru: yn ystyried y wybodaeth EIA cyn gwneud penderfyniad; ac, yn dod i gasgliad rhesymedig ar effeithiau arwyddocaol tebygol y cynllun. Ar gyfer y cais hwn, defnyddiwyd senarios achos gwaethaf wrth fodelu adareg. A phetai'r Gorchymyn yn cael ei wneud, byddai'r

broses trwyddedu morol (a'r DDPs) yn parhau i oruchwylio'r effeithiau ar adar ac effeithiolrwydd yr EMMP. [236, 243, 549, 550]

Casgliad ar adareg

946. Mae'r RSPB o'r farn bod y cynllun arfaethedig yn rhy fawr, yn rhy fuan, ac ar adeg pan fo'r dechnoleg a'r ddealltwriaeth ar gam cynnar. Fodd bynnag, mae'r MDZ wedi'i fwriadu'n benodol i fynd i'r afael â'r holl faterion hyn. Er bod yr RSPB yn herio p'un a fyddai'r gwaith arfaethedig yn symud ymlaen y tu hwnt i'w gam cyntaf, mae'r cynnig llawn gerbron Gweinidogion Cymru a byddai'r gwiriadau angenrheidiol ar waith i sicrhau bod yr allbwn pŵer yn cael ei ymestyn dim ond pan fyddai'n briodol gwneud hynny.

947. Nid yw cyflwyniadau i gloi'r RSPB yn sôn am "reoli addasol" er mai dyna yw'r cyd-destun rheoleiddiol penodol ar gyfer y gwaith a byddai'n fodd o fynd i'r afael â llawer o'r materion sy'n achosi pryder i'r RSPB. Mae'r cyflwyniadau i gloi yn datgan nad yw'r RSPB yn honni bod defnyddio PDE yn ddiffygiol yn gyfreithiol, ond mae'n herio a fydd y penderfyniad yn briodol o wybodus.

948. O ystyried natur y cynnig, ni all y cais roi manylion llawn am y gwaith. Fodd bynnag, rwyf yn llwyr ddeall natur y gwaith a gynigir.

949. Mae'r Ymgeisydd wedi rhoi rhesymau cymhellol pam nad yw achos yr RSPB yn cydnabod y mesurau diogelu sydd wedi'u cynnwys yn y cynnig a'r fframwaith rheoleiddiol a fyddai'n goruchwylio'r broses o'i weithredu. Ni fyddai'r broses weithredu honno'n rhydd rhag risg i adar môr, ond mae hynny'n wir am unrhyw waith o'r fath. Ac mae'r materion y byddai cyflwyno'r gwaith fesul cam yn mynd i'r afael â nhw yn hanfodol i benderfynu ar y ffordd/ffyrdd mwyaf priodol o fanteisio ar adnoddau ynni'r llanw mewn lleoliadau fel hwnnw a gynigir. [230, 231, 232, 554, 575-578]

**Ecoleg ddaearol**

950. Mae ACA / AGA a SoDdGA Glannau Ynys Gybi yn cynnwys tir lle y byddai'r ceblau allforio'n dod i'r lan pe na byddai modd defnyddio HDD. Byddai'r llwybr uwchben y tir (dros y clogwyn) ar gyfer rhai neu bob un o'r naw cebl allforio yn achosi i'r ceblau allforio groesi cynefin clogwyn â llystyfiant Atodiad I o fewn y dynodiad ACA. Mae manylion y cynefin a'r gwaith a allai effeithio arno wedi cael eu darparu. [150-152, 468, 469]

951. Darperir yr amcanion cadwraeth ar gyfer ACA Glannau Ynys Gybi o fewn Cyf: MDZ/F2. Mae'r rhan berthnasol o Broflen Dystiolaeth CNC (PDF tudalen 23/92 Cyf: POE021) yn nodi'r weledigaeth i'r ACA grisialu a chrynhoi ei hamcanion cadwraeth manwl yn ddatganiad syml, sef:

> "…*Dylai'r clogwyni arfordirol â llystyfiant aros heb eu tarfu i raddau helaeth a chynnal chweinllys, cedowydd suddlon, lafant y morgreigiau, marchredyn weir-aroglus, merywen, cen strap blewynnog a chen eurwallt brodorol Ynys Lawd*…".

[158, 481-483]

952. Gallai gosod y dwythellau ceblau ar wyneb y clogwyn a thros yr ymyl mewn tiwbiau-J arwain at golli cynefin a warchodir am gyfnod o bron 40 mlynedd. Mae CNC o'r farn bod colli cynefin am gyfnod mor hir â hynny'n gyfystyr â cholled "barhaol" yn hytrach na cholled "tymor hir, dros dro". [146-149, 154, 468, 469]

953. Gallai'r diffiniad o "barhaol" mewn geiriadur fod yn rhywbeth sydd naill ai'n "para'n hir" neu "am byth". Byddai swydd "barhaol" yn aml yn gyfnod o gyflogaeth barhaus yn ystod bywyd gwaith rhywun. O ystyried hyd oes rhai pobl, gellid tybio bod Oes Prosiect Morlais, sef bron 40 mlynedd, yn "barhaol". Gellid disgwyl i gynefin ecolegol barhau ymhell y tu hwnt i raddfa amser mor gymharol fyr, ac yn enwedig pe byddai'r cynefin hwnnw'n cael ei warchod. Fodd bynnag, nid wyf yn ymwybodol o gynefinoedd y gellid ystyried eu bod "am byth". Systemau amgylcheddol dynamig ydynt sy'n newid dros amser, efallai'n gynnil neu hyd yn oed yn sylweddol, wrth ymateb i ffactorau sy'n effeithio arnynt. Mae rhai cynefinoedd, fel ACA Glannau Ynys Gybi, yn cael eu gwerthfawrogi a'u gwarchod.

954. Pe na byddai'r amodau ffisegol ar y clogwyn yn newid, a phe na byddai unrhyw ardal o gynefin wedi'i ddifrodi nesaf at, neu'n agos at, ardaloedd eraill o gynefin heb ei ddifrodi a werthfawrogir, gellid disgwyl yn rhesymol i'r cynefin wedi'i ddifrodi adfer. Fodd bynnag, gallai hynny gymryd nifer o flynyddoedd neu hyd yn oed ddegawdau. Er y deallaf sut mae'r Ymgeisydd yn dod i'r farn y gellid ystyried bod yr effeithiau'n rhai "tymor hir, dros dro", ar gyfer y gwaith a gynigir a'i effeithiau posibl ar yr ACA clogwyn â llystyfiant, mae'n well gennyf ddehongliad CNC o "barhaol" am y rhesymau a roddwyd uchod. [154, 469]

955. Gan symud ymlaen o sut y dylid ystyried y newid amserol a allai ddeillio o'r gwaith, mae'r Ymgeisydd a CNC yn anghytuno ynglŷn â ph'un a ddylai'r golled, petai'n digwydd, gael ei hystyried yn arwyddocaol a/neu ei bod yn cael effaith niweidiol ar gyfanrwydd y safle ("AEOSI") h.y. yr ACA. [155, 470]

956. Mae CNC a'r Ymgeisydd wedi darparu crynodebau o ddeddfwriaeth a chyfraith achosion perthnasol. Mae'r Ymgeisydd yn derbyn nad canran y cynefin a gollir yw'r unig ffactor i'w ystyried o ran arwyddocâd. [157, 162, 471-477]

957. Tynnwyd sylw at ddyfarniadau lle y canfuwyd bod yr effeithiau ar gynefin mor fach fel nad oes AEOSI a byddai'r effeithiau "*de minimis*". Mae'n amlwg o'r dystiolaeth a ddarparwyd y gallai effaith fod *de minimis*. Y cwestiwn yn yr achos hwn yw ai dyna fyddai'r casgliad ynglŷn ag effaith debygol y gwaith posibl ar glogwyni â llystyfiant ACA Glannau Ynys Gybi. [156, 487, 489]

958. Mae'r Ymgeisydd o'r farn y byddai unrhyw golled yn adferadwy yn y tymor hir. Er y cytunaf y dylai hynny fod yn wir, y raddfa amser ar gyfer yr adferiad hwnnw yw'r hyn sydd hefyd yn gwahanu'r cynefin hwn oddi wrth lawer o'r rhai eraill y cyfeirir atynt yn y dystiolaeth. Mae'r enghreifftiau y cyfeiriwyd atynt o ddyfarniadau a phenderfyniadau ynglŷn ag AEOSI yn tueddu i fod yn fanciau tywod, fflatiau llaid rhynglanw a rhosydd sych.[1018] Nid yw'n ymddangos bod y rhain yn debyg i ACA Glannau Ynys Gybi o ran, er enghraifft, swbstrad, cyflymder ailsefydlu / adfer cynefin neu gytundeb ynglŷn â thebygolrwydd effaith arwyddocaol. [154, 156, 157, 485, 490]

959. Mae CNC wedi arfarnu'r achosion y cyfeirir atynt yn nhystiolaeth Mr Campbell ac yn dod i'r casgliad nad yw'r achosion yn cefnogi dull yr Ymgeisydd. [156, 488-494]

960. Felly, gan droi at yr achosion y mae CNC wedi gwneud sylwadau arnynt. Nid yw effeithiau posibl y gwaith arfaethedig ar glogwyni â llystyfiant Glannau Ynys Gybi, a'r amser posibl i'r cynefin adfer, yn cyd-fynd yn rhwydd â'r effeithiau posibl a ddisgrifiwyd yn achos ***Sweetman v An Bord Pleanála*** fel naill ai "…*colli amwynder*

[1018] Atodiad1 Proflen Dystiolaeth Mr Campbell (Cyf: MDZ/P3).

*dros dro yn unig y gellir ei ddad-wneud yn llwyr…*" neu gan "…*ddinistrio rhan o gynefin yn barhaol…*" oherwydd byddai'r effeithiau'n rhai tymor hir, ond gellid disgwyl i'r cynefin hwn adfer. Fodd bynnag, mae dyfarniad CJEU, sef "*o ran colli'r cyfan neu ran o fath o gynefin naturiol blaenoriaethol yn barhaol ac yn anadferadwy yr oedd ei gadwraeth yn amcan a gyfiawnhaodd ddynodi'r safle dan sylw'n Safle o Bwysigrwydd Cymunedol (SCI), dylid ystyried y bydd cynllun neu brosiect o'r fath yn cael effaith niweidiol ar gyfanrwydd y safle hwnnw*", yn berthnasol i'r achos hwn. [489, 490]

961. Mae CNC yn nodi bod yr enghreifftiau a roddwyd (yn Atodiad 1 i Broflen Dystiolaeth Mr Campbell) o fewn adroddiad ar gyfer Natural England nad yw'n berthnasol i Gymru a, sut bynnag, nad yw wedi cael ei fabwysiadu fel canllaw i'w ddefnyddio yn Lloegr. Er hynny, nid yw CNC yn anghytuno â'r casgliad yng Nghrynodeb Gweithredol yr adroddiad, sy'n nodi bod ystod eang o ffactorau'n cael eu hystyried wrth benderfynu ar arwyddocâd effeithiau ar raddfa fach, sef yn benodol:

> "*Mae'r achosion a adolygwyd yn dangos, yn ymarferol, bod penderfynwyr awdurdodol bob amser yn ystyried ystod eang o ffactorau wrth benderfynu ar arwyddocâd effeithiau ar raddfa fach, gan gynnwys:*
>
> - *priodoleddau'r nodwedd gymwys (er enghraifft, prinder, lleoliad, dosbarthiad, i ba raddau y mae dan fygythiad oherwydd newid posibl);*
> - *sut gallent effeithio ar strwythur a swyddogaeth ecolegol y safle;*
> - *pa swyddogaeth ecolegol y mae'r ardal yr effeithir arni'n ei chyflawni, neu y gallai ei chyflawni, o ran gofynion ecolegol y nodweddion cymwys;*
> - *lleoliad yr ardal yr effeithir arni o ran ei lleoliad daearyddol yn y safle dynodedig ac o ran ei lleoliad mewn perthynas â'r prosiect;*
> - *pan effeithir ar rywogaeth gymwys, pan fyddai'r gweithgareddau'n digwydd, prinder unigolion o'r rhywogaeth, ei statws cadwraeth a'i rhagolygon ar gyfer y dyfodol yn y lleoliad dan sylw*."

[480]

962. Mae'r Ymgeisydd wedi amcangyfrif y byddai'r cynefin clogwyn â llystyfiant a allai gael ei golli yn dod o fewn amrediad yr oedd achosion diweddar wedi canfod na fyddai'n arwain at AEOSI, fel y rhestrir yn y tabl yn [156] uchod ac yr ymdriniwyd ag ef ym Mhroflen Dystiolaeth Mr Campbell (Cyf: MDZ/P3). Fodd bynnag, mae CNC wedi gwrthbrofi'r holl bwyntiau cyfeirio hyn yn effeithiol. Am y rhesymau a roddwyd yng nghyflwyniadau i gloi CNC, nid yw'n amlwg bod amgylchiadau'r safleoedd y cyfeiriwyd atynt, a'r dyfarniadau canlyniadol, yn ddigon tebyg i fod yn gymaradwy. [491-494]

963. Mae'r tabl yng nghyflwyniadau olaf yr Ymgeisydd, yn [156] uchod, hefyd yn cyfeirio at ailwynebu a lledu'r llwybr mynediad i'r traeth i lawr y clogwyn nesaf at Henborth. Clywodd yr ymchwiliad am gefndir y penderfyniad hwnnw, hanes y llwybr ei hun a'r arolwg i gadarnhau absenoldeb rhywogaethau ACA ar hyd y llwybr. Ni ddangoswyd bod yr enghraifft hon yn llwyr gefnogi achos yr Ymgeisydd, er bod y dystiolaeth a'r trafodaethau wedi gadael rhywfaint o amheuaeth ynglŷn â faint o lystyfiant yn union y byddai angen ei golli a tharfu arno i gwblhau'r gwaith ar y llwybr. [158, 495]

964. Ar yr olwg gyntaf, byddai'r cynefin ACA a allai gael ei golli o ganlyniad i'r gwaith arfaethedig yn ymddangos yn lleiafsymiol yng nghyd-destun cyffredinol ACA Glannau Ynys Gybi. Fodd bynnag, pan fyddai wedi'i golli, ni fyddai'r cynefin yn adfer yn gyflym o ganlyniad i natur yr amgylchedd clogwyn agored hwn. [157, 485, 486]

965. O ran ansawdd y cynefin a allai gael ei golli, cadarnhaodd yr arolwg botanegol fod yr ardal o wyneb y clogwyn y gallai'r dwythellau ceblau gael eu gosod arni yn gynefin Atodiad I "*H1230: Clogwyni môr â llystyfiant ar arfordiroedd yr Iwerydd a'r Baltig*". Mae tystiolaeth CNC yn nodi ei fod yn cynnwys brithwaith mân o lystyfiant agennau ac ysgafellau, cymunedau theroffyt morol a glaswelltir morol sy'n ymestyn dros lawer o wyneb y graig, a chraig agored. [158, 485] [1019]

966. Er y canfuwyd nad yw pedair o'r rhywogaethau y cyfeirir atynt yn y weledigaeth ar gyfer yr ACA yn bresennol yn ôl troed y gwaith a allai ddigwydd ar y clogwyn â llystyfiant, canfuwyd bod dwy rywogaeth arall sy'n bwysig i'r SoDdGA yn bresennol. Mae hefyd yn glir bod y cyfleoedd i'r rhywogaethau hyn sefydlu ar wyneb y clogwyn wedi'u cyfyngu gan amodau ffisegol ac amgylcheddol y clogwyn. [158, 485]

967. Mae paragraff 11 Polisi Cynllunio Cymru (11eg argraffiad) yn cadarnhau bod Nodiadau Cyngor Technegol yn ei ategu. Cyhoeddwyd Nodyn Cyngor Technegol 5: *Cadwraeth Natur a Chynllunio* ("TAN 5") ym mis Medi 2009 a dyma'r cyngor perthnasol ar y pwnc hwn o hyd. Mae paragraff 19 TAN 5 yn datgan y dylid rhoi rhesymau argyhoeddiadol ac eithriadol dros beidio â derbyn y cyngor gan "CCW" (sydd bellach yn rhan o CNC). Cyfeirir at ddyfarniadau yn achos ***Mynydd y Gwynt*** o ran gallu'r penderfynwyr i wyro oddi wrth gyngor CNC. Mae fy nghanfyddiadau wedi'u seilio ar yr achosion a gyflwynwyd i'r ymchwiliad hwn ac nid ydynt yn dilyn cyngor CNC yn syml. [162, 476-478, 497]

968. Mae Atodiad 3 TAN 5, sef "*Cynigion datblygu sy'n debygol o effeithio ar safle cadwraeth natur sydd wedi'i ddynodi'n rhyngwladol*", yn rhoi cyngor ar yr hyn sy'n gyfystyr ag effaith arwyddocaol yng nghyd-destun dyfarniad ***Waddenzee***. Tynnwyd fy sylw at baragraffau 19 a 21 Atodiad 3 TAN 5, sy'n datgan:

> "…*19. Cyfanrwydd safle yw cydlyniad ei strwythur a'i swyddogaeth ecolegol, ar draws ei ardal gyfan, sy'n ei alluogi i gynnal y cynefin, y gymhlethfa o gynefinoedd a/neu lefelau poblogaethau'r rhywogaethau y cafodd ei ddosbarthu neu ei restru ar eu cyfer. Wrth benderfynu ar yr effaith ar gyfanrwydd safle, bydd angen rhoi ystyriaeth ofalus i gyngor CCW a'r nodyn a gyhoeddwyd ganddynt sy'n dweud pam y dosbarthwyd neu y rhestrwyd y safle. Er bod gan y penderfynwr ddyletswydd i gynnal yr asesiad priodol a ffurfio barn am yr effaith ar gyfanrwydd y safle, disgwylir iddo fel arfer dderbyn cyngor CCW ar y prawf cyfanrwydd. Os na fydd yn gwneud hyn, dylai fod gan y penderfynwr resymau argyhoeddiadol ac eithriadol dros beidio â derbyn y cyngor, y dylai fod yn barod i'w hesbonio, a dylai allu dangos bod y rhesymau hyn wedi'u hategu'n glir gan dystiolaeth wyddonol gadarn…*
>
> *21.* ***Ni*** *ddylai mesurau digolledu (gweler isod) gael eu hystyried wrth asesu p'un a fyddai'r cynnig yn cael effaith niweidiol ar gyfanrwydd safleoedd Ewropeaidd neu safleoedd morol alltraeth Ewropeaidd.*".

[478, 479]

[1019] Paragraff 5.1.2 Proflen Dystiolaeth Ms Lewis (PDF tudalen 24/92 Cyf: POE021)

969. Byddai'r gwaith arfaethedig, pe byddai'n cynnwys un neu fwy o diwbiau-J sy'n cludo ceblau allforio i fyny a thros y clogwyn, yn golygu bod angen gweithgarwch anthropogenig a allai newid maint y nodweddion. Amlygir hyn fel dangosydd perfformiad ar gyfer cyflwr y clogwyni â llystyfiant yn y "Cynllun Rheoli Craidd" ar gyfer yr ACA a'r AGA (PDF tud.21/39 Cyf: MDZ/F2). [483]

970. Mae CNC yn derbyn y byddai'r gwaith arfaethedig yn effeithio ar ganran fach o'r ACA gyfan. Mae'r Ymgeisydd yn amcangyfrif mai'r ganran hon yw 0.046% ac yn ystyried ei fod yn ffigur rhagofalus iawn gan fod gwir ardal y cynefin Atodiad I yr effeithir arni'n agosach at 0.023%. Fodd bynnag, credaf fod pwynt CNC ynglŷn ag arwyddocâd y golled fel cyfran o'r ardal gyffredinol o lystyfiant holltau ac ysgafellau a theoffyt morol yn argyhoeddiadol, a bod hynny'n fesur mwy priodol. Mae hyn o ganlyniad i ddosbarthiad gofodol cyfyngedig y llystyfiant o fewn yr ACA a'i natur fregus. Derbyniaf, yn yr amgylchedd hwn, a chyd-destun y cynefin y gallai'r gwaith effeithio arno, ei bod yn debygol y byddai effeithiau gwaith posibl ar y clogwyn â llystyfiant yn Abraham's Bosom yn fwy na "*de minimis*". [154, 486, 487]

971. Mae CNC wedi darparu crynodeb o'i achos ynglŷn â'r mater hwn yn [496] ac, am y rhesymau a roddwyd uchod, credaf ei fod yn ddarbwyllol. Yn benodol: mae dosbarthiad daearyddol cyfyngedig rhywogaeth a ganfyddir ar y rhan o'r clogwyn â llystyfiant dan sylw; bod gan y rhan honno o'r clogwyn â llystyfiant orchudd da o lystyfiant holltau ac ysgafellau, ond bod hyn yn cynrychioli cyfran fach o'r cynefin clogwyn â llystyfiant cyfan yn yr ACA; yr adferiad tymor hir a ddisgwylir ar gyfer colli unrhyw lystyfiant holltau ac ysgafellau; y potensial i'r swbstrad pridd gael ei golli yn ystod y gwaith o ganlyniad i gysgodi a cholli llystyfiant yn gysylltiedig â hynny; ac, mae'r ansicrwydd canlyniadol yn atal y penderfynwr rhag bod yn sicr y byddai'r llystyfiant holltau ac ysgafellau'n adfer yn rhwydd ar ôl i'r gwaith gael ei dynnu ymaith.

972. Yn unol â hyn, deuaf i'r casgliad na ellir diystyru effaith niweidiol ar gyfanrwydd ACA Glannau Ynys Gybi, h.y. "AEOSI", ac argymhellaf y dylid derbyn cyngor ACA ar y mater hwn. [163, 484, 496, 497]

973. Felly, mae hyn yn sbarduno rheoliad 64 y Rheoliadau Cynefinoedd. Mae'r gofynion perthnasol o fewn rheoliad 64 (1), a amlinellir ym mharagraff [474] uchod. [164, 471-474, 497]

974. Byddai'r AEOSI yn deillio o gynllun wrth gefn ar gyfer y dull a gynigir ar gyfer gweithredu'r gwaith. Rhoddwyd rhesymau pam nad oes unrhyw ddewisiadau amgen yn lle'r llwybr wrth gefn hwnnw ar gyfer y ceblau allforio (os dangosir bod ei angen). Mae'r rhain yn canolbwyntio ar: leoliad daearyddol yr adnodd ynni'r llanw; yr angen i fanteisio ar yr adnodd hwnnw; y gefnogaeth bolisi iddo yn y lleoliad hwnnw; ehangder yr ACA ar hyd yr arfordir hwn; bod y llwybr clogwyn yn gynllun wrth gefn y byddai amod cynllunio arfaethedig yn sicrhau y byddai'n cael ei gynnal os bydd angen yn unig; a, microleoli'r gwaith. Rhoddir gwybodaeth ychwanegol am y dewisiadau amgen a ystyriwyd yn y rhan berthnasol o'r ES. O'r dystiolaeth a ddarparwyd, rwyf yn fodlon nad oes unrhyw ddatrysiadau amgen yn lle'r llwybr clogwyn wrth gefn ar gyfer y ceblau allforio. [166]

975. Gan droi at b'un a yw'r gwaith wedi'i gefnogi gan resymau hanfodol er budd cyhoeddus tra phwysig ("IROPI"). Amlinellir buddion y cynllun a'r gefnogaeth bolisi iddo yn achos yr Ymgeisydd uchod, ac yn y casgliad cychwynnol ar bolisïau ar ddechrau fy nghasgliadau. Byddai'r gwaith arfaethedig yn sefydlu ffyrdd o ddefnyddio dewis amgen rheolaidd, dibynadwy yn lle tanwyddau wedi'u seilio ar

garbon i fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd, mewn lleoliad lle y dangoswyd bod graddfa'r adnodd ynni'r llanw yn sylweddol yn nhermau Cymru a'r Deyrnas Unedig. Byddai'r gwaith hefyd yn helpu i ddatblygu'r sector ynni ffrwd lanw a'r diwydiannau sy'n ei gefnogi. Fel y cyfryw, byddai'n helpu i amrywiaethu economi Ynys Môn a'i gwneud yn fwy cydnerth, ar yr un pryd â chreu swyddi ar yr ynys ac oddi arni hefyd. Disgwylir i'r buddion hyn, yn eu tro, ddarparu ystod o fuddion economaidd-gymdeithasol cysylltiedig sy'n deillio o gyflogaeth a'r cyfleoedd addysgol y disgwylir i ddiwydiant o'r math hwn eu cynnig. Ystyriaf fod y materion hyn, ac nid lleiaf yr angen i fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd gyda datrysiadau hyfyw sydd o fudd uniongyrchol ac anuniongyrchol i gymunedau lleol, yn dangos rhesymau hanfodol er budd cyhoeddus tra phwysig yn y termau mwyaf eglur. [58-63, 165]

976. Mae rheoliad 68 yn mynnu, pan fyddai AEOSI yn digwydd, bod unrhyw fesurau digolledu angenrheidiol yn cael eu sicrhau i warchod cydlyniad cyffredinol yr ACA. Cytunaf â CNC, o ystyried bod y gwaith yn cynnwys cynllun wrth gefn a fyddai'n achosi i AEOSI ddigwydd, y dylid ystyried bod y "Cynllun Gwella Cynefin Amlinellol" presennol (Cyf: Dogfen Ymchwiliad – 069) yn darparu mesurau digolledu yn hytrach na mesurau lliniaru neu wella. Er na chyflwynwyd y Cynllun Gwella Cynefin Amlinellol i'r ymchwiliad at y diben hwnnw, mae'r Ymgeisydd wedi cadarnhau yn dilyn canfyddiad o AEOSI, y gellir ystyried y cynllun hwnnw fel digolledu angenrheidiol at ddibenion rheoliad 68. A dyna sut yr ystyriaf y mater. [167, 475, 498]

977. Byddai amod cynllunio arfaethedig 7), fel y'i hatodir i'r adroddiad hwn, yn darparu cynllun tirweddu a fyddai'n cynnwys "mesurau gwella bioamrywiaeth" ar dir uwchben wyneb y clogwyn yn Abraham's Bosom. Byddai amod cynllunio arfaethedig 11) yn darparu'r cynllun cyffredinol ar gyfer digolledu cynefin. Byddai amodau cynllunio 7) ac 11) yn sicrhau bod y mesurau digolledu cynefin sy'n angenrheidiol i warchod cydlyniad cyffredinol ACA Glannau Ynys Gybi yn cael eu darparu. Byddai cyflwyno'r cynllun i'w gymeradwyo ganddo'n ysgrifenedig yn golygu y gellir mynd i'r afael â'r integreiddio rhwng materion tirwedd ac ecolegol a geisir gan CNC. [167, 498, 523]

978. Mae'r Gyfarwyddeb Cynefinoedd yn integreiddio'r egwyddor ragofalus, felly mae'r canfyddiadau hyn yn cyd-fynd â'r egwyddor honno. At hynny, mae WNMP yn integreiddio'r egwyddor ragofalus ac yn cyfeirio ati yn ei bolisïau hefyd. [114]

## Materion eraill

### Diogelwch ar y Priffyrdd

979. Mae IoACC, sef yr awdurdod priffyrdd, wedi cadarnhau bod y defnydd arfaethedig o'r briffordd yn dderbyniol. Byddai amod arfaethedig 15) yn darparu Cynllun Rheoli Traffig Adeiladu i fynd i'r afael ag effeithiau'r gwaith ar draffig, trafnidiaeth a theithio. [461]

### Sŵn a Dirgryniad

980. Byddai amod arfaethedig 3) yn mynnu Cod Ymarfer Adeiladu ("CoCP") cyn unrhyw gam datblygu a fyddai'n mynd i'r afael â sŵn adeiladu. Yn unol â hynny, ni ddisgwylir i'r gwaith arfaethedig arwain at unrhyw lefelau annerbyniol o sŵn, aflonyddu a dirgryniad.

### Amodau'r tir a halogiad posibl

981. Mae'n bosibl y gellid canfod bod tir sy'n destun y gwaith arfaethedig wedi'i halogi. Byddai amod arfaethedig 10) yn mynd i'r afael ag amgylchiadau o'r fath. [379]

### Ansawdd dŵr

982. Mae Atodiad 8.1 yng Nghyfrol III yr ES yn darparu Asesiad Cydymffurfio â'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr ("WFD"). Mae'n nodi mai amcanion yr asesiad yw: 1) amlygu cyrff dŵr y gallai'r prosiect effeithio arnynt o bosibl; 2) amlygu gweithgareddau a allai effeithio ar y cyrff dŵr WFD hyn; 3) asesu'r posibilrwydd y gallai gweithgareddau arfaethedig y prosiect arwain at ddirywio statws cyrff dŵr WFD, neu atal amcanion statws rhag cael eu cyflawni yn y dyfodol; a, 4) pennu cydymffurfiaeth y prosiect â gofynion yr WFD. Mae'r Asesiad Cydymffurfio â'r WFD yn dod i'r casgliad, er y rhagfynegir effeithiau ar ddangosyddion allweddol statws corff dŵr WFD ar gyfer corff dŵr Gogledd Bae Caernarfon, na fyddai'r un o'r effeithiau hyn yn ddigon mawr i arwain at ddirywio statws unrhyw un o'r derbynyddion a aseswyd gan yr ES. Mae CNC wedi cadarnhau bod yr Asesiad Cydymffurfio â'r WFD a gyflwynwyd gyda'r cais yn ddigonol. Byddai manylion y deunyddiau o fewn y ceblau a risg gollyngiadau damweiniol i'r môr yn faterion i'r broses trwyddedu morol eu hystyried (para.(au) A.88 ac A.95 Cyf: FEI – REP004).

### Ansawdd aer

983. Mae materion yn ymwneud ag ansawdd aer ac effeithiau posibl arno wedi cael eu datrys. Ar gyfer pob cam o'r gwaith, byddai'r CoCP sy'n ofynnol gan amod arfaethedig 3) (ac unrhyw ofynion trwyddedu morol sy'n ymwneud ag effeithiau ar y môr), lle y bo'n berthnasol, yn cynnwys rheolaethau sy'n galluogi cynnal ansawdd aer. [264]

### Ymbelydredd electromagnetig

984. Mynegwyd pryderon ynglŷn ag agosrwydd posibl y ceblau allforio i ddefnydd tir preswyl petaent yn cyrraedd is-orsaf Ynys Lawd trwy'r llwybr "wrth gefn" sy'n croesi'r clogwyn. Mae'r Ymgeisydd wedi cynhyrchu Cyf: Dogfen Ymchwiliad – 053 i fynd i'r afael â'r lefelau ymbelydredd electromagnetig disgwyliedig petai'r ceblau'n cael eu cludo ar hyd y llwybr hwnnw (sy'n destun amod cynllunio posibl 5) yn Atodiad 1 i'r adroddiad hwn). Ni amlygwyd unrhyw effeithiau annerbyniol o ran ymbelydredd electromagnetig. [425]

**Cyllid a hyfywedd ariannol**

985. Gofynnodd un o’r rhai a gyflwynodd sylwadau am “ddadansoddiad cost a budd llawn sy’n cynnwys materion amgylcheddol”. Mae darparu’r prosiect a chyllid yn destun Adran 9 Proflen Dystiolaeth Mr Billcliff, ac isod o ran Caffael Gorfodol, ymdrinnir â’r materion hyn yn fanylach. Mae Rheol 10(3)(a) *Rheolau Trafnidiaeth a Gweithfeydd (Gweithdrefn Geisiadau a Gwrthwynebiadau) (Cymru a Lloegr) 200*6 – Offeryn Statudol 2006 Rhif 1466 yn mynnu bod yr Ymgeisydd yn cyflwyno cynigion ar gyfer cyllido’r gwaith a chaffael tir gyda’r cais. Cyflenwyd y manylion hyn fel Cyf: MDZ/A6, ynghyd ag amcangyfrif o’r costau sy’n ofynnol gan reol 10(3)(b)(ii) (Cyf: MDZ/A7). Byddai’r cynllun arfaethedig yn dangos addasrwydd ac, yn rhannol, hyfywedd (ariannol) technoleg ynni ffrwd lanw yn y dyfroedd hyn. [366, 732]

986. Nid yw’r gofynion hyn yn cynnwys “materion amgylcheddol”, ond mae’r hyn y gofynnwyd amdano, yn y bôn, yn cael ei ddarparu wrth i Weinidogion Cymru ystyried yr adroddiad hwn a’r dystiolaeth yn yr achos hwn. Bydd y materion hynny’n cynnwys costau’r cynllun a’u pwys o gymharu â materion eraill yn yr achos.

**Dewisiadau amgen**

987. Mae’r Ymgeisydd hefyd wedi mynd i’r afael â dewisiadau amgen o ran rheoliad 64 y Rheoliadau Cynefinoedd, gan nodi nad oes unrhyw ddewisiadau amgen yn lle’r MDZ. Y rheswm am hyn yw oherwydd penodoldeb y lleoliad o ran yr adnodd ffrwd lanw yn yr ardal hon. [166]

988. Mae dewisiadau amgen yn lle’r gwaith arfaethedig, eu helfennau unigol, a graddfa’r prosiect yn destun Pennod 3 yr ES: *Dewis Safle ac Ystyried Dewisiadau Amgen* (Cyf: MDZ/A25.3). Rhoddir rhesymau darbwyllol dros ddewisiadau’r Ymgeisydd.

**Ymgynghori a digonolrwydd yr ES**

989. Ar ddechrau’r ymchwiliad, cadarnhaodd yr Ymgeisydd fod yr holl ofynion cyfreithiol wedi cael eu bodloni wrth baratoi’r cais, yr ES ac ymgynghori arno. Ni ddangoswyd unrhyw dystiolaeth bod y cadarnhad hwnnw’n anghywir.

990. Canfuwyd bod angen Gwybodaeth Amgylcheddol Ychwanegol ar yr ES. Darparwyd y wybodaeth honno a rhoddwyd cyfle i’r partïon wneud sylwadau arni. Rhoddodd yr ymchwiliad gyfle i’r partïon fynd i’r afael â’r achosion a wnaed ynglŷn â diffygion honedig yn yr ES. Ni chadarnhawyd materion a godwyd ynglŷn â digonolrwydd yr ES yn ystod yr ymchwiliad ac ymdrinnir â nhw yn gynharach yn y casgliadau hyn. [2, 3, 76-87, 274, 578, 589, 598, 600, 733, 734]

991. Mae’r cynnig MDZ yn ceisio dangos technoleg trosi ynni ffrwd lanw, datblygu’r ddealltwriaeth ohoni a’r heriau sy’n gysylltiedig â’i mabwysiadu yn nyfroedd y Deyrnas Unedig, y modd o fonitro effeithiau’r dechnoleg a’r mesurau lliniaru lle y canfyddir eu bod yn angenrheidiol.

**Effeithiau Cronnol**

992. Mynegodd CNC bryderon ynglŷn â’r asesiad o effeithiau cronnol ac amseriad y gwaith ar gyfer Cynllun y Gorchymyn a hwnnw ar gyfer Ymestyn Porthladd Caergybi. Roedd hyn yn ogystal â’r pryderon cyffredinol ynglŷn â’r angen am fatrics effeithiau wedi’i ddiweddaru ar gyfer pob cam o’r prosiect sy’n dangos y llwybrau a’r cynlluniau/prosiectau a ystyriwyd ar gyfer pob derbynnydd. [Cyf: FEI_REP004] Fodd

bynnag, mae CNC wedi cytuno bod ei bryderon ynglŷn ag effeithiau cronnol yn faterion eilaidd y gellir cytuno arnynt yn ddiweddarach. [Troednodyn 244]

993. Roedd yr ymchwiliad wedi galluogi'r holl bryderon eraill ynglŷn ag effeithiau cronnol posibl i gael eu mynegi ac ymdrinnir â'r rhain o dan y materion uchod.

## Y Gorchymyn

994. Roedd gan Dŷ'r Drindod bryderon cychwynnol ynglŷn ag: NRAs penodol i'r safle a dyfeisiau; parthau diogelwch a'r posibilrwydd y gallai ei longau gyflawni trosedd wrth arfer ei swyddogaethau; ac, y gallai ei bwerau gwneud cyfarwyddiadau (ac yn wir, penderfyniadau Gweinidogion Cymru) ddod yn destun cyflafareddu. Diwygiwyd y Gorchymyn drafft cyn y cyflwyniadau i gloi i fynd i'r afael â'r materion hyn trwy Erthyglau 21, 43 a 49, a grynhoir yn y SoCG, Cyf: MDZ/L9). [585, 586, Cyf.(au): Dogfen Ymchwiliad – 102 a Dogfen Ymchwiliad - 103]

995. Mae'r Ymgeisydd yn nodi nad oes unrhyw wrthwynebiadau i lunio'r Gorchymyn yn weddill, heblaw am y rhai hynny sy'n ymwneud â CA/CPO, a dyna fy nealltwriaeth innau. [419]

## Rhwymedigaethau cynllunio

996. Mae rhwymedigaeth gynllunio ddrafft (Cyf: Dogfen Ymchwiliad – 079) wedi cael ei chyflwyno i'r ymchwiliad ac mae IoACC yn cynnig y dylai fod yn destun amod cynllunio 23) (o fewn Cyf: Dogfen Ymchwiliad - 098). Mae'r cytundeb a.106 arfaethedig yn ceisio bodloni pryderon IoACC ynglŷn ag effeithiau ar y morlun a'r dirwedd ac mae datganiad cydymffurfio â CIL wedi cael ei ddarparu (Cyf: Dogfen Ymchwiliad – 144). Yn eu cyflwyniadau i'r ymchwiliad, mae'r partïon wedi cyfeirio at y rhwymedigaethau y byddai'r cytundeb a.106 yn eu darparu. [122, 135, 276, 277, 291, 303, 420-424, 430, 448-459, 525, 619]

997. Mae rheoliad 122 Rheoliadau Ardoll Seilwaith Cymunedol 2010 (Offeryn Statudol 2010 Rhif 948) yn datgan y caiff rhwymedigaeth gynllunio fod yn rheswm dros roi caniatâd cynllunio dim ond os yw'r rhwymedigaeth: yn angenrheidiol i wneud y datblygiad yn dderbyniol o safbwynt cynllunio; yn uniongyrchol gysylltiedig â'r datblygiad; ac yn gysylltiedig â'r datblygiad yn deg ac yn rhesymol o ran graddfa a math.

998. Fodd bynnag, mae'r cytundeb a.106 yn weithred ddrafft heb ei chyflawni o hyd gan nad yw'r Ymgeisydd mewn sefyllfa eto lle y gallai gyfrwymo buddiant yn y tir (gweler y rheswm dros amod arfaethedig 23) yng Nghyf: Dogfen Ymchwiliad – 098). Felly, nid oes rhwymedigaeth gynllunio i fodloni rheoliad 122 CIL.

999. Er hynny, mae'r Ymgeisydd ac IoACC wedi cytuno ar fesurau digolledu angenrheidiol ar gyfer effeithiau ar y morlun a'r dirwedd ac fe allent gael eu cyflawni trwy ddarpariaeth sy'n bodloni amod posibl 23) yn Atodiad 1 i'r adroddiad hwn. Yn yr un modd, gallai mesurau digolledu addas ar gyfer cynefin gael eu darparu trwy gynllun sy'n bodloni amod posibl 11) yn Atodiad 1.

## **Amodau Cynllunio**

1000. Rwyf wedi ystyried yr amodau y mae IoACC wedi awgrymu eu gosod ar y caniatâd cynllunio tybiedig yng ngoleuni'r profion yng Nghylchlythyr Llywodraeth Cymru ("WGC") 016/2014 "*Defnyddio Amodau Cynllunio i Reoli Datblygu*". Rhoddir rheswm yn Atodiad 1 am bob un o'r amodau cynllunio arfaethedig ac mae'n amlinellu'n gryno pam y byddai angen yr amod. Ategir y rhesymau cryno hyn gan yr adrannau pynciol perthnasol o'r adroddiad hwn. Nid yw ymadroddion fel "*cyd-fynd yn sylweddol â*" yn bodloni'r prawf manwl gywirdeb. Hefyd, yr Awdurdod Cynllunio Lleol ("ACLl") sy'n gyfrifol am gyflawni'r amodau. Mae amodau'n amlinellu'r hyn y mae'n ofynnol i ymgeiswyr ei wneud ac nid oes angen cyfeirio at yr ACLl yn ymgynghori â chyrff eraill cyn cyflawni amodau. [443-446]

1001. Os ystyrir nad yw'n ymarferol gosod ceblau trwy ddrilio cyfeiriadol llorweddol, mae amod arfaethedig 5) yn mynnu bod adroddiad yn cael ei gyflwyno sy'n esbonio pam. Cytunaf y dylai adroddiad o'r fath gael ei gwblhau gan beiriannydd â chymwysterau addas, ond ni welaf reswm pam mae angen i'r ACLl gymeradwyo penodi unigolyn penodol.

1002. Mae amod arfaethedig 11) yn mynnu bod arolygon ecolegol yn cael eu cyflwyno "*a ddyluniwyd i gadarnhau nad yw'r llinell sylfaen ecolegol wedi newid yn sylweddol ers i'r arolygon i gefnogi'r ES gael eu cynnal*". Fodd bynnag, mae'r cais yn cael ei gefnogi gan EIA, a ategwyd gan "Wybodaeth Amgylcheddol Ychwanegol", a phrofwyd y rhain yn drylwyr yn ystod yr ymchwiliad. Yn ogystal, byddai amod arfaethedig 11) yn berthnasol i waith ar y tir a fyddai'n cael ei wneud ar ddechrau gweithredu'r Gorchymyn. Felly, ni ddangoswyd y byddai'r amod arfaethedig yn angenrheidiol. At hynny, mae paragraff 4.27 WGC 016/2014 yn nodi'n glir "…*Lle y bo'n berthnasol, mae gwybodaeth o'r fath yn ystyriaeth o bwys wrth benderfynu ar gais ac felly ni ddylid aros i'w hystyried ar ôl i'r caniatâd cynllunio gael ei roi*…". Yn unol â hynny, petai'r Gorchymyn yn cael ei wneud, ni ddylai amod 11) gael ei osod.

1003. Ni ddylid defnyddio amodau cynllunio i sicrhau cyflwyno rhwymedigaeth gynllunio. Fodd bynnag, dangoswyd yr angen i sicrhau mesurau digolledu ar gyfer y dirwedd a chynefinoedd. Mae "Cynllun Gwella Cynefin Amlinellol" yr Ymgeisydd yn darparu'r sail ar gyfer mesurau digolledu cynefin o'r fath. Gallai cynllun ar gyfer darparu'r gwelliant hwnnw fod yn destun amod cynllunio, ac yn absenoldeb rhwymedigaeth gynllunio wedi'i chyflawni, byddai digolledu ar gyfer y dirwedd yn destun amod o'r fath hefyd. [135, 167, 276, 291, 303, 430, 448-454, 459, 498, 525]

1004. Mae Atodiad 1 i'r adroddiad hwn yn cynnwys: amod 11) amgen sy'n mynd i'r afael â digolledu cynefin; a, dewis amgen yn lle amod arfaethedig 23) sy'n mynd i'r afael â darparu mesurau digolledu ar gyfer y dirwedd i roi sylw i harddwch naturiol yr AHNE a'r effeithiau niweidiol ar gymeriad a golwg yr ardal.

1005. Mae CNC yn honni y dylai amod drafft 7(c) gael ei ddiwygio er mwyn datgan:

"…*(c) Manylion mesurau gwella bioamrywiaeth ar dir uwchben wyneb clogwyn Abraham's Bosom, gan gynnwys mesurau ar gyfer gwarchod a gwella'r dirwedd*…".

Fodd bynnag, nid y gwaith tirwedd a ddarperir gan amod 7) fyddai'r unig fodd o fynd i'r afael â'r dirwedd a chynefinoedd. Byddai amodau amgen arfaethedig 11) a 23) yn ehangu cwmpas y gwaith tirwedd i ddarparu mesurau digolledu ar gyfer y dirwedd a

chynefinoedd trwy'r dull mwyaf priodol, ac yn y lleoliadau mwyaf priodol, i fodloni'r anghenion am ddigolledu. [523, 524]

1006. Mae'r Cylchlythyr yn rhybuddio bod rhesymau dros amodau fel "*i sicrhau bod yr ardal yn cael ei chynllunio'n briodol*" yn amwys ac yn awgrymu nad oes cyfiawnhad priodol i'r amod.

1007. Er mwyn osgoi amheuaeth, mae'r "Grŵp Gorchwyl a Gorffen Hyfforddiant" y cyfeirir ato yn amod arfaethedig 20) yn destun SoCG Cyfeirnod 29 rhwng yr Ymgeisydd ac IoACC (gweler Cyf: MDZ/L7). Byddai amodau 19) a 21) yn angenrheidiol i sicrhau bod buddion arfaethedig cynllun gweithredu sgiliau a hyfforddiant a chynllun gweithredu cadwyn gyflenwi yn cael eu gwireddu.

## Y Cydbwysedd Cynllunio

1008. Mae angen i Weinidogion Cymru 'bwyso a mesur' rhinweddau'r cynnig sy'n cystadlu yn erbyn ei gilydd (h.y. y dadleuon o blaid ac yn erbyn y gwaith), i ddod i'w penderfyniad, fel yr wyf innau'n ei wneud nawr wrth baratoi i roi fy argymhelliad ynglŷn â'r cais. Cyn gwneud yr argymhelliad hwnnw, ymdriniaf â'r Caffael Gorfodol a geisir trwy'r Gorchymyn, ynghyd â nifer o ofynion deddfwriaethol eraill. Fodd bynnag, trof yn gyntaf at y ffordd yr wyf i wedi pwyso a mesur y materion yn yr achos hwn.

**Materion sy'n pwyso yn erbyn**

1009. Byddai effeithiau arwyddocaol ar gymeriad a golwg yr ardal, ni fyddai lleoliadau nifer o asedau treftadaeth yn cael eu gwarchod, a byddai harddwch naturiol yr AHNE yn cael ei leihau.

1010. Mae'n bosibl y bydd rhywfaint o fywyd gwyllt yn cael ei ddisbyddu o fewn ac o amgylch yr MDZ. Fodd bynnag, pe byddai'r disbyddiad hwnnw'n digwydd, ni ddangoswyd y byddai'n annerbyniol a, sut bynnag, mae'n rhaid ei gydbwyso â buddion y cynllun. [730, 731]

**Materion sy'n pwyso o blaid y cynllun**

1011. Mae'r Ymgeisydd wedi darparu crynodeb o'r materion y mae'n ystyried eu bod yn cefnogi'r gwaith arfaethedig, yr ychwanegwyd atynt gan gyfranwyr eraill at yr ymchwiliad. Mae'r materion hyn yn cynnwys: mynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd trwy gynorthwyo i ddatgarboneiddio cyflenwadau ynni; helpu i ddatblygu'r sector ynni ffrwd lanw a'r diwydiannau sy'n ei gefnogi; ac, wrth wneud hynny, byddai'n helpu i amrywiaethu economi Ynys Môn a'i gwneud yn fwy cydnerth, ar yr un pryd â chreu swyddi ar yr ynys. [58-65, 438, 440, 753]

**Casgliad a'r cydbwysedd**

1012. Mae llawer o'r gwrthwynebiadau yn yr achos hwn wedi deillio, yn rhannol o leiaf, o gynnwys dyfeisiau sy'n codi o'r dŵr yn y cynllun. Mae'r rhesymau pam y gallai dyfeisiau o'r fath fod yn bwysig i'r diwydiant wrth iddo sefydlu ei hun wedi cael eu hesbonio. [32] Fodd bynnag, mae'r lleoliad penodol hwn yn sensitif iawn o ran y dirwedd / morlun, lleoliadau asedau treftadaeth ac atyniadau twristiaeth sefydledig.

1013. Nodir mai "oes y prosiect" ar gyfer y parth arddangos yw 37 mlynedd, sy'n gyfnod estynedig ac un a fyddai'n barhaol i ryw raddau i'r rhai sy'n profi'r effeithiau dros raddfa amser o'r fath. Fodd bynnag, mae cyfleoedd ar gyfer dal ynni'r llanw yn ddaearyddol benodol eu natur ac yn bosibl mewn nifer gymharol fach o leoliadau o amgylch arfordir Cymru.

1014. Felly, os bydd yr MDZ yn dangos bod dyfeisiau ynni'r llanw yn hyfyw ac yn addas ar gyfer dyfroedd y Deyrnas Unedig, mae'n rhesymol debygol y byddai dal ynni'r llanw yn cael ei geisio fel gweithgarwch tymor hwy yn y lleoliad hwn, ond nid yw hynny'n hysbys eto.

1015. Byddai diwygiadau awgrymedig CNC i "gynllun ardal gyfyngedig" y Gorchymyn yn lleihau effeithiau posibl y Gorchymyn ar y dirwedd, y morlun a harddwch naturiol yr AHNE.

1016. Mae materion a amlinellwyd ar gyfer IROPI yn berthnasol i'r casgliad hwn ac yn ei lywio. Mae angen clir iawn a dybryd i ddod o hyd i ynni o ffynonellau amgen yn lle tanwyddau ffosil. Mae ynni'r llanw yn ddibynadwy, yn rhagweladwy ac fe allai wneud cyfraniad sylweddol at fodloni'r galw am drydan yng Nghymru ac mewn rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig yn awr ac yn y dyfodol. Mae hynny'n wir oherwydd amgylchiadau ffisegol yr arfordir hwn a'r llifoedd llanw o'i amgylch. Yn hynny o beth, ac yn wahanol i lawer o'r ffynonellau eraill o ynni adnewyddadwy, mae'r cyfleoedd i fanteisio ar yr adnoddau pŵer llanw gorau yn ddaearyddol gyfyngedig. Ac mae'r lleoliad hwn yn un ohonynt.

1017. Mae'r gallu i addasu graddfa'r gwaith yn golygu y byddai modd dangos addasrwydd y lleoliad, y dechnoleg, a mesurau ar gyfer ei monitro a'i lliniaru, a gwneud y defnydd mwyaf priodol o'r adnodd ynni'r llanw. [438-442]

1018. Mae'r dystiolaeth, a'm casgliadau, yn cadarnhau y byddai Morlais yn ddatblygiad o fath cynaliadwy.

1019. Mae fy nghasgliadau wedi ystyried gofynion adrannau 3 a 5 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Ystyriaf y bydd fy argymhellion yn unol ag egwyddor datblygu cynaliadwy Ddeddf Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) trwy eu cyfraniad at nodau llesiant Gweinidogion Cymru o gefnogi cymunedau diogel, cydlynol a chydnerth. Byddai'r cynllun hwn yn cyfrannu at yr amcanion llesiant presennol o greu economi gryfach a gwyrddach wrth i gynnydd gael ei wneud tuag at ddatgarboneiddio, ac ymgorffori ein hymateb i'r argyfwng hinsawdd a natur ym mhopeth a wnawn.

1020. Mae'r Gorchymyn, gyda'r mesurau lliniaru arfaethedig yn y cynllun a'r rheiny a fyddai'n cael eu darparu trwy amodau cynllunio (a thrwydded forol), yn denu cefnogaeth bolisi sylweddol. Mae hyn yn cynnwys: Polisïau GEN_01, ELC_03 WMNP; polisïau 18, 24 *Cymru'r Dyfodol*; rhannau perthnasol PPW; y Weledigaeth ar gyfer y CDLlC a'r polisïau sy'n ceisio ei gweithredu. [118, 125, 775-789, 792]

1021. Byddai'r mesurau lliniaru arfaethedig yn sicrhau y cydymffurfir â: Pholisïau SCI_01 SOC_07 ac ENV_01 WMNP; a, pholisïau'r CDLlC gan gynnwys PS 19, AMG 3 ac AMG 4. [793]

1022. Ni chanfuwyd bod unrhyw faterion yn drech na'r gydymffurfiaeth â pholisïau a fyddai'n deillio o wneud y Gorchymyn gyda'r diwygiadau a argymhellir yn yr adroddiad hwn.

1023. I gloi, archwiliwyd yr holl faterion yr amlygwyd eu bod yn cefnogi'r cynnig yn ystod yr ymchwiliad. O'u pwyso yn erbyn effeithiau posibl y gwaith, maen nhw'n rhoi achos clir ac argyhoeddiadol dros wneud y Gorchymyn, gyda diwygiadau yn ymwneud â lleoliadau posibl dyfeisiau a seilwaith sy'n codi o'r dŵr.

## Caniatâd Cynllunio Tybiedig

1024. Erbyn diwedd yr ymchwiliad, roedd yr Ymgeisydd ac IoACC yn cytuno i raddau helaeth ar y caniatâd cynllunio tybiedig. Yr unig faes yr anghytunir arno o hyd yw cymal yn amod arfaethedig 17) a fyddai'n mynnu cytuno ar restr ymgyngoreion, yr ymdrinnir ag ef yn yr adran amodau isod. [420, 421]

1025. Mae dogfen Cyf: MDZ/A19 y cais, sef "*Cais am Gyfarwyddyd o dan adran 90(2A) Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, amodau i'w gosod ynghlwm wrth y Cyfarwyddyd a Datganiad ynghylch Materion a Gedwir yn Ôl*", yn mynd i'r afael â phob un o'r materion hyn a nodwyd. Fel y mae teitl y ddogfen yn dangos yn glir, mae paragraff 1 Cyf: MDZ/A19 yn ceisio gwneud cyfarwyddyd o dan adran 90(2A) Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.

1026. Mae paragraff 8 Cyf: MDZ/A19 yn amlinellu elfennau'r cynnig sydd, neu a allai fod, yn ddatblygiad y mae arno angen caniatâd cynllunio o dan adran 57(1) Deddf 1990. Mae'r rhestr ym mharagraff 8 yn cynnwys yr holl waith awdurdodedig yn Atodlen 1 y Gorchymyn. Mae adran 57(1) Deddf 1990 yn mynnu bod angen caniatâd cynllunio ar gyfer gwneud unrhyw fath o ddatblygu tir.

1027. Ymdrinnir â materion yn ymwneud ag effeithiau tebygol y gwaith arfaethedig mewn rhannau eraill o'r adroddiad hwn. Canfuwyd bod yr amodau cynllunio arfaethedig yn Atodiad 1 yn angenrheidiol am y rhesymau a roddwyd a hefyd yn bodloni'r pum prawf arall ar gyfer amod a amlinellir yn WGC 016/2014. Byddai amodau cynllunio posibl 11) a 23) yn galluogi'r mesurau digolledu addas ar gyfer cynefinoedd a'r dirwedd, y deëllir eu natur ac sy'n destun y rhwymedigaeth gynllunio sydd heb ei chyflawni, i gael eu dwyn ymlaen. Gyda'r amodau cynllunio posibl yn Atodiad 1 i'r adroddiad hwn, byddai'r cynnig yn cydymffurfio â'r polisïau perthnasol yng Nghymru'r Dyfodol a'r CDLlC.

1028. Felly, argymhellir bod Gweinidogion Cymru yn rhoi cyfarwyddyd o dan adran 90(2A) Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 y dylid tybio bod caniatâd cynllunio, i'r graddau ei fod yn ofynnol, yn cael ei roi ar gyfer y datblygiad y ceisir ei awdurdodi gan y Gorchymyn y gwneir cais amdano yn awr o fewn y terfynau amrywiol a ddarperir yn y Gorchymyn drafft a'r cynlluniau a'r trychiadau cysylltiedig sydd wedi'u hadneuo; ac i'r caniatâd cynllunio tybiedig gael ei roi yn ddarostyngedig i'r amodau cynllunio yn Atodiad 1 i'r adroddiad hwn.

## Caffael Gorfodol ("CA")

### Deddfwriaeth

1029. Mae canllawiau cyfredol Llywodraeth Cymru ar gyfer Prynu Gorfodol wedi'u cynnwys yng Nghylchlythyr 003/2019 – *Prynu Gorfodol yng Nghymru a 'Rheolau Crichel Down (Fersiwn Cymru, 2020)'*. Mae paragraff 24 Cylchlythyr 003/2019 yn nodi ei fod yn berthnasol i CPO o dan Ddeddf 1990 a bod gan y pwerau CPO eraill a restrir ym mharagraff 24, gan gynnwys y rhai hynny ar gyfer y TWA, eu canllawiau eu hunain. Mae'r Ymgeisydd wedi mynd i'r afael â hyn trwy Droednodyn 714 [366], a chytunaf â'r ymagwedd a amlinellir yn y Troednodyn hwnnw.

1030. Yn benodol, cyhoeddwyd y ddogfen *Canllaw i Weithdrefnau TWA* yn 2006 gan yr Adran Drafnidiaeth ac mae'n cyfeirio at Gylchlythyr 06/2004 – *Prynu Gorfodol a Rheolau Crichel Down*. Mae Cylchlythyr 06/2004 wedi cael ei ddisodli bellach yn Lloegr, ac yng Nghymru, mae Cylchlythyr 003/2019 wedi cael ei ysgrifennu o fewn ac yn adlewyrchu'r amgylchedd deddfwriaethol presennol yng Nghymru. O ganlyniad, dylid rhoi ystyriaeth i Gylchlythyr 003/2019. [366]

1031. Mae paragraff 10 Cylchlythyr 003/2019 yn cadarnhau y ceir defnyddio pwerau prynu gorfodol i gaffael tir, a hawliau dros dir, lle y gellir dangos achos cymhellol er budd y cyhoedd sy'n drech na cholli buddiannau preifat.

### Tiroedd y Gorchymyn

1032. Crynhoir y tiroedd a geisir gan y Gorchymyn yn y canlynol:

(i) *Cynllun Lleoliad ac Allwedd* (Cyf: Dogfen Ymchwiliad – 097)

(ii) Map 1, *Cynllun Gwaith a Thir* (Cyf: MDZ/A17.1)

(iii) Map 2, *Cynllun Gwaith a Thir* (Cyf: MDZ/A17.2)

(iv) Map 3, *Cynllun Gwaith a Thir* (Cyf: MDZ/A17.3)

(v) Map 4, *Cynllun Gwaith a Thir* (Cyf: MDZ/A17.4)

(vi) Map 5, *Cynllun Gwaith a Thir* (Cyf: MDZ/A17.5)

(vii) Map 6, *Cynllun Gwaith a Thir* (Cyf: MDZ/A17.6)

(viii) Map 7, *Cynllun Gwaith a Thir* (Cyf: MDZ/A17.7)

(ix) Map 8, *Cynllun Gwaith a Thir* (Cyf: Dogfen Ymchwiliad – 066 [390, 392])[1020]

(x) Llyfr Cyfeirio (Cyf: Dogfen Ymchwiliad – 065)

A chrynhoir trafodaethau a gwrthwynebiadau cysylltiedig yn y canlynol:

(xi) Atodlen Proses CPO Tir (Cyf: Dogfen Ymchwiliad – 099)

[1020] Gyda newidiadau wedi'u hanodi ynglŷn â ffiniau perchenogaeth Lleiniau 46 a 47, fel y'u disgrifir yn Nhroednodyn 817, a dileu rhan o adeilad sydd eisoes yn bodoli yng Nghyf: Dogfen Ymchwiliad – 076.

[367]

**Addasiadau a geisir i Diroedd y Gorchymyn**

1033. Mae diwygiadau a gynigir gan Fenter Môn wedi'u crynhoi o fewn:

a) Ymgymeriad unochrog yn ymwneud â'r ffordd fynediad o fewn Lleiniau 48 a 51, dyddiedig 09 Chwefror 2021 (Cyf: Dogfen Ymchwiliad – 108)

b) *Morlais – Orthios Cynllun 1* (o fewn Cyf: Dogfen Ymchwiliad – 108)

[377]

1034. Mae Orthios hefyd yn cynnig diwygiadau i'r Gorchymyn, yr ymdrinnir â nhw yn yr adran berthnasol isod.

**Yr Angen am Gaffael Gorfodol**

1035. Byddai angen Caffael Gorfodol (CA) i ryddhau buddion bwriadedig y cynllun trwy alluogi allforio pŵer o'r MDZ i'r grid cenedlaethol a chysylltiadau rhwydwaith lleol. Crynhowyd y buddion bwriadedig ar ddechrau'r adroddiad hwn. Fodd bynnag, o ystyried eu perthnasedd i ystyried CA, ac i gynorthwyo'r darllenydd, ailadroddir y buddion bwriadedig yma ac maen nhw'n cynnwys:

(i) hyrwyddo a chefnogi'r defnydd o ddewisiadau amgen yn lle tanwyddau ffosil;

(ii) lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr;

(iii) darparu capasiti cynhyrchu ynni ffrwd lanw gosodedig o hyd at 240MW;

(iv) cynorthwyo i ddatblygu'r diwydiant ynni ffrwd lanw yn y Deyrnas Unedig ac yn rhyngwladol, ac Ynys Môn fel canolfan ragoriaeth ar gyfer ynni'r llanw;

(v) creu cyfleoedd cyflogaeth i'r gymuned leol ac yn y gadwyn gyflenwi leol; a,

(vi) denu buddsoddiad sylweddol i Ynys Môn gyda'r refeniw canlyniadol a buddion economaidd-gymdeithasol cysylltiedig.

[19]

1036. Rhoddir mwy o fanylion am y materion hyn yn adran 5 Proflen Dystiolaeth Mr Billcliff (Cyf: MDZ/P8).

1037. Mae'r Ymgeisydd yn nodi'r ymdrechion a wnaed i leihau faint o dir y mae angen ei gymryd i'r eithaf. Fodd bynnag, mae Orthios yn herio hyn mewn perthynas â'i dir ef. [367, 685]

**Cyllid a chyflawni**

1038. Ymdriniwyd â'r trefniadau cyllido arfaethedig uchod mewn perthynas â gwrthwynebiad a oedd yn herio hyfywedd y cynllun. Cyflenwyd manylion fel Cyf: MDZ/A6, ac amcangyfrif o'r costau sy'n ofynnol yn ôl rheol 10(3)(b)(ii) (Cyf: MDZ/A7), ac yn adran 9 Proflen Dystiolaeth Mr Billcliff (Cyf: MDZ/P8). [366, 985]

1039. Mae cyllid rhannol wedi bod ar gael ar gyfer y prosiect, ac mae tystiolaeth Mr Billcliff yn cadarnhau y disgwylir penderfyniadau terfynol ar gyllid ar ôl i'r Gorchymyn gael ei wneud. Mae'r graddfeydd amser yn dynn, a phetai'r Gorchymyn yn cael ei wneud, byddai angen i dîm y prosiect symud yn gyflym i gyflawni'r cynllun o fewn y

graddfeydd amser a geisir. Mae cynigion ar gyfer cysylltu â'r grid a'r rhwydwaith lleol wedi dod i law ac wedi cael eu derbyn. Mae cytundebau wedi cael eu gwneud â 10 datblygwr tyrbinau llanw i ddarparu pŵer a gynhyrchir i'r cysylltiadau. [366] (Cyf: adran 9 MDZ/P8)

1040. Mae'n bosibl y gallai'r cynnig hwn fod yn bwysig i ddangos addasrwydd y cyflenwad ynni ffrwd lanw yn y dyfroedd hyn ac, o ganlyniad, datgarboneiddio ein cyflenwadau ynni. Felly, mae'n ymddangos yn debygol iawn y byddai cyllid yn parhau i fod ar gael ar gyfer cynllun o'r fath, ac y byddai'r cyllid yn ddigonol i gyflawni'r prosiect a chaffael y tir a'r hawliau a geisir trwyddo.

**Y gwrthwynebiadau**

Conygar Investment Company plc / Horizon Nuclear Power Wylfa Limited

1041. Mae gwrthwynebiad yn parhau ynglŷn â Llain 39. Conygar sy'n berchen ar y llain ac mae gan Horizon opsiwn arni. Mae'r Llyfr Cyfeirio (Cyf: Dogfen Ymchwiliad – 065) yn cofnodi bod gan y tir denantiaid / meddianwyr eraill sydd â buddiant ynddo. Er y nodir y gwrthwynebiad, byddai angen y tir ar gyfer llwybr arfaethedig y ceblau i'r is-orsaf cysylltu â'r grid. Yn ogystal, nid oes tystiolaeth y byddai coridor ceblau arfaethedig yr Ymgeisydd trwy Lain 39 yn atal gweddill safle Conygar rhag cael ei gyflwyno i'w ddatblygu. [369]

Orthios

1042. Mae Orthios yn berchen ar y tir sy'n cynnwys y ddau gebl 132kV a ddarparodd bŵer i hen waith Anglesey Aluminium. Clywodd yr ymchwiliad nad oes is-orsaf ar y safle ar hyn o bryd, oherwydd bod yr offer blaenorol wedi cael ei glirio ohono i adael y ddau gebl 132kV wedi'u terfynu. Mae'r Ymgeisydd ac Orthios wedi bod yn cynnal trafodaethau ers nifer o flynyddoedd ynglŷn â chysylltiad ar gyfer Morlais â'r ceblau 132kV, ac felly â'r Grid Cenedlaethol. Mae Orthios wedi cadarnhau nad yw'n gwrthwynebu Morlais mewn egwyddor. Fodd bynnag, mae manylion y trafodaethau â'r Ymgeisydd yn parhau i fod yn gyfrinachol. [13, 45, 47, 370, 371, 649, 650, 658]

1043. Grŵp preifat o gwmnïau yw Orthios. Nid ymgymerwr statudol sy'n darparu swyddogaeth seilwaith penodol ydyw, fel y Grid Cenedlaethol. Fodd bynnag, o ganlyniad i raddfa, natur a lleoliad anarferol iawn y cyflenwad pŵer i'r hen waith alwminiwm, mae asedau'r Grid Cenedlaethol yn yr is-orsaf arfaethedig ar gyfer cysylltu â'r grid yn gyfan gwbl o fewn tir Orthios. [375]

1044. Nid yw Orthios na'r Ymgeisydd wedi cyflawni cynlluniau o'r math a'r raddfa a fwriedir ar hyn o bryd. Er hynny, mae gwaith arfaethedig yr Ymgeisydd yn gynllun sydd wedi'i ddiffinio'n dda. Mewn cyferbyniad, roedd yn ymddangos bod cryn dipyn yn llai o sicrwydd ynglŷn â beth fyddai'n cael ei gyflwyno ar safle Orthios ynghyd â chyfnewidoldeb sylweddol o ran natur uchelgeisiau Orthios ar gyfer ei safle. [30, 373, 398-415, 652, 677]

1045. Mae angen yr Ymgeisydd am yr is-orsaf cysylltu â'r grid a'r rhesymau dros ei lleoliad wedi bod yn destun trafodaethau ag Orthios. Ceisiodd tystiolaeth Orthios i'r ymchwiliad herio'r angen am yr ardal o dir a geisir gan Fenter Môn a'i hymagwedd. Er bod Mr Jesson wedi gweithio gydag Orthios am nifer o flynyddoedd, nid yw'n amlwg y bu'n ymwneud â'r trafodaethau cynharach a arweiniodd at Diroedd y Gorchymyn a gynigir yn awr i'r gogledd o'r A55 ym Mhenrhos, nac wedi cynghori'r trafodaethau hynny. Mae'n ymddangos bod cynnig Orthios ar gyfer strategaeth HDD wahanol (mwy bas) o dan yr A55 a'r coridor rheilffordd cyfochrog wedi cael ei

gyflwyno gerbron yr ymchwiliad heb ymgynghori â Network Rail, tra'i bod yn ymddangos bod yr Ymgeisydd a Network Rail wedi cytuno ar ddyfnder drilio addas i ddileu gwrthwynebiad Network Rail. Nid yw'n amlwg bod Orthios wedi trafod gyda Network Rail priodoldeb dyfnder drilio mwy bas na hwnnw a gytunwyd rhwng Network Rail a'r Ymgeisydd. Ni ddangoswyd ychwaith y byddai amodau'r tir o dan y rheilffordd yn debygol o gynnal dyfnder drilio mwy bas. O ganlyniad, ni ellir rhoi llawer o bwys i'r awgrym y byddai dyfnder drilio mwy bas o dan y seilwaith rheilffordd yn briodol.[1021] [373, 653-657, 688, 709, 710]

1046. Mae gan yr Ymgeisydd gynnig cysylltu â'r Grid Cenedlaethol ar gyfer 180MW ym Mhenrhos. Byddai'n effeithlon i Orthios a Morlais rannu is-orsaf cysylltu â'r grid, a dyna beth mae'r model rheoleiddiol perthnasol yn ei geisio. Fodd bynnag, heb gytundeb, byddai angen dod o hyd i ddatrysiadau defnyddiwr unigol, a byddent yn angenrheidiol yn yr amgylchiadau hyn. Byddai'r CA arfaethedig yn galluogi darparu datrysiad cysylltu â'r grid ar gyfer defnyddiwr unigol, ac mae'r dystiolaeth yn cadarnhau y gallai hyn gael ei wneud o fewn tiroedd y Gorchymyn. [378, 379]

1047. Byddai darpariaethau amddiffynnol yn y Gorchymyn, ynghyd â chytundebau presennol Orthios â'r Grid Cenedlaethol, yn sicrhau y byddai Orthios yn cadw'r gallu i gysylltu â'r grid cenedlaethol. [379]

1048. Mae Orthios yn cynnig dau opsiwn cysylltu amgen i'r cysylltiad a fyddai'n cael ei ddarparu trwy'r Gorchymyn: byddai Opsiwn 1 Orthios yn golygu bod Morlais yn cysylltu â'r grid trwy far bws Orthios; a, byddai Opsiwn 2 Orthios yn gysylltiad uniongyrchol â'r Grid Cenedlaethol trwy iard switshis Orthios. Fodd bynnag:

(i) mae'r Opsiynau'n dibynnu ar dir a seilwaith a fyddai ym mherchenogaeth Orthios;

(ii) ni wyddys costau'r Opsiynau hyn;

(iii) ni wyddys y graddfeydd amser ar gyfer eu cyflawni gan nad yw'r iard switshis yn bodoli;

(iv) nid oes gan y naill Opsiwn na'r llall ganiatâd cynllunio;

(v) nid oes cytundeb rhwng Orthios a Menter Môn ynglŷn â materion pwysig, gan gynnwys:

a) manylion technegol sut byddai'r cysylltiadau'n gweithio

b) y telerau a'r costau masnachol, a

c) sut byddai buddiannau Menter Môn yn cael eu hamddiffyn pe byddai methiant ar ran Orthios.

[374, 686]

1049. Darperir manylion ychwanegol am bryderon yr Ymgeisydd. Nid yw'r ddau barti wedi dod i gytundeb ar ôl 4 blynedd o drafod. Grŵp masnachol o gwmnïau yw Orthios a fydd yn ceisio gwireddu buddion o'u hasedau, a darparodd ei dystiolaeth i'r

[1021] Fel y nodwyd uchod, mae cynnig yr Ymgeisydd wedi cael ei addasu bellach i adlewyrchu cofnodion ffiniau diweddaraf y Gofrestrfa Tir ac i ddileu rhan o adeilad a oedd wedi'i chynnwys yn Llain 49 (gweler Cyf.(au): Dogfen Ymchwiliad – 065 a Dogfen Ymchwiliad – 076).

ymchwiliad "Opsiynau" ar gyfer cysylltu â'r grid a allai fod yn ymarferol. Fodd bynnag, ni roddodd Orthios hyder y gallai'r materion sy'n achos pryder i'r Ymgeisydd, ac a fyddai'n effeithio ar y gallu i gyflawni Morlais, gael eu datrys yn rhwydd o fewn graddfa amser briodol. Mae'r Ymgeisydd o'r farn y byddai'r "Opsiynau" a gynigiwyd gan Orthios yn cyflwyno risg gynllunio sylweddol i'r prosiect. Rwyf innau'n dod i'r casgliad hwnnw hefyd ac yn ystyried y byddai'r risg sylweddol yn ymestyn y tu hwnt i faterion cynllunio. Mae'n amlwg y gallai lefel yr ansicrwydd a ddisgrifiwyd uchod fygwth y gallu i gyflawni'r gwaith arfaethedig. O ganlyniad, y CA a gynigiwyd gan yr Ymgeisydd yw'r hyn y dylid ei ystyried yn yr achos hwn. [375, 678, 387-389, 679, 694-696, 709-711]

1050. Mae'r materion sydd wedi ffurfio ymagwedd yr Ymgeisydd at yr is-orsaf cysylltu â'r grid a'r elfennau y mae'n credu y mae angen eu cynnwys ar y cam hwn wedi cael eu hesbonio. Mae'r rhain yn cynnwys rhoi'r sicrwydd angenrheidiol i'w gyllidwyr, ar yr un pryd â mynd i'r afael â chraffu ar y cynllun a'r ystod lawn o risgiau sy'n gysylltiedig â'r safle arfaethedig ar gyfer cysylltu â'r grid. Ni ddangoswyd bod unrhyw ganiatadau ychwanegol sy'n ofynnol i gyflwyno'r is-orsaf cysylltu â'r grid arfaethedig yn achosi risg sylweddol i gyflawni gwaith Morlais (ac mae'r Ymgeisydd wedi gwrthbrofi'n gadarn yr angen posibl am unrhyw ganiatadau ychwanegol gyda'r Grid Cenedlaethol – gweler para. 5.6 Cyf: REP011). [381-386, 712-714]

1051. Bydd gan y Grid Cenedlaethol ei amcanion cysylltu a bydd yn ceisio cael is-orsaf sydd wedi'i dylunio'n effeithlon. Fodd bynnag, mae'r berchenogaeth dir, y lleoliad a natur seilwaith y Grid Cenedlaethol yn y lleoliad hwn yn anarferol iawn. Os na fu cytundeb yn bosibl rhwng Orthios a'r Ymgeisydd, ac mae angen CA i ddatrys darparu cysylltiad â'r grid ar gyfer Morlais, dyna'r amgylchiadau a fyddai'n fframio penderfyniad y Grid Cenedlaethol. A sut bynnag, mae gan yr Ymgeisydd gynnig cysylltu gan y Grid Cenedlaethol nad yw wedi'i seilio ar ddatrysiad amlddefnyddiwr. Mae Orthios wedi amlygu: heriau technegol ac ymarferol posibl cysylltu â cheblau 132kV sy'n heneiddio; ac, absenoldeb tystiolaeth i gadarnhau hawddfreintiau a fforddfreintiau er mwyn i'r Grid Cenedlaethol weithio ar ei asedau'n gyfreithlon ar dir Orthios. Fodd bynnag, dyna natur y cynnig cysylltu sydd gan yr Ymgeisydd. Ac er bod Orthios yn nodi nad oes tystiolaeth y gallai'r Grid Cenedlaethol weithio ar y ceblau'n gyfreithlon (er bod gan y Grid Cenedlaethol ei bwerau CPO ei hun), byddai'r CA arfaethedig yn darparu mynediad i asedau'r Grid Cenedlaethol ar Lain 49, gan gynnwys y terfynfeydd ceblau 132kV. [375, 379 (gan gynnwys Troednodyn 781), 697-702]

1052. Mae'n amlwg bod ystyriaethau a phenderfyniadau rheoleiddiol posibl a allai effeithio ar ddarparu cysylltiad â'r grid hyd yn oed gyda'r CA a gynigir. Fodd bynnag, ni ddangoswyd bod unrhyw beth yn anorchfygol, nac yn risg annerbyniol, nac yn debygol o atal cyflawni'r gwaith arfaethedig. [703-708]

1053. Gan droi at faint yr is-orsaf a geisir gan yr Ymgeisydd. Nodir bod hyn yn deillio o: ddiffyg cytundeb ag Orthios; cyngor gan beirianwyr ymgynghorol; bodloni'r safonau trydanol perthnasol; a, gweithio yn unol â senario achos gwaethaf rhesymol sy'n sicrhau y byddai digon o dir ar gael yn y Gorchymyn i alluogi'r gwaith i gael ei adeiladu. Mae Orthios wedi herio ôl troed y gwaith a gynigir bellach ar gyfer ei dir ac mae'n cyfeirio at ardaloedd o faint gwahanol a geisiwyd yn ystod trafod. Fodd bynnag, darparwyd cefndir y trafodaethau hyn, yr olion traed a drafodwyd, a'r cynnig presennol. [373, 380, 680-685]

1054. Mae'r dystiolaeth yn dangos yr ystyriaethau sydd wedi ffurfio'r ardal o dir Orthios a geisir ar gyfer y gwaith. Mae'n cynnwys elfen o ddarpariaeth wrth gefn, fel hwnnw

ar gyfer cyflyru pŵer ychwanegol. Mae Orthios wedi gwneud gwaith clirio ac adfer y safle. Fodd bynnag, ni chafwyd cymeradwyaeth reoleiddiol eto i gadarnhau yr ystyrir bod Llain 49 yn rhydd rhag halogiad. Felly, mae'n parhau i fod yn ffactor risg sylweddol ar gyfer y defnydd arfaethedig o'r tir hwnnw. Yn ogystal, mae gwasanaethau'n bresennol a allai gyfyngu ar waith penodol. Mae'r ffactorau hyn yn cefnogi'r ardal o dir a gynigir ar gyfer CA, ac y byddai'n angenrheidiol sicrhau bod digon o dir ar gyfer y gwaith. Ni ddangoswyd bod yr un o'r ffactorau ategol yn awgrymu y byddai'r ôl troed yn fwy na'r hyn sy'n ofynnol i ddarparu lefel briodol o ddarpariaeth wrth gefn, ac felly sicrwydd, ynglŷn â'r gallu i gyflawni'r gwaith arfaethedig. [373, 380, 688-693]

*Storio batris*

1055. Yn yr RT ynglŷn â'r Gorchymyn / Caniatâd Cynllunio Tybiedig, awgrymodd Orthios y dylai lle storio batris Morlais gael ei reoli. Ni chodwyd hyn wrth groesholi tyst yr Ymgeisydd (Mr Billcliff). Darperir ymateb yr Ymgeisydd yng Nghyf: Dogfen Ymchwiliad – 095, gan gyfeirio at bara. 1.18 PPW (argraffiad 10), ac yn Atodiad 2 i gyflwyniadau i gloi'r Ymgeisydd.[1022] Mae'n ymdrin â'r posibilrwydd y gallai hyn, i bob pwrpas, gyfyngu ar gystadleuaeth o ran storio batris. Fodd bynnag, mae Orthios o'r farn bod y pryderon ynglŷn â chystadleuaeth yn amherthnasol ac mae'n cyfeirio yn lle hynny at ddiffyg eglurder ynglŷn ag elfen storio batris yr is-orsaf o ran y cyfiawnhad i'r CA arfaethedig. [421, 723, 724]

1056. Byddai'r tir a gymerir ar gyfer yr is-orsaf cysylltu â'r grid o fewn y paramedrau a geisir trwy Dabl 4-30 y *Disgrifiad o'r Prosiect* ym Mhennod 4 yr ES (Cyf: MDZ/A25.4). Nid yw'r paramedrau'n ceisio nodi elfennau unigol yr is-orsaf cysylltu â'r grid na'u maint. Mewn PDE, byddai ceisio gwneud hynny'n gosod cyfyngiadau anarferol iawn ar ddatblygwr. Ac yn yr achos hwn, nid oes amheuaeth bod yr Ymgeisydd yn bwriadu cael lle storio batris yn rhan o seilwaith cyflenwi ynni Morlais yn bwydo i'r grid cenedlaethol a/neu'r rhwydwaith lleol. [380, 421, 656, 672, 723, 724]

1057. Bu rhywfaint o amhendantrwydd ynglŷn ag elfen storio batris cynnig Morlais. Fodd bynnag, byddai'n un o fanylion dylunio'r cynllun y soniodd cyflenwr posibl amdano yn ystod y sesiwn siarad cyhoeddus. Nid oes tystiolaeth i awgrymu y byddai lle storio batris yn unrhyw beth ond buddiol i ddarparu cyflenwad ynni sefydlog a dibynadwy o Forlais. O ganlyniad, gellir disgwyl i'r Ymgeisydd ddefnyddio paramedrau'r is-orsaf i ddarparu lle storio batris a fyddai'n sicrhau effeithiolrwydd y seilwaith a gynigir. [380, 723]

1058. Mae Orthios eisiau i gapasiti'r lle storio batris gael ei gyfyngu i'r hyn a nodwyd yng Ngwrthbroflen Dystiolaeth Mr Billcliff. Mae'r Ymgeisydd yn nodi nad archwiliwyd y mater hwn trwy groesholi yn ystod yr ymchwiliad. Petai wedi cael ei archwilio'n briodol, mae'n bosibl y byddai'r materion cysylltiedig wedi bod yn fwy eglur i'r holl bartïon.

1059. Byddai'r paramedr y gofynnir amdano'n cyfyngu ar y capasiti storio, nid yr arwynebedd a'r cyfaint yn ôl dimensiynau. Mae un o baramedrau'r prosiect yn diffinio "Capasiti gosodedig y prosiect" yn gyffredinol ar gyfer cynhyrchu pŵer fel 240MW ac fe'i defnyddiwyd at ddibenion yr ES. Mewn cyferbyniad, byddai'r capasiti batris yn storio'r pŵer a gynhyrchir yn rhan o'r system trawsyrru a dosbarthu. O fewn dimensiynau'r paramedr ar gyfer yr is-orsaf cysylltu â'r grid, gellir disgwyl i le

[1022] Sef para. 1.19 PPW bellach (argraffiad 11)

storio o’r fath ddod yn fwy effeithlon a lleihau o ran maint dros amser, yn yr un modd ag elfennau eraill o waith yr is-orsaf arfaethedig. Pe byddai paramedr arfaethedig Orthios yn cael ei osod, fe allai atal arloesedd ac effeithlonrwydd yn y dyfodol o fewn y gwaith trawsyrru a dosbarthu ategol ar y tir, ac felly ei atal rhag bod mor gynaliadwy ag y byddai fel arall.

1060. Sut bynnag, mae’r Ymgeisydd wedi ymateb i’r mater yn llawn trwy lythyr, dyddiedig 9 Chwefror 2021 (Cyf: Dogfen Ymchwiliad – 095). Mae’r prosiect ar gyfer dal ynni ffrwd lanw a’i gysylltu â’r rhwydwaith trydan. Mae’r hyblygrwydd a ddarperir gan y PDE yn sicrhau y byddai’r datrysiad mwyaf effeithiol yn cael ei ganfod ar gyfer trawsyrru a dosbarthu’r pŵer a gynhyrchir. Cytunaf fod yr angen wedi cael ei ddangos trwy’r achos a wnaed, sy’n nodi, ymhlith pethau eraill, efallai y bydd angen i’r gwaith seilwaith ar y tir ar gyfer y cysylltiad 33kV gael batri ar raddfa fasnachol, a allai hefyd ddarparu gallu allforio 132kV cyfyngedig, ac a fyddai wedi’i leoli yn yr is-orsaf cysylltu â’r grid.[1023]

*Diwygiadau arfaethedig Orthios*

1061. Crynhoir y rhain mewn dwy ddogfen: a) *Atodlen newidiadau arfaethedig i’r dTWAO gan Orthios* (Cyf: Dogfen Ymchwiliad – 091); a, *Cynllun Tir sy’n Dangos Gorchymyn Caniatâd Morlais wedi’i Leihau* (Cyf: Dogfen Ymchwiliad – 056).

1062. Mae’r Ymgeisydd wedi ymateb i’r diwygiadau arfaethedig trwy Atodiad 1 i’w gyflwyniadau i gloi (Cyf: Dogfen Ymchwiliad – 155) ac nid yw’n cytuno â’r diwygiadau arfaethedig.

(i) <u>Lleiniau 46 a 47</u> – Byddai diwygiad Orthios yn galluogi gosod ceblau ar ddyfnder o 5m o leiaf yn Llain 46, sy’n fwy bas na’r dyfnder 9m y cytunodd yr Ymgeisydd arno gyda Network Rail. Ni fyddai’n atal ceblau rhag cael eu gosod yn is yn yr isbridd, ond nid yw’n ymddangos yr ymgynghorwyd â Network Rail ynglŷn â phriodoldeb technegol y newid arfaethedig i Lain 46. [373]

(ii) <u>Llain 48</u> – Mae’r Ymgeisydd: o’r farn bod Llain 48 yn rhan annatod o Lain 49 ac nad yw’n briodol ei gwahanu ohoni; mae ganddo bryderon tebyg i’r rhai a roddwyd ar gyfer Lleiniau 46 a 47 ynglŷn â dyfnder yr isbridd; ac mae ganddo bryderon ynglŷn â mynediad dros Lain 48B arfaethedig Orthios i’r lleiniau eraill y byddai gwaith wedi’i leoli ynddynt.

(iii) <u>Llain 49</u> – Mae Orthios eisiau i’w ddiwygiadau arfaethedig gael eu gwneud i’r Gorchymyn ac i Lain 49A gyfateb i’r ardal y dywedodd Menter Môn fod arni ei hangen ac a fyddai’n ofynnol ar gyfer cysylltiad defnyddiwr unigol. Mae’r ymgeisydd yn datgan yn glir na fyddai digon o le yn yr ardal wedi’i lleihau o Lain 49 am y rhesymau a roddwyd yn Atodiad 1 i’w gyflwyniadau i gloi (Cyf: Dogfen Ymchwiliad – 155). Pe byddai’r Gorchymyn yn cael ei wneud heb ddigon o dir, ac ni allai trafodaethau ddatrys y sefyllfa (neu pe byddent yn parhau i fethu â datrys y sefyllfa), byddai angen CA/CPO ychwanegol. Hefyd, byddai’r gostyngiad awgrymedig i faint Llain 49 yn gwahanu is-orsaf arfaethedig yr Ymgeisydd o’r terfynfeydd 132kV, gan roi’r prosiect mewn perygl uwch trwy orfod cysylltu â’r ceblau tanddaear sy’n heneiddio. (Fodd bynnag, pe byddai’r diwygiad yn cael ei dderbyn, byddai angen i Bennod 2 Rhan 2 Atodlen 1 adlewyrchu creu “Llain 49A”) [716-720]

[1023] Para. 4.10.10 Proflen Dystiolaeth Mr Billcliff (Cyf: MDZ/P8)

(iv) Llain 50 – Yn yr un modd â Llain 48, mae'r Ymgeisydd yn nodi y daeth Llain 50 yn llain ar wahân o ganlyniad i berchenogaeth wahanol, a bod yr angen amdani'n debyg i hwnnw ar gyfer Llain 49. Mae Orthios o'r farn y dylai Llain 50 gael ei dileu o'r Gorchymyn. [721]

*Tir a datblygiadau Orthios*

1063. Mae'r ddau barti wedi mynd i'r afael â'r datblygiadau y mae Orthios yn ceisio eu gwneud ar ei safle 213 erw. Mae'r Ymgeisydd yn bwriadu caffael 3 erw o'r safle hwnnw'n orfodol. Mae Orthios yn nodi amryw ddefnyddiau posibl ar gyfer Llain 49, ond byddai'r defnyddiau posibl hynny wedi'u gosod o fewn safle mwy o lawer y mae'n ymddangos bod cryn ansicrwydd ynglŷn â'i fanylion ailddatblygu. [396-415, 658-676, 715, 716]

*Yr angen am CA ar gyfer lleiniau Orthios*

1064. Lleiniau 46 a 47 – Mae'r Ymgeisydd yn nodi y byddai angen hawliau isbridd o leiaf ar gyfer y lleiniau hyn i wneud cysylltiad ag is-orsaf y grid. [390]

1065. Llain 51 – Byddai angen hawl mynediad newydd ar draws Llain 51 ar gyfer adeiladu a chynnal a chadw. Mae'r Ymgeisydd wedi cytuno ar delerau gydag AMG Alpoco UK, sy'n defnyddio Llain 51 i gael mynediad i'w safle. [391]

1066. Mae Lleiniau 48 a 51 yn cynnwys tir yn y ffordd fynediad. Mae'r ymgymeriad unochrog (Cyf: Dogfen Ymchwiliad – 108) yn mynd i'r afael â defnyddio'r ffordd fynediad i safle Orthios a'i hargaeledd yn ystod adeiladu'r is-orsaf cysylltu â'r grid arfaethedig ac ar ôl adeiladu, ynghyd â diogelwch ac iawndal, ymhlith pethau eraill. Mae Orthios wedi derbyn bod yr ymgymeriad unochrog yn rhoi'r darpariaethau amddiffynnol a fyddai wedi cael eu ceisio fel arall trwy Gyf: Dogfen Ymchwiliad – 057. [377, 391, 711, 722]

1067. Lleiniau 48, 49 a 50 – Byddai'r lleiniau hyn yn angenrheidiol, yn yr un modd â'r rhai uchod, am y rhesymau a roddwyd uchod yn yr adran hon o'r adroddiad o ran "*Yr Angen am Gaffael Gorfodol*". [392-395]

*Casgliad o ran gwrthwynebiad Orthios*

1068. Mae'r Ymgeisydd o'r farn y byddai ymagwedd arfaethedig Orthios yn rhoi sefyllfa 'bridwerth' i Orthios. Ar ôl clywed y dystiolaeth, dyna sut y gwelais innau ganlyniad posibl achos Orthios. Mae'r ffaith bod y partïon wedi methu â dod i gytundeb ar ôl ymgysylltu am gyfnod hir ynglŷn â'r materion perthnasol yn cadarnhau, pe byddai'r Gorchymyn yn cael ei wneud, tebygolrwydd canlyniad ynglŷn â'r is-orsaf cysylltu â'r grid a allai fygwth cyflawni'r gwaith arfaethedig a'r pŵer y byddai'n ei ddarparu fel arall. [371, 705]

Gwrthwynebiadau eraill

1069. Mae atodlen CA/CPO yr Ymgeisydd (Cyf: Dogfen Ymchwiliad – 099) yn cadarnhau nad oes unrhyw wrthwynebiadau'n weddill gan IoACC. Mae IoACC wedi cadarnhau ei fod yn cytuno â'r Ymgeisydd o ran y CA/CPO a fyddai'n effeithio ar ei diroedd a'r hawliau drostynt. [436, 439]

1070. Mae gwrthwynebiadau eraill perthnasol i'r Gorchymyn, heblaw am y rhai yr ymdrinnir â nhw isod, wedi cael eu tynnu'n ôl. Nid yw'n ymddangos bod partïon eraill a fyddai'n destun y CA arfaethedig wedi gwrthwynebu'r cais. [737-750]

**Mathau Arbennig o Dir**

1071. Mae tiroedd y Gorchymyn yn cynnwys ardal o fan agored cyhoeddus tybiedig yn Abraham's Bosom. Gwnaed cais i Weinidogion Cymru yn unol â pharagraff 6 Atodlen 3 Deddf Caffael Tir 1981. Mae tystysgrif wedi cael ei rhoi bellach ynglŷn â'r tiroedd, a amlygir fel Lleiniau 1 a 3a (fel y dangosir ar Gyf: MDZ/A17.1), yn awdurdodi eu caffael (Cyf.(au) Dogfen Ymchwiliad – 077 a Dogfen Ymchwiliad – 078). [368]

1072. Mae Mr a Mrs Llewellyn wedi nodi, yn wahanol i nifer o bartïon eraill, nad ymgynghorwyd â nhw ynglŷn â'r mater cyn i benderfyniad y Gweinidog yng Nghyf: Dogfen Ymchwiliad – 078 gael ei roi. Fodd bynnag, o ystyried y rhesymau a roddwyd am y penderfyniad yng Nghyf: Dogfen Ymchwiliad – 078, ni fyddai'r materion a godwyd gan Mr a Mrs Llewellyn yn yr ymchwiliad hwn yn peri i mi ddod i'r casgliad y byddai'r gwaith yn debygol o achosi i'r man agored fod yn llai buddiol nag ydoedd o'r blaen i'r bobl hynny y mae wedi'i freinio ynddynt ac i bobl eraill, os o gwbl, sydd â hawliau comin neu hawliau eraill, ac i'r cyhoedd.

**Casgliad**

1073. Mae'r Ymgeisydd wedi cael cryn lwyddiant wrth drafod gyda'r partïon a fyddai'n destun CA ac mae'r trafodaethau'n parhau. Ni fu'n bosibl i Orthios a'r Ymgeisydd ddod i gytundeb. Byddai lleiniau Orthios yn allweddol, o bosibl, i gyflawni'r gwaith a'r buddion a fyddai'n deillio ohono. Er bod Orthios yn ceisio diogelu ei fuddiannau ei hun ar y safle, heb y CA arfaethedig, byddai'r "Opsiynau" y mae Orthios wedi'u cynnig yn achosi cryn risg i'r gwaith, a byddai'r risg honno'n ymddangos yn fwy o lawer na'r risg a geir yng nghynnig yr Ymgeisydd.

1074. Dangoswyd y byddai tiroedd y Gorchymyn yn angenrheidiol ar gyfer y gwaith arfaethedig ac y byddai'r tir a gymerir yn cyfateb i'r hyn a ddisgwylir ar gyfer datblygiad seilwaith o'r math hwn.

1075. O ystyried y dystiolaeth yn yr achos hwn a'r casgliadau y daethpwyd iddynt yn yr adroddiad hwn, mae'n amlwg bod achos cymhellol er budd y cyhoedd dros y CA yn y Gorchymyn. [367]

1076. Mae fy nghasgliad ynglŷn â Hawliau Dynol a'r Gorchymyn yn dilyn fy argymhellion yn yr adran nesaf.

# Argymhellion yr Arolygydd

1077. Argymhellaf:

(i) Fod Gweinidogion Cymru yn penderfynu y byddai'r gwaith arfaethedig yn fath cynaliadwy o ddatblygiad ac yn gwneud y Gorchymyn yn amodol ar y materion canlynol.

(ii) Er mwyn darparu cysylltiad clir rhwng y Gorchymyn, a chyd-destun y cais a'i ES (o ran amlygrwydd gweledol), argymhellir bod testun yr Allwedd o'r Ffigurau yng Nghyf: MDZ/A28.1 yn cael ei gynnwys ar y "*cynllun ardal gyfyngedig*".

(iii) Am y rhesymau a roddwyd yn yr adroddiad hwn, argymhellir bod yr "*Ardal Gyfyngedig – Ogleddol*" ar y "*cynllun ardal gyfyngedig*" yn cael ei haddasu i gynnwys:

a) yr ardal ychwanegol (y cyfeirir ati hefyd fel "Y Triongl") a awgrymwyd gan CNC; a,

b) bod testun yr Allwedd o'r Ffigurau yng Nghyf: MDZ/A28.1 yn cael ei ychwanegu at y "*cynllun ardal gyfyngedig*" heblaw am hwnnw sy'n ymwneud â'r "*Ardal Gyfyngedig – Ogleddol*" y dylid ei newid i "*Ddyfeisiau llanw tanddwr*".

(iv) Bod y CA a geisir wedi'i seilio ar y Cynlluniau Tir a ddarparwyd gyda'r cais, heblaw am y diwygiadau canlynol:

a) *Cynllun Lleoliad ac Allwedd* (Cyf: Dogfen Ymchwiliad – 097);

b) Map 8, *Cynllun Gwaith a Thir* (Cyf: Dogfen Ymchwiliad – 066);

c) Llyfr Cyfeirio (Cyf: Dogfen Ymchwiliad – 065); ac,

ch) O ran y ffordd fynediad o fewn Lleiniau 48 a 51, y cyd-destun a ddarperir gan Ymgymeriad Unochrog Menter Môn, dyddiedig 9 Chwefror 2021 (Cyf: Dogfen Ymchwiliad – 108).

1078. Hefyd, argymhellir:

(v) bod Gweinidogion Cymru yn rhoi cyfarwyddyd o dan adran 90(2A) Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 y tybir bod caniatâd cynllunio, cyn belled ag y bo'n ofynnol, wedi'i roi ar gyfer y datblygiad y ceisir ei awdurdodi gan y Gorchymyn y gwneir cais amdano yn awr o fewn y terfynau amrywiol y darperir ar eu cyfer yn y Gorchymyn drafft a'r cynlluniau a'r trychiadau cysylltiedig sydd wedi'u hadneuo; a,

(vi) bod y caniatâd cynllunio tybiedig yn cael ei roi yn ddarostyngedig i'r amodau cynllunio yn Atodiad 1 i'r adroddiad hwn.

1079. Mae'r dystiolaeth, ynghyd â'r trafodaethau yn ystod yr Ymchwiliad a'r cyflwyniadau iddo, yn dangos bod yr Ymgeisydd wedi ystyried dulliau amgen realistig a ddiystyriwyd am resymau amrywiol ac a arweiniodd at Gynllun y Gorchymyn. O ran y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol a Deddf Hawliau Dynol 1998, mae'n amlwg y byddai buddion y Gorchymyn, a fyddai'n dod yn sgil

dibenion y caffael gorfodol yn y Gorchymyn, yn cyfiawnhau unrhyw ymyrraeth â buddiannau a warchodir fel arall gan hawliau'r Confensiwn. [22, 166]

**Casgliad Cyffredinol**

1080. Ar ôl ystyried y cais a'r holl faterion a godwyd mewn tystiolaeth, gan gynnwys yn ystod yr ymchwiliad, deuaf i'r casgliad bod achos cymhellol dros wneud Gorchymyn Parth Arddangos Morlais ac argymhellaf yn unol â hynny.

*Clive Sproule*

AROLYGYDD

# ATODIAD 1 – AMODAU CYNLLUNIO

## Cyffredinol

1) Bydd y datblygiad a ganiateir drwy hyn yn dechrau cyn pen 5 mlynedd o'r dyddiad y daw'r Gorchymyn i rym.

*Rheswm:* I gydymffurfio ag Adran 91 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.

2) Gall diwygiadau i fanylion a gyflwynwyd i'r Awdurdod Cynllunio Lleol yn flaenorol ac a gymeradwywyd ganddo'n ysgrifenedig gael eu cymeradwyo dim ond lle y gellir dangos i'r Awdurdod Cynllunio Lleol nad yw'r gymeradwyaeth a geisir yn arwain at unrhyw effeithiau amgylcheddol arwyddocaol sylweddol wahanol neu newydd i'r rhai a aseswyd yn y Datganiad Amgylcheddol.

Bydd y datblygiad yn cael ei gynnal yn unol â'r cynlluniau cymeradwy canlynol, oni bai y'u cymeradwyir o dan amod 6:

Lluniad Rhif 70061106-001 Rev P01 – *Deddf Trafnidiaeth a Gweithfeydd 1992 Gorchymyn Parth Arddangos Morlais – Cynllun Lleoliad Safle – Ynys Môn*

Lluniad Rhif 70061106-002 Rev P01 – *Deddf Trafnidiaeth a Gweithfeydd 1992 Gorchymyn Parth Arddangos Morlais – Cynllun Safle Dangosol – Is-orsaf y Lanfa – Ynys Môn*

Lluniad Rhif 70061106-003 Rev P01 – *Cynllun Safle Dangosol – Deddf Trafnidiaeth a Gweithfeydd 1992 Gorchymyn Parth Arddangos Morlais – Cynllun Safle Dangosol – Switchgear Building – Ynys Môn*

Lluniad Rhif 70061106-004 Rev P01 – *Deddf Trafnidiaeth a Gweithfeydd 1992 Gorchymyn Parth Arddangos Morlais – Cynllun Safle Dangosol – Is-orsaf y Grid – Ynys Môn*

Lluniad Rhif 70061106-005 Rev P01 – *Deddf Trafnidiaeth a Gweithfeydd 1992 Gorchymyn Parth Arddangos Morlais – Cynllun Safle Presennol – Is-orsaf y Lanfa – Ynys Môn*

Lluniad Rhif 70061106-006 Rev P01 – *Deddf Trafnidiaeth a Gweithfeydd 1992 Gorchymyn Parth Arddangos Morlais – Cynllun Safle Presennol – Adeilad Offer Switshis – Ynys Môn*

Lluniad Rhif 70061106-007 Rev P01 – *Deddf Trafnidiaeth a Gweithfeydd 1992 Gorchymyn Parth Arddangos Morlais – Cynllun Safle Presennol – Is-orsaf y Grid – Ynys Môn*

Lluniad Rhif 70061106-008 Rev 01 – *Deddf Trafnidiaeth a Gweithfeydd 1992 Gorchymyn Parth Arddangos Morlais – Trefniant Cyffredinol – Is-orsaf y Lanfa – Ynys Môn*

Lluniad Rhif 70061106-009 Rev 01 – *Deddf Trafnidiaeth a Gweithfeydd 1992 Gorchymyn Parth Arddangos Morlais – Trefniant Cyffredinol – Adeilad Offer Switshis – Ynys Môn*

Lluniad Rhif 70061106-010 Rev 02 – *Deddf Trafnidiaeth a Gweithfeydd 1992 Gorchymyn Parth Arddangos Morlais – Trefniant Cyffredinol – Is-orsaf y Grid – Ynys Môn*

Lluniad Rhif 70061106-011 Rev 01 – *Deddf Trafnidiaeth a Gweithfeydd 1992 Gorchymyn Parth Arddangos Morlais – Gweddluniau – Ynys Môn*

Lluniad Rhif 70061106-012 Rev 01 – *Deddf Trafnidiaeth a Gweithfeydd 1992 Gorchymyn Parth Arddangos Morlais – Gweddluniau – Ynys Môn*

*Rheswm:* I sicrhau bod y datblygiad yn cael ei gynnal yn unol â'r dogfennau, y cynlluniau a'r lluniadau cymeradwy a gyflwynwyd gyda'r Gorchymyn.

**Cymeradwyo a Gweithredu Cynlluniau Lliniaru Adeiladu**

3) Cyn i unrhyw gam o'r datblygiad ddechrau, bydd CoCP ar gyfer y cam hwnnw'n cael ei gyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol a'i gymeradwyo ganddo'n ysgrifenedig. Bydd unrhyw CoCP yn cynnwys:

a) Yr ardal a'r gwaith sy'n berthnasol i'r CoCP; a,

b) Datganiadau Dull Adeiladu sy'n ymwneud â cham y datblygiad.

Os ydynt yn berthnasol i gam y datblygiad, bydd y canlynol yn cael eu cynnwys yn y CoCP ar gyfer y cam hwnnw:

c) Cynllun Draenio Dŵr Wyneb

ch) Cynllun Rheoli Sŵn Adeiladu

d) Cynllun Rheoli Ansawdd Aer Adeiladu

dd) Cynllun Rheoli Gwastraff y Safle a Gwastraff wedi'i Gloddio

e) Cynllun Adfer Cynefin

f) Cynllun Rheoli Rhywogaethau Goresgynnol ar y Tir

ff) Cynllun Gweithredu Ecolegol

g) Manylion gwaith stryd, gan gynnwys:

(i) amseriad(au) y gwaith a'r dyddiad cwblhau disgwyliedig,

(ii) cynigion rheoli traffig ac arwyddion, a

(iii) manylion adfer y stryd, gan gynnwys materion fel lled a graddau ailwynebu a marciau stryd.

Bydd pob cam o'r datblygiad yn cael ei adeiladu yn unol â'r CoCP cymeradwy perthnasol.

*Rheswm: I gydymffurfio â Pholisi ADN 3 y Cynllun Datblygu Lleol*.

4) Cyn i'r datblygiad ddechrau, bydd Cynllun Atal a Rheoli Llygredd ("PPMP"), yn cael ei gyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol a'i gymeradwyo ganddo'n ysgrifenedig. Bydd y datblygiad yn cael ei adeiladu yn unol â'r PPMP cymeradwy.

*Rheswm: I ddiogelu'r amgylchedd naturiol a chydymffurfio â Pholisïau Strategol PS 19 ac ADN 3 y Cynllun Datblygu Lleol.*

5) Ni cheir gwneud unrhyw waith sy'n cynnwys gosod ceblau'n allanol i fyny wyneb y clogwyn yn y lanfa arfaethedig hyd nes bod:

a) Adroddiad ysgrifenedig, a luniwyd gan beiriannydd annibynnol â chymwysterau addas, wedi cael ei gyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol a'i gymeradwyo ganddo, sy'n dangos pam nad yw'n ymarferol i geblau o'r fath gael eu gosod trwy ddrilio cyfeiriadol llorweddol neu dechneg arall heb ffosydd;
b) CoCP sy'n gysylltiedig â'r gwaith gosod allanol arfaethedig yn unol â gofynion amod 3) wedi cael ei gyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol a'i gymeradwyo ganddo'n ysgrifenedig; a
c)Chynllun rheoli tirwedd wedi'i ddiweddaru sy'n gysylltiedig â'r gwaith gosod allanol arfaethedig yn unol â gofynion amod 7) wedi cael ei gyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol a'i gymeradwyo ganddo'n ysgrifenedig.

Bydd y gwaith yn cael ei wneud yn unol â'r manylion cymeradwy.

*Rheswm: I ddiogelu'r amgylchedd naturiol a chydymffurfio â Pholisïau Strategol PS 19 ac ADN 3 y Cynllun Datblygu Lleol.*

**Dyluniad Manwl**

6) Ni cheir dechrau datblygu pob strwythur hyd nes, ar gyfer y strwythur hwnnw, bod manylion gosodiad, graddfa a golwg allanol y strwythur wedi cael eu cyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol a'u cymeradwyo ganddo'n ysgrifenedig.

Cyn i is-orsaf y lanfa, yr adeilad offer switshis a'r is-orsaf cysylltu â'r grid gael eu hadeiladu, bydd manylion eu golwg allanol ac uchder yr adeiladau uwchlaw lefel y tir yn cael eu cyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol a'u cymeradwyo ganddo'n ysgrifenedig. Mae'n rhaid i'r elfennau hyn fod o fewn y paramedrau a nodir yn Nhabl 1 ac ni chaiff arwynebedd adeiladau 1, 2 a 3 is-orsaf y lanfa, gyda'i gilydd, fod yn fwy nag 1,739m$^2$:

Tabl 1 – Y dimensiynau mwyaf a ganiateir ar gyfer yr Adeiladau ar y Tir

| Adeilad neu Strwythur | Uchafswm Uchder (m) | Uchafswm Hyd (m) | Uchafswm Lled (m) |
|---|---|---|---|
| Adeilad 1 is-orsaf y lanfa | 7 | 62 | 22.5 |
| Adeilad 2 is-orsaf y lanfa | 7 | 28 | 10 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Adeilad 3 is-orsaf y lanfa | 7 | 8 | 8 |
| Adeilad Offer Switshis | 4 | 9.4 | 5 |
| Is-orsaf Cysylltu â’r Grid | 9 | 104 | 62 |

Bydd yr adeiladau a’r strwythurau’n cael eu hadeiladu yn unol â’r dyluniad cymeradwy.

*Rheswm:* I sicrhau nad yw’r datblygiad a ganiateir drwy hyn yn cael effaith niweidiol ar gymeriad a golwg yr ardal.

7) Cyn i’r datblygiad ddechrau cael ei adeiladu, bydd manylion gwaith tirweddu caled a meddal yn cael eu cyflwyno i’r Awdurdod Cynllunio Lleol a’u cymeradwyo ganddo’n ysgrifenedig. Bydd hyn yn cynnwys:

a) Manylion tirweddu caled, gan gynnwys manylion ffiniau, dulliau amgáu ac ardaloedd arwyneb caled, gan gynnwys deunyddiau;

b) Manylion tirweddu meddal, gan gynnwys cynlluniau plannu, manylebau ysgrifenedig gan gynnwys dyfnderoedd pridd, a thrin y tir sy’n gysylltiedig â sefydlu planhigion a gwair a rhestrau planhigion gan nodi’r rhywogaeth, maint plannu a niferoedd a dwyseddau arfaethedig;

c) Manylion mesurau gwella bioamrywiaeth ar dir uwchben wyneb clogwyn Abraham’s Bosom; a,

ch) Chynllun Rheoli Tirwedd terfynol.

Bydd y datblygiad yn cael ei adeiladu yn unol â’r manylion tirweddu cymeradwy.

*Rheswm: I sicrhau nad yw’r datblygiad a ganiateir drwy hyn yn cael effaith niweidiol ar gymeriad a golwg yr ardal ac i gydymffurfio â Pholisi AMG 3 Cynllun yr AHNE a Pholisi PCYFF 4 y Cynllun Datblygu Lleol.*

**Adnoddau dŵr, perygl llifogydd a halogiad**

8) Cyn i’r gwaith adeiladu ddechrau, bydd datganiad dull i leihau effeithiau croesfannau cyrsiau dŵr dros dro i’r eithaf yn cael ei gyflwyno i’r Awdurdod Cynllunio Lleol a’i gymeradwyo ganddo’n ysgrifenedig. Bydd y datblygiad yn cael ei adeiladu yn unol â’r datganiad dull cymeradwy.

*Rheswm: I ddiogelu’r amgylchedd naturiol a chydymffurfio â Pholisïau Strategol PS 19 ac ADN 3 y Cynllun Datblygu Lleol.*

9) Cyn i'r gwaith adeiladu ddechrau, bydd asesiad risg hydroddaearegol yn cael ei gyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol a'i gymeradwyo ganddo'n ysgrifenedig. Bydd yr asesiad risg hydroddaearegol hwn yn cynnwys asesiad risg manwl o effeithiau drilio cyfeiriadol llorweddol. Bydd y datblygiad yn cael ei adeiladu yn unol â'r asesiad risg cymeradwy.

*Rheswm: I ddiogelu'r amgylchedd naturiol a chydymffurfio â Pholisïau Strategol PS 19 ac ADN 3 y Cynllun Datblygu Lleol.*

10) Os, yn ystod y gwaith datblygu, gwelir bod halogiad yn bresennol ar y safle nas canfuwyd yn flaenorol, ni cheir gwneud unrhyw waith datblygu pellach (oni bai bod yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn cytuno fel arall yn ysgrifenedig) hyd nes bod strategaeth adfer sy'n manylu ar sut yr ymdrinnir â'r halogiad annisgwyl hwn wedi cael ei gyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol a'i gymeradwyo ganddo'n ysgrifenedig. Bydd y strategaeth adfer yn cael ei chyflawni fel y'i cymeradwywyd.

*Rheswm: I sicrhau bod y risgiau sy'n gysylltiedig â halogiad blaenorol annisgwyl ar y safle yn cael eu trin trwy strategaeth adfer, er mwyn lleihau'r risg i ddefnyddwyr y tir yn y dyfodol a thir cyfagos i'r eithaf, a sicrhau y gellir cynnal y datblygiad yn ddiogel heb risgiau annerbyniol.*

**Bioamrywiaeth**

11) Ni chaiff unrhyw ddatblygiad ddigwydd hyd nes bod cynllun ar gyfer digolledu cynefin wedi cael ei gyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol a'i gymeradwyo ganddo'n ysgrifenedig. Bydd y cynefin digolledu yn cael ei ddarparu yn unol â'r cynllun cymeradwy a'r graddfeydd amser ynddo.

*Rheswm: I ddiogelu'r amgylchedd naturiol a chydymffurfio â Pholisïau Strategol PS 19 ac ADN 3 y Cynllun Datblygu Lleol.*

12) (1) Ni chaiff unrhyw gam o'r gwaith ddechrau hyd nes bod gwaith arolygu cyn-adeiladu terfynol wedi cael ei gynnal i gadarnhau p'un a oes rhywogaeth a warchodir gan Ewrop yn bresennol ar unrhyw ran o'r tir y bydd unrhyw ran o'r gwaith ar y tir yn effeithio arno, neu'n debygol o effeithio arno, neu yn unrhyw un o'r coed sydd i'w tocio neu eu torri yn rhan o'r gwaith ar y tir.

(2) Pan ddangosir bod rhywogaeth a warchodir gan Ewrop yn bresennol, ni chaiff y cam o'r gwaith sy'n debygol o effeithio ar y rhywogaeth ddechrau hyd nes bod cynllun o fesurau amddiffyn a lliniaru wedi cael ei gyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol a'i gymeradwyo ganddo'n ysgrifenedig.

(3) Mae'n rhaid i'r gwaith gael ei wneud yn unol â'r cynllun cymeradwy.

(4) Yn y Gofyniad hwn, mae gan "rywogaeth a warchodir gan Ewrop" yr ystyr a roddir yn rheoliad 42 Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017.

*Rheswm: I ddiogelu'r amgylchedd naturiol a chydymffurfio â Pholisïau Strategol PS 19 ac ADN 3 y Cynllun Datblygu Lleol.*

13) Ni fydd unrhyw ffosydd yn cael eu torri ar gyfer ceblau tua'r tir o gymedr distyll y gorllanw heb fod methodoleg osod fanwl wedi cael ei chyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol a'i chymeradwyo ganddo'n ysgrifenedig. Bydd yr holl waith torri ffosydd tua'r tir o gymedr distyll y gorllanw yn cael ei wneud yn unol â'r fethodoleg osod gymeradwy hon.

*Rheswm: I gydymffurfio â'r amcanion morol lefel uchel yn y Datganiad Polisi Morol a lleihau'r effeithiau ar gynefinoedd Atodiad I a nodir yn y Gyfarwyddeb Cynefinoedd i'r eithaf.*

**Archaeoleg**

14) Cyn i'r gwaith datblygu ddechrau (gan gynnwys clirio'r safle, tynnu uwchbridd, ymchwiliadau tir neu waith tir arall), bydd Cynllun Ymchwilio Ysgrifenedig (WSI) ar gyfer gwaith archaeolegol yn cael ei gyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol a'i gymeradwyo ganddo'n ysgrifenedig. Bydd yr WSI yn cynnwys:

a) y fethodoleg arfaethedig ar gyfer ymchwil maes a chofnodi;

b) y rhaglen ôl-ymchwilio arfaethedig, gan gynnwys;

(i) asesu,

(ii) dadansoddi,

(iii) adrodd,

(iv) cyhoeddi,

(v) lledaenu ac,

(vi) archifo.

c) amserlen sy'n cynnwys dyddiadau ar gyfer y gwaith archaeolegol a gynigir.

Bydd y datblygiad yn cael ei gynnal yn unol â'r WSI cymeradwy.

*Rheswm: I sicrhau rhaglen liniaru archaeolegol briodol yn unol â Pholisi AT 4 y Cynllun Datblygu Lleol, Polisi Cynllunio Cymru 10 (Rhagfyr 2018) a TAN24: Yr Amgylchedd Hanesyddol.*

**Traffig a Thrafnidiaeth**

15) Cyn i'r datblygiad ddechrau cael ei adeiladu, bydd Cynllun Rheoli Traffig Adeiladu ("CTMP") yn cael ei gyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol a'i gymeradwyo ganddo'n ysgrifenedig. Bydd hyn yn cynnwys mesurau i reoli symudiadau cerbydau adeiladu'n ddiogel i'r ardaloedd adeiladu ac oddi yno a mesurau i gynnal mynediad i fusnesau a phreswylfeydd yr effeithir arnynt gan gau'r briffordd dros dro. Bydd y CTMP yn cynnwys:

a) Mesurau rheoli traffig adeiladu arfaethedig;

b) Manylion sut y bydd y gwaith adeiladu'n cael ei drefnu fesul cam;

c) Manylion llwybrau dargyfeirio arfaethedig ac arwyddion rhybudd o flaen llaw;

ch) Manylion y mesurau i reoli trefniadau mynediad ar gyfer preswylwyr lleol a thwristiaid;

d) Manylion trefniadau parcio ar gyfer gweithwyr adeiladu;

dd) Manylion mesurau i annog teithio cynaliadwy; a

e) Manylion mesurau i hebrwng cerddwyr a beicwyr yn ystod y gwaith.

Bydd y datblygiad yn cael ei adeiladu yn unol â’r CTMP cymeradwy.

*Rheswm: Er mwyn diogelwch ar y priffyrdd ac amwynder preswyl.*

**Y Gymraeg**

16) Bydd y Strategaethau Lliniaru, Optimeiddio a Monitro’r Gymraeg (“WLMOMS”) canlynol yn cael eu cyflwyno i’r Awdurdod Cynllunio Lleol a’u cymeradwyo ganddo’n ysgrifenedig:

   a) O leiaf dri mis cyn adeiladu, bydd WLMOMS ar gyfer cam adeiladu’r datblygiad yn cael ei chyflwyno i’r Awdurdod Cynllunio Lleol a’i chymeradwyo ganddo’n ysgrifenedig; ac
   b) O leiaf chwe mis cyn i’r datblygiad weithredu, bydd WLMOMS ar gyfer cam gweithredol y datblygiad yn cael ei chyflwyno i’r Awdurdod Cynllunio Lleol a’i chymeradwyo ganddo’n ysgrifenedig.

Mae’n rhaid i’r datblygiad cael ei gynnal a’i weithredu yn unol â’r strategaethau cymeradwy.

*Rheswm: I gyd-fynd ag Amcan SO1 y Cynllun Datblygu Lleol.*

**Twristiaeth a Hamdden**

17) O leiaf chwe mis cyn i’r datblygiad ddechrau cael ei adeiladu, bydd Strategaeth Monitro Twristiaeth a Hamdden yn cael ei chyflwyno i’r Awdurdod Cynllunio Lleol a’i chymeradwyo ganddo’n ysgrifenedig. Mae’n rhaid i’r datblygiad gael ei gynnal yn unol â’r strategaeth gymeradwy.

*Rheswm: I gyd-fynd â Pholisi ADN 3 y Cynllun Datblygu Lleol.*

18) Cyn i’r datblygiad ddechrau cael ei adeiladu, bydd cynigion ar gyfer Strategaeth Hyrwyddo a Dehongli yn cael eu cyflwyno i’r Awdurdod Cynllunio Lleol a’u cymeradwyo ganddo’n ysgrifenedig. Mae’n rhaid i’r datblygiad gael ei gynnal yn unol â’r strategaeth gymeradwy.

*Rheswm: I gyd-fynd ag Amcan SO14 y Cynllun Datblygu Lleol.*

**Materion Economaidd-Gymdeithasol**

19) O leiaf chwe mis cyn i’r datblygiad ddechrau cael ei adeiladu, bydd Cynllun Gweithredu Sgiliau a Hyfforddiant yn cael ei gyflwyno i’r Awdurdod Cynllunio Lleol a’i gymeradwyo ganddo’n ysgrifenedig. Bydd y datblygiad yn cael ei gynnal yn unol â’r cynllun cymeradwy.

*Rheswm: I gyd-fynd ag Amcan SO11 y Cynllun Datblygu Lleol.*

20) O leiaf chwe mis cyn i’r datblygiad ddechrau cael ei adeiladu, bydd cynigion ar gyfer y Grŵp Gorchwyl a Gorffen Hyfforddiant yn cael eu cyflwyno i’r Awdurdod Cynllunio Lleol a’u cymeradwyo ganddo’n ysgrifenedig. Mae’n rhaid i’r datblygiad gael ei gynnal yn unol â’r cynigion cymeradwy.

*Rheswm: I gyd-fynd ag Amcan SO11 y Cynllun Datblygu Lleol.*

21) O leiaf chwe mis cyn i'r datblygiad ddechrau cael ei adeiladu, bydd Cynllun Gweithredu Cadwyn Gyflenwi yn cael ei gyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol a'i gymeradwyo ganddo'n ysgrifenedig. Mae'n rhaid i'r datblygiad gael ei gynnal yn unol â'r cynllun cymeradwy.

*Rheswm: I gyd-fynd ag Amcan SO12 y Cynllun Datblygu Lleol.*

22) O leiaf dri mis cyn i'r datblygiad ddechrau cael ei adeiladu, bydd Strategaeth ar gyfer Lletya Gweithwyr Dibreswyl yn cael ei chyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol a'i chymeradwyo ganddo'n ysgrifenedig. Mae'n rhaid i'r datblygiad gael ei gynnal yn unol â'r strategaeth gymeradwy.

*Rheswm: I gyd-fynd ag Amcan SO12 y Cynllun Lleol.*

23) Ni chaiff unrhyw waith datblygu ddigwydd hyd nes bod cynllun ar gyfer digolledu tirwedd wedi cael ei gyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol a'i gymeradwyo ganddo'n ysgrifenedig. Bydd y dirwedd ddigolledu'n cael ei darparu yn unol â'r cynllun cymeradwy a'r amserlenni ynddo.

*Rheswm: I ddiogelu'r amgylchedd naturiol a chydymffurfio â Pholisïau Strategol PS 19 ac ADN 3 y Cynllun Datblygu Lleol.*

**Gweithrediadau**

24) Cyn i'r datblygiad weithredu, bydd Cynllun Rheoli Gweithredol yn cael ei gyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol a'i gymeradwyo ganddo'n ysgrifenedig. Bydd hwn yn manylu ar y mesurau i reoli seilwaith y prosiect ar yr wyneb a gweithrediadau cynnal a chadw yn ddiogel ar dir sy'n hygyrch i'r cyhoedd. Bydd yn cynnwys:

a) Manylion mesurau i atal mynediad cyhoeddus anniogel i seilwaith uwchben y tir
b) Manylion y mesurau cynnal a chadw sy'n debygol o fod yn ofynnol a'u hyd a'u hamseriadau bras
c) Manylion mesurau i leihau ymyrraeth â mynediad cyhoeddus cyn belled ag y bo'n ymarferol a manylion sut y cynhelir diogelwch cyhoeddus yn ystod y gweithrediadau cynnal a chadw
ch) Manylion sut y bydd yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn cael ei hysbysu o flaen llaw am y gweithrediadau cynnal a chadw
d) Manylion sut y bydd mesurau cynnal a chadw brys yn cael eu rheoli.

*Rheswm: Er mwyn diogelwch cyhoeddus*

**Datgomisiynu**

25) O fewn tri mis o ddarfyddiad gweithrediadau masnachol prosiect llanw alltraeth Morlais, ac o leiaf chwe mis cyn i unrhyw waith datgomisiynu ar y tir ddechrau, mae'n rhaid i gynllun datgomisiynu ysgrifenedig gael ei gyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol a'i gymeradwyo ganddo'n ysgrifenedig. Mae'n rhaid i'r cynllun datgomisiynu ysgrifenedig gynnwys Cod Ymarfer Adeiladu (CoCP) ac mae'n rhaid i'r cynllun cymeradwy gael ei weithredu fel y'i cymeradwywyd wrth gynnal unrhyw waith datgomisiynu neu ran berthnasol ohono.

*Rheswm: I ddiogelu’r amgylchedd naturiol a chydymffurfio â Pholisïau Strategol PS 5 ac ADN 3 y Cynllun Datblygu Lleol.*

# ATODIAD 2 – DOGFENNAU

| MDZ/A | Dogfennau Ffurfiol y Cais | Dyddiad cyflwyno |
|---|---|---|
| MDZ/A1 | MMC057 Cais i Weinidogion Cymru | 16/09/2019 |
| MDZ/A2 | MMC002 MOR-EVS-DOC-0015 Offeryn Statudol Cymru – TWAO Morlais | 18/09/2020 |
| MDZ/A3 | MMC004 MOR-EVS-DOC-0017 Memorandwm Esboniadol | 18/09/2020 |
| MDZ/A5 | MMC030 MOR-MM-DOC-0001 Datganiad Nodau | 16/09/2019 |
| MDZ/A6 | MMC031 MOR-MM-DOC-0002 Cynigion ar gyfer Cyllid o dan Reol 10(3)(a) | 16/09/2019 |
| MDZ/A7 | MMC032 MOR-MM-DOC-0003 Amcangyfrif o'r Costau sy'n ofynnol Rheol 10(3)(b)(ii) | 16/09/2019 |
| MDZ/A8 | MMC060 MOR-RHDHV-DOC-0105 Aráe Llanw Morlais – Barn Gwmpasu | 16/09/2019 |
| MDZ/A9 | MMC012 MOR-ATEB-DOC-0066 Adroddiad Ymgynghori | 16/09/2019 |
| MDZ/A10 | MMC175 MOR-RHDHV-DOC-0072 (03) EMMP Amlinellol (Diwygiedig)* | 03/07/2020 |
| MDZ/A11 | MMC038 MOR-RHDHV-DOC-0073 CEMP Amlinellol | 16/09/2019 |
| MDZ/A12 | MMC128 MOR-SLR-DOC-0002 Cynllun Rheoli Tirwedd Amlinellol | 27/03/2020 |
| MDZ/A13 | MMC039 MOR-RHDHV-DOC-0075 ISMP Amlinellol | 16/09/2019 |
| MDZ/A14 | MMC040 MOR-RHDHV-DOC-0076 CoCP Amlinellol | 16/09/2019 |
| MDZ/A15 | MMC041 MOR-RHDHV-DOC-0077 PPMP Amlinellol | 16/09/2019 |
| MDZ/A16 | MMC019 MOR-BAY-DOC-0002 Llyfr Cyfeirio | 16/09/2019 |
| MDZ/A16.2 | MMC449 MOR-EVS-DOC-0015 (02) Offeryn Statudol Cymru – TWAO Morlais | 02/11/2020 |
| MDZ/A16.3 | MMC450 MOR-EVS-DOC-0016 (02) Parth Arddangos Morlais – olrheiniwr newidiadau i'r Gorchymyn | 02/11/2020 |

| | | |
|---|---|---|
| MDZ/A16.4 | MMC451 MOR-EVS-DOC-0017 (02) Memorandwm Esboniadol | 02/11/2020 |
| MDZ/A16.5 | MMC452 MOR-EVS-DOC-0018 (02) Memorandwm Esboniadol - compareite | 02/11/2020 |
| MDZ/A16.6 | MMC453 MOR-EVS-DOC-0019 (02) Offerynnau Statudol Cymru - compareite | 02/11/2020 |
| MDZ/A16.7 | MMC446 MOR-WSP-DOC-0020 Map Llwybr Lliniaru Morlais | 02/11/2020 |
| MDZ/A16.8 | MMC447 MOR-RHDHV-DOC-0072 (04) EMMP Amlinellol (Diwygiedig) | 02/11/2020 |
| | **Cynlluniau a Thrychiadau Gwaith a Thir** | |
| MDZ/A17.1 | MMC021 MOR-BAY-DRW-0002 TWAO Map1 Cynllun Lleoliad | 16/09/2019 |
| MDZ/A17.2 | MMC022 MOR-BAY-DRW-0003 TWAO Map2 Cynllun Lleoliad | 16/09/2019 |
| MDZ/A17.3 | MMC023 MOR-BAY-DRW-0004 TWAO Map3 Cynllun Lleoliad | 16/09/2019 |
| MDZ/A17.4 | MMC024 MOR-BAY-DRW-0005 TWAO Map4 Cynllun Lleoliad | 16/09/2019 |
| MDZ/A17.5 | MMC025 MOR-BAY-DRW-0006 TWAO Map5 Cynllun Lleoliad | 16/09/2019 |
| MDZ/A17.6 | MMC026 MOR-BAY-DRW-0007 TWAO Map6 Cynllun Lleoliad | 16/09/2019 |
| MDZ/A17.7 | MMC027 MOR-BAY-DRW-0008 TWAO Map7 Cynllun Lleoliad | 16/09/2019 |
| MDZ/A17.8 | MMC028 MOR-BAY-DRW-0009 TWAO Map8 Cynllun Lleoliad | 16/09/2019 |
| MDZ/A17.9 | MMC029 MOR-BAY-DRW-0010 TWAO Cynllun Lleoliad ac Allwedd (Cynllun Trosolwg) | 16/09/2019 |
| | **Cais Cynllunio Tybiedig** | |
| MDZ/A19 | MMC034 MOR-EVS-DOC-0009 Cais am Ganiatâd Cynllunio Tybiedig | 16/09/2019 |
| MDZ/A20 | MMC043 MOR-WSP-DOC-0015 Datganiad Cynllunio | 16/09/2019 |
| MDZ/A21.1 | MMC045 MOR-WSP-DRW-0001 70061106-001 Cynllun Lleoliad Safle | 16/09/2019 |
| MDZ/A21.2 | MMC046 MOR-WSP-DRW-0002 70061106-002 Cynllun Safle Dangosol – Is-orsaf y Lanfa | 16/09/2019 |
| MDZ/A21.3 | MMC047 MOR-WSP-DRW-0003 70061106-003 Cynllun Safle Dangosol – Adeilad Offer Switshis | 16/09/2019 |
| MDZ/A21.4 | MMC048 MOR-WSP-DRW-0004 70061106-004 Cynllun Safle Dangosol – Is-orsaf y Grid | 16/09/2019 |

| | | |
|---|---|---|
| MDZ/A21.5 | MMC049 MOR-WSP-DRW-0005 70061106-005 Cynllun Safle Presennol – Is-orsaf y Lanfa | 16/09/2019 |
| MDZ/A21.6 | MMC050 MOR-WSP-DRW-0006 70061106-006 Cynllun Safle Presennol – Adeilad Offer Switshis | 16/09/2019 |
| MDZ/A21.7 | MMC051 MOR-WSP-DRW-0007 70061106-007 Cynllun Safle Presennol – Is-orsaf y Grid | 16/09/2019 |
| MDZ/A21.8 | MMC052 MOR-WSP-DRW-0008 70061106-008 GA – Is-orsaf y Lanfa | 16/09/2019 |
| MDZ/A21.9 | MMC053 MOR-WSP-DRW-0009 70061106-009 GA – Adeilad Offer Switshis | 16/09/2019 |
| MDZ/A21.10 | MMC054 MOR-WSP-DRW-0010 70061106-010 GA – Adeilad Cysylltu â'r Grid | 16/09/2019 |
| MDZ/A21.11 | MMC055 MOR-WSP-DRW-0011 70061106-011 - Gweddluniau | 16/09/2019 |
| MDZ/A21.12 | MMC056 MOR-WSP-DRW-0012 70061106-012 - Gweddluniau | 16/09/2019 |
| MDZ/A22 | MMC037 MOR-ITH-DOC-001 Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg TERFYNOL | 16/09/2019 |
| MDZ/A23 | MMC059 MOR-RHDHV-DOC-0103 Crynodeb Annhechnegol o'r ES (Cym) | 16/09/2019 |
| MDZ/A24 | MMC061 MOR-RHDHV-DOC-0068 Crynodeb Annhechnegol | 16/09/2019 |
| MDZ/A24.2 | MMC289 MOR-WSP-DOC-0018 Amodau Cynllunio Arfaethedig | 18/09/2020 |
| | **Datganiad Amgylcheddol Cyfrol 1 (Prif Adroddiad)** | |
| MDZ/A25.1 | MMC062 MOR-RHDHV-DOC-0001 Cyfrol I Pennod 1: Cyflwyniad | 16/09/2019 |
| MDZ/A25.2 | MMC072 MOR-RHDHV-DOC-0003a Cyfrol I Pennod 2: Polisi a Deddfwriaeth | 16/09/2019 |
| MDZ/A25.3 | MMC081 MOR-RHDHV-DOC-0003b Cyfrol I Pennod 3: Dewis Safle ac Ystyried Dewisiadau Amgen | 16/09/2019 |
| MDZ/A25.4 | MMC131 MOR-RHDHV-DOC-0004 ES Pennod 4: Disgrifiad o'r Prosiect | 27/03/2020 |
| MDZ/A25.5 | MMC082 MOR-RHDHV-DOC-0007 Cyfrol I Pennod 5: Methodoleg EIA | 16/09/2019 |
| MDZ/A25.6 | MMC083 MOR-RHDHV-DOC-0008 Cyfrol I Pennod 6: Ymgynghori | 16/09/2019 |
| MDZ/A25.7 | MMC084 MOR-RHDHV-DOC-0009 Cyfrol I Pennod 7: Amodau'r Tywydd a'r Môr a Phrosesau Arfordirol | 16/09/2019 |
| MDZ/A25.8 | MMC085 MOR-RHDHV-DOC-0011 Cyfrol I Pennod 8: Ansawdd Dŵr y Môr a Gwaddodion | 16/09/2019 |
| MDZ/A25.9 | MMC086 MOR-RHDHV-DOC-0013 Cyfrol I Pennod 9: Ecoleg Fenthig a Rhynglanw | 16/09/2019 |

| | | |
|---|---|---|
| MDZ/A25.10 | MMC063 MOR-RHDHV-DOC-0015 Cyfrol I Pennod 10: Ecoleg Pysgod a Physgod Cregyn | 16/09/2019 |
| MDZ/A25.11 | MMC064 MOR-RHDHV-DOC-0016 Cyfrol I Pennod 11: Adareg Forol | 16/09/2019 |
| MDZ/A25.12 | MMC065 MOR-RHDHV-DOC-0020 Cyfrol I Pennod 12: Mamaliaid Môr | 16/09/2019 |
| MDZ/A25.13 | MMC066 MOR-RHDHV-DOC-0025 Cyfrol I Pennod 13: Archaeoleg a Threftadaeth Ddiwylliannol Alltraeth | 16/09/2019 |
| MDZ/A25.14 | MMC067 MOR-RHDHV-DOC-0027 Cyfrol I Pennod 14: Pysgodfeydd Masnachol | 16/09/2019 |
| MDZ/A25.15 | MMC194 MOR-MSP-DOC-002 Cyfrol I Pennod 15: Morgludiant a Mordwyo (Diwygiedig) | 18/09/2020 |
| MDZ/A25.16 | MMC068 MOR-RHDHV-DOC-0031 Cyfrol I Pennod 16: Seilwaith a Defnyddwyr Eraill | 16/09/2019 |
| MDZ/A25.17 | MMC069 MOR-RHDHV-DOC-0032 Cyfrol I Pennod 17: Adnoddau Dŵr a Pherygl Llifogydd | 16/09/2019 |
| MDZ/A25.18 | MMC070 MOR-RHDHV-DOC-0034 Cyfrol I Pennod 18: Cyflwr y Tir a Halogiad | 16/09/2019 |
| MDZ/A25.19 | MMC071 MOR-RHDHV-DOC-0037 Cyfrol I Pennod 19: Ecoleg ar y Tir | 16/09/2019 |
| MDZ/A25.20 | MMC073 MOR-RHDHV-DOC-0041 Cyfrol I Pennod 20: Archaeoleg a Threftadaeth Ddiwylliannol ar y Tir | 16/09/2019 |
| MDZ/A25.21 | MMC074 MOR-RHDHV-DOC-0044 Cyfrol I Pennod 21: Sŵn a Dirgryniad | 16/09/2019 |
| MDZ/A25.22 | MMC075 MOR-RHDHV-DOC-0049 Cyfrol I Pennod 22: Ansawdd Aer | 16/09/2019 |
| MDZ/A25.23 | MMC076 MOR-RHDHV-DOC-0051 Cyfrol I Pennod 23: Traffig a Thrafnidiaeth | 16/09/2019 |
| MDZ/A25.24 | MMC077 MOR-RHDHV-DOC-0054 Cyfrol I Pennod 24: Asesiad o'r Effaith Weledol a'r Effaith ar y Dirwedd a'r Morlun | 16/09/2019 |
| MDZ/A25.25 | MMC078 MOR-RHDHV-DOC-0060 Cyfrol I Pennod 25: Materion Economaidd-Gymdeithasol, Twristiaeth a Hamdden | 16/09/2019 |
| MDZ/A25.26 | MMC079 MOR-RHDHV-DOC-0063 Cyfrol I Pennod 26: Cronnol a Chyfunol | 16/09/2019 |
| MDZ/A25.27 | MMC080 MOR-RHDHV-DOC-0065 Cyfrol I Pennod 27: Crynodeb | 16/09/2019 |
| | **Datganiad Amgylcheddol Cyfrol 2 (Ffigurau)** | |
| MDZ/A26.1 | MMC089 MOR-RHDHV-DRW-0078 Cyfrol II Pennod 1: Cyflwyniad | 16/09/2019 |
| MDZ/A26.2 | MMC087 MOR-RHDHV-DRW-0079 Cyfrol II Pennod 3: Dewis Safle ac Ystyried Dewisiadau Amgen | 16/09/2019 |

| | | |
|---|---|---|
| MDZ/A26.3 | MMC104 MOR-RHDHV-DRW-0081 Cyfrol II  Pennod 7: Amodau'r Tywydd a'r Môr a Phrosesau Arfordirol | 16/09/2019 |
| MDZ/A26.4 | MMC106 MOR-RHDHV-DRW-0083 Cyfrol II  Pennod 9: Ecoleg Fenthig a Rhynglanw | 16/09/2019 |
| MDZ/A26.5 | MMC090 MOR-RHDHV-DRW-0084 Cyfrol II  Pennod 10: Ecoleg Pysgod a Physgod Cregyn | 16/09/2019 |
| MDZ/A26.6 | MMC091 MOR-RHDHV-DRW-0085 Cyfrol II  Pennod 11: Adareg Forol | 16/09/2019 |
| MDZ/A26.7 | MMC092 MOR-RHDHV-DRW-0086 Cyfrol II  Pennod 12: Mamaliaid Môr | 16/09/2019 |
| MDZ/A26.8 | MMC098 MOR-RHDHV-DRW-0093 Cyfrol II  Pennod 19: Ecoleg ar y Tir | 16/09/2019 |
| MDZ/A26.9 | MMC102 MOR-RHDHV-DRW-0098 Cyfrol II  Pennod 24: Asesiad o'r Effaith Weledol a'r Effaith ar y Dirwedd a'r Morlun | 16/09/2019 |
| MDZ/A26.10 | MMC103 MOR-RHDHV-DRW-0099 Cyfrol II  Pennod 26: Asesiad o'r Effaith Gronnol, Drawsffiniol a Chyfunol | 16/09/2019 |
| | **Datganiad Amgylcheddol Cyfrol 3 (Atodiadau)** | |
| MDZ/A27.1 | MMC121 MOR-RHDHV-APP-0005-0006 Cyfrol III  Pennod 4: Disgrifiad o'r Prosiect | 16/09/2019 |
| MDZ/A27.2 | MMC122 MOR-RHDHV-APP-0010 Cyfrol III  Pennod 7: Amodau'r Tywydd a'r Môr a Phrosesau Arfordirol | 16/09/2019 |
| MDZ/A27.3 | MMC123 MOR-RHDHV-APP-0012 Cyfrol III  Pennod 8: Ansawdd Dŵr y Môr a Gwaddodion | 16/09/2019 |
| MDZ/A27.4 | MMC124 MOR-RHDHV-APP-0014 Cyfrol III  Pennod 9: Ecoleg Fenthig a Rhynglanw | 16/09/2019 |
| MDZ/A27.5 | MMC107 MOR-RHDHV-APP-0017-0019 Cyfrol III  Pennod 11: Adareg Forol | 16/09/2019 |
| MDZ/A27.6 | MMC108 MOR-RHDHV-APP-0021-0024 Cyfrol III  Pennod 12: Mamaliaid Môr | 16/09/2019 |
| MDZ/A27.7 | MMC113 MOR-RHDHV-APP-0038-0040 Cyfrol III  Pennod 19: Ecoleg ar y Tir Anghyfrinachol | 16/09/2019 |
| MDZ/A27.8 | MMC118 MOR-RHDHV-APP-0055-0059 Cyfrol III  Pennod 24: Asesiad o'r Effaith Weledol a'r Effaith ar y Dirwedd a'r Morlun | 16/09/2019 |
| MDZ/A27.9 | MMC119 MOR-RHDHV-APP-0061-0062 Cyfrol III  Pennod 25: Materion Economaidd-Gymdeithasol, Twristiaeth a Hamdden | 16/09/2019 |
| MDZ/A27.10 | MMC120 MOR-RHDHV-APP-0064 Cyfrol III  Pennod 26: Asesiad o'r Effaith Gronnol, Drawsffiniol a Chyfunol | 16/09/2019 |

| | | |
|---|---|---|
| MDZ/A27.11 | MMC033 MOR-RHDHV-DOC-0067 HRA Gwybodaeth i Gefnogi Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd | 16/09/2019 |
| | **Gwybodaeth Amgylcheddol Ychwanegol** | |
| MDZ/A28.1 | MMC186 MOR-RHDHV-DOC-0147 ES Cyfrol II Pennod 4 Ffigurau | 27/03/2020 |
| MDZ/A28.2 | MMC308 MOR-RHDHV-DOC-0128 Nodyn Cymharu Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru | 27/03/2020 |
| MDZ/A28.3 | MMC137 MOR-RHDHV-DOC-0112 Nodyn Ategol Modelu Rhifiadol y Tywydd a'r Môr a Phrosesau Ffisegol | 27/03/2020 |
| MDZ/A28.4 | MMC136 MOR-RHDHV-DOC-0111 Nodyn Ategol ES y Tywydd a'r Môr a Phrosesau Ffisegol | 27/03/2020 |
| MDZ/A28.5 | MMC138 MOR-RHDHV-DOC-0113 Ymatebion i sylwadau CNC ar Faterion Ecoleg Fenthig a Rhynglanw | 27/03/2020 |
| MDZ/A28.6 | MMC176 MOR-RHDHV-DOC-0114 Ymatebion i sylwadau CNC ar Faterion Ecoleg Bysgod | 27/03/2020 |
| MDZ/A28.7 | MMC361 MOR-RHDHV-DOC-0115 (04) Modelu Risg Gwrthdrawiad Adareg Forol | 27/03/2020 |
| MDZ/A28.8 | MMC175 MOR-RHDHV-DOC-0072 (03) Cynllun Lliniaru a Monitro Amgylcheddol Amlinellol | 27/03/2020 |
| MDZ/A28.9 | MMC152 MOR-RHDHV-DOC-0120 (02) Ymateb Adareg ar y Tir i Sylwadau ar Frain Coesgoch | 27/03/2020 |
| MDZ/A28.10 | MMC139 MOR-RHDHV-DOC-0116 Adroddiad Modelu Sŵn Tanddwr | 27/03/2020 |
| MDZ/A28.11 | MMC140 MOR-RHDHV-DOC-0117 Nodyn Modelu Sŵn Tanddwr Mamaliaid Môr | 27/03/2020 |
| MDZ/A28.12 | MMC364 MOR-RHDHV-DOC-0118 (02) Modelu Risg Gwrthdrawiad Ychwanegol Mamaliaid Môr | 27/03/2020 |
| MDZ/A28.13 | MMC142 MOR-RHDHV-DOC-0119 Opsiynau Monitro a Lliniaru Mamaliaid Môr | 27/03/2020 |
| MDZ/A28.14 | MMC144 MOR-RHDHV-DOC-0124 Ymatebion Mordwyo a Morgludiant | 27/03/2020 |
| MDZ/A28.15 | MMC196 MOR-MCO-DOC-001 Atodiad i'r Asesiad Risg Mordwyo – Medi 2020 | 27/03/2020 |
| MDZ/A28.16 | MMC125 MOR-MM-DOC-0008 Cynllun Gweithredu Sgiliau a Hyfforddiant Amlinellol | 27/03/2020 |
| MDZ/A28.17 | MMC126 MOR-MM-DOC-0009 Strategaeth Monitro Twristiaeth a Hamdden Amlinellol | 27/03/2020 |
| MDZ/A28.18 | MMC353 MOR-RHDHV-DOC-0110 (04) Diweddariad i'r Asesiad Ecoleg Ddaearol | 27/03/2020 |

| | | |
|---|---|---|
| MDZ/A28.19 | MMC146 MOR-SLR-DOC-0001 Ymateb i'r Asesiad o'r Effaith Weledol a'r Effaith ar y Dirwedd a'r Morlun | 27/03/2020 |
| MDZ/A28.20 | MMC128 MOR-SLR-DOC-0002 Cynllun Rheoli Tirwedd Amlinellol | 27/03/2020 |
| MDZ/A28.21 | MMC150 MOR-MM-DOC-0011 Ymateb a chyfeirio at ORML1938 Cais am Wybodaeth Ychwanegol 160420.xlsxv* | 21/05/2020 |
| MDZ/A28.22 | MMC153 MOR-RHDHV-DOC-0126 Cyfeirio ar gyfer ymatebion i ORML1938_RSPB.xlsx* | 21/05/2020 |
| MDZ/A28.23 | MMC154 MOR-RHDHV-DOC-0127 Cyfeirio ar gyfer ymatebion i ORML1938_ABPmer.xlsx* | 21/05/2020 |
| MDZ/A28.24 | MMC155 MOR-RHDHV-DOC-0127a Ymateb Ecoleg Bysgod i sylwadau ABPMer* | 21/05/2020 |
| MDZ/A28.25 | MMC156 MOR-RHDHV-DOC-0127b Taenlen Matrics PDE (gan gynnwys paramedrau Cam 1).xlsx* | 21/05/2020 |
| MDZ/A28.26 | MMC157 MOR-RHDHV-DOC-0129 Ymateb a chyfeirio at ORML1938_NRW Advisory .xlsx* | 21/05/2020 |
| MDZ/A28.27 | MMC158 MOR-RHDHV-DOC-0130 Cyfeirio ar gyfer ymatebion i ORML1938_Trinity House.xlsx* | 21/05/2020 |
| MDZ/A28.28 | MMC159 MOR-RHDHV-DOC-0131 Cyfeirio ar gyfer ymatebion i ORML1938_RYA.xlsx* | 21/05/2020 |
| MDZ/A28.29 | MMC160 MOR-RHDHV-DOC-0132 Cyfeirio ar gyfer ymatebion i ORML1938_Siambr Morgludiant.xlsx* | 21/05/2020 |
| MDZ/A28.30 | MMC161 MOR-RHDHV-DOC-0133 Cyfeirio ar gyfer ymatebion i ORML1938_MCA.xlsx* | 21/05/2020 |
| MDZ/A28.31 | MMC162 MOR-RHDHV-DOC-0134 Cyfeirio ar gyfer ymatebion i ORML1938_GAPS.xlsx* | 21/05/2020 |
| MDZ/A28.32 | MMC163 MOR-RHDHV-DOC-0135 Cyfeirio ar gyfer ymatebion i ORML1938_yr holl sylwadau cyhoeddus 210120* | 21/05/2020 |
| MDZ/A28.33 | MMC164 MOR-RHDHV-DOC-0137 Adroddiad hydrograffig a geoffisegol Partrac Cyfrol 1 Adroddiad Gweithredu* | 21/05/2020 |
| MDZ/A28.34 | MMC165 MOR-RHDHV-DOC-0138 Cyfeirio ar gyfer ymatebion i ORML1938_DAERA.xlsx* | 21/05/2020 |
| MDZ/A28.35 | MMC166 MOR-RHDHV-DOC-0139 Adroddiad hydrograffig a geoffisegol Partrac Cyfrol 2 Adroddiad Arolwg* | 21/05/2020 |
| MDZ/A28.36 | MMC167 MOR-RHDHV-DOC-0140 P18030_004_ISOPACHYTE R1 (R0)* | 21/05/2020 |
| MDZ/A28.37 | MMC168 MOR-RHDHV-DOC-0141 P18030_001_BATHYMETRY (R0)* | 21/05/2020 |
| MDZ/A28.38 | MMC169 MOR-RHDHV-DOC-0142 P18030_003_SSS MOSAIC (R0)* | 21/05/2020 |

| | | |
|---|---|---|
| MDZ/A28.39 | MMC170 MOR-RHDHV-DOC-0143 Nodyn egluro achos gwaethaf y model tonnau* | 21/05/2020 |
| MDZ/A28.40 | MMC171 MOR-RHDHV-DOC-0144 Ffigur 15-14 Llwybrau caiacio GIS a dangos parthau eithrio gweithredol* | 21/05/2020 |
| MDZ/A28.41 | MMC172 MOR-RHDHV-DOC-0145_Cyfeirio ar gyfer ymatebion i ORML1938_Pysgodfeydd LlC.xlsx* | 21/05/2020 |
| MDZ/A28.42 | MMC173 MOR-WSP-DOC-0019_Cyfeirio ar gyfer ymatebion i ORML1938_IACC.xlsx* | 21/05/2020 |
| MDZ/A28.43 | MMC176 MOR-RHDHV-DOC-0114 (02) Ymatebion i sylwadau CNC ar Faterion Ecoleg Bysgod (Diwygiedig)* | 03/07/2020 |
| MDZ/A28.44 | MMC177 MOR-RHDHV-DOC-0125 (03) Matrics Asesu Effeithiau Cronnol (Diwygiedig).xlsx* | 03/07/2020 |
| MDZ/A28.45 | MMC178 MOR-RHDHV-DOC-0130a Ymateb Cyfeirio at Lythyr 050620.xlsx* | 03/07/2020 |
| MDZ/A28.46 | MMC179 MOR-RHDHV-DOC-0131a Crynodeb Annhechnegol ac ES Pennod 27 Atodiad Cryno* | 03/07/2020 |
| MDZ/A28.47 | MMC180 MOR-RHDHV-DOC-0132a Ymatebion ychwanegol i sylwadau CNC ar Ecoleg Bysgod* | 03/07/2020 |
| MDZ/A28.48 | MMC181 MOR-RHDHV-DOC-0133a Atodiad i'r Bennod CIA* | 03/07/2020 |
| MDZ/A28.49 | MMC182 MOR-RHDHV-DOC-0134a Dogfen Gyfeirio CIA.xlsx* | 03/07/2020 |
| MDZ/A28.50 | MMC183 MOR-RHDHV-DOC-0135a Nodyn Mireinio Dyluniad Cynefin Clogwyn* | 03/07/2020 |
| MDZ/A28.51 | MMC184 20UK1619_RN_MM_VTS02-02 Asesiad Ffiniau Rhyngweithiol* | 08/07/2020 |
| MDZ/A28.52 | MMC185 MOR-RHDHV-DOC-0146 Ymatebion Cyfeirio at TWAO | 18/09/2020 |
| MDZ/A28.53 | MMC186 MOR-RHDHV-DOC-0147 ES Cyfrol II Pennod 4 Ffigurau | 18/09/2020 |
| MDZ/A28.54 | MMC187 MOR-RHDHV-APP-00126a Atodiad 8.1 Asesiad Cydymffurfio â'r WFD | 18/09/2020 |
| MDZ/A28.55 | MMC188 MOR-RHDHV-DOC-0148 Prosiect Morlais – Ymateb Ansawdd Aer | 18/09/2020 |
| MDZ/A28.56 | MMC191 MOR-RHDHV-DOC-0150 Tagio Gwylogod a Llursod | 18/09/2020 |
| MDZ/A28.57 | MMC192 MOR-RHDHV-DOC-0128 (03) Nodyn Cymharu WNMP | 18/09/2020 |
| MDZ/A28.58 | MMC193 MOR-BAU-DOC-0003 Asesiad Atodol o Weithgareddau Caiacio a Hwylio | 18/09/2020 |
| MDZ/A28.59 | MMC194 MOR-MSP-DOC-002 Cyfrol 1 Pennod 15 Morgludiant a Mordwyo (Diwygiedig) | 18/09/2020 |

| | | |
|---|---|---|
| MDZ/A28.60 | MMC197 MOR-RHDHV-DOC-0107 Prosiect Morlais – Gwybodaeth Amgylcheddol Ychwanegol.pdf | 18/09/2020 |
| MDZ/A28.61 | Asesiad o Leoliadau Archaeoleg ar y Tir ar gyfer Seilwaith Alltraeth | 18/09/2020 |
| MDZ/A29 | Cais Tir Categori Arbennig | 20/10/2020 |
| MDZ/A30 | Olrheiniwr Newidiadau TWAo | 18/09/2020 |
| MDZ/A31.1 | MMC350 MOR-HRW-DOC-0002 Gwybodaeth ychwanegol am newidiadau rhagfynedig i gerhyntau | 19/10/2020 |
| MDZ/A31.2 | MMC351 MOR-MSP-DOC-003 Gwybodaeth Ychwanegol i Gefnogi Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd Morlais (pysgod mudol) | 19/10/2020 |
| MDZ/A31.3 | MMC352 MOR-MSP-DOC-004 Gwybodaeth Amgylcheddol Ychwanegol – Cynefinoedd Benthig Atodiad 1 | 19/10/2020 |
| MDZ/A31.4 | MMC353 MOR-RHDHV-DOC-0110 (4) Diweddariad ar yr Asesiad Ecoleg Ddaearol | 19/10/2020 |
| MDZ/A31.9 | MMC360 MOR-RHDHV-DOC-0153 Dogfen Gyfeirio Ddiwygiedig Modelu Risg Gwrthdrawiad Adareg Forol | 22/10/2020 |
| MDZ/A31.10 | MMC361 MOR-RHDHV-DOC-0115 (03) Nodyn Modelu Risg Gwrthdrawiad Adareg Forol | 22/10/2020 |
| MDZ/A31.11 | MMC362 MOR-RHDHV-DOC-0016 (04) Cyfrol I Pennod 11: Adareg Forol | 22/10/2020 |
| MDZ/A31.12 | MMC363 MOR-RHDHV-APP-0019 (04) Cyfrol III Pennod 11.3: Adareg Forol | 22/10/2020 |
| MDZ/A31.13 | MMC364 MOR-RHDHV-DOC-0118 (02) Modelu Risg Gwrthdrawiad Ychwanegol Mamaliaid Môr | 22/10/2020 |
| MDZ/A31.14 | MMC365 MOR-RHDHV-DOC-0020 (02) Cyfrol I Pennod 12: Mamaliaid Môr | 22/10/2020 |
| MDZ/A31.15 | MMC366 MOR-RHDHV-APP-0022 (02) Cyfrol III Pennod 12.2: Mamaliaid Môr | 22/10/2020 |
| MDZ/A31.16 | MMC367 MOR-RHDHV-DOC-0067 (02) Gwybodaeth i Gefnogi HRA | 22/10/2020 |
| MDZ/A31.17 | MMC368 MOR-RHDHV-DOC-0154 Dogfen Gyfeirio Ddiwygiedig Modelu Risg Gwrthdrawiad Mamaliaid Môr | 22/10/2020 |

| **MDZ/B** | **Dogfennau Cyfreithiol** | **Dyddiad Cyhoeddi** |
|---|---|---|
| MDZ/B1 | MMC285 MOR-MSP-DOC-0023 Deddf Trafnidiaeth a Gweithfeydd 1992 | 1992 |
| MDZ/B2 | Adran 90(2A), Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 | 1990 |
| MDZ/B3 | MMC286 MOR-MSP-DOC-0024 Rheolau Trafnidiaeth a Gweithfeydd (Gweithdrefn Geisiadau a Gwrthwynebiadau) (Cymru a Lloegr) 2006 | 2006 |
| MDZ/B4 | MMC283 MOR-MSP-DOC-0021 Rheolau Trafnidiaeth a Gweithfeydd (Gweithdrefn Ymchwiliadau) 2004 | 2004 |
| MDZ/B5 | Y Gyfarwyddeb Cynefinoedd | 1992 |
| MDZ/B6 | Rheoliadau Cynefinoedd 2017 | 2017 |
| MDZ/B7 | Rheoliadau Cynefinoedd Alltraeth 2017 | 2017 |
| MDZ/B8 | Y Gyfarwyddeb Adar | 2009 |
| MDZ/B9 | Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 – (darnau perthnasol yn unig) | 2016 |
| MDZ/B10 | Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019 | 2019 |
| MDZ/B11 | Cyfarwyddeb Ynni Adnewyddadwy 2009/28/EC | 2009 |
| MDZ/B13 | MMC425 TWAo Fferm Wynt ar y Môr Cefnenni Tywod Scarweather 2004 | 2004 |
| MDZ/B14 | MMC426 Gorchymyn Gorsaf Gynhyrchu Ynni'r Llanw Bae Abertawe 2015 | 2015 |
| MDZ/B15 | MMC242 MOR-POL-DOC-045 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 | 2015 |
| MDZ/B16 | MMC245 MOR-POL-DOC-048 Deddf Cymru 2017 | 2017 |

| **MDZ/C** | **Dogfennau Economaidd** | **Dyddiad Cyflwyno** |
|---|---|---|

| | | |
|---|---|---|
| MDZ/C1 | MMC205 MOR-EXT-DOC-008 Arfarniad prosiect ar gyfer WEFO (adroddiad Catapult) | 18/09/2020 |

| **MDZ/D** | **Dogfennau Polisi** | **Dyddiad Cyhoeddi** |
|---|---|---|
| MDZ/D1 | MMC254 MOR-POL-DOC-057 Llywodraeth Cymru: Polisi Cynllunio Cymru 10fed Argraffiad | Rhag-18 |
| MDZ/D2 | MMC257 MOR-POL-DOC-060 Datganiad Polisi Cenedlaethol Trosfwaol EN-1 ar Ynni | Gorff-11 |
| MDZ/D3 | MMC258 MOR-POL-DOC-061 Datganiad Polisi Cenedlaethol EN-3 ar Ynni Adnewyddadwy | Gorff-11 |
| MDZ/D4 | MMC271 MOR-POL-DOC-074 Datganiad Polisi Morol y Deyrnas Unedig | Maw-11 |
| MDZ/D5 | MMC272 MOR-POL-DOC-075 Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru 2019 | Tach-19 |
| MDZ/D6 | MMC273 MOR-POL-DOC-076 Fframwaith Datblygu Cenedlaethol Drafft | 2019 |
| MDZ/D7 | MMC222 MOR-EXT-DOC-025 Adolygiad o Gynllun Rheoli AHNE Ynys Môn 2015-2020 | 2015 |
| MDZ/D8 | MMC281 MOR-POL-DOC-084 Pwyllgor ar Newid Hinsawdd – Lleihau Allyriadau'r Deyrnas Unedig | Meh-20 |
| MDZ/D9 | MMC294 MOR-EXT-DOC-037 Adroddiad Arolygydd PINS – Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol | 11/10/2018 |
| MDZ/D10 | MMC295 MOR-EXT-DOC-038 Llythyr Penderfyniad Llywodraeth Cymru – Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol | 08/11/2018 |
| MDZ/D11 | MMC299 MOR-POL-DOC-086 Datganiad i'r Wasg Llywodraeth Cymru – Datganiad Argyfwng Hinsawdd 2019 | 29/04/2019 |
| MDZ/D12 | MMC300 MOR-POL-DOC-087 DATGANIAD CABINET Llywodraeth Cymru ar Sero-Net | 11/06/2019 |
| MDZ/D13 | MMC336 Adroddiad Gweithdy Parthau Arddangos Tonnau a Llanw y Deyrnas Unedig | Medi-15 |
| MDZ/D14 | MMC337 Nodyn Cyngor Naw: Amlen Rochdale, yr Arolygiaeth Gynllunio | Gorff-18 |
| MDZ/D15 | MMC369 Canllawiau Gweithredu'r Cynllun Morol Cenedlaethol (2020) | Meh-20 |
| MDZ/D16 | MMC370 Methodoleg ar gyfer Asesu Diogelwch Mordwyol a Risgiau Ymateb Brys Gosodiadau Ynni Adnewyddadwy Alltraeth (2013) | 2013 |

| | | |
|---|---|---|
| MDZ/D41 | MMC395 Atodlen Newidiadau i'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol drafft | 21/09/2020 |
| MDZ/D42 | MMC396 Llyn Bran – Adroddiad yr Arolygydd ar Apêl Fferm Wynt | 27/07/2017 |
| MDZ/D43 | MMC397 Llythyr penderfyniad Llywodraeth Cymru, Fferm Wynt Llyn Bran | 11/01/2018 |
| MDZ/D44 | MMC398 Llythyr penderfyniad Llywodraeth Cymru ynglŷn â Fferm Wynt a gynigiwyd ger Llandrindod, Powys | 25/10/2018 |
| MDZ/D45 | MMC399 Cylchlythyr Llywodraeth Cymru 'Defnyddio Amodau Cynllunio i Reoli Datblygu' | Hyd-14 |
| MDZ/D47 | MMC401 Llywodraeth Cymru, Ynni Cymru: Newid Carbon Isel | Maw-12 |
| MDZ/D48 | MMC402 Neges e-bost yr Ysgrifennydd Gwladol dros BEIS ynglŷn â'r Prosiect Cyfraith Dda | 25/09/2020 |
| MDZ/D49 | MMC403 Vince a'r Prosiect Cyfraith Dda v Yr Ysgrifennydd Gwladol dros BEIS – Datganiad Ffeithiau a Seiliau, yr Uchel Lys | 14/05/2020 |
| MDZ/D50 | MMC429 Ymateb y Llywodraeth i Adroddiad Cynnydd 2020 y Pwyllgor ar Newid Hinsawdd i'r Senedd | 2020 |
| MDZ/D51 | MMC430 Cynllun Rheoli AHNE Ynys Môn 2015 – 2020 Atodiad 1 | 2015 |
| MDZ/D52 | MMC259 MOR-POL-DOC-062 Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Ynys Môn a Gwynedd | 31/7/2017 |
| MDZ/D53 | MDZ_D53 Y Frenhines ar gais ClientEarth v Yr Ysgrifennydd Gwladol dros Fusnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol v Drax Power | 22/05/2020 |
| MDZ/D54 | Perchenogaeth leol ar gynhyrchu ynni yng Nghymru – o fudd i Gymru heddiw ac i genedlaethau'r dyfodol | 2020 |

| **MDZ/E** | **Dogfennau TWA / Ymchwiliad** | **Dyddiad y Ddogfen** |
|---|---|---|
| MDZ/E2.1 | Hysbysiad o Wybodaeth Amgylcheddol Ychwanegol | 01/04/2020 |
| MDZ/E2.2 | Hysbysiad o Wybodaeth Amgylcheddol Ychwanegol | 19/10/2020 |
| MDZ/E2.3 | Hysbysiad o Eglurhad o'r Wybodaeth Amgylcheddol | 24/10/2020 |
| MDZ/E3 | Rhestr o Dystion yr Ymgeisydd | 02/11/2020 |

| | | |
|---|---|---|
| MDZ/E4 | Affidafid o dan Reol 10(8) Cydymffurfio â Darpariaethau Rheolau 14(6)(7)(9) a 15 | 30/10/2019 |
| MDZ/E5 | Nodyn Gweithdrefnol 1 yr Ymchwiliad | 06/07/2020 |
| MDZ/E6 | Nodyn Gweithdrefnol 2 yr Ymchwiliad | 07/08/2020 |
| MDZ/E7 | Nodyn Gweithdrefnol 3 yr Ymchwiliad | 13/10/2020 |
| MDZ/E8 | Llythyr sy'n pennu dyddiad yr Ymchwiliad | 28/09/2020 |
| MDZ/E9 | Llythyr sy'n gofyn am PIM | 09/10/2020 |
| MDZ/E10 | MMC424 PINS Asesiad o'r Datganiad Amgylcheddol | 04/12/2019 |
| MDZ/E11 | MMC433 PINS 2il Asesiad o'r Datganiad Amgylcheddol | 26/08/2020 |

| **MDZ/F** | **Materion Bioamrywiaeth** | **Dyddiad y Ddogfen** |
|---|---|---|
| | **Ecoleg ar y Tir** | |
| MDZ/F1 | MMC338 Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur (JNCC) (2015) Natura 2000 – Ffurflen Ddata Safonol: ACA Glannau Ynys Gybi. Cyfeirnod safle: UK0013046 | 2015 |
| MDZ/F2 | MMC339 Cyngor Cefn Gwlad Cymru (CCW) (2011) Cynllun Rheoli Craidd gan gynnwys Amcanion Cadwraeth ar gyfer ACA Glannau Ynys Gybi ac AGA Glannau Ynys Gybi | 2011 |
| MDZ/F3 | MMC340 Gweithgor Technegol Cyntaf ar Ecoleg ar y Tir (Rhagfyr 2019) | Rhag-19 |
| MDZ/F4 | MMC341 Darparu 'Asesiadau wedi'u diweddaru ar gyfer ecoleg ddaearol (ac eithrio brain coesgoch) i ymateb i sylwadau a wnaed ar yr ES gan CNC a'r RSPB' Nodyn Technegol (y Diweddariad i'r EcIA) gan MM i CNC (Chwefror 2019) | Chwef-19 |
| MDZ/F5 | MMC342 Ail Weithgor Technegol ar Ecoleg ar y Tir (Chwefror 2019), a ddilynwyd gan sylwadau gan CNC ar y Diweddariad i'r EcIA (Mawrth 2020) | Maw-20 |
| MDZ/F6 | MMC343 Darparu Diweddariad diwygiedig i'r EcIA (fersiwn 02) i CNC (Mawrth 2020) | Maw-20 |
| MDZ/F7 | MMC344 Cylchredeg Adroddiad Arolwg Botanegol Cyn-adeiladu (NVC) a Nodyn Microleoli Clogwyn i CNC ar gyfer sylwadau (Gorffennaf 2020) | Gorff-20 |

| | | |
|---|---|---|
| FDZ/F8 | MMC345 Darparu sylwadau ar yr Adroddiad Arolwg Botanegol Cyn-adeiladu (NVC) a’r Nodyn Microleoli Clogwyn gan CNC (Medi 2020). | Medi-20 |
| MDZ/F9 | MMC189 MOR-RHDHV-DOC-0110 Diweddariad i’r Asesiad Ecoleg Ddaearol | 18/09/2020 |
| MDZ/F10 | MMC174 MOR-BSG-DOC-0001 (02) Adroddiad Arolwg Cynefin Clogwyn | 18/09/2020 |
| | **Mamaliaid Môr** | |
| MDZ/F13 | MMC206 MOR-EXT-DOC-009 Cyngor i Forlais ar Wrthdrawiadau Mamaliaid Môr a Rheoli Addasol | 18/09/2020 |
| MDZ/F14 | MMC207 MOR-EXT-DOC-010 Parth Arddangos Morlais: Gwybodaeth ychwanegol a ddarparwyd gan Wasanaeth Cynghori CNC ar famaliaid môr | 18/09/2020 |
| MDZ/F15 | MMC346 Diffinio Amlenni Prosiect ar gyfer Prosiectau Ynni’r Môr: Adolygiad ac Astudiaeth Achos Cyfleuster Profi Ynni’r Llanw a Mamaliaid Môr (Sparling a Smith, 2019, heb ei gyhoeddi). | 2019 |
| MDZ/F15.2 | MMC348 ABPmer, (2020). Adolygiad o wrthdrawiadau posibl rhwng dyfeisiau ffrwd lanw ac anifeiliaid môr, Adroddiad Tystiolaeth CNC Rhif 444 | Meh-20 |
| MDZ/F15.3 | MMC445 Cyngor ar reoli addasol ar gyfer risg effeithiau gwrthdaro ar rywogaethau mamaliaid môr a warchodir yn nyfroedd Cymru o ganlyniad i Brosiect Morlais | 15/10/2020 |
| | **Adareg** | |
| MDZ/F16 | MMC190 MOR-RHDHV-DOC-0115 (02) Risg Gwrthdrawiad Adareg Forol | 18/09/2020 |
| MDZ/F17 | MMC152 Adareg ar y Tir: Ymateb i Sylwadau ar Frain Coesgoch (Dogfen MOR/RHDHV/DOC/0120) | 21/05/2020 |
| MDZ/F18 | MMC153 MOR-RHDHV-DOC-0126 Cyfeirio ar gyfer ymatebion i ORML1938_RSPB.xlsx* | 21/05/2020 |
| MDZ/F19 | MMC347 Treftadaeth Naturiol yr Alban (SNH) (2016) Asesu risg gwrthdrawiad rhwng tyrbinau tanddwr a bywyd gwyllt morol. Nodyn Canllaw SNH (fersiwn 1 Mai 2016) | 01/05/2016 |
| MDZ/F21 | MMC404 Ymateb ymgynghori ar farn gwmpasu i Adran Trwyddedu Morol CNC (10/07/2015) | 10/07/2015 |
| MDZ/F22 | MMC405 Ymateb ymgynghori ar farn gwmpasu i Gyngor Sir Ynys Môn (08/06/2015) | 08/06/2015 |
| MDZ/F23 | MMC406 Ymateb ymgynghori ar amrywio ffiniau a wnaed i Fenter Môn (28/08/2015) | 28/08/2015 |

| | | |
|---|---|---|
| MDZ/F24 | MMC407 Ymateb ymgynghori ar farn gwmpasu i Adran Trwyddedu Morol CNC (05/06/2018) | 05/06/2018 |
| MDZ/F25 | MMC408 Ymateb/gwrthwynebiad i gais Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (DNS) a wnaed i Arolygiaeth Gynllunio Cymru (31/10/2019) | 31/10/2019 |
| MDZ/F26 | MMC409 Ymateb/gwrthwynebiad i gais Trwydded Forol a wnaed i Adran Trwyddedu Morol CNC (10/01/2020) | 10/01/2020 |
| MDZ/F27 | MMC410 Ymateb/gwrthwynebiad i wybodaeth amgylcheddol ychwanegol Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (DNS) a wnaed i Arolygiaeth Gynllunio Cymru (26/05/2020) | 26/05/2020 |
| MDZ/F28 | MMC411 Bowgen, K. a Cook, A. 2018. Bird Collision Avoidance: Empirical evidence and impact assessments. Adroddiad JNCC Rhif 614, JNCC, Peterborough, ISSN 0963-8091. | 2018 |
| MDZ/F29 | MMC412 Chamberlain, D. E., Rehfisch, M. R., Fox, A. D., Desholm, M., ac Anthony, S. J. (2006). The effect of avoidance rates on bird mortality predictions made by wind turbine collision risk models. Ibis, 148, 198-202. | 2006 |
| MDZ/F30 | MMC413 Chimienti, M., Cornulier, T., Owen, E., Bolton, M., Davies, I. M., Travis, J. M., a Scott, B. E. (2016). The use of an unsupervised learning approach for characterizing latent behaviors in accelerometer data. Ecology and evolution, 6(3), 727-741. | 2016 |
| MDZ/F31 | MMC414 Cook, A. S. C. P., Johnston, A., Wright, L. J., a Burton, N. H. (2012). *Strategic Ornithological Support Services Project SOSS-02: A Review of Flight Heights and Avoidance Rates of Birds in Relation to Offshore Wind Farms*. Ymddiriedolaeth Adareg Prydain. | 2012 |
| MDZ/F32 | MMC415 Johnstone I, Whitehead S a Lamacraft D 2002. The importance of grazed habitat for foraging chough *Pyrrhocorax*, and its implications for agri-environment schemes. Aspects of Applied Biology, Birds and agriculture 67, 1-8 | 2002 |
| MDZ/F33 | MMC416 Masden, E. (2015). Developing an avian collision risk model to incorporate variability and uncertainty. Marine Scotland Science. | 2015 |
| MDZ/F34 | MMC417 Ross-Smith, V.H., Thaxter, C.B., Masden, E.A., Shamoun-Baranes, J., Burton, N.H., Wright, L.J., Rehfisch, M.M. a Johnston, A., 2016. Modelling flight heights of lesser black-backed gulls and great skuas from GPS: a Bayesian approach. Journal of applied ecology, 53(6), tud.(au)1676-1685. | 2016 |
| MDZ/F36 | MMC419 Shoji, A., Dean, B., Kirk, H., Freeman, R., Perrins, C. M., a Guilford, T. (2016). The diving behaviour of the Manx Shearwater Puffinus puffinus. Ibis, 158(3), 598-606. | 2016 |
| MDZ/F37 | MMC420 Skov, H., Heinänen, S., Norman, T., Ward, R. M., Mendez-Roldan, S., ac Ellis, I. (2018). ORJIP Bird Collision and Avoidance Study. Adroddiad terfynol – Ebrill 2018. *Yr Ymddiriedolaeth Garbon, y Deyrnas Unedig*. | 2018 |

| | | |
|---|---|---|
| MDZ/F38 | MMC421 Thaxter, C.B., Daunt, F., Hamer, K.C., Watanuki, Y., Harris, M.P., Grémillet, D., Peters, G. a Wanless, S., 2009. Sex-specific food provisioning in a monomorphic seabird, the common guillemot Uria aalge: nest defence, foraging efficiency or parental effort? Journal of Avian Biology, 40(1), tud.(au)75-84. | 2009 |
| MDZ/F39 | MMC422 Whitehead S, Johnstone I a Wilson J (2005). Choughs *Pyrrhocorax pyrrhocorax* breeding in Wales select foraging habitat at different spatial scales. Bird Study 52. 193-203 | 2005 |
| MDZ/F40 | MMC371 Ymateb/gwrthwynebiad i wybodaeth amgylcheddol ychwanegol cais Trwydded Forol a wnaed i Adran Trwyddedu Morol CNC (09/09/2020) | 09/09/2020 |
| MDZ/F41 | MMC372 SoDdGA: Gweithrediadau sy'n Mynnu Ymgynghori â Chyngor Cefn Gwlad Cymru (CCW) Glannau Ynys Gybi (2000) | 2000 |
| MDZ/F42 | MMC373 SoDdGA Glannau Ynys Gybi – Eich Safle Arbennig a'i Ddyfodol | 2000 |
| MDZ/F43 | MMC374 Cyngor Cefn Gwlad Cymru (CCW) Disgrifiad o SoDdGA: Glannau Ynys Gybi (2000) | 2000 |
| MDZ/F44 | MMC375 SoDdGA Glannau Ynys Gybi Map 1 | Gorff-01 |
| MDZ/F45 | MMC376 SoDdGA Glannau Ynys Gybi Map 2 | Gorff-01 |
| MDZ/F46 | MMC377 SoDdGA Glannau Ynys Gybi Map 3 | Gorff-01 |
| MDZ/F47 | MMC378 SoDdGA Glannau Ynys Gybi Map 4 | Gorff-01 |
| MDZ/F48 | MMC379 SoDdGA Glannau Ynys Gybi Map 5 | Gorff-01 |
| MDZ/F49 | MMC380 SoDdGA Glannau Ynys Gybi Map 6 | Gorff-01 |
| MDZ/F51 | MMC381 Map o AGA Glannau Ynys Gybi | Tach-02 |
| MDZ/F52 | MMC382 Cyfarwyddeb 79/409 y CE ar Gadwraeth Adar Gwyllt: Estyniad arfaethedig i Ardal Gwarchodaeth Arbennig (AGA) Glannau Ynys Gybi | Tach-01 |
| MDZ/F53 | MMC383 Map o ACA Glannau Ynys Gybi | Chwef-05 |
| MDZ/F54 | MMC384 Cofnod yn y Gofrestr o Safleoedd Ewropeaidd ar gyfer Cymru – ACA Glannau Ynys Gybi | Rhag-04 |
| MDZ/F55 | MMC385 Cyngor Cefn Gwlad Cymru (CCW) Cynllun Rheoli Craidd gan gynnwys Amcanion Cadwraeth ar gyfer AGA Glannau Aberdaron ac Ynys Enlli | Maw-08 |
| MDZ/F56 | MMC386 Map o Lannau Aberdaron ac Ynys Enlli | Medi-14 |

| | | |
|---|---|---|
| MDZ/F57 | MMC387 Cofnod yn y Gofrestr o Safleoedd Ewropeaidd ar gyfer Cymru – AGA Glannau Aberdaron ac Ynys Enlli | Hyd-14 |
| MDZ/F58 | MMC388 Cyngor Cefn Gwlad Cymru (CCW) (2008) Cynllun Rheoli Craidd gan gynnwys Amcanion Cadwraeth ar gyfer AGA Sgomer a Sgogwm | Ebr-08 |
| MDZ/F59 | MMC389 AGA Sgomer, Sgogwm a Moroedd Penfro Map 1 | Meh-17 |
| MDZ/F60 | MMC390 AGA Sgomer, Sgogwm a Moroedd Penfro Map 2 | Meh-17 |
| MDZ/F61 | MMC391 AGA Sgomer, Sgogwm a Moroedd Penfro Map 3 | Meh-17 |
| MDZ/F62 | MMC392 Cofnod yn y Gofrestr o Safleoedd Ewropeaidd ar gyfer Cymru – AGA Sgomer, Sgogwm a Moroedd Penfro | Ion-17 |
| MDZ/F63 | MMC393 Cyngor ar Ardal Cadwraeth Arbennig Bae Ceredigion a ddarparwyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru wrth gyflawni Rheoliad 37 Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017 | Maw-18 |

| **MDZ/G** | **Cymeriad a/neu Olwg yr Ardal** | **Dyddiad y Ddogfen** |
|---|---|---|
| MDZ/G1 | MMC252 MOR-POL-DOC-055 Canllawiau ar gyfer Asesu'r Effaith ar y Dirwedd a'r Effaith Weledol (SLVIA 3) | 17/04/2013 |
| MDZ/G2 | MMC253 MOR-POL-DOC-056 Cynrychioliad Gweledol Treftadaeth Naturiol yr Alban o Ffermydd Gwynt | Chwef-17 |
| MDZ/G3 | MMC255 MOR-POL-DOC-058 Nodyn Cyngor Technegol 8 Llywodraeth Cymru: Cynllunio ar gyfer Ynni Adnewyddadwy | Gorff-05 |
| MDZ/G4 | MMC256 MOR-POL-DOC-059 Nodyn Cyngor Technegol 12 Llywodraeth Cymru: Dylunio | Maw-16 |
| MDZ/G6 | MMC260 MOR-POL-DOC-063 Adolygiad o Ardaloedd Tirwedd Arbennig yng Ngwynedd ac Ynys Môn | 2012 |
| MDZ/G7 | MMC262 MOR-POL-DOC-065 Strategaeth Tirwedd Ynys Môn: Diweddariad 2011 | 2011 |
| MDZ/G8 | MMC263 MOR-POL-DOC-066 Asesiad o Gymeriad Morlun Ynys Môn | Ion-13 |
| MDZ/G9 | MMC264 MOR-POL-DOC-067 CNC Ardaloedd Cymeriad Tirwedd Cenedlaethol | 31/03/2014 |

| | | |
|---|---|---|
| MDZ/G10 | MMC265 MOR-POL-DOC-068 CNC (dim dyddiad) Gwybodaeth LANDMAP | dd/b |
| MDZ/G11 | MMC235A MOR-POL-DOC-038A IALA Marcio Strwythurau Alltraeth o Wneuthuriad Dyn | Rhag-13 |
| MDZ/G12 | MMC267 MOR-POL-DOC-070 IALA Argymhelliad ar Liwiau Arwyneb i'w defnyddio fel Arwyddion Gweledol ar Gymhorthion Mordwyo | Rhag-17 |
| MDZ/G13 | MMC007 MOR-MSP-DOC-0020 Cynllun Ardal Gyfyngedig | 07/09/2020 |

| **MDZ/H** | **Materion Economaidd-Gymdeithasol** | **Dyddiad cyflwyno / Dyddiad** |
|---|---|---|
| MDZ/H1 | MMC132 MOR-BAU-DOC-0001 Asesiad Twristiaeth a Hamdden Atodol* | 27/03/2020 |
| MDZ/H2 | MMC215 MOR-EXT-DOC-018 Gwerthusiad economaidd o werth hamdden yr amgylchedd arfordirol | 18/09/2020 |
| MDZ/H3 | MMC223 MOR-EXT-DOC-026 Cynllun Rheoli Cyrchfan Ynys Môn 2016-2020 | 2016 |
| MDZ/H4 | MMC133 MOR-BAU-DOC-0002 Asesiad Economaidd-Gymdeithasol Atodol* | 27/03/2020 |

| **MDZ/I** | **Materion Mordwyol a Materion Morol eraill** | **Dyddiad cyflwyno / Dyddiad** |
|---|---|---|
| MDZ/I1 | MMC196 MOR-MCO-DOC-001 Atodiad i'r Asesiad Risg Mordwyo – Medi 2020 | 18/09/2020 |
| MDZ/I2 | MMC231 MOR-EXT-DOC-034 MGN 543 Canllawiau ar Arferion Mordwyol, Diogelwch a Materion Ymateb Brys yn y Deyrnas Unedig | Ion-16 |
| MDZ/I3 | MMC134 MOR-HRW-DOC-0001 HR Wallingford: Modelu Prosesau Arfordirol.pdf | 27/03/2020 |
| MDZ/I4 | MMC011 MOR-ESI-DOC-0001 Amodau Trwydded Forol Drafft fersiwn 0.8 | 18/09/2020 |
| MDZ/I5 | MMC427 Adroddiad Terfynol ar Ymgynghoriad ynglŷn ag Amrywiad Arfaethedig i Ffin Parth Arddangos Gorllewin Ynys Môn 30 Medi 2015 | 30/09/2015 |
| MDZ/I6 | Amodau Trwydded Forol wedi'u Diweddaru | I'w gadarnhau |

| MDZ/J | Materion CPO | Dyddiad cyflwyno / Dyddiad |
|---|---|---|
| MDZ/J1 | MMC241 MOR-POL-DOC-044 Cynllun ynni'r môr ar gyfer Cymru (adroddiad Grŵp Gorchwyl a Gorffen) | 2016 |
| MDZ/J3 | MMC243 MOR-POL-DOC-046 Cynllun Ffyniant i Bawb – Cymru Carbon Isel 2019 | Maw-19 |
| MDZ/J4 | MMC244 MOR-POL-DOC-047 Cymraeg 2050: Strategaeth y Gymraeg | Gorff-17 |
| MDZ/J6 | MMC247 MOR-POL-DOC-050 Cynllun Cyflawni Carbon Isel Llywodraeth Cymru | Maw-19 |
| MDZ/J7 | MMC432 Atodlen Proses CPO Tir | 02/11/2020 |

| MDZ/K | Materion EMMP | Dyddiad y Ddogfen |
|---|---|---|
| MDZ/K1 | MMC250 MOR-POL-DOC-053 Canllawiau CNC ar gyfer Datblygwyr Morol – Defnyddio rheoli addasol ar gyfer datblygiadau morol<br>https://naturalresourceswales.gov.uk/guidanceand-advice/business-sectors/marine/usingadaptive-management-for-marinedevelopments/?lang=en | dd/b |
| MDZ/K2 | MMC251 MOR-POL-DOC-054 Canllawiau ar weithredu'r Cyfarwyddebau Adar a Chynefinoedd | Ion-11 |

| MDZ/L | Datganiadau Tir Cyffredin | Dyddiad cyflwyno |
|---|---|---|
| MDZ/L1 | Mamaliaid Môr | 30/11/2020 |

| | | |
|---|---|---|
| MDZ/L2 | Adareg - CNC | 01/12/2020 |
| MDZ/L3 | Adareg - RSPB | I'w gadarnhau |
| MDZ/L4 | SLVIA – IoACC | I'w gadarnhau |
| MDZ/L5 | SLVIA - CNC | 30/11/2020 |
| MDZ/L6 | Pynciau eraill - CNC | 30/11/2020 |
| MDZ/L7 | IoACC | 26/11/2020 |
| MDZ/L8 | MMC483 MOR-RHDHV-DOC-0156 Datganiad Tir Cyffredin yr MCA ar Forgludiant a Mordwyo[1] | I'w gadarnhau |
| MDZ/L9 | MMC448 MOR-RHDHV-DOC-0155 Datganiad Tir Cyffredin Tŷ'r Drindod ar Forgludiant a Mordwyo | 02/11/2020 |
| MDZ/L10 | RYA | I'w gadarnhau |

| **MDZ/M** | **Llythyrau Cefnogaeth gan Ddatblygwyr** | **Dyddiad cyflwyno** |
|---|---|---|
| MDZ/M1 | MMC198 MOR-EXT-DOC-001 Llythyr Aquantis i gefnogi graddfa Morlais | 18/09/2020 |
| MDZ/M2 | MMC199 MOR-EXT-DOC-002 Llythyr Instream i gefnogi graddfa Morlais | 18/09/2020 |
| MDZ/M3 | MMC200 MOR-EXT-DOC-003 Llythyr Sabella i gefnogi graddfa Morlais | 18/09/2020 |
| MDZ/M4 | MMC201 MOR-EXT-DOC-004 Llythyr Orbital Marine Power i gefnogi graddfa Morlais | 18/09/2020 |
| MDZ/M5 | MMC202 MOR-EXT-DOC-005 Llythyr Verdant Power i gefnogi graddfa Morlais | 18/09/2020 |
| MDZ/M6 | MMC203 MOR-EXT-DOC-006 Llythyr Magallanes i gefnogi graddfa Morlais | 18/09/2020 |

| MDZ/N | Datganiadau Achosion ac Ymatebion | Dyddiad cyflwyno |
|---|---|---|
| MDZ/N1 | MMC001 Datganiad Achos (yr Ymgeisydd) | 18/09/2020 |
| MDZ/N2 | Datganiad Achos y Gymdeithas Hwylio Frenhinol | 18/09/2020 |
| MDZ/N3 | Datganiad Achos Cyngor Sir Ynys Môn | 18/09/2020 |
| MDZ/N4 | Datganiad Achos Dŵr Cymru | 18/09/2020 |
| MDZ/N5 | Datganiad Achos yr RSPB | 18/09/2020 |
| MDZ/N6 | Datganiad Achos Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau | 18/09/2020 |
| MDZ/N7 | Datganiad Achos Network Rail Infrastructure Ltd | 18/09/2020 |
| MDZ/N8 | Datganiad Achos M Llewellyn | 18/09/2020 |
| MDZ/N9 | Datganiad Achos Cyfoeth Naturiol Cymru | 18/09/2020 |
| MDZ/N10 | Datganiad Achos Roberts TS | 18/09/2020 |
| MDZ/N11 | Datganiad Achos Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Gogledd Cymru (NWWT) | 18/09/2020 |
| MDZ/N12 | Datganiad Achos Clwb Canŵio Eryri | 18/09/2020 |
| MDZ/N13 | Datganiad Achos Tŷ'r Drindod | 18/09/2020 |
| MDZ/N14 | Datganiad Achos ORTHIOS ECO PARKS | 18/09/2020 |
| MDZ/N15 | MMC355 MOR-RHDHV-DOC-0151 Ymateb i Ddatganiad Achos Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Gogledd Cymru | 19/10/2020 |
| MDZ/N16 | MMC356 MOR-MM-DOC-0013 Ymateb i Ddatganiad Achos Clwb Canŵio Eryri | 19/10/2020 |
| MDZ/N17 | MMC357 MOR-MSP-DOC-006 Ymateb i Ddatganiad Achos y Gymdeithas Hwylio Frenhinol | 19/10/2020 |
| MDZ/N18 | MMC358 MOR-EVS-DOC-0020 Ymateb i Ddatganiad Achos Orthios | 19/10/2020 |
| MDZ/N19 | Ymateb i Ddatganiadau Achos - SOC - RSP001 – Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau | 19/10/2020 |
| MDZ/N20 | Ymateb i Ddatganiadau Achos - SOC - RSP002 – Tŷ'r Drindod | 19/10/2020 |
| MDZ/N21 | Ymateb i Ddatganiadau Achos - SOC - RSP003 – Clwb Canŵio Eryri | 19/10/2020 |
| MDZ/N22 | Ymateb i Ddatganiadau Achos - SOC - RSP004 – y Gymdeithas Hwylio Frenhinol | 19/10/2020 |

| | | |
|---|---|---|
| MDZ/N23 | Ymateb i Ddatganiadau Achos - SOC - RSP005 – yr RSPB | 19/10/2020 |

| **MDZ/P** | **Proflenni Tystiolaeth** | **Dyddiad Cyflwyno** |
|---|---|---|
| MDZ/P1 | MMC435 Dr Murray Grant_Adareg | 02/11/2020 |
| MDZ/P2 | MMC436 Dr Jennifer A. Learmonth Mamaliaid Môr | 02/11/2020 |
| MDZ/P3 | MMC437 Gordon Campbell_Ecoleg ar y Tir | 02/11/2020 |
| MDZ/P4 | MMC438 Frank Fortune_Cynllun Monitro a Lliniaru Amgylcheddol | 02/11/2020 |
| MDZ/P5 | MMC439 Simon Myers_Yr Effaith Weledol a'r Effaith ar y Dirwedd a'r Morlun | 02/11/2020 |
| MDZ/P6 | MMC440 Dr Edward Thomas Jones Materion Economaidd-Gymdeithasol | 02/11/2020 |
| MDZ/P7 | MMC441 Y Comander Paul Brown_Materion Morol a Mordwyol | 02/11/2020 |
| MDZ/P8 | MMC442 Andrew Billcliff_Y Prosiect a Chaffael Gorfodol | 02/11/2020 |
| MDZ/P9 | MMC443 David Bell_Cynllunio a Pholisi | 02/11/2020 |
| MDZ/P10 | MMC444 Dr James Orme_Tyst y Prosiect | 02/11/2020 |

| **Cod Cyfeirnod** | **Dogfennau trydydd parti** | **Dyddiad y Ddogfen** |
|---|---|---|
| OBJ001 | Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau | 26/09/2019 |
| OBJ003 | Network Rail | 27/09/2019 |
| OBJ020 | Hugh O'Donnell ar ran Kathleen Davies | 30/10/2019 |
| OBJ025 | Dŵr Cymru | 30/10/2019 |
| OBJ026 | Tŷ'r Drindod | 30/10/2019 |

| | | |
|---|---|---|
| OBJ034 | Dŵr Cymru | 31/10/2019 |
| OBJ036 | Dr R Davies a Mrs C Lynes | 31/10/2019 |
| OBJ038 | Alpoco | 31/10/2019 |
| OBJ040 | Orthios | 31/10/2019 |
| OBJ058 | Tom a Stacy Roberts | 01/11/2019 |
| OBJ063 | M Llewellyn | 01/11/2019 |
| OBJ068 | Horizon | 01/11/2019 |
| OBJ072 | Kudelska | 01/11/2019 |
| OBJ073 | Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Gogledd Cymru | 31/10/2019 |
| OBJ076 | Tŷ'r Drindod | 01/11/2019 |
| OBJ079 | CADW | 05/11/2019 |
| OBJ080 | Clwb Canŵio Eryri | 05/11/2019 |
| OBJ081 | Land & Lakes | 05/11/2019 |
| OBJ082 | Y Grid Cenedlaethol | 05/11/2019 |
| OBJ083 | Canŵ Cymru | 30/10/2019 |
| OBJ086 | RSPB Cymru | 05/11/2019 |
| OBJ087 | Sam Measom | 05/11/2019 |
| OBJ088 | Cadwraeth Morfilod a Dolffiniaid | 31/10/2019 |
| REP001 & REP001 (1) | Martin Nelson | 10/10/2019 |
| REP003 | Wales & West Utilities | 31/10/2019 |
| REP004 | SP Energy Networks | 06/11/2019 |
| REP005 | Cyfoeth Naturiol Cymru | 05/11/2019 |
| REP007 | Cyngor Sir Ynys Môn | 01/10/2019 |
| SUP005 | Parc Gwyddoniaeth Menai (M-SParc) | 05/11/2019 |

| | | |
|---|---|---|
| FEI- OBJ013 | Y Gymdeithas Hwylio Frenhinol | 18/05/2020 |
| FEI- OBJ014 | RSPB | 03/06/2020 |
| FEI- OBJ015 | Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Gogledd Cymru | 03/06/2020 |
| FEI_REP00 | Cyngor Sir Ynys Môn | 18/05/2020 |
| FEI_REP001 | CADW | 18/05/2020 |
| FEI_REP003 | Orthios | 18/05/2020 |
| FEI_REP004 | Cyfoeth Naturiol Cymru | 18/05/2020 |
| ML012 | ORML1938 Ymateb Ymgynghori yr RSPB | 10/01/2020 |
| ML001 | ORML1938 Ymateb Ymgynghori Cyfoeth Naturiol Cymru | 10/01/2020 |
| ML001 (FEI) | ORML1938 Ymateb Cyfoeth Naturiol Cymru | 18/09/2020 |
| ML013 | ORML1938 Ymateb Ymgynghori RYA | 08/01/2020 |

| **Cod Cyfeirnod** | **Proflenni Tystiolaeth trydydd parti** | **Dyddiad Cyflwyno** |
|---|---|---|
| POE001 | Llythyr Network Rail | 02/11/2020 |
| POE002 | Proflenni Tystiolaeth Clwb Canŵio Eryri | 02/11/2020 |
| POE003 | Proflenni Tystiolaeth Cyngor Sir Ynys Môn | 02/11/2020 |
| POE004 | Proflen Dystiolaeth Cyngor Sir Ynys Môn | 02/11/2020 |
| POE005 | Proflenni Tystiolaeth Orthios Eco Parks (Anglesey) Ltd ac Orthios Power (Anglesey) Ltd - Lewis LeVasseur | 02/11/2020 |
| POE006 | Proflenni Tystiolaeth Orthios Eco Parks (Anglesey) Ltd ac Orthios Power (Anglesey) Ltd - Tim Jesson | 02/11/2020 |
| POE007 | Proflenni Tystiolaeth yr RSPB | 02/11/2020 |
| POE007.1 | Proflen Dystiolaeth Atodol yr RSPB | 23/11/2020 |

| | | |
|---|---|---|
| POE008 | **Proflenni Tystiolaeth y Gymdeithas Hwylio Frenhinol (RYA)** | 02/11/2020 |
| POE009 | POE RYA – Cyfeirnodau - 3 Lleoliad Dyfeisiau Llanw yn yr MDZ | 02/11/2020 |
| POE010 | RYA POE – Cyfeirnodau - 20UK1647_Arolwg_Data_Tywydd | 02/11/2020 |
| POE011 | RYA POE – Cyfeirnodau - 1938-nps-trosfwaol-ynni-en1 (1) | 02/11/2020 |
| POE012 | RYA POE – Cyfeirnodau - 1940-nps-ynni-adnewyddadwy-en3 | 02/11/2020 |
| POE013 | RYA POE – Cyfeirnodau - ABPmer-econ-gymd-SUDG-1 | 02/11/2020 |
| POE014 | RYA POE – Cyfeirnodau - IALA 2015 | 02/11/2020 |
| POE015 | RYA POE – Cyfeirnodau - OESEA3_Adroddiad_Amgylcheddol_Terfynol | 02/11/2020 |
| POE016 | RYA POE – Cyfeirnodau - ORJIP-Rhagolwg-Ynni-Cefnfor-1 | 02/11/2020 |
| POE017 | RYA POE – Cyfeirnodau - pb3654-datganiad-polisi-morol-110316 | 02/11/2020 |
| POE018 | RYA POE – Cyfeirnodau – Atlas Arfordirol Rhwyfo Hamdden yn y Deyrnas Unedig RYA 2.1 Canllaw Defnyddwyr | 02/11/2020 |
| POE019 | RYA POE – Cyfeirnodau – Adroddiad Gweithdy Parthau Arddangos Tonnau a Llanw y Deyrnas Unedig (003) | 02/11/2020 |
| POE020 | RYA POE – Cyfeirnodau – Adroddiad Camau Gweithredu Galluogol Tonnau a Llanw 2014 | 02/11/2020 |
| POE021 | **Proflenni Tystiolaeth Cyfoeth Naturiol Cymru** | 02/11/2020 |
| POE022 | POE CNC – APP – A - Evans ac Arvela 2011 | 02/11/2020 |
| POE023 | POE CNC – APP – A - JNCC 2019 H1230 Clogwyni môr â llystyfiant arfordir yr Iwerydd a'r Baltig | 02/11/2020 |
| POE024 | POE CNC – APP – A - Rees et al 2019 | 02/11/2020 |
| POE025 | POE CNC – APP – B - Band 2000 Nodyn Canllaw SNH | 02/11/2020 |
| POE026 | POE CNC – APP – B - Band 2012 | 02/11/2020 |
| POE027 | POE CNC – APP – B - Band et al 2007 | 02/11/2020 |
| POE028 | POE CNC – APP – B - Band et al 2016 | 02/11/2020 |

| | | |
|---|---|---|
| POE029 | POE CNC – APP – B - Brandt et al 2013 | 02/11/2020 |
| POE030 | POE CNC – APP – B - Brandt MJ 2012 | 02/11/2020 |
| POE031 | POE CNC – APP – B - Evans 2012 | 02/11/2020 |
| POE032 | POE CNC – APP – B – Darparodd G. Hastie gyngor ar famaliaid môr wrth ymateb i Ceri Morris (neges e-bost ddyddiedig 29.4.2020) | 02/11/2020 |
| POE033 | POE CNC – APP – B - Gillespie et al 2020 | 02/11/2020 |
| POE034 | POE CNC – APP – B - Hastie (2012) tracio_mamaliaid_môr_o_amgylch_dyfeisiau_adnewyddadwy | 02/11/2020 |
| POE035 | POE CNC – APP – B - Hastie et al 2018 | 02/11/2020 |
| POE036 | POE CNC – APP – B - Hastie et al 2019 | 02/11/2020 |
| POE037 | POE CNC – APP – B - IAMMWG 2015 | 02/11/2020 |
| POE038 | POE CNC – APP – B - JNCC (2019) Gogledd Môn Forol - Amcanion Cadwraeth a Chyngor ar Weithrediadau | 02/11/2020 |
| POE039 | POE CNC – APP – B - Joy et al 2018 | 02/11/2020 |
| POE030 | POE CNC – APP – B - Lohrengel et al 2018 | 02/11/2020 |
| POE041 | POE CNC – APP – B - McGarry et al 2017 | 02/11/2020 |
| POE042 | POE CNC – APP – B - McGarry et al 2020 | 02/11/2020 |
| POE043 | POE CNC – APP – B – MDZ Morlais – Mamaliaid Môr – Gwybodaeth ychwanegol CNC - 070120 | 02/11/2020 |
| POE044 | POE CNC – APP – B – Cofnodion Gweithgor Mamaliaid Môr Prosiect Morlais TERFYNOL 6.1.2020 V2.0 | 02/11/2020 |
| POE045 | POE CNC – APP – B - NMFS 2018 | 02/11/2020 |
| POE046 | POE CNC – APP – B - CNC 22.05.19 Llythyr at Fenter Môn ynglŷn â phryderon risg gwrthdrawiad mamaliaid môr CAS-84017-M9P0 | 02/11/2020 |
| POE047 | POE CNC – APP – B – Datganiad sefyllfa CNC ar AEOSI mamaliaid môr fersiwn 1.3 lân | 02/11/2020 |
| POE048 | POE CNC – APP – B - Smith a Simpson 2018 | 02/11/2020 |
| POE049 | POE CNC – APP – B - Southall et al 2019 | 02/11/2020 |

| | | |
|---|---|---|
| POE050 | POE CNC – APP – B - Southall et al. 2007 pt1 | 02/11/2020 |
| POE051 | POE CNC – APP – B - Southall et al. 2007 pt2 | 02/11/2020 |
| POE052 | POE CNC – APP – B - Southall et al. 2007 pt3 | 02/11/2020 |
| POE053 | POE CNC – APP – B - Southall et al. 2007 | 02/11/2020 |
| POE054 | POE CNC – APP – B - Sparling et al 2015 | 02/11/2020 |
| POE055 | POE CNC – APP – B - Wade 1998 | 02/11/2020 |
| POE056 | POE CNC – APP – B - Wilson a Carter 2013 | 02/11/2020 |
| POE057 | POE CNC – APP – B - Wilson et al 2007 | 02/11/2020 |
| POE058 | POE CNC – APP – C - Gilbey et al 2016 | 02/11/2020 |
| POE059 | POE CNC – APP – C - ICES 2020 | 02/11/2020 |
| POE060 | POE CNC – APP – C - Malcolm et al 2010 | 02/11/2020 |
| POE061 | POE CNC – APP – C - Malcolm et al 2013 | 02/11/2020 |
| POE062 | POE CNC – APP – C – Ynni Cefnfor ORJIP 2017 | 02/11/2020 |
| POE063 | POE CNC – APP – C - Sturlaugsson et al 2009 | 02/11/2020 |
| POE064 | POE CNC – APP – C - Thorstad et al 2012 | 02/11/2020 |
| POE065 | POE CNC – APP – C – Strategaeth Tystiolaeth Forol Cymru 2019-2025 | 02/11/2020 |
| POE066 | POE CNC – APP – D – Canllawiau DTI 2005 – Adroddiad ar yr Effaith Weledol a'r Effaith ar y Morlun | 02/11/2020 |
| POE067 | POE CNC – APP – D – Ynni Adnewyddadwy Alltraeth SNH 2012 | 02/11/2020 |
| POE068 | POE CNC – APP – E - CEC 1999 Llawlyfr Dehongli - EUR 15 | 02/11/2020 |
| POE069 | POE CNC – APP – E - CEC 2013 Llawlyfr Dehongli - EUR 28 | 02/11/2020 |
| POE070 | POE CNC – APP – E - Foster-Smith a White 2001 | 02/11/2020 |
| POE071 | POE CNC – APP – E - George a Warwick 1985 | 02/11/2020 |
| POE072 | POE CNC – APP – E - Holt et al 1998 | 02/11/2020 |
| POE073 | POE CNC – APP – E - Jenkins et al 2018 | 02/11/2020 |

| | | |
|---|---|---|
| POE074 | POE CNC – APP – E - Limpenny et al 2010 | 02/11/2020 |
| POE075 | POE CNC – APP – E - OSPAR 2013 | 02/11/2020 |
| POE076 | POE CNC – APP – E - Pearce 2014 | 02/11/2020 |
| POE077 | POE CNC – APP – E - Pearce et al 2007 | 02/11/2020 |
| POE078 | POE CNC – APP – E - Pearce et al 2011a | 02/11/2020 |
| POE079 | POE CNC – APP – E - Pearce et al 2011b | 02/11/2020 |
| POE080 | POE CNC – APP – E - Pearce et al 2014 | 02/11/2020 |
| POE081 | POE CNC – APP – E - Wilson (1971) Cytrefi-Sabellaria-yn-nor-duckpool | 02/11/2020 |
| POE082 | **Proflenni Tystiolaeth Land and Lakes (Anglesey) Limited - Richard Garner** | 13/11/2020 |

| **Cod Cyfeirnod** | **Gwrthbroflenni Tystiolaeth** | **Dyddiad cyflwyno** |
|---|---|---|
| RPE001 | Y Gymdeithas Hwylio Frenhinol – Gwrthbroflenni Tystiolaeth | 23/11/2020 |
| RPE002 | Clwb Canŵio Eryri – Gwrthbroflenni Tystiolaeth | 23/11/2020 |
| RPE003 | Menter Môn – Llythyr eglurhaol Morlais | 23/11/2020 |
| RPE004 | MMC556 MOR-RHDHV-DOC-0165 Gwrthbroflen Dystiolaeth – Mamaliaid Môr | 23/11/2020 |
| RPE005 | MMC558 MOR-AEC-DOC-001 Gwrthbroflen Dystiolaeth yr RSPB a CNC ynglŷn â'r EMMP amlinellol | 23/11/2020 |
| RPE006 | MMC559 MOR-MCO-DOC-002 Gwrthbroflen Dystiolaeth – Mordwyo | 23/11/2020 |
| RPE007 | MMC560 MOR-SLR-DOC-003 Gwrthbroflen Dystiolaeth - SLVIA | 23/11/2020 |
| RPE008 | MMC563 MOR-EVS-DOC-0020 Nodyn_ar_y_Gorchymyn_a'i_gydberthynas_â_chyfundrefnau_eraill_-_Parth_Arddangos__Morlais.docx | 23/11/2020 |
| RPE009 | MMC562 MOR-MM-DOC-0016 Gwrthbroflen i Broflen Dystiolaeth Land & Lakes | 01/12/2020 |

| | | |
|---|---|---|
| RPE010 | MMC557MOR-RHDHV-DOC-0166_Morlais-Gwrthbroflen Adareg | 07/12/2020 |
| RPE011 | MMC561 MOR-MM-DOC-0015 Gwrthbroflen Derfynol | 07/12/2020 |
| RPE012 | Gwrthbroflen yr RSPB i Grant a Fortune 4.12.20 | 07/12/2020 |
| RPE013 | Ail Broflen Lewis LeVasseur fel y'i cyflwynwyd | 14/12/2020 |
| RPE014 | Ail Broflen Tim Jesson fel y'i cyflwynwyd | 14/12/2020 |

| Enw | **Agendâu Gwrandawiadau a Awgrymwyd gan yr Ymgeisydd** | Dyddiad cyflwyno |
|---|---|---|
| Agenda 1 | Agenda Bord Gron_Economaidd-gymdeithasol_Morlais v0.2 SL | 27/11/2020 |
| Agenda 2 | Agenda Bord Gron_SLVIA_Morlais_Terfynol v0.2 SL | 27/11/2020 |
| Agenda 3 | Agenda Bord Gron_Mordwyo_Morlais - V4 SL | 27/11/2020 |
| Agenda 4 | Agenda Bord Gron_Benthig_Morlais | 27/11/2020 |
| Agenda 5 | Agenda Bord Gron_Ecoleg ar y Tir_Morlais v0.2 SL | 27/11/2020 |
| Agenda 6 | BIR_PROP2-#8419981-v2-Agenda Bord Gron Gorchymyn TDZ Morlais | 27/11/2020 |

| Cod Cyfeirnod | **Ymatebion i Ymgynghoriad 30/11/2020 ar Wybodaeth Amgylcheddol Ychwanegol** | Dyddiad cyflwyno |
|---|---|---|
| EIC001 | C ac I Hemming | 30/10/2020 |

| | | |
|---|---|---|
| EIC002 | C Bird | 30/10/2020 |
| EIC003 | D da Cunha | 30/10/2020 |
| EIC004 | GH Leeming | 30/10/2020 |
| EIC005 | H Jones Llogi Cychod Hwylio | 30/10/2020 |
| EIC006 | H Withinshaw | 30/10/2020 |
| EIC007 | JL Price | 30/10/2020 |
| EIC008 | M a J Grant | 30/10/2020 |
| EIC009 | M Davis | 30/10/2020 |
| EIC010 | V Bird | 30/10/2020 |
| EIC011 | J Foster | 30/10/2020 |
| EIC012 | Clwb Canŵio Eryri | 30/11/2020 |
| EIC013 | Cyfoeth Naturiol Cymru | 27/11/2020 |

| **Cod Cyfeirnod** | **Ymatebion i Ymgynghoriad 05/12/2020 ar Fodelu Mamaliaid Môr ac Adareg** | **Dyddiad cyflwyno** |
|---|---|---|
| MOC001 | Ymateb CNC i'r gwaith modelu wedi'i ddiweddaru | 27/11/2020 |

| **Enw** | **Dogfennau'r Gorchymyn Drafft Diwygiedig** | **Dyddiad cyflwyno** |
|---|---|---|
| ROD001 | Offeryn Statudol Cymru – Gorchymyn Drafft Parth Arddangos Morlais.doc | 26/11/2020 |
| ROD002 | Parth Arddangos Morlais – Gorchymyn drafft compareite 25 Tachwedd.docx | 26/11/2020 |
| ROD003 | Parth Arddangos Morlais – Memorandwm Esboniadol.docx | 26/11/2020 |

| | | |
|---|---|---|
| ROD004 | Parth Arddangos Morlais – Olrheiniwr Newidiadau i’r Gorchymyn.docx | 26/11/2020 |
| ROD005 | Parth Arddangos Morlais – Memorandwm Esboniadol compareite 25 Tachwedd 2020.docx | 26/11/2020 |

| **Enw** | **Tynnu’n Ôl** | **Dyddiad cyflwyno** |
|---|---|---|
| Tynnu’n Ôl - 001 | Tynnu’n Ôl – Cyngor Sir Ynys Môn | 27/11/2020 |
| Tynnu’n Ôl – 002 | Tynnu’n Ôl REP001+ REP001(2) | 09/10/2020 |
| Tynnu’n Ôl – 003 | Tynnu’n Ôl OBJ081 - Land and Lakes | 11/12/2020 |
| Tynnu’n Ôl – 004 | Tynnu’n Ôl OBJ079 - CADW | 23/11/2020 |
| Tynnu’n Ôl– 005 | Tynnu’n Ôl OBJ036 | 01/10/2020 |
| Tynnu’n Ôl – 006 | Tynnu’n Ôl OBJ020 | 28/10/2020 |
| Tynnu’n Ôl– 007 | Tynnu’n Ôl FEI - OBJ009 | 14/10/2020 |
| Tynnu’n Ôl – 008 | Tynnu’n Ôl - Wales and West Utilities. | 27/11/2020 |
| Tynnu’n Ôl – 009 | Tynnu’n Ôl - Network Rail Infrastructure Ltd | 11/01/2021 |
| Tynnu’n Ôl – 010 | Tynnu’n Ôl - AMG Alpoco UK Ltd | 27/11/2020 |
| Tynnu’n Ôl – 011 | SPEnergy Networks – Tynnu Gwrthwynebiad yn Ôl | 19/08/2020 |
| Tynnu’n Ôl – 012 | Tynnu’n Ôl – Tŷ’r Drindod | 02/11/2020 |
| Tynnu’n Ôl – 013 | Tynnu’n Ôl - Dŵr Cymru | 30/10/2020 |
| Tynnu’n Ôl – 014 | Tynnu’n Ôl – Y Grid Cenedlaethol | 19/08/2020 |
| Tynnu’n Ôl – 015 | Tynnu’n Ôl – Fibrespeed | 11/12/2019 |

| Enw | Dogfennau'r Ymchwiliad | Dyddiad cyflwyno |
|---|---|---|
| Dogfen Ymchwiliad - 001 | Cyflwyniad EIC Dr James Orme | 01/12/2020 |
| Dogfen Ymchwiliad - 002 | Agenda Bord Gron_Mamaliaid Môr_Morlais v3 | 02/12/2020 |
| Dogfen Ymchwiliad - 003 | Agenda Bord Gron_Mamaliaid Môr_Morlais - Terfynol | 03/12/2020 |
| Dogfen Ymchwiliad - 004 | Mick Green – Digwyddiad Siarad Cyhoeddus – Tystiolaeth lafar Morlais | 03/12/2020 |
| Dogfen Ymchwiliad - 005 | Matthew JH Davis – Datganiad ar gyfer Ymgynghoriad Cyhoeddus ynglŷn â Chais Morlais 2 Rhagfyr 2020 (3) | 03/12/2020 |
| Dogfen Ymchwiliad - 006 | Datganiad Agoriadol Morlais – Yr Ymgeisydd | 01/12/2020 |
| Dogfen Ymchwiliad - 007 | CNC – Datganiad Agoriadol Morlais | 01/12/2020 |
| Dogfen Ymchwiliad - 008 | Datganiad Agoriadol yr RSPB ar Forlais (TERFYNOL) 1.12.20 | 01/12/2020 |
| Dogfen Ymchwiliad - 009 | Datganiad Agoriadol yr RYA ar Forlais (TERFYNOL) | 01/12/2020 |
| Dogfen Ymchwiliad - 010 | Datganiad Agoriadol SCCW | 01/12/2020 |
| Dogfen Ymchwiliad - 011 | Datganiad Agoriadol D Soloman – Parth Arddangos Llanw Morlais - IACC | 01/12/2020 |
| Dogfen Ymchwiliad - 012 | 3234121 – Amserlen yr Ymchwiliad Rev011220 | 08/12/2020 |
| Dogfen Ymchwiliad - 013 | MMC571 MOR-MM-DOC-0018 Ymateb i gwestiynau a godwyd yn y sesiynau siarad cyhoeddus | 10/12/2020 |
| Dogfen Ymchwiliad - 014 | MMC572 MOR-MM-DOC-0019 Diweddariadau ychwanegol i Bolisi Ynni Llywodraeth y Deyrnas Unedig v2 | 10/12/2020 |
| Dogfen Ymchwiliad - 015 | Neges e-bost gan Dŷ'r Drindod yn cadarnhau'r dull bandiau melyn | 10/12/2020 |
| Dogfen Ymchwiliad - 016 | Neges e-bost gan yr RNLI at yr MCA 081020 | 10/12/2020 |
| Dogfen Ymchwiliad - 017 | Teitlau Tir | 10/12/2020 |
| Dogfen Ymchwiliad - 018 | Cais SV gan SCC | 10/12/2020 |
| Dogfen Ymchwiliad - 019 | Cefndir proffesiynol Olwen Maidment | 10/12/2020 |
| Dogfen Ymchwiliad - 020 | Cyflwyniad SCC i'r sesiwn bord gron ar faterion economaidd-gymdeithasol | 10/12/2020 |

| | | |
|---|---|---|
| Dogfen Ymchwiliad - 021 | 2020_12_10 Cyflwyniad gan Verdant Isles i'r sesiwn bord gron ar faterion economaidd-gymdeithasol | 11/12/2020 |
| Dogfen Ymchwiliad - 022 | Cyflwyniad i'r sesiwn bord gron ar SLVIA | 14/12/2020 |
| Dogfen Ymchwiliad - 023 | 2020_11_25 Gorchymyn Parth Arddangos Morlais_llythyr | 16/12/2020 |
| Dogfen Ymchwiliad - 024 | MMC350(2) MOR-HRW-DOC-0002 (02) Gwybodaeth ychwanegol am newidiadau rhagfynedig i gerhyntau | 16/12/2020 |
| Dogfen Ymchwiliad - 025 | MMC575 MOR-MM-DOC-0020 Ymateb i SCC yn EIC012 | 16/12/2020 |
| Dogfen Ymchwiliad - 026 | SCC – sleidiau sesiwn bord gron 18 Rhagfyr 2020 | |
| Dogfen Ymchwiliad - 027 | SCC – Cyflwyniad ar Fordwyo 3-4 | |
| | **Orthios Eco Parks (Anglesey) Ltd ac Orthios Power (Anglesey) Ltd – Dogfennau yn ymwneud â'r datblygiad yn unol â Chydsyniad a Chaniatâd Cynllunio Tybiedig Adran 36, fel y gofynnwyd amdanynt.** | |
| Dogfen Ymchwiliad – 028 | Y Cais gan | 22/12/2020 |
| Dogfen Ymchwiliad – 029 | Yr Adroddiad a gyflwynwyd | 22/12/2020 |
| Dogfen Ymchwiliad – 030 | Cynllun Lleoliad – yn gorffen 46 | 22/12/2020 |
| Dogfen Ymchwiliad – 031 | Cynllun Safle – Cyffredinol A(200)01E | 22/12/2020 |
| Dogfen Ymchwiliad – 032 | Cynllun Safle – Rhan A(200)04 B | 22/12/2020 |
| Dogfen Ymchwiliad – 033 | Cynllun Safle – Rhan A(200)05 B | 22/12/2020 |
| Dogfen Ymchwiliad – 034 | Cynllun Safle – Rhan A(200)06 B | 22/12/2020 |
| Dogfen Ymchwiliad – 035 | Cynllun Safle – Rhan A(200)07 B | 22/12/2020 |
| Dogfen Ymchwiliad – 036 | Cynllun Safle – Rhan A(200)08 D | 22/12/2020 |
| Dogfen Ymchwiliad – 037 | Cynllun Safle – Rhan A(200)09 C | 22/12/2020 |
| Dogfen Ymchwiliad – 038 | Cynllun Cyflwyno'r Safle Fesul Cam A(200)14 B | 22/12/2020 |
| Dogfen Ymchwiliad – 039 | Cynllun Safle – Allwedd Lluniadau A(200)15 | 22/12/2020 |
| Dogfen Ymchwiliad – 040 | Datganiad Dylunio | 22/12/2020 |

| | | |
|---|---|---|
| Dogfen Ymchwiliad – 041 | Hysbysiad Rhyddhau | 22/12/2020 |
| | **Ymatebion yr Ymgeisydd i ymholiadau a wnaed yn ystod yr Ymchwiliad** | |
| Dogfen Ymchwiliad – 042 | Llythyr Morlais at PINS 08012021 | 08/01/2021 |
| Dogfen Ymchwiliad – 043 | MMC574b MOR-MM-DOC-0021 Ffigur 4 (diwygiedig) wrth ymateb i Wybodaeth Ychwanegol RYA 161220 | 08/01/2021 |
| Dogfen Ymchwiliad – 044 | MMC576 MOR-RHDHV-DOC-0167 Ymatebion i TWAO FEI a Sylwadau Modelu gan CNC | 08/01/2021 |
| Dogfen Ymchwiliad – 045 | MMC577 MOR-RHDHV-DOC-0168 Potensial ar gyfer Sŵn Tanddwr o Dyrbinau Gweithredol | 08/01/2021 |
| Dogfen Ymchwiliad – 046 | MMC579 MOR-MM-DOC-0022 Diweddariadau ychwanegol i Bolisi Ynni'r Deyrnas Unedig a Llywodraeth Cymru | 08/01/2021 |
| Dogfen Ymchwiliad – 047 | MMC579 MOR-MM-DOC-0022a Chweched Gyllideb Garbon – Y Pwyllgor ar Newid Hinsawdd | 08/01/2021 |
| Dogfen Ymchwiliad – 048 | MMC579 MOR-MM-DOC-0022b Papur Gwyn ar Ynni – Pweru ein Dyfodol Sero-net | 08/01/2021 |
| Dogfen Ymchwiliad – 049 | MMC579 MOR-MM-DOC-0022c1 Y llwybr tuag at Sero-net a lleihau allyriadau yng Nghymru_Cynnydd | 08/01/2021 |
| Dogfen Ymchwiliad – 050 | MMC579 MOR-MM-DOC-0022c2 Y llwybr tuag at Sero-net a lleihau allyriadau yng Nghymru_Gweithredol | 08/01/2021 |
| Dogfen Ymchwiliad – 051 | MMC579 MOR-MM-DOC-0022d Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn llofnodi Bargen Twf y Gogledd | 08/01/2021 |
| Dogfen Ymchwiliad – 052 | MMC580 MOR-MCO-DOC-002 Ymatebion i'r FEI ar Fordwyo ar gyfer y TWAO | 08/01/2021 |
| Dogfen Ymchwiliad – 053 | MMC581 MOR-BAV-DOC-001 Nodyn ar EMF EMR | 08/01/2021 |
| Dogfen Ymchwiliad – 054 | MMC582 MOR-EVS-DOC-0021 Nodyn ar sut bydd yr effaith economaidd-gymdeithasol yn cael ei monitro | 08/01/2021 |
| Dogfen Ymchwiliad – 055 | MMC583 MOR-EVS-DOC-022 Llythyr Morlais at RYA | 08/01/2021 |
| | | |
| Dogfen Ymchwiliad - 056 | Diwygiad arfaethedig Orthios i'r dTWAO - NUMBER_TBC Cynllun Tir sy'n Dangos Gorchymyn Caniatâd Morlais DRAFFT wedi'i Leihau (107511260.1) | 08/01/2021 |

| | | |
|---|---|---|
| Dogfen Ymchwiliad - 057 | Diwygiad arfaethedig Orthios i'r dTWAO - Morlais – Cynllun Tir diwygiedig arfaethedig a newidiadau i'r dTWAO 08.01.21(107511232.1) | 08/01/2021 |
| Dogfen Ymchwiliad - 058 | Horizon Nuclear Power - 2020_11_25 Llythyr Gorchymyn Parth Arddangos Morlais | 11/01/2021 |
| Dogfen Ymchwiliad - 059 | 3234121 – Amserlen yr Ymchwiliad - rev181220 | 18/12/2020 |
| Dogfen Ymchwiliad - 060 | Llythyr oddi wrth Conygar | 12/01/2021 |
| Dogfen Ymchwiliad – 061 | MAN_003-#4865480-v1-Morlais_-_llythyr_at_PINS_parthed_Conygar | 14/01/2021 |
| Dogfen Ymchwiliad – 062 | MMC447 MOR-RHDHV-DOC-0072 (05) EMMP Amlinellol 161220 glân | 18/01/2021 |
| Dogfen Ymchwiliad – 063 | MMC447 MOR-RHDHV-DOC-0072 (05) EMMP Amlinellol 161220 wedi'i olrhain | 18/01/2021 |
| | **Dogfennau Ychwanegol gan Forlais** | |
| Dogfen Ymchwiliad – 064 | NOT_L001-#6008460-v3-Llythyr_at_PINS_-_cyflwyniadau_25_Ionawr_.docx | 25/01/2021 |
| Dogfen Ymchwiliad – 065 | MMC019(2) MOR-BAY-DOC-0002 (02) Llyfr Cyfeirio | 25/01/2021 |
| Dogfen Ymchwiliad – 066 | MMC028(2) MOR-BAY-DRW-0009 (02) TWAO Map8 Cynllun Lleoliad | 25/01/2021 |
| Dogfen Ymchwiliad – 067 | MMC289(2) MOR-WSP-DOC-0018 (02) – Amodau Cynllunio Arfaethedig 25 Ionawr 2021 | 25/01/2021 |
| Dogfen Ymchwiliad – 068 | MMC432(2) MOR-MM-DOC-0014 (02) Atodlen proses CPO Tir Morlais | 25/01/2021 |
| Dogfen Ymchwiliad – 069 | MMC555 MOR-RHDHV-DOC-0164 Strategaeth Gwella Bioamrywiaeth Amlinellol_F1.3 | 25/01/2021 |
| Dogfen Ymchwiliad – 070 | MMC578 MOR-RHDHV-DOC-0169 Cynllun Gwella Cynefinoedd Amlinellol Morlais_D2.0 | 25/01/2021 |
| Dogfen Ymchwiliad – 071 | MMC584 MOR-EVS-DOC-0015 (04) – Gorchymyn Drafft 25 Ionawr 2021 | 25/01/2021 |
| Dogfen Ymchwiliad – 072 | MMC585 MOR-EVS-DOC-0016 (04)- Olrheiniwr newidiadau i'r Gorchymyn 25 Ionawr 2021 | 25/01/2021 |

| | | |
|---|---|---|
| Dogfen Ymchwiliad – 073 | ~~MMC588 MOR-EVS-DOC-0019 (04) – Gorchymyn compareite 25 Ionawr 2021~~ | 25/01/2021 |
| Dogfen Ymchwiliad – 074 | MMC589 MOR-BAY-DOC-0004 Llyfr Cyfeirio – newidiadau wedi'u holrhain | 25/01/2021 |
| Dogfen Ymchwiliad – 075 | MMC590 MOR-EVS-DOC-0023 Llyfr Cyfeirio – nodyn olrheiniwr newidiadau | 25/01/2021 |
| Dogfen Ymchwiliad – 076 | MMC591 MOR-BAY-DRW-0011 TWAO Map8 Cynllun Lleoliad – newidiadau wedi'u holrhain | 25/01/2021 |
| Dogfen Ymchwiliad – 077 | MMC592 MA-LG-4496-20 – Parth Arddangos Morlais – Dogfen 1 – Tystysgrif | 25/01/2021 |
| Dogfen Ymchwiliad – 078 | MMC593_MA-LG-4496-20 – Parth Arddangos Morlais – Dogfen 2 – Llythyr Penderfyniad at yr Ymgeisydd | 25/01/2021 |
| Dogfen Ymchwiliad – 079 | MMC594 MOR-EVS-DOC-0024 – Cytundeb a106 drafft diwygiedig | 25/01/2021 |
| Dogfen Ymchwiliad – 080 | MMC595 MOR-EVS-DOC-0025 – Cytundeb a106 drafft compareite | 25/01/2021 |
| Dogfen Ymchwiliad – 081 | MMC596 MOR-EVS-DOC-0026 – Olrheiniwr Newidiadau i Amodau 25 Ionawr 2021 | 25/01/2021 |
| | | |
| Dogfen Ymchwiliad – 082 | Horswill et al_2017_Density dependence in seabirds & precaution in WF assessments_JApplEcol | 02/02/2021 |
| Dogfen Ymchwiliad – 083 | Prosiect Ynni'r Llanw Pentland Firth Meygen DL (1) | 03/02/2021 |
| Dogfen Ymchwiliad – 084 | Agenda.SesiwnBordGronEMMP | 01/02/2021 |
| Dogfen Ymchwiliad – 085 | EMMP Mamaliaid Môr Morlais – Crynodeb o faterion CNC 1.2.21.vF | 01/02/2021 |
| Dogfen Ymchwiliad – 086 | MMC576 MOR-RHDHV-DOC-0167 Ymatebion i'r TWAO FEI a Sylwadau Modelu gan CNC_Ymatebion CNC 01.02.21 | 01/02/2021 |
| Dogfen Ymchwiliad – 087 | Jitlal et al (2017) Testing and Validating Metrics of Change, PVA (SMFS Cyfrol 8 rhif 23) | 01/02/2021 |

| | | |
|---|---|---|
| Dogfen Ymchwiliad – 088 | ~~Green et al (2016) Lack of Sound Science in Assessing Wind Farm Impacts~~ | 01/02/2021 |
| Dogfen Ymchwiliad – 089 | Cook a Robinson (2015) Scientific Validity of Criticisms made by RSPB (BTO RR 665) | 01/02/2021 |
| Dogfen Ymchwiliad – 090 | Morlais – Llythyr at CNC ynglŷn â mamaliaid môr (003) | 04/02/2021 |
| Dogfen Ymchwiliad – 091 | ORTHIOS - Morlais – Cynllun Tir diwygiedig arfaethedig a newidiadau i'r dTWAO 04.02.21 GLÂN(108037358.1) | 04/02/2021 |
| Dogfen Ymchwiliad – 092 | ORTHIOS - Morlais - Cynllun Tir diwygiedig arfaethedig a newidiadau i'r dTWAO 04.02.21 WEDI'U HOLRHAIN(108037352.1) | 04/02/2021 |
| Dogfen Ymchwiliad – 093 | LON_LIB1-#24134871-v1-UU_drafft_o_blaid_Orthios | 04/02/2021 |
| Dogfen Ymchwiliad – 094 | Sleidiau SCC ar gyfer 1 Chwefror TERFYNOL.pdf | 03/02/2021 |
| Dogfen Ymchwiliad – 095 | MAN_003-#4901043-v1-Llythyr_at_Andrew_Batterton__DLA_parthed_Orthios | 09/02/2021 |
| | **Dogfennau a gyflenwyd gan yr Ymgeisydd – 09/02/21** | |
| Dogfen Ymchwiliad – 096 | Llythyr Eglurhaol 09022021 | 09/02/2021 |
| Dogfen Ymchwiliad – 097 | MMC029(2) MOR-BAY-DRW-0010 (02) Cynllun Lleoliad ac Allwedd TWAO (Cynllun Trosolwg) | 09/02/2021 |
| Dogfen Ymchwiliad – 098 | MMC289(3) MOR-WSP-DOC-0018 (03) Amodau Cynllunio Arfaethedig | 09/02/2021 |
| Dogfen Ymchwiliad – 099 | MMC432(3) MOR-MM-DOC-0014 (03) Atodlen Proses CPO Tir | 09/02/2021 |
| Dogfen Ymchwiliad – 100 | MMC447(2) MOR-RHDHV-DOC-0072 (08) EMMP Amlinellol 090221 glân | 09/02/2021 |
| Dogfen Ymchwiliad – 101 | MMC447(2) MOR-RHDHV-DOC-0072 (08) EMMP Amlinellol 090221 wedi'i olrhain | 09/02/2021 |
| Dogfen Ymchwiliad – 102 | MMC584(2) MOR-EVS-DOC-0015 (05) Offeryn Statudol Cymru – TWAO Morlais | 09/02/2021 |

| | | |
|---|---|---|
| Dogfen Ymchwiliad – 103 | MMC585(2) MOR-EVS-DOC-0016 (05) Parth Arddangos Morlais – olrheiniwr newidiadau i'r gorchymyn | 09/02/2021 |
| Dogfen Ymchwiliad – 104 | MMC586(2) MOR-EVS-DOC-0017 (05) Memorandwm Esboniadol | 09/02/2021 |
| Dogfen Ymchwiliad – 105 | MMC587(2) MOR-EVS-DOC-0018 (05) Memorandwm Esboniadol compareite | 09/02/2021 |
| Dogfen Ymchwiliad – 106 | MMC588(2) MOR-EVS-DOC-0019 (05) Offerynnau Statudol Cymru - compareite | 09/02/2021 |
| Dogfen Ymchwiliad – 107 | MMC596(2) MOR-EVS-DOC-0026 (02) Amodau Cynllunio Arfaethedig – olrheiniwr newidiadau | 09/02/2021 |
| Dogfen Ymchwiliad – 108 | MMC597 MOR-MM-DOC-0015 Ymgymeriad Unochrog | 09/02/2021 |
| | **Bwndel Awdurdodau'r Ymgeisydd** | |
| Dogfen Ymchwiliad – 109 | Awdurdodau Morlais | 09/02/2021 |
| Dogfen Ymchwiliad – 110 | 1-Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981, a 28G | 09/02/2021 |
| Dogfen Ymchwiliad – 111 | 2-TCPA 1990 adrannau 73, 90 | 09/02/2021 |
| Dogfen Ymchwiliad – 112 | 3-TWA 1992 (Rhannau) | 09/02/2021 |
| Dogfen Ymchwiliad – 113 | 4-Rheolau Trafnidiaeth a Gweithfeydd (Ceisiadau a Gwrthwynebiadau) 2006_1466 | 09/02/2021 |
| Dogfen Ymchwiliad – 114 | 5-MCAA 2009 (rhannau) | 09/02/2021 |
| Dogfen Ymchwiliad – 115 | 6-MCAA 2009 Nodyn Esboniadol (rhan) | 09/02/2021 |
| Dogfen Ymchwiliad – 116 | 7-TCPA Rheoliadau EIA (Cymru) 2017_567 | 09/02/2021 |
| Dogfen Ymchwiliad – 118 | 8-Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017_2012 | 09/02/2021 |
| Dogfen Ymchwiliad – 119 | 9-Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 | 09/02/2021 |
| Dogfen Ymchwiliad – 120 | 10-Rochdale MBC v Milne (Rhif 2) [2001] Env. L.R. 22 | 09/02/2021 |
| Dogfen Ymchwiliad – 121 | 11-R Blewett v Cyngor Sir Swydd Derby [2004] Env. L.R. 29 | 09/02/2021 |
| Dogfen Ymchwiliad – 122 | 12-Smith v SST [2003] Env. L.R. 32 | 09/02/2021 |

| | | |
|---|---|---|
| Dogfen Ymchwiliad – 123 | 13-Jones v Cyngor Dosbarth Mansfield [2004] Env. L.R. 21 | 09/02/2021 |
| Dogfen Ymchwiliad – 124 | 14-Hereford Waste Watchers Ltd v Cyngor Sir Swydd Henffordd [2005] Env. L.R. 29 | 09/02/2021 |
| Dogfen Ymchwiliad – 125 | 15-Waddenzee [2005] 2 C.M.L.R. 31 | 09/02/2021 |
| Dogfen Ymchwiliad – 126 | 16-Atkinson v SST [2007] Env. L.R. 5 | 09/02/2021 |
| Dogfen Ymchwiliad – 127 | 17-Briels (C-521_12) [2014] P.T.S.R. 1120 | 09/02/2021 |
| Dogfen Ymchwiliad – 128 | 18-An Taisce v SSE [2015] PTSR 189 | 09/02/2021 |
| Dogfen Ymchwiliad – 129 | 19-Champion v Cyngor Dosbarth Gogledd Norfolk [2015] 1 W.L.R. 3710 | 09/02/2021 |
| Dogfen Ymchwiliad – 130 | 20-R. (ar gais Powell) v Y Sefydliad Rheoli Morol [2017] EWHC 1491 (Gwein) | 09/02/2021 |
| Dogfen Ymchwiliad – 131 | 21-Preston New Road Action Group v SSCLG[2018] Env. L.R. 18 | 09/02/2021 |
| Dogfen Ymchwiliad – 132 | 22-Holohan ac eraill v An Bord Pleanala [2019] PTSR 1054 | 09/02/2021 |
| Dogfen Ymchwiliad – 133 | 23-Spurrier v SST [2020] P.T.S.R. 240 | 09/02/2021 |
| Dogfen Ymchwiliad – 134 | 24-Cyngor Plwyf Compton v Cyngor Bwrdeistref Guildford [2019] EWHC 3242 (Gwein) | 09/02/2021 |
| Dogfen Ymchwiliad – 135 | 25-Plan B earth v SST [2020] P.T.S.R. 1446 | 09/02/2021 |
| Dogfen Ymchwiliad – 136 | 26-R. (ar gais Friends of the Earth Ltd) v Heathrow Airport Ltd [2020] UKSC 52 | 09/02/2021 |
| Dogfen Ymchwiliad – 137 | 27-Cylchlythyr 003_2019 CPO yng Nghymru (Rhannau) | 09/02/2021 |
| Dogfen Ymchwiliad – 138 | 28-Gwyddoniadur cynllunio (rhannau) | 09/02/2021 |
| Dogfen Ymchwiliad - 139 | Thorpe Hall Leisure Ltd v Yr Ysgrifennydd Gwladol dros Dai, Cymunedau a Llywodraeth Leol | 12/02/2021 |
| Dogfen Ymchwiliad - 140 | Cyngor Dosbarth Wealden v Yr Ysgrifennydd Gwladol dros Gymunedau a Llywodraeth Leol | 12/02/2021 |
| | **Bwndel Awdurdodau'r RSPB** | |
| Dogfen Ymchwiliad – 141 | Sustainable Shetland v Gweinidogion yr Alban [2015] UKSC 4 | 11/02/2021 |
| Dogfen Ymchwiliad – 142 | R v Yr Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd Ex p RSPB (C-44-95) [1997] Env LR 442 | 11/02/2021 |
| Dogfen Ymchwiliad – 143 | Atkinson v Yr Ysgrifennydd Gwladol dros Drafnidiaeth [2007] Env LR 5 | 11/02/2021 |
| | **Cyngor Sir Ynys Môn** | |

| | | |
|---|---|---|
| Dogfen Ymchwiliad – 144 | Datganiad Cydymffurfio â CIL IoACC TWAO Morlais 09.02.21_Wedi'i olygu | 11/02/2021 |
| Dogfen Ymchwiliad – 145 | Datganiad Agoriadol Cyngor Sir Ynys Môn - Parth Arddangos Ynni'r Llanw Morlais | 22/02/2021 |
| | **Datganiadau i Gloi'r Ymchwiliad** | |
| Dogfen Ymchwiliad – 146 | Datganiad i Gloi ar Forlais - Mr Llywellyn | 11/02/2021 |
| Dogfen Ymchwiliad – 147 | Datganiad i Gloi Mr a Mrs T ac S Roberts | 11/02/2021 |
| Dogfen Ymchwiliad – 148 | Datganiad i Gloi yr RYA ar yr MDZ 10-02-21 B | 11/02/2021 |
| Dogfen Ymchwiliad – 149 | Datganiad i Gloi ar Forlais - CNC | 11/02/2021 |
| Dogfen Ymchwiliad – 150 | Datganiad i Gloi ar Forlais – Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau | 11/02/2021 |
| Dogfen Ymchwiliad – 151 | Parth Arddangos Morlais – Cyflwyniadau i Gloi yr RSPB 11.2.21 | 11/02/2021 |
| Dogfen Ymchwiliad – 152 | Datganiad i Gloi TERFYNOL Orthios fel y'i cyflwynwyd | 11/02/2021 |
| Dogfen Ymchwiliad – 153 | Cyflwyniad i gloi SCC+CW TERFYNOL v2 | 11/02/2021 |
| Dogfen Ymchwiliad – 154 | GWAITH_39599712_1_Dogfen (Soloman) Cyflwyniadau i Gloi | 11/02/2021 |
| Dogfen Ymchwiliad – 155 | Datganiad i Gloi Menter Môn TERFYNOL | 12/02/2021 |
| Dogfen Ymchwiliad – 156 | Datganiad i Gloi Cyngor Sir Ynys Môn - Parth Arddangos Ynni'r Llanw Morlais | 22/02/2021 |
| | **Ymatebion ymgynghori NDF – 'Cymru'r Dyfodol'** | |
| Dogfen Ymchwiliad - 157 | FWC001 - Mark Llewellyn | 11/03/2021 |
| Dogfen Ymchwiliad - 158 | NOT_L001-#6039553-v2-Llythyr_at_PINS_-_NDF_Cymru_-_Parth_Arddangos_Morlais.docx | 16/03/2021 |
| | **Dogfennau Gweithdrefnol** | |
| Dogfen Ymchwiliad - 159 | TWA - MDZ – Cau'r Ymchwiliad - 24.03.2021 | 24/03/2021 |
| Dogfen Ymchwiliad - 160 | Datganiad o Faterion yr Arolygydd | 12/11/2020 |

## ATODIAD 3 – Crynodeb o'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd

*Mae cromfachau sgwâr yn y crynodeb hwn yn cynnwys rhifau sy'n cyfeirio at baragraffau yn y prif adroddiad sy'n cynnwys deunydd sy'n berthnasol i'r crynodeb hwn. Cyfeirir at nifer o ddogfennau'r ymchwiliad hefyd. Gellir dod o hyd i wybodaeth sy'n berthnasol i'r crynodeb hwn ym mharagraffau eraill yr adroddiad hwn a dogfennau ymchwiliad eraill hefyd.*

### Materion Rhagarweiniol

1. Diben yr Atodiad hwn i'r prif adroddiad yw crynhoi materion yn y prif adroddiad sy'n cyfuno i ddarparu'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ("HRA") ar gyfer y gwaith arfaethedig; a chadarnhau ei fod wedi cael ei baratoi yn unol â Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017 (S.I. 2017/1012), fel y'u diwygiwyd ("y Rheoliadau Cynefinoedd"). [79, 80, 471]

### Cefndir

2. Mae'r prif adroddiad, a'r Atodiad hwn iddo, yn ymwneud â'r cais am Orchymyn Parth Arddangos Morlais ("MDZ"), sydd i'w benderfynu gan Weinidogion Cymru. Fel y cyfryw, mae'r prif adroddiad (gan gynnwys yr Atodiad hwn) yn ymdrin â phob rhan o'r cynnig, sy'n cynnwys gwaith ar y tir ac ar y môr. [9-17]

<u>Safleoedd Ewropeaidd</u>

3. Mae'r MDZ o fewn Ardal Cadwraeth Arbennig ("ACA") Gogledd Môn Forol,[1024] sydd wedi'i dynodi ar gyfer llamhidyddion. Mae yng nghyffiniau ACAau Pen Llŷn, Bae Ceredigion a Sir Benfro Forol, sydd wedi'u dynodi ar gyfer dolffiniaid trwyn potel a morloi llwyd. [44]
4. Byddai naw cebl allforio o dan y môr yn trosglwyddo'r trydan a gynhyrchir o'r MDZ i'r tir mawr a byddai'r ceblau'n dod i'r lan yn Abraham's Bosom. Mae cyfran sylweddol o forlin Ynys Môn (a'r holl ran ger yr MDZ) o fewn Ardal Gwarchodaeth Arbennig ("AGA") ac ACA Glannau Ynys Gybi; mae hefyd yn Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig ("SoDdGA"). [1025] [45]
5. Dynodwyd AGA Glannau Ynys Gybi yn wreiddiol ar gyfer brain coesgoch, sy'n cynnwys parau bridio ac unigolion sy'n gaeafu, a dynodwyd yr ACA ar gyfer ei chynefinoedd arfordirol a rhostir Atodiad 1. Mae'r SoDdGA wedi'i nodi am ei werth biolegol, botanegol ac adaregol, a brain coesgoch yw un o'i nodweddion hysbysu. [535]
6. Mae'r Ymgeisydd yn bwriadu llwybro'r ceblau o Abraham's Bosom i is-orsaf Ynys Lawd trwy ddrilio cyfeiriadol llorweddol ("HDD"), a fyddai'n creu twneli i'r ceblau ymddangos ~220m o wyneb y clogwyn. Byddai hyn yn osgoi'r clogwyn a'i gynefinoedd sy'n bwysig i AGA, ACA a SoDdGA Glannau Ynys Gybi. Fodd bynnag, os dangosir nad yw HDD yn bosibl yn y lleoliad hwnnw, cynllun wrth gefn yr Ymgeisydd fyddai llwybro'r ceblau allforio dros y clogwyn mewn tiwbiau-J wedi'u cysylltu ag wyneb y clogwyn.[1026] Nodir bod ôl troed y cynllun wrth gefn wedi cael ei leihau'n sylweddol

[1024] Gweler Cyf: MDZ/P2 Ffig 1.
[1025] Cyf: MDZ/P1 Ffig 1; Cyf: MDZ/P3 Ffig 1.
[1026] Mae delwedd wedi'i chynnwys yng Nghyf: RPE007, Gwrthbroflen Dystiolaeth Mr Myers, tud.6.ac y byddai'n croesi un o fannau culaf ACA/SoDdGA ac AGA Glannau Ynys Gybi. [45, 150]

7. Mae AGA Glannau Aberdaron ac Ynys Enlli ac AGA Sgomer, Sgogwm a Moroedd Penfro yn bresennol yn yr ardal ehangach. Mae gan y ddwy boblogaethau adar drycin Manaw sy'n bridio. [535]

Dull rhagofalus

8. Yn ystod yr ymchwiliad, amlinellodd yr Ymgeisydd pam mae'n ystyried bod ei asesiadau wedi darparu dull rhagofalus, ac mae llawer o'r dystiolaeth yn cefnogi'r safbwynt hwnnw. [52, 114, 121, 149, 152, Troednodyn 207, 154, 171, 173, 182, 184, 196, 198, 199, 201, 204, 217, 221, 238-240, 563-564, 926, 970]

9. Mae'r polisi yng *Nghynllun Morol Cenedlaethol Cymru* (2019) ("WNMP") yn datgan y dylai'r egwyddor ragofalus gael ei chymhwyso. Yn ogystal, mae'r canllawiau diweddaraf gan Lywodraeth Cymru ar HRA yn datgan bod rhaid i benderfyniadau ddefnyddio dull rhagofalus ar bob cam o'r HRA.[1027] [780]

10. Mae'r HRA hwn yn mynd i'r afael ag effeithiau posibl y gwaith arfaethedig ar y safleoedd a warchodir ac yn gwneud hynny gan gyfeirio at yr holl dystiolaeth sydd gerbron yr ymchwiliad.

11. Mae dogfennau'r cais yn cynnwys *Gwybodaeth i Gefnogi Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd* (Cyf: MDZ/A27.11), sef HRA "cysgodol" yr Ymgeisydd ar gyfer y cynnig. Rhoddodd y ddogfen hon wybodaeth sgrinio fanwl am effeithiau arwyddocaol tebygol y gwaith arfaethedig, naill ai'n unigol neu ar y cyd, gydag asesiad priodol "cysgodol" yn Adran 8 y ddogfen. [44, 134]

12. Cafodd pawb a oedd yn rhan o'r ymchwiliad gyfle i wneud sylwadau ar faterion sy'n berthnasol i'r Rheoliadau Cynefinoedd ac effeithiau posibl y gwaith arfaethedig ar y safleoedd dynodedig o fewn ac o amgylch yr MDZ.

13. Mae'r asesiad o effeithiau posibl y gwaith yn y cais a'i Ddatganiad Amgylcheddol ("ES") wedi'i seilio ar y senario achos gwaethaf. Adlewyrchir hyn yn y Cynllun Lliniaru a Monitro Amgylcheddol amlinellol ("oEMMP") a ddarparwyd ar y cam hwn. Gan fod y gwaith arfaethedig o fewn Amlen Dylunio Prosiect ("PDE"), nid yw manylion terfynol elfennau penodol o'r gwaith, a'r Cynllun Lliniaru a Monitro Amgylcheddol Manwl ("DEMMP") wedi'u darparu eto. Byddai effeithiau posibl yr elfennau o'r gwaith nad ydynt wedi'u cadarnhau eto, er enghraifft y dyfeisiau ffrwd lanw unigol, yn destun ystyriaeth a rheolaethau rheoleiddiol ychwanegol. Byddai'r effeithiau posibl hyn yn cynnwys y rhai hynny sy'n ymwneud â'r amgylchedd a mordwyo. Byddai'r penderfyniadau cysylltiedig, lle y bo'n berthnasol yng nghyd-destun rheoli addasol, yn sicrhau derbynioldeb yr effeithiau posibl hyn. [93, 149, 182,185, 191, 196, 198-201, 206, 211, 213-222, 469, 612]

### Tebygolrwydd effaith arwyddocaol – y cam "sgrinio"

14. Cam cyntaf yr HRA yw "sgrinio'r" cynnig i weld: a fyddai'n uniongyrchol gysylltiedig â rheoli cadwraeth safle Ewropeaidd neu'n angenrheidiol ar gyfer hynny; neu, mewn perygl o gael effaith arwyddocaol ar safle Ewropeaidd ar ei ben ei hun neu ar y cyd â chynnig arall/cynigion eraill. Ni fyddai gwaith Morlais yn uniongyrchol gysylltiedig â rheoli cadwraeth safle Ewropeaidd nac yn angenrheidiol ar gyfer hynny. [80, 85, 156, 538]

[1027] https://llyw.cymru/asesiadau-rheoliadau-cynefinoedd-diogelu-safle-ewropeaidd-html

15. Cafodd y partïon sy'n rhan o'r ymchwiliad gyfle i ystyried a gwneud sylwadau ar y cais, ei ES a'r HRA cysgodol. Er bod gan CNC bryderon ynglŷn â ph'un a oedd y safleoedd Ewropeaidd wedi cael eu sgrinio'n ddigonol yn yr HRA cysgodol, nid oedd unrhyw bryderon o'r fath yn parhau pan wnaeth CNC ei gyflwyniadau i gloi. [465 and 466-526]

16. Mynegodd sylwadau eraill bryderon am effeithiau posibl y gwaith ar y poblogaethau bridio o wylogod a llursod yng nghytrefi Ynys Lawd a Phenlas. Fodd bynnag, nid yw'r adar hyn yn "nodweddion" dynodedig o safle Ewropeaidd. Felly, ni fyddai unrhyw effeithiau arnynt yn achosi effaith niweidiol ar gyfanrwydd safle Ewropeaidd i sbarduno rheoliad 63 y Rheoliadau Cynefinoedd a golygu bod angen cynnal asesiad priodol. [86, 473, 538, 916, 928]

17. Fodd bynnag, o edrych ar yr effeithiau eraill posibl, mae'n amlwg o'r dystiolaeth yn yr achos hwn ei bod yn debygol y gallai'r gwaith arfaethedig danseilio amcanion cadwraeth safle Ewropeaidd i gael effaith arwyddocaol ar y safle. [479, 481-482, 905, 906, 950-954]

**Asesiad Priodol**

18. Mewn amgylchiadau pan na ellir diystyru effaith niweidiol ar gyfanrwydd safle ("AEOSI"), mae rheoliad 63 yn mynnu bod yr awdurdod cymwys yn cynnal asesiad priodol. [472-474, 973]

19. Mae cyfraith achosion berthnasol yn cadarnhau nad oes gweithdrefn arbennig wedi'i rhagnodi ar gyfer asesiad priodol, ac er bod angen safon uchel o ymchwilio, mae'r mater yn troi yn y pen draw ar farn yr awdurdod (cymwys). Mae'r ymchwiliad hwn, gan gynnwys y dystiolaeth a'r cyflwyniadau a roddwyd iddo, wedi darparu'r safon uchel o ymchwilio a geisir. [81]

20. Fel y nodwyd uchod, cangen gynghori CNC yw'r Corff Cadwraeth Natur Statudol ("SNCB") yng Nghymru, a chyfrannodd yn llawn at yr ymchwiliad hwn. [465-526]

<u>P'un a fyddai Effaith Niweidiol ar Gyfanrwydd Safle ("AEOSI")</u>

*Gwaith Alltraeth*

21. Byddai'r MDZ o fewn Ardal Cadwraeth Arbennig ("ACA") Gogledd Môn Forol. O ganlyniad, gallai'r gwaith arfaethedig effeithio ar lamhidyddion (*phocoena phocoena*), sydd wedi'u rhestru yn Atodiad II ac Atodiad IV y Gyfarwyddeb Cynefinoedd, a mamaliaid môr eraill. Mae'r Amcanion Cadwraeth ar gyfer y dynodiad ACA hwn yn canolbwyntio ar faterion a allai effeithio ar gyfanrwydd y safle trwy: niweidio cynefinoedd perthnasol yn sylweddol; lleihau'r ysglyfaeth sydd ar gael yn sylweddol; atal y llamhidyddion rhag defnyddio ardaloedd sylweddol o'r ACA; a, lladd neu anafu llamhidyddion (yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol).[1028] [905]

22. Ni chanfuwyd bod risg sŵn na gwrthdrawiad yn debygol o arwain at AEOSI o ran Ardal Cadwraeth Arbennig ("ACA") Gogledd Môn Forol. [906-912]

23. O ran AGA Glannau Aberdaron ac Ynys Enlli ac AGA Sgomer, Sgogwm a Moroedd Penfro, ni fyddai unrhyw effaith ar boblogaethau adar drycin Manaw. [86]

[1028] Cyf: POE038 o'r teitl *Ardal Cadwraeth Arbennig Llamhidyddion (Phocoena phocoena): Amcanion Cadwraeth a Chyngor ar Weithrediadau Gogledd Môn Forol*

*Gwaith ar y Tir*

24. O ran AGA Glannau Ynys Gybi, ni ddangoswyd bod unrhyw effaith bosibl ar frain coesgoch yn arwyddocaol. [86]

25. Ni ddisgwylir i'r gwaith ar y tir gael unrhyw effeithiau uniongyrchol ar safle a warchodir oherwydd bwriedir defnyddio HDD i ddod â'r ceblau allforio i'r lan wrth is-orsaf Ynys Lawd. Fodd bynnag, byddai'r cynllun wrth gefn a fyddai'n llwybro'r ceblau allforio dros wyneb y clogwyn yn cael effeithiau uniongyrchol ar AGA/ACA (a SoDdGA) Glannau Ynys Gybi. [147, 950]

26. Darperir yr amcanion cadwraeth ar gyfer ACA Glannau Ynys Gybi o fewn Cyf: MDZ/F2. Mae'r rhan berthnasol o Broflen Dystiolaeth CNC (PDF tudalen 23/92 Cyf: POE021) yn nodi'r weledigaeth i'r ACA grisialu a chrynhoi ei hamcanion cadwraeth manwl yn ddatganiad syml, sef:

> "…*Dylai'r clogwyni arfordirol â llystyfiant aros heb eu tarfu i raddau helaeth a chynnal chweinllys, cedowydd suddlon, lafant y morgreigiau, marchredyn weir-aroglus, merywen, cen strap blewynnog a chen eurwallt brodorol Ynys Lawd*…".
>
> [951]

27. Gallai'r cynllun wrth gefn arwain at golli cynefin a warchodir am gyfnod o bron 40 mlynedd. Ar ôl ystyried ffactorau fel: "parhauster" posibl graddfa amser o'r fath; deddfwriaeth a chyfraith achosion berthnasol; arwyddocâd y posibilrwydd o golli'r cynefin a warchodir yng nghyd-destun yr ACA yn ei chyfanrwydd; mesurau lliniaru posibl, gan gynnwys y rhai hynny a fyddai'n ddarostyngedig i amodau cynllunio a rheolaethau rheoleiddiol eraill; adferiad cynefin; a'r rhywogaethau dan sylw, rwyf wedi dod i'r casgliad na ellir diystyru effaith niweidiol ar gyfanrwydd ACA Glannau Ynys Gybi, h.y. "AEOSI", ac argymhellaf fod cyngor CNC yn cael ei dderbyn ynglŷn â'r mater hwn. [150, Troednodyn 203, 496, 944, 952-972, 1020]

## Rhanddirymiad

28. Nid yw'r prif adroddiad yn defnyddio'r term "rhanddirymiad". Yn hytrach, mae'n mynd i'r afael â'r profion cyfreithiol cysylltiedig y mae'n rhaid eu cymhwyso pan fydd cynnig yn methu'r prawf cyfanrwydd, sef ystyried: datrysiadau amgen; rhesymau hanfodol er budd cyhoeddus tra phwysig ("IROPI"); a, sicrhau mesurau digolledu angenrheidiol. [474, 475, 973]

29. Byddai'r AEOSI yn deillio o gynllun wrth gefn ar gyfer y dull a gynigir ar gyfer gweithredu'r gwaith. Rhoddwyd rhesymau pam nad oes unrhyw ddewisiadau amgen yn lle'r llwybr wrth gefn hwnnw ar gyfer y ceblau allforio (pe ddangosid bod ei angen). Mae'r rhain yn canolbwyntio ar: leoliad daearyddol yr adnodd ynni'r llanw; yr angen i fanteisio ar yr adnodd hwnnw; y gefnogaeth bolisi iddo yn y lleoliad hwn; ehangder yr ACA ar hyd yr arfordir hwn; bod y llwybr clogwyn yn gynllun wrth gefn y byddai amod cynllunio arfaethedig yn sicrhau y byddai'n cael ei gynnal os bydd angen yn unig; a, microleoli'r gwaith. Rhoddir gwybodaeth ychwanegol am y dewisiadau amgen a ystyriwyd yn y rhan berthnasol o'r ES. O'r dystiolaeth a ddarparwyd, rwyf yn fodlon, pe ddangosid bod ei angen, nad oes unrhyw ddatrysiadau amgen yn lle'r llwybr clogwyn wrth gefn ar gyfer y ceblau allforio. [166, 974]

30. Gan droi at b'un a yw'r gwaith wedi'i gefnogi gan resymau hanfodol er budd cyhoeddus tra phwysig ("IROPI"). Amlinellir buddion y cynllun a'r gefnogaeth bolisi iddo yn achos yr Ymgeisydd, ac yn y casgliad cychwynnol ar bolisïau ar ddechrau fy nghasgliadau yn y prif adroddiad. Byddai'r gwaith arfaethedig yn sefydlu ffyrdd o ddefnyddio dewis amgen rheolaidd, dibynadwy yn lle tanwyddau wedi'u seilio ar garbon i fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd, mewn lleoliad lle y dangoswyd bod graddfa'r adnodd ynni'r llanw yn sylweddol yn nhermau Cymru a'r Deyrnas Unedig. Byddai'r gwaith hefyd yn helpu i ddatblygu'r sector ynni ffrwd lanw a'r diwydiannau sy'n ei gefnogi. Fel y cyfryw, byddai'n helpu i amrywiaethu economi Ynys Môn a'i gwneud yn fwy cydnerth, ar yr un pryd â chreu swyddi ar yr ynys ac oddi arni hefyd. Disgwylir i'r buddion hyn, yn eu tro, ddarparu ystod o fuddion economaidd-gymdeithasol cysylltiedig sy'n deillio o gyflogaeth a'r cyfleoedd addysgol y disgwylir i ddiwydiant o'r math hwn eu cynnig. Ystyriaf fod y materion hyn, ac nid lleiaf yr angen i fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd gyda datrysiadau hyfyw sydd o fudd uniongyrchol ac anuniongyrchol i gymunedau lleol, yn dangos rhesymau hanfodol er budd cyhoeddus tra phwysig yn y termau mwyaf eglur. [58-63, 165, 794, 975]

31. Mae rheoliad 68 yn mynnu, pan fyddai AEOSI yn digwydd, bod unrhyw fesurau digolledu angenrheidiol yn cael eu sicrhau i warchod cydlyniad cyffredinol yr ACA. Cytunaf â CNC, o ystyried bod y gwaith yn cynnwys cynllun wrth gefn a fyddai'n achosi i AEOSI ddigwydd, y dylid ystyried bod y "Cynllun Gwella Cynefin Amlinellol" presennol (Cyf: Dogfen Ymchwiliad – 069) yn darparu mesurau digolledu yn hytrach na mesurau lliniaru neu wella. Er na chyflwynwyd y Cynllun Gwella Cynefin Amlinellol i'r ymchwiliad at y diben hwnnw, mae'r Ymgeisydd wedi cadarnhau yn dilyn canfyddiad o AEOSI, y gellir ystyried y cynllun hwnnw fel digolledu angenrheidiol at ddibenion rheoliad 68. A dyna sut yr ystyriaf y mater. Byddai mesurau digolledu cynefin yn cael eu sicrhau trwy osod amod cynllunio 11) fel y'i lluniwyd yn Atodiad 1 i'r prif adroddiad. [167, 475, 498, 976, 977, 1003-1005]

32. Mae'r Gyfarwyddeb Cynefinoedd yn integreiddio'r egwyddor ragofalus, felly mae'r canfyddiadau hyn yn cyd-fynd â'r egwyddor honno. [978]

**Argymhelliad**

33. Am y rhesymau a roddwyd uchod, ac ar ôl ystyried yr holl faterion eraill a godwyd, argymhellaf fod yr adroddiad Atodiad hwn yn cael ei dderbyn fel crynodeb o'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd, sy'n cydymffurfio â gofynion rheoliadau 63, 64 a 68 Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017, fel y'u diwygiwyd.

*Clive Sproule*

AROLYGYDD